



Ein Cyf: MAJMEWL165822

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

14 Mehefin 2022

Annwyl Peredur,

Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) – Aseiad Effaith Rheoleiddiol Diwygiedig

Ar ôl cwblhau trafodion Cyfnod 2 mewn perthynas â Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru), ac yn unol â Rheol Sefydlog 26.28, mae Memorandwm Esboniadol diwygiedig wedi'i osod a hoffwn ddwyn sylw'r Pwyllgor at y newidiadau a wneud i'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol.

Mae cost amcangyfrifedig gyffredinol y Comisiwn wedi cynyddu o £198.5m i £199.5m (0.6%). Mae'r costau pontio wedi gostwng o £9.9m i £9.6m (4.0%) ac mae'r costau rheolaidd wedi cynyddu o £188.5m i £190.0m (0.8%).

Mae cynnydd yng nghost yr opsiwn "gwneud dim" (£5.1m) yn golygu bod y gost ychwanegol ar gyfer y Comisiwn ar ben yr opsiwn gwneud dim wedi gostwng o £45.0m i £41.0m. Cynnydd yn nifer staff CCAUC yw un o brif achosion y cynnydd. Ers 2019, pan nodwyd niferoedd sylfaenol staff CCAUC, mae staff cyfwerth ag amser llawn CCAUC wedi codi 6.5. Mae'r costau staff wedi'u hailgyfrifo gan ddefnyddio'r ffigur diwygiedig hwn ac mae'n cynyddu costau rhedeg blynyddol CCAUC o £381K, i £3.8m dros y cyfnod gwerthuso o 10 mlynedd. Cynnydd yng nghostau staff Llywodraeth Cymru yw'r £1.3m sy'n weddill oherwydd graddfeydd cyflog wedi'u diweddarau.

Tabl 1. Crynodeb o gyfanswm y costau dros y cyfnod gwerthuso o 10 mlynedd

	Costau diwygiedig (£000oedd)	Costau gwreiddiol (£000oedd)	Gwahaniaeth rhwng y costau diwygiedig a'r costau gwreiddiol (£000oedd)	%
OPSIWN 1: Gwneud dim	158,560	153,420	5,140	3.4
OPSIWN 2: Comisiwn newydd	199,547	198,454	1,093	0.6
OPSIWN 4a: Uno CCAUC â Llywodraeth Cymru	172,355	172,223	132	0.1

Argymhellion y Pwyllgor

Yn fy llythyr dyddiedig 29 Mawrth, yn dilyn cyhoeddi adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor, nodais fy ymateb cychwynnol i argymhellion y Pwyllgor. Gallaf nawr roi rhagor o fanylion am yr argymhellion hynny y mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol bellach wedi'i ddiwygio o ganlyniad iddynt.

Mewn ymateb i argymhelliad pedwar, mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig yn nodi'r amrywiadau posibl y gallai costau fod yn ddarostyngedig iddynt. Rhagwelir y bydd yr amcangyfrif diwygiedig o'r amrywiant cyffredinol rhwng -10% a +7%. Mae hyn yn cynrychioli ystod rhwng gostyngiad posibl o £19.1m a chynnydd o £13.8m ar y costau diwygiedig a ragwelir. Ceir rhagor o fanylion yn Atodiad A, ym mharagraffau 22-28 a thablau A1 ac A2.

O dan argymhelliad saith, argymhellodd y Pwyllgor y dylai Llywodraeth Cymru wneud rhagor o waith ar strategaeth leoli a chynnwys yr wybodaeth hon yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig. Mae'r gwaith ar y strategaeth leoli yn parhau, gan gynnwys asesu effaith barhaus COVID-19 a'r anwadalrwydd o ran prisiau. O ganlyniad, mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cynnwys costau diwygiedig, ac ystod proffil risg ddiwygiedig o -17% i +15%.

Mewn ymateb i argymhelliad wyth, mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig yn egluro effaith ariannol a rhesymeg defnyddio ymgynghorwyr TG fel sail ar gyfer costiadau. Nid yw cynnwys costau ymgynghorwyr TG yn benderfyniad i ddefnyddio ymgynghorwyr ond mae'n rhagolwg doeth yn wyneb anwadalrwydd sylweddol posibl o ran costau ac yn cynnwys risg a chostau annisgwyl. Mae gan y Comisiwn ddyletswydd i sicrhau gwerth am arian ac felly mater iddynt hwy fydd asesu a yw'r defnydd hirdymor o ymgynghorwyr yn bodloni'r prawf hwnnw. Mae Atodiad A, ym mharagraffau 60 i 75 a Thablau A7 ac A8, yn rhoi rhagor o fanylion.

Diwygiadau a diweddariadau allweddol i'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Mae diwygiadau unigol i'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi cynyddu a lleihau costau o fewn y cynnydd cyffredinol. Ceir crynodeb o'r newidiadau allweddol a'u heffaith isod:

Amseru Roedd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol gwreiddiol yn tybio y byddai'r Comisiwn yn dechrau gweithredu (ac yn dechrau mynd i gostau llawn) ar 1 Ebrill 2023. Fy mwriad o hyd yw sefydlu'r Comisiwn yn ystod 2023 a mabwysiadu dull graddol o weithredu'r swyddogaethau y darperir ar eu cyfer yn y Bil. Felly, yn unol â'r amserlen hon ac i barhau i fod yn ddarbodus, mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig yn tybio mai'r cynharaf y bydd y Comisiwn yn dechrau gweithredu'n llawn yw 1 Tachwedd 2023. Mae'r diwygiad hwn yn oedi dechrau costau staff, TG a rhent uwch, sy'n arwain at arbedion o £2.6m dros y cyfnod gwerthuso o 10 mlynedd.

Tabl 2 - Cymharu costau blynyddol parhaus gwreiddiol yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn erbyn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig

Costau rhedeg blynyddol parhaus	Costau diwygiedig (£000s)	Costau gwreiddiol (£000s)	Gwahaniaeth (£000s)	%
Costau staff	13,137	12,980	157	1%
Costau'r Bwrdd	477	276	201	73%
Dileu swyddi				
Costau staff nad ydynt wedi'u cynnwys yn y gyflogres	388	383	5	1%
Costau TG	5,141	5,157	-16	0%
Costau corfforaethol eraill	654	638	16	3%
Costau lleoliad (gan gynnwys les)	340	326	14	4%
Cyfanswm	20,137	19,760	377	2%

Costau'r Bwrdd Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i ddiweddarau gyda'r amcangyfrifon diwygiedig o nifer yr aelodau ar y Bwrdd a'r Pwyllgor Statudol. Mae'r amcangyfrifon diweddaraf yn galw am ddeuddeg aelod 'cyffredin' o'r Bwrdd ac un ar bymtheg aelod arall ar ddau Bwyllgor Statudol. Roedd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol gwreiddiol yn nodi'r gost ar gyfer wyth aelod 'cyffredin' o'r Bwrdd a phedwar aelod arall ar gyfer y Pwyllgor Ymchwil. Nid oedd ychwaith yn nodi'r gost ar gyfer yr amser ychwanegol a fyddai'n ofynnol gan aelodau i gadeirio'r Pwyllgorau hyn. Mae hyn wedi arwain at gynnydd o £201K y flwyddyn (Tabl 2), £1.3m dros y cyfnod gwerthuso o 10 mlynedd.

Costau staff Mae costau staff Llywodraeth Cymru a CCAUC wedi'u diweddarau i'r graddfeydd cyflog diweddaraf (2021-22); graddfeydd 2020-21 a ddefnyddiwyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol gwreiddiol. Fel y nodwyd uchod, mae nifer staff cyfwerth ag amser llawn CCAUC wedi'i addasu ar gyfer y cynnydd yn eu staff ac mae hyn wedi'i wrthbwysu gan ostyngiad yn y staff cyfwerth ag amser llawn y mae disgwyl iddynt drosglwyddo o Lywodraeth Cymru. Mae'r newidiadau cyffredinol yn ychwanegu £157K y flwyddyn (Tabl 2). Caiff y cynnydd hwn ei wrthbwysu gan arbedion o ganlyniad i'r amserlen ddiwygiedig ac mae'n ychwanegu cyfanswm o £0.5m dros y cyfnod gwerthuso o 10 mlynedd.

Tabl 3 – Cymharu costau trosiannol gwreiddiol yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn erbyn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig

Costau trosiannol	Costau diwygiedig (£000oedd)	Costau gwreiddiol (£000oedd)	Gwahaniaeth (£000oedd)	%
Costau staff	109	497	-388	-78.1%
Costau'r Bwrdd	241	241		
Dileu swyddi	2,030	2,031	-1	0.05%
Costau staff nad ydynt wedi'u cynnwys yn y gyflogres	292	431	-139	-32.3%
Costau TG	4,901	4,902	-1	0.02%
Costau corfforaethol eraill	275		275	100.0%
Costau lleoliad (gan gynnwys les)	1,702	1,847	-145	-7.9%
Cyfanswm	9,550	9,949	-399	-4.0%

Prif Swyddog Gweithredol Dros Dro Tybiodd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol gwreiddiol y byddai Prif Swyddog Gweithredol dros dro yn cael ei benodi ym mis Chwefror 2022, ond nid yw hyn yn wir bellach gan nad oes angen Prif Swyddog Gweithredol dros dro erbyn hyn. Mae dileu'r costau hyn ac ychwanegu'r amserlen ddiwygiedig ar gyfer y Prif Swyddog Gweithredol (a fydd yn dechrau o fis Ebrill 2023) yn arbed £388K o gostau trosiannol. Mae'r costau recriwtio ar gyfer y Prif Swyddog Gweithredol dros dro a pharhaol hefyd wedi'u dileu a'u lleihau yn y drefn honno ac felly mae'r costau staff nad ydynt yn ymwneud â'r gyflogres hefyd wedi gostwng £139K (Tabl 3).

Lleoliad Mae'r amserlen ddiwygiedig yn oedi'r angen am le mewn swyddfa ffisegol ac yn arbed costau rhent o £145K (Tabl 3).

Costau corfforaethol eraill Mae'r gostyngiadau hyn wedi'u gwrthbwysu gan gynydd o £275K mewn costau corfforaethol eraill. Costau cymorth dros dro yw'r rhain (tanysgrifiadau cyfreithiol, cyfieithu, yswiriant) y bydd eu hangen ar y Comisiwn cyn i'r iddo fod yn gwbl weithredol. Nid oedd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol gwreiddiol yn rhagweld unrhyw gyfnod interim o weithredu gan y Comisiwn ac felly nid oedd yn cynnwys y costau hyn (Tabl 3).

Hoffwn fanteisio ar y cyfle i ddiolch eto i'r Pwyllgor Cyllid am graffu ar y Bil.

Rwyf wedi anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

Yn gywir,



Jeremy Miles AS/MS
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

BIL ADDYSG DRYDYDDOL AC YMCHWIL (CYMRU)

Memorandwm Esboniadol
yn ymgorffori'r
Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r
Nodiadau Esboniadol

14 Mehefin 2022

Memorandwm Esboniadol i Fil Addysg Drydyddol a Ymchwil (Cymru)

Mae'r Memorandwm Esboniadol hwn wedi ei baratoi gan Gyfarwyddiaeth Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes Llywodraeth Cymru a'i osod gerbron Senedd Cymru.

Cafodd ei baratoi a'i osod yn wreiddiol yn unol â Rheol Sefydlog 26.6 ym mis Tachwedd 2021, a gosodir yn awr Femorandwm diwygiedig yn unol â Rheol Sefydlog 26.28.

Datganiad yr Aelod

Yn fy marn i byddai darpariaethau Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru), a gyflwynir gennyf i ar 1 Tachwedd 2021, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru.

Jeremy Miles AS

Y Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Yr Aelod o'r Senedd sy'n gyfrifol am y Bil

14 Mehefin 2022

Cynnwys

Mynegai sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 26.6A	i
Rhestr o'r byrfoddau yn y ddogfen hon	ii

RHAN 1: MEMORANDWM ESBONIADOL

Pennod 1 – Disgrifiad	<u>Tudalen 1</u>
Pennod 2 – Cymhwysedd Deddfwriaethol	<u>Tudalen 6</u>
Pennod 3 – Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael	<u>Tudalen 7</u>
Pennod 4 – Ymgynghori	<u>Tudalen 64</u>
Pennod 5 – Y pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth	<u>Tudalen 74</u>

RHAN 2: ASESIAID EFFAITH RHEOLEIDDIOL

Pennod 6 – Crynodeb o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol	<u>Tudalen 100</u>
Pennod 7 – Yr opsiynau	<u>Tudalen 104</u>
Pennod 8 – Opsiynau manwl ar gyfer diwygio - Llywodraethiant y Comisiwn	<u>Tudalen 125</u>
Pennod 9 – Opsiynau manwl ar gyfer diwygio - Y berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a'r Comisiwn	<u>Tudalen 130</u>
Pennod 10 – Opsiynau manwl ar gyfer diwygio - Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg	<u>Tudalen 133</u>
Pennod 11 – Opsiynau manwl ar gyfer diwygio - Cofrestru a rheoleiddio	<u>Tudalen 137</u>
Pennod 12 – Opsiynau manwl ar gyfer diwygio - Sicrhau a gwella ansawdd	<u>Tudalen 143</u>
Pennod 13 – Opsiynau manwl ar gyfer diwygio - Cryfhau'r cysylltiad rhwng cynllunio a chyllido	<u>Tudalen 149</u>
Pennod 14 – Opsiynau manwl ar gyfer diwygio - Ymchwil ac arloesi	<u>Tudalen 156</u>
Pennod 15 – Opsiynau manwl ar gyfer diwygio - Cefnogi a datblygu prentisiaethau yng Nghymru	<u>Tudalen 160</u>
Pennod 16 – Opsiynau manwl ar gyfer diwygio - Diogelu buddiannau dysgwyr	<u>Tudalen 165</u>
Pennod 17 – Opsiynau manwl ar gyfer diwygio - Cryfhau llais a chynrychiolaeth dysgwyr	<u>Tudalen 171</u>
Pennod 18 – Opsiynau manwl ar gyfer diwygio - Data, ystadegau ac ymchwil	<u>Tudalen 175</u>
Pennod 19 – Costau a manteision	<u>Tudalen 181</u>
Pennod 20 – Asesiadau Effaith Integredig	<u>Tudalen 196</u>
Pennod 21 – Prawf hidlo'r gystadleuaeth	<u>Tudalen 203</u>
Pennod 22 – Adolygu ar ôl gweithredu	<u>Tudalen 206</u>

Atodiad A – Prasio'r opsiynau	<u>Tudalen 210</u>
Atodiad B – ALMA Economics - addysg a hyfforddiant ôl-orfodol (asesiad cyflym o'r dystiolaeth)	<u>Tudalen 226</u>

RHAN 3 - ATODIADAU

Atodiad 1 – Nodiadau esboniadol ar gyfer Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru)	<u>Tudalen 254</u>
Atodiad 2 – Tabl Tarddiadau	<u>Tudalen 310</u>
Atodiad 3 – Atodlen diwygiadau	<u>Tudalen 314</u>

Mynegai sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 26.6A

Gofynion Rheol Sefydlog 26.6		Lleoliad yn y memorandwm esboniadol	Tudelenau
26.6(i)	Datganiad yr aelod ar gymhwysedd deddfwriaethol	Datganiad yr Aelod	i
26.6(ii)	Amcanion polisi'r Bil	Pennod 3 – Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael	7 - 63
26.6(iii)	Ystyried dulliau eraill o gyflawni'r amcanion polisi	Pennod 7 i 18	104 - 180
26.6(iv)	Ymgynghori ar yr amcanion polisi, manylion y Bil a'r Bil Drafft	Pennod 4 – Ymgynghori	64 – 73
26.6(v)	Crynodeb o ganlyniadau'r ymgynghoriad	Pennod 4 – Ymgynghori	64 – 73
26.6(vi)	Rhesymau dros beidio â chyhoeddi Bil (neu Ran o Bil) ar ffurf drafft	Nid yw gofynion Rheol Sefydlog 26.6(vi) yn gymwys i'r Bil hwn gan i ymgynghoriad gael ei gynnal ar Fil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) drafft yn fis Gorffennaf 2020	
26.6(vii)	Crynodeb o fwriadau pob un o'r darpariaethau	Atodiad 1 – Nodiadau Esboniadol i Fil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru)	254 - 309
26.6(viii)	Amcangyfrifon gorau o gostau ac arbedion	Pennod 6 – Crynodeb o'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol	100 – 103
		Pennod 19 - Costau a manteision	181 - 195
26.6(ix)	Manteision ac anfanteision (na ellir eu cyfrif yn ariannol)	Pennod 6 – Crynodeb o'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol	100 – 103
		Pennod 19 - Costau a manteision	181 - 195
26.6(x)	Pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth	Pennod 5 – Pwer i wneud is-ddeddfwriaeth	69 - 94
26.6(xi)	Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ar ddarpariaethau sy'n codi gwariant ar Gronfa Gyfunol Cymru	Ddim yn gymwys	100 (paragraff 6.2)
26.6(xii)	Effaith bosibl ar y system gyfiawnder	Pennod 20 – Aseiad Effaith Integredig	202
26.6B	Tabl tarddiadau	Atodiad 2 – Tabl Tarddiadau	310 - 313
26.6C	Atodlen o eiriad y ddeddfwriaeth bresennol sydd wedi'i ddiwygio'n sylweddol gan y Bil	Atodiad 3 – Atodlen o Ddiwygiadau	314 - 501

Rhestr o'r byrfoddau yn y ddogfen hon

Deddfwriaeth	Byrfodd
Deddf Dysgu a Sgiliau 2000	Deddf 2000
Deddf Addysg 2002	Deddf 2002
Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015	Deddf 2015
Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992	Deddf 1992
Deddf Addysg Uwch 2004	Deddf 2004
Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2012	Deddf 2013
Deddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009	Deddf 2009
Deddf Diwygio Addysg 1988	Deddf 1988

Corff	Byrfodd
Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch	QAA
Cymdeithas Sicrhau Ansawdd mewn Addysg Uwch Ewrop	ENQA

Term	Byrfodd
Addysg Drydyddol ac Ymchwil	ADY
"Budd y Cyhoedd a Chymru Ffyniannus - Datblygu system addysg a hyfforddiant ôl-orfodol ddiwygiedig" Papur Gwyn gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2017	Papur Gwyn
"Budd y Cyhoedd a Chymru Ffyniannus – y camau nesaf" ymgynghoriad a gynhaliwyd ym mis Ebrill 2018	Ymgynghoriad Technegol

RHAN 1 – MEMORANDWM ESBONIADOL

Pennod 1. Disgrifiad

- 1.1 Mae Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) ("y Bil") yn darparu ar gyfer sefydlu Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil newydd.
- 1.2 Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil fydd y corff rheoleiddio sy'n gyfrifol am gyllido, goruchwyllo a rheoleiddio addysg drydyddol ac ymchwil yng Nghymru.
- 1.3 Mae addysg drydyddol yn cwmpasu addysg ôl-16 gan gynnwys addysg bellach ac uwch, addysg oedolion yn y gymuned, addysg seiliedig ar waith, prentisiaethau a chweched dosbarth ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol.
- 1.4 I grynhoi, mae'r Bil, sy'n cynnwys saith Rhan, yn:

Rhan 1 yn cynnwys Atodlen 1 a 2:

- Sefydlu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil ("y Comisiwn") ac mae'n darparu ar gyfer ei aelodaeth a'i lywodraethiant.
- Darparu ar gyfer diddymu Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ac yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud cynlluniau trosglwyddo sy'n darparu i staff CCAUC a staff Llywodraeth Cymru ddod yn staff y Comisiwn a throsglwyddo eiddo, hawliau a rhwymedigaethau CCAUC neu Weinidogion Cymru i'r Comisiwn.
- Gosod nifer o ddyletswyddau strategol ar y Comisiwn i:
 - (a) annog pobl i gymryd rhan mewn addysg drydyddol
 - (b) hyrwyddo:
 - dysgu gydol oes
 - cyfle cyfartal
 - gwelliant parhaus mewn addysg drydyddol
 - ymchwil ac arloesi
 - cydweithio a chydlynid mewn addysg drydyddol ac ymchwil
 - addysg drydyddol drwy gyfrwng y Gymraeg
 - cenhadaeth ddinesig
 - rhagolygon byd-eang
 - cydweithio rhwng darparwyr addysg drydyddol ac undebau llafur
 - (c) cyfrannu at economi gynaliadwy ac arloesol.
- Ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru nodi eu blaenoriaethau strategol ar gyfer addysg drydyddol ac ymchwil yng Nghymru ar ffurf datganiad o flaenoriaethau.
- Sefydlu fframwaith cynllunio strategol ar gyfer y Comisiwn i'w helpu i gyflawni ei amcanion yn unol â'r blaenoriaethau strategol cenedlaethol, fel yr amlinellwyd yn y datganiad o flaenoriaethau, ac arfer ei ddyletswyddau strategol.

- Ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru a'r Comisiwn roi sylw i bwysigrwydd diogelu rhyddid academiaidd darparwyr a staff addysg uwch yng Nghymru, wrth arfer eu swyddogaethau o dan y Bil.
- Ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru a'r Comisiwn roi sylw i bwysigrwydd diogelu rhyddid o fewn y gyfraith darparwyr addysg drydyddol yng Nghymru i gynnal eu rheolaeth o ddydd i ddydd mewn ffordd effeithiol a chymwys, wrth arfer eu swyddogaethau o dan y Bil.
- Gwahardd y Comisiwn neu Weinidogion Cymru, wrth arfer unrhyw un neu ragor o'u swyddogaethau o dan y Bil, rhag gosod gofynion ar gorff llywodraethu darparwr addysg drydyddol, sy'n ei gwneud yn ofynnol iddo weithredu'n groes i'w rwymedigaethau elusennol, neu weithredu mewn modd sy'n anghydnaws â'i ddogfennau llywodraethu

Rhan 2 yn cynnwys Atodlen 3:

- Ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn sefydlu a chynnal cofrestr o ddarparwyr addysg drydyddol.
- Rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n pennu un neu fwy o gategoriâu cofrestru y mae'n rhaid i'r Comisiwn wneud darpariaeth ar eu cyfer yn y gofrestr. Rhaid i'r Comisiwn gofrestru'r darparwyr hynny sy'n gwneud cais i gael eu cofrestru ac yn bodloni'r amodau ar gyfer cofrestru, fel y nodir ar wyneb y Bil.
- Nodi'r senarios lle mae'n rhaid i'r Comisiwn, neu lle gall y Comisiwn, dynnu darparwyr oddi ar y gofrestr.
- Galluogi'r Comisiwn i gyhoeddi fframweithiau sicrhau ansawdd sy'n nodi canllawiau a gwybodaeth y Comisiwn mewn perthynas ag ansawdd ac asesu ansawdd addysg drydyddol yng Nghymru.
- Ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn fonitro a hyrwyddo gwelliant yn ansawdd addysg a hyfforddiant ar draws darparwyr addysg drydyddol cofrestredig ac a ariennir, ac yn galluogi'r Comisiwn i ddarparu, neu wneud trefniadau ar gyfer darparu cyngor neu gymorth arall at ddibenion:
 - gwella ansawdd addysg a hyfforddiant, neu
 - atal ansawdd addysg a hyfforddiant rhag dod yn annigonol.
- Ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn asesu, neu wneud trefniadau i asesu, ansawdd addysg uwch a ddarperir gan bob darparwr addysg drydyddol cofrestredig a chan y darparwyr hynny sy'n cynnig darpariaeth addysg uwch ar ran darparwyr sydd wedi eu cofrestru â'r Comisiwn.
- Nodi'r gwahanol fathau o addysg a hyfforddiant y mae rhaid i Estyn eu harolygu, a ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn ddarparu'r cyllid hwnnw i Estyn y mae'r Comisiwn yn ystyried ei fod yn briodol er mwyn i Estyn allu cyflawni ei waith mewn perthynas â'r addysg neu hyfforddiant a gyllidir gan y Comisiwn

- Gwneud darpariaeth mewn perthynas ag arolygu addysg bellach a hyfforddiant, gan gynnwys mewn perthynas â chweched dosbarth ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol, gan Brif Arolygydd Addysg a Hyfforddiant (Estyn).
- Galluogi Gweinidogion Cymru i ymyrryd yn y ffordd y caiff darparwyr addysg bellach eu cynnal, drwy roi cyfarwyddyd i'w corff llywodraethu, lle mae Gweinidogion Cymru wedi'u bodloni bod un neu fwy o'r seiliau dros ymyrryd yn bodoli. Mae'r seiliau dros ymyrryd wedi'u rhagnodi ar wyneb y Bil.

Rhan 3:

- Galluogi Gweinidogion Cymru i gyllido'r Comisiwn ac atodi telerau ac amodau i'r cyllid hwnnw. Er mwyn diogelu ymreolaeth sefydliadol a rhyddid academiaidd, nodir cyfyngiadau penodol ar wyneb y Bil mewn perthynas â'r telerau ac amodau y gall Gweinidogion Cymru eu cymhwyso.
- Galluogi'r Comisiwn i gyllido addysg drydyddol, a gweithgareddau ymchwil ac arloesi a gynhelir gan ddarparwyr cofrestredig yng Nghymru.
- Ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn sicrhau bod cyfleusterau priodol yn cael eu darparu yng Nghymru ar gyfer addysg bellach a hyfforddiant i bobl ifanc rhwng 16 a 19 oed.
- Ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn sicrhau bod cyfleusterau priodol yn cael eu darparu ar gyfer addysg bellach a hyfforddiant 'perthnasol' ar gyfer oedolion 'cymwys'.
 - Diffinnir 'perthnasol' mewn rheoliadau y mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru eu gwneud;
 - Oedolion 'cymwys' yw'r rhai sydd dros 19 oed ac sy'n bodloni'r meini prawf a nodir mewn rheoliadau y caiff Gweinidogion Cymru eu gwneud.
- Ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn sicrhau bod cyfleusterau rhesymol yn cael eu darparu yng Nghymru ar gyfer addysg bellach a hyfforddiant i oedolion 19 oed a throsodd.
- Yn galluogi'r Comisiwn i ddarparu cymorth ariannol ar gyfer, neu mewn cysylltiad â, darparu prentisiaeth Gymraeg gymeradwy neu baratoi fframwaith prentisiaeth.
- Galluogi'r Comisiwn i gyllido'r ystod lawn o addysg bellach a hyfforddiant, gan gynnwys darpariaeth chweched dosbarth mewn ysgolion drwy awdurdodau lleol, yn ogystal â pharatoi a darparu prentisiaethau Cymreig cymeradwy.

Rhan 4:

- Darparu ar gyfer prentisiaethau Cymreig cymeradwy, gan nodi swyddogaethau Gweinidogion Cymru a'r Comisiwn.
- Galluogi Gweinidogion Cymru i bennu gofynion mewn perthynas â phrentisiaethau Cymreig cymeradwy, gan gynnwys cynnwys a pharatoi fframweithiau prentisiaethau.

Rhan 5:

- Darparu ar gyfer nodi trefniadau diogelu dysgwyr mewn cynlluniau diogelu dysgwyr.
- Gosod dyletswydd ar y Comisiwn i gymryd camau i sicrhau bod gan ddarparwyr addysg drydyddol weithdrefnau ar waith i ymchwilio i gwynion dysgwyr.
- Ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn ddatblygu, ymgynghori a chyhoeddi cod ymgysylltu â dysgwyr;

Rhan 6:

- Ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn, ac yn ei alluogi, i roi cyngor a gwybodaeth am ei swyddogaethau yn dilyn cais gan Weinidogion Cymru.
- Galluogi Gweinidogion Cymru i roi gwybodaeth i'r Comisiwn.
- Ei gwneud yn ofynnol i rai darparwyr addysg drydyddol a chyrrff eraill roi gwybodaeth ar gais i'r Comisiwn ac yn galluogi gwahanol gyrff cyhoeddus i rannu gwybodaeth â'r Comisiwn.
- Darparu ar gyfer dyletswydd i rannu gwybodaeth sy'n ymwneud â cheisiadau am le ar gyrsiau addysg uwch.

Rhan 7:

- Ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Comisiwn ynghylch eu dyletswyddau mewn perthynas â chyngor gyrfaoedd.
- Gwneud diwygiadau i ddeddfwriaeth gyfredol mewn perthynas â phwerau Gweinidogion Cymru i ddiwygio neu ddiddymu gofynion penodol a osodir ar gynnwys dogfennau llywodraethu corfforaethau addysg uwch.
- Gwneud diwygiadau i ddeddfwriaeth bresennol mewn perthynas â phwerau Gweinidogion Cymru i wneud Gorchymyn sy'n diddymu corfforaethau addysg uwch, ar yr amod mai dim ond os gofynnir amdano gan y gorfforaeth addysg uwch neu gyda chydysyniad y gorfforaeth addysg uwch y gellir gwneud Gorchymyn. Ni chaiff y gorfforaeth addysg uwch wrthod cydsyniad yn afresymol, na gohirio rhoi neu wrthod cydsyniad yn afresymol.
- Ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi datganiad, a'i adolygu'n barhaus, sy'n nodi o dan ba amgylchiadau y maent yn bwriadu arfer eu pŵer i wneud Gorchymyn i ddiddymu corfforaeth addysg uwch yng Nghymru.

Atodlen 4:

- Gwneud diwygiadau i ddeddfwriaeth gyfredol o ganlyniad i sefydlu'r Comisiwn, cau CCAUC a throsglwyddo swyddogaethau Gweinidogion Cymru a CCAUC i'r Comisiwn.

- Diwygio Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013:
 - yn dileu pwerau Gweinidogion Cymru i wneud cynigion i ailstrwythuro addysg chweched dosbarth mewn ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol.
 - galluogi'r Comisiwn i gyfarwyddo awdurdod lleol neu gorff llywodraethu ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol, o dan amgylchiadau penodol, i ddwyn ymlaen gynigion ynghylch addysg chweched dosbarth mewn ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol
 - ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gymeradwyo unrhyw gynigion sy'n effeithio ar addysg chweched dosbarth, a wneir gan awdurdod lleol, neu gorff llywodraethu ysgol wirfoddol neu ysgol sefydledig (gan gynnwys pan fo'r Comisiwn wedi'i gyfarwyddo i wneud hynny), y cyflwynwyd gwrthwynebiad ysgrifenedig mewn perthynas ag ef ac na chafodd ei dynnu'n ôl (o fewn yr amserlenni perthnasol).
- Diwygio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 gan newid y cyfeiriadau at CCAUC i'r Comisiwn
- Gwneud y Comisiwn yn ddarostyngiedig i Safonau'r Gymraeg a nodir yn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 6) 2017.

Pennod 2. Cymhwysedd Deddfwriaethol

- 2.1 Mae gan Senedd Cymru ("y Senedd") y cymhwysedd deddfwriaethol i wneud y darpariaethau ym Mil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) yn unol â Rhan 4 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cymru 2017.

Pennod 3. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Y cyd-destun

- 3.1 Mae cyd-destun byd-eang sy'n newid yn gofyn am feddwl ac agwedd o'r newydd at rôl sector addysg drydyddol ac ymchwil Cymru gartref ac yn rhyngwladol. Bydd Llywodraeth Cymru, gan weithio mewn partneriaeth â'r sector a'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil newydd, yn darparu system addysg drydyddol sy'n canolbwyntio at y dysgwyr ac sydd â rhagoriaeth, cydraddoldeb ac ymgysylltiad wrth ei wraidd.
- 3.2 Yn yr un modd â'r diwygiadau i gwricwlwm ysgolion, mae'r dull newydd hwn yn rhoi dysgwyr wrth wraidd y system a hynny o fewn sector a fydd yn helpu dysgwyr i dyfu'n ddinasyddion brwdfrydig a mentrus ac yn cyfrannu'n sylweddol at ffyniant a lles cenedlaethol ac unigol. Bydd Llywodraeth Cymru'n parhau i gefnogi'r sector i adeiladu ei wydnwch a chryfhau a dyfnhau cysylltiadau addysg rhyngwladol. Bydd hyn o fudd i unigolion, darparwyr addysg, cymunedau a diwydiant.
- 3.3 I ddarparu ar gyfer dinasyddion a'r genedl, mae'n hanfodol i ddarparwyr fod â'u golygon ar y byd ehangach ac mae hyn yn dechrau drwy fod yn flaengar yn eu hardaloedd eu hunain ac ennyn diddordeb y bobl sydd yn byw yno, gan ehangu mynediad i ddarpariaeth a llywio ymchwil a gweithgareddau eraill.

Newid hinsawdd a phandemig Covid-19 – mynd i'r afael â'r heriau allweddol

- 3.4 Bydd ailadeiladu ar ôl y pandemig gydag economi wyrddach ac addysg drydyddol gadarn ac effeithiol yn rhan annatod o baratoi pobl ar gyfer swyddi newydd gan ddefnyddio technolegau newydd arloesol.
- 3.5 Gall Cymru ddarparu ymchwil ac arloesi o'r radd flaenaf ym maes iechyd, ynni glân, trawsnewid digidol, y gwyddorau cymdeithasol a'r dyniaethau a fydd yn helpu cymdeithas Cymru i ymateb i'r heriau allweddol sydd o'n blaenau. Er mwyn cyflawni hyn, mae'n hanfodol bod y sector addysg drydyddol ac ymchwil yn cael ei gynnal drwy'r heriau uniongyrchol a gyflwynir gan y pandemig.
- 3.6 Mae Llywodraeth Cymru'n cymryd camau i liniaru'r tarfu ar ddysgu a grëwyd gan y pandemig a rhoi'r cyfle gorau i bawb ddod o hyd i waith o ansawdd uchel a'i gadw, gyda rhagolygon hirdymor. Mae hyn yn cynnwys darparu cyfleoedd i bobl ddatblygu eu sgiliau a meithrin rhai newydd, a hefyd adeiladu ar y defnydd cynyddol o ddysgu a gweithio digidol.

Poblogaeth sy'n heneiddio – tuag at ddysgu gydol oes ar gyfer sgiliau a lles

- 3.7 Wrth i'r economi a'r farchnad lafur barhau i newid, a phoblogaeth Cymru dyfu'n hŷn, nid yw dysgu gydol oes erioed wedi bod yn bwysicach. Rhaid cefnogi pobl o bob oed i ddechrau neu ailgydio mewn dysgu ar bob lefel sgiliau, gan alluogi gwelliant cyson a dysgu annibynnol.

- 3.8 Drwy ddiwygiadau i addysg, a diwygio'r cwricwlwm yn benodol, mae Llywodraeth Cymru wedi mynegi dyheadau clir ar gyfer dysgwyr 3-16 oed. Mae'r rhain yn seiliedig ar bedwar diben craidd addysg, sef cefnogi plant a phobl ifanc i ddod yn:
- ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu bywydau,
 - unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd cyflawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas,
 - cyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith, a
 - dinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd.
- 3.9 Gan adeiladu ar y diwygiadau hyn, mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu cefnogi'r dysgwyr hyn i gyflawni eu potensial y tu hwnt i addysg orfodol, gydag addysg drydyddol yn chwarae rhan hollbwysig wrth ddarparu cyfleoedd i adeiladu ar y sylfaen hon. Mae'n hanfodol bod gan bobl y sgiliau a'r wybodaeth drosglwyddadwy i ffynnu mewn marchnad lafur sy'n newid drwy gydol eu bywydau.
- 3.10 Mae manteision dysgu gydol oes yn fwy na budd economaidd yn unig. Mae addysg a hyfforddiant yn datblygu unigolion gwydn, uchelgeisiol a bodlon a dinasyddion sy'n gallu cyfrannu'n weithgar at eu cymuned leol a'r gymdeithas ehangach. Mae ymgymryd yn llwyddiannus â dysgu yn cael ei dderbyn yn gyffredinol fel ffactor arwyddocaol sy'n dylanwadu ar ganlyniadau bywyd, gan gynnwys canlyniadau iechyd, statws economaidd-gymdeithasol a disgwyliad oes.
- 3.11 Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylid rhoi cyfleoedd i ddysgwyr o bob oed ddatblygu eu galluoedd a'u cymwyseddau drwy ystod eang o lwybrau dysgu dwyieithog ar bob lefel o ddysgu, boed yn amser llawn neu'n rhan-amser, ac wedi'u lleoli yn yr ystafell ddosbarth, ar-lein neu yn y gweithle. Dylid annog unigolion i gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu drwy gydol eu hoes.
- 3.12 Mae galluogi dysgwyr i drosglwyddo'n esmwyth rhwng llwybrau galwedigaethol a llwybrau nad ydynt yn alwedigaethol yn agwedd greiddiol ar hyn, yn ogystal â sicrhau bod dysgwyr yn cael cyngor cadarn wedi'i amseru'n dda i gefnogi a llywio eu dewisiadau a sicrhau bod y dewisiadau hynny'n adlewyrchu eu huchelgeisiau eu hunain, yn ogystal ag anghenion economaidd a chymdeithasol Cymru.

Trawsnewid digidol ac awtomeiddio

- 3.13 Mae angen i ni integreiddio technoleg ddigidol yn ddi-dor i ddarpariaeth addysgol. Mae'n hanfodol bod arloesi'n cael ei groesawu er mwyn sicrhau dulliau cynhwysol, hygyrch a dwyieithog o wella profiad y dysgwr drwy dechnoleg, gan adeiladu ar fframwaith Digidol 2030.
- 3.14 Mae angen i ddarparwyr addysg a hyfforddiant roi i ddysgwyr a staff y sgiliau digidol lefel uwch, y galluoedd a'r hyder y bydd eu hangen arnynt i lwyddo yn eu bywyd bob dydd ac wrth weithio mewn byd digidol. Rhaid i system ymchwil ac arloesi Cymru fod ar flaen y gad o ran datblygiadau newydd ym maes technoleg a thrawsnewid digidol.

Anghydraddoldeb economaidd - galluogi cyfiawnder economaidd a chymdeithasol


- 3.15 Mae Cymru'n parhau i wynebu heriau economi anghyfartal, yr angen am well cyfleoedd economaidd y tu allan i ardaloedd trefol sy'n tyfu, a diffyg sgiliau mewn

cymunedau a niweidiwyd gan ddad-ddiwydiannu. Mae system addysg drydyddol fwy cyfartal yn hanfodol i chwalu'r anghydraddoldebau a welwn mewn cymdeithas, yn enwedig anghydraddoldebau o ran dosbarth, daearyddiaeth, hil, rhyw ac anabledd.

- 3.16 Mae angen gweithredu systematig i chwalu'r anghydraddoldebau mewn perthynas â mynediad, cyrhaeddiad a chanlyniadau cyflogaeth sy'n dal i'w gweld ar draws y byd addysg, gan weithio tuag at barch cydradd gwirioneddol ar draws pob math o addysg drydyddol a hyfforddiant, a datgymalu'n raddol yr hierarchaeth draddodiadol rhwng dysgwyr, darparwyr a sectorau.

Cyflwyniad

- 3.17 Fel gwlad, mae gan Gymru record gref a hanes gwych o ran sut y mae'r sector addysg drydyddol wedi cyflawni dros ddinasyddion a chymunedau dros ddegawdau lawer. Mae'n hanfodol bod y sector hwn yn cael ei ddiogelu at y dyfodol a'i fod, gan adeiladu ar gryfderau presennol, yn ei alluogi i ymateb yn gyflym i'r heriau y mae'r genedl yn eu hwynebu ar hyn o bryd.
- 3.18 Mae Llywodraeth Cymru o'r farn mai'r ffordd orau o gyflawni hyn fydd drwy ddiwygiadau sy'n darparu dull gweithredu strategol, cydlynol ar draws y sector sy'n seiliedig ar un sector gydag amrywiaeth o ddarparwyr yn cydweithio ac yn canolbwyntio ar anghenion a dyheadau dysgwyr.
- 3.19 Yn unol â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, nod y diwygiadau arfaethedig yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol y cenedlaethau presennol ac yn y dyfodol. Caiff hyn ei gyflawni drwy feddwl yn fwy hirdymor, llunio polisiau integredig, cydweithio rhwng darparwyr, a gwell cyfranogiad gan ddefnyddwyr a dinasyddion.
- 3.20 Yn 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei gweledigaeth strategol ar gyfer y sector addysg drydyddol (*ffigur 1*). Mae'r Bil a'r Comisiwn y mae'n ei sefydlu yn agweddau allweddol ar gyflawni'r weledigaeth strategol a gwireddu nodau Llywodraeth Cymru, fel y nodir yn y Rhaglen Lywodraethu, mewn perthynas â diwygio addysg.



Ffigur 1

- 3.21 Bydd y Comisiwn yn arfer swyddogaethau a gyflawnwyd yn flaenorol gan CCAUC a Gweinidogion Cymru. Bydd cyfuno'r swyddogaethau hyn o fewn un corff yn cefnogi creu corff rheoleiddio, gyda chyfrifoldeb cyfreithiol dros gyllido, goruchwyllo, ansawdd a rheoleiddio addysg drydyddol yng Nghymru.
- 3.22 Mae'r Bil yn rhoi pwerau i'r Comisiwn i'w alluogi i lywio addysg drydyddol ac ymchwil yng Nghymru i ddiwallu anghenion dysgwyr a chyflogwyr yn well, gan helpu i adeiladu economi gryfach yn y dyfodol a hyrwyddo mwy o gydlyniant ar draws y sector a rhwng addysg orfodol ac ôl-orfodol mewn ysgolion.
- 3.23 Mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu sicrhau bod dysgwyr yn gallu symud yn ddi-dor o addysg orfodol i addysg a hyfforddiant ôl-orfodol, gan adeiladu ar y genhadaeth genedlaethol ar gyfer diwygio addysg. Wrth wraidd hyn bydd system gydgysylltiedig:
- sy'n hawdd i bob dysgwr lywio;
 - sy'n cael ei werthfawrogi gan y cyhoedd;
 - sy'n creu cymdeithas fedrus iawn;
 - sy'n helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau;
 - sy'n cael ei chydabod ledled y byd am addysg, hyfforddiant, ymchwil ac arloesi rhagorol;
 - sydd â chenhadaeth ddinesig wrth ei chalon.
- 3.24 Er mwyn cefnogi'r gwaith o ddatblygu llwybrau dysgu a gyrfa mwy cydlynol ar gyfer pob oedran a dawn, bydd y Comisiwn yn gyfrifol am gryfhau cydweithredu er mwyn gwella ansawdd ac effeithlonrwydd, a darparu strwythurau goruchwyllo mwy priodol i arwain, cefnogi, monitro a gwerthuso'r sector addysg drydyddol yn erbyn amcanion cenedlaethol, rhanbarthol a lleol.
- 3.25 Bydd sicrhau a gwella ansawdd addysg drydyddol yng Nghymru, a hynny er lles dysgwyr, yr economi a'r gymdeithas, wrth wraidd swyddogaethau'r Comisiwn. Bydd trefniadau yn cael eu gwneud i hwyluso a chefnogi cydweithio, cydweithredu a rhannu gwybodaeth rhwng y Comisiwn ac eraill y byddai angen iddo weithio gyda nhw er mwyn cyflawni ei swyddogaethau statudol.

Amcanion polisi

- 3.26 Amcanion polisi uniongyrchol Llywodraeth Cymru ar gyfer y Bil yw:
- a) Dwyn ynghyd y cyfrifoldeb am strategaeth, cynllunio, cyllido a goruchwyllo addysg drydyddol yng Nghymru mewn corff cyhoeddus newydd hyd braich.
 - b) Creu dull strategol gwell o ymdrin â pholisi a chynllunio mewn addysg drydyddol sy'n seiliedig ar ddyletswyddau deddfwriaethol ac yn ymateb i flaenoriaethau'r llywodraeth.
 - c) Sefydlu sail ddeddfwriaethol effeithiol, cadarn a chynaliadwy ar gyfer rheoleiddio darparwyr addysg drydyddol, yn enwedig y darparwyr hynny a gyllidir yn bennaf gan gymorth i fyfyrwyr.
 - d) Creu dull sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau o gynllunio a chyllido addysg drydyddol, gan sicrhau bod buddsoddiad yn cyd-fynd â strategaeth a blaenoriaethau cenedlaethol.
 - e) Galluogi dull mwy cydlynol o sicrhau a gwella ansawdd.

- f) Hyrwyddo buddiannau myfyrwyr a dysgwyr drwy wella cynrychiolaeth dysgwyr, ehangu'r cynllun cwynion myfyrwyr, a sefydlu gofynion newydd ar ddarparwyr i ddiogelu buddiannau dysgwyr.
- g) Creu system fwy ymatebol ar gyfer datblygu a chynllunio prentisiaethau yng Nghymru.

3.27 Amcanion polisi tymor hwy Llywodraeth Cymru o ganlyniad i basio'r Bil, gyda dysgwyr wrth wraidd y system, yw:

- a) Ehangu cyfleoedd dysgu gydol oes ar draws ystod eang o ddulliau, lefelau a mathau o addysg drydyddol.
- b) Gwellu cyfle cyfartal mewn addysg drydyddol, gan sicrhau mwy o fynediad, parhad a llwyddiant i ddysgwyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol a grwpiau difreintiedig.
- c) Cynyddu cyfranogiad cyffredinol mewn addysg drydyddol, gan leihau'r bylchau mewn lefelau cymwysterau rhwng Cymru a rhannau eraill o'r DU.
- d) Gwellu ansawdd addysg drydyddol a phrofiad dysgwyr yn y sector fel bod gan ddysgwyr yr wybodaeth, y profiadau a'r sgiliau sydd eu hangen i ffynnu fel dinasyddion ymroddedig, cyflogadwy ac addysgedig.
- e) Sicrhau mwy o gydweithio rhwng darparwyr addysg drydyddol, gan ganiatáu i wahanol fathau o ddarparwyr ganolbwyntio ar eu cryfderau amrywiol a chydweithio er budd dysgwyr a'r gymdeithas ehangach.
- f) Hyrwyddo cydweithio rhwng darparwyr addysg drydyddol ac undebau llafur mewn partneriaeth gymdeithasol ar lefel sefydliadol a strategol.
- g) Alinio addysg drydyddol, ymchwil a datblygiad sgiliau ag anghenion economaidd, cymdeithasol a diwylliannol cymunedau lleol a Chymru gyfan.
- h) Hyrwyddo cyfleoedd a phartneriaethau byd-eang sydd o fudd i ddysgwyr, academyddion, darparwyr, cymunedau a'r genedl gyfan.
- i) Cynyddu'r gwaith ymchwil a wneir yng Nghymru, gan gynnwys drwy gyfrwng y Gymraeg, a datblygu sector ymchwil cystadleuol a chydweithredol.
- j) Cefnogi darparwyr fel cyfranogwyr dinesig sy'n hyrwyddo lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol neu ddiwylliannol cymunedol a chenedlaethol.
- k) Tyfu darpariaeth addysg drydyddol drwy gyfrwng y Gymraeg.

3.28 Mae'r Bil yn ceisio cyflawni'r amcanion hyn drwy:

- a) Sefydlu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil.
- b) Pennu mewn deddfwriaeth ddyletswyddau targed strategol, hirdymor i'r Comisiwn, a phroses newydd ar gyfer pennu blaenoriaethau Gweinidogol mewn addysg drydyddol a gyflawnir drwy strategaeth y Comisiwn.
- c) Sefydlu cofrestr o ddarparwyr addysg drydyddol at ddibenion rheoleiddio cadarn, cymesur a thryloyw.
- d) Nodi dyletswyddau'r Comisiwn o ran sicrhau a gwella ansawdd, a'i berthynas ag Estyn a chorff asesu ansawdd dynodedig ar gyfer addysg uwch.
- e) Darparu'r swyddogaethau cyfreithiol angenrheidiol i'r Comisiwn i gyllido darpariaeth addysg uwch, addysg bellach a hyfforddiant, darpariaeth chweched dosbarth mewn ysgolion, prentisiaethau, ac ymchwil ac arloesi.

- f) Caniatáu ar gyfer creu manyleb prentisiaeth i Gymru a phroses newydd ar gyfer datblygu fframweithiau prentisiaeth yng Nghymru.
- g) Creu gofynion newydd ar gyfer darparwyr o ran cyfle cyfartal, llais y dysgwyr, cwynion dysgwyr, a diogelu dysgwyr.

3.29 Mae'r tudalennau canlynol yn disgrifio pwrpas y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael.

Rhan 1 – Fframwaith Strategol ar gyfer Addysg Drydyddol ac Ymchwil

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil

3.30 Bydd y Comisiwn yn gorff a noddir gan Lywodraeth Cymru, sy'n gweithredu hyd braich oddi wrth y llywodraeth ond o fewn fframwaith cynllunio a chyllido strategol a sefydlir gan Weinidogion Cymru. Bydd y fframwaith hwn yn adlewyrchu'r ddogfen fframwaith safonol ar gyfer Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru.

Perthynas â Llywodraeth Cymru

- 3.31 Bydd y Comisiwn yn atebol i Weinidogion Cymru o ran y rhan fwyaf o'i swyddogaethau. Roedd rhai rhanddeiliaid eisiau i'r Comisiwn fod yn atebol i'r Senedd Cymru. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi'r cyfrifoldeb am oruchwylio cyrff a noddir i'r Gweinidogion. Bydd y Gweinidog perthnasol yn gyfrifol am y fframwaith polisi a bydd, yn ei dro, yn atebol i'r Senedd.
- 3.32 Caiff perthynas y Comisiwn â Llywodraeth Cymru ei rheoli drwy drefniadau partneriaeth, a bydd tîm yn cael ei greu o fewn Llywodraeth Cymru i ddarparu cymorth. Y Tîm Partneriaeth fydd y prif bwynt cyswllt rhwng y Comisiwn a Llywodraeth Cymru.
- 3.33 Byddai'r trefniadau partneriaeth yn ystyried canlyniadau adolygiad 2017 'Cyflawni Gyda'n Gilydd – Cryfhau Nawdd Cyrff Hyd Braich Llywodraeth Cymru' ("adolygiad 2017") ac yn cynnwys cynigion i gryfhau rôl yr Uned Cyrff Cyhoeddus, darparu rhai swyddogaethau craidd a rhoi mwy o gefnogaeth i arweinwyr y Comisiwn newydd, gan alluogi swyddogion polisi o fewn Llywodraeth Cymru i ganolbwyntio ar ei gyfeiriad strategol y Comisiwn a chyflawni canlyniadau.
- 3.34 Cafodd yr Uned Cyrff Cyhoeddus ei sefydlu o ganlyniad i adolygiad 2017. Yn ogystal â gweithredu 37 argymhelliad yr adolygiad, mae'r uned yn gyfrifol am gyflawni amrywiaeth o swyddogaethau i wella cysondeb yn y trefniadau ar draws Llywodraeth Cymru ar gyfer noddi cyrff cyhoeddus.
- 3.35 Mae ei chylch gwaith yn cwmpasu'r categorïau canlynol o gyrff cyhoeddus:
 - Cyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru
 - Cwmnïau sy'n eiddo i Lywodraeth Cymru
 - Cyrff cynghori Llywodraeth Cymru
 - Comisiynwyr
 - Asiantaethau gweithredol
 - Aadrannau anweinidogol
 - Estyn a Chyngor y Gweithlu Addysg.

3.36 Gan gefnogi'r timau partneriaeth o fewn isadrannau polisi, mae'r Uned Cyrff Cyhoeddus yn cyflawni swyddogaethau canolog yn y meysydd canlynol:

(a) Penodiadau Cyhoeddus. Mae'r Uned yn gyfrifol am ddarparu cyngor ac arweiniad ar y trefniadau ar gyfer sefydlu, categoreiddio, llywodraethu a chyllido pob corff cyhoeddus a sefydlir gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys:

- Cyrff a noddir gan y Llywodraeth Cymru a cwmnïau sy'n eiddo i Lywodraeth Cymru
- paneli cynghori
- Grwpiau Cynghori Gweinidogol
- grwpiau gorchwyl a gorffen; a trefniadau partneriaeth eraill;
- Anrhydeddau


(b) Cyflogau a chydnyddiaeth ariannol

(c) Llywodraethiant a pholisi.

Dyletswyddau strategol y Comisiwn

3.37 O ystyried ehangder cylch gwaith y Comisiwn, a'r bwriad polisi i'r Comisiwn allu delio â'r holl addysg ôl-16 fel un sector (er yn eang), mae'r Bil yn nodi un ar ddeg o ddyletswyddau strategol y mae'n ofynnol i'r Comisiwn arfer ei swyddogaethau oddi tanynt.

3.38 Bwriedir i'r dyletswyddau strategol hyn, fel y nodir isod (*ffigur 2*), fframio ffocws a chyfeiriad strategol y Comisiwn a helpu i gyflawni ei swyddogaethau, gan roi eglurder ar ei ddiben a'i gylch gorchwyl cyffredinol.



Ffigur 2

3.39 Ar y cyd, bwriedir iddynt ffurfio cyfres gydlynol o ddyletswyddau i lywio'r weledigaeth strategol y bydd y Comisiwn yn cael ei galluogi a'i harfogi i'w chyflawni. Bydd y dyletswyddau hyn, ar y cyd â datganiad blaenoriaethau Gweinidogion Cymru, yn

amlinellu'r materion craidd y mae'n rhaid i'r Comisiwn eu hystyried a'u cymryd i ystyriaeth wrth arfer ei swyddogaethau.

- 3.40 Drwy gynnwys y dyletswyddau hyn ar y Bil, mae Llywodraeth Cymru yn darparu set gyson o egwyddorion y bydd y Comisiwn yn gweithredu oddi tanynt.
- 3.41 Mae'r dull diwygiedig hwn yn adlewyrchu'n agosach ddiben y diwygiadau AHO ehangach a'r bwriad yw cefnogi cynllunio a threfniadaeth hirdymor y Comisiwn, ond heb leihau pwysigrwydd datganiad blaenoriaethau Gweinidogion Cymru.

Dysgu gydol oes, cyfranogiad mewn addysg drydyddol a chyfle cyfartal

- 3.42 Mae ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn hyrwyddo dysgu gydol oes, cyfle cyfartal a chyfranogiad mewn addysg drydyddol yn adlewyrchu pa mor bwysig ydyw ei fod yn cefnogi cyflawni sector addysg drydyddol sy'n diwallu anghenion pobl o bob oed a chyda gwahanol ddiddordebau, cymwyseddau, anghenion a dyheadau.
- 3.43 Rhaid i'r Comisiwn hefyd hyrwyddo mwy o gyfranogiad mewn cynnal ymchwil ac arloesi yng Nghymru gan bersonau sy'n aelodau o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol ar hyn o bryd o ganlyniad i ffactorau cymdeithasol, diwylliannol, economaidd neu sefydliadol, gan adeiladu a chefnogi gallu ymchwil o fewn y grwpiau hyn a helpu i chwalu'r rhwystrau sy'n bodoli o fewn y system.
- 3.44 Mae'r ddyletswydd i annog pobl i gymryd rhan mewn addysg drydyddol yn ehangu'r ddyletswydd yn y Bil Drafft i annog cyfranogiad mewn addysg bellach neu hyfforddiant ac mae'n ymestyn ei gyrhaeddiad i ymgorffori pob agwedd ar addysg drydyddol. Bydd bellach yn rhan greiddiol o nodau cyffredinol y Comisiwn.
- 3.45 Mae'r dyletswyddau hyn hefyd yn adeiladu ar un o bedwar diben addysg, fel y nodwyd gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r diwygiadau i'r cwricwlwm a gyflawnwyd eisoes, sef grymuso plant a phobl ifanc i fod yn ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu bywyd.
- 3.46 Bydd angen i'r Comisiwn hefyd roi'r un gwerth i ddysgu galwedigaethol ac academiaidd, dysgu llawn amser a rhan-amser, dysgu yn yr ystafell ddosbarth, wyneb yn wyneb ac o bell, a lleoliadau seiliedig ar waith.

Cydweithredu a gwelliant parhaus mewn addysg drydyddol

- 3.47 Nid yw sicrhau ansawdd ar ei ben ei hun yn ddigonol. Yn unol ag uchelgeisiau Llywodraeth Cymru ar gyfer ysgolion a'r proffesiwn addysgu yng Nghymru, mae angen i'r sector addysg drydyddol ganolbwyntio nid yn unig ar gynnal safonau ansawdd gofynnol, ond ar welliant parhaus.
- 3.48 Bydd y Comisiwn yn y sefyllfa ddelfrydol i gefnogi a hyrwyddo gwelliant parhaus ar draws y sector drwy gyflawni dyletswydd strategol i hyrwyddo gwelliant parhaus mewn addysg drydyddol.
- 3.49 Bwriedir i gydweithio a chydweithredu yn hytrach na chystadleuaeth a rhaniad fod yn sail i sector addysg drydyddol Cymru, a bydd y Comisiwn yn ganolog i gyflawni hyn. Bydd y Comisiwn mewn sefyllfa i greu nifer o gyfleoedd ar gyfer mwy o gydweithredu ar draws y sector gan gynnwys, er enghraifft:

- cyllido prosiectau cydweithredol, wedi'u cyd-reoli gan wahanol ddarparwyr o wahanol sectorau, sy'n hyrwyddo blaenoriaethau strategol mewn meysydd fel ansawdd, ehangu mynediad, ac ymchwil ac arloesi.
- gweithio gyda darparwyr i ddatblygu mwy o gyfleoedd ar gyfer trefniadau 'cydweddu' fel y'u gelwir rhwng colegau a phrifysgolion, lle gall dysgwyr symud ymlaen yn fwy llyfn o astudiaeth lefel 4 a 5 i gymwysterau lefel gradd.
- wrth i ddarpariaeth brentisiaethau Cymru barhau i ddatblygu, cefnogi colegau, darparwyr hyfforddiant, prifysgolion a chyflogwyr i gydweithio'n agosach i ddatblygu llwybrau cydlynol drwy'r system brentisiaethau o sgiliau lefel is i gyfleoedd technegol a phroffesiynol lefel uchel.

Y Gymraeg

3.50 Amlinellodd Llywodraeth Cymru ei gweledigaeth i sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 yn ei strategaeth, *Cymraeg 2050: miliwn o siaradwyr*. I gyrraedd y targed hwn, mae angen newid gweddnewidiol ar draws yr sector addysg. Bydd gan y Comisiwn rôl hollbwysig yng nghyd-destun y nodau allweddol canlynol yn y strategaeth.

- **Nod 4: Addysg ôl-orfodol**

Datblygu darpariaeth addysg ol-orfodol sy'n cynyddu cyfraddau dilyniant ac yn cefnogi pawb, ni waeth pa mor rhugl eu Cymraeg, i ddatblygu sgiliau yn yr iaith i'w defnyddio'n gymdeithasol ac yn y gweithle.

- **Nod 5: Y gweithlu addysg, adnoddau a chymwysterau**

Cynllunio er mwyn cynyddu a gwella'n sylweddol:

- y gweithlu addysg a hyfforddiant sy'n gallu addysgu'r Gymraeg ac addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg,
- yr adnoddau a'r cymwysterau sydd eu hangen i gefnogi cynnydd yn y ddarpariaeth.

3.51 Diben nod 4 yw sicrhau bod pob siaradwr Cymraeg sy'n parhau mewn addysg drydyddol, boed hynny mewn ysgol, coleg addysg bellach neu mewn dysgu seiliedig ar waith, neu sy'n mynd ymlaen i addysg uwch, yn parhau i ddatblygu eu sgiliau iaith Gymraeg er mwyn creu gweithlu a chymdeithas ddwyieithog.

3.52 Ar hyn o bryd, mae Gweinidogion Cymru'n darparu cyllid i ddatblygu a chyflenwi darpariaeth addysg drydyddol cyfrwng Cymraeg. Mae Gweinidogion Cymru yn darparu cyllid naill ai'n uniongyrchol i ddarparwyr addysg drydyddol neu drwy sefydliadau cyfryngol fel CCAUC a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol (y Ganolfan Genedlaethol) i gefnogi darparu addysg drydyddol drwy gyfrwng y Gymraeg ac addysgu'r Gymraeg.

3.53 Mae Gweinidogion Cymru hefyd yn darparu cyllid i sefydliadau gan gynnwys y Coleg Cymraeg Cenedlaethol (y Coleg) i gefnogi datblygiad addysg drydyddol cyfrwng Gymraeg drwy weithgareddau megis cynllunio academiaidd a hybu a chymell addysg cyfrwng Cymraeg. Mae Rhaglen Waith Cymraeg 2050 rhwng 2021 a 2026 yn cynnwys ymrwymiad i ehangu rôl y Coleg ymhellach a datblygu cynigion i'w osod ar sail statudol.

- 3.54 Mae'r Bil yn gosod dyletswydd strategol ar y Comisiwn i hyrwyddo addysg drydyddol drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd yn ofynnol i'r Comisiwn:
- annog y galw am addysg drydyddol a ddarperir yng Nghymru drwy gyfrwng y Gymraeg ac annog pobl i gymryd rhan mewn addysg Gymraeg;
 - cymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod digon o addysg drydyddol yn cael ei darparu yng Nghymru drwy gyfrwng y Gymraeg i ateb y galw; ac
 - annog darparu addysg drydyddol drwy gyfrwng y Gymraeg gan ddarparwyr cofrestredig yng Nghymru, a gan bersonau eraill sy'n darparu addysg drydyddol agyllidir gan y Comisiwn neu a sicrheir fel arall ganddo.
- 3.55 Nod y polisi yw y bydd y Comisiwn yn gwneud mwy na dim ond bodloni'r galw presennol am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Bydd hefyd yn adeiladu'r galw am addysg drydyddol Gymraeg ac yn annog unigolion i gymryd rhan mewn addysg Gymraeg. Amcan y polisi yw ehangu'r dewis i ddysgwyr astudio drwy gyfrwng y Gymraeg. Mater i'r Comisiwn fydd penderfynu sut y bydd yn cyflawni ei ddyletswyddau. Dyma rai enghreifftiau o sut y gallai'r gofyniad hwn gael ei weithredu a'i fonitro'n briodol gan y Comisiwn:
- cynllunio'n strategol i hyrwyddo a chynyddu'n gadarnhaol addysg drydyddol Gymraeg,
 - annog darparwyr i gyflwyno, datblygu a chynyddu eu haddysg drydyddol cyfrwng Cymraeg, er enghraifft, efallai drwy gytundebau deilliannau (gweler paragraff 3.232 – 3.235),
 - annog darparwyr i gynllunio llwybrau dilyniant fel bod siaradwyr Cymraeg yn gallu parhau â'u dysgu ôl-16 a datblygu eu sgiliau iaith Gymraeg a chynnig cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg er mwyn creu gweithlu dwyieithog,
 - monitro argaeledd a'r nifer sy'n manteisio ar gyfleoedd dysgu cyfrwng Cymraeg, ac unrhyw bynciau lle na ellir diwallu'r galw am ddysgu cyfrwng Cymraeg ar hyn o bryd,
 - gweithio'n effeithiol gyda'r Coleg i gyflawni'r uchod.
- 3.56 Disgwylir i'r Comisiwn annog darparwyr i gynnig darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg lle gallai'r galw fod yn isel i ddechrau ar y sail y byddai gwneud hynny'n cynyddu'r galw yn y pen draw.
- 3.57 Bydd yn ofynnol i'r Comisiwn gyflwyno adroddiad blynyddol i Weinidogion Cymru ar faint o addysg drydyddol cyfrwng Cymraeg a ddarperir ac i ba raddau yr oedd y Gymraeg yn cael ei haddysgu i bobl dros yr oedran ysgol gorfodol.
- 3.58 Mae darpariaeth wedi'i chynnwys yn y Bil sy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ddynodi person i roi cyngor perthnasol i'r Comisiwn er mwyn ei helpu i gyflawni ei ddyletswyddau'n ymwneud â hyrwyddo addysg drydyddol drwy gyfrwng y Gymraeg. Rhaid i'r Comisiwn roi sylw i unrhyw gyngor perthnasol a roddir iddo gan berson a ddynodir gan Weinidogion Cymru at y diben hwn.
- 3.59 Gellir ond dynodi person os yw'r person dan sylw'n cydsynio ac os yw Gweinidogion Cymru o'r farn ei fod yn addas i roi cyngor ar y materion a restrir ar wyneb y Bil, sef:
- hyrwyddo, cynnal, datblygu a chynllunio addysg drydyddol a ddarperir yng Nghymru drwy gyfrwng y Gymraeg,
 - hyrwyddo caffael a gwella sgiliau iaith Gymraeg,

- cynnal, datblygu, cynllunio a darparu gweithgareddau i gefnogi'r broses o gaffael a gwella sgiliau iaith Gymraeg, a
- cydweithio rhwng darparwyr addysg drydyddol yng Nghymru mewn perthynas â'r materion uchod.

- 3.60 Un enghraifft, ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, o gorff a allai fod yn y sefyllfa orau i roi cyngor ar y materion rhestredig, ac felly a fyddai'n briodol i'w ddynodi, yw'r Coleg.
- 3.61 Byddai dynodi'r Coleg yn galluogi'r Comisiwn i elwa o'i arbenigedd ac yn sicrhau y gallai'r ddau gorff gydweithio'n strategol i adeiladu'r galw am addysg drydyddol drwy gyfrwng y Gymraeg, ac annog unigolion i gymryd rhan ynddi.
- 3.62 Mae darpariaeth wedi'i chynnwys yn y Bil fel bod y Comisiwn yn dod o fewn Atodlen 6 i Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 er mwyn ei gwneud yn ofynnol iddo gydymffurfio â safonau'r Gymraeg. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod y Comisiwn yn ystyried y Gymraeg yn ei holl weithgareddau ac y gellir ei gwneud yn ofynnol iddo ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg.

Ymchwil ac arloesi

- 3.63 Fe wnaeth y cyhoeddiad '*Asesiad seiliedig ar berfformiad o sylfaen ymchwil Cymru*', a gyhoeddwyd ym mis Awst 2019 yn dilyn adolygiad a gomisiynwyd gan yr Athro Peter Halligan, Prif Gynghorydd Gwyddonol Cymru, ystyried yr ymchwil a gynhyrchwyd gan brifysgolion, partneriaethau a sefydliadau eraill Cymru rhwng 2010 a 2018.
- 3.64 Dangosodd y cyhoeddiad fod Cymru wedi hybu maint, ansawdd a chyrhaeddiad rhyngwladol ei sylfaen ymchwil dros yr 20 mlynedd diwethaf, i ddod yn un o wledydd mwyaf effeithlon y DU o ran trosi lefelau cymharol fach o gyllid yn ymchwil uchel ei pharch ac arloesol.
- 3.65 Bydd y Comisiwn yn rhan annatod o gefnogi twf parhaus y sector ymchwil yng Nghymru er mwyn sicrhau fod ei gystadleurwydd a'i welliant yn parhau, gan ganolbwyntio ar gydweithredu a chynnal ymchwil, gan gynnwys drwy gyfrwng y Gymraeg.

Economi gynaliadwy ac arloesol

- 3.66 Bydd y Bil yn gosod dyletswydd ar y Comisiwn i hyrwyddo addysg drydyddol ac ymchwil mewn ffordd sy'n cyfrannu at economi Cymru.
- 3.67 Mae system addysg drydyddol ac ymchwil ragorol ac effeithiol, gyda chyfle cyfartal yn ganolog iddi, yn hanfodol i gefnogi'r gwaith o ddatblygu a chynnal economi gynaliadwy ac arloesol yng Nghymru.
- 3.68 Bydd y Comisiwn, fel yr un stiward cenedlaethol ar gyfer y sector, mewn sefyllfa ddelfrydol i nodi bylchau sgiliau yn y gweithlu, creu cyfleoedd dysgu i lenwi'r bylchau hyn, a hwyluso mynediad a dilyniant i'r cyfleoedd hynny i ddysgwyr.

Cydweithio ag undebau llafur

- 3.69 Bydd yn ofynnol i'r Comisiwn hyrwyddo cydweithio rhwng darparwyr addysg drydyddol ac undebau llafur perthnasol, er mwyn helpu i gyflawni dyletswyddau strategol eraill y Comisiwn. Rhaid i'r undebau llafur naill ai gael eu cynrychioli gan TUC Cymru neu eu hystyried gan y Comisiwn i gynrychioli aelodau o'r gweithlu addysg drydyddol.
- 3.70 Wrth greu dyletswydd sy'n hyrwyddo cydweithio ag undebau llafur yn ei ystyr ehangaf, bydd y Comisiwn yn gallu hyrwyddo cydweithio ar lefel sefydliadol a strategol ar draws materion fel dysgu gydol oes, ehangu mynediad, ansawdd ac yn y blaen.

Cenhadaeth ddinesig

- 3.71 Ers y flwyddyn ariannol 2017-18, rhoddwyd ryw lefel o ddisgwyliad ar Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) mewn perthynas â chenhadaeth ddinesig, a hynny drwy ei lythyr cylch gwaith blynyddol gan y Gweinidog. Mae llythyr cylch gwaith CCAUC ar gyfer 2021-22 yn gofyn i CCAUC ddefnyddio ei Gronfa Arloesi Ymchwil Cymru i
- 'sicrhau bod sefydliadau'n cynnal eu hymdeimlad o gyfrifoldeb dinesig ac yn parhau â'u gwaith hanfodol wrth gefnogi eu cymunedau lleol, yn enwedig wrth i ni ddod allan o'r pandemig'.*
- 3.72 Hyd yma, mae'r gofynion yn ymwneud â chenhadaeth ddinesig yn berthnasol i sefydliadau addysg uwch yng Nghymru, a chydabyddir bod nifer o sefydliadau wedi croesawu'r cysyniad ac yn mynd ati i ddatblygu eu cenhadaeth ddinesig i gysylltu eu campysau a'u cymuned â'r byd.
- 3.73 Rhagwelir y dylai cenhadaeth ddinesig fod yn berthnasol i'r sector addysg drydyddol cyfan. Mae'r cysyniad o 'ychwanegu gwerth' yn ymestyn i feysydd eraill o addysg drydyddol eisoes a bydd llawer o enghreifftiau o arfer gorau i'w defnyddio.
- 3.74 Mae'r Bil yn creu dyletswydd i'r Comisiwn hyrwyddo cenhadaeth ddinesig ymhlith darparwyr addysg drydyddol yng Nghymru sy'n sefydliadau o fewn y sectorau addysg uwch ac addysg bellach.
- 3.75 Diffinnir cenhadaeth ddinesig yn y Bil fel "gweithredu at ddiben hybu neu wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol neu ddiwylliannol Cymru", (gan gynnwys camau sydd â'r nod o gyflawni unrhyw un o'r nodau llesiant)".
- 3.76 Bydd y Comisiwn yn gallu cydymffurfio â'r ddyletswydd hon wrth gyflawni'r swyddogaethau eraill a grëwyd gan y Bil. Caiff y Comisiwn hefyd annog personau eraill y mae'n eu cyllido o dan y Bil i ddatblygu cenhadaeth ddinesig, megis ar gyfer ymchwil ac arloesi. Er mwyn cydymffurfio â'r ddyletswydd i hyrwyddo cenhadaeth ddinesig, disgwylir y byddai'r Comisiwn yn cydweithio â rhanddeiliaid i nodi sut y gellir cyflawni hyn.
- 3.77 Mae'r ddyletswydd yn ymwneud â chenhadaeth ddinesig a grëwyd gan y Bil yn ategu nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, sy'n cynnwys y ddyletswydd i gyrff cyhoeddus (gan gynnwys y Comisiwn) gyflawni datblygu cynaliadwy, gan

gynnwys gweithredu'n unol ag egwyddorion datblygu cynaliadwy, er mwyn cyflawni'r nodau llesiant.

Rhagolygon byd-eang

3.78 Mae dyletswydd i hyrwyddo rhagolygon byd-eang yn tynnu sylw at bwysigrwydd cael Comisiwn sy'n cynrychioli sector Cymru'n rhyngwladol ac sy'n annog rhaglenni a chydweithredu rhyngwladol ym maes addysg drydyddol, gan gynnwys y rhaglen Cyfnewid Dysgu Rhyngwladol newydd, ond sydd hefyd yn ymwybodol o bartneriaethau rhyngwladol darparwyr eu hunain a recriwtio dysgwyr yn rhyngwladol.

Strategaeth ar gyfer addysg drydyddol ac ymchwil

Datganiad o flaenoriaethau

- 3.79 Bydd gofyn i Weinidogion Cymru lunio a chyhoeddi datganiad sy'n amlinellu'r blaenoriaethau strategol cenedlaethol ar gyfer ac mewn cysylltiad ag addysg drydyddol ac ymchwil ac arloesi yng Nghymru. Gall Gweinidogion Cymru ddiwygio ac ailgyhoeddi'r datganiad hwn ar unrhyw adeg.
- 3.80 Diben y datganiad blaenoriaethau yw nodi'r cyfeiriad polisi cyffredinol hirdymor ar gyfer addysg drydyddol ac ymchwil ac arloesi yng Nghymru. Rhagwelir y bydd yn seiliedig ar raglen lywodraethu bum mlynedd gan adlewyrchu symudiad Llywodraeth Cymru tuag at gynllunio busnes tymor cyfan y llywodraeth.
- 3.81 Bwriedir i'r blaenoriaethau sydd yn y datganiad lywio'r ffordd y mae'r Comisiwn yn cyflawni ei swyddogaethau ac felly sut mae'n dyrannu cyllid.

Cynllun strategol

- 3.82 Bydd yn ofynnol i'r Comisiwn lunio a chyhoeddi cynllun strategol sy'n amlinellu sut y mae'n bwriadu mynd i'r afael â'r blaenoriaethau strategol a chyflawni ei ddyletswyddau strategol. Wrth baratoi ei gynllun strategol, rhaid i'r Comisiwn roi sylw i ddatganiad blaenoriaethau Gweinidogion Cymru.
- 3.83 Bwriad y gofyniad i baratoi cynllun strategol, a rhoi sylw i'r datganiad o flaenoriaethau wrth wneud hynny, yw helpu'r Comisiwn i fabwysiadu dull tymor hwy wrth gynllunio'n strategol a darparu diben cyson drwy waith cynllunio'r Comisiwn. Rhaid i'r Comisiwn gymryd pob cam rhesymol i weithredu'r cynllun strategol.
- 3.84 Wrth baratoi ei gynllun strategol, rhaid i'r Comisiwn ymgynghori â'r personau y mae'n eu hystyried yn briodol. Rhagwelir y bydd hyn yn debygol o gynnwys darparwyr addysg drydyddol, dysgwyr, undebau llafur a chyrff sy'n cynrychioli darparwyr addysg a dysgwyr.
- 3.85 Rhaid i'r Comisiwn gyflwyno copi o'r cynllun strategol i Weinidogion Cymru i'w gymeradwyo, a bydd Gweinidogion Cymru'n gallu cymeradwyo'r cynllun neu ei gymeradwyo gydag addasiadau. Os yw Gweinidogion Cymru yn dymuno cymeradwyo'r cynllun gydag unrhyw addasiad, rhaid iddynt ofyn am gytundeb y Comisiwn cyn gwneud yr addasiadau hynny.

- 3.86 Os na all Gweinidogion Cymru sicrhau cytundeb y Comisiwn i unrhyw addasiad i'r cynllun, rhaid iddynt nodi eu rhesymau dros bob addasiad na chytunwyd arno a'u darparu i'r Comisiwn.
- 3.87 Ar ôl ei gymeradwyo, rhaid i'r Comisiwn gyhoeddi ei gynllun strategol, fel ei fod yn hygyrch i'r holl randdeiliaid perthnasol. Er mwyn sicrhau tryloywder, rhaid i resymau Gweinidogion Cymru dros addasu'r cynllun strategol heb gydsyniad y Comisiwn hefyd gael eu cyhoeddi gan y Comisiwn.
- 3.88 Bwriad y broses newydd hon ar gyfer cynllunio strategol yw galluogi'r Comisiwn i fynd ati i gynllunio dros dymor hwy.

Adroddiad blynyddol

- 3.89 Bydd yn ofynnol i'r Comisiwn lunio adroddiad blynyddol ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol. Bydd yr adroddiad yn gyfle i'r Comisiwn adrodd ar y canlynol:
- sut mae wedi cyflawni ei swyddogaethau yn ystod y flwyddyn;
 - ei gynnydd tuag at gyflawni'r amcanion a nodwyd yn y cynllun strategol, a ddatblygwyd mewn ymateb i'r dyletswyddau strategol a'r datganiad blaenoriaethau;
 - i ba raddau y mae addysg drydyddol wedi'i darparu drwy gyfrwng y Gymraeg;
 - i ba raddau y cafodd y Gymraeg ei haddysgu i bersonau sy'n hŷn na'r oedran ysgol gorfodol yng Nghymru;
 - cyflwr ariannol a chynaliadwyedd darparwyr addysg drydyddol;
 - cyllid ar gyfer ymchwil ac arloesi;
 - asesiad o ansawdd addysg drydyddol a reoleiddir;
 - manylion am berfformiad cyrff dynodedig;
 - asesiad o gynlluniau diogelu dysgwyr; ac
 - effeithiolrwydd y cod ymgysylltu â dysgwyr.
- 3.90 Rhaid i'r Comisiwn anfon copi o'r adroddiad i Weinidog Cymru a rhaid i Weinidogion Cymru osod copi gerbron y Senedd.

Llywodraethiant y Comisiwn

Aelodaeth

- 3.91 Bydd gan y Comisiwn Fwrdd a Gweithrediaeth, yn cynnwys 17 o aelodau, gan gynnwys Cadeirydd, Dirprwy Gadeirydd (a fydd yn Gadeirydd Pwyllgor Ymchwil ac Arloesi), y Prif Weithredwr a hyd at 14 o aelodau 'cyffredin'
- 3.92 I barhau i fod yn gworwm, ni fydd llai na saith o aelodau, gan gynnwys y Cadeirydd, Dirprwy Gadeirydd, y Prif Weithredwr a pedwar aelod 'cyffredin'.
- 3.93 Gweinidogion Cymru fydd yn gyfrifol am benodi Cadeirydd, Dirprwy Gadeirydd ac aelodau cyffredin y Bwrdd a hefyd y Prif Weithredwr cyntaf. Y Comisiwn fydd yn gyfrifol am wneud unrhyw benodiadau dilynol i rôl y Prif Weithredwr, gyda chymeradwyaeth Gweinidogion Cymru.
- 3.94 Bydd y Bwrdd yn cynnwys nifer o aelodau cyswllt, a fydd yn aelodau o'r Comisiwn sydd heb hawliau pleidleisio. Bydd yr aelodau hyn yn cynnwys:

- o leiaf dau gynrychiolydd o'r gweithlu addysg drydyddol a gaiff eu penodi gan Weinidogion Cymru, sef un i gynrychioli'r gweithlu academiaidd ac un i gynrychioli'r gweithlu nad yw'n academiaidd; caiff y ddau eu penodi gan Weinidogion Cymru;
- un aelod o staff y Comisiwn; ac
- o leiaf un person a benodir gan Weinidogion Cymru i gynrychioli dysgwyr mewn addysg drydyddol.

- 3.95 Yn unol â'r model partneriaeth gymdeithasol, bydd yn ofynnol i'r Comisiwn gydnabod yn ffurfiol cynrychiolwyr o'r undebau llafur. Bydd ei Fwrdd yn cynnwys nifer o aelodau cynghorol cyswllt a fydd yn cynrychioli'r gweithlu addysg drydyddol a staff y Comisiwn. Un o'r meini prawf ar gyfer yr aelodau cyswllt hyn yw bod yr ymgeiswyr yn aelodau o undeb llafur a gydnabyddir gan y Comisiwn.
- 3.96 Bydd y Cadeirydd a'r aelodau cyffredin yn dal ac yn gadael eu swydd yn unol â'u telerau ac amodau penodi. Gweinidogion Cymru fydd yn pennu'r telerau ac amodau hyn. Penodir yr aelodau am dymor penodol o hyd at bum mlynedd, gyda'r opsiwn o gael eu hailbenodi. Byddant yn atebol i'r Cadeirydd.
- 3.97 Bydd y Comisiwn, gyda chymeradwyaeth Gweinidogion Cymru, yn gallu gwneud darpariaeth ar gyfer cydnabyddiaeth ariannol, lwfansau a phensiwn.
- 3.98 Wrth benodi Cadeirydd ac aelodau cyffredin y Bwrdd, rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau bod gan aelodau'r Comisiwn, rhyngddynt, brofiad a gallu'n ymwneud â:
- darparu addysg a hyfforddiant;
 - cynnal neu weinyddu ymchwil;
 - materion diwydiannol, masnachol neu ariannol neu arferion unrhyw broffesiwn;
 - hyrwyddo anghenion dysgwyr mewn addysg drydyddol;
 - darparu addysg neu hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg neu hyrwyddo addysg a hyfforddiant o'r fath.
- 3.99 Caiff y Cadeirydd, y Dirprwy Gadeirydd a'r aelodau cyffredin eu penodi drwy ymarfer penodiadau cyhoeddus. Caiff y penodiadau eu rheoleiddio gan y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus a byddant yn dilyn y Cod Llywodraethu ar Benodiadau Cyhoeddus.
- 3.100 Bydd gan Weinidogion Cymru'r pŵer i atal y Cadeirydd, Dirprwy Gadeirydd neu aelodau cyffredin dros dro a/neu eu tynnu o'r Comisiwn os ydynt yn fodlon bod y person yn analluog neu'n anaddas i gyflawni swyddogaethau'r swydd, neu'n methu â gwneud hynny.
- 3.101 Bydd y Bwrdd yn gyfrifol am lunio'r cynllun strategol ar gyfer y sefydliad, gweithredu'r cynllun strategol a'r swyddogaethau statudol a chyflawni amcanion corfforaethol, a hefyd am weithredu stiwardiaeth ariannol a rheoli pherfformiad y Prif Swyddog Gweithredol a'r sefydliad cyfan.

Pwyllgorau

- 3.102 Bydd y Comisiwn yn cynnwys tri phwyllgor statudol – Pwyllgor Ymchwil ac Arloesi, y Pwyllgor Ansawdd a'r Pwyllgor Penodi Aelodau Staff.

- 3.103 Bydd y Pwyllgor Ymchwil ac Arloesi yn goruchwyllo swyddogaethau'r Comisiwn mewn perthynas ag ymchwil ac arloesi a'i fwriad yw helpu i sicrhau bod y Comisiwn yn hyrwyddo Cymru ar lefel y DU ac yn fyd-eang.
- 3.104 Bydd creu'r pwyllgor yn helpu i sicrhau bod y system ymchwil ac arloesi'n parhau i fod yn gystadleuol a'i bod hefyd yn ddigon strategol a hyblyg i sicrhau ein gallu cenedlaethol yn y dyfodol i ysgogi darganfyddiadau a thwf, a thrwy hynny feithrin cymysgedd o waith ymchwil a ysgogir gan chwilfrydedd a gwaith ymchwil ac arloesi sy'n ymateb i heriau.
- 3.105 Bydd Cadeirydd y pwyllgor yn Ddirprwy Gadeirydd y Comisiwn. Bydd gweddill maint ac aelodaeth y pwyllgor yn cael eu pennu gan y Comisiwn. Bydd Cadeirydd y pwyllgor yn dal ac yn gadael ei swydd yn unol â'i telerau ac amodau penodi. Gweinidogion Cymru fydd yn pennu'r telerau ac amodau hyn. Bydd y Comisiwn, gyda chymeradwyaeth Gweinidogion Cymru, yn gallu gwneud darpariaeth ar gyfer cydnabyddiaeth ariannol, lwfansau a phensiwn.
- 3.106 Bydd gan Weinidogion Cymru'r pŵer i atal y Cadeirydd Pwyllgor Ymchwil ac Arloesi dros dro a/neu ei tynnu o'r Comisiwn os ydynt yn fodlon bod y person yn analluog neu'n anaddas i gyflawni swyddogaethau'r swydd, neu'n methu â gwneud hynny.
- 3.107 Bydd y Pwyllgor Ansawdd yn goruchwyllo swyddogaethau'r Comisiwn mewn perthynas â sicrhau, asesu a gwella ansawdd, fel yr amlinellir yn Pennod 2 of Rhan 2 o'r Bil. Bydd hefyd yn ystyried materion polisi sy'n gysylltiedig â'r swyddogaethau hyn. Rhaid i un o aelodau cyffredin y Comisiwn gael ei benodi'n Gadeirydd y Pwyllgor Ansawdd. Mater i'r Comisiwn fydd maint y pwyllgor a'i aelodaeth.
- 3.108 Bydd yn ofynnol i'r Comisiwn greu Pwyllgor Penodi Aelodau Staff ar gyfer penodi aelod staff yn aelod cyswllt ar y Comisiwn i gynrychioli'r staff. Bydd y Pwyllgor yn gwahodd pob undeb llafur a gydnabyddir gan y Comisiwn i enwebu ymgeisydd cymwys i'w benodi.
- 3.109 Bydd y Comisiwn yn gallu sefydlu pwyllgorau eraill, cydbwyllgorau ac is-bwyllgorau er mwyn rhoi'r hyblygrwydd sydd ei angen arno i gyflawni ei gylch gwaith. Gall y Comisiwn ddiddymu unrhyw bwyllgor neu is-bwyllgor anstatudol y mae'n ei sefydlu. Gall hefyd sefydlu cydbwyllgorau â chyrrff eraill ar gyfer swyddogaethau ar y cyd, megis pwerau arolygu gydag Estyn.
- 3.110 Bydd y Comisiwn yn gallu talu taliad cydnabyddiaeth a lwfansau i unrhyw berson sy'n aelod o bwyllgor neu is-bwyllgor cyn belled nad yw'n aelod o'r Comisiwn neu'n aelod o staff.
- 3.111 Bydd sefydlu pwyllgorau ac is-bwyllgorau, a'r gallu i roi tâl cydnabyddiaeth i aelodau pwyllgor, yn galluogi'r Comisiwn i weithio'n effeithiol ac yn hyblyg ar draws ei gylch gwaith cyfan.

Dirprwyo swyddogaethau

- 3.112 Bydd y Comisiwn gallu dirprwyo unrhyw un o'i swyddogaethau fel y mynno. Bydd y Comisiwn yn gallu eu dirprwyo i'r canlynol:
- y Cadeirydd, Dirprwy Gadeirydd neu'r aelodau;
 - y Prif Swyddog Gweithredol;

- aelodau o'i staff;
- pwyllgor, is-bwyllgor neu gydbwyllgor, ac eithrio'r Pwyllgor Penodi Aelodau Staff

3.113 Disgwylir i'r Comisiwn lunio cynllun dirprwyo a chadw rhestr o swyddogaethau nad ydynt wedi'u dirprwyo.

Archwilio a chyfrifon

3.114 Rhaid i'r Comisiwn gadw cyfrifon priodol a pharatoi datganiad cyfrifon blynyddol i'w gyflwyno i Archwilydd Cyffredinol Cymru a Gweinidogion Cymru. Rhaid i Archwilydd Cyffredinol Cymru archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiad o gyfrifon a gosod y datganiad a'r cyfrifon gerbron y Senedd.

3.115 Ar hyn o bryd, gall Gweinidogion Cymru roi swyddogaethau atodol i CCAUC drwy orchymyn ac maent wedi gwneud hynny o'r blaen mewn cysylltiad â chyflawni trefniadau statudol Llywodraeth Cymru ar gyfer cymorth i fyfyrwyr.

3.116 Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth i Weinidogion Cymru roi swyddogaethau ychwanegol i'r Comisiwn drwy reoliadau. Rhaid i swyddogaethau o'r fath ymwneud ag addysg drydyddol neu ymchwil ac arloesi a rhaid iddynt fod yn arferadwy gan Weinidogion Cymru. Mae'r dull hwn yn caniatáu hyblygrwydd yn y dyfodol ac yn cyfateb i'r trefniadau presennol sydd ar waith ar gyfer CCAUC.

Rhyddid academiaidd ac ymreolaeth sefydliadol

3.117 Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn a Gweinidogion Cymru roi sylw i bwysigrwydd diogelu rhyddid academiaidd darparwyr addysg uwch yng Nghymru a'r staff academiaidd yn y darparwyr hynny..

3.118 Yn ogystal, mae'n ofynnol i'r Comisiwn a Gweinidogion Cymru roi sylw i ddiogelu ymreolaeth sefydliadol darparwyr addysg drydyddol yng Nghymru. Hynny yw y rhyddid, o fewn y gyfraith, i gynnal eu busnes o ddydd i ddydd mewn modd effeithiol a chymwys.

Rhan 2 - Cofrestru a rheoleiddio darparwyr addysg drydyddol

Nodau cofrestru a rheoleiddio o dan y Comisiwn

3.119 Nododd Adolygiad Hazelkorn fod angen "sefydlu strwythurau llywodraethu priodol, gydag arbenigedd eang, a all arwain, cefnogi, monitro a gwerthuso camau gweithredu a deilliannau ôl-uwchradd yn erbyn amcanion", os bydd Comisiwn newydd yn cymryd y cyfrifoldeb am gyllido a goruchwyllo'r sector addysg trydyddol.

3.120 Bydd angen i system effeithiol ar gyfer rheoleiddio darparwyr addysg drydyddol yng Nghymru, sy'n addas ar gyfer y dyfodol, sicrhau'r canlynol:

- tryloywder ac atebolrwydd cymesur ar gyfer darparwyr AHO yng Nghymru sy'n cael cymorth myfyrwyr Llywodraeth Cymru a/neu gyllid grant uniongyrchol gan y Comisiwn, yn enwedig mewn perthynas ag ansawdd addysg, sicrwydd ariannol a llywodraethiant;
- gofynion rheoleiddiol sy'n gallu addasu pe bai amgylchiadau'n newid o ran cyllid, strwythur darparwyr, ac anghenion y cyhoedd;

- awtonomi parhaus a phriodol ar gyfer darparwyr addysg, gan sicrhau hefyd bod amcanion strategol Llywodraeth Cymru'n cael eu cyflawni;
- gwerth am arian i'r trethdalwyr a sicrwydd ynghylch y defnydd o gyllid cyhoeddus.

Y gofrestr o ddarparwyr addysg drydyddol

- 3.121 I gyflawni'r nodau uchod, bydd gofyn i'r Comisiwn sefydlu cofrestr o ddarparwyr addysg drydyddol. Bydd y gofrestr hon yn ddull cyfreithiol o reoleiddio a goruchwyllo'n briodol a chymesur darparwyr addysg drydyddol sy'n derbyn cyllid cyhoeddus, gan gynnwys cyllid grant gan y Comisiwn a chymorth myfyrwyr Llywodraeth Cymru.
- 3.122 Bydd y gofrestr yn rhoi modd cyfreithiol digonol i'r Comisiwn allu rheoleiddio darparwyr tra'n parchu a diogelu awtonomi ac annibyniaeth darparwyr addysg drydyddol.
- 3.123 Bydd yn ofynnol i ddarparwyr ddangos eu bod yn bodloni gofynion rheoleiddiol sylfaenol cychwynnol a wedyn eu bod, fel amod cofrestru, yn cydymffurfio â gofynion rheoleiddiol parhaus.

Categoriâu cofrestru a chymhwysra i gael cyllid cyhoeddus

- 3.124 Bydd darparwyr sy'n bodloni gofynion rheoleiddiol priodol yn gymwys i gael mathau priodol o gyllid cyhoeddus.
- 3.125 Bydd y categorïau cofrestru yn arwain at lefelau gwahanol o gymhwysra ariannol a bydd modd amrywio'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer gwahanol fathau o ddarparwyr. Bydd yn ofynnol i Weinidogion Cymru bennu'r categorïau cofrestru hyn, a byddant hefyd yn gallu nodi pa categorïau fydd yn gymwys i gael mathau penodol o gyllid gan y Comisiwn.
- 3.126 Yn ogystal, bydd Gweinidogion Cymru'n gallu gwneud rheoliadau i nodi cyrsiau addysg uwch penodol y gellir eu cyllido gan y Comisiwn ac ni fydd angen i'r darparwr sy'n darparu'r cwrs fod wedi'i gofrestru. Bydd hyn yn caniatáu i Weinidogion Cymru bennu bod darpariaeth benodol yn cael ei chyllido, er enghraifft lle mae diffyg sgiliau penodol neu gwrs o bwys cenedlaethol na fyddai ar gael yng Nghymru ac yn gymwys am gyllid fel arall.
- 3.127 Bydd Gweinidogion Cymru'n gallu diwygio'r categorïau cofrestru. Bydd hyn yn galluogi'r system reoleiddio i addasu i'r newidiadau i strwythur a threfniadau cyllido'r sector addysg drydyddol, ac yn helpu i sicrhau bod rheoleiddio priodol yn gallu parhau. Bydd unrhyw reoliadau sy'n sefydlu, yn addasu neu'n dileu categorïau cofrestru yn ddarostyngedig i weithdrefn gadarnhaol y Senedd.

Cymhwysra i gofrestru

- 3.128 Bydd gwneud cais i gofrestru yn wirfoddol. Fodd bynnag, rhaid i bob darparwr sydd eisiau elwa ar fanteision cofrestru fynd ati i gofrestru â'r Comisiwn. Mae darparwr yn gymwys i gofrestru os yw'n bodloni'r canlynol:
- mae'n ddarparwr addysg drydyddol yng Nghymru;

- mae'n darparu, neu wedi darparu ar ei ran, y math o addysg drydyddol sy'n berthnasol i'r categori y mae'n ceisio cofrestru ynddo; ac
- mae'n bodloni, ym marn y Comisiwn, yr amodau cofrestru cychwynnol sy'n berthnasol iddo mewn perthynas â'r categori dan sylw.

3.129 Ni fydd angen i ddarparwyr sy'n darparu addysg drydyddol ar ran darparwr arall yng Nghymru gofrestru â'r Comisiwn fel arfer, oni bai eu bod yn darparu eu cyrsiau eu hunain a'u bod eisiau i'r cyrsiau hynny gael eu dynodi'n awtomatig at ddibenion cymorth myfyrwyr neu gyllid uniongyrchol gan y Comisiwn.

3.130 Mewn trefniadau breinio neu is-gontractio, y darparwr 'arweiniol' fydd yn gyfrifol am gofrestru yn hytrach na'r darparwr sy'n darparu'r cyrsiau. Bydd darparwyr arweiniol sy'n breinio neu'n is-gontractio cwrs cyfan neu ran o gwrs i ddarparwr allanol neu ddarparwr cydweithredol yn cadw'r cyfrifoldeb am y dysgwyr sydd ar y cyrsiau hyn, a hefyd am sicrhau bod y gofynion rheoleiddiol yn cael eu bodloni a bod cyllid cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio'n briodol.

Amodau cofrestru

3.131 Mae'r Bil yn amlinellu'r amodau cofrestru cychwynnol gorfodol y mae'n rhaid i bob categori eu bodloni, yn ogystal â'r meini prawf ar gyfer cofrestru a restrir uchod.

Hynny yw:

- yr amod ansawdd;
- amod yn ymwneud â chynaliadwyedd ariannol y darparwr addysg drydyddol sy'n gwneud cais;
- amod yn ymwneud ag effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu a rheolaeth y darparwr sy'n gwneud cais; ac
- amod yn ymwneud ag effeithiolrwydd trefniadau i sicrhau ansawdd y ddarpariaeth a ddarperir yn allanol ond a ddilyswyd gan y darparwr sy'n gwneud cais.

3.132 Gall Gweinidogion Cymru ragnodi amodau cofrestru cychwynnol ychwanegol drwy reoliadau. Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn gyhoeddi dogfen sy'n nodi'r gofynion y mae'n rhaid i ddarparwyr addysg drydyddol sy'n gwneud cais eu bodloni er mwyn bodloni'r amodau cofrestru cychwynnol. Mae'r Bil hefyd yn galluogi'r Comisiwn i ddiwygio'r gofynion hynny. Cyn i'r Comisiwn gyhoeddi ei ofynion, neu ei ofynion diwygiedig, rhaid iddo ymgynghori ar ei gynigion os yw'n ystyried ei bod yn briodol gwneud hynny.

3.133 Mae'r Bil hefyd yn amlinellu'r amodau cofrestru gorfodol parhaus y mae'n rhaid iddynt fod yn berthnasol i bob categori. Hynny yw:

- yr amod ansawdd;
- amod yn ymwneud ag effeithiolrwydd systemau llywodraethu a rheolaeth y darparwr;
- amod yn ymwneud â chynaliadwyedd ariannol y darparwr;
- amod yn ymwneud ag effeithiolrwydd trefniadau i sicrhau ansawdd darpariaeth a ddilyswyd;
- amod yn ymwneud â chynllun diogelu dysgwyr (gweler paragraff 3.363 – 3.371 am ragor o wybodaeth);
- amod yn ymwneud â chod cynnwys dysgwyr (gweler para 3.383 – 3.385 am ragor o wybodaeth);

- amodau gweinyddol sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr hysbysu'r Comisiwn am unrhyw newidiadau i wybodaeth sy'n berthnasol ar gyfer cofrestru, a hefyd darparu gwybodaeth i'r Comisiwn yn ôl y gofyn er mwyn iddo allu cyflawni ei swyddogaethau, a rhoi sylw i'r cyngor neu'r canllawiau a ddarperir gan y Comisiwn.

- 3.134 Gall Gweinidogion Cymru ragnodi amodau cofrestru gorfodol parhaus eraill ar gyfer pob categori cofrestru neu unrhyw un o'r categorïau.
- 3.135 Gall Gweinidogion Cymru hefyd bennu pa gategori neu gategoriâu cofrestru y dylid gosod amodau arnynt yn ymwneud â therfyn ffioedd a chyfle cyfartal.
- 3.136 Bydd yr amod cyfle cyfartal yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr cofrestredig gyflawni canlyniadau sy'n hyrwyddo'r nodau canlynol:
- cynyddu cyfranogiad mewn addysg drydyddol gan bobl o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol,
 - gwella'r broses o gadw dysgwyr mewn addysg drydyddol sy'n aelodau o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol,
 - lleihau bylchau cyrhaeddiad mewn addysg drydyddol rhwng grwpiau sy'n deillio o anghydraddoldebau cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd ac anghydraddoldebau strwythurol eraill,
 - gwella canlyniadau cyflogaeth ac astudiaethau pellach ar gyfer dysgwyr addysg drydyddol o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol ar ôl cwblhau eu cyrsiau.
- 3.137 Bydd amod terfyn ffioedd yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gael datganiad terfyn ffioedd cymeradwy, a sicrhau nad yw ffioedd cyrsiau cymwys ar gyfer personau cymwys (ffioedd 'rheoleiddiedig') yn fwy na'r terfyn ffioedd perthnasol. Bydd hyn yn disodli swyddogaeth terfyn ffioedd cynlluniau ffioedd a mynediad, ac yn sicrhau na all ffioedd dysgu ar gyfer cyrsiau cymwys fod yn fwy na'r uchafswm ffioedd a bennir yn rheoliadau cymorth i fyfyrwyr (£9000 ar hyn o bryd ar gyfer cyrsiau amser llawn).
- 3.138 Mater i'r Comisiwn fydd penderfynu ar union ofynion pob un o'r amodau hyn mewn ffordd sy'n sicrhau cydbwysedd rhwng budd y cyhoedd a'r angen i osgoi rheoleiddio gormodol. Bydd yn ofynnol i'r Comisiwn, os yw'n ymddangos iddo ei bod yn briodol gwneud hynny, ymgynghori â phwy bynnag y mae'n eu hystyried yn briodol (er enghraifft y darparwyr cofrestredig a fydd yn ddarostyngedig i'r amodau cofrestru) a chyhoeddi canllawiau i ddarparwyr cofrestredig am yr amodau cofrestru parhaus.
- 3.139 Mae disgwyl i nifer o'r amodau cofrestru adeiladu ar arferion rheoleiddio presennol CCAUC a Llywodraeth Cymru mewn perthynas â thelerau ac amodau cyllid a dulliau sicrhau ansawdd eraill y darperir ar eu cyfer yn y ddeddfwriaeth bresennol.
- 3.140 Mae'r amodau'n ymwneud â diogelu dysgwyr a chynnwys dysgwyr yn ychwanegiadau newydd i'r fframwaith rheoleiddio ar gyfer darparwyr addysg uwch. Cafodd y pwyslais ar ddiogelu dysgwyr a chynnwys dysgwyr ei groesawu'n helaeth gan randdeiliaid yn ystod yr ymgynghoriad, yn ogystal â manteision sefydlu cyfres gyffredin o egwyddorion i sicrhau cysondeb a throsglwyddo a dilyniant haws ar draws y sector addysg drydyddol cyfan. Roedd neges glir hefyd y dylai unrhyw fframwaith i gyflawni hyn gael ei lunio drwy gydweithio agos â darparwyr a chynrychiolwyr dysgwyr.

3.141 Mae rhagor o wybodaeth am y polisi a ffefrir gan Lywodraeth Cymru ar adeg cyflwyno'r Bil hwn i'w gweld yn y Datganiad o Fwriad Polisi cysylltiedig.

Cynnal y gofrestr, cydymffurfiaeth ac ymyrraeth

- 3.142 Bydd y Comisiwn yn gallu penderfynu sut y dylid cyflwyno'r wybodaeth sy'n ofynnol ar gyfer cofrestru. Bydd yr wybodaeth sydd yn y gofrestr a'r wybodaeth flaenorol ar gael i'r cyhoedd ei gweld.
- 3.143 Bydd yn ofynnol i'r Comisiwn fonitro cydymffurfiaeth darparwyr â'r gofynion rheoleiddiol sy'n berthnasol i'w categori cofrestru.
- 3.144 Bydd y Comisiwn yn gallu troi at ystod o ymyriadau er mwyn delio â sefyllfaoedd lle mae darparwyr mewn perygl o fethu â cydymffurfio â'r amodau cofrestru parhaus neu wedi methu â gwneud hynny. Diben ymyrraeth o'r fath yw diogelu buddiannau dysgwyr, trethdalwyr a Gweinidogion Cymru ynghyd ag enw da sector addysg drydyddol Cymru.
- 3.145 Ni fwriedir i'r ymyriadau gael eu defnyddio fel cosb. Fel rheoleiddiwr, dylai'r Comisiwn weithredu mewn ffordd sy'n ennyn hyder bod penderfyniadau rheoleiddiol yn cael eu gwneud ar sail wrthrychol, diduedd a chyson, a heb wrthdaro buddiannau, rhagfarn neu ddylanwad amhriodol.
- 3.146 Dylai'r Comisiwn hyrwyddo cyflawni'r amcanion polisi'n effeithlon ac ennyn hyder y cyhoedd yng ngweithrediadau'r darparwyr y mae'n eu rheoleiddio. I wneud hyn yn effeithiol, mae'n bwysig mai cam cyntaf y Comisiwn yw archwilio'r rhesymau dros fethiant i gydymffurfio â'r amodau neu fod yn debygol o wneud hynny.
- 3.147 Bydd y Comisiwn yn gallu gweithio gyda darparwyr addysg drydyddol i sicrhau cydymffurfiaeth a gwell rheoleiddio er mwyn cyflawni deilliannau gwell a sicrhau gwell gwerth am arian. Fodd bynnag, bydd y Comisiwn hefyd yn gallu cymryd camau priodol yn dibynnu ar amgylchiada'r methiant rheoleiddiol penodol.
- 3.148 Bydd yn gallu defnyddio ystod o ymyriadau i ddelio â sefyllfaoedd lle mae perygl na fydd darparwyr yn cydymffurfio â'u hamodau cofrestru parhaus neu os ydynt wedi methu â gwneud hynny. Y bwriad yw y bydd y Comisiwn yn ceisio cymryd camau ymyrryd cymesur a phriodol i ddiogelu buddiannau dysgwyr a'r defnydd o arian cyhoeddus. Er enghraifft, gall ddewis rhoi cyngor i'r darparwr a'i helpu i gydymffurfio â'r amodau cyn cymryd camau gorfodi.
- 3.149 Disgwylir y bydd y Comisiwn yn nodi'r camau gweithredu mwyaf priodol yng ngoleuni natur benodol unrhyw bryderon cydymffurfio y mae'n eu nodi wrth fonitro. At hynny, dylai unrhyw gamau gorfodi a gymerir fod yn unol â'r datganiad ymyrraeth y mae'n ofynnol i'r Comisiwn ymgynghori arno, ei gyhoeddi a'i adolygu'n barhaus.

Cyngor a chymorth

3.150 Bydd y Comisiwn yn ceisio helpu pob darparwr i gydymffurfio â'r amodau cofrestru ac yn cynnig ymyriadau cefnogol i ddarparwyr os nad ydynt yn cydymffurfio'n llwyr â'r amodau neu os yw eu diffyg cydymffurfiaeth yn cael effaith ar ddysgwyr, neu i sicrhau'r defnydd priodol o gyllid cyhoeddus.

- 3.151 Bydd gan y Comisiwn y pŵer i roi cyngor a chanllawiau i ddarparwyr cofrestredig er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r amodau cofrestru parhaus. Bydd gofyn i ddarparwyr roi sylw i gyngor a chanllawiau o'r fath.
- 3.152 Bydd ymyriadau cefnogol yn fwyaf priodol ar gyfer, er enghraifft, materion lefel isel yn ymwneud ag ansawdd yr addysg a ddarperir gan y darparwr cofrestredig neu ar ei ran, a mân faterion llywodraethu fel polisïau annigonol neu wedi dyddio yn eu lle ar gyfer staffio neu ddysgwyr ond nad ydynt yn cael unrhyw effaith andwyol.

Ymchwilio a monitro uwch

- 3.153 Bydd y Comisiwn yn gallu cynnal adolygiad o unrhyw faterion y mae'n eu hystyried yn berthnasol o ran cydymffurfiaeth. Yn ogystal, bydd disgwyl i'r Comisiwn sicrhau bod ganddo fynediad at sylfaen dystiolaeth drylwyr a manwl cyn cymryd unrhyw gamau rheoleiddiol mwy llym. Gall yr adolygiadau hyn fod yn gyffredinol neu at ddiben penodol. Gall y Comisiwn ddefnyddio canlyniad ymchwiliad i lywio'r gweithgareddau cyffredinol y mae'n eu gwneud, neu gall fod yn rhan o gam rheoleiddiol y mae'n penderfynu ei gymryd.
- 3.154 Gallai ymyrraeth o'r fath gynnwys, er enghraifft, cynnal adolygiad atodol o asesiad ansawdd sy'n canolbwyntio ar faterion a nodwyd mewn adolygiad allanol, neu ymchwilio i bryderon a nodwyd drwy broses fonitro reolaidd neu bryderon a godwyd gan randdeiliaid, gan gynnwys dysgwyr.

Cyfarwyddyd ac amodau cofrestru penodol

- 3.155 Bydd y Comisiwn yn gallu rhoi amodau penodol i ddarparwyr cofrestredig unigol. Bydd dau ddiben i amodau o'r fath. Yn gyntaf, i sicrhau bod y darparwr dan sylw'n mynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion y mae'r Comisiwn yn eu nodi wrth brosesu cais y darparwr i gofrestru, sy'n ddiffygion y mae angen i'r darparwr roi sylw iddynt er nad ydynt yn ddigon difrifol i'w atal rhag cofrestru. Yn ail, i helpu i sicrhau bod darparwr cofrestredig yn mynd i'r afael â materion y mae'r Comisiwn yn eu nodi wrth fonitro ei gydymffurfiaeth â'i amodau cofrestru parhaus cyffredinol.
- 3.156 Bydd gan y Comisiwn bŵer hefyd i roi cyfarwyddyd i ddarparwyr os ydynt wedi methu â bodloni amod cofrestru parhaus, neu os ydynt yn debygol o wneud hynny.
- 3.157 Mae'r Bil yn nodi cyfyngiadau a mesurau diogelu amrywiol ar gyfer defnyddio'r pwerau i roi cyfarwyddyd a gosod amod cofrestru penodol, gan gynnwys yr angen i roi hysbysiad rhybuddio ac ystyried y sylwadau a wneir gan y darparwr dan sylw. Rhaid i'r Comisiwn hefyd hysbysu corff llywodraethu'r darparwr am ei benderfyniad a chyhoeddi'r hysbysiad.
- 3.158 Disgwylir y bydd y pwerau hyn yn cael eu defnyddio mewn achosion difrifol o dorri'r amodau cofrestru, er enghraifft lle mae ansawdd y ddarpariaeth a gynigir gan ddarparwr yn annigonol yn gyffredinol, neu mewn achosion clir o reolaeth diofal neu lywodraethiant gwan, neu gamreoli arian a roddwyd i ddarparwr gan y Comisiwn.,

Dadgofrestru

- 3.159 Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd tynnu darparwr o'r gofrestr yn cael ei ystyried fel mesur rheoleiddio olaf gan y Comisiwn lle nad oes dewis arall, a bydd ond yn cael ei

ddefnyddio pan fo'n angenrheidiol i ddiogelu buddiannau dysgwyr neu i warchod cyllid cyhoeddus. Disgwylir y bydd y Comisiwn ond yn tynnu darparwr o'r gofrestr os yw wedi torri'r amodau'n ddifrifol neu'n gyson, os yw pob ymyrraeth arall wedi'i defnyddio, neu pan fydd darparwr yn gofyn i'r Comisiwn wneud hynny.

- 3.160 Disgwylir y bydd dadgofrestru darparwr yn achosi trafferthion sylweddol i'r sefydliad ac yn amharu'n fawr ar staff, dysgwyr a rhanddeiliaid lleol. Felly, bydd Gweinidogion Cymru'n gallu gwneud trefniadau dros dro ac arbedion drwy reoliadau mewn amgylchiadau o'r fath. Gallai hyn gynnwys gwneud rheoliadau sy'n galluogi'r Comisiwn i drin darparwr sydd wedi'i ddadgofrestru fel darparwr cofrestredig at ddibenion penodol, a hynny er mwyn diogelu dysgwyr neu gyllid cyhoeddus (er enghraifft, i sicrhau bod darparwr yn cyflawni'r ymrwymadau a wnaed mewn cynllun diogelu dysgwyr).
- 3.161 Amlinellir yn y ddeddfwriaeth gofynion gweithdrefnol i'r Comisiwn eu dilyn yn sgil penderfyniad i ddadgofrestru darparwr.
- 3.162 Rhaid i'r Comisiwn gadw rhestr o ddarparwyr a dynnwyd o'r gofrestr drwy ddadgofrestru a hefyd rhestru unrhyw reoliadau'n ymwneud â'r dadgofrestru hwnnw, a sicrhau bod y rhestr ar gael i'r cyhoedd ei gweld.
- 3.163 Os bwriedir tynnu darparwr o'r gofrestr oherwydd methiant i fodloni amodau cofrestru parhaus sy'n berthnasol i'w categori cofrestru, ond ei fod yn bodloni amodau categori arall yn y gofrestr, gall y Comisiwn gofrestru'r darparwr yn y categori newydd yn amodol ganiatâd y darparwr.
- 3.164 Bydd yn ddyletswydd ar Weinidogion Cymru i benodi person neu banel i adolygu penderfyniadau'r Comisiwn o dan Ran 2 y Bil ynghylch cofrestru a chyfarwyddyd mewn perthynas â methiant i gydymffurfio ag amodau cofrestru parhaus. Mae'r Bil yn caniatáu rheoliadau i amlinellu manylion y broses ar gyfer cynnal adolygiad, a'r camau i'w cymryd gan y Comisiwn a Llywodraeth Cymru. Mae'r Bil yn caniatáu rheoliadau i amlinellu manylion y broses ar gyfer cynnal adolygiad, a'r camau i'w cymryd gan y Comisiwn a Llywodraeth Cymru.

Sicrhau a gwella ansawdd

Swyddogaethau cyffredinol: Sicrhau a gwella ansawdd

- 3.165 Bydd y Comisiwn yn darparu dull cyson o sicrhau ansawdd ar draws y sector addysg drydyddol yn seiliedig ar egwyddorion a rennir. Bydd y trefniadau ar gyfer sicrhau ansawdd yn parhau i gael eu teilwra i adlewyrchu cyd-destun y sector, gan adeiladu ar gryfderau'r trefniadau cyffredol a hefyd eu dwyn ynghyd mewn ffordd fwy cydlynol.
- 3.166 Bydd yn ddyletswydd ar y Comisiwn i fonitro ac ysgogi gwelliant yn ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant a ddarperir gan ddarparwyr addysg drydyddol cofrestredig ac a gyllidir. Disgwylir i waith y Comisiwn i gyflawni'r swyddogaeth hon gael ei lywio gan ei gynllun strategol, sy'n seiliedig ar ei ddyletswyddau strategol yn ogystal â'r datganiad o flaenoriaethau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru.
- 3.167 Bydd gan y Comisiwn y pŵer i greu a chyhoeddi fframwaith sicrhau ansawdd, a fydd yn amlinellu ei bolisi'n ymwneud ag ansawdd ac asesu ansawdd. Bydd yn ofynnol

i'r Comisiwn ymgynghori â darparwyr addysg drydyddol, Estyn a rhanddeiliaid eraill fel y gwêl yn dda.

- 3.168 Y bwriad wrth ddatblygu fframwaith ansawdd fydd nodi egwyddorion cyffredin ar gyfer deall, asesu a gwella ansawdd y ddarpariaeth ar draws y sector addysg drydyddol yng Nghymru. Bydd unrhyw fframwaith ansawdd sy'n berthnasol i addysg uwch yn parhau i fod yn gydnaws â safonau ar gyfer y DU gyfan a gydnabyddir gan sectorau a gofynion Ardal Addysg Uwch Ewrop.
- 3.169 Bydd gofyn i Estyn a'r corff dynodedig ar gyfer asesiadau ansawdd mewn addysg uwch ystyried unrhyw fframwaith ansawdd a gyhoeddir gan y Comisiwn wrth gynnal arolygiadau ac asesiadau.
- 3.170 Bydd gan y Comisiwn y pŵer i roi cyngor ac arweiniad i unrhyw ddarparwr cofrestredig neu a gyllidir ynghylch ansawdd a gwella ansawdd. Yn benodol, bydd disgwyl i'r Comisiwn roi cyngor ac arweiniad i ddarparwyr mewn sefyllfaoedd lle mae risg y gallai ansawdd yr addysg fod yn annigonol

Arolygu addysg bellach a hyfforddiant – Estyn

- 3.171 Bydd y Comisiwn dan ddyletswydd i fonitro ansawdd yr addysg neu'r hyfforddiant a gyllidir neu a sicrheir ganddo. Os yw'r darparwyr hyn yn destun asesiadau ansawdd addysg uwch neu arolygiadau gan Estyn (neu'r ddau), bydd disgwyl i'r Comisiwn roi sylw i'r adroddiadau a gyhoeddir yn sgil y prosesau hyn. Ni fydd hyn yn golygu na chaiff y Comisiwn ddefnyddio unrhyw wybodaeth berthnasol arall wrth fonitro ansawdd.
- 3.172 Bydd Estyn yn cadw ei ddyletswydd i arolygu addysg neu hyfforddiant ar gyfer personau sy'n 16 oed neu'n hŷn (heblaw addysg uwch) lle os yw'r darparwr yn cael cymorth ariannol gan y Comisiwn, gan awdurdod lleol yng Nghymru, sydd, yn ei dro, yn cael cyllid gan y Comisiwn, neu gan Weinidogion Cymru. Bydd hawl Estyn i gael mynediad i'r darparwyr a arolygir ganddo yn parhau heb ei newid.
- 3.173 Yn yr un modd â'r ddeddfwriaeth bresennol, bydd gofyn i Estyn adrodd ar ansawdd yr addysg a arolygir, y safonau a gyflawnir gan y rheini sy'n derbyn yr addysg, a ph'un a yw'r adnoddau ariannol a roddwyd i ddarparwr yr addysg yn cael eu rheoli'n effeithlon a'u defnyddio mewn ffordd sy'n sicrhau gwerth am arian.
- 3.174 Bydd yn ofynnol i bob darparwr sy'n destun adroddiad asesiad gan Estyn lunio datganiad ysgrifenedig o'r camau gweithredu y mae'n bwriadu eu cymryd yn sgil yr adroddiad. Cyhoeddir y datganiadau hyn.
- 3.175 Ar gais y Comisiwn, bydd Estyn yn arolygu addysg neu hyfforddiant ar gyfer personau sy'n 16 oed neu'n hŷn (heblaw addysg uwch) lle caiff y darparwr gymorth ariannol gan y Comisiwn, neu gan awdurdod lleol yng Nghymru, sydd, yn ei dro, yn cael cyllid gan y Comisiwn.
- 3.176 Bydd gofyn i Estyn ystyried unrhyw fframwaith ar gyfer ansawdd addysg drydyddol a gyhoeddir gan y Comisiwn. Wrth lunio fframwaith o'r fath, bydd yn rhaid i'r Comisiwn ystyried sylwadau Estyn.

- 3.177 Bydd yn ofynnol i Estyn roi gwybod i'r Comisiwn am ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant a arolygir ganddo. Bydd gofyn i Estyn hefyd roi cyngor i'r Comisiwn ar unrhyw faterion y bydd y Comisiwn yn eu pennu mewn perthynas â'r addysg a'r hyfforddiant a arolygir gan Estyn a'u cyllido neu eu rheoleiddio gan y Comisiwn (neu gan awdurdod lleol yng Nghymru sydd, yn ei dro, yn cael cyllid gan y Comisiwn).
- 3.178 Bydd Estyn yn cadw ei ddyletswyddau i arolygu a darparu gwybodaeth i Weinidogion Cymru am unrhyw ddarpariaeth addysg ôl-16 a fydd yn parhau i gael ei gyllido gan Weinidogion Cymru. Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant i weithwyr ieuenctid a gweithwyr cymunedol, gwasanaethau gyrfaoedd, colegau arbenigol annibynnol, hyfforddeiaethau a rhaglen cyflogadwyedd Cymorth Swyddi Cymru, Cymraeg i Oedolion a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

Y berthynas rhwng Estyn a'r Comisiwn: newidiadau i'r trefniadau cyllido

- 3.179 Er y bydd Estyn yn cadw ei annibyniaeth bresennol o ran y gweithgareddau y mae'n ymgymryd â nhw a'r adroddiadau y mae'n eu llunio'n, bydd dan ddyletswydd i roi sylw i gyngor a chanllawiau'r Comisiwn (gan gynnwys y blaenoriaethau strategol ar gyfer sicrhau a gwella ansawdd) wrth gyflawni ei swyddogaethau.
- 3.180 Bydd y Comisiwn yn gallu mynnu bod Estyn yn darparu gwybodaeth a chyngor iddo ynghylch ansawdd yr addysg bellach a'r hyfforddiant a gyllidir neu a sicheir gan y Comisiwn ac y mae Estyn yn eu harolygu, a hefyd mynnu bod Estyn yn cynnal arolygiadau fathau penodol o addysg a hyfforddiant a bennir gan y Comisiwn.
- 3.181 Felly, mae'r Bil yn gofyn bod y Comisiwn ac Estyn yn cytuno ar gynllun arolygu blynyddol ar gyfer darparwyr addysg bellach a hyfforddiant a gyllidir neu a sicheir gan y Comisiwn, ynghyd â gweithgareddau mwy cyffredinol mewn perthynas â'r sector ôl-16, a amlinellir mewn llythyr cylch gwaith neu ddatganiad tebyg.
- 3.182 Y Comisiwn fydd yn gyfrifol am roi cyllid i Estyn ar gyfer ei weithgareddau mewn perthynas ag addysg bellach a gyllidir neu a sicheir gan y Comisiwn.
- 3.183 Bydd hyn yn newid o'r trefniadau presennol o dan adran 104(4) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, lle mae Gweinidogion Cymru'n gyfrifol am gyllido gweithgareddau Estyn.
- 3.184 Bydd Gweinidogion Cymru'n parhau i fod yn gyfrifol am gyllido gweithgareddau arolygu Estyn a gweithgareddau eraill yn ymwneud ag addysg a hyfforddiant nad ydynt yn cael cyllido neu eu sicrhau gan y Comisiwn. Bydd y Comisiwn yn darparu cyllid i Estyn, fel y bo'n briodol yn ei farn ef, a hynny ar gyfer ei waith arolygu a gweithgareddau eraill yn ymwneud ag addysg a hyfforddiant a gyllidir neu a sicheir gan y Comisiwn, a bydd yn ystyried yr hyn y bydd angen i Estyn ei wario er mwyn cyflawni ei swyddogaethau.
- 3.185 Er bod yr adnoddau a'r atebolrwydd ffurfiol yn cael eu rhannu, bwriedir i Estyn gadw at ddull cydgysylltiedig ar gyfer ei waith ar draws y sectorau addysg cyn-16 ac ôl-16. Disgwylir y bydd Gweinidogion Cymru, Estyn a'r Comisiwn yn trafod ac yn cydweithio ar gynllunio a chyllido gweithgareddau Estyn ar draws y sectorau y mae'n eu harolygu, ac yn fwy cyffredinol i sicrhau gwelliant parhaus yn ansawdd addysg cyn-16 ac ôl-16.

Asesu ansawdd mewn addysg uwch

- 3.186 Bydd yn ddyletswydd ar y Comisiwn i asesu, neu wneud trefniadau i asesu ansawdd yr addysg uwch a ddarperir yng Nghymru gan bob darparwr addysg uwch cofrestredig, ac a ddarperir ar ran darparwyr sydd wedi'u cofrestru â'r Comisiwn (er enghraifft, fel rhan o drefniadau breinio neu is-gontractio).
- 3.187 Bydd y Comisiwn yn cyhoeddi adroddiadau'r asesiadau hyn, a bydd pob darparwr sy'n destun adroddiad o'r fath yn gorfod llunio datganiad ysgrifenedig o'r camau y mae'n bwriadu eu cymryd yn ei sgil.
- 3.188 Gall y Comisiwn ddynodi corff i gynnal yr asesiadau ansawdd. Bydd yn ofynnol i'r Comisiwn gael cydsyniad Gweinidogion Cymru wrth wneud hyn. Cyn gwneud argymhelliad ynghylch dynodi, bydd y Comisiwn yn ymgynghori â darparwyr addysg uwch cofrestredig a rhanddeiliaid eraill y mae'n eu hystyried yn briodol ynghylch gofynion a rhinweddau'r corff sydd i'w benodi.
- 3.189 Rhagwelir y bydd y corff dynodedig hwn yng nghofrestr asiantaethau cymeradwy'r Gymdeithas Sicrhau Ansawdd mewn Addysg Uwch Ewrop. Ar hyn o bryd, dim ond un corff o'r fath sy'n gweithredu ar lefel y DU gyfan mewn addysg uwch a ariennir yn gyhoeddus, sef yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch (QAA).
- 3.190 Dyma fydd swyddogaethau'r corff asesu ansawdd dynodedig:
- cynnal asesiadau o ansawdd yr addysg uwch a ddarperir yng Nghymru gan ddarparwyr cofrestredig, a hynny ar amllder a ragnodir mewn rheoliadau,
 - cynnal asesiadau o ansawdd unrhyw ddarparwyr addysg uwch yng Nghymru nad ydynt wedi'u cofrestru ac sy'n gofyn am asesiad (er enghraifft, darparwyr sydd eisiau cofrestru â'r Comisiwn), a
 - darparu gwybodaeth i'r Comisiwn ynghylch ansawdd yr addysg uwch a ddarperir gan ddarparwyr cofrestredig yng Nghymru.
- 3.191 Mae disgwyl i'r Comisiwn hyrwyddo cydweithio rhwng y corff dynodedig ac Estyn mewn perthynas ag asesiadau ansawdd ar gyfer darparwyr sy'n cynnig darpariaeth addysg uwch ac addysg bellach. Bwriedir i'r berthynas rhwng y Comisiwn, Estyn a'r corff dynodedig wella'n sylweddol y modd y cydlynir asesiadau ansawdd mewn perthynas â'r darparwyr hyn, a bydd y Comisiwn yn gallu chwarae rôl cydlynu a hwyluso rhwng y ddau gorff asesu/arolygu.
- 3.192 Er mwyn cyflawni ei swyddogaethau asesu ansawdd, bydd gan y corff dynodedig y pŵer i godi ffioedd ar ddarparwyr addysg uwch. Caiff y ffioedd hyn eu cyfrifo ar sail y costau a ysgwyddir wrth gyflawni swyddogaethau o'r fath, ac ni ddylai fod yn fwy na'r costau hyn.
- 3.193 Bydd yn ofynnol i'r corff dynodedig gyhoeddi datganiad o'r ffioedd y mae'n eu codi, a'r sail ar gyfer cyfrifo ffioedd o'r fath. Dylai'r trefniant hwn gymryd lle'r ffioedd presennol a delir gan ddarparwyr addysg uwch ar gyfer asesiadau ansawdd allanol. Gall y Comisiwn hefyd gyllido'r corff dynodedig i gyflawni ei swyddogaethau asesu, a/neu unrhyw ymchwil neu weithgaredd arall sy'n berthnasol i'w swyddogaethau.

Gorfodi

- 3.194 Disgwylir y bydd y Comisiwn yn canolbwyntio ar wella ansawdd drwy gydlynu gweithgareddau ar draws y ddau gorff asesu ac arolygu, gan gefnogi cydweithio, rhannu arferion da, a phennu blaenoriaethau strategol ar gyfer gwella ansawdd.
- 3.195 Fodd bynnag, mae'n ofynnol i'r Comisiwn hefyd gael pwerau gorfodi mewn achosion lle nad yw'r ansawdd yn bodloni'r safonau a ddisgwylir. Bydd disgwyl i'r Comisiwn gynnal safonau ansawdd llym ar draws y sectorau AHO y mae'n eu cyllido a'u rheoleiddio, a bydd yn cael ei rymuso gan y Bil i weithredu lle ceir ansawdd annigonol.
- 3.196 Yn achos darparwyr cofrestredig, bydd y Comisiwn yn cynnal safonau gofynnol dryw'r amod cofrestru gorfodol yn ymwneud ag ansawdd. Yn dilyn unrhyw asesiad ansawdd neu arolygiad, bydd yn ofynnol i ddarparwyr gyhoeddi'r camau gweithredu y maent yn bwriadu eu cymryd, a bydd y Comisiwn yn gallu cymryd ystod o gamau rheoleiddiol ar sail yr hyn a adroddwyd, gan gynnwys rhoi cyngor ac arweiniad, gweithredu trefniadau monitro ac adolygu ansawdd uwch, a rhoi cyfarwyddyd i ddarparwyr cofrestredig mewn achosion mwy difrifol.
- 3.197 Yn y pen draw, gall darparwr cofrestredig sy'n methu'n gyson â bodloni safonau ansawdd gofynnol gael ei ddadgofrestru a cholli'r hawl i gyllid cyhoeddus. Fodd bynnag, bydd y pŵer hwn ond yn cael ei ddefnyddio gan y Comisiwn os nad oes dewis arall.
- 3.198 Yn achos darparwyr nad ydynt wedi'u cofrestru, bydd y Comisiwn yn gallu cynnwys gofynion yn ymwneud â sicrhau safonau ansawdd gofynnol fel rhan o'i delerau ac amodau ar gyfer cyllid.
- 3.199 Yn achos darparwyr addysg drydyddol sy'n sefydliadau yn y sector addysg bellach ('sefydliadau addysg bellach'), bydd gan Weinidogion Cymru hefyd y pŵer i ymyrryd lle maent yn fodlon bod sail dros wneud hynny, fel y nodir yn y Bil (gweler paragraff 3.208 - 3.216).

Ymyrryd mewn perthynas ag ymddygiad sefydliadau addysg bellach

Y sefyllfa bresennol

- 3.200 Mae adran 57 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 ("Deddf 1992") yn galluogi Gweinidogion Cymru i ymyrryd mewn perthynas ag ymddygiad sefydliad yng Nghymru, yn y sector addysg bellach, os ydynt yn fodlon bod un neu fwy o'r amodau canlynol wedi'u bodloni:
- mae materion y sefydliad wedi neu yn cael eu camreoli gan ei gorff llywodraethu,
 - mae corff llywodraethu'r sefydliad wedi methu â chyflawni unrhyw ddyletswydd a roddwyd iddo gan neu at ddibenion unrhyw Ddeddf neu Fesur gan y Senedd,
 - mae corff llywodraethu'r sefydliad wedi ymddwyn neu'n bwriadu ymddwyn yn afresymol wrth arfer unrhyw bŵer neu gyflawni unrhyw ddyletswydd a roddwyd iddo gan neu o dan unrhyw Ddeddf neu Fesur gan y Senedd,
 - mae'r sefydliad yn perfformio'n sylweddol is nag y gellid ei ddisgwyl yn rhesymol o dan yr holl amgylchiadau iddo berfformio, neu'n mae'n methu neu'n debygol o fethu darparu addysg neu hyfforddiant o safon dderbyniol.

- 3.201 Os bodlonir un neu fwy o'r amodau uchod, gall Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn, ymyrryd fel a ganlyn:
- diswyddo pob un neu unrhyw rai o aelodau corff llywodraethu'r sefydliad;
 - penodi aelodau newydd i'r corff llywodraethu, os oes swyddi gwag (waeth sut y daethant yn wag);
 - cyfarwyddo corff llywodraethu i arfer ei bwerau a chyflawni ei ddyletswyddau, gan gynnwys:
 - cyfarwyddyd i arfer pwerau o dan adran 5(2)(b) i (f) a (h) o Fesur Addysg (Cymru) 2011 i gydweithio â phersonau neu gyrrff eraill megis sefydliad addysg bellach arall neu ysgol;
 - cyfarwyddo corff llywodraethu corfforaeth addysg bellach i ddiddymu'r sefydliad.

Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir ei chael

- 3.202 Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth ar gyfer diddymu adran 57 o Ddeddf 1992 ac ar gyfer aildeddfu'r swyddogaethau ymyrryd hyn. Byddai hyn yn rhoi pwerau Gweinidogion Cymru mewn deddfwriaeth Gymreig ac yn sicrhau bod y darpariaethau'n fwy clir a hygyrch.
- 3.203 Mae'r Bil, ar y cyfan, yn cadw'r sail dros ymyrryd a'r camau y gellir eu cymryd os bodlonir unrhyw un o'r amodau, ond hefyd yn nodi y gall Gweinidogion Cymru bellach ymyrryd drwy gyfarwyddyd yn hytrach na gorchymyn. Gwneir addasiadau eraill i ddiweddarau'r darpariaethau a sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r derminoleg a ddefnyddir mewn manau eraill yn y Bil.
- 3.204 Mae'r swyddogaethau ymyrryd yn cael eu cadw gan Weinidogion Cymru am eu bod yn ymestyn y tu hwnt i'r drefn reoleiddio a sefydlwyd gan y Comisiwn drwy gofrestru a thelerau ac amodau ar gyfer cyllid.
- 3.205 Gan y bydd perthynas bresennol Gweinidogion Cymru â'r sector addysg bellach o ran cyllid a rheoleiddio yn trosglwyddo i raddau helaeth i'r Comisiwn, mae'r Bil yn darparu bod y Comisiwn yn chwarae rôl ganolog wrth arfer y pwerau ymyrryd hyn.
- 3.206 Yn benodol, mae'r Bil yn gosod y Comisiwn dan ddyletswydd i hysbysu Gweinidogion Cymru os daw'n ymwybodol bod unrhyw rai o'r amodau ymyrryd wedi'u bodloni. Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru roi sylw i farn y Comisiwn wrth benderfynu p'un a ddylid arfer y swyddogaethau ymyrryd. Bydd cyngor gan y Comisiwn hefyd yn sicrhau bod Gweinidogion Cymru'n ystyried yr holl ffactorau perthnasol wrth benderfynu p'un ai ymyrryd ai peidio yn amgylchiadau penodol pob achos.
- 3.207 Yn ogystal, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Comisiwn cyn i'r pwerau ymyrryd gael eu harfer.
- 3.208 Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried bod y rôl hon yn cyd-fynd â swyddogaethau cyllido a rheoleiddio'r Comisiwn mewn perthynas â sefydliadau addysg bellach. Hefyd, bydd cynnwys y Comisiwn yn y broses o arfer y swyddogaethau hyn yn fodd i gadw llygaid ar y defnydd a wneir ohonynt ac yn darparu lefel ychwanegol o ddiogelwch i sefydliadau addysg bellach.

- 3.209 Mae'r swyddogaethau ymyrryd hyn yn hollbwysig wrth weithredu'r polisi i ddiogelu'r ddarpariaeth addysg bellach yng Nghymru. Fodd bynnag, yn y rhan fwyaf o achosion bydd y swyddogaethau ond yn cael eu defnyddio pan fydd y Comisiwn wedi defnyddio pob un o'i swyddogaethau ymyrryd ef neu pan os yw'r mater mor ddifrifol bod angen cymryd camau ar frys.
- 3.210 Mae'r Bil hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi ac adolygu datganiad ar y polisi ymyrryd sy'n amlinellu sut y bydd y pwerau ymyrryd hyn yn cael eu harfer. Cyn cyhoeddi'r datganiad, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r personau y mae'n eu ystyried yn briodol. Bydd y datganiad ar y swyddogaethau ymyrryd yn amlinellu materion fel sut a phryd y bydd Gweinidogion Cymru'n rhoi hysbysiad o'r cyfarwyddyd arfaethedig, sut y dylai corff llywodraethu ymateb i hysbysiad o'r fath, a sut a phryd y dylai Gweinidogion Cymru egluro'r rhesymau am unrhyw benderfyniadau a wneir ganddynt. Mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru osod copi o'r datganiad cyhoeddedig gerbron y Senedd.

Cynaliadwyedd ariannol - dyletswydd i fonitro ac adrodd ar gynaliadwyedd ariannol

- 3.211 Mae'r Bil yn rhoi'r Comisiwn dan ddyletswydd i fonitro ac adrodd ar gynaliadwyedd ariannol darparwyr addysg drydyddol penodol. Mae'r rhain yn:
- darparwyr cofrestredig;
 - darparwyr yng Nghymru o fewn y sector addysg bellach a ariennir gan y Comisiwn o dan adran 106 o'r Bil nad ydynt yn ddarparwyr cofrestredig;
 - darparwyr addysg drydyddol eraill o fath a bennir mewn rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru.
- 3.212 Bydd y gofyniad hwn yn helpu i sicrhau bod Gweinidogion Cymru'n cael gwybod am y sefyllfa ariannol gyfredol ac yn y dyfodol yn y sectorau a'r grwpiau hynny o ddarparwyr y mae'r ddyletswydd yn berthnasol iddynt. Gall yr wybodaeth hon hefyd fod yn gyfle i'r Comisiwn nodi a chynghori ar dueddiadau neu faterion sy'n dod i'r amlwg a allai effeithio ar gynaliadwyedd ariannol addysg ôl-16 yng Nghymru yn y dyfodol.
- 3.213 Er y bydd y ddyletswydd hon yn ffurfioli'r gofynion hyn mewn deddfwriaeth, nid yw Llywodraeth Cymru yn ei hystyried yn newid sylweddol i'r arfer presennol lle mae CCAUC yn llunio ac yn cyhoeddi cylchlythyr blynyddol ar sefyllfa ariannol darparwyr addysg uwch yng Nghymru.
- 3.214 Bydd gofyn i'r Comisiwn gynnwys crynodeb o sefyllfa ariannol gyfredol y darparwyr a gaiff eu monitro o dan y ddyletswydd hon yn yr adroddiad blynyddol y mae'n ei gyflwyno i Weinidogion Cymru. Dylai'r crynodeb gwmpasu'r flwyddyn ariannol y mae'r adroddiad blynyddol yn gysylltiedig â hi a gall gynnwys data cymharol ar gyfer blynyddoedd blaenorol.
- 3.215 Mae'r Bil hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn gyflwyno adroddiad ar wahân i Weinidogion Cymru sy'n crynhoi rhagolwg ariannol y darparwyr y mae'n eu monitro. Bydd yr adroddiad hwn yn crynhoi casgliadau'r Comisiwn ar dueddiadau, patrymau neu faterion eraill sydd wedi dod i'r amlwg y mae'n ystyried ei bod yn briodol eu tynnu i sylw Gweinidogion Cymru. Rhaid i'r Comisiwn gyflwyno'r adroddiad ar y rhagolwg ariannol i Weinidogion Cymru ar yr un pryd â'r adroddiad blynyddol.

3.216 Rhagwelir y bydd y Comisiwn yn gallu defnyddio'r wybodaeth y mae'n ei chasglu gan ddarparwyr i ddangos cydymffurfiaeth â'r amodau cofrestru neu delerau ac amodau cyllid fel ffordd o fonitro ac adrodd ar gynaliadwyedd ariannol.

Rhan 3 - Sicrhau a chyllido addysg drydyddol ac ymchwil

Cyflwyniad

3.217 Bydd diddymu CCAUC a sefydlu'r Comisiwn yn gofyn am drefniadau diwygiedig ar gyfer cynllunio a chyllido addysg drydyddol. Hefyd, bydd angen trosglwyddo i'r Comisiwn rai swyddogaethau cyllido penodol a gyflawnir gan Weinidogion Cymru a CCAUC ar hyn o bryd.

3.218 Y bwriad polisi cyffredinol yw bod y Comisiwn yn gallu cyllido addysg drydyddol yng Nghymru ar gyfer y rheini sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru. Bydd y Comisiwn hefyd yn gallu cyllido gweithgareddau ymchwil ac arloesi a gynhelir gan ddarparwyr yng Nghymru sydd wedi'u cofrestru mewn categori a bennir mewn rheoliadau, a wnaed gan Weinidogion Cymru.

3.219 Y nod cyffredinol yw darparu bod y strwythurau cyllido'n cael eu hamlinellu mewn un lle ar wyneb y Bil, ond bod y darpariaethau'n cael eu strwythuro o amgylch mecanweithiau deddfwriaethol blaenorol lle maent yn bodloni'r bwriad polisi cyffredol, gyda rhai addasiadau er mwyn sicrhau bod swyddogaethau cyllido'r Comisiwn yn cyd-fynd â'r system gofrestru newydd.

Cyllido'r Comisiwn

Y sefyllfa bresennol

3.220 Mae'r trefniadau presennol ar gyfer cynllunio a chyllido addysg drydyddol ac ymchwil wedi'u rhannu rhwng swyddogaethau Gweinidogion Cymru a swyddogaethau CCAUC.

3.221 Mae addysg a hyfforddiant ôl-16, heblaw addysg uwch, wedi'i chyllido'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru ers 2006. Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru'n dyrannu cyllid i sefydliadau addysg bellach drwy grantiau rheolaidd, yn sefydlu contractau gydag amrywiaeth o ddarparwyr addysg a hyfforddiant er mwyn cyflenwi prentisiaethau o dan lefel gradd, yn dyfarnu cyllid i awdurdodau lleol i gefnogi addysg chweched dosbarth ysgolion a hefyd yn cyllido amrywiaeth o ddarpariaeth ddysgu i oedolion yn y gymuned.

3.222 Mae Gweinidogion Cymru'n darparu cyllid i CCAUC ar gyfer addysg uwch, gan gynnwys prentisiaethau ar lefel gradd, ac mae CCAUC yn ei dro yn dyrannu cyllid i sefydliadau cymwys.

3.223 Caiff Gweinidogion Cymru roi grantiau i CCAUC ar gyfer darpariaeth addysg uwch o dan adran 68 o Ddeddf 1992 ac ar gyfer hyfforddiant athrawon o dan adran 88 o Ddeddf Addysg 2005. Gallant bennu telerau ac amodau ar gyfer cyllid o'r fath o fewn ffiniau'r adrannau hynny, a chânt hefyd, os ydynt yn dymuno, neilltuo'r grantiau.

- 3.224 Ar hyn o bryd, mae'r cyllid a ddarperir i CCAUC gan Weinidogion Cymru at ddiben cefnogi addysg uwch yn gyllid heb ei neilltuo, a mater i CCAUC yw penderfynu sut i ddyrannu'r adnoddau hyn gan ystyried blaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Mae Gweinidogion Cymru'n rhoi canllawiau anstatudol i CCAUC ar eu blaenoriaethau polisi a hynny ar ffurf llythyr cylch gwaith blynyddol, ac maent hefyd yn gosod telerau ac amodau ar ffurf "Dogfen Fframwaith" sy'n ategu'r cyllid a ddarperir i CCAUC.
- 3.225 Caiff Gweinidogion Cymru hefyd ddefnyddio eu pwerau o dan adran 68 o Ddeddf 1992 i ddarparu grantiau i CCAUC at ddiben cefnogi ymchwil a wneir gan sefydliadau addysg uwch yng Nghymru. Ni all CCAUC gyllido gweithgareddau ymchwil ac arloesi heblaw am y rheini a wneir gan sefydliadau addysg uwch. Mae CCAUC yn cyllido capasiti a seilwaith ymchwil drwy gyllid heb ei neilltuo ar gyfer Ymchwil cysylltiedig ag Ansawdd. Caiff y cyllid hwn ei ddsbarthu ar sail perfformiad yn y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil, sy'n seiliedig ar fesurau rhagoriaeth ymchwil academaidd.
- 3.226 Yn ogystal, gall Gweinidogion Cymru gyllido rhai gweithgareddau ymchwil ac arloesi'n uniongyrchol. Er enghraifft, o dan adran 5 o Ddeddf Gwyddoniaeth a Thechnoleg 1965, maent yn gallu cyllido ymchwil gwyddoniaeth a thechnoleg, gan gynnwys ei lledaenu a ymchwilio ymhellach i ganlyniadau.
- 3.227 Yn ogystal, o dan adran 10 o Ddeddf Addysg Uwch 2004 ("Deddf 2004"), caiff Gweinidogion Cymru gynnal neu gefnogi ymchwil yn ymwneud â'r celfyddydau a dyniaethau, a lledaenu canlyniadau ymchwil o'r fath er mwyn parhau i gymhwyso'r ymchwil yn ymarferol. Bydd Gweinidogion Cymru'n cadw eu pwerau o dan y Deddfau hyn.

Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir ei chael

- 3.228 Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth i Weinidogion Cymru allu cyllido'r Comisiwn a phennu telerau ac amodau ar gyfer y cyllid hwn. I ddiogelu awtonomi sefydliadol a rhyddid academaidd (gweler paragraff 3.117 – 3.118 hefyd), mae'r Bil yn darparu ar gyfer cyfyngiadau penodol i'r telerau ac amodau y gellir eu gosod gan Weinidogion Cymru.
- 3.229 Yn gyntaf, er y bydd Gweinidogion Cymru'n gallu pennu telerau ac amodau ar gyfer categorïau o ddarparwyr addysg drydyddol, ni fyddant yn gallu pennu telerau ac amodau ar gyfer gweithgareddau darparwyr unigol.
- 3.230 Yn ail, mae'r Bil yn atal Gweinidogion Cymru rhag pennu telerau ac amodau'n ymwneud â'r meini prawf ar gyfer dethol, penodi neu ddiswyddo staff academaidd, gan gynnwys sut caiff y meini prawf hynny eu cymhwyso, neu'r meini prawf ar gyfer derbyn dysgwyr a sut y caiff y rheini eu cymhwyso.
- 3.231 Yn olaf, er y gall Gweinidogion Cymru bennu telerau ac amodau'n ymwneud â meysydd ymchwil ac arloesi a nodir yng nghynllun strategol y Comisiwn a chyrsgiau addysg uwch unigol, mae'r Bil yn darparu nad yw'r telerau ac amodau hyn yn nodi:
- rhannau penodol o gyrsgiau;
 - rhaglenni ymchwil penodol neu brosiectau arloesi penodol;
 - cynnwys cyrsiau astudio neu raglenni ymchwil neu brosiectau arloesi; neu

- y dull o addysgu, goruchwylio neu asesu cyrsiau, rhaglenni neu brosiectau o'r fath, ac eithrio astudiaethau drwy gyfrwng y Gymraeg.

- 3.232 Caiff Gweinidogion Cymru gynnwys, o fewn y telerau ac amodau, ofyniad ar y Comisiwn i ymrwmo i gytundebau canlyniadau gyda'r darparwr y mae'r Comisiwn yn bwriadu darparu cyllid iddo. Gallai hyn fod yn berthnasol i unrhyw ddarparwr a gaiff arian gan y Comisiwn, waeth a yw wedi'i gofrestru neu beidio.
- 3.233 Mae'r Bil yn diffinio cytundeb canlyniadau fel cytundeb rhwng y Comisiwn a'r darparwr y mae'r Comisiwn yn bwriadu darparu adnoddau ariannol iddo, sy'n nodi'r gweithgareddau sydd i'w cyflawni gan y darparwr hwnnw at ddibenion cyfrannu at y gwaith o weithredu cynllun strategol cymeradwy'r Comisiwn.
- 3.234 Y Comisiwn fydd yn gyfrifol am Gytundebau Deilliannau a'u bwriad, lle nodir hynny yn y telerau ac amodau, yw bod yn sail i "ymrwymadau perfformiad" sydd ynghlwm wrth gyllid. Byddai'r dull hwn yn darparu llwybr clir o ddatganiad o flaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru trwy gynllun strategol y Comisiwn i weithgareddau darparwyr. Bwriedir i'r Cytundebau Deilliannau gael eu cyd-gynhyrchu trwy drafodaethau rhwng y Comisiwn a'r cyrff a ariennir.
- 3.235 Ar hyn o bryd, rhagwelir y gallai'r rhai sy'n derbyn cyllid - ac sy'n debygol o orfod llunio cytundeb deilliannau gyda'r Comisiwn - yn cynnwys y canlynol:
- awdurdodau lleol (mewn perthynas â chyllid ar gyfer chweched dosbarth ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol ac o bosib addysg gymunedol i oedolion),
 - darparwyr addysg bellach a thrydyddol – efallai na fydd gofyn iddynt gofrestru yn y tymor byr (gallai hyn gynnwys sefydliadau addysg bellach a darparwyr hyfforddiant eraill o bosib, yn dibynnu ar gwmpas yr amodau a thelerau).
- 3.236 Gall Gweinidogion Cymru glustnodi symiau penodol o'u dyraniadau cyllid i'r Comisiwn ar gyfer dibenion penodol neu brosiectau arbennig. Bydd y Bil yn galluogi Gweinidogion Cymru i roi cyllid i'r Comisiwn ar gyfer cyrsiau astudio penodol y mae'r Comisiwn yn cytuno i'w cyllido. Fodd bynnag, ni fydd Gweinidogion Cymru'n gallu rhwymo'r Comisiwn i wneud unrhyw beth a fyddai'n golygu ei bod yn ofynnol i'r Comisiwn fynnu bod cyrsiau o'r fath yn cael eu darparu.
- 3.237 Mae'r Bil yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyllido'n uniongyrchol ystod gyfyngedig o gyrsiau addysg uwch ac mae'n cadw eu gallu i gyllido addysg bellach a hyfforddiant yn uniongyrchol. Mae'r darpariaethau hyn yn atgynhyrchu'n gyffredinol swyddogaethau presennol Gweinidogion Cymru o dan Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 ("Deddf 2000"), ac maent yn angenrheidiol er mwyn gallu parhau i gyllido'r mentrau a gyllidir gan Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd, megis Cymru'n Gweithio, yn y tymor byr a'r tymor canolig.
- 3.238 Ni fydd gan Weinidogion Cymru bŵer i gyllido'n uniongyrchol addysg uwch yn gyffredinol.

Cyllido addysg uwch

Y sefyllfa bresennol

3.239 Cyfrifoldeb CCAUC yw penderfynu sut caiff y cyllid grant a gaiff gan Weinidogion Cymru ei ddyrannu i sefydliadau unigol. Caiff CCAUC bennu telerau ac amodau ar gyfer cymorth ariannol a ddarperir i sefydliadau, fel y gwel yn dda. Mae'r swm a ddyrennir gan CCAUC ar gyfer cefnogi addysg uwch wedi gostwng yn sylweddol o ganlyniad i'r system ffioedd dysgu a chymorth myfyrwyr a gyflwynwyd o flwyddyn academaidd 2012/13. Y brif ffynhonnell o gyllid ar gyfer addysg uwch yng Nghymru bellach yw incwm ffioedd dysgu yn hytrach na chyllid grant blynyddol gan CCAUC.

Diben y deddfwriaeth a'r effaith y bwriedir ei chael

- 3.240 Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth i'r Comisiwn allu dyrannu cyllid i ddarparwyr addysg uwch sydd wedi'u cofrestru mewn categori a nodwyd mewn rheoliadau. Pwrpas cyllid o'r fath yw cefnogi addysg uwch a ddarperir gan neu ar ran darparwyr cofrestredig, a hefyd cyfleusterau a gweithgareddau eraill sy'n gysylltiedig ag addysg uwch y mae'r darparwr cofrestredig yn eu hystyried yn ddymunol. Mater i'r Comisiwn fydd penderfynu ar y dyraniadau cyllid i ddarparwyr cymwys ar gyfer gweithgareddau cymwys.
- 3.241 Bydd Gweinidogion Cymru'n nodi mewn rheoliadau y categori cofrestru sy'n ofynnol er mwyn i ddarparwyr fod yn gymwys i gael cyllid gan y Comisiwn.
- 3.242 Bydd darparwyr sy'n cael cyllid addysg uwch gan y Comisiwn yn gallu trosglwyddo cyllid i gorff sy'n cydlafurio, yn amodol ar gydsyniad y Comisiwn.
- 3.243 Y bwriad yw caniatáu cyllido gweithgareddau cydweithredol pan fo darparwr wedi'i gofrestru mewn categori a bennir gan Weinidogion Cymru mewn rheoliadau, ac yn gweithio mewn partneriaeth â darparwr arall (nad yw wedi'i gofrestru) i ddarparu cyrsiau neu weithgareddau a ddylai elwa ar gyllid cyhoeddus ym marn y Comisiwn.
- 3.244 Bydd y Comisiwn yn rheoleiddio'r broses o drosglwyddo cyllid o'r fath, a chyfrifoldeb y darparwyr cofrestredig fydd rhoi cyfrif am y defnydd o'r cyllid cyhoeddus a chydymffurfio ag unrhyw delerau ac amodau a bennir gan y Comisiwn.
- 3.245 Yn ogystal â chyllido addysg uwch a gweithgareddau cysylltiedig a ddarperir gan neu ar ran ddarparwyr a gofrestrwyd mewn categori a bennir mewn rheoliadau, bydd y Comisiwn yn gallu cyllido cyrsiau addysg uwch penodedig y tu allan i'r system gofrestru. Y rhesymeg dros hyn yw ei bod yn bosibl na fydd darparwyr addysg uwch penodol yn gallu cofrestru â'r Comisiwn yn y categorïau a bennir mewn rheoliadau, neu eu bod ond yn cynnig darpariaeth addysg uwch gyfyngedig iawn yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru neu i ddysgwyr sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru.
- 3.246 Bydd Gweinidogion Cymru'n gallu nodi mewn rheoliadau y disgrifiad o'r cyrsiau sy'n gymwys am gyllid gan y Comisiwn, drwy gyfeirio at:
- y gofynion y mae'n rhaid i gwrs eu bodloni,
 - y mathau o ddarparwyr, a
 - y cymwysterau y mae'r cyrsiau'n arwain atynt.
- 3.247 O ran addysg cychwynnol athrawon ar gyfer y gweithlu ysgolion, dim ond cyrsiau addysg gychwynnol athrawon sy'n arwain at statws athro cymwysedig a achredir gan Gyngor y Gweithlu Addysg ddylai fod yn gymwys i gael cyllid gan y Comisiwn. Mae'r Bil yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth ynghylch y mater hwn

drwy reoliadau. Yn ogystal, bydd Gweinidogion Cymru'n cadw eu swyddogaethau presennol o dan Ddeddf Addysg 2002 ("Deddf 2002") er mwyn gallu cyllido addysg gychwynol athrawon.

3.248 Fel sydd eisoes yn wir yn achos CCAUC, bydd y Comisiwn yn gallu pennu telerau ac amodau ar gyfer ei gyllid fel y bo'n briodol yn ei farn ef (yn amodol ar gyfyngiadau penodol), a bydd yn ofynnol iddo ymgynghori ar ei delerau ac amodau arfaethedig cyn eu cymhwyso.

Cyllido addysg bellach a hyfforddiant (gan gynnwys y ddarpariaeth chweched dosbarth)

Y sefyllfa bresennol

3.249 Mae Deddf 2000 yn darparu bod yn rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau bod:

- cyfleusterau rhesymol yn cael eu darparu ar gyfer addysg a hyfforddiant (heblaw am addysg uwch) sy'n addas ar gyfer gofynion personau sy'n hŷn na'r oedran ysgol gorfodol ond heb gyrraedd 19 oed;
- cyfleusterau rhesymol yn cael eu darparu ar gyfer addysg a hyfforddiant (heblaw addysg uwch) sy'n addas ar gyfer gofynion personau sy'n 19 oed neu'n hŷn.

3.250 Bydd y ddwy ddyletswydd hon yn golygu y bydd Gweinidogion Cymru'n rhoi blaenoriaeth i ddiwallu anghenion dysgu a sgiliau pobl ifanc hyd at 19 oed ar hyn o bryd.

3.251 Mae Gweinidogion Cymru hefyd dan ddyletswydd i hyrwyddo cyfranogiad mewn addysg a hyfforddiant ôl-16 ac annog cyflogwyr i ymwneud â'r broses o'i chefnogi a'i darparu.

3.252 Caiff Gweinidogion Cymru ddarparu adnoddau ariannol i (ymhlith eraill):

- personau sy'n darparu neu'n bwriadu darparu addysg a hyfforddiant ôl-16,
- personau sy'n darparu nwyddau neu wasanaethau mewn cysylltiad â darpariaeth addysg a hyfforddiant ôl-16 gan eraill,
- personau sy'n cynnal ymchwil yn ymwneud ag addysg a hyfforddiant, a
- personau sy'n derbyn neu'n bwriadu derbyn addysg a hyfforddiant ôl-16.

3.253 Yn ogystal â chyllido darpariaeth addysg a hyfforddiant ôl-16, gall yr adnoddau ariannol gynnwys cymorth ariannol i'r rheini sy'n derbyn neu'n bwriadu derbyn addysg bellach a hyfforddiant; er enghraifft dyfarniadau i ddysgwyr a ddsberthir gan ddarparwyr.

3.254 Mae Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 (drwy ddiwygio Deddf 2000) yn darparu ar gyfer gallu dysgwyr 16 i 19 yng Nghymru i ddewis dilyn cyrsiau astudio o gwricwlwm lleol. Diwygiodd y Mesur ddyletswydd Gweinidogion Cymru i sicrhau cyfleusterau priodol ar gyfer addysg a hyfforddiant pobl ifanc 16 i 19 oed, gan nodi bod cyfleusterau'n briodol os ydynt yn bodloni gofynion y cwricwlwm lleol o dan adran 33F o Ddeddf 2000.

3.255 Ar hyn o bryd, mae'n ddyletswydd ar Weinidogion Cymru i lunio'r cwricwlwm lleol ar gyfer dysgwyr 16 i 19. Mae'r cwricwlwm lleol yn cynnwys isafswm cyrsiau ar gyfer

cwricwlwm lleol a dylai cwricwla lleol gynnwys ystod eang o gyrsiau academaidd a galwedigaethol.

- 3.256 Rhaid i awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu a phenaethiaid ysgolion a gynhelir gan yr awdurdodau lleol a chyrrff llywodraethu a phrifathrawon sefydliadau addysg bellach helpu Gweinidogion Cymru i gynllunio'r cwricwlwm lleol.. Mae cynllunio'r cwricwla lleol yn golygu'r broses a ddilynir gan Weinidogion Cymru, mewn ymgynghoriad â phartneriaid, i benderfynu pa gyrsiau i'w cynnwys.
- 3.257 Gall Gweinidogion Cymru osod amodau ar gyfer y cyllid a ddyrennir ganddynt, megis caniatáu mynediad i ddogfennau a chyfrifon a'i gwneud yn ofynnol i berson sy'n derbyn cyllid ddarparu unrhyw wybodaeth y mae Gweinidogion Cymru'n gofyn amdani. Gall Gweinidogion Cymru hefyd fynnu bod darparwyr addysg a hyfforddiant ôl-16 yn codi ffioedd, yn gwneud dyfarniadau ac yn adennill symiau o arian ar sail meini prawf penodedig.
- 3.258 Ar hyn o bryd mae Gweinidogion Cymru'n rhoi memorandwm ariannol i sefydliadau a ariennir sydd, ynghyd â'r llythyr grant blynyddol, yn amlinellu'r amodau a osodwyd ar gyfer grantiau neu gymorth grant.
- 3.259 O ran y ddarpariaeth chweched dosbarth mewn ysgolion, caiff Gweinidogion Cymru roi grantiau i awdurdodau lleol ar y amod bod y grantiau hynny'n cael eu cymhwyso fel rhan o gyllideb ysgolion yr awdurdod, a'u bod yn cael eu defnyddio at ddiben neu at ddibenion sy'n gysylltiedig â darparu addysg mewn ysgolion sy'n addas ar gyfer gofynion personau sy'n hŷn na'r oedran ysgol gorfodol. Mae dyraniadau o'r fath yn cefnogi darpariaeth chweched dosbarth ysgolion.
- 3.260 Yn ogystal â'r swyddogaethau uchod o dan Ddeddf 2000, mae gan Weinidogion Cymru swyddogaethau o dan Ddeddf 2002 hefyd sy'n gysylltiedig â chyllid. Mae Adran 14 o Ddeddf 2002 yn darparu pŵer cyffredinol i Weinidogion Cymru allu rhoi cymorth ariannol i unrhyw berson at ddibenion amrywiol yn ymwneud ag addysg. Mae hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i roi neu wneud trefniadau i roi cymorth ariannol, er enghraifft o dan y Lwfans Cynhaliadau Addysg a Grant Dysgu Llywodraeth Cymru – Addysg Bellach. Y bwriad yw bod Gweinidogion Cymru'n cadw'r swyddogaethau hyn.

Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir ei chael

- 3.261 Bydd yn ofynnol i'r Comisiwn sicrhau bod cyfleusterau'n cael eu darparu yng Nghymru ar gyfer addysg bellach a hyfforddiant i bobl ifanc dros 16 oed, ond nad ydynt wedi cyrraedd 19 oed, ac ar gyfer oedolion dros 19 oed. Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant galwedigaethol, cymdeithasol, corfforol a hamdden, ac ystod eang o weithgareddau trefnedig sy'n cynnig cyfleoedd ar gyfer mathau anffurfiol o ddysgu.
- 3.262 Mae'r dyletswyddau hyn yn seiliedig ar sicrhau bod cyfleusterau 'priodol' neu gyfleusterau 'rhesymol' yn cael eu darparu.
- 3.263 Mae'r cyfleusterau'n 'briodol' os ydynt:
- os ydynt yn ddigonol i ddiwallu anghenion rhesymol unigolion;
 - o ansawdd digonol i ddiwallu'r anghenion hynny;
 - mewn perthynas â phobl ifanc 16 i 19 oed, yn ddigonol i fodloni'r hawliau a roddwyd o dan adran 33F o Ddeddf 2000.

- 3.264 Mae cyfleusterau'n rhesymol os ydynt, gan ystyried adnoddau'r Comisiwn, o'r fath faint ac ansawdd y gellir disgwyl yn rhesymol i'r Comisiwn sicrhau eu darpariaeth.
- 3.265 Rhaid i'r Comisiwn sicrhau bod cyfleusterau 'priodol' yn cael eu darparu yng Nghymru ar gyfer:
- addysg bellach a hyfforddiant o ansawdd a maint sy'n addas i ofynion pobl ifanc sy'n 16 oed neu'n hŷn ond nad ydynt wedi cyrraedd 19 oed;
 - 'addysg a hyfforddiant perthnasol' o ansawdd a maint sy'n addas i ofynion personau 'cymwys' dros 19 oed.
- 3.266 Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n pennu addysg a hyfforddiant perthnasol at ddibenion y ddyletswydd i sicrhau cyfleusterau priodol i oedolion dros 19 oed. Gellir pennu addysg berthnasol drwy gyfeirio at faterion sy'n cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, pwnc, lefel astudio neu fath o gymhwyster.
- 3.267 Bwriad y dull o ddiffinio addysg berthnasol mewn is-ddeddfwriaeth, yn hytrach nag ar wyneb y Bil, yw cydbwysu sefydlu isafswm hawl i addysg bellach a hyfforddiant i bobl dros 19 oed a galluogi diwygio'r hawl honno dros amser, er mwyn sicrhau ei bod yn parhau'n addas ar gyfer y dyfodol.
- 3.268 Oedolion 'cymwys' yw'r rhai sydd dros 19 oed ac sy'n bodloni'r meini prawf a nodir mewn rheoliadau y caiff Gweinidogion Cymru eu gwneud. Bydd galluogi Gweinidogion Cymru i bennu cymhwysedd mewn rheoliadau yn helpu i sicrhau bod ymrwymiad estynedig i addysg oedolion yn cael ei dargedu at y rhai sydd ei angen fwyaf, ac yn cyfrannu at anghenion cymdeithasol ac economaidd ehangach Cymru.
- 3.269 Bydd dyletswydd ar y Comisiwn hefyd i sicrhau bod cyfleusterau rhesymol ar gael ar gyfer addysg bellach a hyfforddiant i oedolion sy'n 19 oed neu'n hŷn. Mae hyn yn barhad o'r ddyletswydd bresennol ar Weinidogion Cymru.
- 3.270 Wrth gyflawni'r dyletswyddau hyn, bydd angen i'r Comisiwn roi blaenoriaeth i ddiwallu anghenion dysgu a sgiliau'r grŵp oedran iau a'r oedolion hynny dros 19 oed sy'n bodloni'r meini prawf a nodir mewn rheoliadau a wneir gan Weinidog Cymru (ar gyfer addysg a hyfforddiant a bennir mewn rheoliadau). Mae hyn yn ehangu'r polisi presennol.
- 3.271 Wrth gyflawni'r dyletswyddau hyn hefyd, bydd yn ofynnol i'r Comisiwn ystyried materion fel y manau lle caiff y cyfleusterau eu darparu, nodweddion y cyfleusterau a galluoedd a doniau'r personau gwahanol.
- 3.272 Bydd gofyn i'r Comisiwn wneud y defnydd gorau o'i adnoddau, ac yn benodol osgoi darpariaeth a allai arwain at wariant anghymesur. Gwariant anghymesur yw gwariant sydd naill ai'n ormodol neu'n annigonol, er nad yw o reidrwydd yn wastraffus, yng nghyd-destun swyddogaethau a gwariant cyffredinol y Comisiwn. Ni ddylid ystyried bod darpariaeth yn arwain at wariant anghymesur dim ond oherwydd ei fod yn fwy drud na darpariaeth gymharol arall.
- 3.273 Mae'r cynigion uchod â goblygiadau i'r ffordd y bydd darpariaethau Deddf 2000 yn gweithio yn y dyfodol. Mae'r Bil yn darparu ar gyfer diwygiadau i sicrhau bod

hawliau dysgwyr ôl-16 yn parhau i gael eu cyflawni a bod modd cymryd camau gorfodi os oes angen.

- 3.274 Y bwriad yw cadw hawliau presennol dysgwyr 16 i 19, a bod y Comisiwn yn gyfrifol am lunio cwricwla lleol yn unol â'i gyfrifoldebau i gynllunio a chyllido addysg a hyfforddiant ôl-16 a sicrhau cyfleusterau priodol ar gyfer dysgwyr 16 i 19.
- 3.275 Bydd y Bil hefyd yn galluogi Gweinidogion Cymru i barhau i gefnogi'r gwaith o ddatblygu a chynllunio cwricwla lleol ar gyfer dysgwyr 16 i 19 yn y dyfodol. Ar hyn o bryd, mae gan Weinidogion Cymru bwerau i ddiwygio'r meysydd dysgu sy'n sail i'r cwricwlwm 16 i 19 lleol a hefyd i bennu a ddylai cwrs gael ei gynnwys mewn maes dysgu penodol. Bydd Gweinidogion Cymru'n cadw'r bwerau hyn a bydd y Bil yn ei gwneud yn ofynnol iddynt ymgynghori â'r Comisiwn wrth gyflawni'r bwerau.
- 3.276 I alluogi'r Comisiwn i gyflawni ei ddyletswyddau mewn perthynas ag addysg bellach a hyfforddiant, bydd ganddo'r pŵer i gyllido personau sy'n darparu neu'n bwriadu darparu addysg a hyfforddiant ôl-16. Bydd hyn yn cynnwys colegau addysg bellach a darparwyr hyfforddiant preifat. Yn ogystal, bydd y Comisiwn yn gallu cyllido gwasanaethau gan sefydliadau nad ydynt yn ddarparwyr eu hunain, ond sy'n cefnogi'r ddarpariaeth addysg a hyfforddiant ôl-16 drwy ddarparu nwyddau a gwasanaethau. Bydd y Comisiwn hefyd yn gallu cynnig cymorth ariannol i ddysgwyr addysg bellach a darpar ddysgwyr addysg bellach. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, dyfarniadau i ddysgwyr a ddsberthir gan sefydliadau addysg bellach.
- 3.277 Bydd y Comisiwn yn gallu rhoi grantiau i awdurdodau lleol ar yr amod bod grantiau o'r fath yn rhan o gyllideb ysgolion yr awdurdod, a bod y grantiau'n cael eu defnyddio at ddiben neu ddibenion sy'n gysylltiedig â darparu addysg gan ysgolion sy'n addas ar gyfer gofynion personau sy'n hŷn na'r oedran ysgol gorfodol.
- 3.278 Nid oes angen deddfwriaeth sylfaenol newydd i hwyluso gweithredu'r dulliau newydd o ddsbarthu cyllid rheolaidd o'r awdurdodau i ysgolion a gynhelir sydd â chweched dosbarth, gan fod Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 yn cynnwys y rheoliadau a'r darpariaethau angenrheidiol a waned o dan y Ddeddf honno. Mae hyn yn adeiladu ar y trefniadau sydd eisoes yn cael eu gweithredu gan Weinidogion Cymru.
- 3.279 Bydd y Comisiwn yn gallu gosod telerau ac amodau, fel y mae'n ystyried yn briodol, ar gyfer adnoddau ariannol a ddyrennir at ddibenion addysg bellach a hyfforddiant. Bydd hyn yn caniatáu i'r Comisiwn osod gofynion rheoleiddiol yn ymwneud â sicrwydd ariannol ac ansawdd addysg a hyfforddiant.
- 3.280 Lle mae'r Comisiwn yn cyllido addysg bellach neu hyfforddiant yng Nghymru, gall osod telerau ac amodau i'r cyllid hwnnw gan gynnwys mynnu bod y darparwyr yn llunio cynllun diogelu dysgwyr, yn cydymffurfio â gofynion y cod ymgysylltu â dysgwyr ac yn rhoi sylw i ganllawiau a roddir gan y Comisiwn.
- 3.281 Yn ogystal, bydd yn ofynnol i'r Comisiwn osod telerau ac amodau ar gyfer ei gyllid ar gyfer addysg bellach a hyfforddiant sy'n atal codi ffioedd ar ddysgwyr 16 i 19 h.y. unigolion sy'n hŷn na'r oedran ysgol gorfodol ond heb gyrraedd 19 oed.

Anghenion dysgu ychwanegol

Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir ei chael

3.282 Wrth gyflawni ei ddyletswyddau i sicrhau cyfleusterau priodol a rhesymol ar gyfer addysg bellach a hyfforddiant, a'i swyddogaethau cyllido o dan adrannau 94(1), 101(1) ac 101(2) o'r Bil, bydd gofyn i'r Comisiwn ystyried anghenion personau sydd ag anghenion dysgu ychwanegol ac a oes angen darparu cyfleusterau i gyflawni'r dyletswyddau o dan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 ("Deddf 2018").

3.283 Y bwriad yw y bydd y Comisiwn yn sicrhau cyfleusterau cyffredinol, priodol a rhesymol ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol, ac y bydd awdurdodau lleol yn gyfrifol am sicrhau a chyllido darpariaeth arbenigol i ungiolion, gan gynnwys unrhyw ddarpariaeth bwyd a llety angenrheidiol, o dan Deddf 2018.

Trefniadaeth chweched dosbarth ysgolion

Y sefyllfa bresennol

3.284 Caiff y broses ar gyfer agor, addasu neu gau ysgol a gynhelir gan awdurdod lleol a'r penderfyniad i agor neu gau chweched dosbarth ysgol, ynghyd â'r rôl sydd gan Weinidogion Cymru yn y penderfyniad hwnnw, eu hamlinellu yn Neddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ("Deddf 2013").

3.285 Ar hyn o bryd, mae gan Weinidogion Cymru y pŵer i gynnig agor ysgolion newydd â chweched dosbarth, ychwanegu chweched dosbarth i ysgol neu gau chweched dosbarth. Hynny er mwyn eu helpu, os oes angen, i gyflawni eu dyletswydd i sicrhau cyfleusterau priodol ar gyfer addysg a hyfforddiant i ddysgwyr 16 i 19.

Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir ei chael

3.286 Mae'r Bil yn diwygio Deddf 2013 i adlewyrchu bod y Comisiwn yn cymryd y cyfrifoldeb strategol i sicrhau cyfleusterau priodol ar gyfer addysg a hyfforddiant i ddysgwyr 16 i 19.

3.287 Mae pŵer Gweinidogion Cymru, o dan adrannau 71 i 76 o Ddeddf 2013, i ad-drefnu addysg chweched dosbarth yn cael ei ddileu, gyda'r Bil yn mewnosod Pennod 3A newydd yn Rhan 3 o Ddeddf 2013 yn lle hynny. Datblygwyd y darpariaethau newydd hyn, yn hytrach na diwygio'r pwerau presennol, er mwyn adlewyrchu'n well y newidiadau i'r sefyllfa reoleiddiol a achoswyd gan sefydlu'r Comisiwn. Bydd y darpariaethau yn y Bennod newydd hon yn galluogi'r Comisiwn i fabwysiadu dull mwy strategol, gan gynnig persbectif ehangach i ddarpariaeth chweched dosbarth mewn ysgolion a sicrhau y gall gefnogi dewis a dilyniant.

3.288 Bydd y Comisiwn yn cael ei alluogi i gyfarwyddo awdurdod lleol i arfer ei bwerau presennol yn Neddf 2013 i wneud cynigion ar gyfer:

- agor neu gau ysgol sydd ond yn darparu addysg chweched dosbarth, neu
- wneud newid rheoleiddiedig i ysgol, fel y diffinnir yn Atodlen 2 i Ddeddf 2013, a fyddai'n:
 - cynyddu'r ddarpariaeth addysg chweched dosbarth yn yr ysgol;
 - lleihau'r ddarpariaeth addysg chweched dosbarth yn yr ysgol.

- 3.289 Caiff y Comisiwn hefyd gyfarwyddo corff llywodraethu ysgol sefydledig neu wirfoddol i arfer ei bwerau presennol yn Neddf 2013 i wneud cynigion ar gyfer gwneud newid rheoleiddiedig i'r ysgol, a fyddai'n:
- cynyddu'r ddarpariaeth addysg chweched dosbarth amser llawn yn yr ysgol;
 - lleihau'r ddarpariaeth addysg chweched dosbarth amser llawn yn yr ysgol.
- 3.290 Bydd awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ysgolion sefydledig neu wirfoddol yn cadw'r swyddogaethau presennol mewn perthynas â chyflwyno cynigion ar gyfer trefnu chwech dosbarth mewn ysgolion. Ni fydd y darpariaethau a fewnosodir yn Neddf 2013 gan y Bil yn arwain at gollu unrhyw amddiffyniadau presennol mewn perthynas â chyhoeddi, ymgynghori a'r gallu i wrthwynebu cynigion, a bydd darpariaethau arwyddocaol eraill yn Neddf 2013 yn parhau yn eu lle.
- 3.291 Bydd y Comisiwn yn cael ei alluogi, o dan yr amgylchiadau cyfyngedig a nodir mewn diwygiadau i Ddeddf 2013, i wneud ei gynigion ei hun sy'n effeithio ar addysg chweched dosbarth. Rhaid i'r Comisiwn sicrhau cydsyniad Gweinidogion Cymru cyn gwneud cynnig i gynyddu neu leihau'r ddarpariaeth addysg chweched dosbarth amser llawn mewn ysgol sefydledig neu wirfoddol sy'n darparu addysg amser llawn sy'n addas i ofynion disgyblion o oedran ysgol gorfodol.
- 3.292 Bydd pob cynnig a wneir gan y Comisiwn yn ddarostyngedig i ofynion mewn perthynas â chyhoeddi, ymgynghori, y gallu i wrthwynebu, a chymeradwyo, sy'n unol â'r gofynion hynny ar gyfer cynigion a wneir gan awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu sydd eisoes wedi'u nodi yn Neddf 2013.
- 3.293 Bydd yn ofynnol i Weinidogion Cymru gymeradwyo unrhyw gynnis sy'n effeithio ar addysg chweched dosbarth y mae gwrthwynebiad ysgrifenedig wedi'i gyflwyno mewn perthynas ag ef, yn unol â gofyniad Deddf 2013, i'r cynigydd ac na chaiff ei dynnu'n ôl, yn ysgrifenedig, o fewn yr amserlen berthnasol. Bydd y gofyniad hwn yn gymwys i gynigion a wneir gan y Comisiwn neu gan awdurdod lleol neu gorff llywodraethu, gan gynnwys pan fo'r Comisiwn wedi cyfarwyddo'r awdurdod lleol neu'r corff llywodraethu i baratoi'r cynigion.
- 3.294 Bydd yn ofynnol i'r Comisiwn weithredu yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion statudol bob amser wrth arfer ei bwerau o dan Ddeddf 2013. Bydd yr amgylchiadau a'r cyfyngiadau ar yr hyn a allai sbarduno'r Comisiwn i gyfarwyddo awdurdod lleol neu gorff llywodraethu ysgol sefydledig neu wirfoddol i gyflwyno cynigion, a'r materion y bydd angen iddo eu hystyried wrth baratoi ei gynigion ei hun, yn destun ymgynghoriad ac yn cael eu cynnwys yn y Cod.

Cyllido gweithgareddau eraill sy'n gysylltiedig ag addysg drydyddol

Y sefyllfa bresennol

- 3.295 Ar hyn o bryd, caiff Gweinidogion Cymru gyllido cyfleusterau a gynlluniwyd i feithrin cysylltiadau rhwng cyflogwyr, darparwyr addysg a hyfforddiant a dysgwyr/darpar ddysgwyr.
- 3.296 Yn ogystal, caiff Gweinidogion Cymru roi cyllid ar gyfer darparu gwybodaeth, cyngor neu ganllawiau ynghylch addysg, hyfforddiant neu faterion cysylltiedig, gan gynnwys

cyflogaeth. Gallant ddsbarthu'r cyllid eu hunain neu drefnu i eraill wneud hynny. Gall Gweinidogion Cymru ddarparu adnoddau ariannol neu wneud trefniadau i rywun arall wneud hynny, neu drefnu bod y ddarpariaeth yn cael ei gwneud ar y cyd.

Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir ei chael

3.297 Bydd y Comisiwn yn gallu cyllido cyfleusterau a gynlluniwyd i feithrin cysylltiadau rhwng addysg drydyddol a chyflogwyr, a hefyd gwybodaeth, cyngor a chanllawiau i bobl ar gyfleoedd dysgu a materion cysylltiedig, gan gynnwys cyflogaeth. Er enghraifft, gallai'r Comisiwn ddewis cyllido profiad gwaith ar gyfer dysgwyr ôl-16, a gall weithio mewn partneriaeth â chyrrff eraill i helpu i sicrhau bod gwybodaeth, cyngor a chanllawiau'n cael eu darparu ar gyfleoedd dysgu a llwybrau tuag at gyflogaeth.

3.298 Wrth dalu am unrhyw beth y mae wedi'i rymuso i'w wneud, bydd y Comisiwn yn gallu defnyddio ei adnoddau ariannol ei hun, er enghraifft y grant a ddarperir gan Weinidogion Cymru, i helpu i drosglwyddo adnoddau ariannol o un person i'r llall, arall, ac i wneud unrhyw un o'r pethau hyn ar y cyd ag eraill.

Cyllido prentisiaethau

Y sefyllfa bresennol

3.299 Caiff prentisiaethau o dan lefel gradd eu cyllido gan Weinidogion Cymru drwy broses dendro sy'n cynnwys sefydliadau addysg bellach, darparwyr hyfforddiant annibynnol, awdurdodau lleol a sefydliadau trydydd sector.

3.300 Mae'n ofynnol i ddarparwyr prentisiaethau gadw at rwymedigaethau contractiol a amlinellir yn y cytundeb fframwaith a manyleb y rhaglen. Yn dilyn proses dendro drylwyr ac agored, caiff y fframweithiau eu dyfarnu ar gyfer cyfnod y tendr. Caiff comisiynau (neu contractau) ar gyfer rhaglenni eu dyfarnu'n i ddarparwyr yn flynyddol fel arfer.

3.301 Caiff prentisiaethau sydd islaw lefel gradd eu cyllido ar hyn o bryd drwy gontract rhwng Gweinidogion Cymru a darparwyr prentisiaethau, a chaiff y rhwydwaith o ddarparwyr ei gaffael drwy broses dendro gystadleuol bob ychydig o flynyddoedd.

3.302 Dechreuwyd darparu prentisiaethau gradd ym mis Medi 2018 ac maent yn cael eu cyllido drwy grant gan CCAUC.

Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir ei chael

3.303 Mae'r Bil yn darparu bod y Comisiwn yn cyllido'r gwaith o baratoi fframweithiau ar gyfer prentisiaethau Cymreig a darparu prentisiaethau Cymreig cymeradwy.

3.304 Bydd hyn yn galluogi'r Comisiwn i ariannu prentisiaethau yn yr un modd ag y caiff addysg drydyddol arall ei hariannu ac yn darparu, am y tro cyntaf yng Nghymru, bŵer sy'n sefyll ar ei ben ei hun i gyllido prentisiaethau ar gyfer gradd-brentisiaethau a phrentisiaethau islaw lefel gradd.

3.305 Gweler paragraff 3.345 – 3.360 am ragor o wybodaeth ynghylch y diwygiadau, y darperir ar eu cyfer yn y Bil, i'r system brentisiaethau yng Nghymru..

Cyllido ymchwil ac arloesi

Y sefyllfa bresennol

- 3.306 Ar hyn o bryd, mae CCAUC yn cael arian gan Lywodraeth Cymru ar gyfer ymchwil, arloesi ac ymgysylltu, a defnyddir y rhan fwyaf ohono i gyllido ymchwil sy'n gysylltiedig ag ansawdd. Dim ond ymchwil 3* a 4* y mae CCAUC yn ei chyllido yng Nghymru, fel y'i mesurir gan y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil. Mae Cyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr (HEFCE) yn dosbarthu cyllid sy'n gysylltiedig ag ansawdd mewn perthynas â Lloegr yn ôl fformiwla debyg sy'n seiliedig ar ansawdd, er nad yn union yr un fath.
- 3.307 Mae CCAUC hefyd yn rheoli Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru, a chyllid ymchwil i fyfyrwyr ôl-raddedig.

Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir ei chael

- 3.308 Bydd y Comisiwn yn gallu cyllido darparwyr cofrestredig ar gyfer gweithgareddau ymchwil ac arloesi, yn ogystal â chyrff sy'n cydweithio â darparwyr cofrestredig. Bydd hyn yn ymwneud yn bennaf ag etifeddu swyddogaethau cyllido ymchwil ac arloesi CCAUC.
- 3.309 Bydd cyllid ar gael ar gyfer cyrff sy'n cydlafurio os yw'r Comisiwn yn fodlon y bydd y darparwr cofrestredig yn cymryd camau priodol i warchod cyllid cyhoeddus.
- 3.310 Bydd gan y Comisiwn bwerau i osod telerau ac amodau ar gyllid ar gyfer ymchwil ac arloesi. Wrth wneud hynny, rhaid i'r Comisiwn roi sylw i'r angen i ddiogelu rhyddid academiaidd, a'r egwyddor mai'r ffordd orau o wneud penderfyniadau ar brosiectau ymchwil unigol yw yn dilyn gwerthusiad o ansawdd ac effaith debygol y cynigion.
- 3.311 Mae'r Bil yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddarparu grantiau i'r Comisiwn ar gyfer cefnogi gweithgareddau ymchwil ac arloesi, ac i gymhwysu telerau ac amodau i'r grantiau hyn. Bydd y pŵer hwn yn golygu bod Gweinidogion Cymru'n gallu darparu cyllid a phennu'r maes ymchwil eang sy'n gymwys i gael i cyllid hwn. Er enghraifft, 'gwyddor cymdeithasol' neu 'ymchwil niwclear'. Ond mater i'r Comisiwn (drwy'r Pwyllgor Ymchwil ac Arloesi) fydd y manylion ynghylch y math o ymchwil h.y. 'rhaglen o ymchwil', ynghyd â gweinyddu'r cyllid hwn.
- 3.312 Bydd yn ddyletswydd ar y Comisiwn i hyrwyddo canlyniadau ymchwil ac arloesi a wnaed yng Nghymru er mwyn helpu i sicrhau eu bod yn cyrraedd cynulleidfa eang yng Nghymru a thu hwnt, a hefyd hybu'r defnydd o'r wybodaeth a gafwyd o'r ymchwil a'r arloesi.
- 3.313 Rhagwelir y bydd y Comisiwn yn gweithio'n agos gyda chyrff perthnasol sy'n gyfrifol am ymchwil ac arloesi ledled y DU, Research England, y cynghorau ymchwil, Innovate UK ac eraill. Bydd yn etifeddu cyfrifoldebau presennol CCAUC am oruchwylio mentrau cyffredin y DU fel y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil ar y cyd.

Cyllido addysg drydyddol cyfrwng Cymraeg

Y sefyllfa bresennol

3.314 Bydd Gweinidogion Cymru'n parhau i allu dyrannu adnoddau ariannol i gefnogi'r gwaith o ddatblygu a chyflenwi darpariaeth addysg drydyddol Gymraeg. Er enghraifft, rhagwelir y bydd Gweinidogion Cymru yn parhau i ddarparu cyllid yn uniongyrchol i'r Ganolfan Genedlaethol a'r Coleg yn y tymor byr i'r tymor canolig yn dilyn sefydlu'r Comisiwn.

Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir ei chael

3.315 Bydd Gweinidogion Cymru'n gallu dyrannu adnoddau ariannol i'r Comisiwn mewn perthynas â phob categori o addysg drydyddol. Bydd Gweinidogion Cymru'n gallu pennu telerau ac amodau ar gyfer y cyllid hwn.

3.316 Mae darpariaeth wedi'i chynnwys yn y Bil i alluogi Gweinidogion Cymru i gymhwysu telerau ac amodau cyllid yn ymwneud â darparu ac asesu cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'n bosibl y bydd Gweinidogion Cymru hefyd yn dymuno cymhwysu amodau sy'n ymwneud â maes pwnc penodol. Er enghraifft, efallai y byddant am neilltuo cyllid i gefnogi cyrsiau sy'n arwain at broffesiynau lle mae prinder unigolion sy'n gallu ymgymryd â'u rôl drwy gyfrwng y Gymraeg, er enghraifft yn y sectorau gofal neu addysg. Byddai'r Comisiwn yn gallu penderfynu sut i ddsbarthu'r arian hwnnw (cyn belled â'i fod yn unol â'r amodau) a byddai darparwyr yn rhydd i benderfynu a ydynt am wneud cais am grant at y diben a nodwyd.

3.317 Bydd y Bil yn galluogi'r Comisiwn i ddyrannu cyllid i ddarparwyr ar gyfer darparu addysg drydyddol cyfrwng Cymraeg. Er enghraifft, gall y Comisiwn ddarparu cyllid ar gyfer premiymau cyfrwng Cymraeg i dalu'r gost o ddarparu gweithgareddau dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r Bil hefyd yn galluogi'r Comisiwn i ddyrannu cyllid i ddarparwyr ar gyfer addysgu'r Gymraeg.

3.318 Yn ogystal, bydd y Comisiwn hefyd yn gallu dyrannu cyllid i bersonau at ddibenion sy'n gysylltiedig â darparu addysg drydyddol drwy gyfrwng y Gymraeg a darparu cyrsiau caffael yr iaith Gymraeg. Gallai hyn gynnwys gweithgareddau i gefnogi datblygu darpariaeth fel hyfforddiant i ymarferwyr, hyrwyddo cyfleoedd dysgu i ddarpar ddysgwyr, datblygu a rhannu adnoddau dysgu a chydgysylltu cyfleoedd dysgu ar draws y darparwyr. Gallai hyn hefyd gynnwys cyllid i wneud gwaith ymchwil mewn perthynas ag addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg yng Nghymru.

Cyfarwyddydau cymorth ariannol

Y sefyllfa bresennol

3.319 Ar hyn o bryd, gall Gweinidogion Cymru roi cyfarwyddyd i CCAUC mewn perthynas â darparu cymorth ariannol i ddarparwyr addysg uwch os yw'n ymddangos bod materion ariannol y darparwr hwnnw wedi cael eu camreoli, neu'n cael eu camreoli.

Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir ei chael

3.320 Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth debyg sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i roi cyfarwyddyd cymorth ariannol i'r Comisiwn ynghylch darparu cymorth ariannol i

person perthnasol pan fo'n ymddangos i Weinidogion Cymru bod materion ariannol y person perthnasol wedi'u camreoli, neu'n cael eu camreoli.

- 3.321 Mae'r Bil yn diffinio person perthnasol fel darparwr cofrestredig neu berson ac eithrio darparwr cofrestredig sy'n cael adnoddau ariannol a ddarperir neu a sicrhawyd gan y Comisiwn o dan y pwerau cyllido penodedig. Mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Comisiwn a'r person perthnasol dan sylw cyn cyhoeddi cyfarwyddyd cymorth ariannol (ac eithrio mewn achos brys, neu lle byddai ymgynghori yn mynd yn groes i ddiben y cyfarwyddyd).
- 3.322 Rhaid i Weinidogion Cymru hefyd adolygu unrhyw gyfarwyddyd cymorth ariannol a roddir i'r Comisiwn. Bydd yn ofynnol i'r Comisiwn gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddiadau cymorth ariannol y gellir eu rhoi. Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi unrhyw gyfarwyddyd cymorth ariannol a roddir i'r Comisiwn o dan y pwerau hyn. Mae hefyd yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyflwyno adroddiad i'r Senedd ar unrhyw gyfarwyddydau o'r fath.
- 3.323 Bydd y darpariaethau hyn yn adeiladu ar y trefniadau presennol ac yn sicrhau bod Gweinidogion Cymru'n gallu cymryd camau priodol mewn amgylchiadau lle y gallai fod angen diogelu buddiannau myfyrwyr, diogelu arian cyhoeddus neu atal niwed i enw da'r sector addysg drydyddol yng Nghymru.

Rhan 4 - Prentisiaethau

- 3.324 Nododd Adroddiad Hazelkorn ddau o heriau allweddol yn ymwneud â datblygu prentisiaethau yng Nghymru:
- mae diffyg fframweithiau dysgu cydlynol a chyfleoedd addysgol i ddysgwyr yng Nghymru, beth bynnag eu hoed, eu rhyw neu eu doniau penodol, o'r ysgol i/drwy addysg bellach ac uwch;
 - mae angen gwell cydbwysedd rhwng darpariaeth addysg ac ymchwil a arweinir gan gyflenwad a galw, gan symud oddi wrth system a ysgogir gan alw yn y farchnad i gyfuniad o reoleiddio a chyllid sy'n seiliedig ar gystadleuaeth.
- 3.325 Roedd y Papur Gwyn a'r Ymgynghoriad Technegol yn nodi'r bwriad i'r Comisiwn fod yn gyfrifol am brentisiaethau yng Nghymru. Roedd cefnogaeth eang i'r dull hwn o weithredu.

Y sefyllfa bresennol

- 3.326 Mae prentisiaeth Gymreig yn swydd ynghyd â hyfforddiant ymarferol i safon diwydiant; nid yw'n gymhwyster ynddo'i hun ond yn rhaglen ddysgu sy'n cynnwys hyfforddiant ar ac oddi ar y swydd ynghyd â chymhwyster.
- 3.327 Mae'r system brentisiaethau yng Nghymru yn seiliedig ar Deddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009 ("Deddf 2009") sy'n cynnwys nifer o bwerau gwneud rheoliadau y gall Gweinidogion Cymru eu defnyddio, gan gynnwys mewn perthynas â'r canlynol:
- yr amodau Cymreig amgen, gan gynnwys gofyniad ar gyfer cytundeb prentisiaeth (adran 2(5)(b));
 - darpariaeth ar gyfer dyroddi tystysgrifau prentisiaethau yng Nghymru ac ardystiad Awdurdod Ardystio Cymru (adrannau 9, 10, 11);
 - cynnwys tystysgrif prentisiaeth (adran 11(2));

- cyhoeddi manyleb safonau prentisiaethau Cymru (adran 28);
- cytundebau prentisiaethau (adran 32).

3.328 Mae'r Ddeddf 2009 yn darparu ar gyfer cyhoeddi a diwygio manyleb safonau prentisiaeth Cymru gan Weinidogion Cymru.

3.329 Mae manyleb safonau prentisiaethau Cymru yn nodi gofynion sylfaenol fframweithiau prentisiaethau. Mae'n amlinellu'r math a'r lefel o gymwysterau sy'n ofynnol ar gyfer fframweithiau prentisiaethau ar bob lefel, a hefyd y gofynion o ran Sgiliau Hanfodol, y sgiliau dysgu a meddwl personol sydd eu hangen, lefel yr hyfforddiant yn y yn y swydd ac i ffwrdd o'r swydd, a'r oriau dysgu dan arweiniad sy'n gysylltiedig â chwblhau'r fframwaith.

3.330 Mae adran 18 o Ddeddf 2009 yn nodi y gall Gweinidogion Cymru ddynodi corff i gyhoeddi fframweithiau prentisiaethau yng Nghymru ar gyfer sector prentisiaeth penodol. Ni chaiff Gweinidogion Cymru ond ddynodi un corff i gyhoeddi fframweithiau prentisiaethau yng Nghymru ar gyfer sector penodol. Gelwir y corff a ddynodir gan Weinidogion Cymru yn 'Awdurdod Cyhoeddi Cymreig'.

3.331 Swyddogaeth yr Awdurdod Cyhoeddi yw ardystio bod fframwaith prentisiaeth newydd neu ddiwygiedig yn bodloni'r gofynion a nodir ym Manyleb Safonau Prentisiaethau Cymru. Os yw'r fframwaith yn bodloni'r gofynion hyn, caiff ei gyhoeddi. Mae Awdurdod Cyhoeddi Cymru'n atebol i Weinidogion Cymru a bydd yn cydymffurfio â'u cyfarwyddyd ac yn rhoi sylw i'r canllawiau a roddir ganddynt.

3.332 Mae Adran 38 o Ddeddf 2009 yn darparu bod yn rhaid i Weinidogion Cymru, drwy orchymyn, nodi'r sectorau penodol y mae'n rhaid i fframweithiau prentisiaethau fod yn gysylltiedig â nhw. Dim ond un corff y gellir ei ddynodi'n awdurdod cyhoeddi ar gyfer un sector ar unrhyw un adeg, a rhaid i fframwaith prentisiaeth ymwneud â sector penodol.

3.333 Rhaid i brentisiaid lofnodi Cytundeb Prentisiaeth gyda'u cyflogwr cyn bod y brentisiaeth yn dechrau. Mae'r Cytundeb Prentisiaeth yn ddogfen sy'n nodi'r fframwaith sy'n cael eu dilyn a'r sgil, y grefft neu'r alwedigaeth berthnasol. Mae Adran 32 o Ddeddf 2009, a'r rheoliadau a wnaed oddi tani, yn nodi bod cytundeb prentisiaeth yn golygu cytundeb sy'n bodloni pob un o'r amodau yn adran 32(2). Heb y cytundeb hwn, gallai'r awdurdod ardystio wrthod dyroddi tystysgrif cwblhau prentisiaeth.

Achos o blaid newid

3.334 Mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu datblygu system brentisiaethau i Gymru sy'n ymateb i anghenion dysgwyr, yr economi a chyflogwyr.

3.335 Mae'r galw am brentisiaethau'n newid wrth i gyflogwyr chwilio am sgiliau ar lefel uwch ac wrth i bobl ifanc droi at hyfforddiant seiliedig ar waith a phrentisiaethau fel dewis amgen yn lle darpariaeth israddedig amser llawn draddodiadol. Mae prentisiaethau erbyn heddiw'n ymestyn i broffesiynau newydd gan roi cyfle i godi statws a chynyddu parch at y rhaglen ar gyfer cenhedlaeth newydd. Ar yr un pryd, mae tuedd i ddosbarthu rhaglenni hyfforddiant ariennir gan gyflogwr fel prentisiaethau, wedi'i yrru'n bennaf gan alw gan gyflogwyr sy'n talu'r ardoll.

- 3.336 Mae prentisiaethau'n cael eu cyplysu'n gynyddol â sgiliau gweithlu ehangach lle mae llwybrau hyfforddi hyblyg yn cael eu datblygu i ddiwallu anghenion y sector. Mae prentisiaethau hefyd yn gorfod ymateb yn hyblyg i dechnoleg sy'n newid a diwallu anghenion y farchnad. Mae perygl os nad yw'r prentisiaethau'n parhau i fod yn berthnasol, ni fydd cyflogwyr yn eu gwerthfawrogi mwyach.
- 3.337 Mae cyflogwyr, colegau addysg bellach a darparwyr prentisiaethau am ddylanwadu mwy a mwy ar gynnwys prentisiaethau. Mae hyn yn arbennig o wir am gyflogwyr sy'n talu ardoll prentisiaethau mewn diwydiannau technegol a chreadigol iawn. Felly, maent eisiau mwy o ddylanwad ar yr hyn sy'n cael ei ddarparu o dan y rhaglen brentisiaethau, ac mae angen i'r system brentisiaethau allu ymateb mewn ffordd amserol a hyblyg.
- 3.338 Mae'r trefniant presennol ar gyfer datblygu prentisiaethau'n cyfyngu'n anfwriadol ar hyfforddiant arloesol a cynllunio hyblyg. Mae fframweithiau prentisiaethau'n rhy gymhleth ac yn hir; er enghraifft gallant gynnwys llawer o gymwysterau y gellir eu dwyn ynghyd mewn nifer o gyfuniadau i 'gynllunio' rhaglen hyfforddiant prentisiaeth.
- 3.339 Mae angen system brentisiaethau sy'n ysgogi darparwyr i ddarparu'r math o brentisiaethau y mae cyflogwyr am eu cael ac annog mwy o brentisiaethau technegol lefel uwch. Mae angen i drefniadau ganolbwyntio ar anghenion cyflogwyr Cymru a bod yn ddigon hyblyg i ddiwallu'r anghenion hynny a sicrhau cludadwyedd ar draws yr Deyrnas Unedig
- 3.340 Yn y cyd-destun hwn mae Llywodraeth Cymru'n ceisio datblygu system ymatebol a symlach sy'n gallu addasu i wahanol ofynion economaidd a chymdeithasol ac y gellir ei saernio i ymateb i heriau sgiliau. Dyma gyfle i gynllunio ateb i Gymru a datblygu cyfrwng parhaol a chynaliadwy i fynegi'r galw gan gyflogwyr, a fydd yn galluogi cysoni'r broses o gynllunio a datblygu prentisiaethau, addysg dechnegol ôl-16 a hyfforddiant i'r gweithlu.
- 3.341 Mae mesurau anstatudol eisoes yn cael eu rhoi ar waith i wella'r system bresennol. Mae'r rhain yn cynnwys sefydlu Bwrdd Cyngori Prentisiaethau Cymru, a sefydlwyd ym mis Ebrill 2018. Fel Bwrdd sy'n cael ei arwain gan fusnesau, ac yn cynnwys cynrychiolwyr o'r byd busnes, undebau llafur, cyrff addysg bellach a Llywodraeth Cymru, mae'r Bwrdd hwn yn rhoi cyngor ar faterion yn ymwneud â chynnwys fframweithiau prentisiaethau a'r blaenoriaethau ar gyfer eu datblygu yng Nghymru. Ar sail sylwadau gan Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol, bwriedir iddo wella cwmpas ac effaith y ddarpariaeth brentisiaethau yng Nghymru.
- 3.342 Mae Cymwysterau Cymru hefyd yn rhan o'r mecanwaith ar gyfer gwella ansawdd a chyrhaeddiad y rhaglen brentisiaethau, gan sicrhau bod y cymwysterau a geir mewn prentisiaethau yn diwallu anghenion cyflogwyr a phrentisiaid.
- 3.343 Ni ellir cyflawni bwriad polisi Gweinidogion Cymru mewn perthynas â phrentisiaethau yn llawn drwy fireinio'r system bresennol. Nid yw'r fframwaith ddeddfwriaethol ategol wedi'i lunio â Chymru mewn golwg, ac ni all ddarparu'r system brentisiaethau y mae Llywodraeth Cymru'n ceisio ei gweithredu.

3.344 Mae'r fframwaith deddfwriaethol bresennol:

- yn seiliedig ar drefniadau sy'n rhy ddibynnol ar system a sefydlwyd gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig nad yw'n darparu ar gyfer anghenion unigryw economi a chymdeithas Cymru;
- yn darparu ar gyfer manyleb safonau prentisiaethau yng Nghymru nad yw'n ddigon hyblyg ac ymatebol i anghenion diwydiant sy'n newid o hyd;
- ddim yn caniatáu gweithredu newidiadau gyda'r cyflymder sydd ei angen mewn amgylchedd sgiliau sy'n newid yn gyflym.

Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir ei chael

3.345 Mae'r Bil yn rhoi trosolwg o beth yw prentisiaeth Gymreig. Gall prentisiaeth ddigwydd o dan gytundeb prentisiaeth Gymreig gymeradwy, neu fod yn brentisiaeth Gymreig amgen. Mae'r olaf wedi'i gynllunio i gasglu'r hyn a elwir yn sefyllfaoedd cwblhau ansafonol; megis pan fo rôl prentis yn cael ei dileu yn ystod arian cyfnod eu prentisiaeth; neu pan fyddant yn gweithio mewn trefniant arall heblaw cyflogai a chyflogwyr, megis gwaith gwirfoddol.

3.346 I fod yn brentisiaeth Gymreig rhaid i elfen waith y brentisiaeth ddigwydd yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru.

3.347 Un o nodweddion allweddol prentisiaeth Gymreig yw'r angen i gael cytundeb prentisiaeth. Mae'r Bil yn darparu bod cytundeb o'r fath yn un lle mae person yn gweithio i berson arall am dâl, mewn galwedigaeth lle mae fframwaith prentisiaeth mewn grym ar yr adeg y mae'r prentis a'r cyflogwr yn ymrwymo i gytundeb prentisiaeth. Rhaid i'r cytundeb prentisiaeth ddarparu bod y prentis yn derbyn hyfforddiant i'w helpu i gwblhau'r fframwaith prentisiaeth perthnasol. Caiff Gweinidogion Cymru bennu amodau eraill mewn rheoliadau o ran cynnwys cytundebau prentisiaeth.

3.348 Mae'r Bil yn darparu bod fframwaith prentisiaeth yn ddogfen sy'n pennu'r gofynion y mae'n rhaid eu bodloni er mwyn i brentis gwblhau prentisiaeth Gymreig gymeradwy. Mae fframwaith prentisiaeth yn debyg i gwricwlwm y mae'n rhaid ei gwblhau er mwyn i brentis allu cwblhau ei brentisiaeth. Gall gynnwys cymwysterau penodol, a lefelau cyrhaeddiad, yn ogystal â pha fath neu faint o hyfforddiant y dylai prentis ei gael i ddod yn hyfedrus.

3.349 I fod yn fframwaith prentisiaeth gymeradwy rhaid i fframwaith gydymffurfio â'r gofynion a bennir gan Weinidogion Cymru. Y bwriad yw y bydd gan Weinidogion stiwardiaeth strategol o system brentisiaethau Cymru, ond byddai'r gwaith o weithredu'r system a darparu prentisiaethau'n cael ei wneud gan y Comisiwn.

3.350 Caiff Gweinidogion bennu gofynion ynghylch y galwedigaethau y mae'n rhaid i fframwaith ymwneud â hwy, safonau cyrhaeddiad cyffredinol, mathau cyffredinol o gymhwyster a faint o hyfforddiant sydd ei angen i gwblhau fframwaith. Gall gofynion hefyd ymwneud â sut y caiff fframwaith prentisiaeth ei baratoi, ei ddiweddarau a'i dynnu'n ôl.

3.351 Mae'r Bil yn darparu y bydd Gweinidogion Cymru'n gallu cyhoeddi, addasu a thynnu gofynion yn ôl ond rhaid iddynt eu cyhoeddi a chynnwys y dyddiad y maent yn dod i rym. Rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Comisiwn a phersonau priodol eraill cyn dyroddi neu dynnu gofyniad yn ôl.

- 3.352 Mae'r defnydd o ofynion yn symud i fwrdd o ddull presennol Deddf 2009 sy'n golygu bod angen offeryn statudol i weithredu Manyleb Safonau Prentisiaethau Cymru. Bydd y Bil yn caniatáu system brentisiaethau fwy ymatebol a chydweithredol.
- 3.353 Bydd y Comisiwn yn gyfrifol am baratoi a chyhoeddi fframweithiau prentisiaethau, neu thefnu i eraill eu paratoi ar ei ran. Rhaid i fframweithiau prentisiaeth gydymffurfio ag unrhyw ofynion a bennir gan Weinidogion Cymru. Elfen allweddol o rôl y Comisiwn fydd goruchwylio fframweithiau prentisiaethau drwy eu hadolygu, eu diwygio, neu dynnu fframweithiau'n ôl fel y bo'n briodol.
- 3.354 Un o brif elfennau'r gwaith hwn o oruchwylio fframweithiau prentisiaethau fydd gofyniad bod y Comisiwn gynnal a chyhoeddi cofrestr o fframweithiau prentisiaethau a fydd yn ystorfa ar gyfer fframweithiau prentisiaeth Cymreig. Bydd yn rhaid i'r gofrestr gynnwys manylion pob fframwaith, gan gynnwys pryd y cafodd ei gyhoeddi, ei ddiwygio neu ei dynnu'n ôl. Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, bennu gwybodaeth arall y mae'n rhaid i'r gofrestr ei chynnwys.
- 3.355 Gall y Comisiwn ddyroddi tystysgrifau (a chopïau o dystysgrifau) i brentisiaid sy'n cwblhau eu prentisiaeth. Bydd y manylion gweithredol gan gynnwys y broses ar gyfer gwneud cais am dystysgrif, a'i gynnwys, bellach yn fater i'r Comisiwn ac nid Gweinidogion Cymru. Caiff y Comisiwn godi ffi ond, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd, bydd Gweinidogion'n pennu uchafswm y ffi y gellir ei chodi am dystysgrifau.
- 3.356 Bydd y Comisiwn yn gallu dirprwyo ei bŵer i gyhoeddi fframweithiau a dyroddi tystysgrifau i eraill. Mae hyn wedi'i gynllunio i alluogi'r hyblygrwydd gweithredol mwyaf posibl, ac mae'n symud oddi wrth ddull presennol Gweinidogion Cymru o benderfynu ar drefniadau o'r fath. Caiff y Comisiwn roi canllawiau neu gyfarwyddiadau i berson y mae wedi dirprwyo swyddogaethau o'r fath iddo, a thalu cydnabyddiaeth ariannol i'r cyfryw bersonau sy'n gweithredu ar ei ran.
- 3.357 Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth i sicrhau bod prentisiaid yn cael gwybod am unrhyw amrywiadau i'w cytundebau prentisiaeth a allai olygu nad yw'n ddilys mwyach.
- 3.358 Mae'r Bil hefyd yn ei gwneud yn glir bod prentisiaeth Gymreig gymeradwy yn brentisiaeth statudol ac nid yn brentisiaeth cyfraith gyffredin.
- 3.359 Mae'r Bil yn darparu pan fo'r Comisiwn yn ymgysylltu â pherson arall i baratoi fframweithiau prentisiaeth ar ei ran, a chyda chydysyniad y person hwnnw bod y fframwaith yn cael ei gyhoeddi gan y Comisiwn, bod perchnogaeth o'r hawlfraint sy'n rhan o'r fframwaith yn trosglwyddo i'r Comisiwn.
- 3.360 Mae'r Bil hefyd yn parhau â'r dull presennol o ganiatáu i'r rhai sy'n weision y Goron allu ymgymryd â phrentisiaethau.

Rhan 5 – Diogelu dysgwyr, gweithdrefnau cwyno ac ymgysylltu â dysgwyr

Trefniadau diogelu dysgwyr

Y sefyllfa bresennol

3.361 Amcan y polisi yw cefnogi gweithredu trefniadau cyson ar draws y sector addysg drydyddol er mwyn diogelu buddiannau dysgwr pe bai cwrs neu gampws yn cau, darparwr yn methu neu'r dysgwr yn penderfynu trosglwyddo i gwrs neu ddarparwr arall. Prif nod y ddarpariaeth yw lleihau effaith y digwyddiadau hyn ar ddysgu unigolion a lleihau'r risg y gallai'r dysgwr roi'r gorau i'w ddysgu.

3.362 Ceir arferion da ar draws y sector addysg drydyddol o ran diogelu buddiannau dysgwyr pan fo digwyddiad fel cau cwrs neu gampws neu fethiant darparwr yn amharu ar eu dysgu. Serch hynny, mae angen dull gweithredu cyson a chynhwysfawr ar draws y sector.

Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir ei chael

3.363 Mae'r Bil yn darparu y bydd y trefniadau i ddiogelu dysgwyr yn cael eu hamlinellu mewn cynlluniau diogelu dysgwyr. Caiff cynllun diogelu dysgwyr ei ddiffinio yn y Bil fel dogfen sy'n amlinellu trefniadau darparwr addysg drydyddol ar gyfer:

- diogelu buddiannau personau sy'n dilyn cwrs addysg drydyddol a ddarperir gan neu ar ran y darparwr addysg drydyddol os bydd y darparwr yn rhoi'r gorau i ddarparu'r cwrs am unrhyw reswm;
- cefnogi person sy'n dilyn cwrs addysg drydyddol a ddarperir gan neu ar ran y darparwr addysg drydyddol, ac sy'n dymuno trosglwyddo i gwrs addysg drydyddol arall (p'un a yw'r cwrs hwnnw'n cael ei ddarparu gan neu ar ran y darparwr neu berson arall).

3.364 Mae darpariaeth wedi'i chynnwys i alluogi'r Comisiwn i roi hysbysiad i ddarparwr addysg drydyddol yn gofyn iddo gyflwyno cynllun diogelu dysgwyr i'r Comisiwn ar neu cyn y dyddiad a nodwyd yn yr hysbysiad. At ddiben y ddarpariaeth hon, diffinnir "cwrs perthnasol" fel unrhyw gwrs a ddarperir gan neu ar ran darparwr cofrestredig; neu os nad yw darparwr wedi'i gofrestru, cwrs o addysg drydyddol (addysg uwch, addysg bellach a hyfforddiant neu brentisiaeth) a ddarperir ganddo neu ar ei ran a ariennir gan y Comisiwn.

3.365 Rhoddir disgrisiwn i'r Comisiwn benderfynu pa rai o'r darparwyr hyn fydd yn gorfod cyflwyno cynllun diogelu dysgwyr, a hynny er mwyn lleihau'r posibilrwydd bod gofyn i ddarparwyr lunio cynllun lle nad yw'n briodol nac yn gymesur iddynt wneud hynny.

3.366 Ni fydd y Comisiwn yn gallu rhoi hysbysiad i awdurdodau lleol yn gofyn iddynt gyflwyno cynllun diogelu dysgwyr yn ymwneud â darpariaeth chweched dosbarth ysgolion. Mae trefniadau yn eu lle i sicrhau y trosglwyddir data am ddysgwyr pan fyddant yn symud o un ysgol i ysgol arall, boed hynny oherwydd bod ysgol neu gwrs yn cau, oherwydd newid yn eu hamgylchiadau personol, neu oherwydd mai dyna sydd orau gan y disgybl. Er nad yw'r darpariaethau ar gyfer diogelu dysgwyr yn berthnasol i awdurdodau lleol mewn perthynas â chweched dosbarth ysgolion, oherwydd bod ganddynt eu trefniadau eu hunain, byddai'n ddefnyddiol i'r Comisiwn

ymgyngori â nhw pan fydd y canllawiau'n cael eu datblygu er mwyn iddynt allu rhannu arfer da.

- 3.367 Bydd y gofyniad i ddatblygu cynllun diogelu dysgwyr cymeradwy yn dilyn hysbysiad gan y Comisiwn yn amod cofrestru, ac yn un o'r telerau ac amodau ar gyfer cyllid yn dibynnu ar berthynas y darparwr â'r Comisiwn.
- 3.368 Mae darpariaeth wedi'i chynnwys yn y Bil i alluogi'r Comisiwn i wneud trefniadau ar gyfer datblygu a chymeradwyo cynlluniau diogelu dysgwyr. Bydd yn ofynnol i'r Comisiwn ddarparu canllawiau ar baratoi a diwygio'r cynlluniau. Wrth lunio'r canllawiau hyn, rhaid i'r Comisiwn ymgynghori â'r personau sy'n berthnasol yn ei farn ef. Byddai hyn yn cynnwys ymgynghori ag awdurdodau lleol a chweched dosbarth ysgolion.
- 3.369 Bwriedir mabwysiadu dull cymesur ar gyfer llunio cynlluniau diogelu dysgwyr, nad yw'n rhoi baich ychwanegol diangen ar ddarparwyr. Byddai'r cynlluniau ar ffurf sy'n briodol i'r darparwr a'i strwythurau, a gellid eu hymgorffori i ddogfennau eraill lle bo'n briodol.
- 3.370 Caiff y Comisiwn gymeradwyo cynllun diogelu dysgwyr gyda neu heb addasiadau. Os nad yw'r Comisiwn yn fodlon bod cynllun yn bodloni'r meini prawf priodol ar gyfer cymeradwyo, disgwylir y byddai'r Comisiwn yn cynnal deialog â'r darparwr i ddatrys unrhyw faterion sy'n peri pryder. Os na ellir dod i gytundeb rhwng y Comisiwn a'r darparwr ar gynnwys cynllun, caiff y Comisiwn gymeradwyo cynllun gydag addasiadau neu hebddynt. Os yw darparwr addysg drydyddol yn dymuno diwygio ei gynllun cymeradwy, rhaid iddo anfon fersiwn ddiwygiedig i'r Comisiwn a gall y Comisiwn ei gymeradwyo gyda neu heb addasiadau.
- 3.371 Ceir darpariaeth yn y Bil sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn fonitro effeithiolrwydd cynlluniau diogelu dysgwyr a chynnwys casgliadau'r gwaith monitro hwn yn ei adroddiad blynyddol ar effeithiolrwydd y cynlluniau yn ystod y flwyddyn ariannol y mae'r adroddiad yn berthnasol iddi.

Y trefniadau ar gyfer ymdrin â chwynion gan ddysgwyr

Y sefyllfa bresennol

- 3.372 Ar hyn o bryd, dim ond myfyrwyr addysg uwch sy'n gallu cyfeirio cwynion heb eu datrys i gorff annibynnol. Mae Deddf 2004 yn caniatáu dynodi corff i weithredu cynllun cwynion myfyrwyr. Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol yw'r corff dynodedig ar gyfer ymdrin â chwynion heb eu datrys gan fyfyrwyr addysg uwch yng Nghymru a Lloegr. Ar hyn o bryd, mae rôl Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol yn cwmpasu 'sefydliadau cymwys' a ddiffinnir o dan Ddeddf 2004.

Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir ei chael

- 3.373 Amcan y polisi yw sicrhau bod gan ddarparwyr bolisiau a gweithdrefnau clir yn eu lle i alluogi dysgwr i wneud cwyn am ei brofiad dysgu, a bod y rhain yn cael eu cyfathrebu'n effeithiol i'w dysgwyr. Dylai dysgwyr hefyd allu cyfeirio cwynion sydd heb eu datrys i gorff annibynnol.

- 3.374 Rhoddwyd dyletswydd ar y Comisiwn i gymryd y cyfryw gamau y mae eu hystyried yn briodol i sicrhau bod gan ddarparwyr addysg drydyddol weithdrefn yn ei lle ar gyfer ymchwilio i gwynion am weithred neu anweithred gan y darparwr wrth bersonau sy'n derbyn neu wedi derbyn addysg drydyddol a ddarparwyd gan neu ar ran y darparwr, a'i fod yn cymryd camau rhesymol i dynnu'r weithdrefn i sylw personau sy'n derbyn addysg drydyddol a ddarperir gan neu ar ran y darparwr.
- 3.375 At ddiben y darpariaethau hyn, diffinnir “cwrs perthnasol” fel unrhyw gwrs a ddarperir gan neu ar ran darparwr cofrestredig; neu os nad yw darparwr wedi'i gofrestru, cwrs o addysg drydyddol (addysg uwch, addysg bellach a hyfforddiant neu brentisiaeth) a ddarperir ganddo neu ar ei ran a ariennir gan y Comisiwn.
- 3.376 Diffinnir “darparwr addysg drydyddol” fel darparwr sydd wedi'i gofrestru neu berson heblaw darparwr cofrestredig sy'n cael adnoddau ariannol a ddarperir neu a sicrhawyd gan y Comisiwn ar gyfer addysg uwch, addysg bellach a hyfforddiant neu brentisiaethau. Nid yw'r diffiniad yn cynnwys chweched dosbarth ysgolion gan fod trefniadau sefydledig cadarn eisoes yn eu lle ar gyfer ysgolion sy'n seiliedig ar ddeddfwriaeth. Fodd bynnag, byddai'n fanteisiol ehangu'r ymgynghori ag awdurdodau lleol a chweched dosbarth ysgolion mewn perthynas â dysgwyr sy'n 16 oed neu'n hŷn, er mwyn annog y dysgwyr hyn i fod yn fwy gweithgar o ran sicrhau ansawdd eu profiad dysgu (yn hytrach na'u rhieni, sydd, yn y rhan fwyaf achosion, yn cyflwyno cwynion ar eu rhan yn ymwneud â dosbarthiadau chwech).
- 3.377 Mae darpariaeth wedi'i gynnwys sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i bennu, fel sefydliad cymwys at ddiben y cynllun cwynion myfyrwyr:
- darparwr cofrestredig;
 - darparwr nad yw wedi'i gofrestru ac sy'n cael adnoddau ariannol gan y Comisiwn,
- er na fydd Gweinidogion Cymru'n gallu pennu awdurdodau lleol yn yr un modd mewn perthynas â darpariaeth chweched dosbarth ysgolion.
- 3.378 Golyga hyn y gall darparwyr gael eu cynnwys yn y cynllun yn raddol, gan roi amser i'r Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol a darparwyr unigol allu cynyddu eu capasiti.

Cod ymgysylltu â dysgwyr

Cefndir

- 3.379 Nododd adroddiad Hazelkorn nad oedd y system addysg a hyfforddiant ôl-orfodol yn canolbwyntio digon ar ddysgwyr. Roedd ymgynghoriadau a gwaith polisi dilynol yn cefnogi'r angen i gryfhau'r ddarpariaeth ar gyfer llais y dysgwyr a sicrhau dull mwy cydgysylltiedig ar gyfer cynnwys dysgwyr.
- 3.380 Bydd y cynigion yn y maes hwn yn effeithio ar ddysgwyr ôl-16 a darparwyr addysg drydyddol. Diffinnir darparwr addysg drydyddol fel darparwr sydd wedi'i gofrestru â'r Comisiwn neu'n derbyn cyllid gan y Comisiwn ar gyfer addysg uwch, addysg bellach a hyfforddiant neu brentisiaethau.
- 3.381 Dwyn ynghyd yr holl ddarparwyr ôl-16 o dan un corff er mwyn gwella cynrychiolaeth dysgwyr ar draws y sector, gan sicrhau bod gan ddysgwyr llais cyfartal yn y ffordd y maent yn dysgu, sut y cânt eu dysgwyr a sut y maent yn cael gwerth am arian.

3.382 Bwriedir i'r ddeddfwriaeth annog y Comisiwn i hyrwyddo cydweithio rhwng darparwyr a chryfhau'r cysylltiadau ag eraill. Dylai hyn arwain at gefnogaeth well i ddysgwyr, gan gynnwys llwybrau dysgu cliriach a gwell gwybodaeth am yr opsiynau sydd ar gael.

Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir ei chael

3.383 Mae'r Bil yn darparu ar gyfer cael cynrychiolwyr o blith dysgwyr ar fwrdd y Comisiwn. Bydd hyn yn golygu bod safbwyntiau dysgwyr yng Nghymru yn cael eu cynrychioli.

3.384 Bydd dyletswydd ar y Comisiwn i ddatblygu, paratoi ac ymgynghori ar God Cynnwys Dysgwyr, a'i gyhoeddi, a fydd yn sicrhau bod buddiannau dysgwyr yn cael eu cynrychioli'n effeithiol pan fydd darparwr yn gwneud penderfyniadau ynghylch materion a allai fod o ddiddordeb i ddysgwyr. Dylai'r Cod roi cyfle i ddysgwyr gyfrannu at benderfyniadau a mynegi eu barn i'r darparwr am yr addysg a'r hyfforddiant y maent yn ei chael.

3.385 Dyma fwriad y polisi wrth gyflawni'r swyddogaethau hyn:

- Bydd angen cyfnod pontio (i'w bennu) er mwyn i'r Comisiwn allu datblygu'r Cod ac er mwyn caniatáu amser cyn cychwyn y gofyniad i ddarparwyr dysgu ymrwymo i'r Cod.
- Gellir gwneud darpariaeth wahanol yn y Cod ar gyfer dibenion a darparwyr gwahanol, er y bydd angen i bob darparwr sicrhau'r un lefel o gyfranogaeth gan ddysgwyr.
- Bydd angen i'r Cod ganiatáu rhywfaint o gymesuredd. Er enghraifft, ni fydd disgwyl i ddarparwyr sy'n darparu cyrsiau undydd sicrhau a dangos yr un lefel o ymgysylltu â dysgwyr â'r rheini sy'n darparu cyrsiau mwy hirdymor.
- Bydd yn ofynnol i'r Comisiwn sicrhau bod pob darparwr addysg drydyddol, fel y diffinnir yn y Bil, yn ymrwymo i'r cod ymgysylltu â dysgwyr ac yn cadw ato.
- Bydd y Cod yn amod cofrestru gorfodol parhaus neu'n un o'r telerau ac amodau ar gyfer cyllid (yn dibynnu ar berthynas y darparwr â'r Comisiwn).
- Mae darpariaeth wedi'i chynnwys yn y Bil i'w gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn fonitro effeithiolrwydd y cod ymgysylltu â dysgwyr a chynnwys unrhyw gasgliadau sy'n deillio o'r gwaith monitro hwnnw yn ei adroddiad blynyddol ar effeithiolrwydd y cod yn ystod y flwyddyn ariannol y mae'r adroddiad yn berthnasol iddi.

Rhan 6 - Cyngor, gwybodaeth ac arweiniad

Cefndir

3.386 Mae adroddiad yr Athro Harvey Weingarten, *'Gwneud y Gorau o Gyfraniad y System Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol i Gyflawni Nodau Cenedlaethol Cymru'*, a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2018, yn amlinellu nad oes gan y system fonitro bresennol broses ar gyfer clymu'r gwahanol ddarnau o wybodaeth sydd eisoes wedi'u casglu at ei gilydd er mwyn deall perfformiad y system yn ei chyfanrwydd a chyfraniad darparwyr unigol at gyflawni amcanion a thargedau strategol.

3.387 Ystyriodd y Papur Gwyn a'r Ymgynghoriad Technegol a ddylai'r Comisiwn newydd berchnogi'r setiau data sy'n eiddo i Lywodraeth Cymru ac asiantaethau eraill, fel CCAUC, ar hyn o bryd ac a ddylid rhoi dyletswydd ar ddarparwyr dysgu/cyrff arholi i

rannu data am nodweddion a chyrhaeddiad dysgwyr. Ymchwiliwyd hefyd p'un a oedd unrhyw bwerau, dyletswyddau neu faterion eraill y dylid eu hystyried wrth ddatblygu cynigion ar gyfer y swyddogaethau hyn ymhellach.

- 3.388 Roedd mwyafrif yr ymatebwyr ar draws yr holl sectorau presennol yn cytuno y dylai'r Comisiwn newydd berchnogi pob set ddata. Roeddent yn teimlo y byddai hyn yn gyfle i adolygu'r ddarpariaeth bresennol, gan sicrhau bod tystiolaeth gadarn ar gael i seilio penderfyniadau arni. Fe'i gwelwyd hefyd yn gyfle i adolygu'r modd y cesglir y data hyn yn gyffredinol er mwyn sicrhauansawdd y data a bod modd eu cymharu ar draws pob sector.
- 3.389 Roedd cytundeb cyffredinol ym mhob sector y dylid rhoi dyletswydd ar ddarparwyr i fonitro a rhannu'r data hyn â'r Comisiwn. Fodd bynnag, nodwyd y dylai'r ddyletswydd hon osgoi cynyddu llwyth gwaith darparwyr.
- 3.390 Rhagwelir bydd y Comisiwn yn defnyddio data i lywio ei oruchwyliaeth o'r sector addysg drydyddol yng Nghymru, i gefnogi'r ymgysylltu sydd ganddo â darparwyr ac i gefnogi buddiannau cyhoeddus a buddiannau cyfreithlon eraill.
- 3.391 Gall y Comisiwn roi mecanweithiau llywodraethu ar waith i bennu'r data sydd ei angen arno, ac i wneud trefniadau priodol i reoli sut y caiff data o'r fath ei gasglu, ei sicrhau o ran ansawdd, ei brosesu, ei ddadansoddi a'i ledaenu. Rhagwelir bydd y Comisiwn yn cydweithredu â chasglwyr data eraill a gall, er enghraifft, ddewis dynodi corff i arfer swyddogaethau asesu addysg uwch ar ei ran i gefnogi dyletswyddau penodol yn ymwneud â gwybodaeth, cyngor ac arweiniad.

Rhannu gwybodaeth

- 3.392 Er mwyn gallu cyflawni ei rôl mewn perthynas â'r sector addysg drydyddol yng Nghymru, goruchwyllo ei waith a'i berfformiad, gosod a monitro ei flaenoriaethau strategol a gweithredol, a dosbarthu cyllid yn unol â'i gyfrifoldebau statudol, bydd angen i'r Comisiwn gasglu a defnyddio gwybodaeth o bob rhan o'r sector. Yn ogystal, bydd gan y Comisiwn rôl strategol i ddylanwadu ar gyfrifoldebau darparwyr dysgu o ran data, ystadegau ac ymchwil.
- 3.393 Er mwyn cyflawni'r amcanion polisi hyn, mae'r Bil yn cynnwys darpariaeth mewn perthynas â gwybodaeth, cyngor a chanllawiau. Mae hyn yn cynnwys:
- dyletswydd ar y Comisiwn i roi cyngor a gwybodaeth ar gais Gweinidogion Cymru a phŵer i wneud hynny;
 - pŵer i Weinidogion Cymru i roi gwybodaeth i'r Comisiwn;
 - dyletswydd i ddarparwyr addysg drydyddol penodol a chyrrff eraill i roi gwybodaeth ar gais y Comisiwn;
 - pŵer i gyrff cyhoeddus amrywiol i rannu gwybodaeth â'r Comisiwn;
 - dyletswydd i rannu gwybodaeth sy'n ymwneud â cheisiadau am le ar gyrsiau addysg uwch.
- 3.394 Mae'r Bil yn darparu y caiff y Comisiwn rannu wybodaeth â Gweinidogion Cymru, person penodedig arall a chyrrff gweinyddol/cyhoeddus, ynghyd ag unrhyw berson arall y mae'n ei ystyried yn briodol.
- 3.395 Mae'r Bil yn darparu i'r Comisiwn fod yn awdurdod datganoledig at ddibenion adran 91(3) o Ddeddf Addysg a Sgiliau 2008. Mae hyn yn caniatáu i'r Comisiwn, ochr yn

ochr â Gweinidogion Cymru, gael gafael ar wybodaeth benodol a gedwir gan yr Ysgrifennydd Gwladol a CThEM.

- 3.396 O ran rhannu gwybodaeth, bwriedir i'r Comisiwn fod yn awdurdod cyhoeddus at ddibenion Deddf Diogelu Data 2018, ac felly bydd yn ofynnol iddo gydymffurfio â darpariaethau'r Deddf honno yn ogystal â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data. Wrth wneud hynny, bydd angen i'r Comisiwn sicrhau bod unrhyw ddata y gofynnir amdanynt neu sy'n cael ei gadw, ei ddefnyddio, neu ei rannu etc yn ymwneud â chyflawni'r swyddogaethau Comisiwn.
- 3.397 Bydd Gweinidogion Cymru neu'r Comisiwn yn gallu gwneud, neu sicrhau bod cyllid yn cael ei ddarparu ar gyfer, gwaith ymchwil mewn perthynas ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru, gan gynnwys unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant. Yna gellir cyhoeddi unrhyw canlyniad ymchwil o'r fath cyn belled na ellir adnabod unrhyw unigolyn o'r cyhoeddiad.
- 3.398 Mae'r Bil hefyd yn darparu y gall Gweinidogion Cymru ofyn am wybodaeth "o gyflwyno'r cais i dderbyn y cynnig" gan sefydliadau megis UCAS, sy'n darparu gwasanaethau derbyn i ddarparwyr addysg uwch yng Nghymru, at ddibenion ymchwil cymwys. Caiff Gweinidogion Cymru ofyn bod yr wybodaeth yn cael ei rhannu gyda Gweinidogion Cymru, y Comisiwn neu berson sydd wedi'i gymeradwyo. Mae'r wybodaeth o gyflwyno'r cais i dderbyn y cynnig yn ymwneud â cheisiadau gan unigolion i gael eu derbyn ar gyrsiau addysg uwch a ddarperir gan ddarparwyr addysg uwch yng Nghymru, cynigion a gwrthodiadau, a derbyn cynigion o'r fath.
- 3.399 Mae'r Bil yn caniatáu i'r wybodaeth hon gael ei defnyddio i lywio "ymchwil cymwys", sy'n golygu ymchwil mewn perthynas â'r canlynol:
- y dewisiadau sydd ar gael yn y sector addysg uwch yng Nghymru;
 - yr ystyriaeth o gynigion;
 - cyfle cyfartal; a
 - meysydd eraill sydd wedi'u cymeradwyo gan Weinidogion Cymru.
- 3.400 Bwriad yr wybodaeth hon yw i helpu lywio blaenoriaethau strategol y Comisiwn a pholisi yn y dyfodol.
- 3.401 Er mwyn diogelu'r wybodaeth hon, caiff corff cymeradwy roi gwybodaeth a gafwyd o dan adran 129 (gwybodaeth o gyflwyno'r cais i dderbyn y cynnig) i ymchwilydd cymeradwy, ond rhaid i'r ymchwilydd cymeradwy beidio â throsglwyddo'r wybodaeth i ymchwilydd cymeradwy arall neu gorff cymeradwy arall. Mae "person cymeradwy" yn gorff sydd wedi'i gymeradwyo gan Weinidogion Cymru i dderbyn yr wybodaeth hon at ddibenion ymchwil ("corff cymeradwy") neu'n unigolyn a gymeradwywyd gan Weinidogion Cymru neu gorff cymeradwy ("ymchwilydd cymeradwy").
- 3.402 Caiff Gweinidogion Cymru, y Comisiwn a pherson cymeradwy gyhoeddi cynnyrch ymchwil a wneir gan ddefnyddio gwybodaeth o gyflwyno'r cais i dderbyn y cynnig, ar yr amod:
- mai diben cyhoeddi yw darparu gwybodaeth ystadegol;
 - na ellir adnabod unrhyw unigolyn;
 - na chyhoeddir unrhyw wybodaeth fasnachol sensitif.

- 3.403 Mae'r Bil hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn nodi arferion da mewn perthynas â rhannu data gan y bobl a'r cyrff y mae'n eu cyllido neu'n eu rheoleiddio: er enghraifft drwy gyhoeddi canllawiau sy'n ymdrin â systemau TG a diogelwch gwybodaeth. Bydd y Comisiwn yn gallu adolygu a diweddarau neu ddisodli ei ganllawiau pan fydd yn ystyried bod angen gwneud hynny.
- 3.404 Bwriedir hefyd y bydd y Comisiwn yn gorff ystadegol swyddogol ar ôl gwneud yr is-ddeddfwriaeth berthnasol.

Rhan 7 – Darpariaethau amrywiol a chyffredinol

Corfforaethau Addysg Uwch yng Nghymru – dogfennau llywodraethu

Cefndir

- 3.405 Yn 2015, cynhaliodd Comisiwn y Gyfraith ymgynghoriad ar Faterion Technegol mewn Cyfraith Elusennau fel rhan o'i brosiect Cyfraith Elusennau: Materion Dethol. Edrychodd hyn ar nifer o newidiadau technegol arfaethedig i gyfraith elusennau ac roedd yn cynnwys cynigion yn ymwneud â'r ffordd y mae sefydliadau addysg uwch, ac elusennau yn diwygio eu dogfennau llywodraethu'n ehangach. Roedd y cynigion hyn wedi'u hanelu at symleiddio a symleiddio'r gweithdrefnau ar gyfer diwygio dogfennau llywodraethu.
- 3.406 Cyhoeddwyd adroddiad terfynol Comisiwn y Gyfraith ym mis Medi 2017¹ ac, ymhlith argymhellion eraill, gwnaeth argymhellion penodol mewn perthynas â diwygio dogfennau llywodraethu ar gyfer sefydliadau addysg uwch yng Nghymru.
- 3.407 Roedd yr argymhellion a oedd yn ymwneud â sefydliadau addysg uwch yng Nghymru o blaid cadw'r dull o ddiwygio a symleiddio dogfennau llywodraethu sefydliadau addysg uwch a nodwyd yng nghanllawiau 2006 Llywodraeth Cymru ar gyfer prifysgolion yng Nghymru². Fodd bynnag, nododd adroddiad terfynol Comisiwn y Gyfraith broblemau mewn perthynas â chymhwyso'r canllawiau ar gyfer corfforaethau addysg uwch o ganlyniad i'r gofynion statudol a osodwyd ar eu dogfennau llywodraethu o dan Ddeddf Diwygio Addysg 1988 ("Deddf 1988") .
- 3.408 Roedd Comisiwn y Gyfraith o'r farn bod y gofynion statudol hyn yn creu rhwystr i gorfforaethau addysg uwch ac yn eu hatal rhag ailwampio eu dogfennau llywodraethu yn unol â chanllawiau 2006 mewn modd tebyg i brifysgolion siartredig.
- 3.409 O ganlyniad, argymhellodd Comisiwn y Gyfraith y dylid dileu'r gofynion statudol presennol a osodir ar ddogfennau llywodraethu corfforaeth addysg uwch o dan Ddeddf 1988 fel y gellid cymhwyso'r canllawiau yn yr un modd i bob sefydliad addysg uwch waeth beth fo'u seiliau cyfansoddiadol.

Y sefyllfa bresennol

- 3.410 Roedd yr Ymgynghoriad Technegol yn nodi cefnogaeth Llywodraeth Cymru i'r dull gweithredu eang a argymhellwyd gan Gomisiwn y Gyfraith. Yn benodol, gofynnodd yr Ymgynghoriad Ychnegol am farn rhanddeiliaid ar ddileu'r gofynion deddfwriaethol presennol yn Neddf 1988 sy'n gymwys i ddogfennau llywodraethu

¹ [Comisiwn y Gyfraith | Technical Issues in Charity Law](#)

² *Deregulating Higher Education Institutions' governance arrangements*

corfforaethau addysg uwch, er mwyn mynd i'r afael â'r materion a nodwyd gan Gomisiwn y Gyfraith mewn perthynas â chymhwyso canllawiau 2006 ar gyfer y cyrff hyn.

3.411 Ymhlith y rhanddeiliaid hynny a ymatebodd i'r Ymgynghoriad Technegol, roedd gwrthwynebiad cyffredinol i ddileu'r gofynion statudol presennol a osodwyd ar gynnwys dogfennau llywodraethu corfforaeth addysg uwch ar yr un pryd â bwrw ymlaen â'r diwygiadau ehangach. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr addysg uwch o'r farn na ddylid newid y trefniadau ar gyfer diwygio dogfennau llywodraethu ar hyn o bryd ond roeddent yn teimlo y gellid ailedrych ar hyn ar ôl i'r Comisiwn gael ei sefydlu a'i weithredu a dylai fod yn destun ymgynghoriad llawn a phriodol.

Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir ei chael

3.412 O ganlyniad i'r adborth a gafwyd gan rhanddeiliaid, ni chafodd y cynnig i ddileu'r gofynion statudol presennol a osodir ar ddogfennau llywodraethu corfforaethau addysg uwch yng Nghymru, yn unol ag argymhelliad Comisiwn y Gyfraith, ei roi yn y Bil. Yn hytrach, mae darpariaeth wedi'i gynnwys yn y Bil a fyddai'n caniatáu ailedrych ar y cynnig hwn yn ddiweddarach mewn ymgynghoriad llawn â'r Comisiwn, y sector addysg uwch a rhanddeiliaid perthnasol eraill.

3.413 Er mwyn gallu ystyried y mater hwn yn y dyfodol, mae'r Bil yn diwygio Deddf 1988 gan ymestyn pwerau presennol Gweinidogion Cymru i ddiwygio neu ddi-ddymu gofynion penodol a osodir ar gynnwys dogfennau llywodraethu corfforaeth addysg uwch o dan Ddeddf 1988 drwy orchymyn.

3.414 Ar hyn o bryd, nid yw pwerau gwneud gorchmynion Gweinidogion Cymru o dan Ddeddf 1988 ond yn gymwys i nifer cyfyngedig o'r gofynion a osodir ar ddogfennau llywodraethu corfforaeth addysg uwch o dan Atodlen 7A i'r Ddeddf honno. Dyma'r gofynion ym mharagraffau 3 i 5 a pharagraff 11 o'r Atodlen. Mae hyn yn golygu na ellid gwneud unrhyw newidiadau yn y dyfodol i'r gofynion hynny sydd y tu allan i gwmpas y pwerau presennol yn yr un modd nac i'r un amserlen gan y byddent yn destun proses ddeddfwriaethol ar wahân.

3.415 Bydd y darpariaethau yn y Bil yn mynd i'r afael â hyn drwy ymestyn pwerau gwneud gorchmynion cyfredol Gweinidogion Cymru fel eu bod yn gymwys i'r holl ofynion statudol a osodir ar ddogfennau llywodraethu corfforaethau addysg uwch o dan Atodlen 7A, ac eithrio paragraff 1, a'r gofynion yn adran 125(2) i (4) o Ddeddf 1988.

3.416 Bydd hyn yn caniatáu i newidiadau yn y dyfodol i unrhyw un neu'r cyfan o'r gofynion statudol o fewn cwmpas y pwerau estynedig newydd gael eu hystyried a'u datblygu yn yr un modd drwy orchymyn statudol a wneir gan Weinidogion Cymru. Bydd hyn yn darparu dull mwy cyson ac ymatebol a fydd yn caniatáu i unrhyw newidiadau yr ystyrir eu bod yn angenrheidiol gael gwneud yn gyflymach yn y dyfodol nag sy'n wir o dan y trefniadau presennol.

3.417 Bydd y darpariaethau yn y Bil yn ffordd effeithiol o fynd i'r afael â'r math o sefyllfa a nodwyd gan Gomisiwn y Gyfraith yn ei adroddiad terfynol drwy alluogi dileu rhwystrau posibl a wynebir gan gorfforaethau addysg uwch wrth gymhwyso canllawiau neu newid arferion gorau o ran llywodraethu da o ganlyniad i'r gofynion deddfwriaethol presennol a osodir ar eu dogfennau llywodraethu. Yn benodol, bydd y darpariaethau'n darparu modd i ailedrych ac, os ystyrir yn briodol, bwrw ymlaen â'r

cynigion a nodir yn yr Ymgynghoriad Technegol mewn perthynas â dileu'r gofynion statudol presennol ar gyfer dogfennau llywodraethu corfforaeth addysg uwch, yn unol ag argymhelliad Comisiwn y Gyfraith, ar adeg pan fo'r Bil wedi'i weithredu a bod trefniadau sicrwydd a rheoleiddio'r Comisiwn ar gyfer llywodraethu addysg uwch yn hysbys.

3.418 Mae'r Bil yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i ymgynghori â'r Comisiwn ac unrhyw bersonau eraill y maent yn ystyried eu bod yn briodol cyn cyflwyno gorchymyn i ddiwygio neu ddiddymu'r gofynion statudol a osodir ar ddogfennau llywodraethu corfforaeth addysg uwch. Bwriedir i hyn sicrhau yr ymgynghorir yn llawn â'r Comisiwn, sector addysg uwch Cymru ac unrhyw randdeiliaid perthnasol eraill mewn perthynas ag unrhyw newidiadau arfaethedig cyn iddynt gael eu gwneud. Bydd gorchymynion a wneir gan Weinidogion Cymru o dan y pwerau hyn hefyd yn destun craffu gan y Senedd.

Pwerau Gweinidogion Cymru i ddiddymu Corfforaeth Addysg Uwch yng Nghymru

Y sefyllfa bresennol

3.419 Ar hyn o bryd, mae adran 128 o Ddeddf 1988 yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn, i ddiddymu corfforaeth addysg uwch a throsglwyddo ei eiddo, hawliau a rhwymedigaethau i:

- unrhyw berson y mae'n ymddangos i Weinidogion Cymru eu bod yn ymwneud yn gyfan gwbl neu'n bennaf â darparu cyfleusterau neu wasanaethau addysgol o unrhyw fath;
- unrhyw gorff corfforaethol a sefydlwyd at ddibenion sy'n cynnwys darparu cyfleusterau neu wasanaethau o'r fath;
- Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru; neu
- Weinidogion Cymru.

Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir ei chael

3.420 Mae cadw'r pŵer i ddiddymu corfforaeth addysg uwch yn angenrheidiol er mwyn sicrhau, mewn rhai amgylchiadau eithriadol ac yn amodol ar fesurau diogelu ac amddiffyniadau, y gellir gwneud trefniadau i ddiddymu corfforaeth addysg uwch yn ddiraffferth, ac ar gyflymder priodol, a thrwy hynny ddiogelu dysgwyr ac arian cyhoeddus.

3.421 Er ein bod yn cydnabod bod sefydliadau Siarter a chorfforaethau addysg uwch yn cael eu creu a'u diddymu'n hanesyddol gan ddefnyddio gwahanol offerynnau a phrosesau cyfreithiol, mae'r diwygiadau a wneir gan y Bil yn ceisio sicrhau bod mwy o debygrwydd rhwng y sefydliadau hynny o ran y trefniadau ar gyfer eu diddymu, ac nad yw corfforaethau addysg uwch yng Nghymru o dan anfantais sylweddol o gymharu â Phrifysgolion Siarter mewn perthynas â diddymiad angenrheidiol, yn ddarostyngedig i'r mesurau diogelu a nodir yn y diwygiadau a wneir gan y Bil.

3.422 Mae'r Bil yn diwygio adran 128 o Ddeddf 1988 er mwyn darparu bod gallu Gweinidogion Cymru i wneud gorchymyn i ddiddymu corfforaeth addysg uwch yn ddarostyngedig i'r gorfforaeth addysg uwch yr effeithir arni yn gofyn am wneud orchymyn, neu'n rhoi ei gydsyniad i wneud y gorchymyn. Caiff Gweinidogion Cymru wneud gorchymyn heb gydsyniad y gorfforaeth addysg uwch os ydynt o'r farn bod cydsyniad wedi'i atal neu ei ohirio'n afresymol.

3.423 Mae gallu Gweinidogion Cymru i wneud gorchymyn heb gydsyniad y gorfforaeth addysg uwch yn angenrheidiol er mwyn sicrhau bod mesurau priodol ar waith i ddiogelu dysgwyr ac arian cyhoeddus a sicrhau y gellir gwneud trefniadau ar gyfer trosglwyddo dysgwyr, eiddo, hawliau a rhwymedigaethau i sefydliadau eraill mewn modd rheoledig.

3.424 Bydd penderfyniad gan Weinidogion Cymru bod cydsyniad wedi'i atal yn afresymol neu ei ohirio'n afresymol yn gallu cael ei herio drwy Adolygiad Barnwrol. Bydd angen i resymau Gweinidogion Cymru dros ddod i'r farn honno fod yn ddigon cryf i gyfiawnhau'r penderfyniad hwnnw a bydd angen i'r penderfyniad fod wedi'i wneud yn unol ag egwyddorion cyfraith gyhoeddus neu gallai'r llys ddatgan ei fod yn anghyfreithlon a/neu ei daro i lawr.

3.425 Mae'r Bil hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi a pharhau i adolygu datganiad sy'n nodi o dan ba amgylchiadau y byddent yn bwriadu arfer y pŵer i ddiddymu corfforaeth addysg uwch. Cyn cyhoeddi datganiad o'r fath, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â phersonau sy'n briodol yn eu barn hwy a rhaid i'r datganiad gael ei osod gerbron y Senedd cyn gynted â phosibl ar ôl ei gyhoeddi.


Ymgynghori ynghylch gwasanaethau gyrfaoedd

3.426 Nododd rhai ymatebion i'r ymgynghoriad ar y Bil Drafft (gweler Pennod 4) y dylai fod gan y Comisiwn rôl wedi'i diffinio'n glir o ran cefnogi gwybodaeth, cyngor ac arweiniad gyrfaoedd ar gyfer y sector ôl-16, a ddylai fod yn ddiudedd, yn gyson ac yn gydweithredol ac osgoi dyblygu.

3.427 Mae'r Bil yn gynnwys dyletswydd i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Comisiwn wrth arfer eu pwerau i sicrhau cyngor gyrfaoedd o dan adrannau 8 a 9 o Ddeddf Cyflogaeth a Hyfforddiant 1973. Fel y mae ar hyn o bryd, Gyrfa Cymru yw'r corff sy'n gyfrifol am ddarparu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad gyrfaoedd i ysgolion ac i gefnogi addysg bellach a hyfforddiant ar ran Gweinidogion Cymru.

3.428 Bydd y dull polisi hwn, a newid deddfwriaethol, yn annog gweithio mewn partneriaeth a chydweithio rhwng Gweinidogion Cymru, y Comisiwn a Gyrfa Cymru, i wella ansawdd gwybodaeth, cyngor ac arweiniad gyrfaoedd a lleihau'r tebygolrwydd o ddyblygu a gorgyffwrdd.

Pennod 4. Ymgynghori



Ffigur 4.1: Amserlen ymgynghori

Tuag at 2030: Fframwaith ar gyfer datblygu system addysg ôl-orfodol o'r radd flaenaf i Gymru

- 4.1 Yn 2016, cyhoeddodd yr Athro Hazelkorn ei hadolygiad “Tuag at 2030: Fframwaith ar gyfer datblygu system addysg ôl-orfodol o'r radd flaenaf i Gymru³” a archwiliad y trefniadau ar gyfer goruchwyllo addysg a hyfforddiant ôl-orfodol yng Nghymru.
- 4.2 Roedd yr adolygiad yn nodi dau brif argymhelliad:
 - (a) y dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu gweledigaeth drosfwaol ar gyfer y sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol;
 - (b) y dylai Llywodraeth Cymru sefydlu corff hyd braich newydd i fod yn gyfrifol am oruchwyllo'r sector, ei gyfeiriad strategol a'i arweinyddiaeth.

Papur Gwyn: Budd y Cyhoedd a Chymru Ffyniannus – Datblygu system addysg a hyfforddiant ôl-orfodol ddiwygiedig

- 4.3 Yn dilyn yr argymhellion hyn, lansiodd Llywodraeth Cymru y Papur Gwyn “Budd y Cyhoedd a Chymru Ffyniannus - Datblygu System Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol Ddiwygiedig⁴” ym mis Mehefin 2017 a oedd yn nodi cynigion lefel uchel ar gyfer diwygio'r sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol yng Nghymru.

³ [Llywodraeth Cymru | Tuag at 2030: Fframwaith ar gyfer datblygu system addysg ôl-orfodol o'r radd flaenaf i Gymru](#)

⁴ [Llywodraeth Cymru | Budd y Cyhoedd a Chymru Ffyniannus - Datblygu System Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol Ddiwygiedig](#)

- 4.4 Roedd hyn yn cynnwys sefydlu y Comisiwn, a fyddai'n gyfrifol am addysg uwch a phellach, dysgu seiliedig ar waith a dysgu oedolion. Nid oedd y penderfyniad ynghylch cynnwys dosbarthiadau chwech yng nghylch gwaith y Comisiwn wedi'i wneud eto.
- 4.5 Yn ogystal â'r ymgynghoriad ysgrifenedig, cynhaliodd Llywodraeth Cymru dair o sioeau teithiol ar draws Cymru a oedd yn gyfle i randdeiliaid rannu eu sylwadau drwy weithdai. Cafodd llais y dysgwr ei ystyried mewn sesiynau arbennig yn ystod dau o ddigwyddiadau Sgiliau Cymru, ac fe wnaeth rhai bobl ifanc dan 16 oed hefyd gymryd rhan yn y sesiynau hyn gan rannu eu barn mewn ymateb i gwestiynau allweddol.
- 4.6 Cafwyd 92 ymateb i'r ymgynghoriad ysgrifenedig, gyda chyfanswm o 214 o gynrychiolwyr yn bresennol yn y digwyddiadau i randdeiliaid a thua 165 o ddysgwyr o bob rhan o'r sectorau amrywiol.
- 4.7 Comisiynwyd hefyd ymgynghoriad penodol ar gyfer pobl ifanc a grwpiau â nodweddion gwarchoddedig. Cynhaliwyd 13 o weithdai rhyngweithiol ar draws Cymru fel rhan o'r ymgynghoriad hwn, lle gasglwyd sylwadau gan bron i 200 o ddysgwyr.
- 4.8 Ar y cyfan, roedd yr ymatebion yn awgrymu bod darparwyr dysgu, sefydliadau a dysgwyr yn cefnogi'r cynigion ar gyfer diwygio yn gyffredinol.

Ymgynghoriad technegol - Budd y Cyhoedd a Chymru Ffyniannus – y camau nesaf

- 4.9 Ym mis Ebrill 2018, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru "Budd y Cyhoedd a Chymru Ffyniannus - y camau nesaf"⁵ er mwyn ymgynghori ar gyfres o gynigion manwl ar gyfer diwygio'r system addysg a hyfforddiant ôl-orfodol yng Nghymru yng Nghymru, gan gynnwys cynigion technegol ar gyfer strwythur a gweithrediad y Comisiwn newydd. Yn ogystal, amlinellodd yr ymgynghoriad y ffordd y dylai/gallai gwariant Llywodraeth Cymru ar ymchwil ac arloesi gael ei oruchwylio a'i gydgyfylltu.
- 4.10 Un o brif gysyniadau'r ymgynghoriad oedd yr angen i'r cyfeiriad, y weledigaeth a'r dyheadau ar gyfer y sector fod yn hyblyg, yn addas i'r dyfodol ac wedi'u llywio gan y Comisiwn newydd.
- 4.11 Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys ymgynghoriad ysgrifenedig ac 19 o weithdai thematig rhyngweithiol gydag unigolion a sefydliadau o bob cwr o Gymru. Daeth 422 o ymatebion ysgrifenedig i law.
- 4.12 Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad technegol yn gefnogol i'r egwyddorion diwygio, gan gynnwys:
- yr angen am gysondeb ar draws y sector a'r angen i bob darparwr fod yn destun trefniadau rheoleiddio tebyg;
 - yr angen clir i'r Comisiwn fonitro a gwella ansawdd ar draws y sector a'r angen i alinio darpariaeth ar draws y sector;
 - sicrhau bod y drefn reoleiddio yn cyd-fynd â swyddogaethau rheoleiddio'r Comisiwn er mwyn galluogi monitro priodol ac osgoi dyblygu;
 - yr angen am ymgysylltu ehangach â staff a dysgwyr;
 - cyflwyno gweithdrefnau i ddiogelu dysgwyr a gweithdrefnau cwyno;

⁵ [Llywodraeth Cymru | Budd y Cyhoedd a Chymru Ffyniannus - y camau nesaf](#)

- yr angen am swyddogaeth reoleiddio gryfach ar gyfer y Comisiwn gydag ystod o opsiynau ymyrryd cymesur;
- yr angen i'r Comisiwn ddefnyddio diddymu fel cam olaf yn unig ac y dylid rhoi ystyriaeth lawn i'r effaith ar ddysgwyr, staff a'r economi ehangach;
- cael cylchoedd cynllunio hirach o bum mlynedd a rhoi'r pwerau ar gyfer cynllunio a chyllido i'r Comisiwn;
- yr angen i gyhoeddi data llawn ynghylch darparwyr a'u perfformiad yn erbyn targedau, a sicrhau bod y data'n gyson â'r data cyhoeddus sydd eisoes yn bodoli;
- trosglwyddo cyllid yn uniongyrchol i'r Comisiwn gan gadw at system debyg i'r system gyllido bresennol, ond gyda chyfle i'w symleiddio ar draws y sector er mwyn caniatáu dull gweithredu llai manwl ar gyfer telerau ac amodau a chysylltiad uniongyrchol i Gytundebau Deilliannau a chynllunio;
- cyflwyno system gynllunio a chyllido sy'n rhoi mwy o bwyslais ar ganlyniadau o ran cyflogadwyedd a darpariaeth a arweinir gan y galw;
- dylid gosod dyletswydd benodol ar y Comisiwn i roi sylw dyledus i'r Gymraeg.

4.13 Roedd y meysydd lle argymhellodd rhanddeiliaid bod angen mireinio'r cynigion ymhellach yn cynnwys:

- yr angen i'r Bil ganiatáu rhywfaint o hyblygrwydd er mwyn rhoi'r rhyddid i'r Comisiwn allu gweithredu heb orfod bod yn rhy agos i Lywodraeth Cymru;
- yr angen i adeiladu'n ofalus y berthynas rhwng Lywodraeth Cymru a'r Comisiwn, gan ganolbwyntio ar flaenoriaethau strategol a gallu'r Comisiwn i bennu ei gyfeiriad ei hun, a'r angen am ddull gweithredu cytbwys ar gyfer cadw rhyddid academiaidd;
- yr angen i Weinidogion fod â phwerau ymyrryd ond bod y rhain yn cael eu hystyried yn ofalus ac yn gymesur;
- yr angen i'r Comisiwn gael mwy o bŵer i ddiogelu'n ddigonol a chynrychioli orau buddiannau rhanddeiliaid ehangach fel dysgwyr a staff, gyda chynrychiolaeth ddigonol o bob sector ac o blith staff a dysgwyr ar y Comisiwn a'i fwrdd;
- ystyried un cynllun cofrestru a rheoleiddio llawn ar draws y sector;
- dylai'r Gymraeg gael eu gwreiddio ar draws pob gweithgaredd o ystyried pwysigrwydd y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg ac argymhellion adolygiad Weingarten;
- rhoi ystyriaeth bellach i fodel cyllido ac annibynniaeth y Coleg Cymraeg Cenedlaethol;
- roedd yr ymatebion mewn perthynas â chweched dosbarth ysgolion yn gymysg, ond y consensws cyffredinol oedd y dylai fod cysondeb ar draws y sector addysg ôl-16 gyda rôl glir ar gyfer y Comisiwn ond rôl i Weinidogion Cymru hefyd o ran sicrhau dull cydlynol ar gyfer darparu addysg cyn-16 ac ôl-16 mewn ardal leol;
- yr angen i'r Comisiwn gael rôl yn y broses o gyllido darpariaeth HCA;
- yr angen i gynllunio'r mecanweithiau ar gyfer cyllido ymchwil ac arloesi yng Nghymru ar wahân i'r trefniadau ar gyfer cyllido addysg, a defnyddio telerau ac amodau grant neu gontractau er mwyn cael system gyllido eang ac amrywiol;
- yr angen i sicrhau nad yw'r trefniadau cyllido'n cael effaith andwyol ar y ddarpariaeth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol;
- os oes angen, y dylai cyllid uniongyrchol ar gyfer gofynion sydd er budd y genedl gael ei weinyddu gan y Comisiwn yn hytrach nag yn uniongyrchol gan Weinidogion Cymru;

- roedd cefnogaeth gyffredinol i'r cynnig bod y cyfrifoldeb am gyllido prentisiaethau'n cael ei gynnwys yng nghylch gwaith y Comisiwn, ond bod y system hon yn addas i'r dyfodol.

4.14 O ystyried natur dechnegol y Bil a'i apêl gyfyngedig i'r cyhoedd ehangach, ni theimlwyd yn wreiddiol ei bod yn briodol cynnal ymgynghoriad agored ar Fil drafft. Fodd bynnag, yn sgil pandemig Covid-19 a'r penderfyniad dilynol i ohirio'r broses o gyflwyno'r Bil, penderfynwyd bod cyhoeddi'r Bil ar ffurf drafft yn gyfle i ymgysylltu ymhellach â rhanddeiliaid ac archwilio'r cynigion polisi manwl ac ystyried eu heffaith lawn.

Ymgynghoriad ar y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) drafft

4.15 Ar 14 Gorffennaf 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) drafft.

4.16 Yn ogystal, ym mis Tachwedd 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru hefyd ei gweledigaeth ar gyfer y sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol yng Nghymru.

4.17 Cynhaliwyd yr ymgynghoriad dros 20 wythnos er mwyn rhoi mwy o amser i randdeiliaid ystyried y Bil Drafft, yng ngoleuni'r heriau ychwanegol yr oeddent yn eu hwynebu oherwydd y pandemig.

4.18 Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys cyfres o gwestiynau a oedd yn ymdrin â gwahanol agweddau ar y Bil Drafft, gan gynnwys cwestiwn penodol a oedd yn gofyn am farn rhanddeiliaid ar y Bil Drafft yng ngoleuni'r pandemig, a chwestiwn cyffredinol a oedd yn galluogi rhanddeiliaid i gynnig ysgogiadau ychwanegol eraill i gefnogi'r agenda ar gyfer diwygio addysg a hyfforddiant ôl-orfodol yng Nghymru.

4.19 Cynhaliwyd nifer o sesiynau briffio technegol gyda rhanddeiliaid drwy gydol mis Hydref a mis Tachwedd 2020 i roi cefndir a chyd-destun pellach i'r Bil Drafft. Cynhaliwyd y sesiynau briffio'n rhithiol oherwydd cyfyngiadau coronafeirws. Roedd cynrychiolaeth ar ran rhanddeiliaid o bob rhan o'r sector, ac roedd y sesiynau'n fodd i randdeiliaid godi cwestiynau i'w helpu i ddeall y cynigion ac ymateb i'r ymgynghoriad. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 4 Rhagfyr 2020, a daeth 65 o ymatebion i law.

4.20 Dangosodd yr ymgynghoriad fod cefnogaeth eang i'r Comisiwn newydd, ond cafwyd rhai ymatebion mwy technegol a manwl hefyd yn ogystal ag ymatebion sydd wedi ysgogi archwiliad pellach o amrywiaeth o opsiynau polisi a deddfwriaethol.

4.21 Cyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar y Bil Drafft ar 25 Chwefror 2021.

4.22 Ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad a gwaith datblygu polisi parhaus, gwnaed nifer o newidiadau i'r Bil Drafft cyn ei gyflwyno gerbron y Senedd. Mae Tabl 4.1 yn nodi'r newidiadau, a'r rhesymau dros y newidiadau hynny. Mae rhifau'r adrannau isod yn cyfeirio at adrannau'r Bil fel y'u diwygiwyd yng Nghyfnod 2, oni nodir yn wahanol.

Tabl 4.1

Newidiadau a wnaed	Rheswm
<p>Rhan 1: Fframwaith strategol ar gyfer addysg drydyddol ac ymchwil – dyletswyddau strategol y Comisiwn</p> <p>Mae Adran 2 o'r Bil Drafft a oedd yn darparu ar gyfer 'Dyletswyddau cyffredinol y Comisiwn' wedi'i dileu a'i disodli gan un ar ddeg dyletswydd strategol (gweler adrannau 2 -12 o'r Bil).</p> <p>Mae'r gofynion ar gyfer cynllun strategol y Comisiwn (adran 4 o'r Bil Drafft ac adran 14 o'r Bil) wedi'u hehangu i gynnwys gofyniad bod y cynllun strategol yn nodi sut y mae'r Comisiwn yn bwriadu cyflawni'r dyletswyddau strategol.</p>	<p>Diwygiwyd yng ngoleuni ymatebion rhanddeiliaid i'r ymgynghoriad lle tynnodd rhanddeiliaid sylw at yr angen i'r Bil ddarparu datganiad clir o gyfeiriad strategol y Comisiwn a'r rhesymau dros ei fodolaeth.</p> <p>Ystyriwyd ei bod yn fwy priodol disodli'r dyletswyddau cyffredinol gyda chyfres o ddyletswyddau strategol sy'n cwmpasu'r ystod o faterion y bydd yn ofynnol i'r Comisiwn eu hyrwyddo, eu hannog neu eu cyflawni. Bwriedir i'r dyletswyddau strategol hyn lywio ffocws strategol y Comisiwn a bod yn sail i gyflawni ei swyddogaethau.</p>
<p>Rhan 1: Fframwaith strategol ar gyfer addysg drydyddol ac ymchwil – rhyddid academiaidd</p> <p>Roedd y Bil Drafft yn cynnwys darpariaeth mewn perthynas â rhyddid academiaidd darparwyr addysg uwch yn adran 2(1)(g) ac a2(3); mae'r darpariaethau hyn wedi'u dileu o'r Bil.</p> <p>Mae adran 17 y Bil yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn a Gweinidogion Cymru roi sylw i bwysigrwydd diogelu rhyddid academiaidd darparwyr a staff addysg uwch yng Nghymru wrth arfer unrhyw un o'u swyddogaethau o dan y Bil.</p>	<p>Diwygiwyd yng ngoleuni ymatebion rhanddeiliaid i'r ymgynghoriad</p> <p>Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn galw am amddiffyniadau cliriach a mwy cynhwysfawr ar gyfer rhyddid academiaidd.</p> <p>Bwriad y darpariaethau newydd yw sicrhau bod y dyletswyddau ar y Comisiwn a Gweinidogion Cymru ynghylch diogelu rhyddid academiaidd yn glir ac yn gynhwysfawr, ac yn cwmpasu'r holl swyddogaethau y gallant eu harfer o dan y Bil.</p>

Newidiadau a wnaed	Rheswm
<p>Rhan 1: Fframwaith strategol ar gyfer addysg drydyddol ac ymchwil – canllawiau, cyfarwyddyd a swyddogaethau ychwanegol Gweinidogion Cymru</p> <p>Adrannau newydd wedi'u mewnosod sy'n:</p> <ul style="list-style-type: none"> (a) ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn roi sylw i ganllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru wrth arfer ei swyddogaethau (adran 20). (b) galluogi Gweinidogion Cymru i roi cyfarwyddyd cyffredinol (adran 21) i'r Comisiwn ynghylch cyflawni ei swyddogaethau. (c) galluogi Gweinidogion Cymru i roi, drwy reoliad, swyddogaethau atodol i'r Comisiwn (adran 22). 	<p>Nodwyd yn ystod y broses ddrafftio a'r bwriad oedd efelychu'r pwerau presennol sydd gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â CCAUC.</p>
<p>Rhan 2: Cofrestru darparwyr addysg drydyddol – amodau cofrestru</p> <p>Mae adran 18 o'r Bil Drafft wedi'i dileu o'r Bil i'w chyflwyno, a'i disodli gan amod cofrestru mwy cyffredinol, fel y nodir ym Mhennod 1 o Ran 2 o'r Bil, ynghyd â dyletswydd strategol ar y Comisiwn i hyrwyddo cyfle cyfartal (adran 3 o'r Bil fel y'i cyflwynwyd).</p> <p>Cadwyd darpariaethau adran 18 o'r Bil Drafft mewn perthynas ag amod terfyn ffioedd, gyda rhai addasiadau perthnasol, a darperir ar eu cyfer yn adran 32 o'r Bil.</p>	<p>Diwygiwyd yng ngoleuni ymatebion rhanddeiliaid i'r ymgynghoriad a oedd yn dangos bod Cynlluniau Mynediad a Chyfle (Cynlluniau Ffioedd a Mynediad gynt) yn rhy fiwrocraidd a rhagnodol.</p> <p>Mae'r darpariaethau hyn wedi'u dileu fel rhan o symudiad at ddull mwy strategol sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, a bydd yn darparu gofyniad rheoleiddio mwy hyblyg i'r Comisiwn ei weinyddu.</p>
<p>Rhan 3: Sicrhau a chyllido addysg drydyddol ac ymchwil – cyllido chweched dosbarth</p> <p>Effaith y Bil Drafft oedd galluogi'r Comisiwn a Gweinidogion Cymru i ddarparu cyllid i gorff llywodraethu ysgol a gynhelir yng Nghymru sy'n darparu addysg ôl-16 mewn perthynas ag addysg bellach neu hyfforddiant (adran 90) neu addysg drydyddol drwy gyfrwng y Gymraeg (adran 95(2)).</p> <p>Mae'r Bil wedi'i ddiwygio, drwy fewnosod is-adran (4) newydd i'r darpariaethau hyn, er mwyn atal y Comisiwn rhag darparu cyllid, neu wneud trefniadau i awdurdod lleol ddarparu cyllid, i gorff llywodraethu ysgol a gynhelir yng Nghymru sy'n darparu addysg ôl-16 mewn perthynas ag addysg bellach neu hyfforddiant (adran 96) neu addysg drydyddol drwy gyfrwng y Gymraeg (adran 102(2)).</p>	<p>Datblygu bwriad polisi presennol na chafodd ei wireddu'n llawn yn y Mesur drafft</p> <p>Nid oedd y Bil Drafft yn gyson â'r disgwyliad polisi y bydd darpariaeth chweched dosbarth ysgolion yn cael ei chyllido o dan ddarpariaethau penodol yn y Bil, sef adran 98 o'r Bil fel y'i cyflwynwyd.</p> <p>Fodd bynnag, y bwriad polisi yw y dylid galluogi'r Comisiwn i ddarparu cyllid i gyrff llywodraethu ysgolion unigol, neu wneud trefniadau i awdurdodau lleol ddarparu</p>

Newidiadau a wnaed	Rheswm
<p>Er mwyn galluogi'r Comisiwn i gyllido gweithgareddau arloesol, mae adran 96(5) o'r Bilyn galluogi'r Comisiwn i ddarparu cyllid, neu wneud trefniadau i awdurdod lleol ddarparu cyllid, i gorff llywodraethu ysgol a gynhelir yng Nghymru sy'n darparu addysg ôl-16 at ddibenion gweithgareddau arloesol.</p> <p>Diffinnir 'gweithgaredd arloesol' yn adran 96(6) fel gweithgaredd:</p> <ul style="list-style-type: none"> (a) a fydd, ym marn y Comisiwn, yn cyfrannu at godi safonau addysg drydyddol, a (b) sy'n cael ei ddisgrifio mewn dogfen a baratowyd gan y Comisiwn ac a gymeradwywyd gan Weinidogion Cymru. 	<p>cyllid, i gefnogi gweithgareddau arloesol.</p>
<p>Rhan 3: Sicrhau a chyllido addysg drydyddol ac ymchwil – addysg a hyfforddiant i bobl sy'n 19 oed neu'n hŷn</p> <p>Roedd y Bil Drafft, yn adran 86, yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn sicrhau bod cyfleusterau rhesymol yn cael eu darparu yng Nghymru ar gyfer addysg bellach a hyfforddiant sy'n addas ar gyfer gofynion oedolion sy'n 19 oed neu'n hŷn.</p> <p>Cedwir y ddarpariaeth hon yn adran 94 o'r Bil a'i hehangu i gynnwys darpariaeth newydd yn adran 93 o'r Bil.</p> <p>Mae'r adran newydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn sicrhau bod cyfleusterau priodol yn cael eu darparu yng Nghymru ar gyfer addysg a hyfforddiant perthnasol i bersonau cymwys sy'n addas i'w gofynion.</p> <p>Mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru bennu addysg berthnasol mewn rheoliadau, tra bo person cymwys yn berson sy'n 19 oed neu'n hŷn sy'n dod o fewn y disgrifiad a bennir mewn rheoliadau y caiff Gweinidogion Cymru eu gwneud.</p>	<p>Datblygu bwriad polisi presennol na chafodd ei wireddu'n llawn yn y Bil Drafft, wedi'i lywio gan ymatebion rhanddeiliaid i'r ymgynghoriad a oedd yn cynnwys galw am ddyletswydd gyllido gryfach ar gyfer addysg bellach a hyfforddiant mewn perthynas ag oedolion dros 19 oed.</p> <p>Nid yw'r ddyletswydd ar y Comisiwn o ran addysg a hyfforddiant i oedolion sy'n 19 oed neu'n hŷn, fel y darperir ar ei chyfer yn y Bil Drafft, yn ddigonol i ehangu cyfleoedd dysgu gydol oes, yn enwedig mewn perthynas ag addysg bellach a hyfforddiant.</p> <p>Mae cadw'r dyletswyddau cyllido sydd yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000 hefyd yn annigonol.</p>

Newidiadau a wnaed	Rheswm
<p>Rhan 3: Sicrhau a chyllido addysg drydyddol ac ymchwil - cyrff sy'n cydlafurio: cydsyniad</p> <p>Roedd y Bil Drafft yn galluogi darparwr sy'n cael cyllid gan y Comisiwn, o dan adrannau 80(1), 81(3), 88(1), 94(1) a 95(1) neu reoliadau a wnaed o dan adran 84, drosglwyddo'r cyllid i gorff sy'n cydlafurio.</p> <p>Er mwyn i berson fod yn gorff sy'n cydlafurio, rhaid i'r Comisiwn fod wedi rhoi caniatâd i'r person sy'n cael cyllid gan y Comisiwn dalu adnoddau ariannol iddo.</p> <p>Mae adran 107 o'r Bil yn darparu fframwaith o reolaethau mewn perthynas â chydsyniad y Comisiwn ar gyfer trosglwyddo cyllid gan ddarparwyr, sefydliadau neu unigolion a gyllidir yn uniongyrchol i gyrff sy'n cydlafurio o dan y pwerau cyllido penodedig (adrannau 87(3), 88(4)(a), 96(3)(a), 103(2)(a), 104(4) o'r Bil .</p>	<p>Nodwyd yn ystod y broses ddrafftio</p> <p>Er bod y Bil Drafft yn gofyn am gydsyniad y Comisiwn i basio cyllid i gyrff sy'n cydlafurio, nid oedd yn nodi unrhyw ofynion ynghylch rhoi cydsyniad o'r fath.</p> <p>Bwriad y fframwaith rheolaethau yw caniatáu i Weinidogion Cymru a'r Comisiwn ddiogelu buddiannau myfyrwyr, defnyddio arian cyhoeddus yn briodol a chadw enw da sector addysg drydyddol ac ymchwil Cymru tra'n cadw'r bwriad polisi gwreiddiol o ganiatáu ystod eang o gydweithio.</p>
<p>Rhan 3: Sicrhau a chyllido addysg drydyddol ac ymchwil a Rhan 5: Diogelu dysgwyr, gweithdrefnau cwyno ac ymgysylltu â dysgwyr – cod ymgysylltu â dysgwyr a chweched dosbarth ysgolion</p> <p>Ychwanegwyd darpariaethau newydd yn adrannau 100 a 123 o'r Bil er mwyn ei gwneud yn ofynnol i gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol yng Nghymru, sy'n darparu addysg i'r rhai sydd dros oedran ysgol gorfodol (h.y. y chweched dosbarth) gydymffurfio â gofynion y cod ymgysylltu â dysgwyr.</p>	<p>Diwygiwyd yng ngoleuni ymatebion rhanddeiliaid i'r ymgynghoriad a oedd yn codi pryderon ynghylch diffyg cydraddoldeb ar draws y sector ôl-16 oherwydd eithrio dysgwyr chweched dosbarth o'r cod ymgysylltu â dysgwyr.</p>
<p>Rhan 3: Sicrhau a chyllido addysg ac ymchwil drydyddol – cyfarwyddydau cymorth ariannol</p> <p>Mae adran 108 newydd yn galluogi Gweinidogion Cymru roi cyfarwyddyd i'r Comisiwn ynghylch darparu cymorth ariannol i bersonau perthnasol, pan fo'n ymddangos i Weinidogion Cymru bod materion ariannol y person perthnasol wedi'u camreoli, neu'n cael eu camreoli.</p>	<p>Nodwyd yn ystod y broses ddrafftio a'r bwriad oedd rhoi pŵer i Weinidogion Cymru sy'n cyfateb i'w pwerau presennol mewn perthynas â CCAUC.</p>
<p>Rhan 4: Prentisiaethau</p> <p>Roedd adran 101 o'r Bil Drafft yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru bennu sectorau galwedigaethol at ddibenion fframweithiau prentisiaethau.</p> <p>Mae adran 101 wedi'i dileu o'r Bil i'w chyflwyno, gyda darpariaeth yn lle hynny wedi'i chynnwys yn adran 113</p>	<p>Diwygiwyd yng ngoleuni ymatebion rhanddeiliaid i'r ymgynghoriad.</p> <p>Roedd nifer o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad yn pryderu am rannu pwerau rhwng Gweinidogion Cymru a'r</p>

Newidiadau a wnaed	Rheswm
<p>o'r Bil sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i bennu gofyniad mewn perthynas â sectorau galwedigaethol at ddibenion fframweithiau prentisiaethau. Cyn gwneud hynny, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Comisiwn.</p> <p>Mae hyn yn adlewyrchu gallu Gweinidogion Cymru i bennu gofynion lefel uchel ond nid cynnwys fframweithiau prentisiaethau unigol.</p> <p>O dan y darpariaethau diwygiedig, penderfynu ar gymwysterau penodol fydd cylch gwaith y Comisiwn, yn ogystal â'r broses ardystio.</p>	<p>Comisiwn yn ymwneud â'u priod swyddogaethau mewn perthynas â phrentisiaethau.</p>
<p>Rhan 7: Amrywiol a chyffredinol</p> <p>Mae darpariaethau newydd yn adran 138 yn cynnwys dyletswydd i ymgynghori â'r Comisiwn ar wasanaethau gyrfaoedd.</p>	<p>Diwygiwyd yng ngoleuni ymatebion rhanddeiliaid i'r ymgynghoriad ynghylch rôl y Comisiwn mewn perthynas â gwybodaeth, cyngor ac arweiniad ar yrfaoedd.</p>
<p>Atodlen 1: Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil</p> <p>Darparodd paragraff 11 o Atodlen 1 i'r Bil Drafft ar gyfer sefydlu Pwyllgor Ymchwil ac Arloesi Cymru ac ar gyfer penodi Cadeirydd ac aelodau'r Pwyllgor gan Weinidogion Cymru.</p> <p>Mae Atodlen 1 i'r Bil fel y'i cyflwynwyd yn darparu ar gyfer sefydlu'r Pwyllgor, y cyfeirir ato bellach fel y Pwyllgor Ymchwil ac Arloesi, ym mharagraff 11, tra bod paragraff 12 o'r un Atodlen yn darparu y bydd Gweinidogion Cymru'n penodi Cadeirydd y Pwyllgor.</p>	<p>Diwygiwyd yng ngoleuni ymatebion rhanddeiliaid i'r ymgynghoriad lle nodwyd bod penodiad cyhoeddus Cadeirydd ac aelodau Pwyllgor Ymchwil ac Arloesi Cymru yn cyfyngu ar annibyniaeth y Comisiwn o Lywodraeth Cymru ac yn ychwanegu at faich gweinyddol pellach.</p>
<p>Atodlen 4: Mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol</p> <p>Diwygiadau canlyniadol ychwanegol i'r ddeddfwriaeth bresennol y darperir ar ei gyfer yn Atodlen 4 i'r Bil.</p>	<p>Nodwyd yn ystod y broses ddrafftio.</p>

4.23 Cyhoeddwyd crynodeb llawn o'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad:

- Ymgynghoriad ar y Papur Gwyn - Budd y Cyhoedd a Chymru Ffyniannus
- Digwyddiadau ar gyfer dysgwyr ifanc a gynhaliwyd fel rhan o'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn

- Ymgynghoriad technegol - Budd y Cyhoedd a Chymru Ffyniannus – y camau nesaf
- Gweithdai thematig yr ymgynghoriad technegol a gynhaliwyd fel rhan o'r ymgynghoriad technegol
- Ymgynghoriad ar y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) drafft

Pennod 5. Y pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth

- 5.1 Mae'r Bil yn cynnwys darpariaethau i wneud is-ddeddfwriaeth a chyhoeddi dyfarniadau. Mae Tabl 5.1 (is-ddeddfwriaeth) a Thabl 5.2 (cyfarwyddydau, codau a chanllawiau) yn nodi'r canlynol mewn perthynas â'r rhain:
- y person neu'r corff y rhoddir y pŵer iddo;
 - ar ba ffurf y mae'r pŵer i gael ei arfer;
 - priodoldeb y pŵer dirprwyedig;
 - y weithdrefn a gymhwysir; hynny yw, "cadarnhaol", "negyddol", neu "dim gweithdrefn", ynghyd â rhesymau pam y bernir ei bod yn briodol
- 5.2 Bydd Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar gynnwys yr is-ddeddfwriaeth os bernir ei bod yn briodol gwneud hynny. Penderfynir beth fydd union natur yr ymgynghori ar ôl i'r cynigion gael eu ffurfioli.

Tabl 5.1: Crynodeb o'r pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth yn narpariaethau Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru)

Adran	I bwy y rhoddir y pŵer	Ffurf	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
22(1)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae rheoliadau'n rhoi hyblygrwydd priodol i Weinidogion Cymru sicrhau bod y Comisiwn yn cael ei alluogi i arfer yr holl swyddogaethau perthnasol mewn perthynas ag addysg drydyddol, ymchwil ac arloesi pe bai'r sector yn esblygu yn y dyfodol.	Cadarnhaol Ddrafft	Gallai rheoliadau o dan yr adran hon gael yr effaith o newid y modd y mae deddfwriaeth sylfaenol yn gweithredu, ac o'r herwydd ystyrir ei bod yn briodol dilyn gweithdrefn gadarnhaol ddrafft y Senedd yn yr amgylchiadau hynny.
25(2)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	<p>Mae darparu ar gyfer y categorïau cofrestru mewn rheoliadau yn hytrach nag ar wyneb y Bil yn rhoi hyblygrwydd priodol i sicrhau eu bod yn adlewyrchu newidiadau perthnasol yn y sector addysg drydyddol yn y dyfodol.</p> <p>Bydd hyn yn caniatáu i'r system ar gyfer rheoleiddio'r sector barhau'n gymesur, yn atebol ac yn hyblyg ac yn sicrhau ei bod yn parhau i ddiwallu anghenion yn y dyfodol.</p>	Cadarnhaol Ddrafft	Gallai rheoliadau o dan yr adran hon gael yr effaith o newid y modd y mae deddfwriaeth sylfaenol yn gweithredu, ac o'r herwydd ystyrir ei bod yn briodol dilyn gweithdrefn gadarnhaol ddrafft y Senedd yn yr amgylchiadau hynny.
25(5)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae galluogi Gweinidogion Cymru i wahardd, drwy reoliadau, cofrestru darparwr mewn un categori o'r gofrestr, ar yr un pryd ag y mae wedi'i gofrestru mewn un neu fwy o gategoriâu eraill, yn	Negyddol	Mae sylwedd y ddarpariaeth hon wedi'i nodi'n glir ar yr wyneb ar y Bil.

Adran	I bwy y rhoddir y pŵer	Ffurf	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
			briodol gan y bydd yn sicrhau'r hyblygrwydd angenrheidiol i ganiatáu i'r system gofrestru ymateb i newidiadau yn y dyfodol.		Mae'r rheoliadau hyn yn rhagnodi materion technegol a gweinyddol y gallai fod angen eu diweddarau o bryd i'w gilydd, ac felly bernir bod y weithdrefn negyddol yn briodol.
25(8)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Gall fod yn briodol cynnwys gwybodaeth wahanol yn y gofrestr yn y dyfodol, ac felly mae hyn yn addas i'w bennu mewn rheoliadau er mwyn rhoi'r hyblygrwydd angenrheidiol i Weinidogion Cymru.	Negyddol	<p>Mae sylwedd y ddarpariaeth hon wedi'i nodi'n glir ar yr wyneb ar y Bil.</p> <p>Mae'r rheoliadau hyn yn rhagnodi materion technegol a gweinyddol y gallai fod angen eu diweddarau o bryd i'w gilydd, ac felly bernir bod y weithdrefn negyddol yn briodol.</p>
27(3)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Wrth i'r sector addysg drydyddol esblygu, efallai y bydd angen rhagnodi amodau ychwanegol y mae'n rhaid i ddarparwyr eu bodloni er mwyn cael eu hychwanegu at y gofrestr, ac felly mae rheoliadau o'r fath yn briodol.	Cadarnhaol Drafft	Gallai rheoliadau o dan yr adran hon gael yr effaith o newid y modd y mae deddfwriaeth sylfaenol yn gweithredu, ac o'r herwydd ystyrir ei bod yn briodol dilyn gweithdrefn gadarnhaol ddrafft y Senedd yn yr amgylchiadau hynny.

Adran	I bwy y rhoddir y pŵer	Ffurf	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
32(2)(b)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	<p>Mae pennu, mewn rheoliadau, y categorïau cofrestru sydd i fod yn gategorïau terfyn ffioedd yn rhoi hyblygrwydd priodol i adlewyrchu unrhyw newidiadau yn y sector addysg drydyddol.</p> <p>Bydd hyn yn caniatáu i'r system ar gyfer rheoleiddio'r sector barhau'n gymesur, yn atebol ac yn hyblyg ac yn sicrhau ei bod yn parhau i ddiwallu anghenion yn y dyfodol.</p>	Cadarnhaol Drafft	Gallai rheoliadau o dan yr adran hon gael yr effaith o newid y modd y mae deddfwriaeth sylfaenol yn gweithredu, ac o'r herwydd ystyrir ei bod yn briodol dilyn gweithdrefn gadarnhaol ddrafft y Senedd yn yr amgylchiadau hynny.
32(4)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae rheoliadau'n briodol gan eu bod yn darparu'r hyblygrwydd angenrheidiol i sicrhau bod y disgrifiadau o gyrsiau cymwys yn adlewyrchu unrhyw newidiadau yn y dyfodol.	Negyddol	Mae'r rheoliadau hyn yn rhagnodi materion technegol a gweinyddol y gallai fod angen eu diweddarau o bryd i'w gilydd, ac felly bernir bod y weithdrefn negyddol yn briodol.
32(8)(b)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae rheoliadau'n briodol gan ei bod yn debygol y bydd angen diweddarau'n rheolaidd y disgrifiad o berson cymwys er mwyn adlewyrchu anghenion polisi sy'n newid.	Negyddol	Mae'r rheoliadau hyn yn rhagnodi materion technegol a gweinyddol y gallai fod angen eu diweddarau o bryd i'w gilydd, ac felly bernir bod y weithdrefn negyddol yn briodol.

Adran	I bwy y rhoddir y pŵer	Ffurf	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
32(10)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	<p>Mae rheoliadau'n briodol gan y gallai fod angen i'r amgylchiadau lle gall ffi fod yn daladwy newid er mwyn cymryd i ystyriaeth newidiadau yn y dyfodol a sicrhau bod y system gofrestru'n parhau'n hyblyg.</p> <p>Yn ogystal, mae hwn yn ailddatgan pŵer sy'n bodoli eisoes.</p>	Negyddol	Mae'r rheoliadau hyn yn rhagnodi materion technegol a gweinyddol y gallai fod angen eu diweddarau o bryd i'w gilydd, ac felly bernir bod y weithdrefn negyddol yn briodol.
34	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae'n briodol rhoi'r hyblygrwydd i Weiniogion Cymru ddarparu ar gyfer amodau cofrestru parhaus gorfodol mewn rheoliadau gan ei fod yn caniatáu i newidiadau gael eu hystyried yn y dyfodol ac yn helpu i sicrhau bod y system gofrestru yn parhau'n hyblyg.	Cadarnhaol Drafft	Gallai rheoliadau o dan yr adran hon gael yr effaith o newid y modd y mae deddfwriaeth sylfaenol yn gweithredu, ac o'r herwydd ystyrir ei bod yn briodol dilyn gweithdrefn gadarnhaol ddrafft y Senedd yn yr amgylchiadau hynny.
41(2)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	<p>Mae galluogi amgylchiadau ychwanegol lle mae'n rhaid dileu darparwr cofrestredig o un neu fwy o gategoriâu o'r gofrestr sydd i'w darparu mewn rheoliadau yn darparu ar gyfer hyblygrwydd priodol i sicrhau bod unrhyw newidiadau yn y dyfodol yn cael eu hadlewyrchu.</p> <p>Bydd hyn yn caniatáu i'r system ar gyfer rheoleiddio'r sector barhau'n gymesur, yn</p>	Cadarnhaol Drafft	Gallai rheoliadau o dan yr adran hon gael yr effaith o newid y modd y mae deddfwriaeth sylfaenol yn gweithredu, ac o'r herwydd ystyrir ei bod yn briodol dilyn gweithdrefn gadarnhaol ddrafft y Senedd yn yr amgylchiadau hynny.

Adran	I bwy y rhoddir y pŵer	Ffurf	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
			atebol ac yn hyblyg ac yn sicrhau bod y system yn diwallu anghenion yn y dyfodol.		
41(6)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae rheoliadau'n briodol i sicrhau'r hyblygrwydd angenrheidiol i ragnodi darpariaethau trosiannol neu ddarpariaethau arbed gwahanol yn ôl y gofyn.	Negyddol	Bydd y rhain yn dechnegol ac yn weithdrefnol eu natur a byddant ond yn cael eu defnyddio pan fo'u hangen at ddibenion sicrhau bod sefydliad yn cael ei ddileu'n wirfoddol o gategori o'r gofrestr yn effeithiol.
43(13)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae rheoliadau'n briodol i sicrhau'r hyblygrwydd angenrheidiol i ragnodi darpariaethau trosiannol neu ddarpariaethau arbed gwahanol yn ôl y gofyn.	Negyddol	Bydd y rhain yn dechnegol ac yn weithdrefnol eu natur a byddant ond yn cael eu defnyddio pan fo'u hangen at ddibenion sicrhau bod sefydliad yn cael ei ddileu'n wirfoddol o gategori o'r gofrestr yn effeithiol.
46(6)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae rheoliadau'n briodol gan ei bod yn debygol y bydd angen diweddarau'r uchafswm ar gyfer y terfyn ffioedd yn rheolaidd i adlewyrchu newidiadau yn y dyfodol. Yn ogystal, mae hwn yn ailddatgan pŵer dirprwyedig sy'n bodoli eisoes.	Cadarnhaol Drafft	Gallai rheoliadau o dan yr adran hon gael yr effaith o newid y modd y mae deddfwriaeth sylfaenol yn gweithredu, ac o'r herwydd ystyrir ei bod yn briodol dilyn gweithdrefn gadarnhaol

Adran	I bwy y rhoddir y pŵer	Ffurf	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
					ddrafft y Senedd yn yr amgylchiadau hynny.
54(5)(a) & (b)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae rheoliadau'n briodol i sicrhau'r hyblygrwydd angenrheidiol i ragnodi amserlenni gwahanol yn ôl y gofyn.	Negyddol	Mae'r rheoliadau hyn yn rhagnodi materion technegol a gweinyddol y gallai fod angen eu diweddarau o bryd i'w gilydd, ac felly bernir bod y weithdrefn negyddol yn briodol.
54(8)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae rheoliadau'n addas gan eu bod yn darparu'r hyblygrwydd angenrheidiol i sicrhau bod yr amgylchiadau pan fo person i'w drin, neu nad yw i'w drin, fel pe bai'n gyfrifol am ddarparu cwrs yn adlewyrchu unrhyw newidiadau yn y dyfodol. Yn ogystal, mae hwn yn ailddatgan pŵer dirprwyedig sy'n bodoli eisoes.	Negyddol	Mae'r rheoliadau hyn yn rhagnodi materion technegol a gweinyddol y gallai fod angen eu diweddarau o bryd i'w gilydd, ac felly bernir bod y weithdrefn negyddol yn briodol.
57(1)(f)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Er bod sylwedd y ddyletswydd wedi'i nodi ar wyneb y Bil, efallai y bydd angen ychwanegu at y rhestr addysg a hyfforddiant yn adran 57(1) i sicrhau bod unrhyw newidiadau i'r sector addysg yn cael eu hadlewyrchu yn y trefniadau arolygu.	Negyddol	Mae sylwedd y ddarpariaeth hon wedi'i nodi'n glir ar yr wyneb ar y Bil. Mae'r rheoliadau hyn yn rhagnodi materion technegol a gweinyddol y gallai fod

Adran	I bwy y rhoddir y pŵer	Ffurf	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
					angen eu diweddarau o bryd i'w gilydd, ac felly bernir bod y weithdrefn negyddol yn briodol.
57(4)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae rheoliadau'n briodol i sicrhau'r hyblygrwydd angenrheidiol i ragnodi amserlenni gwahanol yn ôl y gofyn.	Negyddol	Mae'r rheoliadau hyn yn rhagnodi materion technegol a gweinyddol y gallai fod angen eu diweddarau o bryd i'w gilydd, ac felly bernir bod y weithdrefn negyddol yn briodol.
61(1)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Yn addas ar gyfer rheoliadau gan ei fod yn rhoi hyblygrwydd priodol i Weinidogion Cymru sicrhau bod y Prif Arolygydd yn cael ei alluogi i arfer yr holl swyddogaethau perthnasol mewn cysylltiad â'r addysg a hyfforddiant a ddisgrifir yn adran 57(1).	Negyddol	Mae sylwedd dyletswydd y Prif Arolygydd wedi'i nodi ar wyneb y Bil yn adran 57(1). Mae'r rheoliadau hyn yn rhagnodi materion technegol a gweinyddol y gallai fod angen eu diweddarau o bryd i'w gilydd, ac felly bernir bod y weithdrefn negyddol yn briodol.
63(9)(a)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Er bod sylwedd y ddyletswydd i ddarparu gwybodaeth wedi'i nodi ar wyneb y Bil, mae'n briodol galluogi darpariaeth	Negyddol	Mae sylwedd y ddarpariaeth hon wedi'i nodi'n glir ar yr wyneb ar y Bil.

Adran	I bwy y rhoddir y pŵer	Ffurf	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
			bellach i gael ei gwneud mewn rheoliadau gan fod hyn yn caniatáu hyblygrwydd i ymateb i newidiadau yn y sector addysg drydyddol yn y dyfodol.		Mae'r rheoliadau hyn yn rhagnodi materion technegol a gweinyddol y gallai fod angen eu diweddarau o bryd i'w gilydd, ac felly bernir bod y weithdrefn negyddol yn briodol.
63(9)(b)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae rheoliadau'n briodol i sicrhau'r hyblygrwydd angenrheidiol i ragnodi amserlenni gwahanol yn ôl y gofyn.	Negyddol	Mae'r rheoliadau hyn yn rhagnodi materion technegol a gweinyddol y gallai fod angen eu diweddarau o bryd i'w gilydd, ac felly bernir bod y weithdrefn negyddol yn briodol.
79(3)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Yn addas ar gyfer rheoliadau gan ei fod yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau a fydd yn rhoi manylion y broses adolygu gan gynnwys y seiliau dros adolygu, y cyfnod y caniateir gwneud cais am adolygiad ynddo a sut y mae hysbysiad neu gyfarwyddyd i'w drin hyd nes y cynhelir adolygiad. Gall y manylion hyn fod yn destun newidiadau yn y dyfodol.	Negyddol	Mae'r rheoliadau hyn yn rhagnodi materion technegol a gweinyddol y gallai fod angen eu diweddarau o bryd i'w gilydd, ac felly bernir bod y weithdrefn negyddol yn briodol.

Adran	I bwy y rhoddir y pŵer	Ffurf	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
			Yn ogystal, mae'n ailddatgan pŵer dirprwyedig sy'n bodoli eisoes yn Neddf Addysg Uwch (Cymru) 2015.		
80(1)(c)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Wrth i'r sector addysg drydyddol esblygu, efallai y bydd angen pennu darparwyr eraill y dylai eu cynaliadwyedd ariannol fod yn destun monitro gan y Comisiwn, ac felly mae rheoliadau'n briodol.	Cadarnhaol Drafft	Gallai rheoliadau o dan yr adran hon gael yr effaith o newid y modd y mae deddfwriaeth sylfaenol yn gweithredu a gwneud darparwyr ychwanegol yn ddarostyngedig i ddyletswydd y Comisiwn i fonitro ac adrodd ar gynaliadwyedd ariannol. Felly, ystyrir ei bod yn briodol dilyn gweithdrefn gadarnhaol ddrafft y Senedd yn yr amgylchiadau hynny.
80(2)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Wrth i'r sector addysg drydyddol esblygu, efallai y bydd angen eithrio rhai darparwyr cofrestredig o ddyletswydd y Comisiwn i fonitro cynaliadwyedd ariannol, gan fod rheoliadau o'r fath yn briodol.	Cadarnhaol Drafft	Gallai rheoliadau o dan yr adran hon gael yr effaith o newid y modd y mae deddfwriaeth sylfaenol yn gweithredu drwy eithrio rhai darparwyr o ddyletswydd y Comisiwn i fonitro ac adrodd ar gynaliadwyedd ariannol. Felly, ystyrir ei bod yn briodol dilyn gweithdrefn gadarnhaol ddrafft y Senedd yn yr amgylchiadau hynny.

Adran	I bwy y rhoddir y pŵer	Ffurf	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
83(4)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	<p>Yn addas ar gyfer rheoliadau gan ei fod yn galluogi Gweinidogion Cymru i nodi manylion ynghylch sut y gellir gwneud ceisiadau, yr amgylchiadau lle y gellir tynnu dynodiad yn ôl ac effaith ei dynnu'n ôl ac wrth wneud hynny ymateb i natur gyfnewidiol ddarparwyr addysg uwch</p> <p>Yn ogystal, mae'n ailddatgan pŵer dirprwyedig sy'n bodoli eisoes.</p>	Cadarnhaol Drafft	Gallai rheoliadau o dan yr adran hon gael yr effaith o newid y modd y mae deddfwriaeth sylfaenol yn gweithredu, ac o'r herwydd ystyrir ei bod yn briodol dilyn gweithdrefn gadarnhaol ddrafft y Senedd yn yr amgylchiadau hynny.
84	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	<p>Mae rheoliadau'n briodol i sicrhau'r hyblygrwydd angenrheidiol i ragnodi diffiniad gwahanol neu eithriadau ychwanegol o'r diffiniad o ffioedd mewn ymateb i unrhyw newidiadau yn y dyfodol</p> <p>Yn ogystal, mae'n ailddatgan pŵer dirprwyedig sy'n bodoli eisoes.</p>	Negyddol	Mae'r rheoliadau hyn yn rhagnodi materion technegol a gweinyddol y gallai fod angen eu diweddarau o bryd i'w gilydd, ac felly bernir bod y weithdrefn negyddol yn briodol.
87(3)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	<p>Mae rheoliadau'n briodol er mwyn sicrhau'r hyblygrwydd angenrheidiol i Weinidogion Cymru allu pennu categorïau o ddarparwyr cofrestredig y gall y Comisiwn ddarparu cymorth ariannol iddynt, a chymryd i ystyriaeth unrhyw newidiadau yn y sector addysg drydyddol yn y dyfodol.</p>	Cadarnhaol Drafft	Gallai rheoliadau o dan yr adran hon gael yr effaith o newid y modd y mae deddfwriaeth sylfaenol yn gweithredu, ac o'r herwydd ystyrir ei bod yn briodol dilyn gweithdrefn gadarnhaol

Adran	I bwy y rhoddir y pŵer	Ffurf	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
					ddrafft y Senedd yn yr amgylchiadau hynny.
87(4)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae rheoliadau'n briodol er mwyn sicrhau'r hyblygrwydd angenrheidiol i Weinidogion Cymru bennu'r gofynion sydd i'w bodloni drwy gwrs hyfforddiant cychwynnol athrawon cyn y gall y Comisiwn roi cymorth ariannol i sefydliad mewn perthynas â darparu'r cwrs hwnnw.	Negyddol	Mae'r rheoliadau hyn yn rhagnodi materion technegol a gweinyddol y gallai fod angen eu diweddarau o bryd i'w gilydd, ac felly bernir bod y weithdrefn negyddol yn briodol.
88(1)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae rheoliadau'n briodol gan y byddant yn caniatáu'r hyblygrwydd i ddiwygio'r cyrsiau addysg uwch, neu'r disgrifiadau o gyrsiau addysg uwch, sy'n derbyn cymorth ariannol yn uniongyrchol gan y Comisiwn wrth i'r sector addysg drydyddol esblygu.	Negyddol	Mae'r rheoliadau hyn yn rhagnodi materion technegol a gweinyddol y gallai fod angen eu diweddarau o bryd i'w gilydd, ac felly bernir bod y weithdrefn negyddol yn briodol.
93(3)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae rheoliadau'n briodol i sicrhau bod gan Weinidogion Cymru yr hyblygrwydd i bennu addysg a hyfforddiant perthnasol gan ystyried newidiadau yn y sector addysg drydyddol neu natur cyrsiau yn y dyfodol.	Cadarnhaol Drafft	Gallai rheoliadau o dan yr adran hon gael yr effaith o newid y modd y mae deddfwriaeth sylfaenol yn gweithredu, ac o'r herwydd ystyrir ei bod yn briodol dilyn gweithdrefn gadarnhaol ddrafft y Senedd yn yr amgylchiadau hynny.

Adran	I bwy y rhoddir y pŵer	Ffurf	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
93(7)(b)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae rheoliadau'n briodol i sicrhau bod gan Weinidogion Cymru yr hyblygrwydd i bennu person cymwys gan ystyried newidiadau yn y dyfodol ac anghenion polisi sy'n esblygu.	Cadarnhaol Drafft	Gallai rheoliadau o dan yr adran hon gael yr effaith o newid y modd y mae deddfwriaeth sylfaenol yn gweithredu, ac o'r herwydd ystyrir ei bod yn briodol dilyn gweithdrefn gadarnhaol ddrafft y Senedd yn yr amgylchiadau hynny.
97(2)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae rheoliadau'n addas i sicrhau'r hyblygrwydd angenrheidiol i Weinidogion Cymru bennu'r categorïau o ddarparwyr cofrestredig, gan ystyried unrhyw newidiadau yn y sector addysg drydyddol yn y dyfodol. Yn ogystal, gall fod angen i'r newidiadau fod yn drosiannol.	Cadarnhaol Drafft	Gallai rheoliadau o dan yr adran hon gael yr effaith o newid y modd y mae deddfwriaeth sylfaenol yn gweithredu, ac o'r herwydd ystyrir ei bod yn briodol dilyn gweithdrefn gadarnhaol ddrafft y Senedd yn yr amgylchiadau hynny.
98(6)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae rheoliadau'n briodol i sicrhau'r hyblygrwydd angenrheidiol i bennu eithriadau gan ystyried newidiadau yn y sector addysg drydyddol yn y dyfodol.	Cadarnhaol Drafft	Gallai rheoliadau o dan yr adran hon gael yr effaith o newid y modd y mae deddfwriaeth sylfaenol yn gweithredu, ac o'r herwydd ystyrir ei bod yn briodol dilyn gweithdrefn gadarnhaol ddrafft y Senedd yn yr amgylchiadau hynny.
103(3)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae rheoliadau'n addas i sicrhau'r hyblygrwydd angenrheidiol i Weinidogion	Cadarnhaol Drafft	Gallai rheoliadau o dan yr adran hon gael yr effaith o

Adran	I bwy y rhoddir y pŵer	Ffurf	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
			Cymru ystyried unrhyw newidiadau yn y sector addysg drydyddol yn y dyfodol wrth bennu categorïau o ddarparwyr.		newid y modd y mae deddfwriaeth sylfaenol yn gweithredu, ac o'r herwydd ystyrir ei bod yn briodol dilyn gweithdrefn gadarnhaol ddrafft y Senedd yn yr amgylchiadau hynny.
104(4)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae rheoliadau'n addas i sicrhau'r hyblygrwydd angenrheidiol i Weinidogion Cymru ystyried unrhyw newidiadau yn y sector addysg drydyddol yn y dyfodol wrth bennu categorïau o ddarparwyr y gall y Comisiwn ddarparu cyllid iddynt.	Cadarnhaol Drafft	Gallai rheoliadau o dan yr adran hon gael yr effaith o newid y modd y mae deddfwriaeth sylfaenol yn gweithredu, ac o'r herwydd ystyrir ei bod yn briodol dilyn gweithdrefn gadarnhaol ddrafft y Senedd yn yr amgylchiadau hynny.
107(1)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae pennu mewn rheoliadau y materion sydd i'w hystyried gan y Comisiwn yn sicrhau'r hyblygrwydd angenrheidiol i Weinidogion Cymru ystyried unrhyw newidiadau yn y sector addysg drydyddol yn y dyfodol.	Negyddol	Mae'r rheoliadau hyn yn rhagnodi materion technegol a gweinyddol y gallai fod angen eu diweddarau o bryd i'w gilydd, ac felly bernir bod y weithdrefn negyddol yn briodol.
109(4)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae darparu ar gyfer y disgrifiad y mae'n rhaid i brentisiaeth Gymreig gymeradwy ei fodloni mewn rheoliadau yn hytrach nag ar wyneb y Bil yn rhoi hyblygrwydd	Cadarnhaol Drafft	Gallai rheoliadau o dan yr adran hon gael yr effaith o newid y modd y mae deddfwriaeth sylfaenol yn gweithredu, ac o'r herwydd

Adran	I bwy y rhoddir y pŵer	Ffurf	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
			<p>priodol i sicrhau bod unrhyw newidiadau yn cael eu hystyried yn y dyfodol.</p> <p>Bydd hyn yn caniatáu i'r system brentisiaethau barhau i fod yn ymatebol, yn arloesi ac yn hyblyg ac yn sicrhau ei bod yn parhau i ddiwallu anghenion yn y dyfodol.</p>		<p>ystyrir ei bod yn briodol dilyn gweithdrefn gadarnhaol ddrafft y Senedd yn yr amgylchiadau hynny.</p>
110(1)(c)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	<p>Mae darparu ar gyfer y disgrifiad y mae'n rhaid i gytundeb prentisiaeth Gymreig amgen ei fodloni mewn rheoliadau yn hytrach nag ar wyneb y Bil yn rhoi hyblygrwydd priodol i sicrhau bod unrhyw newidiadau yn y dyfodol yn cael eu hystyried.</p> <p>Bydd hyn yn caniatáu i'r system brentisiaethau barhau i fod yn ymatebol, yn arloesi ac yn hyblyg ac yn sicrhau ei bod yn parhau i ddiwallu anghenion yn y dyfodol.</p>	Cadarnhaol Drafft	<p>Gallai rheoliadau o dan yr adran hon gael yr effaith o newid y modd y mae deddfwriaeth sylfaenol yn gweithredu, ac o'r herwydd ystyrir ei bod yn briodol dilyn gweithdrefn gadarnhaol ddrafft y Senedd yn yr amgylchiadau hynny.</p>
111(1)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	<p>Mae darparu ar gyfer y disgrifiad o brentisiaeth Gymreig amgen mewn rheoliadau yn hytrach nag ar wyneb y Bil yn rhoi hyblygrwydd priodol i sicrhau bod unrhyw newidiadau yn y dyfodol yn cael eu hystyried.</p>	Cadarnhaol Drafft	<p>Gallai rheoliadau o dan yr adran hon gael yr effaith o newid y modd y mae deddfwriaeth sylfaenol yn gweithredu, ac o'r herwydd ystyrir ei bod yn briodol dilyn gweithdrefn gadarnhaol</p>

Adran	I bwy y rhoddir y pŵer	Ffurf	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
			Bydd hyn yn caniatáu i'r system brentisiaethau barhau i fod yn ymatebol, yn arloesi ac yn hyblyg ac yn sicrhau ei bod yn parhau i ddiwallu anghenion yn y dyfodol.		ddrafft y Senedd yn yr amgylchiadau hynny.
116(6)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Gall fod yn briodol cynnwys gwybodaeth wahanol ar y gofrestr yn y dyfodol, ac felly mae hyn yn addas i'w nodi mewn rheoliadau er mwyn rhoi'r hyblygrwydd angenrheidiol i Weinidogion Cymru.	Negyddol	Mae'r rheoliadau hyn yn rhagnodi materion technegol a gweinyddol y gallai fod angen eu diweddarau o bryd i'w gilydd, ac felly bernir bod y weithdrefn negyddol yn briodol.
117(4)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae rheoliadau'n briodol gan y gallai fod angen darpariaeth mewn perthynas â chodi ffioedd er mwyn cymryd i ystyriaeth newidiadau yn y dyfodol.	Negyddol	Mae'r rheoliadau hyn yn rhagnodi materion technegol a gweinyddol y gallai fod angen eu diweddarau o bryd i'w gilydd, ac felly bernir bod y weithdrefn negyddol yn briodol.
122(5)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae rheoliadau'n briodol i sicrhau'r hyblygrwydd angenrheidiol i gymhwyso darpariaethau Rhan 4 o'r Bil gydag addasiadau.	Negyddol	Mae'r rheoliadau hyn yn rhagnodi materion technegol a gweinyddol y gallai fod angen eu diweddarau o bryd i'w gilydd, ac felly bernir bod y weithdrefn negyddol yn briodol.

Adran	I bwy y rhoddir y pŵer	Ffurf	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
126(2)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Yn diwygio adran 11 o Ddeddf Addysg Uwch 2004. Mae rheoliadau'n briodol i sicrhau'r hyblygrwydd angenrheidiol i Weinidogion Cymru gymryd i ystyriaeth unrhyw newidiadau yn y sector addysg drydyddol yn y dyfodol wrth bennu darparwr cymwys.	Negyddol	Mae'r rheoliadau hyn yn rhagnodi materion technegol a gweinyddol y gallai fod angen eu diweddarau o bryd i'w gilydd, ac felly bernir bod y weithdrefn negyddol yn briodol.
130(1)(l)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae rheoliadau'n briodol er mwyn caniatáu hyblygrwydd addas i Weinidogion Cymru allu addasu'r categorïau o bersonau a all rannu gwybodaeth â'r Comisiwn, gan ystyried newidiadau yn y dyfodol.	Negyddol	Mae'r rheoliadau hyn yn rhagnodi materion technegol a gweinyddol y gallai fod angen eu diweddarau o bryd i'w gilydd, ac felly bernir bod y weithdrefn negyddol yn briodol.
142(1)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae darparu ar gyfer yr amodau y dylai fod yn berthnasol i'r Brifysgol Agored (fel darparwr dysgu o bell y tu allan i Gymru) mewn rheoliadau yn hytrach nag ar wyneb y Bil yn rhoi hyblygrwydd priodol i sicrhau bod yr amodau'n adlewyrchu unrhyw newidiadau yn y dyfodol.	Cadarnhaol Drafft	Gallai rheoliadau o dan yr adran hon gael yr effaith o newid y modd y mae deddfwriaeth sylfaenol yn gweithredu, ac o'r herwydd ystyrir ei bod yn briodol dilyn gweithdrefn gadarnhaol ddrafft y Senedd yn yr amgylchiadau hynny.

Adran	I bwy y rhoddir y pŵer	Ffurf	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
143(1)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae rheoliadau'n briodol er mwyn sicrhau, lle mae'n angenrheidiol gwneud diwygiadau i ddeddfwriaeth arall i roi effaith lawn i'r Bil hwn, nad yw'n ofynnol cael rhagor o ddeddfwriaeth sylfaenol.	Cadarnhaol Drafft Negyddol	Lle mae rheoliadau'n diwygio neu'n diddymu deddfwriaeth sylfaenol, neu'n ei haddasu fel arall, ac y gallai'r newidiadau effeithio'n sylweddol ar y ddeddfwriaeth honno, mae'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft yn briodol. Lle nad yw rheoliadau'n diwygio deddfwriaeth sylfaenol, mae'r weithdrefn negyddol yn briodol.
145	Gweinidogion Cymru	Gorchymyn	Bydd cychwyn darpariaethau'r Bil drwy orchymyn yn galluogi i ddarpariaethau'r Bil ddod i rym a chael eu gweithredu ar yr adeg briodol.	Dim un o weithdrefnau'r Senedd	Pŵer yw hwn i bennu dyddiad dod i rym ar gyfer darpariaethau y cytunwyd arnynt eisoes yn y Bil. Ystyrir ei bod yn briodol nad oes angen un o weithdrefnau'r Senedd i wneud hyn.

Tabl 5.2: Crynodeb o'r pŵerau i wneud cyfarwyddydau a chyhoeddi codau a chanllawiau yn narpariaethau Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru)

Adran	I bwy y rhoddir y pŵer	Ffur	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
20	Gweinidogion Cymru	Canllawiau	Bwriad y canllawiau yw hwyluso'r broses o gymhwyso'r ddeddfwriaeth sylfaenol, ac mae angen i'r trefniadau fod yn hyblyg er mwyn caniatáu ar gyfer newidiadau yn y dyfodol.	Nid yw'n ddarostyngedig i un o weithdrefnau'r Senedd	Mae'r canllawiau hyn yn ymwneud yn bennaf â phroses, ac o'r herwydd ni ystyrir ei bod yn briodol defnyddio un o weithdrefnau'r Senedd.
21	Gweinidogion Cymru	Cyfarwyddyd	Caiff Gweinidogion Cymru roi cyfarwyddyd cyffredinol i'r Comisiwn. Ystyrir bod pŵerau cyfarwyddo'n briodol gan fod cyfarwyddyd yn benodol i weithredu'r Bil yn ymarferol. Hefyd, mae sylwedd y pŵer i gyfarwyddo'r Comisiwn wedi'i nodi ar wyneb y Bil ac mae'n gyfyngedig o ran cwmpas.	Nid yw'n ddarostyngedig i un o weithdrefnau'r Senedd. Rhaid gosod copi o'r cyfarwyddyd gerbron y Senedd.	Caiff Gweinidogion Cymru roi cyfarwyddyd i'r Comisiwn mewn perthynas â materion penodol, fel y nodir ar wyneb y Bil. I'r perwyl hwn, mae'r cyfarwyddyd yn ymwneud ag un corff a materion penodol ac nid ydynt yn darparu ar gyfer deddfu cyffredinol o natur ehangach. Felly, ni ystyrir ei bod yn briodol defnyddio un o weithdrefnau'r Senedd.
22(4) & (5)	Gweinidogion Cymru	Cyfarwyddyd	Ystyrir bod pŵerau cyfarwyddo'n briodol ac yn gymesur. Mae sylwedd y swyddogaeth y mae'r pŵer i roi cyfarwyddyd yn gymwys iddi wedi'i nodi ar wyneb y Bil.	Nid yw'n ddarostyngedig i un o weithdrefnau'r Senedd	Mae sylwedd y pŵer i gyfarwyddo'r Comisiwn wedi'i nodi ar wyneb y Bil ac mae'n gyfyngedig o ran cwmpas, ac felly nid oes angen cymhwyso gweithdrefn

Adran	I bwy y rhoddir y pŵer	Ffurf	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
31(g)	Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil	Canllawiau	Bwriad y canllawiau yw hwyluso'r broses o gymhwyso'r ddeddfwriaeth sylfaenol, ac mae angen i'r trefniadau fod yn hyblyg er mwyn caniatáu ar gyfer newidiadau yn y dyfodol.	Nid yw'n ddarostyngedig i un o weithdrefnau'r Senedd	Mae'r canllawiau hyn yn ymwneud yn bennaf â phroses, ac o'r herwydd nid ystyrir ei bod yn briodol defnyddio un o weithdrefnau'r Senedd.
35	Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil	Canllawiau	Bwriad y canllawiau yw hwyluso'r broses o gymhwyso'r ddeddfwriaeth sylfaenol, ac mae angen i'r trefniadau fod yn hyblyg er mwyn caniatáu ar gyfer newidiadau yn y dyfodol.	Nid yw'n ddarostyngedig i un o weithdrefnau'r Senedd	Mae'r canllawiau hyn yn ymwneud yn bennaf â phroses, ac o'r herwydd nid ystyrir ei bod yn briodol defnyddio un o weithdrefnau'r Senedd.
39(1)	Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil	Cyfarwyddyd	Ystyrir bod pwerau cyfarwyddo'n briodol ac yn gymesur. Mae sylwedd y swyddogaeth y mae'r pŵer i roi cyfarwyddyd yn gymwys iddi wedi'i nodi ar wyneb y Bil. Mae cyhoeddi'r cyfarwyddyd yn sicrhau ei fod yn agored ac yn dryloyw i'r rheini dan sylw.	Nid yw'n ddarostyngedig i un o weithdrefnau'r Senedd	Mae sylwedd y pŵer i gyfarwyddo'r Comisiwn wedi'i nodi ar wyneb y Bil ac mae'n gyfyngedig o ran cwmpas, ac felly nid oes angen cymhwyso gweithdrefn.
40	Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil	Canllawiau	Bwriad y canllawiau yw hwyluso'r broses o gymhwyso'r ddeddfwriaeth sylfaenol, ac mae angen i'r trefniadau fod yn hyblyg er mwyn caniatáu ar gyfer newidiadau yn y dyfodol.	Nid yw'n ddarostyngedig i un o weithdrefnau'r Senedd	Mae'r canllawiau hyn yn ymwneud yn bennaf â phroses, ac o'r herwydd nid ystyrir ei bod yn briodol defnyddio un o weithdrefnau'r Senedd.

Adran	I bwy y rhoddir y pŵer	Ffur	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
65	Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil	Cyfarwyddyd	Ystyrir bod pwerau cyfarwyddo yn briodol ac yn gymesur, mae sylwedd y swyddogaeth y mae'r pŵer i roi cyfarwyddyd yn gymwys iddo wedi'i nodi ar wyneb y Bil.	Nid yw'n ddarostyngedig i un o weithdrefnau'r Senedd	Mae hyn yn ymwneud ag adolygu polisi neu faes ac felly mae peidio â chymhwyso un o weithdrefnau'r Senedd yn gymesur ac yn briodol.
70(1)	Gweinidogion Cymru	Cyfarwyddyd	Ystyrir bod pwerau cyfarwyddo'n briodol ac yn gymesur. Mae sylwedd y swyddogaeth y mae'r pŵer i roi cyfarwyddyd yn gymwys iddi wedi'i nodi ar wyneb y Bil.	Nid yw'n ddarostyngedig i un o weithdrefnau'r Senedd	Mae sylwedd y pŵer i gyfarwyddo'r Comisiwn wedi'i nodi ar wyneb y Bil ac mae'n gyfyngedig o ran cwmpas, ac felly nid oes angen cymhwyso gweithdrefn.
73(4)	Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil	Cyfarwyddyd	Ystyrir bod pwerau cyfarwyddo'n briodol ac yn gymesur. Mae sylwedd y swyddogaeth y mae'r pŵer i roi cyfarwyddyd yn gymwys iddi wedi'i nodi ar wyneb y Bil.	Nid yw'n ddarostyngedig i un o weithdrefnau'r Senedd	Mae sylwedd y pŵer i gyfarwyddo'r Comisiwn wedi'i nodi ar wyneb y Bil ac mae'n gyfyngedig o ran cwmpas, ac felly nid oes angen cymhwyso gweithdrefn.
89(4)(c)	Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil	Canllawiau	Bwriad y canllawiau yw hwyluso'r broses o gymhwyso'r ddeddfwriaeth sylfaenol, ac mae angen i'r trefniadau fod yn hyblyg er mwyn caniatáu ar gyfer newidiadau yn y dyfodol.	Nid yw'n ddarostyngedig i un o weithdrefnau'r Senedd	Mae'r canllawiau hyn yn ymwneud yn bennaf â phroses, ac o'r herwydd nid ystyrir ei bod yn briodol defnyddio un o weithdrefnau'r Senedd.

Adran	I bwy y rhoddir y pŵer	Ffurf	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
96(7)(c)	Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil	Canllawiau	Bwriad y canllawiau yw hwyluso'r broses o gymhwyso'r ddeddfwriaeth sylfaenol, ac mae angen i'r trefniadau fod yn hyblyg er mwyn caniatáu ar gyfer newidiadau yn y dyfodol.	Nid yw'n ddarostyngedig i un o weithdrefnau'r Senedd	Mae'r canllawiau hyn yn ymwneud yn bennaf â phroses, ac o'r herwydd nid ystyrir ei bod yn briodol defnyddio un o weithdrefnau'r Senedd.
100(4)	Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil	Canllawiau	Bwriad y canllawiau yw hwyluso'r broses o gymhwyso'r ddeddfwriaeth sylfaenol, ac mae angen i'r trefniadau fod yn hyblyg er mwyn caniatáu ar gyfer newidiadau yn y dyfodol.	Nid yw'n ddarostyngedig i un o weithdrefnau'r Senedd	Mae'r canllawiau hyn yn ymwneud yn bennaf â phroses, ac o'r herwydd nid ystyrir ei bod yn briodol defnyddio un o weithdrefnau'r Senedd.
103(7)(c)	Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil	Canllawiau	Bwriad y canllawiau yw hwyluso'r broses o gymhwyso'r ddeddfwriaeth sylfaenol, ac mae angen i'r trefniadau fod yn hyblyg er mwyn caniatáu ar gyfer newidiadau yn y dyfodol.	Nid yw'n ddarostyngedig i un o weithdrefnau'r Senedd	Mae'r canllawiau hyn yn ymwneud yn bennaf â phroses, ac o'r herwydd nid ystyrir ei bod yn briodol defnyddio un o weithdrefnau'r Senedd.
108(1)	Gweinidogion Cymru	Cyfarwyddyd	Ystyrir bod pwerau cyfarwyddo'n briodol ac yn gymesur. Mae sylwedd y swyddogaeth y mae'r pŵer i roi cyfarwyddyd yn gymwys iddi wedi'i nodi ar wyneb y Bil.	Nid yw'n ddarostyngedig i un o weithdrefnau'r Senedd. Rhaid gosod copi o'r cyfarwyddyd gerbron y Senedd.	Caiff Gweinidogion Cymru roi cyfarwyddyd i'r Comisiwn mewn perthynas â materion penodol, fel y nodir ar wyneb y Bil. I'r perwyl hwn, mae'r cyfarwyddyd yn ymwneud ag un corff a materion penodol ac nid ydynt yn darparu ar gyfer deddfu cyffredinol o natur

Adran	I bwy y rhoddir y pŵer	Ffurf	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
					ehangach. Felly, ni ystyrir ei bod yn briodol defnyddio un o weithdrefnau'r Senedd.
118(3)(a)	Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil	Cyfarwyddyd	Ystyrir bod pwerau cyfarwyddo'n briodol ac yn gymesur. Mae sylwedd y swyddogaeth y mae'r pŵer i roi cyfarwyddyd yn gymwys iddi wedi'i nodi ar wyneb y Bil.	Nid yw'n ddarostyngedig i un o weithdrefnau'r Senedd	Mae sylwedd y pŵer i gyfarwyddo'r Comisiwn wedi'i nodi ar wyneb y Bil ac mae'n gyfyngedig o ran cwmpas, ac felly nid oes angen cymhwyso gweithdrefn
118(3)(b)	Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil	Canllawiau	Bwriad y canllawiau yw hwyluso'r broses o gymhwyso'r ddeddfwriaeth sylfaenol, ac mae angen i'r trefniadau fod yn hyblyg er mwyn caniatáu ar gyfer newidiadau yn y dyfodol.	Nid yw'n ddarostyngedig i un o weithdrefnau'r Senedd	Mae sylwedd y pŵer i gyfarwyddo'r Comisiwn wedi'i nodi ar wyneb y Bil ac mae'n gyfyngedig o ran cwmpas, ac felly nid oes angen cymhwyso gweithdrefn
124(6)	Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil	Canllawiau	Bwriad y canllawiau yw hwyluso'r broses o gymhwyso'r ddeddfwriaeth sylfaenol, ac mae angen i'r trefniadau fod yn hyblyg er mwyn caniatáu ar gyfer newidiadau yn y dyfodol.	Nid yw'n ddarostyngedig i un o weithdrefnau'r Senedd	Mae'r canllawiau hyn yn ymwneud yn bennaf â phroses, ac o'r herwydd nid ystyrir ei bod yn briodol defnyddio un o weithdrefnau'r Senedd.
127(1)	Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil	Cod	Mae nodi gofynion mewn Cod, yn hytrach nag ar wyneb y Bil neu mewn rheoliadau, yn darparu dull ymarferol a hygyrch, ac mae hefyd yn galluogi'r Comisiwn i ddatblygu'r Cod gyda	Nid yw'n ddarostyngedig i un o weithdrefnau'r Senedd	Mae'r cod hyn yn ymwneud yn bennaf â phroses, ac o'r herwydd nid ystyrir ei bod yn briodol defnyddio un o weithdrefnau'r Senedd.

Adran	I bwy y rhoddir y pŵer	Ffurf	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
			darparwyr addysg drydyddol a dysgwyr.		
132(5)	Gweinidogion Cymru	Canllawiau	Bwriad y canllawiau yw hwyluso'r broses o gymhwyso'r ddeddfwriaeth sylfaenol, ac mae angen i'r trefniadau fod yn hyblyg er mwyn caniatáu ar gyfer newidiadau yn y dyfodol.	Nid yw'n ddarostyngedig i un o weithdrefnau'r Senedd	Mae'r canllawiau hyn yn ymwneud yn bennaf â phroses, ac o'r herwydd nid ystyrir ei bod yn briodol defnyddio un o weithdrefnau'r Senedd.
133(1) & (2)(b)	Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil	Canllawiau	Bwriad y canllawiau yw hwyluso'r broses o gymhwyso'r ddeddfwriaeth sylfaenol, ac mae angen i'r trefniadau fod yn hyblyg er mwyn caniatáu ar gyfer newidiadau yn y dyfodol.	Nid yw'n ddarostyngedig i un o weithdrefnau'r Senedd	Mae'r canllawiau hyn yn ymwneud yn bennaf â phroses, ac o'r herwydd nid ystyrir ei bod yn briodol defnyddio un o weithdrefnau'r Senedd.
Atodlen 1, paragraff 5(1)	Gweinidogion Cymru	Rhestr	Mae manylu ar yr undebau llafur perthnasol mewn rhestr gyhoeddedig, yn hytrach nag ar wyneb y Bil neu mewn rheoliadau, yn rhoi hyblygrwydd priodol i sicrhau bod y rhestr yn parhau i fod yn gyfredol. Bydd rhestr gyhoeddedig hefyd yn sicrhau bod y broses yn agored a thryloyw.	Nid yw'n ddarostyngedig i un o weithdrefnau'r Senedd	Mae'r mater hwn yn ymwneud yn bennaf â phroses, ac o'r herwydd nid ystyrir ei bod yn briodol defnyddio un o weithdrefnau'r Senedd.
Atodlen 1, paragraff 7(1)	Gweinidogion Cymru	Rhestr	Mae manylu ar yr cyrff perthnasol mewn rhestr gyhoeddedig, yn hytrach nag ar wyneb y Bil neu mewn rheoliadau, yn rhoi hyblygrwydd	Nid yw'n ddarostyngedig i un o weithdrefnau'r Senedd	Mae'r mater hwn yn ymwneud yn bennaf â phroses, ac o'r herwydd nid ystyrir ei bod yn briodol

Adran	I bwy y rhoddir y pŵer	Ffurf	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
			<p>priodol i sicrhau bod y rhestr yn parhau i fod yn gyfredol.</p> <p>Bydd rhestr gyhoeddedig hefyd yn sicrhau bod y broses yn agored a thryloyw.</p>		defnyddio un o weithdrefnau'r Senedd.
Atodlen 1, paragraff 15(1)(b)	Gweinidogion Cymru	Cyfarwyddyd	<p>Caiff Gweinidogion Cymru roi cyfarwyddyd i'r Comisiwn mewn perthynas â pharatoi eu datganiad o gyfrifon</p> <p>Mae hyn yn briodol gan fod cyfarwyddyd yn benodol i weithredu'r Bil yn ymarferol.</p> <p>Mae sylwedd y pŵer i gyfarwyddo'r Comisiwn wedi'i nodi ar wyneb y Bill ac mae'n gyfyngedig o ran cwmpas.</p>	Nid yw'n ddarostyngedig i un o weithdrefnau'r Senedd	Bydd y cyfarwyddyd yn dechnegol eu natur ac yn ymdrin yn bennaf â phroses, ac o'r herwydd nid ystyrir ei bod yn briodol defnyddio un o weithdrefnau'r Senedd.
Atodlen 3, Paragraff 8	Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil	Cyfarwyddyd	Ystyrir bod cyfarwyddyd yn briodol er mwyn sicrhau bod y swyddogaethau dirprwyedig yn cael eu cyflawni'n briodol lle mae'r cyfrifoldeb am y swyddogaeth ddirprwyedig yn aros gyda'r Comisiwn.	Nid yw'n ddarostyngedig i un o weithdrefnau'r Senedd	Bydd y cyfarwyddyd yn ymdrin â chymhwyso'r swyddogaethau dirprwyedig yn dechnegol ac yn ymarferol, ac mae'n gyfyngedig o ran cwmpas ac felly nid oes angen cymhwyso gweithdrefn.

Adran	I bwy y rhoddir y pŵer	Ffurf	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
Atodlen 4, Paragraff 28(8)	Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil	Cyfarwyddyd	<p>Mewnosod adran 63A newydd yn Neddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013.</p> <p>Ymgynghorir ar yr amgylchiadau a'r cyfyngiadau ar yr hyn a allai sbarduno'r Comisiwn i gyfarwyddo awdurdod lleol i gyflwyno cynigion a'u cynnwys yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion statudol.</p>	Nid yw'n ddarostyngedig i un o weithdrefnau'r Senedd	Mae sylwedd y pŵer i gyfarwyddo'r Comisiwn wedi'i nodi ar wyneb y Bil ac mae'n gyfyngedig o ran cwmpas, ac felly nid oes angen cymhwyso gweithdrefn

RHAN 2 – ASESIAID EFFAITH RHEOLEIDDIOL

Pennod 6. Crynodeb o'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol

- 6.1 Cwblhawyd Aseiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y Bil ac mae'n dilyn isod.
- 6.2 Nid oes darpariaethau penodol yn y Bil sy'n codi gwariant ar Gronfa Gyfunol Cymru.
- 6.3 Mae'r tabl a ganlyn yn cyflwyno crynodeb o'r costau a'r manteision ar gyfer y Bil yn gyfan. Cynlluniwyd y tabl i gyflwyno'r wybodaeth sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 26.6 (viii) a (ix).

Pandemig Covid-19

- 6.4 Er bod yr amcangyfrifon o'r costau sydd wedi'u nodi yn yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol yn tybio y bydd y rolau trosiannol allweddol yn cael eu cyflwyno'n gynnar ac y bydd y Comisiwn newydd ar waith o 2023, cydnabyddir nad yw cwmpas llawn goblygiadau argyfwng Covid-19 i'r diwygiadau arfaethedig (gan gynnwys gweithredu'r Bil) yn hysbys eto. Mae datblygu a sefydlu'r Comisiwn yn parhau i fod yn flaenoriaeth i Weinidogion Cymru.

Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru)		
Yr opsiwn a ffefrir: Cyflwyno deddfwriaeth i wneud y canlynol:		
Diddymu CCAUC a sefydlu Comisiwn newydd, gyda'r cyfrifoldeb am oruchwylio addysg drydyddol ac ymchwil (gweler Pennod 7 i 18 am yr arfarniad o'r opsiynau a manylion pellach am bob opsiwn).		
Cyfnod: 2	Cyfnod gwerthuso: 2021-22 – 2030-31	Blwyddyn sail brisiau: 2021-22
Cyfanswm Cost £40,986,667	Cyfanswm Manteision £-	Gwerth Presennol Net: -£34,793,412
Gwerth presennol: £34,793,412	Gwerth presennol: £-	

Cost gweinyddu

Costau
Gweinidogion Cymru sy'n ysgwyddo'r holl gostau cyfredol ar gyfer rheoli a monitro'r sector addysg drydyddol ac ymchwil yn y pen draw; fel yr asiant darparu a'r cyllidwr uniongyrchol. Mae hyn yn cynnwys y ddyletswydd i gyllido CCAUC.
Mae'r Bil yn cynnig ei bod yn ddyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyllido'r Comisiwn. Bydd y cyfrifoldeb hwn yn cynnwys y costau sy'n gysylltiedig â chreu'r Comisiwn a thimau partneriaeth a pholisi Llywodraeth Cymru.

Yn y pen draw, y Comisiwn fydd yn gyfrifol ac yn atebol am ddefnyddio eu cyllideb, gan gynnwys y costau rhedeg, yr archwiliadau a chyfrifon, yn yr un modd ag unrhyw gorff noddi arall. Amlinellir y rhain yn Atodlen 1 y Bil.

Bydd creu'r Comisiwn yn costio £41.0m mewn costau rhedeg dros y cyfnod arfarnu (2021-22 – 2030-31). Ceir rhagor o wybodaeth ym Mhennod 19 – Costau a Manteision.

Mae'r cyfanswm cost net o £41.0m yn golygu'r gwahaniaeth rhwng cost yr opsiwn 'gwneud dim' o £158.6m, h.y. parhau â CCAUC a chadw swyddogaethau presennol Gweinidogion Cymru gyda staff cysylltiedig Llywodraeth Cymru, a chyfanswm cost amcangyfrifedig sefydlu'r Comisiwn o £199.5m, fel y dengys yn y crynodeb o'r costau yn y tabl isod.

Disgrifiad o'r gost	Blwyddyn	Cost (£,000)
Costau trosiannol	2021-22 i 2023-24	9,550
Costau staffio Llywodraeth Cymru a chostau cysylltiedig	2021-22 i 2022-23 (Hydref)	30,021
Costau staffio CCAUC a chostau cysylltiedig	2021-22 i 2022-23 (Hydref)	10,424
Costau rhedeg rheolaidd y Comisiwn	2023-24 (Tachwedd) i 2030-31	149,552
Cyfanswm y costau	2021-22 i 2030-31	199,547
Heb: Costau 'gwneud dim'	2021-22 i 2030-31	158,560
Costau ychwanegol net	2021-22 i 2030-31	40,987

Cyfrifwyd y costau dros gyfnod o 10 mlynedd (2021-22 i 2030-31).

Amcangyfrifir bod y costau trosiannol yn £9.6m wedi'u rhannu ar draws 2022-23 a 2023-24. Rhagwelir y bydd rhai costau TGCh a chostau lleoliad (tua £6.6m) yn cael eu cyfalafu, er y bydd y gwerth terfynol i'w gyfalafu yn dibynnu ar ganllawiau cyfrifyddu technegol.

Mae'r rhan fwyaf o'r costau trosiannol yn gostau TG (£4.9m). Mae'r costau trosiannol eraill yn cynnwys:

- costau dileu swyddi o £2m, ffigur sy'n seiliedig ar y sefyllfa waethaf a allai godi yn ôl gwaith KPMG;
- £1.7m ar leoliad (gan gynnwys les, a chostau megis costau cysylltu)
- £0.6m ar recriwtio cynnar, cyflogau a chostau nad ydynt yn gysylltiedig â'r gyflogres; a
- £0.3m ar gostau corfforaethol eraill yn ystod y broses bontio

Bydd sefydlu corff newydd yn golygu costau rhedeg ychwanegol sy'n angenrheidiol i gefnogi sefydliad ar wahân newydd a'r tîm partneriaeth yn Llywodraeth Cymru. Yn flynyddol, amcangyfrifir bod gan y Comisiwn newydd gostau rhedeg blynyddol o tua £20.1m, o'i gymharu â'r costau busnes fel arfer presennol o £15.7m y flwyddyn.

Nid yw costau nad ydynt yn arian parod, megis dibrisiant, wedi'u cynnwys, ac nid yw effaith y darpariaethau ar gyrrff cyhoeddus eraill o ran costau yn hysbys.

I grynhoi, bydd y Comisiwn yn costio £41.0m ychwanegol (dros gyfnod 10 mlynedd y rhagolwg) i'w sefydlu a bydd ganddo gostau rheolaidd o £4.5m y flwyddyn o gymharu â'r trefniadau presennol.

Mae'r tybiaethau manwl sy'n sail i'r cyfrifiadau cost i'w gweld yn Atodiad A i'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn.

Pontio: £9,550,000	Rheolaidd: £189,997,000	Cyfanswm: £199,547,000	Gwerth Presennol: £171,216,000
Arbedion costau			
<p>Ni fu'n bosibl mesur unrhyw arbedion cost hyd yma, ond gallai dod â'r timau cyllido a thaliadau o Lywodraeth Cymru a CCAUC at ei gilydd greu synergeddau ac arbedion. Hyd nes y bydd y gwaith hwnnw wedi'i gwblhau, nid oes disgwyl i sefydlu'r Comisiwn newydd greu unrhyw arbedion o ran costau.</p> <p>Mae'r costau yn y blwch isod yn cynrychioli costau busnes fel arfer. Cyflwynir y rhain yma i ddangos sail cyfrifo'r costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r opsiwn a ffefrir.</p>			
Pontio: £-	Rheolaidd: £158,560,000	Cyfanswm: £158,560,000	Gwerth Presennol: £136,422,000
Cost gweinyddu net: £40,987,000			

Costau cydymffurfio

Nid yw'r costau cydymffurfio yn hysbys.

Pontio: £	Rheolaidd: £	Cyfanswm: £	Gwerth Presennol: £
----------------------------	-------------------------------	------------------------------	--------------------------------------

Costau eraill

Costau anuniongyrchol (costau i gyrrdd eraill)

Mae'r costau a/neu'r manteision hyn yn anhysbys ar hyn o bryd. Rhagwelir y gallai'r darpariaethau yn y Bil effeithio ar y cyrff a'r sefydliadau canlynol, ac arwain at gostau ychwanegol neu arbedion cost:

- darparwyr addysg uwch yng Nghymru.
- darparwyr addysg bellach yng Nghymru.
- awdurdodau lleol.
- Coleg Cymraeg Cenedlaethol.
- y Brifysgol Agored.
- Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr Cymru.
- darparwyr dysgu seiliedig ar waith.
- yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd.
- Estyn.
- Cyngor y Gweithlu Addysg; a
- Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol.

Ni fu'n bosibl mesur y costau hyn gan y byddant yn dibynnu ar benderfyniadau a wneir gan y Comisiwn, a gall unrhyw ragdybiaethau a wneir gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd, i lywio'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol hwn, achub y blaen ar y penderfyniadau hyn.

Bwriedir cynnal rhagor o ymchwil a chasglu mwy o dystiolaeth i helpu i bennu costau anuniongyrchol ychwanegol gan gynnwys fel rhan o'r adolygiad ar ôl gweithredu (gweler Pennod 22).

Fodd bynnag, er nad ydynt wedi'u meintioli, ceir gwybodaeth am yr effeithiau a'r canlyniadau anuniongyrchol ym Mhennod 19 o'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol ac yn Adroddiad Alma Economics yn Atodiad B.

Pontio: £-	Rheolaidd: £-	Cyfanswm: £-	Gwerth Presennol: £-
----------------------	-------------------------	------------------------	--------------------------------

Costau neu anfanteision heb eu meintoli

Nid yw'r costau heb eu meintioli a'r anfanteision yn hysbys.

Manteision

Mae nifer o fanteision yn gysylltiedig â gweithredu'r ddeddfwriaeth arfaethedig. Ni fu'n bosibl mesur y rhain ar hyn o bryd ac felly nid yw eu gwerth ariannol yn hysbys.

Ceir manylion am y manteision a ragwelir o weithredu'r ddeddfwriaeth arfaethedig ym Mhennod 7 (Opsiynau), Penodau 8 – 18 (Opsiynau manwl ar gyfer diwygio) a Phennod 19 (Costau a Manteision).

Cyfanswm: £-	Gwerth Presennol: £-
------------------------	--------------------------------

Tystiolaeth, rhagdybiaethau ac ansicrwydd allweddol

Un ffactor allweddol sy'n rheoli costau yw'r strategaeth leoli a fydd yn cael ei fabwysiadu gan y sefydliad newydd. Gallai hyn gael effaith sylweddol ar nifer y staff sy'n trosglwyddo i'r sefydliad newydd a hefyd ar gostau'r lleoliadau eu hunain.

- Nid oes unrhyw ffactorau chwyddiant na disgowntio wedi'u cymhwyso i'r ffigurau a ragwelwyd gennym.
- Mae cryn ansicrwydd ynghylch cyfanswm y gost o greu meddalwedd casglu data bwrpasol ar gyfer y Comisiwn. Nodwyd £1,150,000 ar hyn o bryd,
- O ystyried nifer y ffactorau ansicr yn ymwneud â chreu a gweithredu'r Comisiwn, paratowyd yr amcangyfrif o gostau ar sail ddarbodus gan ddefnyddio tybiaethau allweddol ar yr ystod uchaf o werthoedd disgwylidig ac ar y pwynt cynharaf tebygol. Ceir manylion y tybiaethau allweddol, gan gynnwys effaith defnyddio amcangyfrifon uchaf a dadansoddiad o sensitifrwydd, yn Atodiad A.

Pennod 7. Yr opsiynau

- 7.1 Mae pennod 7 yn nodi gwerthusiad strwythuredig o'r rhestr faith o opsiynau ar gyfer mynd ati i ddiwygio'r sector addysg drydyddol yng Nghymru (gweler pennod 3 i gael sail resymegol fanwl dros ddiwygio).
- 7.2 Ym mis Medi 2016 cynhaliodd Llywodraeth Cymru werthusiad opsiynau cychwynnol yn erbyn cyfres o naw amcan allweddol ar gyfer diwygio. Ystyriwyd yr opsiynau hyn wedyn gan Weinidogion Cymru ym mis Rhagfyr 2016 ac fe'u cyflwynwyd i randdeiliaid eu hystyried yn ystod dau ymgynghoriad yn 2017 a 2018 (gweler Pennod 4).
- 7.3 Yn dilyn ymarfer eang i gaboli'r weledigaeth, y genhadaeth a'r nodau ar gyfer y Comisiwn a datblygu cynllun gwireddu buddion, cafodd y naw amcan allweddol eu diweddarau i adlewyrchu'r broses hon a'r heriau newydd a sylweddol sy'n wynebu y sector – heriau nad oeddynt yn bodoli pan gynhaliwyd y gwerthusiad opsiynau gwreiddiol.
- 7.4 Ceir pump o nodau lefel uchel ac 11 o amcanion lefel uchel â buddion cysylltiedig. Trafodir y buddion hyn yn fanwl ym Mhennod 19.
- 7.5 Mae'r nodau ar gyfer y Comisiwn yn cyd-fynd â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg drydyddol, fel y nodwyd yng Ngweledigaeth Strategol Llywodraeth Cymru. Byddant yn cyflwyno system sy'n ymwybodol o'r chwe maes perfformiad a argymhellir yn 'Gwneud y Gorau o Gyfraniad y System Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol i Gyflawni Nodau Cenedlaethol Cymru'⁶, ac yn cyfrannu'n uniongyrchol at y nodau a bennir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol⁷.
- 7.6 Dyma'r nodau lefel uchel:
- Cael system sy'n cryfhau llesiant a sylfeini economaidd Cymru, yn annog menter, yn ymateb i anghenion cyflogwyr ac yn galluogi sylfaen ymchwil berthnasol sy'n tyfu;
 - Cael system sy'n galluogi dysgu, asesu a chynnydd trwy gyfrwng y Gymraeg;
 - Cael system sy'n canolbwyntio ar y dysgwr ac sy'n hyrwyddo dysgu gydol oes ac yn cyflwyno dewis ac arweiniad effeithiol, ynghyd â mynediad teg at gyfleoedd a llwybrau dysgu priodol;
 - Cael system hynod gadarn, integredig, gynaliadwy ac ymatebol sy'n hyrwyddo cydweithredu, rhagoriaeth; ac sy'n rheoleiddio ag ymreolaeth;
 - Cael system a gefnogir gan ddarparwyr cydweithredol ac ymgysylltiol sy'n cyfoethogi'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu.
- 7.7 Dyma'r amcanion lefel uchel ar gyfer y Comisiwn mewn perthynas â'r system:
- Bod yn ymatebol i anghenion cyflogwyr ac ymdrin â'r bylchau sgiliau;
 - Gwella safle (fe'i diffinnir ar hyn o bryd gan safleoedd y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil), enw da a chyllid ymchwil sefydliadau ymchwil;
 - Gwella cyfleoedd ar gyfer prentisiaethau;
 - codi'r safonau i bawb; gwella cyfranogiad, cynnydd, perfformiad a deilliannau dysgwyr;

⁶ Llywodraeth Cymru | Gwneud y Gorau o Gyfraniad y System Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol i Gyflawni Nodau Cenedlaethol Cymru

⁷ Llywodraeth Cymru | Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

- gwella cynnig y cwricwlwm;
- gwella profiad dysgwyr a mynegi llais dysgwyr;
- gwella enw da, ystwythder a chyfeiriad addysg drydyddol a hyfforddiant;
- cyflwyno system well, gydymffurfiol ac effeithiol ar gyfer casglu, dadansoddi a dosbarthu data, sef system a fydd yn sicrhau bod gwybodaeth amserol, hygyrch a pherthnasol am addysg drydyddol yng Nghymru ar gael i bawb sydd ei hangen;
- lleihau cystadleuaeth a dyblygu diangen mewn cyrsiau.
- gwella cydlyniant a chysondeb gwaith monitro ariannol a gwaith monitro perfformiad, ynghyd â sicrhau ansawdd;
- gwella'r defnydd a wna'r gymuned o gyfleusterau addysg drydyddol a gwella'r cysylltedd.

Dull strwythuredig o werthuso opsiynau

- 7.8 Ym mis Medi 2019 cynhaliwyd gweithdy gwerthuso opsiynau a chyfres o gyfarfodydd gydag uwch-swyddogion allweddol Llywodraeth Cymru o'r Is-adrannau Addysg Uwch ac Addysg Bellach, y Gyfarwyddiaeth Addysg, Swyddfa'r Prif Gynghorydd Gwyddonol a'r Adran Gwasanaethau Cyfreithiol, a Chynghorydd Arbennig y Gweinidog Addysg, er mwyn llywio'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol hwn. Caiff y broses o ail-werthuso opsiynau dethol ar gyfer diwygio ei nodi isod.
- 7.9 Dyma'r opsiynau a werthuswyd (o'r Opsiwn 'Busnes fel Arfer' hyd at yr Opsiwn a Ffefrir (a fydd yn arwain at ddwyn y Bil ymlaen):
- **Opsiwn 1:** Busnes fel arfer.
 - **Opsiwn 2:** Cyfuno ar draws y sector, a defnyddio pwerau presennol i addasu dyletswyddau a chyfrifoldebau CCAUC.
 - **Opsiwn 3:** Mabwysiadu'r dull a ddatblygwyd yn Lloegr.
 - **Opsiwn 4:** Canoli:
 - **4a:** Llywodraeth Cymru yn dal gafael ar yr holl swyddogaethau addysg bellach / prentisiaethau / dosbarthiadau chwech a gynhelir, a throsglwyddo holl swyddogaethau CCAUC i Lywodraeth Cymru.
 - **4b:** Fel Opsiwn 4a, ond gyda chorff ar wahân yn gyfrifol am ymchwil.
 - **Opsiwn 5:** Sefydlu Awdurdod Addysg Drydyddol ar raddfa fach i ysgwyddo'r rhan fwyaf o swyddogaethau CCAUC ac ysgwyddo cyfrifoldeb dros rai swyddogaethau eraill.
 - **5a:** Byddai Llywodraeth Cymru yn dal gafael ar gyfrifoldebau'n ymwneud â pholisïau, cynllunio cyllid a chontractio addysg bellach / prentisiaethau / chweched dosbarth ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol. Byddai'r Awdurdod Addysg Drydyddol yn cael ei sefydlu i ysgwyddo'r rhan fwyaf o swyddogaethau CCAUC ac ysgwyddo cyfrifoldeb dros reoleiddio a llywodraethu Addysg Bellach, Prentisiaethau, rhai agweddau ar chweched dosbarth ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol ac addysg uwch. Hefyd, byddai'n gyfrifol am sicrhau bod yr holl sectorau ôl-16 yn cael eu harolygu, yn ogystal â chynorthwyo gyda datblygu arweinyddiaeth a datblygu proffesiynol parhaus, ymdrin â chwynion/apeliadau gan fyfyrwyr, monitro iechyd ariannol a chyllid ymchwil.

- **5b:** Fel Opsiwn 5a, ond gwneud yr Awdurdod Addysg Drydyddol yn gyfrifol am y canlynol hefyd datblygu swyddogaethau'n ymwneud â gwybodaeth am y farchnad lafur a Phartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol a cynghori Llywodraeth Cymru ynghylch strategaethau addysg drydyddol yn y dyfodol.
 - **5c:** Fel Opsiwn 5b, ond gyda chorff ar wahân – sef Ymchwil ac Arloesi Cymru – yn goruchwyllo ymchwil.
- **Opsiwn 6:** Sefydlu Awdurdod Addysg Drydyddol ar raddfa fawr (“y Comisiwn”) i ysgwyddo holl swyddogaethau CCAUC a swyddogaethau eraill ar draws y sector.

Arfarnu'r opsiynau a'r broses werthuso

7.10 Cafodd yr holl opsiynau eu croesgyfeirio a'u gwerthuso yn erbyn yr amcanion lefel uchel a amlinellir uchod (gweler paragraff 7.7).

Meini Prawf Sgorio

7.11 Cafodd pob opsiwn ei werthuso a'i sgorio'n unol â'r raddfa ganlynol:

Sgôr	Meini Prawf
-1	Byddai'r opsiwn yn arwain at waethygu'r sefyllfa / sefyllfa wannach
0	Ni fyddai'r opsiwn yn cyflawni'r amcan / h.y. byddai'n annhebygol o wella'r trefniadau presennol.
1	Byddai'r opsiwn yn cyflawni'r amcan yn rhannol / h.y. byddai'n debygol o wella'r trefniadau presennol ond byddai diffygion a/neu bryderon sylweddol i'w cael o hyd.
2	Byddai'r opsiwn yn cyflawni'r amcan ar y cyfan / h.y. byddai'n debygol o wella'r trefniadau presennol a dim ond mân ddiffygion a/neu bryderon a fyddai i'w cael.

7.12 Cofnodwyd pob sgôr, ac ar ôl y gweithdy cafodd sgoriau cyfartalog eu cyfrifo. Cyflwynir tabl cryno ar ddiwedd yr adran hon (gweler tabl 7.1).

Meincnodi ac Effaith

7.13 Er mwyn normaleiddio'r sgoriau a mesur effaith bosibl pob opsiwn, defnyddir yr opsiwn 'gwneud dim' (a fyddai'n cadw at Fusnes fel Arfer) fel meincnod. O'r herwydd, caiff yr opsiwn 'gwneud dim' ei ystyried fel sero ym mhob achos.

Dosbarthu

7.14 Ar ôl cwblhau'r gwerthusiad / proses sgorio, cafodd yr holl opsiynau eu dosbarthu fel a ganlyn Opsiwn a Ddiystyriwyd; Opsiwn a Ffeirir; neu Opsiwn Posibl

7.15 Mae sail resymegol ategol wrth wraidd dosbarthiad pob opsiwn. Defnyddiwyd dadansoddiad manwl o fanteision ac anffanteision posibl pob opsiwn – cafodd y rhain eu trafod yn helaeth a'u hadolygu ym mhob gweithdy. Hefyd, cyflwynwyd a thrafodwyd cymhariaeth o fuddion disgwylidig opsiwn 6 (sefydlu'r Comisiwn) â'r buddion posibl a fyddai'n deillio o'r opsiynau eraill. Ym Mhennod 19 yr Asesiad

Effaith Rheoleiddiol ceir trafodaeth fanwl o'r buddion a fyddai'n deillio o sefydlu'r Comisiwn.

7.16 At ddibenion gwerthuso, dyma a nodir gan y canlyniadau:

- Y graddau y mae'r opsiynau'n cynorthwyo i gyflawni amcanion lefel uchel Llywodraeth Cymru ar gyfer y Comisiwn;
- A yw'r opsiynau'n hyrwyddo/cyd-fynd â Nodau Allweddol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015; a'r meysydd perfformiad a argymhellir yn 'Gwneud y Gorau o Gyfraniad y System Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol i Gyflawni Nodau Cenedlaethol Cymru' – Adroddiad Weingarten.

7.17 Ar ôl cwblhau'r broses gwerthuso opsiynau, cafodd opsiynau 2, 3 a 5 a'u his-opsiynau eu diystyru ar sail amrywiaeth o ffactorau unigol neu ffactorau ar y cyd. Dyma nhw: sgorio'n isel yn erbyn yr amcanion lefel uchel, methu â darparu buddion ar draws yr holl sector, neu byddai'n amhosibl eu cyflawni h.y. ni fyddai cefnogaeth wleidyddol a/neu gefnogaeth gan randdeiliaid i'w chael.

7.18 Felly, caiff tri opsiwn ar gyfer mynd ati i ddiwygio'r sector addysg drydyddol yng Nghymru eu hamlinellu isod; busnes fel arfer, canoli a sefydlu'r Comisiwn. Cyflwynir manteision ac anfanteision pob un.

Opsiwn 1: Busnes fel arfer (Opsiwn a Ddiystyriwyd)

7.19 Byddai hyn yn golygu parhau â'r holl strwythurau a'r holl swyddogaethau presennol fel ag y maent.

Disgrifiad o brif elfennau'r opsiwn hwn

7.20 Mae amrywiaeth o sefydliadau – rhai wedi'u lleoli yng Nghymru ac eraill yn gweithredu yn sector ôl-orfodol Lloegr neu'r DU – yn goruchwyllo ac yn monitro agweddau ar lywodraethu, rheoleiddio, sicrhau ansawdd ac adolygu perfformiad. Y sefydliadau â chyfrifoldebau allweddol mewn perthynas a addysg a hyfforddiant ôl-orfodol yng Nghymru yw:

- Llywodraeth Cymru,
- CCAUC,
- Estyn a'r
- Asiantaeth Sicrhau Ansawdd.

7.21 Ymhellach, mae gan Awdurdodau Lleol rôl mewn perthynas ag addysg dosbarth chwech. Felly, efallai y byddant hwy yn cyflwyno cynigion i sefydlu neu gael gwared â dosbarthiadau chwech – bydd y cynigion hyn yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth gan Weinidogion Cymru.

7.22 Mewn blynyddoedd diweddar, mae yna newid wedi bod mewn polisiau'n ymwneud ag addysg a hyfforddiant ôl-orfodol yng Nghymru. Mae cynnydd sylweddol wedi bod yn nifer y dysgwyr, y darparwyr a'r rhaglenni yng Nghymru a cheir pwyslais ar uno, er mwyn gwella rheolaeth strategol, effeithlonrwydd ac ansawdd.

7.23 Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am bolisiau, strategaethau a chyllido mewn perthynas ag addysg ôl-orfodol, gan gynnwys noddi CCAUC. Mae addysg bellach

wedi cael ei llywodraethu a'i chyllido'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru ers 2006.

- 7.24 Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru yw CCAUC a chafodd ei sefydlu dan Ddeddf 1992. Mae'n gyfrifol am gyllido addysg uwch yng Nghymru a gweinyddu'r cronfeydd a ddarperir gan Lywodraeth Cymru i gynorthwyo addysg ac ymchwil mewn prifysgolion ac addysgu gan y Brifysgol Agored yng Nghymru. Hefyd, mae'n cyllido cyrsiau addysg uwch mewn sefydliadau addysg bellach. Ar 1 Awst 2015, daeth CCAUC yn gyfrifol am rai agweddau ar y system reoleiddio newydd ar gyfer addysg uwch, a sefydlwyd gan Ddeddf 2015. Ar 1 Medi 2017, daeth yn gyfrifol am bob agwedd ar y system reoleiddio hon.
- 7.25 Mae dogfen fframwaith rhwng Llywodraeth Cymru a CCAUC yn gosod y cyd-destun ar gyfer gwaith CCAUC, ynghyd â'r amodau a'r telerau sy'n sail i'r cyllid a gaiff CCAUC gan Lywodraeth Cymru. Mae llythyr cylch gwaith y Gweinidog yn nodi'r blaenoriaethau strategol lefel uchel ar gyfer y Cyngor.
- 7.26 Mae cyfyngiadau yn neddfwriaeth sefydlu CCAUC yn cyfyngu ar allu Gweinidogion Cymru i roi cyfarwyddyd i'r Cyngor, ac eithrio yn yr amgylchiadau cyfyngedig a nodir yn Neddf 2015. Felly, cais gan Lywodraeth Cymru yn gofyn i'r Cyngor ganolbwyntio ar nodau polisi penodol yw'r llythyr cylch gwaith. Llythyr cynghorol ei natur ydyw, mewn termau statudol manwl, ac nid yw'r Cyngor dan orfodaeth i gydymffurfio ag ef.
- 7.27 Y tu hwnt i'w rôl reoleiddio statudol, mae CCAUC yn dibynnu ar amodau a thelerau cyllid i ddylanwadu ar ymddygiad sefydliadol. Mae'r cyllid hwn yn cyfateb i oddeutu 11% o gyfanswm cyllideb flynyddol sefydliadau addysg uwch Cymru. Fodd bynnag, mae newidiadau yn nhrefn gyllido addysg uwch wedi gostwng lefel y cyllid uniongyrchol y mae CCAUC yn gyfrifol amdano. Gan fod mwy o gyllid yn cael ei dalu i sefydliadau ar ffurf ffioedd dysgu, mae dylanwad CCAUC wedi lleihau. O safbwynt ehangu mynediad, sicrhau ansawdd a chynaliadwyedd ariannol, mae'r broses o gyflwyno'r Ddeddf 2015 wedi mynd i'r afael yn rhannol â'r sefyllfa hon.
- 7.28 Os yw Llywodraeth Cymru am gyflawni ei nodau polisi ehangach, fe fydd angen dull partneriaeth cadarn. Er bod y ddyletswydd statudol dros sicrhau ansawdd addysg uwch yng Nghymru yn gorwedd gyda CCAUC, mae newidiadau'n cael eu cyflwyno a all effeithio ar hyn.

Sicrhau ansawdd

- 7.29 Estyn, yr Arolygiaeth dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, sy'n gyfrifol am arolygu ansawdd a safonau darparwyr addysg a hyfforddiant, gan gynnwys ysgolion, sefydliadau addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith a dysgu oedolion yn y gymuned. Caiff y ddarpariaeth dosbarthiadau chwech ei harolygu gan Estyn fel rhan o arolygiadau ysgolion cyfan. Gan na chaiff dosbarthiadau chwech eu harolygu'n annibynnol, nid yw dyfarniadau penodol ynghylch ansawdd dosbarthiadau chwech i'w cael ar wahân i'r dyfarniadau cyffredinol ynghylch ysgolion.
- 7.30 Yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd, a chanddi gytundeb lefel gwasanaeth gyda CCAUC, sy'n gyfrifol am oruchwylio rhaglenni addysg uwch a gyflwynir mewn sefydliadau addysg bellach, yn ogystal ag oddi mewn i brifysgolion. Caiff addysg uwch a gyflwynir gan sefydliadau addysg bellach ei harolygu gan yr Asiantaeth

Sicrhau Ansawdd. Golyga hyn fod rhai sefydliadau'n dod dan gylch gwaith Estyn a'r Arolygiaeth Sicrhau Ansawdd fel ei gilydd.

- 7.31 Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am gynllunio polisiau a chyllid Addysg Bellach, Dosbarthiadau Chwech, Prentisiaethau, rhaglenni cyflogadwyedd a rhaglenni Dysgu Oedolion.
- 7.32 Awdurdodau Lleol sy'n gyfrifol am gynllunio dosbarthiadau chwech, gwella safonau a chymryd camau pan welir tanberfformio.

Ymchwil

- 7.33 Ar hyn o bryd, mae ymchwil yn gweithredu dan system gyllido ddeuol. Mae Cynghorau Ymchwil yn darparu cyllid neilltuedig a ddyfernir yn gystadleuol, ledled y DU, ar gyfer prosiectau unigol. Hefyd, darperir cyllid fel grant bloc heb ei neilltuo (Cysylltiedig ag Ansawdd), a ddyrennir i Brifysgolion i gynorthwyo gyda seilwaith a staff ymchwil. Caiff yr arian hwn ei ddyrannu ar sail perfformiad yn y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil⁸ a gynhelir bob 6-7 mlynedd. Mewn gwirionedd, mae cyllid Cysylltiedig ag Ansawdd wedi'i ddatganoli ac ar hyn o bryd caiff ei weinyddu gan CCAUC.
- 7.34 Mae CCAUC yn cael arian gan Lywodraeth Cymru ar gyfer ymchwil, arloesi ac ymgysylltu, a chaiff y rhan fwyaf o'r arian hwn ei ddefnyddio i gyllido ymchwil cysylltiedig ag ansawdd. Dim ond ymchwil 3* a 4* a ariennir gan CCAUC, yn ôl mesur y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil. Mae Cyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr yn dosbarthu cyllid Cysylltiedig ag Ansawdd yn ôl fformiwla debyg i fformiwla seiliedig ar QR (ond nid yw'r fformiwla yr un fath yn union).

Prif fanteision opsiwn 1

- 7.35 Yn ôl adroddiad Hazelkorn⁹:
- Mae gan Gymru system addysg a hyfforddiant ôl-orfodol yng Nghymru sy'n gweithio, ynghyd ag ymrwymiad i gryfhau ei rôl a'i chyfraniad at y gymdeithas a'r economi, gan wella ansawdd a chyfranogiad;
 - At ei gilydd, mae'r system bresennol yn diwallu anghenion dysgwyr ac anghenion cymdeithas, ac mae'r dull presennol yn gweithio i ryw raddau yn gymaint â bod dysgu yn cael ei gyflawni yn y sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol yng Nghymru a bod ansawdd cyffredinol y perfformiad yn dda;
 - Mae'r cydlyniant rhwng chweched dosbarth, addysg bellach ac addysg uwch wedi gwella;
 - Mewn perthynas â mentrau penodol, ceir enghreifftiau da o berthnasau rhagorol rhwng sefydliadau addysg uwch, sefydliadau addysg bellach, darparwyr dysgu seiliedig ar waith a darparwyr dysgu oedolion yn y gymuned – er, gellid disgrifio hyn fel rhywbeth digyswllt.
- 7.36 Mae rhai rhanddeiliaid yn cydnabod bod rôl CCAUC fel corff cyfryngol yn fuddiol. Mae darparwyr a chyfryngwyr yn deall yr opsiwn hwn, ac efallai y byddai'n well gan rai sectorau gadw pethau fel ag y maent. Mae chweched dosbarth ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol wedi'u hintegreiddio'n dda mewn addysg orfodol.

⁸Y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil

⁹Llewodraeth Cymru | Tuag at 2030: Fframwaith ar gyfer datblygu system addysg ôl-orfodol o'r radd flaenaf i Gymru

- 7.37 Nid yw'r opsiwn hwn yn costio llawer – ni cheir unrhyw gostau diwygio ychwanegol ymlaen llaw. Byddai hyn yn amodol ar allu'r system bresennol i liniaru unrhyw effeithiau ariannol a allai ddeillio o heriau gweithredol a ddaw i'r amlwg.
- 7.38 Mae dull eisoes ar waith i wella ansawdd yn y sector ysgolion, a disgwylir i hyn barhau. O gofio'r datblygiadau parhaus yn y cwricwlwm, ymdrinnir ag allbynnau Dyfodol Llwyddiannus yn y cwricwlwm a'r arferion addysgu ar gyfer cyfnod allweddol 4 a chyfnod allweddol 5.
- 7.39 Nod Cwricwlwm i Gymru 2020¹⁰ yw ehangu dysgu, gan gynorthwyo lleoliadau ac ysgolion i fod yn fwy hyblyg yn eu dulliau, a rhoi mwy o rym i arweinwyr ac ymarferwyr addysg, gan eu galluogi i fod yn arloesol ac yn greadigol. Wrth galon hyn ceir pedwar diben y cwricwlwm, lle pennir y dyheadau ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc erbyn iddynt gyrraedd 16 oed, gan eu galluogi i fod yn ddysgwyr llwyddiannus sy'n chwarae rhan weithredol yn eu cymunedau ac yn y gymdeithas ehangach, ac sydd wedi'u paratoi i ffynnu mewn byd mwyfwy cymhleth.

Prif anfanteision opsiwn 1

- 7.40 Esbonnir diben ac effaith arfaethedig y Bil ym Mhennod 3 lle trafodir amcanion y polisi, ac esbonnir yr anfanteision penodol o beidio â diwygio addysg a hyfforddiant ôl-orfodol. Fodd bynnag, mae'r prif risgiau wedi'u hamlinellu isod.

Cymhleth a thameidiog

- 7.41 Ar y cyfan, mae'r sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol yn rhy gymhleth. Mae sefydliadau'n gorgyffwrdd a chaiff adnoddau a rhaglenni eu dyblygu, gan gynnwys trefniadau cymhleth o ran llywodraethu, rheoleiddio, sicrhau ansawdd a pherfformiad.
- 7.42 Nid yw gwahanol rannau o'r sector yn cydweithredu er mwyn diwallu anghenion dysgwyr. Yn aml, mae sefydliadau addysg bellach a sefydliadau addysg uwch yn canolbwyntio ar eu hagendâu eu hunain, a phrin yw'r dystiolaeth o berthnasau gweithio go iawn rhyngddynt¹¹. Mae yna berygl y bydd peidio â diwygio yn arwain at fethu ag ymdrin â'r cynllunio digyswllt rhwng dosbarthiadau chwech ac addysg bellach.
- 7.43 O'r herwydd, gellid gwastraffu adnoddau ar systemau rheoleiddio, sicrhau ansawdd a rheoli perfformiad – systemau sydd, ar draws y sector, yn amrywiol ac yn gymhleth eu natur ac sydd, yn y pen draw, yn atal gwelliannau yn ansawdd y ddarpariaeth a'r cynigion i ddysgwyr. Oherwydd nad oes gan yr un sefydliad arbennig drosolwg neu gyfrifoldeb dros yr holl ddarpariaeth, gellid cael bylchau yn y ddarpariaeth yn ddaearyddol ac ar lefel pwnc.
- 7.44 Byddai cadw pethau fel ag y maent yn parhau â natur dameidiog hirsefydlog y system, gan ei gwneud yn llawer anos gweithredu'r Rhaglen Lywodraethu.
- 7.45 Ceir cystadleuaeth ddi-fudd rhwng sectorau sy'n ceisio denu'r nifer fwyaf o ddysgwyr ar eu cyrsiau – ni waeth pa un a yw hynny er budd pennaf y dysgwyr, ai

¹⁰ Llywodraeth Cymru | Cyflwyniad i ganllawiau Cwricwlwm i Gymru

¹¹ Llywodraeth Cymru | Tuag at 2030: Fframwaith ar gyfer datblygu system addysg ôl-orfodol o'r radd flaenaf i Gymru

peidio, mewn ambell achos. Mae hyn yn arwain at ddyblygu'r ddarpariaeth a bylchau yn y ddarpariaeth. Os na chymerir camau i leihau cystadleuaeth ddi-fudd rhwng darparwyr, efallai y bydd y dyblygu gwastraffus hwn yn parhau, gan atal defnydd effeithlon o arian cyhoeddus a rhwystro adnoddau rhag cael eu targedu at ddarpariaeth y mae ei hangen/meysydd â blaenoriaeth.

- 7.46 Ni cheir cysylltiad digonol rhwng y ddarpariaeth a'r broses o bennu bylchau sgiliau er budd anghenion cymdeithasol, diwylliannol a datblygu economaidd Cymru yn y dyfodol. Heb ddiwygio'r modd y pennir ac y darperir ar gyfer bylchau sgiliau, mae yna berygl y bydd y baich ar gyflogwyr, yn sgil swyddi gwag sydd heb eu llenwi a chynhyrchiant is-optimaid, yn gwaethygu.^{12,13} Bydd hyn yn creu canlyniadau negyddol o ran ffyniant a sicrhau cyflogaeth yn ein cymunedau.
- 7.47 Ni cheir cyswllt na pharhad rhwng cynllunio'r cwricwlwm cyn-16 ac ôl-16 (16 i 19) mewn ysgolion a thu hwnt. Nid yw'r trefniadau presennol yn effeithiol nac yn ddigonol ar gyfer diwallu anghenion cymunedau ac anghenion ôl-16. Er bod y cwricwlwm yn cael ei ddiwygio, heb gyfuno'r sector efallai na fydd modd cyflwyno'r gwelliannau gofynnol yn y maes 16 i 19 – o ganlyniad, ni fydd ansawdd cyffredinol y ddarpariaeth yn gwella.
- 7.48 Mae'r dulliau asesu, gwerthuso a mesur perfformiad yn anghyson ar draws y sector – rhywbeth sy'n peri dryswch mewn ysgolion (gweler y ddogfen ymgynghori). Ymhellach, ceir anghysondeb o ran safonau ymarferwyr (h.y. Statws Athro Cymwysedig).
- 7.49 Mae'n bosibl y bydd y broblem o ran cyrsiau is-optimaid mewn dosbarthiadau chwech a sefydliadau addysg bellach yn parhau i gael ei hanwybyddu i raddau helaeth.

Ysgogiadau ar gyfer dylanwadu

- 7.50 Nid ystyrir bod ysgogiadau CCAUC yn ddigonol ar gyfer dylanwadu ar brifysgolion. Mewn blynyddoedd diweddar, mae newidiadau yn nhrefniadau cyllido addysg uwch wedi lleihau gallu CCAUC i annog sefydliadau addysg uwch i gyflawni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru, oherwydd erbyn hyn caiff mwy o gyllid ei dalu'n uniongyrchol i'r sefydliadau ar ffurf ffioedd dysgu.
- 7.51 Mae'r system reoleiddio newydd a sefydlwyd dan Ddeddf 2015 wedi helpu i liniaru'r sefyllfa, o leiaf o safbwynt ehangu mynediad, ansawdd a chynaliadwyedd ariannol. Fodd bynnag, mae angen cryfhau'r trosolwg rheoleiddiol sy'n cael ei ddarparu gan Ddeddf 2015 a'r atebolrwydd sy'n deillio o Ddeddf 1992 – fel amlygodd gwaith craffu ar ôl deddfu Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Senedd ar Ddeddf 2015.

Dull strategol

- 7.52 Fel y nodir ym Mhennod 3, mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu gweledigaeth strategol ar gyfer addysg a hyfforddiant ôl-orfodol, gan ganolbwyntio ar ddiwallu anghenion a dyheadau addysg, hyfforddiant ac ymchwil pobl, busnesau a chymunedau Cymru.

¹² Grŵp City & Guilds | People Power: Does the UK have the skilled people it needs for the future?

¹³ Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd: Getting Skills Right: United Kingdom

- 7.53 Mae dosbarthiadau chwech, colegau, prifysgolion, darparwyr hyfforddiant a dysgu oedolion yn hanfodol i ymateb i'r heriau allweddol y bydd Cymru'n eu hwynebu yn y dyfodol agos, gan gynnwys:
- adferiad o bandemig Covid-19
 - perthynas newydd â'r Undeb Ewropeaidd
 - newid technolegol, amgylcheddol, diwylliannol a demograffig tymor hwy dramatig
- 7.54 Mae'n bosibl nad yw'r sector, fel y mae wedi'i strwythuro ar hyn o bryd, mewn sefyllfa dda i adlewyrchu amcanion strategol Llywodraeth Cymru a chefnogi gwireddu'r weledigaeth strategol, nac ychwaith i ymateb i'r heriau hyn ac eraill sy'n deillio o ddatblygiadau yn Lloegr ac mewn mannau eraill.
- 7.55 Mae effaith gronol yr heriau hyn wedi arwain at bryderon ynghylch cyflwr ariannol presennol darparwyr addysg drydyddol yng Nghymru a'r sefyllfa yn y dyfodol. Ar ôl ei sefydlu, bydd gan y Comisiwn systemau gwell ar gyfer monitro a goruchwylio'r system AHO. Bydd gan y Comisiwn hefyd dulliau cynllunio a chyllido 'system-gyfan', a fydd yn golygu y bydd mewn sefyllfa well i nodi materion sy'n dod i'r amlwg ac ymateb iddynt er mwyn helpu i leihau'r risg bod sefydliadau'n methu a'r canlyniadau ariannol ar gyfer dysgwyr, noddwyr a Llywodraeth Cymru.

Adolygiad Augar¹⁴

- 7.56 Mae adolygiad Lywodraeth Cymru o addysg a chyllid ôl-18, a gyhoeddwyd ar 30 Mai 2019, yn debygol o gael effaith fawr ar y trefniadau cyllido ar gyfer addysg drydyddol yng Nghymru am flynyddoedd i ddod.
- 7.57 Cynigiodd yr adolygiad ostyngiad yn y ffioedd dysgu ar gyfer israddedigion amser llawn, gyda chyllid grant atodol i sefydliadau ar gyfer pynciau sy'n bwysig i'r economi (yn fras, pynciau STEM - Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg).
- 7.58 Dyma oedd rhai o'r prif argymhellion eraill:
- Ehangu'r cyfnod ar gyfer ad-dalu benthyciadau myfyrwyr o 30 mlynedd i 40 mlynedd;
 - lleihau'r llog a godir ar fenthyciadau myfyrwyr tra bod myfyrwyr yn astudio;
 - capio'r swm cyffredinol a ad-delir ar fenthyciadau myfyrwyr i 1.2 gwaith maint y benthyciad;
 - lleihau'r trothwy incwm ar gyfer ad-dalu benthyciadau myfyrwyr o £25,000 i £23,000;
 - ailgyflwyno grantiau cynhaliaeth o £3,000 ar gyfer myfyrwyr difreintiedig;
 - cyflwyno cymorth cynhaliaeth ar gyfer cymwysterau lefel 4 a 5;
 - sicrhau bod y cymhwyster lefel 2 a 3 cyntaf am ddim i bob dysgwr.
- 7.59 Gohiriwyd ymateb Llywodraeth y DU i adolygiad Augar sawl gwaith ers i'r adolygiad gael ei gyhoeddi, a hynny oherwydd Brexit, yr Etholiad Cyffredinol a'r pandemig Covid-19 yn bennaf. Bydd ymateb yn cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r adolygiad o wariant yn nes ymlaen 2021.
- 7.60 Ni fyddai Llywodraeth Cymru o reidrwydd yn gorfod gweithredu'r un drefn ffioedd a model cyflawni â'r hyn a geir yn Lloegr, ond mae polisïau Llywodraeth y DU yn

pennu'r paramedrau o ran pwy sy'n gymwys ar gyfer benthyciadau myfyrwyr gan Drysorlys EM. Byddai disgwyl i gynllun grant addysgu atodol ar gyfer sefydliadau a grantiau cynhaliaeth i fyfyrwyr arwain at gyllid canlyniadol i Lywodraeth Cymru drwy fformiwla Barnett. Byddai gweithredu'r argymhellion hyn yn cael effaith wahaniaethol ar draws y sector addysg uwch yng Nghymru, gan adlewyrchu'r amrywiaeth o bynciau a'r ddarpariaeth ar lefel sylfaen. Gallai'r rhan fwyaf o sefydliadau ddisgwyl derbyn mantais ariannol gymedrol o dan y drefn ffioedd dysgu arfaethedig, ond gallai un neu ddau golli allan oherwydd eu lefelau isel o ddarpariaeth STEM a nifer uchel o fyfyrwyr amser llawn ar lefel sylfaen. Y prif risg i bob sefydliad yw'r graddau y caiff unrhyw doriad i'r ffioedd ddysgu ei ategu gan y cyllid grant a argymhellir.

- 7.61 Mae'r dadansoddiad dros dro o'r goblygiadau'n seiliedig ar sawl tybiaeth yn ymwneud â manylion y cynigion nad ydynt yn hysbys eto. Mae Llywodraeth y DU wedi rhoi sicrwydd bod proses ymgynghori lawn ar y gweill (Papur Gwyrdd a Phapur Gwyn), ac wedyn proses o newid wedi'i reoli. Yn ogystal, nid oes gan y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr ddigon o gapasiti i weithredu newidiadau polisi sydd heb eu cadarnhau eto. Yn y cyd-destun ehangach, byddai amseru unrhyw newidiadau yn cyd-fynd â gwelliant yn y duedd ddemograffaid ymhlith pobl ifanc 18 oed, a allai roi cyfle i sefydliadau recriwtio mwy o fyfyrwyr israddedig amser llawn. Yn ogystal, rhagwelir cynnydd yn y ddarpariaeth ôl-radd a'r ddarpariaeth israddedig ran-amser yn dilyn y diwygiadau i gyllid myfyrwyr, sy'n golygu y bydd mwy o gyllid ar gael i'r sector addysg uwch gan Lywodraeth Cymru.

Cystadleuaeth

- 7.62 Mae dileu'r cap ar recriwtio myfyrwyr yn Lloegr a'r gostyngiad yn y niferoedd cyffredinol sy'n gadael ysgol yn y blynyddoedd diwethaf wedi cynyddu'r gystadleuaeth am fyfyrwyr rhwng darparwyr addysg uwch, addysg bellach a phrentisiaethau. Mae sawl prifysgol yng Nghymru wedi llwyddo yn yr amgylchedd newydd hwn drwy gynnig cyrsiau mewn meysydd sy'n fwyfwy deniadol i fyfyrwyr, gan gynnwys y gwyddorau biolegol, peirianeg a thechnoleg, astudiaethau cymdeithasol a phynciau sy'n gysylltiedig â meddygaeth. I rai sefydliadau, mae'r cynnydd yn y gystadleuaeth wedi arwain at heriau wrth recriwtio.
- 7.63 Gwelwyd gostyngiad cyffredinol ers 2012 yn nifer y bobl ifanc 18 oed yng Nghymru (ac eithrio 2015). Dros yr un cyfnod, mae nifer y myfyrwyr newydd mewn addysg uwch amser llawn wedi bod yn cynyddu'n gyffredinol. Mae'r twf blynyddol yn nifer y myfyrwyr newydd wedi arafu yn y blynyddoedd diwethaf, ond dengys ffigurau 2018/19 bod y cynnydd wedi parhau serch hynny. Gallai'r niferoedd ostwng rhwng 2% a 4% yn flynyddol dros y blynyddoedd nesaf, nes bod y boblogaeth o bobl ifanc 18 oed yn dechrau cynyddu o 2021/22 ymlaen.
- 7.64 Bydd y gwelliant demograffig yn dechrau effeithio ar y cohort addysg drydyddol ehangach (gan ddechrau gyda phobl 16 oed) o 2019/20 ymlaen. Mae'n bosibl y bydd y gwelliant hwn yn dechrau dylanwadu ar y niferoedd sydd mewn addysg uwch ar yr un pryd ag y mae unrhyw ddiwygiadau sy'n deillio o adolygiad Llywodraeth y DU o addysg ôl-18 yn cael eu gweithredu a/neu ddiwedd posibl cyfnod pontio neu drefniadau ymadael Brexit.

Cyflogadwyedd

- 7.65 Yr hyn sydd bwysicaf i fyfyrwyr, rhieni a noddwyr addysg drydyddol yng Nghymru fwy na thebyg yw rhagolygon cyflogaeth graddedigion. Ceir nifer o heriau yn y dyfodol mewn perthynas â hyn. Mae deallusrwydd artiffisial a digideiddio, datgarboneiddio a chymdeithas sy'n heneiddio yn golygu y bydd angen sgiliau newydd, cyfuniadau newydd o sgiliau, addysg gydol oes a mwy o ffocws ar sicrhau bod darpariaeth ar gael yn agosach at adref ac yn y gwaith. Ar hyn o bryd, mae galw mawr ymhlith cyflogwyr am swyddi ym meysydd peirianeg, dadansoddi data a TGCh, adeiladu, a gofal iechyd proffesiynol. Yn anffodus, nid yw prifysgolion, colegau a darparwyr prentisiaethau ar draws y DU wedi bod yn ehangu eu darpariaeth yn y meysydd hyn yn ddigon cyflym i fodloni'r galw hwn.
- 7.66 Roedd cyfran y graddedigion gradd gyntaf o brifysgolion yng Nghymru a oedd mewn gwaith neu astudiaethau pellach chwe mis ar ôl cymhwyso yn 2016/17, yn amrywio o 90% i 99% ar lefel sefydliadol. Mae hyn yn gyson â'r ffigurau ar gyfer gwledydd eraill y DU. Ar lefel y DU, mae'r gyfradd gyflogaeth yn dueddol o amrywio yn ôl newidynnau eraill, yn enwedig y pwnc astudio. Fodd bynnag, nid yw pob myfyriwr graddedig wedi'u cyflogi mewn swyddi sy'n gofyn am gymwysterau ar lefel gradd, ac mae cyflogwyr yn adrodd bod yna alw am sgiliau a chymwysterau penodol yn y farchnad lafur nad yw wedi'i fodloni.
- 7.67 Heb ddiwygio'r modd y pennir ac y darperir ar gyfer bylchau sgiliau, mae yna berygl y bydd y baich ar gyflogwyr, yn sgil swyddi gwag sydd heb eu llenwi a chynhyrchiant is-optimaidd oherwydd cronfa lafur annigonol, yn gwaethygu. Bydd hyn yn creu canlyniadau negyddol o ran ffyniant a sicrhau cyflogaeth yn ein cymunedau.

Llwybrau dysgwyr

- 7.68 Nid yw'r system bresennol yn canolbwyntio digon ar ddysgwyr – ni cheir llwybrau dysgu na gyrfa clir ar gyfer dysgwyr o bob oedran i mewn a thrwy addysg drydyddol.
- 7.69 Nid yw dysgwyr bob amser yn cael y wybodaeth na'r cyngor y maent eu hangen i wneud y penderfyniadau gorau ynglŷn â'u dysgu a'u gyrfa. Nid yw hygyrchedd yr wybodaeth a'r cyngor sydd ar gael yn adlewyrchu disgwyliadau'r oes ddigidol. Yn ystod y blynyddoedd diweddar mae newidiadau sylweddol wedi cael eu rhoi ar waith ac mae gwelliannau wedi cael eu cyflwyno, ond mae llawer mwy o waith i'w wneud o hyd.
- 7.70 Heb gyflwyno gwelliannau i lwybrau dysgwyr, yn enwedig rhwng y llwybrau galwedigaethol, technegol ac academaidd, bydd rhai dysgwyr yn cael eu rhwystro rhag cyflawni eu potensial, ac ni fydd y cynnydd y dymunir ei weld yn y gyfran o weithwyr â chymwysterau lefel uchel yn cael ei wireddu.

Ymchwil ac arloesi

- 7.71 Yng Nghymru, rhywbeth a welir ar raddfa fach yw Ymchwil ac Arloesi. Er bod perfformiad ymchwil wedi gwella, mae'r capasiti i wella'n parhau i fod yn gyfyngedig. Mae mecanweithiau cydgysylltu a meithrin capasiti wedi cael eu rhoi ar waith ac maent yn esblygu, ond mae mwy o waith i'w wneud. Nid yw'r trefniadau presennol yn helpu rhyw lawer i wneud ymchwil ac arloesi yn rhan fwy annatod o'r

ddarpariaeth addysg drydyddol – yn enwedig ar lefel addysgu oherwydd natur wahanol y strwythurau cyflawni.

- 7.72 .Mae Llywodraeth y DU yn buddsoddi llai o arian mewn ymchwil ac arloesi yng Nghymru nag yng ngweddill y DU. Mae cronfeydd strwythurol a datblygu'r Undeb Ewropeaidd wedi llenwi bwlch o safbwynt meithrin capasiti, ond byddant yn dod i ben yn raddol dros y blynyddoedd nesaf. Mae Cymru yn ymgysylltu'n ddwys â'r agenda 'seiliedig ar le' sy'n dod i'r amlwg yn y DU ac yn sefydlu dealltwriaeth gyffredin o gryfderau ymchwil ac arloesi er mwyn cyfathrebu'r rhain yn well yn allanol.
- 7.73 Mae gan Gymru gapasiti ymchwil yn barod (nifer o ymchwilwyr a swm o gyllid ymchwil a ddyfernir yn flynyddol) sydd, yn ôl cyfran, yn llawer llai nag yn Lloegr, a cheir cyfle i ddatblygu dull mwy strategol. Bydd hyn yn helpu Cymru i osgoi colli cyllid ymchwil posibl ar adeg pan geir tystiolaeth glir fod ein capasiti eisoes yn rhy isel.
- 7.74 Ymhellach, mae'n bosibl fod lefel a chyflymdra'r penderfyniadau Ymchwil ac Arloesi a wneir dan y trefniadau presennol yn llai ymatebol i anghenion newidiol y byd na phe bai corff allanol newydd i'w gael – corff y byddai Llywodraeth Cymru yn gallu arfer mwy o bwerau drosto, a thrwy hynny hwyluso gwell cydgysylltu ac aliniad rhwng y Llywodraeth a'r corff newydd mewn perthynas â materion Ymchwil ac Arloesi. Mae adroddiad diweddar Reid ar weithgareddau ymchwil ac arloesi a ariennir gan y Llywodraeth yng Nghymru yn tynnu sylw at yr angen i gael gwell cydgysylltu ac aliniad rhwng y strwythurau gwahanol sy'n sail i Ymchwil ac Arloesi yng Nghymru.

Casglu data a rhannu gwybodaeth

- 7.75 Ym mis Mehefin 2018, dyma a ddarganfu adolygiad Weingarten o Systemau ar gyfer Monitro a Gwella Effeithiolrwydd Addysg Ôl-orfodol yng Nghymru¹⁵:

'Y diffyg mwyaf allweddol a difrifol yn y system gyfredol..., yw ei hanallu i ddarparu'r hyn y mae'r llywodraeth angen ei wybod fwyaf – yn benodol, darlun cyfannol clir o gyfraniad pob sefydliad tuag at gyflawni blaenoriaethau pwysicaf Cymru a sut mae'r system AHO, yn gyffredinol fel system, yn perfformio a pha mor dda y mae'n helpu'r wlad tuag at gyflawni ei hamcanion dymunol. Heb y wybodaeth hon, ni all y llywodraeth na'r sefydliadau wneud penderfyniadau gwybodus nac wedi'u llywio gan dystiolaeth ynghylch effeithiolrwydd eu polisïau neu eu rhaglenni.'

- 7.76 Ar hyn o bryd ni cheir system effeithiol ar draws y sector addysg drydyddol ar gyfer casglu, dadansoddi a dosbarthu data, a bydd hyn yn arwain at sylfaen dystiolaeth is-optimaid ar gyfer llywio datblygiadau polisi a phenderfyniadau ar bob lefel, gan arwain at gollu cyfleoedd i wella ansawdd cyrchfannau dysgwyr a'r ffocws a roddir ar y cyrchfannau hyn.

Crynodeb

¹⁵ Llywodraeth Cymru | Adolygiad o systemau ar gyfer monitro a gwella effeithiolrwydd addysg ôl-orfodol yng Nghymru

- 7.77 Mae anfanteision yr opsiwn hwn yn drech na'r manteision. Mae'r sector yn wynebu heriau sylweddol ac, fel y nodir gan yr Athro Hazelkorn, '*mae angen newid sylweddol*' ac efallai y bydd anawsterau'n codi wrth esbonio pam mae Cymru yn cadw pethau fel ag y maent tra mae Lloegr wedi cyflwyno newidiadau sylweddol.
- 7.78 Byddai cadw pethau fel ag y maent yn parhau â'r heriau y mae Llywodraeth Cymru yn eu hwynebu o ran creu partneriaeth effeithiol gyda CCAUC a'r sector addysg uwch wrth fwrw ymlaen â'i blaenoriaethau a sicrhau atebolrwydd am y cyllid y mae'n ei ddarparu. Ceir cryn gefnogaeth i'r syniad bod Cymru angen rheoleiddiwr annibynnol, fel y gwelir yn yr ymateb i'r ymgynghoriad technegol, felly ni fyddai 'busnes fel arfer' yn opsiwn derbyniol.
- 7.79 Byddai 'busnes fel arfer' yn parhau â natur dameidiog, gymhleth a digyswllt y gwaith cynllunio strategol ac ni fyddai'n cynnig llwybr clir ar draws yr holl sector addysg drydyddol. Er mwyn cyflwyno gwelliannau, mae'n hanfodol cael dull cydlynol a chyson. Mae'r opsiwn hwn wedi cael ei ddiystyru, a dim ond fel sefyllfa wrthffeithiol i'r ddau opsiwn a drafodir isod y'i cyflwynir.

Opsiwn 4: Canoli, Llywodraeth Cymru yn dal gafael ar yr holl swyddogaethau, a throsglwyddo holl swyddogaethau CCAUC i Lywodraeth Cymru (opsiwn posibl)

Disgrifiad o brif elfennau'r opsiwn hwn

- 7.80 Ni fyddai'r opsiwn hwn yn arwain at unrhyw newid i'r sectorau sy'n ymdrin â darpariaethau addysg bellach, prentisiaethau a chweched dosbarth ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol. Ond byddai'n arwain at newidiadau sylweddol i'r sector addysg uwch, gan y byddai'n throsglwyddo cyfrifoldebau presennol CCAUC dros reoleiddio, cyllido a sicrhau ansawdd ac ati, i Lywodraeth Cymru.
- 7.81 Gan y byddai Llywodraeth Cymru â rheolaeth uniongyrchol dros strategaethau, cynllunio a chyllid, byddai hyn yn cryfhau dylanwad Llywodraeth Cymru ar y sector addysg drydyddol i gyd (a'r sector addysg uwch yn enwedig).
- 7.82 Ceir dau amrywiolyn i'r opsiwn hwn:
- **Opsiwn 4a:** Llywodraeth Cymru yn dal gafael ar yr holl swyddogaethau Addysg Bellach / Dysgu Seiliedig ar Waith / dosbarthiadau chwech a gynhelir, a throsglwyddo holl swyddogaethau CCAUC i Lywodraeth Cymru.
 - **Opsiwn 4b:** Fel Opsiwn 4a, ond gyda chorff ar wahân yn gyfrifol am ymchwil, sef Ymchwil ac Arloesi Cymru.

Prif fanteision opsiynau 4a a 4b

- 7.83 Byddai gan Lywodraeth Cymru fwy o reolaeth dros y cyfeiriad strategol, a byddai'n haws i Lywodraeth Cymru ysgogi cydweithredu ar draws y sector a sicrhau dull mwy cydlynol a chyson er budd y dysgwyr. Fe allai arwain at lwybrau gwell i ddysgwyr, pontio mwy di-dor, a gwell gwybodaeth, cyngor a chanllawiau. Hefyd, gallai helpu i gael gwared â gwahaniaethau diangen trwy'r sector addysg drydyddol, trwy symleiddio pethau a thrwy ddileu haenau biwrocratiaeth.

- 7.84 Fe fyddai canoli'n dod ag elfennau cynllunio a chyllido ynghyd o fewn yr un sefydliad – gan greu, felly, un llwybr (fel gydag opsiwn 6), er y byddai hynny'n digwydd o fewn Llywodraeth Cymru yn hytrach na bod ar hyd braich. O'r herwydd, pe bai trefniadau cyflawni'r opsiwn hwn yn cael eu cynllunio mewn modd tebyg i drefniadau'r Comisiwn, mae'n bosibl y gellid gwireddu buddion tebyg (gweler Pennod 19).
- 7.85 Byddai'r dull hwn yn ei gwneud yn bosibl i Lywodraeth Cymru warchod sefydliadau rhag heriau posibl 'y dull a yrrir gan y farchnad', sydd i'w weld mewn rhannau eraill o'r DU.
- 7.86 Fe fyddai yna botensial i reoli'r holl gyllid ymchwil yn ganolog, trwy gyfrwng corff cydgysylltu y byddai modd iddo warchod buddiannau Cymru ar lefel y DU, dan strategaeth ymchwil genedlaethol gref, glir a chytbwys. Byddai'r strategaeth yn cysylltu anghenion ymchwil yr economi, y gymdeithas a'r llywodraeth â chapasiti ymchwil o fewn y sylfaen ymchwil addysg uwch a'r sylfaen ymchwil ddiwydiannol. Trwy gynnwys Ymchwil ac Arloesi ym mhopeth a fyddai'n digwydd, gellid esgor ar fuddion economaidd – yn cynnwys ar lefel addysgu.

Prif anfanteision opsiynau 4a a 4b

- 7.87 Mae'r prif risg yn ymwneud â'r modd y byddai'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dosbarthu'r sefydliadau. Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn gosod pob uned sefydliadol a geir yn yr economi mewn un o blith chwe sector, a hynny ar sail nifer o ddangosyddion. Ar hyn o bryd, caiff sefydliadau addysg bellach a sefydliadau addysg uwch eu dosbarthu fel Sefydliadau Nid-er-elw sy'n Gwasanaethu Aelwydydd (NPISH), sy'n eu gosod yn y sector preifat. Fe allai unrhyw newid a fyddai'n cynyddu rheolaeth Llywodraeth Cymru dros y cyrff hyn arwain at risg sylweddol y byddai'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn ystyried eu hailddosbarthu, at ddibenion Cyfrifon Gwladol, fel sefydliadau sy'n perthyn i'r sector cyhoeddus.
- 7.88 Byddai newid o'r fath yn esgor ar ganlyniadau sylweddol i Lywodraeth Cymru ac i'r sefydliadau dan sylw. Yn arbennig, fe fyddai gwargedion a cholledion yn cael eu hystyried fel cronfeydd Llywodraeth Cymru a byddai'n rhaid eu rheoli oddi mewn i gyllidebau addysg Llywodraeth Cymru.
- 7.89 Efallai mai ar drin cyfalaf yn unig y byddai canoli / dosbarthiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn effeithio – gan gael effaith niweidiol ar gyllideb gyfalaf Llywodraeth Cymru. Ac fe allai gael effaith fawr ar yr arian y mae llywodraeth y DU yn ei ddyrannu i Lywodraeth Cymru.
- 7.90 Mae'r graddau y mae'r risg hon yn berthnasol i'r opsiwn hwn yn debygol o ddibynnu ar faint o reolaeth y byddai gan Lywodraeth Cymru dros sefydliadau addysg uwch.
- 7.91 Byddai'n rhaid cael deddfwriaeth sylfaenol i ddiddymu CCAUC, trosglwyddo'i swyddogaethau a sefydlu corff ymchwil newydd, neu roi'r pwerau perthnasol i gorff sy'n bodoli'n barod.
- 7.92 Mae'n debygol y byddai trefniant canoli o'r fath yn llai hyblyg ac yn llai ymatebol na chorff 'hyd braich' oherwydd cyfyngiadau hanesyddol peirianwaith y llywodraeth. Hefyd, mae gan yr opsiwn hwn y potensial i lusgo Llywodraeth Cymru i'r materion pitw sy'n rhan o weithrediadau beunyddiol y sefydliadau. Ni fyddai gorfod ymdrin â

gweithrediadau beunyddiol y sector addysg uwch yn ddefnydd effeithlon o amser y Gweinidog.

- 7.93 Pe bai opsiwn 4a (canoli'n llwyr) yn cael ei roi ar waith, mae'n debygol y byddai lefel a chyflymdra'r penderfyniadau Ymchwil ac Arloesi yn llai ymatebol na chorff allanol i anghenion newidiol y byd. Byddai hyn yn arwain at fwy o 'blwyfoldeb', yn rhannol oherwydd diffyg heriau allanol ar lefel strategol a chyfyngiadau peirianwaith y llywodraeth – gan leihau gallu'r llywodraeth i fod yn ddigon ystwyth ac ymatebol i anghenion y diwydiant. Ymhellach, byddai'n ei gwneud yn anos cyflwyno ymchwil ac arloesi fel wyneb neilltuol ar gyfer ymgysylltu ag Ymchwil ac Arloesi y DU.
- 7.94 Yn y bôn, go brin y byddai Bil i fwrw ymlaen â'r opsiwn hwn yn cael ei basio oherwydd gwrthwynebiad cryf a lobiö ar ran y sector addysg uwch. Byddai gan y sector addysg uwch wrthwynebiad cryf i'r cynnig i gael gwared â chorff 'hyd braich', yn enwedig oherwydd pryderon ynghylch ymreolaeth sefydliadol ac egwyddor Haldane.
- 7.95 Yn ôl Ymchwil ac Arloesi y DU: "Mae 'Egwyddor Haldane' yn ganolog i gyllid cyhoeddus yn y DU. Mae'n sicrhau mai arbenigwyr yn y maes sy'n gwneud penderfyniadau ynghylch pa brosiectau ymchwil i'w cyllido. Fodd bynnag, gan fod y llywodraeth yn atebol i etholwyr sy'n talu trethi, y llywodraeth sy'n pennu'r cyfeiriad strategol cyffredinol y dylai'r ymchwil ei gymryd. Y bwriad yw mai rhagoriaeth yw'r prif faen prawf ar gyfer buddsoddi mewn ymchwil a bod y gwaith ymchwil yn cael ei wneud er budd pennaf y wlad."
- 7.96 Fodd bynnag, byddai modd cynnal y nodau hyn gyda phwyllgor annibynnol a fyddai'n adrodd i'r Gweinidog, sef pwyllgor a chanddo Gadeirydd uchel ei barch – neu fwrdd cynghori annibynnol a gâi ei sefydlu gan ddeddfwriaeth.

Crynodeb

- 7.97 Mae anfanteision yr opsiwn hwn yn fwy na'r manteision. Er y gallai canoli o bosibl arwain at fanteision tebyg i greu'r Comisiwn, mae'r risgiau posibl yn ymwneud â'r modd y byddai'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dosbarthu'r sefydliadau a gwrthwynebiad o'r sector addysg uwch yn golygu bod yr opsiwn hwn wedi'i ddiystyru.

Opsiwn 6. Sefydlu Awdurdod Addysg Drydyddol ar raddfa fawr i ysgwyddo holl swyddogaethau CCAUC a swyddogaethau eraill ar draws y sector addysg drydyddol (yr opsiwn a ffefrir)

Disgrifiad o elfennau allweddol yr opsiwn hwn

- 7.98 Mae'r opsiwn hwn yn golygu trosglwyddo pwerau a swyddogaethau cytunedig Gweinidogion Cymru a holl swyddogaethau CCAUC i'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil.
- 7.99 O ran ysgogiadau, bydd Llywodraeth Cymru yn pennu ei gofynion yn y ddeddfwriaeth sefydlu a'r fframwaith rheoli. Bydd y ddeddfwriaeth yn nodi swyddogaethau, pwerau a dyletswyddau'r Comisiwn. Bydd y fframwaith rheoli'n

pennu i ba raddau y byddai modd i Lywodraeth Cymru reoli a dylanwadu ar y Comisiwn ei hun ac, yn y pen draw, ar y sector i gyd.

- 7.100 Cynigir y bydd y sectorau canlynol yn dod ynghyd – addysg bellach, dosbarthiadau chwech mewn ysgolion, addysg uwch, prentisiaethau, a dysgu oedolion yn y gymuned.
- 7.101 Byddai'r holl swyddogaethau a gaiff eu cyflawni ar hyn o bryd gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas ag Addysg Bellach a Phrentisiaethau yn trosglwyddo i Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru – sef corff newydd, 'hyd braich'. Byddai'r swyddogaethau hyn yn cynnwys cynllunio, cyllido, contractio, sicrhau ansawdd, monitro ariannol ac archwilio.
- 7.102 Byddai'r holl swyddogaethau a gaiff eu cyflawni gan CCAUC hefyd yn trosglwyddo i'r corff newydd. Felly, byddai holl rannau'r sector addysg drydyddol yn cael eu dwyn ynghyd dan un corff rheoleiddio.
- 7.103 Byddai'r Comisiwn yn cael pwerau i wneud y canlynol: cyllido ymchwil ac arloesi, ynghyd â manteisio ar y meysydd hyn, yn unol â'r cynllun strategol y cytunodd y Comisiwn a Gweinidogion Cymru arno. Bydd pwerau presennol CCAUC o ran dosbarthu cyllid ymchwil Cysylltiedig ag Ansawdd yn cael eu trosglwyddo i'r Comisiwn. Bydd pwyllgor Ymchwil ac Arloesi yn cael ei sefydlu.
- 7.104 Byddai gosod y Bil a chyflawni'r cynlluniau cysylltiedig yn trosglwyddo pwerau a swyddogaethau cytunedig Gweinidogion Cymru a CCAUC i'r Comisiwn.
- 7.105 Bydd y Comisiwn yn gyfrifol am addysg drydyddol, ymchwil ac arloesi fel a ganlyn:
- mewn perthynas â Chymru, darparu, cynllunio, cyllido a rheoleiddio addysg bellach, gan gynnwys addysg bellach sy'n rhan o brentisiaethau a chan gynnwys cyllido dysgu oedolion (19+ oed) a ddarperir gan gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yng Nghymru a chyrsgiau rhan amser a gynigir gan ddarparwyr addysg bellach eraill;
 - mewn perthynas â Chymru, cyllido a rheoleiddio'r ddarpariaeth addysg uwch, gan gynnwys addysg uwch sy'n rhan o brentisiaethau;
 - cyllido'r capasiti ymchwil ac arloesi mewn sefydliadau addysg drydyddol yng Nghymru a chyrrff sy'n cydlafurio;
 - datblygu, cyhoeddi ac adolygu fframweithiau prentisiaethau Cymreig a chyflwyno tystysgrifau prentisiaeth Cymru;
 - cyllido a chyflwyno'r ddarpariaeth chweched dosbarth a gynhelir gan awdurdodau lleol ac elfennau o'r ddarpariaeth ôl-16 mewn ysgolion;
 - goruchwyllo a rheoleiddio ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yn y sector addysg drydyddol, hyfforddiant ac ymchwil, a ddarperir gan neu ar ran y sefydliadau hynny sy'n rhan o'i gylch gwaith sicrhau ansawdd, y caiff eu gweithgareddau eu cyflawni'n gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru.

Prif fanteision opsiwn 6

- 7.106 Fe fyddai gan Lywodraeth Cymru y pŵer i gymryd camau i sicrhau bod dull gweithredu'r sector cyfan yn adlewyrchu ei hamcanion strategol, a thrwy hynny yn gwasanaethu trigolion Cymru. Byddai'r Comisiwn arfaethedig yn alinio'n well yn yr hirdymor â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru a gweithgareddau/canlyniadau addysg drydyddol.

- 7.107 Gydag un corff 'hyd braich' fe fydd yna un llwybr ar gyfer goruchwylio'r sector addysg drydyddol i gyd – bydd hyn yn gwella gwaith cynllunio strategol ac yn helpu i atal dyblygu a bylchau yn y ddarpariaeth. Bydd y Comisiwn yn hyrwyddo cydweithredu rhwng sefydliadau / darparwyr ac yn cryfhau'r cysylltiadau ag eraill, gan gynnwys ysgolion a busnesau. Fe fydd hyn yn arwain at leihau'r cymhlethdod ac at gynllunio cenedlaethol a rhanbarthol cryfach a mwy diogel. Bydd yn cryfhau'r cysylltiad rhwng ymchwil ac addysg, ynghyd â darparu system addysg drydyddol sydd mewn sefyllfa well i ymateb i facro-newidiadau; pennu llwybrau i ddysgwyr; a dod â'r sector ynghyd mewn ffordd a fydd yn darparu ar gyfer datblygu sgiliau a dysgu gydol oes o'r iawn ryw.
- 7.108 Hefyd, byddai'r Comisiwn yn hyrwyddo synergeddau mwy effeithiol, gan y byddai'r corff yn cyllido addysg bellach ac addysg uwch fel ei gilydd.
- 7.109 Fe fyddai'r system addysg drydyddol mwy cydgysylltiedig a chydweithredol. Byddai'n darparu llwybrau cynnydd / llwybrau dysgwyr clir a byddai'n haws i ddysgwyr lywio trwyddi. Byddai'r Comisiwn yn darparu gwybodaeth, cyngor a chanllawiau o safon ar y llwybrau dysgu sydd ar gael ar draws y sector.
- 7.110 Byddai gwell cymorth ar gael i ddysgwyr, gan gynnwys gwybodaeth gliriach a gwell am yr opsiynau sydd ar gael.
- 7.111 Byddai gan y Comisiwn ysgogiadau digonol ar gyfer dylanwadu ar brifysgolion fel y bo'n briodol. Byddai hyn yn ymdrin â'r materion presennol sy'n wynebu CCAUC.
- 7.112 Byddai sefydlu'r Comisiwn yn ymdrin â materion yn ymwneud ag arferion gwael o ran casglu data a diffyg gwybodaeth ar draws y sector. Byddai modd gwneud hyn trwy ddatblygu system gyson ac effeithiol ar gyfer casglu data ar draws yr holl sector.
- 7.113 Byddai sefydlu'r Comisiwn yn cynnig cyfle i roi dull cyson waith ar draws y sector, o ran ymchwilio i gwynion a rheoli apeliadau – gan ddangos, felly, ymrwymiad i ddiwallu anghenion dysgwyr.
- 7.114 Gan y byddai un sefydliad yn gweithio tuag at ganfod bylchau sgiliau yn y farchnad lafur, creu cyfleoedd dysgu ar gyfer llenwi'r bylchau hyn, a hwyluso mynediad a chynnydd tuag atynt ar gyfer dysgwyr, byddai egni'r holl sector yn gallu canolbwyntio ar wneud y gorau o'r canlyniadau i ddysgwyr ac i'r economi.
- 7.115 Byddai dod â'r dasg o gyllido ymchwil dan adain y Comisiwn yn caniatáu iddo fonitro'n effeithiol i ba raddau y mae ymchwil yn cefnogi twf economaidd a chyfleoedd i ddysgwyr, ynghyd â chymryd camau i sicrhau na chaiff cyllid ei ddarparu ar gyfer gwaith ymchwil nad yw'n cefnogi'r canlyniadau hyn.
- 7.116 Byddai sefydlu'r Comisiwn yn dod â'r sector ynghyd mewn ffordd a fyddai'n arwain at allu rhoi prosesau sicrhau ansawdd cydlynol a chymaradwy ar waith. Byddai modd mynd ati i gasglu data at ddibenion gweinyddu a monitro perfformiad mewn modd symlach a chymaradwy, ynghyd â helpu i sicrhau dull cyson o ymchwilio i gwynion a rheoli apeliadau, ar draws y sector.

- 7.117 Byddai creu'r Comisiwn yn cynnig cyfle i alinio safonau proffesiynol a chymwysterau i ymarfer (addysgu ar lefel addysg drydyddol) ar draws y ddarpariaeth ôl-16.
- 7.118 Ymhellach, byddai'r opsiwn hwn yn arwain at alinio bwriadau'r polisi gyda Deddf 2018 ar gyfer dysgwyr ôl-16.
- 7.119 Hefyd, efallai y byddai sefydlu'r Comisiwn yn cynnig cyfle i ymdrin â'r dull anghyson o asesu, gwerthuso a gwella perfformiad ar draws y sector.

Prif anfanteision opsiwn 6

- 7.120 Mae'n bosibl y gallai graddfa'r newid amharu ar y sector addysg drydyddol; byddai'n rhaid rheoli'r cyfnod pontio'n ofalus.
- 7.121 Efallai na fydd corff 'hyd braich' yn ddigon atebol. Felly, byddai'n rhaid rhoi ystyriaeth ofalus i'r darpariaethau statudol perthnasol a natur y berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a'r Comisiwn.
- 7.122 Os na fydd y darpariaethau statudol y bydd y corff newydd yn gweithredu ar eu sail, ynghyd â pherthynas y corff newydd â Llywodraeth Cymru, yn ddigon cadarn, efallai y bydd yn anodd sicrhau bod ei ddull strategol yn adlewyrchu blaenoriaethau'r Llywodraeth a bod ganddo'r pŵer a'r awdurdod i gyflawni popeth sy'n ofynnol.
- 7.123 Byddai rhai rhanddeiliaid (addysg bellach, darparwyr prentisiaethau, a dosbarthiadau chwech a gynhelir) yn symud ymhellach oddi wrth y Gweinidogion.
- 7.124 Fe ellid cael pryderon ynghylch diffyg atebolrwydd awdurdod addysg drydyddol mor fawr. Byddai'r Comisiwn yn gorff 'hyd braich' newydd a phwerus, a chanddo bwerau pellgyrhaeddol a chyllideb sylweddol (mwy na £500 miliwn y flwyddyn, yn seiliedig ar wariant presennol mewn meysydd perthnasol). Fe allai fod yn anodd sicrhau bod corff mor bwerus yn parhau i fod yn ddigon atebol i Weiniogion Cymru dros amser. Y bwriad yw y byddai'r cynigion i gryfhau gofynion cyfreithiol yn ymwneud â chynllunio strategol, rhywbeth a fyddai'n creu synergeddau effeithiol o ganlyniad i gyfrifoldebau'r Comisiwn dros gyllido'r holl sector, yn lliniaru hyn. Fodd bynnag, fe fydd llawer yn dal i ddibynnu ar benodi staff bwrdd ac uwch-staff i helpu i sicrhau bod y berthynas rhwng y Comisiwn, y Gweinidogion a'r swyddogion yn gadarnhaol ond yn rymus.
- 7.125 Fe allai natur eang swyddogaethau'r Comisiwn ei gwneud yn anos i'r llywodraeth lywio a herio gweithgareddau'r Comisiwn yn briodol. Bydd ei swyddogaethau'n hynod gymhleth. Er mwyn dal sefydliad o'r fath i gyfrif yn briodol, bydd angen i Lywodraeth Cymru ddal gafael ar allu digonol o fewn gwasanaeth sifil Llywodraeth Cymru er mwyn helpu i lunio polisiau a chraffu'n effeithiol ar holl weithgareddau'r Comisiwn. Yn ei dro, fe allai hynny godi cwestiynau ynghylch effeithiolrwydd a gwerth am arian y dasg o symud llawer o'r swyddogaethau hyn y tu allan i'r llywodraeth.
- 7.126 Os bydd y corff newydd yn cynnwys yn bennaf y staff sy'n gyfrifol yn awr am swyddogaethau sydd fwy neu lai yr un fath, efallai na fydd y Comisiwn yn arwain at y newid angenrheidiol mewn diwylliant er mwyn cyflawni'r diwygio y dymunir ei weld. Gellid ymdrin â hyn yn y lle cyntaf trwy arweiniad effeithiol, cryf ac arloesol wrth sefydlu diwylliant sefydliadol newydd.

- 7.127 Ar hyn o bryd, ni ellir diystyru'r posibilrwydd y bydd y costau o weithredu unrhyw system newydd yn fwy na chost y trefniadau presennol. Gan nad yw'r costau hyn yn hysbys ar hyn o bryd, ni ellir cymharu'r gost o weithredu system newydd gyda chost y trefniadau presennol. Fodd bynnag, rhagwelir y byddai sefydlu'r Comisiwn yn gwireddu llawer iawn o fuddion (gweler Pennod 19). Er ei bod yn anodd cymharu'r costau a'r buddion mewn modd gwrthrychol, rhaid seilio barn ar ba un a yw'r buddion yn cyfiawnhau'r costau ychwanegol.
- 7.128 Os caiff ymchwil ac arloesi ei ymgorffori yn y llwybr cyllido addysg uwch, mae yna bosibilrwydd y byddai'n cael ei ystyried fel 'perthynas dlawd' y byd addysg trwy ddod yn ddull cyllido ar gyfer sefydliadau. Ond byddai modd lliniaru hyn trwy greu Pwyllgor Ymchwil ac Arloesi a phenodiad cyhoeddus Cadeirydd y Pwyllgor.

Crynodeb

- 7.129 Gwnaeth Llywodraeth Cymru nodi opsiwn 6, sef creu un corff i gyllido a rheoleiddio'r sector addysg drydyddol cyfan, fel yr opsiwn a ffefrir gan mai dyma'r unig opsiwn a fyddai'n gallu gweithredu pob un o argymhellion yr Athro Hazelkorn. Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn hefyd yn dangos cefnogaeth gref ar gyfer opsiwn 6.
- 7.130 Byddai cadw busnes fel arfer yn creu heriau i Lywodraeth Cymru. Ni fyddai'n mynd i'r afael yn ddigonol â natur dameidiog, gymhleth a digyswllt y gwaith cynllunio strategol ac ni fyddai'n cynnig llwybr clir ar draws yr holl sector addysg drydyddol.
- 7.131 Er bod opsiwn 4 yn gallu sicrhau nifer o'r manteision yn yr opsiwn a ffefrir, ni fyddai'n gallu darparu'r holl ganlyniadau a geir yn yr opsiwn hwnnw. Mae opsiwn 6 yn cyflawni'n llawn yr amcanion allweddol ar gyfer diwygio'r sector addysg drydyddol, ac felly dyma'r opsiwn a ffefrir gan Lywodraeth Cymru.

Taflen sgorio wedi'i chymedroli ar gyfer gwerthuso'r opsiynau ar gyfer diwygio addysg drydyddol

Tabl 7.1: Y graddau y mae'r opsiynau'n ymateb i nodau ac amcanion lefel uchel llywodraeth cymru ar gyfer diwygio

Amcanion Lefel Uchel	Opsiwn 1	Opsiwn 2	Opsiwn 3	Opsiwn 4a	Opsiwn 4b	Opsiwn 5a	Opsiwn 5b	Opsiwn 5c	Opsiwn 6
Bod yn ymatebol i anghenion cyflogwyr ac ymdrin â'r bylchau sgiliau	0	0	-1	1	1	1	1	1	2
Gwella safle (fe'i diffinnir ar hyn o bryd gan y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil), enw da a chyllid ymchwil sefydliadau ymchwil	0	0	0	1	2	0	0	2	2
Gwella cyfleoedd ar gyfer prentisiaethau	0	0	0	1	1	1	1	1	2
Codi'r safonau i bawb; gwella cyfranogiad, cynnydd, perfformiad a deilliannau dysgwyr	0	1	0	1	1	2	2	2	2
Gwella cynnig y cwricwlwm	0	0	0	1	0	1	1	1	2
Gwella profiad dysgwyr a mynegi llais dysgwyr	0	0	0	1	1	1	1	0	2
Gwella enw da, ystwythder a chyfeiriad y sector addysg drydyddol	0	0	0	1	0	1	1	1	2
Cyflwyno system well, gydymffurfiol ac effeithiol ar gyfer casglu, dadansoddi a dosbarthu data, sef system a fydd yn sicrhau bod gwybodaeth amserol, hygyrch a pherthnasol am addysg drydyddol yng Nghymru ar gael i bawb sydd ei hangen	0	1	0	2	2	1	1	1	2

Amcanion Lefel Uchel	Opsiwn 1	Opsiwn 2	Opsiwn 3	Opsiwn 4a	Opsiwn 4b	Opsiwn 5a	Opsiwn 5b	Opsiwn 5c	Opsiwn 6
Lleihau cystadleuaeth a dyblygu diangen mewn cyrsiau ar draws y sector addysg drydyddol.	0	1	-1	1	0	1	1	1	2
Gwella cydlyniant a chysondeb gwaith monitro ariannol a gwaith monitro perfformiad, ynghyd â sicrhau ansawdd	0	0	-1	1	1	1	1	1	2
Gwella'r defnydd a wna'r gymuned o gyfleusterau addysg drydyddol a gwella'r cysylltedd	0	0	0	1	1	0	0	0	1
Cyfanswm y sgôr wedi'i chymedroli	0	3	-3	12	10	10	10	11	21
Ystod y sgoriau unigol	N/A	2 -6	(-11) - 1	0-15	0-15	0-14	0-18	1-15	18-21
Safle	8ed	7ed	9ed	2ail	=4ydd	=4ydd	=4ydd	3ydd	1af
Dosbarthiad y Gweithdy Arfarnu Opsiynau (Diystyru / Ffafrio / Posibl)	Diystyru	Diystyru	Diystyru	Posibl	Diystyru	Diystyru	Diystyru	Diystyru	Ffafrio

Pennod 8. Opsiynau manwl ar gyfer diwygio - Llywodraethiant y Comisiwn

Y trefniadau presennol a'r achos o blaid newid

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru

- 8.1 Mae Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) yn gorff a noddir gan Lywodraeth Cymru a sefydlwyd o dan adran 62(1)(b) o Ddeddf 1992.
- 8.2 CCAUC yw'r corff sy'n gyfrifol am reoleiddio addysg uwch yng Nghymru, o dan y pwerau yn Neddf 2015, ac am weinyddu cyllid gan Weinidogion Cymru at ddiben darparu cymorth ariannol i ddarparwyr addysg uwch yng Nghymru ar gyfer gweithgareddau sy'n gysylltiedig â darparu addysg uwch ac ymchwil a gweithgareddau cysylltiedig. Mae hefyd yn darparu cyllid ar gyfer cyrsiau addysg uwch rhagnodedig mewn colegau addysg bellach.
- 8.3 Yn 2021/22, bydd CCAUC yn rheoli cyllideb o dros £213m. Ei Brif Weithredwr yw'r Swyddog Cyfrifyddu dynodedig, sydd â chyfrifoldeb penodol yn ymwneud â defnyddio a diogelu arian cyhoeddus gan Lywodraeth Cymru.
- 8.4 Mae Deddf 1992 yn nodi y dylai'r Cyngor gynnwys o leiaf 8 a dim mwy na 12 o aelodau, gan gynnwys y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr.
- 8.5 Fel rheoleiddiwr statudol addysg uwch yng Nghymru, mae gan CCAUC ddyletswyddau a phwerau statudol penodol mewn perthynas â:
 - chymeradwyo a monitro cydymffurfiaeth â chynlluniau ffioedd a mynediad a monitro terfynau ffioedd;
 - asesu ansawdd addysg uwch; a
 - datblygu Cod Rheoli Ariannol a monitro cydymffurfiaeth darparwyr addysg uwch â'r Cod.
- 8.6 Mae hefyd yn darparu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad i'r sector addysg uwch ac yn gweithredu fel corff cyfryngol rhwng Gweinidogion Cymru â'r sector, gan adrodd i Weinidogion Cymru ar gyflawni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg uwch yng Nghymru.
- 8.7 Ar hyn o bryd, mae gan CCAUC Bwyllgor Asesu Ansawdd a sefydlwyd o dan adran 25 o Ddeddf 2015. Nodir hyd at 10 o aelodau yn ei gylch gorchwyl. Ym mis Ebrill 2021, roedd gan y Pwyllgor 9 aelod (gan gynnwys tri o CCAUC) ac roedd hefyd yn cynnwys dau arsylwydd a swyddogion CCAUC.
- 8.8 Mae gan CCAUC hefyd bwerau o dan adran 8 o Atodlen 1 i'r Ddeddf 1992 sy'n ei alluogi i sefydlu pwyllgor at unrhyw ddiben. Mae'r Ddeddf yn galluogi'r Cyngor i bennu nifer a thelerau'r aelodau ac yn darparu i'r aelodaeth gynnwys personau nad ydynt yn aelodau o'r Cyngor.
- 8.9 O dan y pwerau hyn, mae CCAUC wedi sefydlu Pwyllgor Ymchwil Cymru anstatudol i gynghori'r Cyngor ar ei strategaethau perthnasol ac i wneud argymhellion (gan gynnwys argymhellion mewn perthynas â Chronfa Arloesi Ymchwil Cymru y Cyngor), ymgysylltu â rhanddeiliaid ac ystyried unrhyw faterion sy'n cael eu cyfeirio

at gan y Cyngor. Nodir hyd at 14 o aelodau arferol yng nghylch gorchwyl y Pwyllgor, yn cynnwys o leiaf dau aelod o'r Cyngor. Mae Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd y Pwyllgor hefyd yn aelodau o'r Cyngor. Ym mis Ebrill 2021, roedd gan y Pwyllgor 12 aelod (4 aelod o Gyngor CCAUC) ac roedd hefyd yn cynnwys 5 arsylwydd a sawl swyddog o CCAUC.

8.10 Mae'r Bil yn cynnig bod CCAUC yn cael ei ddiddymu, a bod Comisiwn newydd yn cael ei greu gyda'r pwerau a'r dyletswyddau y bydd eu hangen arno i weithredu fel prif reoleiddiwr a chyllidwr addysg drydyddol. Yn ogystal â chyllido a goruchwyllo darparwyr dysgu ar draws y sector, mae angen i'r Comisiwn allu ymateb yn gadarnhaol i'r newidiadau a gyflwynir ar lefel y DU drwy greu cyfrwng i ymgysylltu a chydweithio ag Ymchwil ac Arloesi yn y DU ar ran Cymru, a chymryd y cyfrifoldeb am ddefnyddio arian cyhoeddus mewn ffordd strategol a deinamig ar gyfer ymchwil ac arloesi.

Tîm Partneriaeth

8.11 Y Tîm Partneriaeth yw'r prif bwynt cyswllt rhwng CCAUC a Llywodraeth Cymru. Mae'n gyfrifol am oruchwyllo a rheoli perfformiad CCAUC yn unol â threfniadau Llywodraeth Cymru ar gyfer goruchwyllo ei chyrff hyd braich.

8.12 Mae'r Tîm Partneriaeth yn cyflawni'r swyddogaethau canlynol:

- Monitro a chysylltu â CCAUC ynghylch ei gyllideb cymorth grant a'i sefyllfa ariannol drwy gydol y flwyddyn.
- Cadarnhau blaenoriaethau polisi'r Gweinidog Addysg ar gyfer y sector addysg uwch drwy'r llythyr cylch gwaith y Gweinidog i'r Cyngor.
- Monitro perfformiad gweithredol ac ariannol CCAUC yn erbyn cynlluniau busnes ac ariannol a'r gweithgareddau a nodwyd yn ei lythyr cylch gwaith, a chynghori'r Gweinidogion fel y bo'n briodol.
- Asesu a monitro'r risgiau sy'n gysylltiedig â chyflawni amcanion allweddol CCAUC.
- Goruchwyllo'r trefniadau ar gyfer penodi cadeirydd ac aelodau CCAUC;
- Monitro cydymffurfiaeth â fframwaith goruchwyllo, llywodraethu ac atebolrwydd Llywodraeth Cymru ar gyfer cyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru.
- Gweithredu fel cyswllt rhwng CCAUC a Gweinidogion Cymru ar y ddarpariaeth addysg uwch.

Yr Uned Cyrff Cyhoeddus

8.13 Cefnogir y tîm partneriaeth gan yr Uned Cyrff Cyhoeddus. Ceir rhagor o wybodaeth am rôl a swyddogaethau'r uned hon ym mharagraff 3.108 – 3.110.

Yr opsiynau a ystyriwyd a'r dull a ffeirir

8.14 Mae pennod 7 yn amlinellu arfarniad o'r dulliau gwahanol ar gyfer mynd i'r afael â'r materion sy'n wynebu'r sector addysg ôl-16 ac ymchwil. O ystyried bod yr opsiwn a ffeirir, sef creu'r Comisiwn, wedi'i gytuno, rhaid i'r trefniadau llywodraethu ar gyfer y sefydliad newydd gael eu newid er mwyn adlewyrchu ei bwerau a'i ddyletswyddau newydd.

8.15 Ystyriwyd nifer o opsiynau gwahanol ar gyfer strwythur llywodraethu'r Comisiwn.

Opswim 1 - Busnes fel arfer

8.16 Byddai senario dim newid (busnes fel arfer) ond yn berthnasol pe na bai'r diwygiadau i greu'r Comisiwn yn cael eu gweithredu, gan y byddai diddymu CCAUC a sefydlu'r corff newydd yn gofyn am strwythur llywodraethu newydd.

Prif fanteision busnes fel arfer

8.17 Ni fyddai'n amharu ar y trefniadau gweithio presennol.

Prif risgiau busnes fel arfer

8.18 Nid oes unrhyw risgiau i'r trefniadau llywodraethu presennol.

Opsiwn 2 - Bwrdd Llywodraethu gweddol fawr gyda Phwyllgorau Ymchwil ac Arloesi ac Ansawdd statudol (Y dull a ffefrir)

8.19 Byddai CCAUC yn cael ei ddiddymu a'r Comisiwn newydd yn cael ei sefydlu gyda'r cyfrifoldeb am oruchwylio dysgu ac ymchwil ar draws y sector addysg drydyddol.

8.20 Mae'r Bil yn cynnig bod Llywodraeth Cymru'n sefydlu Bwrdd Llywodraethu ar gyfer y sefydliad newydd sydd â rhwng saith ac 17 o aelodau, yn cynnwys y Prif Weithredwr. Bydd y Bil hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn sefydlu Pwyllgor Ymchwil ac Arloesi (gyda Chadeirydd a benodir gan Weinidogion Cymru a'r aelodau eraill wedi'u penodi gan y Comisiwn) a Phwyllgor Ansawdd y bydd ei aelodaeth yn cael ei phennu gan y Comisiwn.

8.21 Dirprwy gadeirydd y Comisiwn fydd cadeirydd y Pwyllgor Ymchwil ac Arloesi.

8.22 Bydd y Comisiwn yn gallu creu ei bwyllgorau ychwanegol ei hun fel y gwêl yn briodol er mwyn cyflawni ei swyddogaethau.

8.23 Bydd pob pwyllgor yn atebol i Fwrdd y Comisiwn.

8.24 Caiff y berthynas rhwng y Comisiwn â Llywodraeth Cymru ei goruchwylio gan Dîm Partneriaeth Llywodraeth Cymru.

8.25 Caiff aelodau'r Comisiwn a Chadeirydd y Pwyllgor Ymchwil ac Arloesi eu penodi drwy broses penodiadau cyhoeddus.

8.26 Byddai Bwrdd y Comisiwn yn cael eu recriwtio a'u dethol yn seiliedig ar eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u profiad, yn hytrach nag i gynrychioli sector penodol. Byddai angen i un aelod cyffredin feddu ar brofiad o gynrychioli anghenion dysgwyr mewn addysg drydyddol a'r gallu i wneud hynny.

8.27 Yn ogystal, byddai nifer o aelodau cynghorol yn cael eu cynnwys ar y Bwrdd, drwy broses enwebu. Byddai o leiaf un o'r aelodau cynghorol yn cynrychioli dysgwyr mewn addysg drydyddol ac o leiaf dau yn cynrychioli undebau llafur y gweithlu addysg drydyddol ehangach ar ran staff academaidd a staff nad ydynt yn academaidd.

8.28 Cynigiodd yr ymgynghoriad technegol y dylai fod dau gynrychiolydd o blith dysgwyr ar y Bwrdd. Awgrymodd yr ymatebion gan randdeiliaid i'r cynigion y dylai'r cynrychiolwyr o blith dysgwyr fod yn arsylwyr (gweler opsiwn 3 isod) er mwyn rhoi hyblygrwydd i'r Comisiwn, ac y dylid cynnwys cynrychiolydd ar ran y gweithlu. Fodd bynnag, cododd Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr (UCM) bryderon ynghylch rhoi rôl arsylwi yn unig i gynrychiolwyr dysgwyr. Mae'r dull a ffefrir yn cynnwys cynrychiolaeth o'r gweithlu ac yn darparu ar gyfer cynnwys dysgwyr fel aelodau llawn ac yn aelodau cynghorol er mwyn helpu i sicrhau bod cynrychiolwyr digonol ar y Bwrdd i gynrychioli rhanddeiliaid allweddol.

Prif fanteision y dull a ffefrir

- 8.29 Bwriad strwythur llywodraethu o'r fath ar gyfer y Comisiwn yw sicrhau bod y Bwrdd Llywodraethu'n cynnwys unigolion sydd â'r sgiliau a'r brwdfrydedd i wella'r sector cyfan. Byddai hefyd yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer cynrychioli rhanddeiliaid allweddol.
- 8.30 Byddai rhoi sail statudol i'r Pwyllgor Ymchwil ac Arloesi'n rhoi mwy o amlygrwydd i'r maes hwn ac yn darparu cyfrwng i ymgysylltu a chydweithio ag Ymchwil ac Arloesi yn y DU ar ran Cymru.
- 8.31 Byddai'n caniatáu i gyllid ymchwil gael ei ddyrannu mewn ffordd fwy strategol a deinamig nag ar hyn o bryd. Hefyd, byddai mwy o gysondeb a chydweithio rhwng addysg, hyfforddiant, ymchwil ac arloesi, yn rhannol drwy rôl hanfodol Cadeirydd Pwyllgor Ymchwil ac Arloesi.

Prif risgiau'r dull a ffefrir

- 8.32 Byddai cylch gwaith y Comisiwn yn eang iawn. Gallai Bwrdd gyda hyd at 17 o aelodau i helpu i ymdrin â'r amrywiaeth o faterion dan sylw, fod yn heriol i'r cadeirydd ei reoli a sicrhau cyfranogiad a chyfraniad gan bob aelod.

Opsiwn 3 - Bwrdd Llywodraethu mwy o faint a chyfres o bwyllgorau statudol

- 8.33 Amlinellwyd trydydd opsiwn yn yr ymgynghoriad technegol, a oedd yn destun ymgynghoriad eang yn ystod Gwanwyn 2018.
- 8.34 Roedd y dull hwn yn awgrymu y dylid deddfu er mwyn sefydlu Bwrdd Llywodraethu gyda rhwng naw ac 15 o aelodau, yn cynnwys y cadeirydd, y Prif Swyddog Gweithredol ac gynrychiolydd o blith dysgwyr; a hefyd Pwyllgor Ymchwil ac Arloesi gyda chwech i naw o aelodau.
- 8.35 Roedd hefyd yn cynnig gosod mewn deddfwriaeth y gallu i sefydlu saith pwyllgor pellach i ystyried meysydd allweddol ar draws y sector addysg drydyddol:
- diogelu anghenion dysgwyr;
 - diwallu anghenion cyflogwyr, busnesau a phrentisiaethau;
 - archwilio a chydymffurfiaeth;
 - cydnabyddiaeth ariannol;
 - ansawdd;
 - ehangu cyfranogiad; a
 - Y Gymraeg.

Prif fanteision opsiwn 3

- 8.36 Byddai cynnwys cynrychiolwyr o blith dysgwyr yn aelodau o'r Bwrdd yn dangos yr ymrwymiad sy'n cael ei wneud i ddysgwyr a hefyd bod y Comisiwn yn canolbwyntio ar anghenion dysgwyr. Mae cynrychiolaeth o blith dysgwyr yn rhan o'r opsiwn a ffefrir.
- 8.37 Yn yr un modd, byddai creu wyth o bwyllgorau statudol yn rhoi mwy o sylw a dylanwad i bob un o'r meysydd arfaethedig o fewn y Comisiwn.

Prif risgiau opsiwn 3

- 8.38 Mewn ymateb i'r ymgynghoriad¹⁶, dywedodd rhanddeiliaid eu bod o'r farn y byddai cynnwys cynrychiolwyr o blith dysgwyr yn aelodau o'r Bwrdd yn cyflwyno risg i'w hannibyniaeth, ac awgrymwyd y dylent fod yn arsylwyr yn hytrach nag yn aelodau.
- 8.39 Roedd pryder hefyd nad oedd cynrychiolwyr o'r gweithlu wedi'u cynnwys yn opsiwn 3, ac na fyddai'r Bwrdd felly'n adlewyrchu eu safbwynt nhw.
- 8.40 Yn olaf, roedd rhanddeiliaid yn teimlo bod risg y byddai nodi nifer fawr o bwyllgorau statudol yn creu'r risg na fyddai'r Comisiwn yn gallu addasu'n hyblyg i fynd i'r afael â blaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg yn y dyfodol. Byddai risg hefyd y byddai angen llawer iawn o adnoddau i hwyluso nifer cymaint o bwyllgorau statudol.

Crynodeb

- 8.41 Mae'r opsiwn a ffefrir yn galluogi'r Comisiwn i benderfynu ar bwyllgorau y gallai fod eu hangen i gyflawni ei swyddogaeth. Yn ogystal, bydd y Comisiwn, fel corff noddedig, yn cael ei lywodraethu gan Ddogfen Fframwaith Llywodraeth Cymru, sy'n cynnwys y gofyniad am bwyllgor Archwilio.

¹⁶ Llywodraeth Cymru | Budd y Cyhoedd a Chymru Ffyniannus – y camau

Pennod 9. Opsiynau manwl ar gyfer diwygio - Y berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a'r Comisiwn

Y trefniadau presennol a'r achos o blaid newid

- 9.1 Ar hyn o bryd, mae CCAUC, fel corff a noddir, yn cael llythyr cylch gwaith blynyddol gan Lywodraeth Cymru sy'n amlinellu'r blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn ganlynol y bydd angen eu cyflawni drwy ddefnyddio'r cyllid a ddyrennir iddo. Mae CCAUC yn cyhoeddi cynllun corfforaethol mewn ymateb i lythyr cylch gwaith blynyddol Gweinidogion Cymru a hefyd yn paratoi cynllun gweithredol sy'n nodi'r blaenoriaethau o ddydd i ddydd.
- 9.2 Ceir tîm bach yn Llywodraeth Cymru sy'n helpu i reoli'r nawdd ar gyfer CCAUC.. Mae'r swyddogaethau presennol yn gysylltiedig â nawdd ar gyfer corff hyd braich, yn cynnwys llunio'r llythyr cylch gwaith blynyddol a phresenoldeb mewn cyfarfodydd monitro chwarterol i drafod y cynllun corfforaethol a Chyllid
- 9.3 Yr Is-adran Addysg Uwch yn Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am y gyllideb ar gyfer CCAUC drwy un llinell gyllidebol. Mae CCAUC yn rheoli ei gostau rhedeg ei hun ac yn gyfrifol am ddyrannu cyllid
- 9.4 Ar hyn o bryd, mae cylch gwaith CCAUC yn cynnwys addysg uwch ac ymchwil yn unig. Un o'r prif nodau polisi'r wrth sefydlu'r Comisiwn yw creu corff sy'n gallu delio â'r gwaith cynllunio a chyllido strategol ar gyfer y system addysg drydyddol yng Nghymru yn ei chyfanrwydd gan gynnwys ymchwil ac arloesi (gweler Pennod 3).

Yr opsiynau a ystyriwyd a'r dull a ffefir

Opswim 1 - Busnes fel arfer

- 9.5 Byddai senario busnes fel arfer (dim newid) ond yn berthnasol pe na bai'r diwygiadau i greu'r Comisiwn yn cael eu gweithredu, gan y byddai diddymu CCAUC a sefydlu'r corff newydd yn gofyn am strwythur llywodraethu newydd.

Prif fanteision busnes fel arfer

- 9.6 Ni fyddai'n amharu ar y trefniadau gweithio presennol. Byddai CCAUC yn parhau i gyllido darpariaeth addysg uwch, ymchwil a gweithgareddau cysylltiedig a byddai'r cyllid a ddyrennir i CCAUC yn cael ei reoli drwy dîm noddi Llywodraeth Cymru o hyd.

Prif risgiau busnes fel arfer

- 9.7 Gallai'r system bresennol fethu â manteisio ar y cyfle i fabwysiadu dull mwy strategol ar gyfer cynllunio a chyllido addysg cyfrwng Cymraeg ar draws y sector addysg drydyddol cyfan. Mae risg hefyd na fyddai blaenoriaethau Llywodraeth Cymru'n cael eu hadlewyrchu mewn ffordd cydlynol a chydweithredol yn y trefniadau ar gyfer cynllunio a chyllido'r sector.

- 9.8 Ar hyn o bryd, nid yw'r llythyr cylch gwaith blynyddol bob amser yn hwyluso cynllunio hirdymor ac mae risg y byddai cadw at y system bresennol yn golygu bod hyn yn parhau.
- 9.9 Byddai cyfle'n cael ei golli i annog y sector addysg drydyddol cyfan i sicrhau cynaliadwyedd, cydlyniant ac effeithiolrwydd ar draws dosbarthiadau chwech a darparwyd addysg bellach, addysg uwch a phrentisiaethau.

Opsiwn 2 - y dull a ffeirir – Strategaeth ar gyfer addysg drydyddol ac ymchwil

- 9.10 Cynigir gosod dyletswydd statudol newydd ar Weinidogion Cymru i lunio a chyhoeddi datganiad o flaenoriaethau sy'n nodi'r polisi cyffredinol hirdymor a'r cyfeiriad strategol ar gyfer y sector addysg drydyddol ac ymchwil ac arloesi yng Nghymru.
- 9.11 Bod dyletswyddau cysylltiedig yn cael eu rhoi i'r Comisiwn i llunio cynllun strategol gan ystyried y datganiad o flaenoriaethau. Bydd gofyn i'r Comisiwn gyflwyno cynllun strategol mewn ymateb i'r datganiad o fewn 6 mis ar ôl ei gyhoeddi gan Weinidogion Cymru. Rhaid i'r Comisiwn ymgynghori ar y drafft cyn ei gyflwyno.
- 9.12 Darperir ar gyfer cyfres o naw dyletswydd strategol ar wyneb y Bil. Byddai'r rhain yn ymdrin ag ystod o faterion y bydd disgwyl i'r Comisiwn eu hyrwyddo, eu hannog neu eu cyflawni, a'u bwriad fydd llywio ffocws strategol y Comisiwn a bod yn sail i gyflawni ei swyddogaethau.
- 9.13 Bydd y datganiad o flaenoriaethau, y dyletswyddau strategol a'r cynllun strategol yn ffurfio fframwaith cynllunio strategol a fydd yn llywio buddsoddiad y Comisiwn mewn addysg drydyddol ac ymchwil, a'r ffordd y mae'n cyflawni eu swyddogaethau er mwyn bodloni'r blaenoriaethau a nodir yn natganiad Gweinidogion Cymru.
- 9.14 Cynigir rhoi dyletswydd gyffredinol, parhaus ar Weinidogion Cymru i lunio, cyhoeddi a chynnal y Datganiad, gyda'r gallu i'w ddiwygio o bryd i'w gilydd yn dilyn etholiadau neu ad-drefnu/clymbleidiau yn y dyfodol. Bydd hyblygrwydd i ddiwygio'r blaenoriaethau, ond nid oes disgwyl i'r diwygiadau fod yn sylweddol, oni bai bod newid mewn llywodraeth sy'n arwain at newid mewn cyfeiriad.
- 9.15 Rhagwelir y bydd y Comisiwn yn datblygu'r arbenigedd a'r wybodaeth dros amser i allu awgrymu blaenoriaethau posibl yn y dyfodol i Weinidogion Cymru eu hystyried.
- 9.16 Mae'r dull a gynigir ar gyfer rheoli'r berthynas rhwng y Comisiwn a Gweinidogion Cymru yn ddull newydd, ac yn wahanol i'r dull a ddefnyddir ar hyn o bryd i reoli CCAUC. Bydd y trefniadau partneriaeth yn debyg i ryw raddau h.y. cytundeb fframwaith a thîm partneriaeth i gefnogi a herio'r Comisiwn, ond bydd y mecanwaith lefel uchel ar gyfer ei dal i gyfrif, a amlinellir yn y ddeddfwriaeth, yn wahanol.

Prif fanteision y dull a ffeirir

- 9.17 Mae rhoi Datganiad o Flaenoriaethau i'r Comisiwn a disgwyl iddo ddefnyddio'r blaenoriaethau hynny fel sail i'w gynllun strategol yn golygu y bydd yn uniongyrchol atebol am weithio tuag at gyflawni nodau polisi cynrychiolwyr etholedig pobl Cymru.

- 9.18 Caiff y datganiad ei gyhoeddi, sy'n golygu y bydd gan ddarparwyr ddealltwriaeth lawn o flaenoriaethau Gweinidogion Cymru a byddant yn gallu cynllunio'n unol â hynny.
- 9.19 Bydd y ffaith bod disgwyl i'r Datganiad fod yn berthnasol dros dymor y llywodraeth yn galluogi'r Comisiwn i gynllunio'n fwy effeithiol ar gyfer y cyfnod hwnnw a sicrhau mwy o sefydlogrwydd i ddarparwyr.
- 9.20 Gan y bydd yn ofynnol i'r Comisiwn ymgynghori â rhanddeiliaid ar y cynllun strategol a luniwyd mewn ymateb i'r Datganiad o Flaenoriaethau, bydd cyfle i'r rheini yr effeithir arnynt gyfrannu at y broses gynllunio a chodi unrhyw bryderon sydd ganddynt.
- 9.21 Bydd llwybr clir a chyhoeddus rhwng blaenoriaethau'r Llywodraeth a sut mae'r Comisiwn yn rhagweld y bydd darparwyr yn cyfrannu atynt. Dylai hyn hefyd sicrhau bod y broses o adrodd ar gyflawni'r blaenoriaethau hyn yn gliriach.
- 9.22 Bydd cynnwys dyletswyddau strategol yn ymwneud â'r gweithgareddau allweddol y bydd disgwyl i'r Comisiwn eu hannog, eu hyrwyddo neu ymgymryd â nhw yn golygu y byddai'n ofynnol ystyried y materion hyn ar draws swyddogaethau perthnasol y Comisiwn.

Prif risgiau'r dull a ffefrir

- 9.23 Os bydd blaenoriaethau Gweinidogion Cymru'n newid yn sylweddol yn ystod cyfnod y llywodraeth, ac felly yn ystod y cyfnod y rhagwelwyd y byddai'r datganiad yn berthnasol iddo, gellid colli'r mantais a geir o gael cylch cynllunio hwy.
- 9.24 Os bydd toriadau i'r cyllid ar gyfer cyflawni'r blaenoriaethau yn ystod cyfnod y datganiad, gallai'r manteision posibl fod dipyn yn llai.

Pennod 10. Opsiynau manwl ar gyfer diwygio - Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg

Y trefniadau presennol a'r achos o blaid newid

- 10.1 Ar hyn o bryd, mae Gweinidogion Cymru'n darparu cyllid i ddatblygu a chyflenwi darpariaeth addysg drydyddol cyfrwng Cymraeg. Mae Gweinidogion Cymru yn darparu cyllid yn uniongyrchol i ddarparwyr addysg drydyddol neu drwy sefydliadau cyfryngol fel CCAUC a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, i gefnogi darparu addysg drydyddol drwy gyfrwng y Gymraeg ac addysgu'r Gymraeg. Mae CCAUC yn ddarostyngedig i'r safonau sydd wedi'u nodi yn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 6) 2017.
- 10.2 Yn ogystal, mae Gweinidogion Cymru'n darparu cyllid i sefydliadau yn cynnwys y Coleg Cymraeg Cenedlaethol (y Coleg) i gefnogi darparu addysg drydyddol cyfrwng Cymraeg drwy weithgareddau fel cynllunio academiaidd a hyrwyddo a chymell addysg Gymraeg.
- 10.3 Amlinellodd Llywodraeth Cymru ei gweledigaeth i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 yn ei strategaeth, Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr. I gyrraedd y targed hwn, mae angen trawsnewid y sector addysg. Bydd gan y Comisiwn rôl hanfodol mewn perthynas â'r nodau canlynol yn y strategaeth:
- **Nod 4: Addysg ôl-orfodol**
Datblygu darpariaeth addysg ôl-orfodol sy'n cynyddu cyfraddau dilyniant ac yn cefnogi pawb, ni waeth pa mor rhugl eu Cymraeg, i ddatblygu sgiliau yn yr iaith i'w defnyddio'n gymdeithasol ac yn y gweithle.
 - **Nod 5: Y gweithlu addysg, adnoddau a chymwysterau**
Cynllunio er mwyn cynyddu a gwella'n sylweddol:
 - Y gweithlu addysg a hyfforddiant sy'n gallu addysgu'r Gymraeg ac addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg;
 - Yr adnoddau a'r cymwysterau sydd eu hangen i gefnogi cynnydd yn y ddarpariaeth.
- 10.4 Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn o'r farn y dylai'r Comisiwn fod yn gyfrifol am ddysgu cyfrwng Cymraeg yn y sector addysg drydyddol. Gwnaeth nifer o ymatebion hefyd sôn am y cysylltiad rhwng y Comisiwn a strategaeth Cymraeg 2050. Ail-bwysleisiwyd bod angen i'r Comisiwn fod â rôl ragweithiol a strategol mewn perthynas â datblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg . Cafodd hyn ei atgyfnerthu yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad technegol dilynol.

Yr opsiynau a ystyriwyd a'r dull a ffeirir

Opwim 1 - Busnes fel arfer

- 10.5 Byddai senario busnes fel arfer (dim newid) ond yn berthnasol pe na bai'r diwygiadau i greu'r Comisiwn yn cael eu gweithredu, gan fod diddymu CCAUC a sefydlu'r corff newydd yn gofyn am ddull gweithredu newydd ar gyfer cefnogi datblygu a darparu darpariaeth addysg drydyddol cyfrwng Cymraeg.

Prif fanteision busnes fel arfer

10.6 Ni fyddai'n amharu ar y trefniadau gweithio presennol. Byddai Gweinidogion Cymru'n parhau i gefnogi datblygu a darparu darpariaeth addysg drydyddol cyfrwng Cymraeg naill ai drwy roi cyllid yn uniongyrchol i ddarparwyr addysg drydyddol neu drwy sefydliadau cyfryngol fel CCAUC, y Coleg a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Ni fyddai unrhyw newid i staff sy'n gweithio yn y sefydliadau hyn nac amharu ar eu gwaith. Ni fyddai darparwyr yn wynebu unrhyw newid sylweddol i'r trefniadau presennol a weithredwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cyllido addysg drydyddol cyfrwng Cymraeg.

Prif risgiau busnes fel arfer

10.7 Gallai'r system gyfredol fethu â manteisio ar y cyfle i fabwysiadu dull mwy strategol ar gyfer cynllunio a chyllido addysg cyfrwng Cymraeg ar draws y sector addysg drydyddol cyfan.

Opsiwn 2 - y dull a ffeirir

10.8 Cynigir y bydd y dyletswyddau strategol a roddir ar y Comisiwn yn cynnwys dyletswydd mewn perthynas ag addysg drydyddol cyfrwng Cymraeg. Bydd y ddyletswydd hon yn canolbwyntio ar annog unigolion i gymryd rhan mewn addysg drydyddol drwy gyfrwng y Gymraeg; sicrhau bod digon o addysg drydyddol ar gael drwy gyfrwng Cymraeg i fodloni galw rhesymol; ac annog darpariaeth addysg drydyddol cyfrwng Cymraeg.

10.9 Er mai mater i'r Comisiwn fydd penderfynu sut mae'n cyflawni'r ddyletswydd hon, dyma rai enghreifftiau o sut y gallai'r gofyniad hwn gael ei weithredu a'i fonitro'n briodol gan y Comisiwn:

- cynllunio'n strategol i hyrwyddo a chynyddu'n gadarnhaol addysg drydyddol Gymraeg;
- annog darparwyr i gyflwyno, datblygu a chynyddu eu haddysg drydyddol cyfrwng Cymraeg, efallai drwy gytundebau deilliannau os yn briodol;
- annog darparwyr i gynllunio llwybrau dilyniant fel bod siaradwyr Cymraeg yn gallu parhau â'u dysgu ôl-16 a datblygu eu sgiliau iaith Gymraeg a chynnig cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg er mwyn creu gweithlu dwyieithog;
- monitro argaeledd a'r nifer sy'n manteisio ar gyfleoedd dysgu cyfrwng Cymraeg, ac unrhyw bynciau lle na ellir diwallu'r galw am ddysgu cyfrwng Cymraeg ar hyn o bryd.

10.10 Bydd Gweinidogion Cymru'n parhau i allu dyrannu adnoddau ariannol i gefnogi'r gwaith o ddatblygu a chyflenwi darpariaeth addysg drydyddol Gymraeg. Er enghraifft, rhagwelir y bydd Gweinidogion Cymru yn parhau i ddarparu cyllid yn uniongyrchol i'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a'r Coleg yn y tymor byr i'r tymor canolig yn dilyn sefydlu'r Comisiwn.

10.11 Bydd Gweinidogion Cymru'n gallu dyrannu adnoddau ariannol i'r Comisiwn mewn perthynas â phob categori o addysg drydyddol. Bydd y Comisiwn yn gallu dyrannu cyllid i ddarparwyr ar gyfer darparu addysg drydyddol cyfrwng Cymraeg. Er enghraifft, gallai'r Comisiwn ddarparu cyllid ar gyfer premiymau cyfrwng Cymraeg sy'n adlewyrchu'r costau uwch ar gyfer darparu gweithgareddau dysgu drwy

gyfrwng y Gymraeg. Mae'r Bil hefyd yn galluogi'r Comisiwn i ddyrannu cyllid i ddarparwyr ar gyfer addysgu'r Gymraeg.

- 10.12 Yn ogystal, bydd y Comisiwn yn gallu dyrannu cyllid i bersonau at ddibenion sy'n gysylltiedig â darparu addysg drydyddol drwy gyfrwng y Gymraeg a darparu cyrsiau caffael yr iaith Gymraeg. Gallai hyn gynnwys gweithgareddau i gefnogi datblygu darpariaeth fel hyfforddiant i ymarferwyr, hyrwyddo cyfleoedd dysgu i ddarpar ddysgwyr, datblygu a rhannu adnoddau dysgu a chydgysylltu cyfleoedd dysgu ar draws y ddarparwyr. Gallai hyn hefyd gynnwys cyllid i wneud gwaith ymchwil mewn perthynas ag addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg yng Nghymru.
- 10.13 Bydd yn ofynnol i'r Comisiwn gynnwys yn ei adroddiad blynyddol i Weinidogion Cymru wybodaeth am hyd a lled yr addysg drydyddol cyfrwng Cymraeg a ddarperir ac i ba raddau yr addysgwyd Cymraeg i bobl dros yr oedran ysgol gorfodol mewn blwyddyn benodol, a chymharu'r ddarpariaeth â'r hyn a ddarparwyd mewn blynyddoedd blaenorol.
- 10.14 Cynigir hefyd y byddai darpariaeth yn cael ei chynnwys yn y Bil fel bod y Comisiwn yn dod o fewn Atodlen 6 i Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 er mwyn ei gwneud yn ofynnol iddo gydymffurfio â safonau'r Gymraeg.

Prif fanteision y dull a ffefrir

- 10.15 Bydd cynnwys dyletswydd ar y Comisiwn mewn perthynas ag addysg Gymraeg fel rhan o'i ddyletswyddau strategol yn ei gwneud yn ofynnol iddo fabwysiadu dull strategol ar gyfer cynllunio a chyllido addysg cyfrwng Cymraeg ar draws y sector addysg trydyddol. Nod y polisi yw cynyddu argaeledd cyrsiau Cymraeg ac annog unigolion i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg.
- 10.16 Byddai ei gwneud yn ofynnol bod y Comisiwn, fel corff cyhoeddus yng Nghymru, yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg yn sicrhau ei fod yn ystyried yr y Gymraeg yn ei holl weithgareddau ac yn hyrwyddo'r Gymraeg, gan sicrhau bod gan y Gymraeg rôl weithredol yng ngweinyddiaeth fewnol y sefydliad a bod yr iaith yn hygyrch i'r cyhoedd.
- 10.17 Bydd Gweinidogion Cymru'n parhau i ddarparu cyllid yn uniongyrchol i'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a'r Coleg yn y tymor byr a'r tymor canolig yn dilyn sefydlu'r Comisiwn. Ehangwyd cylch gwaith y Coleg yn ystod 2018 er mwyn cynnwys y sectorau addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith, a fydd yn golygu cyfnod o newid ac ailstrwythuro. Mae gweithgareddau'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn unigryw a phenodol mewn ymateb i alw gan unigolion i ddysgu Cymraeg a nodau Llywodraeth Cymru yn y strategaeth Cymraeg 2050.
- 10.18 Mae Llywodraeth Cymru o'r farn pe bai'r cyllid ar gyfer y Coleg a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn cael ei ddyrannu i'r Comisiwn, y byddai risg sylweddol o golli'r cynnydd a wnaed gan y sefydliadau hyn o ran datblygu capasiti darparwyr i ddarparu addysg drydyddol cyfrwng Cymraeg.

Prif risgiau'r dull a ffefrir

- 10.19 Pe bai Gweinidogion Cymru'n parhau i ddarparu cyllid i'r Coleg a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, mae risg y gallai hyn arwain at ddyblygu gwaith a defnydd aneffeithiol o adnoddau.
- 10.20 Byddai disgwyl i'r Comisiwn weithio'n agos â'r Coleg a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i osgoi dyblygu a sicrhau bod ymyriadau'n cael yr effaith fwyaf bosibl. Bydd y cydweithio hwn yn cael ei atgyfnerthu gan drefniadau nawdd.

Pennod 11. Opsiynau manwl ar gyfer diwygio - Cofrestru a rheoleiddio

Y trefniadau presennol

- 11.1 Ar hyn o bryd mae CCAUC yn ysgwyddo nifer o'r swyddogaethau o dan ddarpariaethau Deddf 2015. Mae'r fframwaith rheoleiddio a gyflwynwyd gan Ddeddf 2015 yn darparu ar gyfer cymhwyso rheolaethau rheoleiddiol i sefydliadau yng Nghymru y mae eu cyrsiau wedi'u dynodi'n awtomatig at ddibenion lefel uwch o gymorth myfyrwyr gan Lywodraeth Cymru.
- 11.2 Mae Deddf 2015 yn galluogi CCAUC i sicrhau bod sefydliadau'n cydymffurfio â terfynau ffioedd ac ymrwymadau'n ymwneud â mynediad teg; i wneud darpariaeth ar gyfer asesu ansawdd yr addysg a ddarperir gan neu ar ran sefydliadau a reoleiddir; ac i ddarparu goruchwyliaeth o reolaeth ariannol sefydliadau a reoleiddir.
- 11.3 Gweithredir system weinyddol ar wahân (dynodi cyrsiau penodol) ar hyn o bryd i ymdrin â sefydliadau addysg uwch y mae eu cyrsiau'n cael eu dynodi fesul achos ar gyfer lefel is o gymorth. Nid yw darparwyr lle mae cyrsiau penodol wedi'u dynodi yn sefydliadau a reoleiddir o dan Ddeddf 2015. Nid ydynt yn derbyn cyllid gan CCAUC (oni bai eu bod yn darparu cyrsiau addysg uwch rhan-amser) ac mae'n bosibl nad ydynt yn elusennau. Caiff y darparwyr hyn eu dynodi gan Weinidogion Cymru o dan y polisi dynodi fesul achos, sydd bellach yn cael ei weinyddu gan CCAUC.
- 11.4 Cafodd Deddf 2015 ei chyflwyno yng Nghymru fel ymateb i'r newid yn y cydbwysedd o ran cyllid ar gyfer addysg uwch.
- 11.5 Y brif ffynhonnell o gyllid ar gyfer addysg uwch yng Nghymru bellach yw incwm ffioedd dysgu yn hytrach na chyllid grant blynyddol gan CCAUC. Mae'r newidiadau i'r ffordd y caiff addysg uwch ei gyllido wedi arwain at newidiadau i gyfrifoldebau CCAUC, gyda mwy o bwyslais ar rôl reoleiddio'r Cyngor o dan Ddeddf 2015. Mae hyn yn cynnwys penderfynu ynghylch ceisiadau i gymeradwyo cynlluniau ffioedd a mynediad, sy'n golygu bod sefydliad yn gallu cael incwm ffioedd dysgu uwch drwy'r system cyllid myfyrwyr statudol. Caiff benthyciadau a/neu grantiau ffioedd dysgu eu talu'n uniongyrchol i sefydliadau drwy'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr ar ran dysgwyr, o dan reoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru
- 11.6 Ar hyn o bryd, mae darparwyr addysg bellach yn parhau i gael eu cyllido a'u rheoleiddio drwy gyllid grant gan Lywodraeth Cymru'n bennaf, a'r telerau ac amodau sy'n gysylltiedig â'r cyllid hwn. Fodd bynnag, mae nifer o ddarparwyr addysg bellach wedi'u cynnwys yn y system ar gyfer rheoleiddio addysg uwch a weithredir gan CCAUC, at ddibenion eu darpariaeth addysg uwch eu hunain.

Yr achos o blaid newid

- 11.7 Mae'r cynnig i sefydlu'r Comisiwn fel y corff sy'n gyfrifol am gynllunio, cyllido a goruchwyllo addysg a hyfforddiant ôl-16 yng Nghymru yn golygu bod angen gwneud newidiadau i swyddogaethau statudol Gweinidogion Cymru a CCAUC yn y maes hwn, er mwyn rhoi swyddogaethau newydd i'r Comisiwn. Bydd angen i'r fframwaith rheoleiddio a grëwyd gan Ddeddf 2015 gael eu hatgynhyrchu mewn deddfwriaeth ar ôl diddymu CCAUC.

- 11.8 Yn ogystal â'r angen i atgynhyrchu darpariaethau Deddf 2015, mae sefydlu'r Comisiwn yn gyfle i adeiladu ar brofiadau a dysgu diweddar er mwyn datblygu system gydlynol a chyson ar gyfer y sector addysg drydyddol, sy'n addas i'r dyfodol. Bydd angen i'r fframwaith hwn roi cyfrif am y darpariaeth amrywiol a'r genhadaeth wahanol yn y sector addysg drydyddol, ynghyd â'r ffrydiau cyllido amrywiol a'r ffyrdd hanesyddol o weithio gyda Llywodraeth Cymru a CCAUC.
- 11.9 Mae'r maes polisi hwn yn cyd-fynd yn agos â phwerau'r Comisiwn mewn perthynas â Chynllunio a Chyllido (gweler pennod 13).

Yr opsiynau a ystyriwyd a'r dull a ffefrir

Opsiwn 1 - Busnes fel arfer

- 11.10 Byddai senario dim newid (busnes fel arfer) ond yn berthnasol pe na bai'r diwygiadau i greu'r Comisiwn yn cael eu cyflwyno, gan y byddai diddymu CCAUC a sefydlu'r corff newydd yn gofyn am system gofrestru newydd.

Prif fanteision busnes fel arfer

- 11.11 Ni fyddai'n amharu ar y trefniadau gweithio presennol. Byddai CCAUC yn parhau i gyllido darpariaeth addysg uwch, ymchwil a gweithgareddau cysylltiedig a byddai'r cyllid a ddyrennir i CCAUC yn parhau i gael ei reoli drwy dîm noddi Llywodraeth Cymru. Ni fyddai staff CCAUC yn wynebu unrhyw newid neu amharu ar eu gwaith a byddent yn parhau i gyllido darparwyr cymwys. Byddai timau Llywodraeth Cymru'n parhau i gynllunio a chyllido darpariaeth ôl-16 (heblaw addysg uwch) ac ni fyddai'r staff sy'n cefnogi'r meysydd hyn ar hyn o bryd yn wynebu unrhyw newid neu amharu ar eu gwaith.
- 11.12 Byddai darpariaethau rheoleiddiol Deddf 2015 yn parhau ar waith, gan gynnwys Cynlluniau Ffioedd a Mynediad, darpariaethau ar ansawdd, a'r oruchwyliaeth ar reolaeth ariannol a llywodraethiant sefydliadol.

Prif risgiau busnes fel arfer

- 11.13 Fel yr amlinellwyd yn Adroddiad Hazelkorn, mae nifer o risgiau pe bai'r trefniadau presennol ar gyfer goruchwyllo'r sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol yng Nghymru yn parhau. O ran rheoleiddio a goruchwyllo darparwyr, mae'n werth nodi'r risgiau canlynol:
- Cystadleuaeth gynyddol yn y DU ac yn rhyngwladol, ynghyd â newidiadau yn nhrefniadau llywodraethiant addysg uwch yn Lloegr, yn cynnig heriau ond hefyd cyfleoedd i Gymru;
 - Diffyg meddwl strategol gan y llywodraeth neu gan y sefydliadau, ar bob lefel, gan arwain at ddiffyg cydweithredu, diffyg màs critigol, a gormod o gystadleuaeth am adnoddau prin heb fawr ddim budd i Gymru;
 - Diffyg gweledigaeth gyffredinol ar gyfer y system ôl-orfodol wedi'i chysoni ag anghenion cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd Cymru, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol, nawr ac yn y dyfodol.
 - Amryfusedd ynglŷn â'r rolau sy'n gorgyffwrdd a dyblygu adnoddau, rhwng ac ar draws gwahanol sefydliadau, rhwng addysg bellach ac addysg uwch, a rhwng gwahanol asiantaethau.

11.14 Mae cyflwyno'r Bil hefyd wedi bod yn gyfle i ddiwygio polisi yn sgil y gwaith craffu ar ôl deddfu ar Ddeddf 2015 ac adborth gan randdeiliaid ar effaith ei weithredu. Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried argymhellion adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar weithredu'r Ddeddf honno, ac wedi cytuno i roi nifer o'i argymhellion ar waith.

11.15 Gallai unrhyw newidiadau i'r trefniadau cyllido ar gyfer darparwyr addysg uwch a phellach, boed wedi'u hysgogi neu eu cyflwyno yng Nghymru o ganlyniad i newidiadau yn Lloegr, olygu bod angen gwneud newidiadau pellach i'r fframwaith rheoleiddio. Mae risg bod y trefniadau rheoleiddio presennol yn rhy anhyblyg i addasu i anghenion y cyhoedd yn y dyfodol a'r heriau yn y dyfodol ar gyfer addysg a sgiliau yng Nghymru a nodwyd yn adroddiad Hazelkorn.

Opsiwn 2 - y dull a ffefrir – un system reoleiddio a weithredir gan y Comisiwn

11.16 O dan yr opsiwn a ffefrir, bydd swyddogaethau cofrestru a rheoleiddio'r Comisiwn yn cwmpasu'r berthynas reoleiddiol rhwng y Comisiwn a darparwyr addysg drydyddol. Yn benodol, mae'n cwmpasu pwerau'r Comisiwn i reoleiddio darparwyr addysg drydyddol sydd wedi'u dynodi at ddibenion cymorth myfyrwyr Llywodraeth Cymru, atebolrwydd y darparwyr hyn o ran mynediad i gymorth myfyrwyr a chyllid grant, a rhwymedigaethau darparwyr mewn perthynas ag ehangu mynediad.

11.17 Mae'r canlynol yn crynhoi prif bwyntiau'r dull polisi a bennwyd ar gyfer rheoleiddio darparwyr addysg drydyddol:

- Bydd gofyn i'r Comisiwn sefydlu cofrestr o ddarparwyr addysg drydyddol.
- Bydd Gweinidogion Cymru (drwy reoliadau) yn gallu pennu'r categorïau cofrestru sy'n ofynnol. Bydd y categorïau hyn yn gysylltiedig â'r categorïau o ddarparwyr addysg drydyddol y pennir bod angen cofrestr reoleiddio ar eu cyfer.
- Bydd Gweinidogion Cymru (drwy reoliadau) yn nodi pa gategoriâu cofrestru a fydd yn destun rheoleiddio ffurfiol yn cynnwys:
 - terfynau ffioedd;
 - amodau cyfle cyfartal;
 - cymhwysra i gael cyllid grant gan y Comisiwn.
- Yn ogystal, bydd y Comisiwn yn gallu pennu amodau cofrestru ychwanegol i'r rheini a restrir uchod, sydd hefyd wedi'u hamlinellu yn y Bil.
- Bydd pob darparwr cofrestredig yn ddarostyngedig i amodau cofrestru gorfodol yn ymwneud ag ansawdd, llywodraethiant a hyfywedd ariannol.

Prif fanteision y dull a ffefrir

Manteision cofrestru

11.18 Mae'n hollbwysig bod y Comisiwn wedi'i rymuso i reoleiddio'n briodol darparwyr addysg drydyddol a ariennir drwy ddulliau gwahanol, gan gynnwys:

- cyllid grant addysg uwch ac addysg bellach;

- cymorth ffioedd myfyrwyr Llywodraeth Cymru;
- cyllid ymchwil ac arloesi;
- gwaith sydd wedi'i gontractio'n uniongyrchol gan y Comisiwn.

11.19 Mae Llywodraeth Cymru wedi dod i'r casgliad mai system gofrestru fyddai'r modd cyfreithiol mwyaf effeithiol a hyblyg i weithredu rheoleiddio priodol ar draws sector addysg drydyddol amrywiol.

11.20 Yn benodol, penderfynwyd mai model cofrestru yw'r ffordd fwyaf effeithiol i Weinidogion Cymru a'r Comisiwn allu rheoleiddio mynediad at gymorth myfyrwyr Llywodraeth Cymru, sef y prif fodel cyllido yn system addysg uwch Cymru bellach yn dilyn diwygiadau diweddar, ynghyd â'r cyllid grant a ddyrennir gan y Comisiwn.

11.21 Bydd angen i system effeithiol ar gyfer rheoleiddio darparwyr addysg drydyddol yng Nghymru, sy'n addas ar gyfer y dyfodol, sicrhau'r canlynol:

- tryloywder ac atebolrwydd cymesur ar gyfer darparwyr addysg drydyddol yng Nghymru sy'n cael cymorth ffioedd dysgu a ariennir gan Lywodraeth Cymru a/neu gyllid grant uniongyrchol gan y Comisiwn, yn enwedig o ran ansawdd addysg, sicrwydd ariannol a llywodraethiant.
- gofynion rheoleiddiol sy'n gallu addasu pe bai amgylchiadau'n newid o ran cyllid, strwythur darparwr, ac anghenion y cyhoedd.
- awtonomi parhaus a phriodol ar gyfer darparwyr addysg, gan sicrhau hefyd bod amcanion strategol Llywodraeth Cymru yn cael eu cyflawni.
- gwerth am arian i drethdalwyr ynghyd â sicrwydd ynghylch y defnydd o arian cyhoeddus.

Paratoi ar gyfer y dyfodol

11.22 Mae'n bwysig bod y broses o reoleiddio'r sector addysg drydyddol yn gallu cydweddu'n briodol â threfniadau cyllido sy'n newid. Er enghraifft, roedd angen deddfwriaeth sylfaenol yng Nghymru (2015) a Lloegr (2017) er mwyn addasu i'r newidiadau a gyflwynwyd yn 2012 i gyllid addysg uwch. Er nad yw'n bosibl dileu'r posibilrwydd bod angen mwy o ddeddfwriaeth sylfaenol, byddai'n ddoeth cynllunio system reoleiddio sy'n gallu i addasu i newidiadau posibl mewn polisi a chyllid yn y dyfodol. Dyma pam ei bod yn hollbwysig bod Gweinidogion Cymru'n gallu pennu, drwy reoliadau a gymeradwyr gan y Senedd, y categorïau cofrestru a'r lefelau o gymorth myfyrwyr y bydd darparwyr yn y categorïau hyn yn gymwys i'w cael.

11.23 Ar ben hynny, gall system reoleiddio ganiatáu i newidiadau gael eu gwneud i'r amodau cofrestru er mwyn ymateb i flaenoriaethau rheoleiddio sy'n newid. Ar wahân i rai eithriadau a nodir yn y Bil (yr amodau cofrestru 'gorfodol' cychwynnol a pharhaus), bydd modd i'r Comisiwn ychwanegu amodau neu ddileu amodau cofrestru o'r gofrestr yn dilyn ymgynghoriad.

Sicrwydd a gwerth am arian

11.24 Bydd y gofrestr yn galluogi'r Comisiwn i'w gwneud yn ofynnol i ddarparwyr fodloni amodau cofrestru cychwynnol a pharhaus, ac weithiau amodau penodol, er mwyn parhau i fod yn gymwys i'w dynodi at ddibenion cymorth myfyrwyr Llywodraeth Cymru a chael cyllid grant dewisol oddi wrth y Comisiwn. Bydd y system gofrestru'n creu cysylltiad clir rhwng y manteision sy'n deillio o gael mynediad at y cyllid hwn a'r

angen i sicrhau bod darparwyr addysg drydyddol yn atebol i'r cyhoedd ac yn gallu cyfrannu at flaenoriaethau strategol y Comisiwn.

11.25 Yn ogystal, bydd cyflwyno nifer o gategoriâu cofrestru yn golygu y gellir bod yn fwy tryloyw wrth reoleiddio darparwyr a ddynodir fesul achos ar hyn o bryd ar gyfer y lefelau is o gymorth gan Lywodraeth Cymru ar gyfer ffioedd addysg uwch. Golyga hyn mai mewn sefyllfaoedd eithriadol yn unig y bydd angen dynodi fesul achos, a bydd disgwyl i'r rhan fwyaf o ddarparwyr sy'n cael eu dynodi ar y sail hon ar hyn o bryd gofrestru â'r Comisiwn. Bwriedir i hyn leihau'r gwaith gweinyddol blynyddol ar gyfer darparwyr a'r Comisiwn gan ddileu'r angen i ail-ddynodi cyrsiau bob blwyddyn.

Parhad

11.26 Bwriedir y bydd y system gofrestru'n berthnasol, i ddechrau, i'r darparwyr hynny sydd eisiau i'w cyrsiau gael eu dynodi at ddibenion cymorth myfyrwyr Llywodraeth Cymru - cyrsiau na fydd yn rhaid i'r Comisiwn sicrhau cyfleusterau priodol a/neu resymol ar eu cyfer o dan ei ddyletswyddau a'i bwerau cyllido.

11.27 O dan y trefniadau presennol, disgwylir i ddarparwyr addysg uwch yn bennaf y byddai disgwyl iddynt gofrestru. Bydd yr amodau cofrestru'n debyg i'r gofynion rheoleiddiol a oruchwylir gan CCAUC gan mwyaf. Amlinellir sawl un ohonynt yn Neddf 2015. Mae'r rhain yn cynnwys amodau'n ymwneud ag ansawdd, rheolaeth ariannol, llywodraethiant, terfynau ffioedd ar gyfer cyrsiau cymwys, a chyfle cyfartal. Ond bydd mwy o eglurder ynghylch y gofynion ar gyfer diogelu dysgwyr, cwynion gan ddysgwyr, a llais a chynrychiolaeth i ddysgwyr (gweler pennodau 16 a 17). Bydd y rhain yn sail i bwerau rheoleiddio'r Comisiwn mewn perthynas â darparwyr a ddynodwyd at ddibenion cymorth myfyrwyr Llywodraeth Cymru.

11.28 Caiff darparwyr sy'n cael cyllid grant annewisol gan y Comisiwn gan mwyaf eu rheoleiddio'n bennaf drwy telerau ac amodau cyllid. Fodd bynnag, mae'r gofrestr wedi'i chynllunio er mwyn gallu cofrestru'r darparwyr hyn yn y dyfodol os bernir bod angen gwneud hynny at ddibenion rheoleiddio a phennu mynediad at arian cyhoeddus.

Prif risgiau'r dull a ffefrir

Rheoleiddio cymesur

11.29 Bydd yn hanfodol i'r Comisiwn sicrhau bod yr amodau cofrestru'n gymesur i'r risgiau rheoleiddiol a nodir ganddo a'r buddion y bydd gan sefydliad hawl iddynt (h.y. arian cyhoeddus) ar ôl cofrestru.

11.30 Mae'n bwysig hefyd nad yw'r ffordd y mae'r Comisiwn yn gweinyddu'r gofrestr yn rhy fiwrocraataidd neu'n rhy feichus i ddarparwyr, ac felly'n tynnu sylw'r darparwyr oddi ar eu busnes craidd. Bydd yn ofynnol i'r Comisiwn, yn ôl y ddeddfwriaeth, sicrhau ei fod yn gweinyddu'r gofrestr mewn ffordd sy'n gymesur i'r risg rheoleiddio, a'i fod yn adolygu ei amodau cofrestru parhaus yn rheolaidd.

Dryswch rhwng y gofrestr newydd â chofrestr y Swyddfa Fyfywyr

11.31 Nodwyd y gallai cyflwyno cofrestr o ddarparwyr beri dryswch rhyngddi â'r gofrestr o ddarparwyr addysg uwch yn Lloegr a gedwir gan y Swyddfa Fyfywyr. Bwriedir i'r

Comisiwn nodi'r glir y gwahaniaeth rhwng y ddwy gofrestr fel swyddogaeth gweinyddiaeth ddatganoledig. Bydd hefyd yn nodi bod y gofrestr yn ffordd gyfreithiol o reoleiddio'n bennaf, yn hytrach nag yn fath o wybodaeth gyhoeddus yn unig, er y bydd yn ofynnol yn ôl deddfwriaeth i gyhoeddi gwybodaeth am y gofrestr.

Opsiwn 3: sefydlu cofrestr o ddarparwyr addysg uwch yn unig

11.32 Byddai'n ofynnol i'r Comisiwn sefydlu cofrestr o ddarparwyr addysg uwch yn unig, gyda'r categorïau, yr amodau a'r manteision cofrestru wedi'u hamlinellu'n llawn mewn deddfwriaeth sylfaenol.

Prif fanteision opsiwn 3

11.33 Byddai cofrestr lle mae'r manylion llawn wedi'u hamlinellu mewn deddfwriaeth sylfaenol yn rhoi sicrwydd a diogelwch llawn i ddarparwyr ynghylch eu gofynion rheoleiddiol hirdymor. Byddai'n lleihau'r is-ddeddfwriaeth sydd ei hangen cyn sefydlu'r Comisiwn a'r gofrestr.

Prif risgiau opsiwn 3

Anhyblyg

11.34 Gallai fframwaith rheoleiddio sydd wedi'i amlinellu'n llawn mewn deddfwriaeth sylfaenol fod yn rhy gaeth i ddiwallu anghenion polisi yn y dyfodol neu i addasu i unrhyw ddiwygiadau yn y dyfodol. Ni fyddai'n gallu cyflwyno amodau rheoleiddiol newydd os byddai amgylchiadau'n newid, na thynnu amodau nad oes eu hangen mwyach.

Natur gyfyngol addysg uwch

11.35 Mae strwythur a ffurf darparwyr addysg drydyddol yn newid, a'r gwahaniaethau clir rhwng darparwyr addysg uwch ac addysg bellach yn llai eglur. Felly, byddai'n amhriodol cynllunio system reoleiddio sy'n cynnal y gwahaniaethau rhwng darparwyr addysg drydyddol, o gofio mai un or brif nodau'r Bil yw creu mwy o gydlyniant wrth reoleiddio a phennu cyfeiriad y sector.

Y risg bod angen mwy o ddeddfwriaeth sylfaenol

11.36 Gallai unrhyw newidiadau i system reoleiddio sydd wedi'i amlinellu mewn deddfwriaeth sylfaenol olygu bod angen mwy o ddeddfwriaeth sylfaenol yn y dyfodol pe bai risgiau rheoleiddiol yn datblygu neu'n newid. Byddai hynny'n golygu naill ai defnyddio amser gwerthfawr a phrin y Senedd a Llywodraeth Cymru i ddrafftio a chraffu ar ddeddfwriaeth o'r fath, neu risg o fethiant rheoleiddiol yn y sector pe na bai deddfwriaeth sylfaenol newydd yn bosibl.

Pennod 12. Opsiynau manwl ar gyfer diwygio - Sicrhau a gwella ansawdd

Y trefniadau presennol a'r achos o blaid newid

- 12.1 Mae gan ddarparwyr dysgu ym mhob sector addysg drydyddol eu systemau ansawdd eu hunain. Ceir trefniadau ar gyfer arolygu neu asesu ansawdd yn allanol ym mhob rhan o'r system, sy'n dilysu prosesau sicrhau ansawdd y darparwyr eu hunain ac yn darparu atebolrwydd annibynnol am y defnydd o arian cyhoeddus. Mae cyrff gwahanol yn gyfrifol am y rhain.
- 12.2 Mae CCAUC wedi datblygu Fframwaith Asesu Ansawdd yn unol â'i gylch gwaith statudol ar gyfer ansawdd darparwyr addysg uwch a reoleiddir o dan Ddeddf 2015.
- 12.3 O dan y fframwaith hwn, mae darparwyr addysg uwch yn gallu comisiynu unrhyw asiantaeth sydd yn y Gofrestr Sicrhau Ansawdd Ewropeaidd i gynnal adolygiadau ansawdd allanol o'u darpariaeth. Ond, ar hyn o bryd maent wedi dewis contractio'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd fel sector drwy'r corff cynrychioliadol ar gyfer addysg uwch, sef Prifysgolion Cymru. Mae Llywodraeth Cymru'n deall bod cytundeb fframwaith rhwng Prifysgolion Cymru a'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd, ynghyd â chontractau unigol rhwng yr Asiantaeth a phob darparwr.
- 12.4 Caiff darparwyr addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith a dysgu oedolion eu harolygu gan Estyn drwy ei bwerau statudol ei hun o dan adran 75 o Ddeddf 2000). Caiff dosbarthiadau chwech eu harolygu gan Estyn fel rhan o arolygiadau ysgolion uwchradd, ond nid yw Estyn yn gwneud barnau penodol ar ansawdd y ddarpariaeth ar hyn o bryd nac yn cyhoeddi adroddiadau ar wahân¹⁷. Mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid, mae Estyn wedi datblygu fframwaith arolygu cyffredin ar gyfer pob sector addysg a hyfforddiant y mae'n ei arolygu. Mae Estyn, fel Corff y Goron, yn cael ei gyllido gan ac yn adrodd i Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd.
- 12.5 Cydnabu adroddiad Hazelkorn fod y sefyllfa gyffredinol o ran sicrhau ansawdd yn gymhleth, gyda threfniadau arolygu gwahanol a setiau gwahanol o gyfrifoldebau. Er enghraifft, mae Estyn yn gyfrifol am arolygu ysgolion, addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith a darparwyr addysg a hyfforddiant ôl-16 heblaw addysg uwch; tra bod yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd, drwy weithredu o dan gytundeb lefel gwasanaeth â Phrifysgolion Cymru, yn goruchwylio rhaglenni addysg uwch a ddarperir mewn sefydliadau addysg bellach ac mewn prifysgolion.
- 12.6 Mae angen dull gweithredu sy'n caniatáu i'r Comisiwn werthuso pa mor effeithiol y mae'r system addysg drydyddol gyfan yn cyflawni nodau a blaenoriaethau strategol; i ba raddau y mae'n gallu ddiwallu anghenion economaidd a chymdeithasol cyfredol ac yn y dyfodol; a hynt a deilliannau dysgwyr o bob lefel a gallu.

¹⁷ Yn ddiweddar (Rhagfyr 2019), ymgynghorodd Estyn ar newidiadau i'r trefniadau arolygu ar gyfer 2021 ymlaen, gan gynnwys sut mae'n adrodd ar y ddarpariaeth chweched dosbarth mewn arolygiadau craidd.

Yr opsiynau a ystyriwyd a'r dull a ffeirir

Opswim 1 - Busnes fel arfer

12.7 Byddai senario dim newid (busnes fel arfer) yn cadw'r sail ddeddfwriaethol a gweithredol bresennol ar gyfer sicrhau ansawdd addysg uwch ac addysg bellach.

Prif fanteision busnes fel arfer

12.8 Dyma brif fanteision yr opsiwn dim newid (busnes fel arfer):

- cael yr effaith ariannol leiaf;
- darparwyr yn gyfarwydd â'r system a'r cyrff presennol;
- parhad y trefniadau ar gyfer sicrhau ansawdd y ddarpariaeth addysg drydyddol;
- ymddengys fod y systemau presennol yn effeithiol ac yn cael eu gwerthfawrogi, ac mae'r berthynas rhwng yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd, Estyn a darparwyr wedi'i hen sefydlu.

12.9 Yn yr ymatebion i'r Papur Gwyn, roedd cryn dipyn o orgyffwrdd ynghylch yr hyn yr oedd yr ymatebwyr yn ei werthfawrogi am y trefniadau presennol, a'r hyn y dylid ei gynnwys yn unrhyw system newydd. Roedd hyn yn cynnwys addasu ac adeiladu ar yr arferion gorau o'r modelau sydd eisoes yn bodoli, yn hytrach nag 'ailddyfeisio'r olwyn'. Nododd rai ymatebwyr, yn enwedig sefydliadau addysg uwch, beth oedd cryfderau'r dulliau presennol yn eu barn nhw. Roedd yr agweddau ar waith adolygu'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd a arweinir gan gymheiriaid yn cael eu gwerthfawrogi'n benodol. Yn ogystal, nodwyd bod ffocws yr Asiantaeth ar wella ansawdd yn rhywbeth y gellir adeiladu arno er mwyn sicrhau cysondeb ac eglurder ar draws y system.

12.10 Roedd consensws yn y grŵp ffocws i randdeiliaid ar gyfer yr ymgynghoriad technegol y dylai'r Comisiwn allu defnyddio sefydliadau gwahanol (yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ac Estyn) i wneud y gwaith sicrhau ansawdd, ond ei gwneud yn ofynnol iddynt gydweithio er mwyn bod yn fwy cydlynol yn gyffredinol. Dywedwyd y byddai hyn yn cyflawni ysbryd yr hyn a geisir, heb symud i fodel un asiantaeth. Cafodd hwn ei ategu yn yr adborth ysgrifenedig i'r ymgynghoriad technegol; roedd rhai ymatebwyr eisieu cadw'r trefniadau presennol gydag Estyn a'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd, a gweld mwy o gydlyniant rhyngddynt.

Prif risgiau busnes fel arfer

12.11 Pe bai'r Comisiwn yn cael ei greu heb bwerau deddfwriaethol cyfatebol ar gyfer asesu ansawdd, byddai CCAUC yn dod i ben ac ni fyddai gan unrhyw un corff na sefydliad gyfrifoldeb statudol am ansawdd addysg uwch. Byddai'r anghysonderau yn y cyfrifoldebau a'r pwerau ar gyfer sectorau addysg drydyddol gwahanol yn parhau.

12.12 Nododd adroddiad Hazelkorn mai'r farn gyffredinol oedd bod ansawdd a pherfformiad y sectorau addysg bellach ac addysg uwch yn dda'n gyffredinol, a'u bod yn diwallu anghenion dysgwyr a'r gymdeithas.

12.13 Fodd bynnag, nodwyd nifer o heriau, gan gynnwys y canlynol:

- bod sefydliadau addysg uwch a sefydliadau addysg bellach yn canolbwyntio gormod ar eu hagendâu eu hunain, gydag ychydig iawn o dystiolaeth o

berthnasau gwaith a dim digon o drafodaeth ynghylch anghenion dysgwyr, eu llwybrau a'u symudiadau ar draws y system;

- bod y system yn ei chyfanrwydd yn canolbwyntio gormod ar y tymor byr a'r tymor canolig, yn hytrach na gweledigaeth mwy hirdymor ar gyfer dysgwyr;
- bod beirniadaeth o wahanol rannau o'r system ynghylch ansawdd yr addysg a pha mor barod yw dysgwyr i symud ymlaen;
- bod angen cydgysylltu a chydweithio gwell ar draws y system, a pherthnasau mwy cadarnhaol rhwng sectorau;
- bod ffiniau llym yn anaddas bellach oherwydd amrywiaeth y sector addysg drydyddol a'i sefydliadau;
- bod llawer o ddata'n cael eu casglu ond nad yw hyn o reidrwydd yn digwydd mewn ffordd gydlynol ar draws y llywodraeth.

12.14 Felly, byddai caniatáu i'r anghysonderau hyn barhau yn ei gwneud yn anodd i'r Comisiwn fod â golwg holistaidd o ansawdd a safonau ar draws y system addysg drydyddol ac ni fyddai rhai o'r heriau a nodwyd yn adroddiad Hazelkorn yn cael eu datrys.

Opsiwn 2 - y dull a ffefrir

12.15 Bydd yn ddyletswydd ar y Comisiwn i fonitro ac ysgogi gwelliant yn ansawdd yr addysg drydyddol a ddarperir ar draws Cymru. Disgwylir i waith y Comisiwn i gyflawni'r swyddogaeth hon gael ei lywio gan ei gynllun strategol, sy'n seiliedig ar y Datganiad o Flaenoriaethau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru.

12.16 Bydd gan y Comisiwn y pŵer i greu a chyhoeddi fframwaith sicrhau ansawdd. Bydd y fframwaith yn amlinellu ei bolisi'n ymwneud ag ansawdd, asesu ansawdd, arolygu a gwella ansawdd, a bydd yn ofynnol i'r Comisiwn ymgynghori yn ei gylch â darparwyr addysg drydyddol, Estyn a rhanddeiliaid eraill fel y gwêl yn dda.

12.17 Bydd gofyn i Estyn a'r corff dynodedig ar gyfer asesiadau ansawdd mewn addysg uwch (gweler isod) ystyried unrhyw fframwaith ansawdd a gyhoeddir gan y Comisiwn wrth gynnal arolygiadau ac asesiadau.

12.18 Yn achos addysg uwch, bydd gan y Comisiwn ddyletswydd i asesu, neu gwneud trefniadau i asesu ansawdd yr addysg uwch a ddarperir yng Nghymru gan bob darparwr addysg drydyddol sydd wedi'i gofrestru, neu eisiau cofrestru, gyda'r Comisiwn, a'r addysg a ddarperir ar ran pob sefydliad sydd wedi'i gofrestru ag ef.

12.19 Bydd y Comisiwn yn gallu dynodi corff i gynnal asesiadau ansawdd o ddarparwyr addysg uwch. Disgwylir y bydd y corff dynodedig hwn yng nghofrestr asiantaethau cymeradwy Cymdeithas Sicrhau Ansawdd mewn Addysg Uwch Ewrop. Dyma fydd swyddogaethau'r corff ansawdd dynodedig hwn:

- cynnal asesiadau o ansawdd yr addysg uwch a ddarperir yng Nghymru gan sefydliadau cofrestredig, a hynny ar amllder a ragnodir mewn rheoliadau;
- cynnal asesiadau o ansawdd unrhyw addysg uwch yng Nghymru a ddarperir gan sefydliadau sydd eisiau cofrestru â'r Comisiwn;
- darparu gwybodaeth a chynghor i'r Comisiwn yn ôl y gofyn ynghylch ansawdd yr addysg uwch a ddarperir gan sefydliadau cofrestredig yng Nghymru.

- 12.20 I gyflawni ei swyddogaethau asesu ansawdd, bydd gan y corff dynodedig y pŵer i godi ffioedd ar ddarparwyr addysg uwch, yn unol â'r trefniant presennol rhwng darparwyr addysg uwch a'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch.
- 12.21 Yn y sector addysg bellach, bydd Estyn yn cadw ei ddyletswydd i arolygu addysg (heblaw addysg uwch) neu hyfforddiant ar gyfer personau sy'n 16 oed neu'n hŷn os yw'r darparwr yn cael cymorth ariannol gan y Comisiwn neu gan awdurdod lleol yng Nghymru (sydd, yn ei dro, yn cael cyllid gan y Comisiwn). Bydd hawl Estyn i gael mynediad i'r darparwyr a arolygir ganddo yn parhau heb ei newid.
- 12.22 Fel y nodir yn y ddeddfwriaeth bresennol, bydd gofyn i Estyn adrodd ar ansawdd yr addysg neu'r hyfforddiant a arolygir, y safonau a gyflawnir gan y rheini sy'n derbyn yr addysg, a ph'un a yw'r adnoddau ariannol a roddwyd i ddarparwr yr addysg yn cael eu rheoli'n effeithlon a'u defnyddio mewn ffordd sy'n sicrhau gwerth am arian.
- 12.23 Er y bydd Estyn yn cadw ei annibyniaeth bresennol o ran y gweithgareddau y mae'n ymgymryd â nhw a'r adroddiadau y mae'n eu llunio'n ymwneud ag addysg a hyfforddiant ôl-orfodol, bydd dan ddyletswydd i roi sylw i gyngor a chanllawiau'r Comisiwn (gan gynnwys y blaenoriaethau strategol ar gyfer sicrhau a gwella ansawdd) wrth gyflawni ei swyddogaethau.
- 12.24 Bydd y Comisiwn a Gweinidogion Cymru'n gyfrifol ar y cyd am y cyllid ar gyfer Estyn. Bydd hyn yn newid o'r trefniadau presennol o dan adran 104(4) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, lle mae Gweinidogion Cymru'n unig yn gyfrifol am gyllido gweithgareddau Estyn. Bydd y Comisiwn yn darparu cyllid i Estyn ar gyfer ei waith arolygu ôl-16, gan roi sylw i'r hyn y mae Estyn yn ystyried sy'n briodol i gyflawni ei ddyletswyddau arolygu.
- 12.25 Bwriedir y bydd y cyllid cyffredinol sydd ar gael ar gyfer gweithgareddau Estyn yn parhau, ond y byddai'n rhaid i gyfran o gyllideb bresennol Estyn gael ei ddarparu drwy'r Comisiwn pan gaiff ei sefydlu yn 2023, a byddai'n amodol ar gynllun blynyddol a llythyr cylch gwaith newydd. Byddant yn gofyn cyngor Estyn ynghylch amcangyfrif priodol o gost y gweithgareddau ôl-16 y dylai'r Comisiwn fod yn gyfrifol amdanynt. Byddai gan y Comisiwn ddisgresiwn i roi adnoddau ychwanegol i Estyn o'i gyllideb ei hun ar gyfer arolygiadau ychwanegol ac ar gyfer unrhyw gyngor a gwybodaeth bellach y gallai Estyn eu cynnig ar faterion yn ymwneud â sicrhau a gwella ansawdd.

Prif fanteision y dull a ffeirir

- 12.26 Mae manteision y dull a ffeirir fel a ganlyn:
- Bydd yn sicrhau parhad o ran sicrwydd ansawdd ac yn mynd i'r afael â dymuniad rhanddeiliaid bod systemau ansawdd yn adeiladu ar y trefniadau presennol.
 - Mae'n adlewyrchu'r adborth a gafwyd i'r ymgynghoriad y gallai fod angen i'r gofynion o ran sicrhau ansawdd gael eu cymhwyso'n wahanol i ddysgu ar lefel wahanol ac mewn cyd-destunau gwahanol, a hefyd adlewyrchu cyd-destun, cenhadaeth a rôl pob sefydliad a sector, gan osgoi gweithredu mewn un dull penodol.
 - Mae'n helpu i sicrhau bod gan y Comisiwn yr awtonomi i ddatblygu ei fframwaith ansawdd ei hun i gyflawni blaenoriaethau gwella ansawdd ar draws y sectorau addysg drydyddol, yn seiliedig ar Adolygiad Weingarten.

- Mae ei effaith ariannol ar Estyn a darparwyr addysg drydyddol yn gymharol fach.

Prif risgiau'r dull a ffefrir

- 12.27 Wrth gytuno â'r Comisiwn ar gynllun arolygu a chyllid ar gyfer ei weithgareddau yn y sector addysg a hyfforddiant ôl-16, bydd angen i Estyn sicrhau bod ei annibyniaeth fel arolygiaeth yn parhau i gael ei ddiogelu. Bydd angen i'r Comisiwn, wrth gyflawni ei ymrwymiad i sicrhau addysg a hyfforddiant o safon ddigonol ar gyfer bobl ifanc 16 i 19 oed ac oedolion dros 19, wneud yn siŵr bod Estyn yn parhau i gynnal ac adrodd ar arolygiadau heb ofn na ffafriaeth er mwyn sicrhau gwelliant parhaus yn ansawdd yr addysg a gynigir.
- 12.28 Bydd partneriaeth effeithiol rhwng y Comisiwn, Gweinidogion Cymru, Estyn a'r corff dynodedig ar gyfer asesiadau o ansawdd addysg uwch yn hollbwysig er mwyn sicrhau bod trefniadau teg, effeithlon ac effeithlon yn parhau ar draws pob sector addysg drydyddol ar gyfer asesu a sicrhau ansawdd.
- 12.29 Byddai datblygu yn hytrach na thrawsnewid yn golygu bod dulliau gweithredu gwahanol yn parhau ar waith ar gyfer asesu a sicrhau ansawdd ar draws y sector addysg drydyddol, yn enwedig rhwng addysg uwch ac addysg bellach, o leiaf ym mlynedd cynnar y Comisiwn. Bydd angen amser i'r diwylliannau unigryw hyn ategu ei gilydd ac i'r Comisiwn allu adeiladu darlun wirioneddol gynhwysfawr o ansawdd ar draws y system addysg drydyddol.

Opsiwn 3 - un corff dynodedig i asesu ansawdd

- 12.30 Fe wnaeth yr ymgynghoriad technegol ymgynghori ar ddefnyddio un corff dynodedig i asesu ansawdd yr holl ddarpariaeth ar draws y sectorau addysg drydyddol. Byddai hyn yn golygu diwygio dyletswyddau arolygu Estyn ar gyfer addysg bellach yn sylweddol, a chreu proses ddynodi newydd er mwyn dod o hyd i gorff sy'n gallu asesu a gwella ansawdd ar draws ystod amrywiol o ddarparwyr addysg bellach, addysg uwch a phrentisiaethau. Byddai'r corff dynodedig yn cael ei gyllido drwy gymysgedd o gyllid gan y Comisiwn a thanysgrifiadau darparwyr, ac yn adrodd yn uniongyrchol i'r Comisiwn.

Prif fanteision opsiwn 3

- 12.31 Byddai dynodi un corff i asesu ansawdd yn newid y trefniadau presennol yn llwyr, ac yn fodd i ddechrau cyflwyno cydlyniaeth lawn i'r gwaith o asesu a gwella ansawdd ar draws addysg bellach ac addysg uwch. Gallai hyn arwain at asesiadau mwy holistaidd o werth ac effeithiolrwydd gwahanol rannau o'r sector addysg drydyddol yng Nghymru a galluogi dyrannu arian cyhoeddus yn fwy penodol ac yn seiliedig ar dystiolaeth. Byddai hefyd yn gofyn am lawer mwy o gydweithio rhwng y sectorau addysg bellach ac addysg uwch o ran addysgeg, cwricwlwm, datblygu proffesiynol, a swyddogaethau sicrwydd cyffredinol.

Prif risgiau opsiwn 3

- 12.32 Nid yw'n glir a oes sefydliad yng Nghymru sydd â'r wybodaeth, profiad neu arbenigedd gofynnol i asesu a sicrhau ansawdd ar draws addysg uwch, addysg bellach a phrentisiaethau.

- 12.33 Byddai creu corff newydd yn debygol o olygu costau ychwanegol ac yn amharu ar y ffyrdd cyfredol o weithio gyda darparwyr, sy'n gweithio'n dda ar y cyfan yn ôl rhanddeiliaid.
- 12.34 Gallai un corff sy'n gweithredu ar draws addysg uwch ac addysg bellach fethu â bodloni gofynion cofrestr darparwyr cymeradwy Cymdeithas Sicrhau Ansawdd mewn Addysg Uwch Ewrop. Gallai hyn olygu nad yw'r trefniadau ar gyfer sicrhau ansawdd addysg uwch yng Nghymru yn cymharu â'r trefniadau ar draws y DU ac yn rhyngwladol, sy'n hollbwysig.

Pennod 13. Opsiynau manwl ar gyfer diwygio - Cryfhau'r cysylltiad rhwng cynllunio a chyllido

Y trefniadau presennol a'r achos o blaid newid

- 13.1 Mae'r trefniadau presennol ar gyfer cynllunio a chyllido darpariaeth addysg drydyddol wedi'u rhannu rhwng swyddogaethau Gweinidogion Cymru a swyddogaethau CCAUC. Mae addysg a hyfforddiant ôl-16, heblaw addysg uwch, wedi'i chyllido'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru ers 2006.
- 13.2 Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru'n dyrannu cyllid i sefydliadau addysg bellach drwy grantiau rheolaidd. Mae'n contractio gydag ystod eang o ddarparwyr dysgu a hyfforddiant i ddarparu prentisiaethau a hyfforddeiaethau sy'n is na lefel gradd, yn dyfarnu cyllid i awdurdodau lleol i gefnogi addysg chweched dosbarth ysgolion a hefyd yn cyllido amrywiaeth o addysg barhaus i oedolion.
- 13.3 Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid i CCAUC ar gyfer addysg uwch, gan gynnwys prentisiaethau ar lefel gradd, ac mae CCAUC yn ei dro yn dyrannu cyllid i sefydliadau cymwys.

Addysg uwch

- 13.4 Caiff y broses o gynllunio a chyllido addysg uwch ei chyfyngu drwy CCAUC. Caiff Gweinidogion Cymru ddarparu cyllid i CCAUC at ddibenion cefnogi addysg uwch ac ar gyfer darparu hyfforddiant athrawon. Cânt bennu telerau ac amodau ar gyfer cyllid o'r fath, o fewn ffiniau'r ddeddfwriaeth berthnasol.
- 13.5 Nid yw'r cyllid a ddarperir i CCAUC gan Weinidogion Cymru wedi'i neilltuo, a mater i CCAUC yw penderfynu sut i ddyrannu'r adnoddau hyn gan ystyried blaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Mae Gweinidogion Cymru'n rhoi canllawiau anstatudol i CCAUC ar eu blaenoriaethau polisi a hynny ar ffurf llythyr cylch gwaith blynyddol, ac maent hefyd yn gosod telerau ac amodau ar ffurf "Dogfen Fframwaith" sy'n ategu'r cyllid a ddarperir i CCAUC.
- 13.6 Mae'r gweithgareddau sy'n cael eu cefnogi gan CCAUC yn ymwneud yn bennaf â darparu addysg uwch, hyfforddiant athrawon a gweithgareddau eraill sefydliadau addysg uwch yng Nghymru, ond mae hefyd yn cynnwys darparu cyrsiau addysg uwch penodol gan sefydliadau addysg bellach yng Nghymru. Caiff CCAUC bennu telerau ac amodau ar gyfer y cymorth ariannol a roddir i sefydliadau fel y gwêl yn dda.
- 13.7 Cyfrifoldeb CCAUC yw pennu sut y caiff y cyllid grant a geir gan Lywodraeth Cymru ei ddyrannu i sefydliadau unigol. Wrth gyflawni ei weithgareddau cyllido o dan Ddeddf 1992, mae'n rhaid i CCAUC ymgynghori â sefydliadau ynghylch y ffordd y mae'n bwriadu cymhwyso amodau, a rhoi sylw i ffactorau penodedig, gan gynnwys nodweddion enwadol neu nodweddion unigryw eraill y sefydliadau.
- 13.8 Mae'r swm a ddyrennir i sefydliadau gan CCAUC ar gyfer cefnogi addysg uwch wedi gostwng yn sylweddol o ganlyniad i'r system ffioedd dysgu a chymorth myfyrwyr a gyflwynwyd o flwyddyn academaidd 2012/13. Y brif ffynhonnell o gyllid ar gyfer addysg uwch yng Nghymru erbyn hyn yw incwm ffioedd dysgu yn hytrach na chyllid

grant blynyddol gan CCAUC. Er hynny, rhagwelir y bydd mwy o gyllid grant ar gael yn y dyfodol o ganlyniad i newidiadau i'r drefn cymorth myfyrwyr a gyflwynwyd yn dilyn gweithredu Adolygiad Diamond.

- 13.9 Mae'r newidiadau i'r ffordd y caiff addysg uwch ei gyllido wedi arwain at newidiadau i gyfrifoldebau CCAUC, gyda mwy o bwyslais ar rôl reoleiddio'r Cyngor o dan Ddeddf 2015. Mae hyn yn cynnwys penderfynu ynghylch ceisiadau i gymeradwyo Cynlluniau Ffioedd a Mynediad, sy'n golygu bod sefydliad yn gallu cael incwm ffioedd dysgu uwch a gefnogir gan y system cyllid myfyrwyr statudol. Caiff benthyciadau a/neu grantiau ffioedd dysgu eu talu'n uniongyrchol i sefydliadau drwy'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr ac ar ran dysgwyr, o dan reoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru.

Cyllid ôl-16 (heblaw addysg uwch)

- 13.10 Ar hyn o bryd, o dan Ddeddf 2000, mae'n rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau bod cyfleusterau priodol yn cael eu darparu ar gyfer addysg a hyfforddiant (ac eithrio addysg uwch) sy'n addas i ofynion personau sy'n hŷn na'r oedran ysgol gorfodol ond nad ydynt wedi cyrraedd 19 oed, a chyfleusterau rhesymol ar gyfer addysg a hyfforddiant (ac eithrio addysg uwch) sy'n addas i ofynion personau sy'n 19 oed neu'n hŷn. Effaith y ddwy dyletswydd hyn yw y bydd Gweinidogion Cymru yn rhoi blaenoriaeth i ddiwallu anghenion dysgu a sgiliau pobl ifanc hyd at 19 oed. Wrth gyflawni eu dyletswyddau i'r ddau grŵp oedran, rhaid i Weinidogion Cymru ystyried nifer o ffactorau, gan gynnwys yr addysg a'r hyfforddiant sydd eu hangen mewn gwahanol sectorau cyflogaeth. Mae'n rhaid iddynt hefyd gofio bod cyrff eraill, statudol a phreifat, yn darparu addysg a hyfforddiant ac felly byddai'n rhesymol iddynt ddisgwyl i gyrff eraill sicrhau addysg a hyfforddiant heb ddefnyddio eu hadnoddau. Yn ymarferol, bydd Gweinidogion Cymru'n sicrhau bod addysg a hyfforddiant yn cael ei darparu gan amrywiaeth o ddarparwyr.
- 13.11 Mae dyletswydd hefyd ar Weinidogion Cymru i hyrwyddo cyfranogiad mewn addysg a hyfforddiant ôl-16 ac i annog cyflogwyr i ymwneud â'r gwaith o'i chefnogi a'i chyflenwi. Mae gweithgarwch a gefnogir o dan y swyddogaeth hon yn cynnwys cyllido'r Sefydliad Dysgu a Gwaith i wneud ymchwil a chyflwyno ymgyrchoedd marchnata ar gyfer Wythnos Addysg Oedolion; Cystadleuaeth World Skills a Chystadleuaeth Sgiliau Cymru; hyrwyddo prentisiaethau; ac ystod o weithgarwch ôl-16 ar y cyfryngau cymdeithasol.
- 13.12 Caiff Gweinidogion Cymru ddarparu adnoddau ariannol i (ymhlith eraill) bersonau sy'n darparu neu'n bwriadu darparu addysg a hyfforddiant ôl-16, personau sy'n darparu nwyddau neu wasanaethau mewn cysylltiad â darpariaeth addysg a hyfforddiant ôl-16 gan eraill, personau sy'n cynnal ymchwil yn ymwneud ag addysg a hyfforddiant, a phersonau sy'n derbyn neu'n bwriadu derbyn addysg a hyfforddiant ôl-16. Yn ogystal â chyllido darpariaeth addysg a hyfforddiant ôl-16, gall adnoddau ariannol gynnwys arian ar gyfer dyfarniadau i fyfyrwyr a ddosberthir gan sefydliadau e.e. cronfeydd ariannol wrth gefn.
- 13.13 Gall Gweinidogion Cymru osod amodau ar gyfer y cyllid a ddyrennir ganddynt, megis mynediad i ddogfennau a chyfrifon, a'i gwneud yn ofynnol i berson sy'n derbyn cyllid ddarparu unrhyw wybodaeth y mae Gweinidogion Cymru'n gofyn amdani. Gall Gweinidogion Cymru hefyd fynnu bod darparwyr addysg a hyfforddiant ôl-16 yn codi ffioedd, yn gwneud dyfarniadau ac yn adennill symiau o arian ar sail

meini prawf penodedig. Ar hyn o bryd mae Gweinidogion Cymru'n rhoi memorandwm ariannol i sefydliadau a ariennir sydd, ynghyd â'r llythyr grant blynyddol, yn amlinellu'r amodau a bennir ar gyfer grantiau neu gymorth grant i sefydliadau sy'n darparu addysg bellach.

- 13.14 O ran y ddarpariaeth chweched dosbarth mewn ysgolion, caiff Gweinidogion Cymru roi grantiau i awdurdodau lleol ar yr amod bod y grantiau hynny'n cael eu cymhwysu fel rhan o gyllideb ysgolion yr awdurdod, a'u bod yn cael eu defnyddio at ddiben neu at ddibenion sy'n gysylltiedig â darparu addysg mewn ysgolion sy'n addas ar gyfer gofynion personau sy'n hŷn na'r oedran ysgol gorfodol. Mae dyraniadau o'r fath yn cefnogi darpariaeth chweched dosbarth ysgolion.
- 13.15 Mae gan Weinidogion Cymru'r pŵer i ddatblygu cynlluniau ar gyfer asesu perfformiad personau sy'n darparu addysg a hyfforddiant ôl-16. Mae'r swyddogaethau hyn yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud trefniadau i asesu ansawdd y ddarpariaeth a ariennir, ac i ystyried ansawdd wrth benderfynu pa ddarparwyr y maent yn parhau i'w cyllido. Y bwriad yw bod Gweinidogion Cymru'n sicrhau gwerth am arian, a bod dysgwyr yn cael darpariaeth o ansawdd uchel.
- 13.16 Rhaid i Weinidogion Cymru sefydlu systemau ar gyfer casglu gwybodaeth sy'n sicrhau bod eu penderfyniadau ynghylch addysg a hyfforddiant yn cael eu gwneud ar sail gadarn. Yn ogystal, gall Gweinidogion Cymru sicrhau cyfleusterau ar gyfer darparu gwybodaeth, cyngor neu arweiniad ynghylch addysg a hyfforddiant a materion cysylltiedig, gan gynnwys cyflogaeth. Dibynnir ar y swyddogaethau hyn ar gyfer casglu tystiolaeth a gwaith sy'n cyfrannu at sylfaen dystiolaeth Gweinidogion Cymru ar gyfer gwneud penderfyniadau ynghylch addysg a hyfforddiant.
- 13.17 Yn ogystal â'u swyddogaethau o dan Ddeddf 2000, mae gan Weinidogion Cymru swyddogaethau hefyd gyda'r Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer gwneud trefniadau priodol at ddiben cynorthwyo personau i ddewis cyflogaeth addas a hyfforddi ar ei chyfer, a chael swydd a'i chadw.
- 13.18 Mae gan Weinidogion Cymru swyddogaethau o dan Ddeddf 2002 hefyd sy'n berthnasol i gyllido ac maent yn gallu rhoi cymorth ariannol i unrhyw berson at amrywiaeth o ddibenion yn ymwneud ag addysg. Gallant hefyd roi neu wneud trefniadau ar gyfer rhoi cymorth ariannol e.e. y Lwfans Cynhaliadau Addysg a Grant Dysgu Llywodraeth Cymru ar gyfer Addysg Bellach.
- 13.19 Er nad oes unrhyw bŵer statudol penodol yn ymwneud â chynllunio, caiff gofynion ar gyfer cynllunio (a chyllido) gweithgarwch perthnasol ar gyfer sefydliadau addysg bellach, dysgu oedolion a darpariaeth chweched dosbarth eu gweinyddu drwy delerau ac amodau cyllid blynyddol.
- 13.20 Yn 2014 cyflwynwyd Fframwaith Cynllunio a Chyllido Ôl-16 a wnaeth sicrhau cysondeb ar gyfer darpariaeth brif ffrwd sefydliadau addysg bellach a darpariaeth chweched dosbarth awdurdodau lleol. Daeth y fframwaith â chysondeb i'r broses gynllunio a chyllido. Yn ogystal, mae Gweinidogion Cymru'n ysgrifennu'n flynyddol at brifathrawon a phrif weithredwyr sefydliadau addysg bellach a ariennir gan roi gwybod iddynt am eu blaenoriaethau polisi, a hefyd at brif swyddogion addysg awdurdodau lleol.

13.21 Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru'n gosod telerau ac amodau ar gyfer cyllid drwy lythyrau dyfarnu grant blynyddol a roddir i sefydliadau addysg bellach ac awdurdodau lleol. Caiff telerau ac amodau contract eu cymhwyso i ddarparwyr prentisiaethau, a chaiff argymhellion y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol eu cyfleu'n flynyddol i sefydliadau addysg bellach a darparwyr dysgu seiliedig ar waith drwy ddulliau ar wahân. Mae'r ymatebion yn cael eu monitro a'r effaith yn cael ei asesu drwy dimau cyllido perthnasol Llywodraeth Cymru.

Yr achos dros newid

13.22 Bydd diddymu CCAUC a sefydlu'r Comisiwn yn gofyn am drefniadau diwygiedig ar gyfer cynllunio a chyllido addysg drydyddol. Bydd angen i swyddogaethau cyllido penodol a weithredir ar hyn o bryd gan Weinidogion Cymru gael eu diwygio a bydd angen i swyddogaethau newydd gael eu rhoi i'r Comisiwn. Fodd bynnag, bydd angen i Weinidogion Cymru allu parhau i gyllido addysg a hyfforddiant penodol mewn cysylltiad â darparu ymyriadau cyflogadwyedd.

13.23 Yn ogystal, mae'r berthynas arfaethedig rhwng Gweinidogion Cymru a'r Comisiwn newydd (i'w chyfyngu drwy ddatganiad o flaenoriaethau a chynllun strategol) yn gofyn am ad-drefnu'r berthynas bresennol rhwng Llywodraeth Cymru a darparwyr addysg a hyfforddiant ôl-16. Mae sefydlu'r Comisiwn a diddymu CCAUC yn golygu y bydd angen gwneud trefniadau newydd ar gyfer y berthynas rhwng y Comisiwn a darparwyr addysg a hyfforddiant ôl-16. Mae sefydlu llinell weithredol rhwng blaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru, cynllun strategol y Comisiwn a gweithgareddau darparwyr dysgu a gyllidir wedi gweithredu fel sbardun ar gyfer sefydlu'r system gynllunio a chyllido arfaethedig.

Yr opsiynau a ystyriwyd a'r dull a ffefrir

Opsiwn 1 - Busnes fel arfer

13.24 Byddai senario dim newid (busnes fel arfer) ond yn berthnasol pe na bai'r diwygiadau i greu'r Comisiwn yn cael eu gweithredu, gan y byddai diddymu CCAUC a sefydlu'r corff newydd yn gofyn am strwythur llywodraethiant newydd.

Prif fanteision yr opsiwn busnes fel arfer

13.25 Ni fyddai'n amharu ar y trefniadau gweithio presennol.

13.26 Byddai CCAUC yn parhau i gyllido darpariaeth addysg uwch, ymchwil a gweithgareddau cysylltiedig a byddai'r cyllid a ddyrennir i CCAUC yn parhau i gael ei reoli gan Dîm Noddi Llywodraeth Cymru. Ni fyddai staff CCAUC yn wynebu unrhyw newid neu amharu ar eu gwaith a byddent yn parhau i gyllido darparwyr cymwys.

13.27 Byddai timau Llywodraeth Cymru'n parhau i gynllunio a chyllido darpariaeth ôl-16 (heblaw addysg uwch) ac ni fyddai'r staff sy'n cefnogi'r meysydd hyn ar hyn o bryd yn wynebu unrhyw newid neu amharu ar eu gwaith ychwaith. Ni fyddai darparwyr yn profi unrhyw newid sylweddol i'r trefniadau cynllunio a chyllido presennol a roddwyd ar waith gan Lywodraeth Cymru neu CCAUC fel y bo'n briodol, ar wahân i newidiadau gweithredol arferol a allai fod ar y gweill eisoes.

Prif risgiau'r opsiwn busnes fel arfer

- 13.28 Byddai'r gwahanol fathau o ddarparwyr darpariaeth addysg drydyddol yn parhau i gael eu cyllido ar wahân heb oruchwyliaeth un corff sy'n gyfrifol am gynllunio a chyllido darpariaeth. Gallai hyn olygu diffyg cydlynid yn y ddarpariaeth i ddysgwyr, neu system a reolir yn ganolog i nodi bylchau a dyblygu diangen. Byddai'n anodd:
- sicrhau llwybrau di-dor sydd wedi'u cynllunio'n dda ar gyfer dysgwyr ar draws pob sector;
 - sicrhau ffocws parhaus a chyson ar ansawdd y ddarpariaeth;
 - galluogi gwerth am arian, heb oruchwyliaeth ganolog o'r system gyfan.

Opsiwn 2 - y dull a ffeirir

13.29 Y cynigion yw bod Gweinidogion Cymru'n cael eu galluogi i:

- gyllido'r Comisiwn;
- phennu telerau ac amodau i'w cyllid gan ystyried rhyddid academiaidd ac ymreolaeth sefydliadol, megis ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn ymrwymo i gytundeb deilliannau gyda phersonau y mae'n bwriadu eu cyllido;
- parhau i gyllido addysg bellach a hyfforddiant a rhai cyrsiau addysg uwch fel y maent yn ei wneud ar hyn o bryd o dan Ddeddf 2000.

13.30 Byddai dyletswyddau a'r swyddogaethau presennol Gweinidogion Cymru mewn perthynas â sicrhau cyfleusterau priodol a rhesymol ar gyfer addysg a hyfforddiant ôl-16 (heblaw addysg uwch) neu swyddogaethau sy'n debyg iawn iddynt, yn cael eu trosglwyddo i'r Comisiwn yn y dyfodol.

13.31 Yn ogystal, cynigir bod y Comisiwn yn cael ei alluogi i:

- gyllido addysg drydyddol (addysg uwch, addysg bellach, prentisiaethau, dysgu oedolion yn y gymuned ac addysg chweched dosbarth mewn ysgolion) yn ogystal ag ymchwil ac arloesi, yn unol â'r amcanion yng nghynllun strategol cymeradwy'r Comisiwn;
- cymhwyso telerau ac amodau i'w cyllid;
- penderfynu ar ddyraniadau cyllid i ddarparwyr ac awdurdodau lleol ar sail cytundebau cyllido a deilliannau a/neu gontractau a negodwyd;
- defnyddio gwybodaeth am berfformiad a monitro, gwybodaeth am y farchnad lafur ac ymchwil i lywio ei ddyraniadau cyllid.

13.32 Ar hyn o bryd, caiff y ddarpariaeth addysg drydyddol ei chynllunio a'i chyllido drwy amrywiaeth o fecanweithiau, yn dibynnu ar y math o ddarpariaeth, categori'r darparwr a nod y rhaglen neu'r cwrs. Cynigir y gallai perthynas gynllunio a chyllido'r Comisiwn â darparwyr ac awdurdodau lleol gael ei chyflawni, gan mwyaf, drwy negodi cytundebau deilliannau ac eithrio lle mae'r ddarpariaeth a gwasanaethau'n cael eu sicrhau drwy gontractau.

13.33 Rhagwelir y bydd y rhain, i bob pwrpas, yn "gontractau perfformiad" i'w negodi rhwng y Comisiwn a darparwyr sy'n derbyn cyllid rheolaidd, a rhwng y Comisiwn ac awdurdodau lleol mewn perthynas â'r cyllid a ddyrennir ar gyfer darpariaeth chweched dosbarth ysgolion.

13.34 Pe bai Gweinidogion Cymru yn pennu cytundebau canlyniadau fel gofyniad yn y telerau ac amodau cyllido (gweler paragraff 3.227), neu phe bai'r Comisiwn yn dewis gweithredu cytundeb canlyniadau, cynigir y dylai cytundebau deilliannau gael

eu defnyddio gan y Comisiwn i sicrhau bod gweithgareddau darparwyr dysgu sy'n cael cyllid rheolaidd yn gyson â blaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru.

13.35 Bydd angen i'r Comisiwn ystyried blaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru a'i hymateb iddynt fel y nodir yn ei gynllun strategol, a rhoi'r cynllun hwnnw ar waith. Rhagwelir y bydd hyn yn cael ei gyflawni'n rhannol drwy'r penderfyniadau y mae'r Comisiwn yn eu cymryd wrth ddyrannu cyllid i ddarparwyr ac awdurdodau lleol. Yn ogystal â chyllid rheolaidd, bydd cyllid ad hoc a ddyrennir gan y Comisiwn i ddarparwyr a sefydliadau eraill yn amodol ar delerau ac amodau. Disgwylir y bydd y Comisiwn yn sicrhau bod cyllid o'r fath yn cyd-fynd â blaenoriaethau cynllun strategol cymeradwy'r Comisiwn.

Prif fanteision y dull a ffefrir

13.36 Y prif wahaniaeth rhwng y trefniadau presennol a sut y byddai'r Comisiwn arfaethedig yn gweithio yw'r gallu i edrych ar systemau cyfan a chynllunio a chyllido'n unol â hynny - y nod yw y bydd y Comisiwn yn hyrwyddo cydlyniant ar draws y sector addysg drydyddol cyfan. Dylai'r system gynllunio a chyllido arfaethedig sicrhau cysylltiad rhwng blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg a hyfforddiant ôl-orfodol ac ymchwil, cynllun strategol y Comisiwn a'r gweithgareddau a wneir gan ddarparwyr a gyllidir.

Prif risgiau'r dull a ffefrir

13.37 Mae'n anochel y byddai cyflwyno'r system gynllunio a chyllido y darperir ar ei chyfer yn y Bil yn golygu rhai newidiadau i'r trefniadau presennol a weithredir gan Lywodraeth Cymru a CCAUC.

13.38 Gallai'r dull gweithredu arfaethedig fod yn fwy dwys o ran adnoddau na'r trefniadau presennol ar gyfer y Comisiwn, darparwyr ac awdurdodau lleol, o leiaf pan gânt eu cyflwyno i ddechrau.

Opsiw 3 - Model Cytundeb Rheoleiddio a Deilliannau

13.39 Roedd yr ymgynghoriad technegol yn cynnig system o gytundebau rheoleiddio a deilliannau. Y cynnig oedd y byddai angen i ddarparwyr dysgu a'r rheini sy'n darparu addysg uwch fodloni'r canlynol er mwyn cael cyllid, sef eu bod:

- yn darparu addysg drydyddol a/neu'n ymgymryd â gweithgareddau ymchwil/arloesi neu'n rhan o weithgarwch o'r fath;
- yn gweithredu yng Nghymru'n unig neu'n bennaf - sefydliad elusennol o bosibl.

13.40 Gellid llunio cytundebau rheoleiddio a deilliannau i'w cymeradwyo gan y Comisiwn er mwyn eu gwneud yn gymwys i gael cyllid neu i sicrhau bod eu darpariaeth cyrsiau'n denu cymorth myfyrwyr gan Lywodraeth Cymru. Ni fyddai'n rhaid i ddarparwyr dysgu seiliedig ar waith lunio cytundeb o'r fath gan fod yn rhaid i hyn gael ei wneud drwy eu rhwymedigaethau cytundebol, a ddylai gynnwys y materion a gwmpesir mewn cytundebau rheoleiddio a deilliannau. Cynigiwyd y byddai'r cytundebau yn cael eu defnyddio fel mecanwaith gorfodi pe bai'r darparwr yn torri amodau rheoleiddiol.

13.41 Cynigiwyd y byddai dwy ran i'r cytundebau: Rhan I: gofynion rheoleiddiol, a Rhan II: deilliannau y cytunwyd arnynt.

Prif fanteision opsiwn 3

13.42 Byddai'r model hwn yn cyfuno goruchwyliaeth reoleiddiol a chymhwysra i dderbyn cyllid gan y Comisiwn.

13.43 Nod yr opsiwn hwn yw cyflwyno un system ar gyfer cynllunio, cyllido a rheoleiddio yn seiliedig ar gytundebau rheoleiddio a deilliannau, gan adeiladu ar gymysgedd o'r cryfderau a nodwyd o'r modelau a gynigiwyd yn y Papur Gwyn. Roedd y model hwn yn ceisio darparu dull gweithredu cyson ar gyfer rheoleiddio ac atebolrwydd.

Prif risgiau opsiwn 3

13.44 Ar ôl ystyried sut y gallai'r model weithredu, roedd pryderon ynghylch sut y gallai'r Comisiwn, am y tro, gael digon o sicrwydd ynghylch y darparwyr i'w cyllido er mwyn sicrhau bod cyfleusterau priodol a rhesymol ar gael yn parhau i fod ar gael ar gyfer addysg a hyfforddiant ôl-16 (heblaw addysg uwch). Gallai dull sy'n golygu gwneud cais i'r Comisiwn i gymeradwyo cynllun rheoleiddio a deilliannau arwain at ansicrwydd ynghylch pa ddarparwyr sy'n gymwys i gael cyllid gan y Comisiwn. Ar y llaw arall, nid oes unrhyw ofynion i sicrhau cyfleusterau priodol a rhesymol yn y sector addysg uwch, ac mae'r rhan fwyaf o gyrsiau addysg uwch yn cael eu cyllido ar hyn o bryd drwy incwm sy'n deillio o ffioedd myfyrwyr yn hytrach na chyllid gan CCAUC.

13.45 Cafwyd ymateb cymysg yn yr ymgynghoriad i'r cynnig i seilio swyddogaethau cynllunio, cyllido a rheoleiddio'r Comisiwn ar gynlluniau rheoleiddio a deilliannau. Cafwyd gwrthwynebiad mawr gan rai i'r model cynlluniau rheoleiddio a deilliannau, er y croesawyd y pwyslais ar ddeilliannau. Yn ogystal, roedd yr ymatebion yn awgrymu y dylai'r Comisiwn gydnabod nad oes un ffordd benodol o fynd ati i gynllunio a chyllido darpariaeth ôl-16, a chynigiwyd y dylai'r Comisiwn barhau i weithredu systemau cynllunio a chyllido hyblyg ar draws y sector addysg ôl-orfodol, yn y lle cyntaf o leiaf, gan geisio alinio a chydgrynhoi systemau dros amser.

Pennod 14. Opsiynau manwl ar gyfer diwygio - Ymchwil ac arloesi

Y trefniadau presennol a'r achos o blaid newid

- 14.1 Mae cyllid ymchwil ac arloesi a ddarperir gan y Llywodraeth mewn sefydliadau addysg drydyddol yng Nghymru yn gweithredu ar sail 'cymorth deuol'.
- 14.2 Dyfernir cyllid ymchwil a ddyfernwyd yn gystadleuol gan UK Research and Innovation, sy'n cynnwys y saith Cyngor Ymchwil ac Innovate UK. Mae'r Cyngorau Ymchwil yn fater a gadwyd yn ôl a thu allan i gymhwysedd deddfwriaethol Llywodraeth Cymru.
- 14.3 Dosberthir cyllid grant craidd, 'cysylltiedig ag ansawdd' gan CCAUC, yn seiliedig ar berfformiad sefydliadau yn y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil. Mae CCAUC hefyd yn dosbarthu cyllid ymchwil ôl-raddedig a chronfeydd arloesi addysg uwch.
- 14.4 Mae CCAUC yn dosbarthu cyllid ar gyfer Ymchwil cysylltiedig ag Ansawdd, cyllid ymchwil ôl-raddedig a chronfeydd arloesi addysg uwch i sefydliadau addysg uwch. Nid yw Llywodraeth Cymru'n pennu sut i ddsbarthu'r cyllid hwn, ond mae'n rhoi arweiniad i CCAUC ar faterion strategol.
- 14.5 Mae Swyddfa Wyddoniaeth Llywodraeth Cymru hefyd yn trefnu rhaglenni cyllido ymchwil, megis rhaglen Sêr Cymru.
- 14.6 I weithredu argymhelliad cyntaf Adolygiad Reid¹⁸, cafodd Swyddfa Llundain Llywodraeth Cymru, sydd wedi'i hen sefydlu, eu hehangu i helpu i hyrwyddo gweithgarwch ymchwil ac arloesi yng Nghymru, gyda phwyslais cynyddol ar swyddogaethau ymchwil ac arloesi Llywodraeth Cymru.
- 14.7 Yn ogystal â sefydliadau addysg uwch a'r cyrff a ariennir ar hyn o bryd, mae posibilrwydd y gallai cyrff eraill yn y sector cyhoeddus elwa ar ymchwil ac arloesi pan fyddant yn cydweithio â darparwyr, ond nid ydynt yn cael cyllid rheolaidd ar hyn o bryd.
- 14.8 Bydd sefydlu'r Comisiwn yn darparu'r trosolwg strategol i ymgysylltu â chyrff cyllido yn y DU ac yn rhyngwladol ar ran sefydliadau Cymru mewn amgylchedd ymchwil ac arloesi sy'n newid yn gyflym.
- 14.9 Mae capasiti ymchwil yng Nghymru yn is nag yn Lloegr. Dengys tystiolaeth ddiweddar fod ymchwilwyr Cymru yn gweithredu ar lefel uchel ond bod prinder ymchwilwyr mewn meysydd allweddol. Mae adroddiadau diweddar gan Halligan a Bright¹⁹, Elsevier²⁰ a Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2014²¹ yn dangos ansawdd yr ymchwil mewn sefydliadau addysg uwch yng Nghymru, ond maent hefyd yn dangos bod y capasiti ymchwil yng Nghymru yn llai nag yng ngweddill y DU.

¹⁸ [Llywodraeth Cymru | Adolygiad o ymchwil ac arloesi a ariennir gan y Llywodraeth \(adolygiad Reid\)](#)

¹⁹ The Case for Growing STEMM Research Capacity in Wales, yr Athro Peter Halligan; Dr Louise Bright, wedi ei gyhoeddi y Sefydliad Arweinyddiaeth ar gyfer Addysg Uwch, Mai 2015.

²⁰ [Elsevier ar gyfer HEFCW a Llywodraeth Cymru | International Comparative Performance of the Welsh Research Base 2013](#)

²¹ [Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2014](#)

14.10 Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi 'Map Ymchwil a Datblygu' sy'n nodi'r camau y mae'n bwriadu eu cymryd i gyflawni ei hymrwymiad i gynyddu buddsoddiad mewn ymchwil a datblygu i 2.4% o'r Cynnyrch Domestig Gros erbyn 2027. Bydd creu Cronfa Ffyniant a Rennir y DU (i gymryd lle cyllid strwythurol yr UE) a'r Asiantaeth Ymchwil a Dyfeisio Blaengar hefyd yn newid yr amgylchedd ymchwil ac arloesi ar gyfer sefydliadau a busnesau ymchwil Cymru yn sylweddol.

Yr opsiynau a ystyriwyd a'r dull a ffefrir

Opsiwn 1 - Busnes fel arfer

14.11 Mae creu'r Comisiwn a diddymu CCAUC yn golygu bod angen adolygu swyddogaethau cyllido ymchwil ac arloesi. Byddai senario dim newid (busnes fel arfer) ond yn berthnasol pe na bai'r Comisiwn yn cael ei sefydlu.

Prif fanteision busnes fel arfer

14.12 Ni fyddai amharu ar y trefniadau presennol.

Prif risgiau busnes fel arfer

14.13 Mae'r diffyg goruchwyliaeth strategol ym maes ymchwil ac arloesi yn golygu bod cyfran y cymorth ariannol a ddyrennir ar hyn o bryd i wahanol feysydd ymchwil, i wahanol lefelau o barodrwydd technoleg, i wahanol fathau o sefydliadau, ac i weithgareddau cydweithio, rhannu gwybodaeth ac arloesi, yn llai nag y dylai fod. Nid yw'n cefnogi datblygiad technoleg, meysydd blaenoriaeth ar gyfer ymchwil, yr ystod o sefydliadau a dysgu i'r graddau y gallai. Byddai parhau â'r sefyllfa hon yn creu risg ddifrifol y bydd Cymru fwy ar ei hôl hi o ran technoleg ac ymchwil o gymharu â gweddill y DU ac ni fydd ei photensial i gefnogi twf economaidd yn cael ei chyflawni.

14.14 Heb sefydliad sy'n gallu canolbwyntio ar hyrwyddo ymchwil ac arloesi yng Nghymru, mae'r newidiadau sydd wedi digwydd yn Lloegr ac mewn perthynas â Chynghorau Ymchwil y DU yn debygol o roi sefydliadau ymchwil yn Lloegr mewn gwell sefyllfa i gystadlu ar gyfer cyllid Llywodraeth y DU a'r Cynghorau Ymchwil na sefydliadau yng Nghymru. Mae perygl y bydd y gyfran o gyllid ymchwil y DU sy'n cyrraedd Cymru yn lleihau.

Opsiwn 2 - y dull a ffefrir

14.15 Bydd y Comisiwn yn cymryd cyfrifoldeb am oruchwylio cyllid ymchwil fel a wneir ar hyn o bryd gan CCAUC, a bydd yn gyfrifol am alinio cyllid â chyllid capasiti ymchwil arall a ddyfernir yn gystadleuol o ffynonellau'r DU a Chymru (e.e. Sêr Cymru).

14.16 Bydd gan y Comisiwn Bwyllgor Ymchwil ac Arloesi. Byddai'r pwyllgor yn goruchwylio swyddogaethau ymchwil ac arloesi'r Comisiwn, ac yn cynnwys arbenigwyr ym meysydd ymchwil ac arloesi a rhai aelodau o'r Comisiwn.

14.17 Byddai Bwrdd y Comisiwn yn bennaf gyfrifol am sicrhau bod ei weithgareddau ar draws y sector addysg drydyddol a rhai'r pwyllgor ymchwil ac arloesi yn cyd-fynd yn llwyr â nodau strategol cenedlaethol. Dylai barhau i ymgysylltu'n agos â ffynonellau cyllid eraill, megis UK Research & Innovation (UKRI). Bydd y Comisiwn yn

ymgysylltu ag Ymchwil Lloegr ar gyfrifoldebau cyffredin fel y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil.

14.18 Rhoddir pwerau i Weinidogion Cymru ddarparu cyllid ymchwil ac arloesi i'r Comisiwn a phennu'r meysydd ymchwil cyffredinol sy'n gymwys i gael y cyllid hwn. Ni fydd Gweinidogion Cymru'n gallu nodi'r union brosiectau ymchwil ac arloesi y dylid rhoi'r cyllid iddynt ac ni fydd hyn yn effeithio ar ryddid academiaidd sefydliadau.

14.19 Bydd dyletswydd ar y Comisiwn i:

- fonitro perfformiad ei raglenni cyllido;
- hyrwyddo canlyniadau ymchwil ac arloesi a'r defnydd o'r wybodaeth gysylltiedig i gynulleidfa eang;
- rhoi sylw dyledus i ganllawiau strategol gan Weinidogion Cymru; ac
- cydweithio â chyrff perthnasol y cytunir arnynt â Gweinidogion Cymru'n flynyddol.

Prif fanteision y dull a ffefrir

14.20 Y Comisiwn fyddai'r mecanwaith cyflawni strategol cenedlaethol ar gyfer cyllido ymchwil ac arloesi mewn sefydliadau addysg drydyddol yng Nghymru.

14.21 Byddai'n fodd i sicrhau bod gweithgareddau ymchwil ac arloesi'n cyd-fynd â'r gwaith o ddatblygu darpariaeth sgiliau, addysg a phrentisiaethau gan ganolbwyntio ar feysydd strategol penodol, e.e. lled-ddargludyddion cyfansawdd, dementia ac iechyd meddwl, adeiladau niwclear, technoleg amaeth, adeiladau carbon isel etc.

14.22 Byddai'n hwyluso blaenoriaethu'r holl bethau uchod er mwyn gweithio tuag at gyflawni blaenoriaethau cenedlaethol a bennir gan Lywodraeth Cymru.

Prif risgiau'r dull a ffefrir

14.23 Gallai ymddangos fod y Comisiwn yn rhy agos at addysg uwch a chyrff cyflawni eraill.

14.24 Mae posibilrwydd o ddiffyg cydgysylltu â'r cyllid ymchwil ac arloesi a gedwir gan y Llywodraeth.

Opsiwn 3 – Corff hyd braich ar wahân ar gyfer ymchwil ac arloesi

14.25 Ystyriwyd tynnu'r gweithgareddau ymchwil ac arloesi yn gyfan gwbl o'r gylch gwaith y corff addysg drydyddol a'u rhoi i gorff hyd braich ar wahân fel sy'n digwydd yn y DU, neu fel y digwyddodd pan oedd cyllid ymchwil ac arloesi'n cael ei ddarparu gan Awdurdod Datblygu Cymru. Er nad oedd unrhyw awgrym y dylid ail-greu Awdurdod Datblygu Cymru, awgrymwyd bod corff penodol yn cael ei greu ar gyfer ymchwil ac arloesi mewn modd tebyg i'r cynghorau ymchwil yn y DU. Gwrthodwyd yr awgrym hwn oherwydd y gwrthdaro posibl â'r Cynghorau Ymchwil (UKRI bellach) a'r penderfyniad i gynnwys ymchwil yng nghyfrifoldebau'r corff addysg drydyddol (gan greu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil).

Prif fanteision opsiwn 3

14.26 Byddai manteision wedi deillio o sefydlu'r corff ar wahân hwn oherwydd byddai ganddo ffocws a chylch gwaith penodol iawn yn ymwneud ag ymchwil ac arloesi, gan arbenigo mewn ymchwil ac arloesi yng Nghymru, a byddai'n gallu ymgysylltu'n uniongyrchol â UKRI.

Prif risgiau opsiwn 3

14.27 Risg yr opsiwn hwn oedd y byddai'n rhy bell oddi wrth agweddau addysgol addysg drydyddol, yn enwedig mewn addysg uwch. Felly, byddai'r synergedd a'r gallu i alinio a chydgysylltu ymchwil ac arloesi â'r gwaith o ddatblygu addysg, hyfforddiant a sgiliau yn cael ei golli. Byddai'r corff yn fach iawn hefyd o gymharu â'r strwythurau a fabwysiadwyd gan y DU wrth greu'r cyrff ar wahân UKRI a'r Swyddfa Fyfyrrwyr. Felly, mae manteision o ddod â'r rhain ynghyd yng Nghymru yn fwy na'r anfanteision.

Pennod 15. Opsiynau manwl ar gyfer diwygio - Cefnogi a datblygu prentisiaethau yng Nghymru

Y trefniadau presennol

- 15.1 Ar hyn o bryd, caiff y rhaglen brentisiaethau (heblaw gradd-brentisiaethau) ei gweithredu drwy gontractio darparwyr dysgu seiliedig ar waith (proses gaffael llawn).
- 15.2 Is-adran Addysg Bellach a Phrentisiaethau Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am ddatblygu'r polisi prentisiaethau, rheoli rhaglenni a sicrhau ansawdd, a Llywodraeth Cymru sydd hefyd yn dyrannu'r gyllideb ar gyfer prentisiaethau.
- 15.3 Ceir hefyd Gwasanaeth Sicrwydd a Llywodraethu Darparwyr annibynnol o fewn Llywodraeth Cymru sy'n archwilio darparwyr prentisiaethau, o'u cynlluniau dysgwyr i slipiau cyflog. Mae gwasanaeth Sicrwydd a Llywodraethu Darparwyr yn darparu adolygiadau monitro ar sail risg o ddarparwyr hyfforddiant allanol ar draws Cymru a ariennir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop ac sydd wedi'u contractio i gyflenwi rhaglenni dysgu seiliedig ar waith ar ran Llywodraeth Cymru.
- 15.4 Nodir manylion y system brentisiaethau bresennol yng Nghymru ym mharagraff 3.214 – 3.321.

Achos o blaid newid

- 15.5 Nid yw'r fframwaith deddfwriaethol sydd yn Neddf 2009 wedi'i gynllunio ar gyfer Cymru, ac nid yw bellach yn diwallu anghenion unigryw economi a chymdeithas Cymru.
- 15.6 Mae'r galw am brentisiaethau yn newid wrth i gyflogwyr fynnu sgiliau ar lefel uwch, ac mae pobl ifanc yn ystyried prentisiaethau fel dewis amgen yn lle darpariaeth israddedig amser llawn draddodiadol. Ar hyn o bryd, mae'r trefniadau mewn perthynas â manyleb safonau prentisiaethau Cymru yn anhyblyg ac nid yw'n ymateb i anghenion newidiol diwydiant; ni ellir cyflwyno newidiadau'n ddigon cyflym mewn amgylchedd sgiliau sy'n newid yn gyflym.
- 15.7 Yn ogystal, mae gallu'r Cynghorau Sgiliau Sector a chyrff sector i gyflawni eu rôl wedi lleihau o dan ddiwygiadau Llywodraeth y DU ar gyfer prentisiaethau, gan wanhau eu cylch gwaith i roi llais i gyflogwyr a chreu llwybrau galwedigaethol o ansawdd uchel.
- 15.8 Byddai'r gwaith o gynllunio, cyllido a rheoli prentisiaethau yn diwallu anghenion sgiliau Cymru'n well, ac yn cyd-fynd yn well â darpariaeth arall i ddysgwyr, pe bai'n rhan o gylch gwaith y Comisiwn.

Yr opsiynau a ystyriwyd a'r dull a ffefrir

Opswim 1 - Busnes fel arfer

15.9 Byddai senario busnes fel arfer (dim newid) ond yn berthnasol pe na bai'r gwaith diwygio i greu'r Comisiwn yn digwydd.

Prif fanteision yr opsiwn busnes fel arfer

15.10 Prif fantais yr opsiwn 'busnes fel arfer' yw bod y system eisoes yn ei lle y mae pawb yn ei deall. Er nad dyma'r system fwyaf effeithiol, mae dysgwyr a chyflogwyr yn gallu manteisio ar y ddarpariaeth brentisiaethau ac mae'r system wedi cael canlyniadau llwyddiannus.

15.11 Byddai cadw'r system bresennol hefyd yn lliniaru unrhyw risgiau a allai godi mewn perthynas â newidiadau i staff wrth drosglwyddo i gorff newydd, a'r wybodaeth a'r arbenigedd a gollir yn sgil hynny.

15.12 Mae'r system brentisiaethau'n cael ei hadolygu ar hyn o bryd, ac mae newidiadau eisoes wedi'u gwneud i'r ffordd y caiff prentisiaethau eu comisiynu a'u darparu yng Nghymru er mwyn gwella eu hansawdd. Fodd bynnag, ni fydd y cyfyngiadau deddfwriaethol sydd eisoes yn bodoli yn caniatáu newid y system gyfan er mwyn gallu ymateb i anghenion sgiliau economi Cymru ac effaith bosibl y newidiadau i'r safonau prentisiaethau yn Lloegr.

Prif risgiau'r opsiwn busnes fel arfer

15.13 Er bod y system bresennol yn gallu darparu prentisiaethau yng Nghymru, nid yw'r ddeddfwriaeth sy'n sail iddi wedi'i chynllunio ar gyfer Cymru ac felly nid yw'n ddigon hyblyg ac ymatebol i ddiwallu anghenion cyflogwyr ac anghenion newidiol yr economi yng Nghymru.

15.14 Os yw Llywodraeth Cymru'n cadw'r cyfrifoldeb am y ddarpariaeth brentisiaethau, a'r ddarpariaeth felly'n cael ei rheoli ar wahân i weddill y sector addysg drydyddol, mae perygl y bydd bylchau pwysig yn y ddarpariaeth sydd ar gael a hefyd dyblygu rhwng darparwyr a methiant i greu llwybrau dysgu clir y gall dysgwyr eu dilyn heb orfod ailadrodd.

Opswim 2 - y dull a ffefrir

15.15 Mae'r dull a ffefrir yn golygu diddymu'r ddarpariaeth bresennol yn Neddf 2009 a chreu trefniadau newydd a fyddai'n arwain at system brentisiaethau fwy hyblyg i ddiwallu anghenion amrywiol dysgwyr a diwydiant yng Nghymru a sicrhau cludadwyedd ar draws y DU.

15.16 Byddai'r dull hwn yn helpu i sicrhau bod fframweithiau prentisiaethau'n cael eu datblygu a'u cyflwyno i ddiwallu anghenion/lefel sgiliau'r economi. Nid yw'r ddeddfwriaeth bresennol ar gyfer datblygu a darparu prentisiaethau, fel yr amlinellir uchod, yn ddigon hyblyg mwyach i ddarparu ar gyfer anghenion sgiliau cyflogwyr a dysgwyr, sy'n newid yn gyflym.

- 15.17 Bydd manyleb safonau prentisiaethau Cymru yn cael ei disodli gan fanyleb prentisiaethau Cymru, sy'n fwy eang ei chwmpas ac yn cynnwys gofynion mwy clir ar gyfer datblygu fframweithiau prentisiaethau.
- 15.18 Bydd y ddyletswydd, yn adran 38 o Ddeddf 2009, sy'n nodi bod yn rhaid i Weinidogion Cymru nodi sectorau o sgiliau, crefft neu alwedigaeth yn cael ei diddymu. Yn ei lle, ceir gofyniad bod y Comisiwn yn sicrhau bod fframweithiau prentisiaethau'n berthnasol i grwpiau galwedigaethol, fel y'i pennir gan Weinidogion Cymru ym manyleb prentisiaethau Cymru.
- 15.19 Byddai'r Bil yn darparu bod fframweithiau prentisiaethau'n gallu cynnwys safonau a gydnabyddir gan ddiwydiant ochr yn ochr â'r cymwysterau traddodiadol. Byddai'r Comisiwn yn gallu contractio cyrff allanol i ddatblygu fframweithiau prentisiaethau, neu eu datblygu'n fewnol.
- 15.20 Bydd pob fframwaith yn cael ei gyflwyno gan y Comisiwn neu berson y mae wedi dirprwyo ei swyddogaethau iddo, a bydd dyletswydd ar y Comisiwn i adolygu pob fframwaith. Byddai'r Comisiwn yn gallu tynnu'n ôl neu addasu fframweithiau prentisiaethau.
- 15.21 Yn ogystal, bydd gofyn i'r Comisiwn gadw a chyhoeddi cofrestr o fframweithiau prentisiaethau Cymru.
- 15.22 Bydd y Comisiwn (neu berson y mae'n dirprwyo swyddogaethau iddo) yn gallu dyroddi tystysgrifau prentisiaethau. Bydd y pŵer i godi ffi am hyn yn cael ei gadw. Bydd cynnwys prentisiaeth yn cael ei ragnodi ym manyleb prentisiaethau Cymru.

Prif fanteision y dull a ffefrir

- 15.23 Bydd y newidiadau arfaethedig yn arwain at system brentisiaethau newydd sy'n fwy hyblyg er mwyn gallu diwallu anghenion amrywiol dysgwyr a diwydiant yng Nghymru a sicrhau cludadwyedd ar draws y DU. Dylai'r system sicrhau bod fframweithiau prentisiaethau'n cael eu datblygu a'u darparu i ddiwallu anghenion a lefel sgiliau'r economi yng Nghymru.
- 15.24 Bydd cyflwyno Manyleb Prentisiaethau Cymru ac felly'r gallu i weithredu newidiadau heb broses ddeddfu hirfaith yn helpu i sicrhau system fwy hyblyg sy'n ymateb i anghenion diwydiant.
- 15.25 Bydd y Comisiwn, wrth oruchwylio'r sector addysg drydyddol cyfan, yn gallu helpu i sicrhau system gydlynol sy'n cynnig llwybrau clir i ddysgwyr. Bydd yn gallu dileu dyblygu a sicrhau'r un parch ar gyfer astudiaethau galwedigaethol ac academiaidd, gan gynnig prentisiaethau lefel uwch a gradd-brentisiaethau fel dewis amgen yn lle darpariaeth israddedig draddodiadol amser llawn.
- 15.26 Gan y bydd gweddill y sector addysg drydyddol yn cael ei reoli gan y Comisiwn, mae'n gwneud synnwyr bod y ddarpariaeth brentisiaethau'n hefyd yn cael ei chynnwys yn ei gylch gwaith. Os na, mae risg na fydd astudiaethau galwedigaethol ac academiaidd yn cael yr un parch ar draws y sector ac na fyddant wedi'u cydlynu i'r un graddau.

15.27 Cynigiwyd opsiwn 3 yn yr ymgynghoriad technegol. Fodd bynnag, awgrymwyd yn y sylwadau gan randdeiliaid ac adolygu mewnol pellach bod angen mireinio'r opsiwn hwn er mwyn iddo weithio. Opsiwn 2 yw'r opsiwn a ffefrir am ei fod yn cymryd y sylwadau hyn i ystyriaeth ac yn cynnig newidiadau i leihau'r risgiau.

Prif risgiau'r dull a ffefrir

15.28 Gwnaeth y rheini a ymatebodd i'r ymgynghoriad technegol awgrymu y gallai fod risg na fyddai gan y Comisiwn yr arbenigedd i reoli cwrpas llawn y system brentisiaethau, ac y dylai arbenigwyr sector gadw rhai elfennau ohoni. Fodd bynnag, mae'r pryderon hyn wedi'u cymryd i ystyriaeth a bydd y ddeddfwriaeth yn nodi y bydd y Comisiwn yn gallu dirprwyo ei gyfrifoldebau i gorff arall ond cadw ei rôl oruchwylio.

Opsiwn 3

15.29 Mae'r opsiwn hwn yr un peth â'r cynigion yn opsiwn 2 heblaw'r canlynol:

- Caiff Fframweithiau Prentisiaethau eu disodli gan Llwybrau Prentisiaethau newydd.
- Y Comisiwn, yn hytrach na Gweinidogion Cymru, sydd â'r pŵer i nodi materion ychwanegol i'w cynnwys yn y tystysgrifau.
- Ni fydd darparwyr dysgu sy'n darparu prentisiaethau hyd at lefel 5 yn gorfod llunio Cytundeb Rheoleiddio a Deilliannau i ddechrau, gan y bydd y gofynion atebolrwydd angenrheidiol yn rhan o rwymedigaethau eu contractau presennol.
- Awgrymwyd yn yr ymgynghoriad technegol y byddai prentisiaethau gradd, ar lefel 6, gael eu cyllido drwy grant i'r Comisiwn, ac felly y byddant yn destun Cytundeb Rheoleiddio a Deilliannau.

Prif fanteision opsiwn 3

15.30 Gan fod y cynigion yn cynnwys proses newydd ar gyfer datblygu a darparu prentisiaethau, teimlwyd y byddai terminoleg newydd yn fanteisiol ac y byddai'r fframweithiau newydd hyn yn cael eu hailenwi'n llwybrau.

15.31 Byddai'r cynnig i roi'r pŵer i bennu materion ychwanegol i'w cynnwys mewn tystysgrifau i'r Comisiwn yn hytrach na Gweinidogion Cymru yn rhoi'r hyblygrwydd i'r Comisiwn ddiwygio tystysgrifau lle bo angen heb orfod mynd drwy'r broses hirfaith o ddiwygio deddfwriaeth.

15.32 Rhagwelir y gallai rheoli'r berthynas rhwng y darparwyr a'r Comisiwn drwy'r Cytundeb Rheoleiddio a Deilliannau (fel y cynigiwyd yn wreiddiol yn yr ymgynghoriad technegol) helpu i sicrhau bod y ddarpariaeth brentisiaethau'n cael ei rheoli mewn ffordd debyg i'r ddarpariaeth arall yn y sector addysg drydyddol.

Prif risgiau opsiwn 3

15.33 Gwnaeth y cynnig i ailddiffinio Fframweithiau Prentisiaethau fel Llwybrau godi pryderon ymhlith rhanddeiliaid. Mae 'Llwybrau' yn cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd i gyfeirio at is-arbenigeddau mewn Fframweithiau Prentisiaethau, ac felly teimlwyd y gallai hyn beri dryswch yn y sector.

- 15.34 Gan y bydd cynnwys y tystysgrifau'n parhau i gael ei ddiffinio mewn deddfwriaeth, mae risg y byddai'r Comisiwn, pe bai'n cael y pŵer i nodi materion ychwanegol i'w cynnwys yn y tystysgrifau, yn cael pwerau tebyg i bwerau gwneud rheoliadau.
- 15.35 Yn ystod y gwaith o ddatblygu'r system weithredu, penderfynwyd symud i ffwrdd oddi wrth y cynigion ar gyfer Cytundeb Rheoleiddio a Deilliannau i reoli'r berthynas rhwng y Comisiwn a'r darparwyr. Felly, mae'r cynigion yn yr ymgynghoriad technegol i brentisiaethau gael eu rheoli drwy'r broses hon bellach wedi'u hailystyried. Pe cedwir y cynigion a amlinellir yn opsiwn 3, byddai risg wedyn bod y berthynas rhwng darparwyr prentisiaethau a'r Comisiwn yn cael ei reoli'n wahanol i weddill y sector addysg drydyddol.

Pennod 16. Opsiynau manwl ar gyfer diwygio - Diogelu buddiannau dysgwyr

Y trefniadau presennol a'r achos o blaid newid

Cyflwyniad

16.1 Mae'r swyddogaeth hon yn ymwneud â'r trefniadau i ddysgwyr sy'n dymuno trosglwyddo i ddarparwr arall, y trefniadau pontio ar gyfer dysgwyr pe bai cwrs yn cau neu ddarparwr methu (diogelu dysgwyr), a'r trefniadau ar gyfer datrys cwynion gan ddysgwyr. Cydnabu'r Papur Gwyn fod gan wahanol rannau o'r system addysg drydyddol drefniadau gwahanol i sicrhau bod dysgwyr yn gallu parhau â'u dysgu mewn amgylchiadau o'r fath.

Sefydliadau Addysg Uwch

16.2 Mae Cod Ansawdd Addysg Uwch y DU yn pennu'r disgwyliad bod pob myfyriwr, o'r adeg y caiff ei dderbyn i gwblhau cwrs, yn cael y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt i lwyddo mewn addysg uwch ac elwa arni. Os bydd CCAUC yn amau bod sefydliad addysg uwch a reoleiddir mewn perygl o fethu, bydd fel arfer yn gwneud cais am ddatganiad ar ei bolisi diogelu myfyrwyr.

16.3 Mae trefniadau yn eu lle hefyd i bob myfyriwr allu parhau i dderbyn cymorth myfyrwyr os ydynt yn trosglwyddo i gwrs neu ddarparwr arall.

Sefydliadau Addysg Bellach

16.4 Mae Deddf Ansoffedd Addysg Dechnegol a Phellach 2017 yn gwneud darpariaeth i weithredu system weinyddol arbennig ochr yn ochr ag ansolfedd arferol er mwyn helpu i ddiogelu dysgwyr os yw coleg addysg bellach neu sefydliad dynodedig yn mynd yn ansolfent. Yn ogystal, mae gan Lywodraeth Cymru bwerau i ymyrryd os oes angen i warchod buddiannau myfyrwyr a diogelu addysg dysgwyr presennol lle mae yna broblemau difrifol.

Prentisiaethau

16.5 Ar hyn o bryd, mae prentisiaethau'n cael eu darparu drwy contractau rhwng Llywodraeth Cymru a darparwyr a gymeradwywyd. Mae'r gofynion y contractau'n cynnwys bod yn rhaid i ddarparwyr ddod o hyd i gyflogwr arall ar gyfer prentisiaid sydd wedi colli eu swydd er mwyn sicrhau eu bod yn gallu parhau gyda'u cymhwyster. Yn yr achos hwn, mae cymorth ariannol hefyd ar gael gan Lywodraeth Cymru am gyfnod penodol o amser tra eu bod yn chwilio am swydd arall. Mae'n ofynnol i ddarparwyr recriwtio unrhyw ddysgwyr a ddadleolwyd o ganlyniad i ymarfer tendro dysgu seiliedig ar waith.

Chweched dosbarth ysgolion

16.6 Mae trefniadau ar waith i helpu i sicrhau bod data am ddisgyblion yn cael eu trosglwyddo wrth iddynt symud o un ysgol i'r llall. O dan Rheoliadau Gwybodaeth am Ddisgyblion (Cymru) 2011 ("Rheoliadau 2011"), pryd bynnag bydd disgybl yn ymuno ag ysgol o ysgol arall yng Nghymru neu Loegr, rhaid i Ffeil Drosglwyddo Gyffredin y

disgybl fynd gydag ef. Pan fydd disgybl yn gadael un ysgol am ysgol newydd, rhaid anfon Ffeil Drosglwyddo Gyffredin i'r ysgol newydd.

- 16.7 Ar hyn o bryd, nid yw'r trefniadau hyn yn berthnasol i drosglwyddo dysgwyr rhwng ysgolion a mathau eraill o ddarparwyr dysgu. Fodd bynnag, mae Rheoliadau 2011 yn ei gwneud yn ofynnol, lle ystyrir gosod dysgwr mewn ysgol arall, sefydliad addysg bellach arall neu unrhyw leoliad addysg neu hyfforddiant arall, fod y pennaeth yn trosglwyddo cofnod addysgol y disgybl i'r unigolyn cyfrifol os bydd yn gofyn amdano, er nad yw hyn yn cynnwys canlyniadau unrhyw asesiad o'r hyn a gyflawnwyd gan y disgybl.

Ymdrin â chwynion a'u datrys

Sefydliadau addysg uwch

- 16.8 Mae Cod Ansawdd yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer addysg uwch yn amlinellu'r egwyddorion ar gyfer delio ag apelau academaidd a chwynion am ansawdd cyfleoedd dysgu gan ddysgwyr mewn addysg uwch. Mae'r Cod Ansawdd yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr addysg greu gweithdrefnau ar gyfer delio ag apelau academaidd a chwynion dysgwr am ansawdd cyfleoedd dysgu.
- 16.9 Os nad yw dysgwyr yn fodlon â chanlyniad y weithdrefn gwyno, gallant gyfeirio eu cwyn i Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol. Mae Deddf 2004 yn caniatáu dynodi corff i weithredu cynllun cwynion myfyrwyr. Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol yw'r gweithredwr dynodedig ar gyfer ymdrin â chwynion heb eu datrys gan fyfyrwyr addysg uwch yng Nghymru a Lloegr. Ar hyn o bryd, mae ei rôl yn cwmpasu 'sefydliadau cymwys' a ddiffinnir o dan Ddeddf 2004. Mae'n ofynnol i ddarparwyr addysg uwch dalu ffi danysgrifio i Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol.
- 16.10 Yn ogystal, mae'n bosibl y bydd CCAUC yn ystyried cwynion yn erbyn darparwr addysg uwch mewn meysydd lle mae ganddo bwerau cyllido neu reoleiddio, er enghraifft cwynion ynghylch gweithdrefnau ariannol neu ansawdd sefydliad.

Sefydliadau Addysg Bellach

- 16.11 Mae gan sefydliadau addysg bellach a phrentisiaethau eu gweithdrefnau cwyno eu hunain. Yn 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau i'r darparwyr hyn ar sut i ymdrin â chwynion. Ar hyn o bryd, ni all dysgwyr mewn addysg bellach a phrentisiaethau gyfeirio cwynion sydd heb eu datrys i gorff annibynnol. Nid oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw bwerau cyfreithiol i ymchwilio i gwynion heb eu datrys gan ddysgwyr unigol, ac nid ydynt yn rhan o gylch gwaith Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol oni bai bod y dysgwr yn astudio cymhwyster addysg uwch.
- 16.12 Dylid nodi ei bod yn ofynnol i sefydliadau addysg bellach sy'n cynnig darpariaeth addysg uwch danysgrifio i Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol a bod myfyrwyr sy'n astudio cymhwyster addysg uwch mewn sefydliad addysg bellach felly'n gallu cyfeirio cwynion at Swyddfa'r Dyfarnwr i'w datrys.

Chweched dosbarth ysgolion

- 16.13 Mae Deddf 2002 yn ei gwneud yn ofynnol i gorff llywodraethu pob ysgol a gynhelir gan awdurdod lleol yng Nghymru, gan gynnwys ysgolion meithrin, sefydlu a

chyhoeddi gweithdrefnau ar gyfer delio â chwynion gan rieni, disgyblion, aelodau staff, llywodraethwyr, aelodau o'r gymuned leol ac eraill.

- 16.14 Wrth sefydlu gweithdrefnau cwyno, rhaid i gyrff llywodraethu roi sylw i unrhyw ganllawiau a ddarperir gan Weinidogion Cymru. Mae'r canllawiau presennol yn y cylchlythyr 'Gweithdrefnau cwyno ar gyfer cyrff llywodraethu ysgolion yng Nghymru 2012'. Mae'r rhain yn rhoi cyfarwyddyd i gyrff llywodraethu ynghylch sut i sefydlu gweithdrefnau o'r fath ac maent yn cynnwys gweithdrefn gwyno enghreifftiol. Maent hefyd yn amlinellu rôl yr awdurdod lleol mewn perthynas â chwynion, lle bo'n briodol.
- 16.15 Er mai cyfrifoldeb statudol y corff llywodraethu yw delio â chwynion, dylai awdurdodau lleol sicrhau bod gweithdrefnau cwyno digonol yn eu hysgolion, a'u bod yn gallu rhoi cyngor a chymorth i gyrff llywodraethu ar ddelio â chwynion. Dylai awdurdod lleol ystyried hefyd unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu nad oes gan gorff llywodraethu weithdrefn gwyno, bod ganddo weithdrefn annigonol, nad yw wedi dilyn ei weithdrefn neu nad oes modd gweithredu ei weithdrefn am fod yr unigolion y mae'r gŵyn yn ymwneud â nhw yn ymchwilio iddi neu'n gwneud penderfyniadau yn ei chylch.

Y trefniadau i ddiogelu dysgwyr

- 16.16 Os nad oes trefniadau digonol yn eu lle i ddiogelu dysgwyr, mae'n risg na fydd dysgwr yn gallu cwblhau ei astudiaethau pe bai cwrs, campws neu ddarparwr yn cau, neu ei amgylchiadau personol yn newid. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y bydd rhoi trefniadau clir, ystyrlon a hygyrch ar waith i ddiogelu dysgwyr yn hanfodol i atal hyn rhag digwydd.
- 16.17 Mae'r ymatebion i'r Papur Gwyn yn awgrymu bod y trefniadau presennol yn anghyson ac nid ydynt yn glir i'r dysgwyr, a bod lle i gryfhau'r trefniadau i ddiogelu dysgwyr sy'n astudio gyda darparwyr addysg drydyddol yng Nghymru.
- 16.18 Mae'r gwahaniaethau a'r cymhlethdodau yn y trefniadau presennol yn golygu nad yw dysgwyr, hyd yn oed o fewn yr un darparwr, o reidrwydd yn cael eu diogelu i'r un graddau. Mae'r trefniadau presennol yn amrywio o ran eu cwmpas a'u ffocws ac nid ydynt yn darparu dull cynhwysfawr wedi'i ffurfioli sy'n cynnwys trefniadau ymarferol a chymorth i ddysgwyr o ran eu cynnydd a'u lles.

Y trefniadau ar gyfer ymdrin â chwynion a'u datrys

- 16.19 Mewn ymchwil a gynhaliwyd gan Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr (UCM) yn 2011, tynnwyd sylw at y trafferthion gyda'r prosesau cwynion yn y sector addysg bellach, ac roedd anghysondeb a thryloywder ymhlith y prif faterion a godwyd.
- 16.20 Ar sail yr adborth i'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn, rydym o'r farn y dylai pob darparwr addysg drydyddol fod â pholisïau a gweithdrefnau clir ar waith i alluogi dysgwyr i gwyno am eu profiad dysgu. Rydym yn cynnig y dylai'r Comisiwn fod yn gyfrifol am sicrhau bod gan ddarparwyr addysg drydyddol weithdrefnau cwyno priodol ar waith a'u bod yn cyfathrebu â dysgwyr yn effeithiol yn eu cylch.
- 16.21 Er bod trefniadau yn yr Alban a Lloegr i ddysgwyr allu cyfeirio cwynion heb eu datrys i gorff annibynnol, nid oes trefniant cyfatebol ar gyfer addysg bellach a

phrentisiaethau yng Nghymru. Mae'n hollbwysig ein bod yn mynd i'r afael â hyn er mwyn sicrhau dull gweithredu gwell a mwy integredig a bod y trefniadau ar gyfer addysg bellach a phrentisiaethau'r un peth â'r trefniadau ar gyfer addysg uwch.

Yr opsiynau a ystyriwyd a'r dull a ffeirir

Busnes fel arfer

16.22 Yn yr achos hwn, byddai senario busnes fel arfer (dim newid) yn golygu bod y trefniadau cyfredol yn parhau heb eu newid.

Prif fanteision busnes fel arfer

16.23 Prif fanteision yr opsiwn 'busnes fel arfer':

- Ni fyddai'n amharu ar y trefniadau gweithio presennol.
- Er bod safon y ddarpariaeth yn amrywio rhwng darparwyr, mae trefniadau yn eu lle i ddiogelu dysgwyr ac ymdrin â chwynion.
- Ni fyddai unrhyw newid i ddarparwyr nac amharu ar eu gwaith.
- Ni fyddai costau ychwanegol i ddarparwyr addysg bellach a phrentisiaethau ar gyfer tanysgrifio i Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol.

Prif risgiau busnes fel arfer

16.24 Ar hyn o bryd, mae anghysondeb ar draws darparwyr gyda threfniadau gwahanol ar gyfer dysgwyr yn dibynnu ble ac ar ba lefel y maent yn astudio.

16.25 Ceir gwahaniaethau hefyd yn dibynnu ar y rhan o'r sector a astudir ynddi. Er enghraifft, nid yw dysgwyr sy'n astudio (cyrsgiau nad ydynt yn gyrsiau addysg uwch) mewn sefydliadau addysg bellach na phrentisiaid yn gallu cyfeirio eu cwynion heb eu datrys i gorff annibynnol.

16.26 Byddai risg, o gadw pethau heb eu newid, na fydd rhai dysgwyr yn profi'r un lefel o ddarpariaeth o ran trefniadau diogelu a chwynion ag eraill. Felly, mae angen cyflwyno dull mwy safonedig er mwyn bod yn deg â phob dysgwr.

Opsiwn 2 - y dull a ffeirir

Cynlluniau Diogelu Dysgwyr

16.27 Bydd y Comisiwn yn gallu ei gwneud yn ofynnol i ddarparwr addysg drydyddol sydd wedi'i gofrestru â'r Comisiwn neu sy'n derbyn cyllid gan y Comisiwn gyflwyno cynllun diogelu dysgwr i'w gymeradwyo. Rhoddir disgresiwn i'r Comisiwn benderfynu pa rai o'r darparwyr hyn fydd yn gorfod cyflwyno cynllun diogelu dysgwyr, a hynny er mwyn lleihau'r posibilrwydd bod gofyn i ddarparwyr lunio cynllun lle nad yw'n briodol nac yn gymesur iddynt wneud hynny.

16.28 Ni fydd y Comisiwn yn gallu rhoi hysbysiad i awdurdodau lleol yn gofyn iddynt gyflwyno cynllun diogelu dysgwyr yn ymwneud â darpariaeth chweched dosbarth ysgolion. Bydd chweched dosbarth ysgolion yn cael eu hepgor gan fod trefniadau cadarn wedi'u sefydlu eisoes ar gyfer trosglwyddo disgyblion drwy'r Ffeil Drosglwyddo Gyffredin. Y nod o wneud hyn yw osgoi cyflwyno baich gweinyddol ychwanegol ar ysgolion ar gyfer rheoli trefniadau gwahanol i ddisgyblion cyn-16 ac

ôl-16, a hefyd osgoi dryswch posibl i ddysgwyr a rhieni a allai godi pe bai trefniadau gwahanol i ddisgyblion cyn-16 ac ôl-16.

- 16.29 Cynigir y bydd cynllun diogelu dysgwyr yn amlinellu trefniadau'r darparwr addysg drydyddol ar gyfer:
- diogelu buddiannau personau sy'n dilyn cwrs addysg drydyddol a ddarperir gan neu ar ran y darparwr addysg drydyddol os bydd y darparwr yn rhoi'r gorau i ddarparu'r cwrs am unrhyw reswm;
 - cefnogi person sy'n dilyn cwrs addysg drydyddol a ddarperir gan neu ar ran y darparwr addysg drydyddol, ac sy'n dymuno trosglwyddo i gwrs addysg drydyddol arall (p'un a yw'r cwrs hwnnw'n cael ei ddarparu gan neu ar ran y darparwr neu berson arall).
- 16.30 Bydd y Comisiwn yn gwneud trefniadau ar gyfer datblygu a chymeradwyo cynlluniau diogelu dysgwyr. Bydd yn ofynnol i'r Comisiwn ddarparu canllawiau ar baratoi a diwygio'r cynlluniau hyn. Bydd gofyn iddo hefyd ymgynghori â rhanddeiliaid wrth baratoi'r canllawiau hyn.
- 16.31 Bwriedir mabwysiadu dull cymesur ar gyfer llunio cynlluniau diogelu dysgwyr, nad yw'n rhoi baich ychwanegol diangen ar ddarparwyr. Byddai'r cynlluniau ar ffurf sy'n briodol i'r darparwr a'i strwythurau, a gellid eu hymgorffori i ddogfennau eraill lle bo'n briodol.
- 16.32 Bydd yn ofynnol i'r Comisiwn fonitro effeithiolrwydd cynlluniau diogelu dysgwyr a chynnwys casgliadau'r gwaith monitro hwn yn ei adroddiad blynyddol ar effeithiolrwydd y cynlluniau yn ystod y flwyddyn ariannol y mae'r adroddiad yn berthnasol iddi.
- 16.33 Bydd yn ofynnol iddo hefyd fonitro effeithiolrwydd cynlluniau diogelu dysgwyr a chynnwys casgliadau'r gwaith monitro hwn yn ei adroddiad blynyddol ar effeithiolrwydd y cynlluniau yn ystod y flwyddyn ariannol y mae'r adroddiad yn berthnasol iddi.

Y trefniadau i ddiogelu dysgwyr

- 16.34 Bydd dyletswydd ar y Comisiwn i gymryd y cyfryw gamau y mae eu hystyried yn briodol i sicrhau bod gan ddarparwyr addysg drydyddol weithdrefn yn ei lle ar gyfer ymchwilio i gwynion am weithred neu anweithred gan y darparwr wrth bersonau sy'n derbyn neu wedi derbyn addysg drydyddol a ddarparwyd gan neu ar ran y darparwr. Bydd yn ofynnol i'r Comisiwn sicrhau hefyd bod darparwyr yn cymryd camau rhesymol i dynnu'r weithdrefn i sylw personau sy'n derbyn addysg drydyddol a ddarperir gan neu ar ran y darparwr.
- 16.35 Bydd Gweinidogion Cymru'n gallu pennu, drwy reoliadau, bod sefydliad neu berson arall sy'n derbyn cyllid o dan y Bil yn sefydliad cymwys at ddiben y cynllun cwynion myfyrwyr. Ni fydd Gweinidogion Cymru'n gallu pennu awdurdodau lleol yn yr un modd mewn perthynas â darpariaeth chweched dosbarth ysgolion. Golyga hyn y gall darparwyr gael eu cynnwys yn y cynllun yn raddol, gan roi amser i Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol a darparwyr unigol allu cynyddu eu capasiti.
- 16.36 Fodd bynnag, ni fydd chweched dosbarth ysgolion yn cael eu cynnwys yn y cynigion hyn gan fod trefniadau sefydledig yn eu lle ar gyfer ymdrin â chwynion ynghylch

ysgolion ac felly mae'n rhaid iddynt gyd-fynd â Llywodraeth Cymru. Y nod o wneud hyn yw osgoi cyflwyno baich gweinyddol ychwanegol ar ysgolion ar gyfer rheoli trefniadau gwahanol i ddisgyblion cyn-16 ac ôl-16, a hefyd osgoi dryswch posibl i ddysgwyr a rhieni a allai godi pe bai trefniadau gwahanol i ddisgyblion cyn-16 ac ôl-16.

Prif fanteision y dull a ffefrir

Y trefniadau i ddiogelu dysgwyr

16.37 Er bod gan ddarparwyr dysgu drefniadau yn eu lle eisoes i ddiogelu dysgwyr, mae'r rhain yn amrywio yn dibynnu ar y darparwr a'r lefel astudio (gweler y trefniadau presennol). Bydd y diwygiadau arfaethedig yn helpu i sicrhau rhywfaint o gysondeb ac yn helpu dysgwyr i barhau i astudio mewn ystod o amgylchiadau. Bydd y cynigion yn galluogi'r Comisiwn i bennu sut orau i ddiogelu buddiannau dysgwyr mewn darparwyr gwahanol mewn ymgynghoriad â'r darparwyr a'r dysgwyr. Bydd yn ofynnol i'r Comisiwn fonitro effeithiolrwydd y cynlluniau diogelu dysgwyr a chynnwys ei gasgliadau yn ei adroddiad blynyddol. Bydd hyn yn caniatáu rhannu arferion da ar draws y sector.

Y trefniadau ar gyfer delio â chwynion a'u datrys

16.38 Bydd y cynnig i'r Comisiwn oruchwylio'r cyfrifoldeb ar ddarparwyr addysg drydyddol i fod â gweithdrefnau cwyno yn eu lle a'u cyfathrebu'n effeithiol i ddysgwyr, yn mynd i'r afael â'r anghysondeb yn y prosesau ar gyfer cwynion ac yn sicrhau mwy o dryloywder ac eglurder i ddysgwyr. Bydd hyn yn sicrhau dull gwell a mwy integredig o ymdrin â chwynion ar draws y sector addysg drydyddol.

16.39 Bydd y cynigion yn ehangu cwrpas y cynllun datrys cwynion annibynnol i unigolion sy'n astudio cyrsiau addysg bellach a phrentisiaid.

Prif risgiau'r dull a ffefrir

Y trefniadau i ddiogelu dysgwyr

16.40 Gallai fod costau adnodd i ddarparwyr ar gyfer llunio cynlluniau diogelu dysgwyr. Ni ddylai'r costau hyn fod yn sylweddol fodd bynnag, oherwydd bwriedir mabwysiadu dull cymesur ar gyfer llunio cynlluniau diogelu dysgwyr, nad yw'n rhoi baich ychwanegol diangen ar ddarparwyr. Nid yw'r costau hyn yn hysbys ar hyn o bryd ac maent yn debygol o aros felly nes y cyfnod gweithredu, gan y bydd angen i'r Comisiwn newydd ddatblygu canllawiau ar y cynlluniau.

Y trefniadau ar gyfer delio â chwynion a'u datrys

16.41 Bydd ehangu'r cynllun cwynion annibynnol yn rhoi baich ychwanegol ar Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol a darparwyr nad ydynt wedi gorfod bod yn aelodau o'r cynllun yn y gorffennol. Bydd gofyn i aelodau newydd y cynllun dalu ffi tanysgrifio i Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol ac efallai y bydd ffi'r darparwyr hynny sydd eisoes yn aelodau yn cynyddu wrth i ddysgwyr newydd gael eu cynnwys.

Pennod 17. Opsiynau manwl ar gyfer diwygio - Cryfhau llais a chynrychiolaeth dysgwyr

Y trefniadau presennol

- 17.1 Ar hyn o bryd, ceir trefniadau gwahanol ar draws y sector addysg drydyddol ar gyfer sicrhau cynrychiolaeth i ddysgwyr ac ymgysylltu â nhw, yn dibynnu ar y darparwr. Nid oes un ffordd safonedig o gyflawni hyn. Bydd y diwygiadau'n sefydlu system newydd ar draws y sector er mwyn helpu i sicrhau lefel o gysondeb i ddysgwyr.
- 17.2 Mae sefydliadau addysg uwch, mewn partneriaeth â CCAUC ac UCMC, wedi ymgorffori partneriaeth myfyrwyr yn eu sefydliadau, ac mae'n ofynnol i undebau myfyrwyr lunio adroddiad ansawdd blynyddol ac i bob darparwr addysg uwch gael siarter myfyrwyr yn ei le.
- 17.3 Anogir sefydliadau addysg bellach i ddatblygu strategaethau eu hunain ar gyfer cynnwys dysgwyr, gyda chymorth canllawiau Llywodraeth Cymru ar Strategaethau Cynnwys Dysgwyr.
- 17.4 Mae Deddf Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol bod cynrychiolwyr o blith myfyrwyr gan bob sefydliad addysg bellach ar eu cyrff llywodraethu. Dyrannwyd cyllideb o £25,000 i'r tîm Addysg Bellach y llynedd ar gyfer cyflwyno prosiect ymchwil ar y cyd â CCAUC, ac mae'r argymhellion wrthi'n cael eu hystyried.
- 17.5 Cyn hyn, roedd cyllideb fwy o £150,000 yn cael ei neilltuo bob blwyddyn ariannol ar gyfer Arolwg Llais y Dysgwyr Cymru, sef arolwg o foddhad dysgwyr a gynhaliwyd rhwng 2013 a 2015. Roedd yn arolwg yn cwmpasu dysgwyr mewn addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith, dysgu oedolion yn y gymuned a Cymraeg i Oedolion. Yn y gorffennol, roedd y tîm Addysg Bellach yn rhoi cyllid grant i UCM Cymru, ac yn ddiweddarach i bartneriaeth myfyrwyr Wise Cymru.
- 17.6 Caiff sefydliadau addysg bellach eu hannog i ddatblygu cydweithredu a hwylusir gan UCM Cymru, er mwyn helpu i gyflwyno'r canllawiau ar strategaethau llais y dysgwr yn y sector addysg bellach. Roedd y cyllid hwn ar gyfer addysg bellach yn unig a rhoddwyd oddeutu £25,000 ym mhob blwyddyn ariannol.
- 17.7 Yn ôl y gyfraith, mae'n ofynnol i ysgolion, gan gynnwys dosbarthiadau chwech, gael cyngor ysgol er mwyn sicrhau bod llais y disgybl yn cael ei gynrychioli wrth ddatblygu polisiau a gweithdrefnau'r ysgol a thrafod unrhyw faterion eraill sy'n peri pryder.
- 17.8 Caiff prentisiaid eu cynrychioli gan Gymdeithas Genedlaethol Prentisiaid Cymru ac mae cael strategaeth ffurfiol ar gyfer cynnwys dysgwyr (fel y nodir uchod ar gyfer addysg bellach) yn un o ofynion y contractau rhwng Llywodraeth Cymru a darparwyr prentisiaethau. Cafodd prentisiaid eu cynnwys yn arolwg Llais y Dysgwyr (fel uchod) rhwng 2013 a 2015.
- 17.9 Ar hyn o bryd, disgwylir i bob darparwr sydd dan gontract weithredu ei arolwg ei hun o ddysgwyr, a gall swyddogion Llywodraeth Cymru ofyn am weld tystiolaeth o'r rhain a sut mae'r darparwr yn ymateb i'r canlyniadau. Caiff hyn ei fonitro drwy'r adroddiad

hunanasesu blynyddol y mae'n ofynnol i ddarparwyr ei gyflwyno. Nid oes cyllideb gyfatebol neu adnoddau ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer hyn.

- 17.10 Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn yn pwysleisio'r angen i sicrhau bod llais y dysgwr yn cael ei ystyried wrth ddatblygu'r cynigion, ac awgrymwyd strwythurau cryfach a mwy ffurfiol ar draws y sector ar gyfer cynrychiolaeth dysgwyr. Awgrymwyd y gellid canolbwyntio mwy ar y dysgwr gan roi cyfle i ddysgwyr ddylanwadu ar y modd y caiff y ddarpariaeth ei threfnu, ac y dylai'r trefniadau fod er budd y dysgwr gan fodloni ei amgylchiadau personol, ei nodau a'i ddyheadau a sicrhau parhad addysg.
- 17.11 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad technegol yn cytuno y dylid datblygu egwyddorion a gwerthoedd cyson ar gyfer llais a chynrychiolaeth dysgwyr, ac y dylai fod yn ofynnol i ddarparwyr dysgu lynu wrthynt. Roeddent yn cytuno hefyd y dylai cynrychiolwyr dysgwyr fod yn rhan o'r gwaith o ddatblygu cytundebau deilliannau ac y dylid sefydlu fframwaith cenedlaethol newydd ar gyfer llais a chynrychiolaeth dysgwyr.
- 17.12 Mae'r adborth a gafwyd gan randdeiliaid i'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn a'r ymgynghoriad technegol yn awgrymu er bod canllawiau ac arferion da eisoes ar waith, bod lle i gryfhau'r ddarpariaeth sydd ar gael ar hyn o bryd. Mae sefydlu'r Comisiwn, gyda'i oruchwyliaeth o'r sector addysg drydyddol cyfan, yn gyfle delfrydol ar gyfer dull mwy cydgysylltiedig sy'n canolbwyntio ar y dysgwr, gyda safonau lefel uchel a chodau ymarfer ar gyfer sefydliadau.

Yr opsiynau a ystyriwyd a'r dull a ffefrir

Opswim 1 - Busnes fel arfer

- 17.13 Bydd senario busnes fel arfer (dim newid) ond yn berthnasol pe na bai'r diwygiadau i sefydlu'r Comisiwn yn cael eu gweithredu

Prif fanteision busnes fel arfer

- 17.14 Prif fantais yr opsiwn hwn yw bod y system eisoes yn ei lle y mae pawb yn ei deall. Er bod safon y gynrychiolaeth yn amrywio o'r naill ddarparwr i'r llall, ceir rhywfaint o gynrychiolaeth i ddysgwyr ac ymgysylltu â dysgwyr ar draws y gwahanol rannau o'r sector.

Prif risgiau busnes fel arfer

- 17.15 Ar hyn o bryd mae'r gynrychiolaeth i ddysgwyr yn y sector yn amrywio yn dibynnu ar y darparwr, gyda rhai darparwyr yn cynnig mwy o gymorth na darparwyr eraill. Ceir gwahaniaethau hefyd yn dibynnu ar y rhan o'r sector a astudir ynddi.
- 17.16 Mae risg, o aros gyda'r opsiwn hwn, y gallai rhai dysgwyr fod â llai o gynrychiolaeth nag eraill, ac roedd rhanddeiliaid o'r farn y byddai dull gweithredu mwy safonol neu egwyddorion safonol ar draws y gwahanol fathau o ddarpariaeth yn mynd i'r afael â'r anghydraddoldebau hyn.

Opsiwn 2 - y dull a ffefrir

- 17.17 Ar hyn o bryd, y gofyniad i sefydlu cynghorau ysgol yw'r unig ofyniad sydd wedi'i gynnwys mewn deddfwriaeth. Bydd cyflwyno canllawiau a safonau ar draws rhannau eraill o'r sector yn gofyn am greu dyletswyddau a phwerau newydd.
- 17.18 Mae'r cynigion yn cynnwys datblygu cod ymgysylltu â dysgwyr, a bydd yn ofynnol i bob darparwr dysgu lynu ato. Fel rhan o hyn, bydd yn ofynnol i ddarparwyr dysgu nodi sut y mae dysgwyr wedi'u cynrychioli.
- 17.19 Bydd dyletswydd ar y Comisiwn i ymgynghori â darparwyr, cyrff sy'n cynrychioli myfyrwyr a rhanddeiliaid eraill wrth baratoi'r cod ymgysylltu â dysgwyr. Bydd yn ofynnol i'r Comisiwn fonitro ac adrodd ar effeithiolrwydd y Cod fel rhan o'r broses adrodd flynyddol. Disgwylir i ddarparwyr dysgu gyflwyno adroddiad monitro i'r Comisiwn drwy eu prosesau adroddiad blynyddol sy'n dangos tystiolaeth o'u hymgysylltu â dysgwyr.
- 17.20 Bydd yn ofynnol i'r Comisiwn adolygu'r cod ymgysylltu â dysgwyr yn rheolaidd ac, os ydynt o'r farn bod hynny'n briodol, paratoi a chyhoeddi Cod diwygiedig.
- 17.21 Disgwylir i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau ar y gofynion lefel uchel ar gyfer y Cod, a bydd dyletswydd ar y Comisiwn i roi sylw i'r canllawiau hyn.
- 17.22 Rhagwelir y bydd y canllawiau gan Weinidogion Cymru yn cynnwys dwy ran:
- datganiad o egwyddorion lefel uchel i helpu darparwyr dysgu i sefydlu cynrychiolaeth effeithiol ar gyfer eu dysgwyr.
 - camau ymarferol yn nodi sut y gellir sicrhau ymgysylltu ac ymwneud effeithiol â dysgwyr.

Prif fanteision y dull a ffefrir

- 17.23 Bydd y dull a ffefrir yn cyflwyno system safonol ar draws y sector addysg drydyddol cyfan ar gyfer cynrychioli ac ymgysylltu â dysgwyr, a bydd disgwyl i ddarparwyr dysgu gadw at y system honno. Y bwriad yw y bydd hyn yn sicrhau bod pob dysgwr ar draws y sector yn cael yr un cyfle a'r un lefel o gynrychiolaeth ac ymgysylltu, waeth pa ddull o addysg drydyddol y maent yn dewis ei ddefnyddio i astudio.
- 17.24 Dylai hyn greu system sy'n canolbwyntio mwy ar y dysgwr, gan sicrhau bod ymgysylltu â dysgwyr yn cael ei drin yr un mor ddifrifol â gofynion rheoleiddio eraill drwy'r sector.

Prif risgiau'r dull a ffefrir

- 17.25 Y prif risg a ragwelwyd gan yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn a'r ymgynghoriad technegol oedd y risg mewn perthynas â gallu'r gwahanol sectorau i ymgysylltu â dysgwyr mewn ffordd safonol, o ystyried yr amrywiaeth o drefniadau dysgu a dulliau dysgu rhwng darparwyr unigol.
- 17.26 Fodd bynnag, dylid nodi bod disgwyl i'r cod ymgysylltu â dysgwyr fod yn ddigon hyblyg i sicrhau bod dysgwyr yn cael eu cynrychioli mewn nifer o ffyrdd gwahanol. Yr hyn sydd bwysicaf yw sicrhau bod yr un lefel, safon ac ymrwymiad i ymgysylltu ar draws pob sector, waeth pa ddull a ddefnyddir.

Opsiwn 3

17.27 Mae opsiwn 3 yr un peth ag opsiwn 2 ac eithrio'r cynigion canlynol:

- Cael cynrychiolwyr ar gyfer dysgwyr ar Fwrdd y Comisiwn.
- Dim ond Fframwaith Cenedlaethol fyddai'n cael ei ddatblygu i sicrhau cysondeb ar draws y sector addysg drydyddol (rhan un o'r cod ymgysylltu â dysgwyr a nodir yn opsiwn 2). Byddai hyn ond yn darparu egwyddorion lefel uchel ar gyfer cyrff cynrychioli dysgwyr a dim manylion pellach.

Prif fanteision opsiwn 3

17.28 Byddai dysgwyr yn cael eu cynrychioli ar Fwrdd y Comisiwn ac felly'n cael dweud eu dweud ynghylch sut mae'r Comisiwn yn cael ei reoli.

17.29 Bydd yn rhaid i ddarparwyr sicrhau bod anghenion dysgwyr yn cael eu hystyried wrth lunio a chytuno ar eu mesurau deilliannau.

17.30 Mae'n gwneud synnwyr i eithrio darparwyr prentisiaethau o'r gofynion yn ymwneud â chytundebau deilliannau am eu bod eisoes yn bodloni rhwymedigaethau contractiol llym, a bydd hyn yn dileu haen diangen o fiwrocratiaeth.

17.31 Byddai fframwaith cenedlaethol yn sicrhau mwy o gysondeb o ran yr egwyddorion ar gyfer cynrychioli dysgwyr ar draws y sectorau gwahanol.

Prif risgiau opsiwn 3

17.32 Yn wreiddiol, ac mewn ymateb i'r ymgynghoriad technegol, roedd rhanddeiliaid o'r farn nad neilltuo dau le ar y Bwrdd ar gyfer dysgwyr oedd y ffordd orau ymlaen gan na fyddai modd cynrychioli pob dysgwr o'r sector addysg drydyddol. Yn hytrach, awgrymwyd y gallai'r cynrychiolwyr dysgwyr fod yn arsylwyr ar y Bwrdd, gyda'r gallu i ddylanwadu.

17.33 Gwelwyd mewn digwyddiadau i randdeiliaid bod y feddylfryd hon bellach wedi newid, ac erbyn hyn byddai'n well gan Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr (yn benodol) bod dau gynrychiolydd ar gyfer dysgwyr yn aelodau llawn o'r Bwrdd.

Pennod 18. Opsiynau manwl ar gyfer diwygio - Data, ystadegau ac ymchwil

Y trefniadau presennol a'r achos dros newid

CYBLD, Casgliad Data Ôl-16 a Chofnod Dysgu Gydol Oes Cymru

- 18.1 Ar hyn o bryd, mae data'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) a data ôl-16 yn cael eu casglu gan Lywodraeth Cymru oddi wrth yr awdurdodau lleol, sy'n eu casglu wrth ysgolion.
- 18.2 Mae CYBLD yn gasgliad data statudol a gesglir bob mis Ionawr ac mae'n cofnodi manylion personol yr holl ddisgyblion sy'n mynychu ysgol ar yr adeg honno, ond nid yw'n cynnwys gwybodaeth am eu cymwysterau. Caiff casgliad CYBLD ei reoli gan y tîm ystadegau ysgolion yng Ngwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru. Cyflwynir y data gan ysgolion ac awdurdodau lleol i Lywodraeth Cymru drwy ddefnyddio gwefan cyfnewid data ddiogel a ddarparwyd yn benodol at y diben hwnnw gan Weinidogion Cymru, fel sy'n ofynnol mewn deddfwriaeth.
- 18.3 Mae'r data ôl-16 yn gasgliad ôl-weithredol a gesglir yn fuan ar ôl dechrau'r flwyddyn academaidd. Mae'n cynnwys manylion y gweithgareddau dysgu, y rhaglenni a'r cymwysterau a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn academaidd flaenorol gan ddysgwyr chweched dosbarth mewn ysgolion uwchradd a gynhelir, ysgolion canol ac ysgolion arbennig. Caiff y data hyn eu defnyddio wedyn i lywio penderfyniadau Gweinidogion Cymru ynghylch cyllido'r ddarpariaeth chweched dosbarthiad. Mae'r casgliad yn cynnwys disgyblion sydd ym Mlwyddyn 12 neu uwch yn y cwricwlwm cenedlaethol ar unrhyw adeg yn y flwyddyn academaidd flaenorol, a chan ei fod yn gasgliad data statudol mae'n rhaid i bob sefydliad a gynhelir gyflwyno ffurflen casglu data ôl-16.
- 18.4 Yn ogystal, mae awdurdodau lleol yn darparu ffurflenni data statudol am ddysgwyr sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol (EOTAS). Mae hyn yn cynnwys plant sy'n cael eu haddysgu gartref neu yn yr ysbyty er enghraifft, yn ogystal â phlant mewn unedau cyfeirio disgyblion (UCD). Mae'r rhan fwyaf o'r data yn ymwneud â phlant o oedran ysgol gorfodol, ond mae nifer fechan o ddysgwyr ôl-16 wedi'u cynnwys hefyd.
- 18.5 Mae data disgyblion ar gyfer y cyfrifiad ôl-16 yn cael eu chadw gan ysgolion yn ei system gwybodaeth reoli, sy'n feddalwedd a gaiff ei phrynu a'i chontractio gan gyflenwyr meddalwedd fasnachol gan ysgolion a/neu awdurdodau lleol. Rhaid i ysgolion a gynhelir ddarparu data statudol i'r awdurdodau lleol sy'n eu cynnal.
- 18.6 Mae'r data ar gyfer y ffurflen EOTAS yn cael ei gadw gan awdurdodau lleol yn eu meddalwedd nhw. Cyflwynir y data gan ysgolion ac awdurdodau lleol i Lywodraeth Cymru gan ddefnyddio gwefan cyfnewid data ddiogel a ddarparwyd yn benodol at y diben hwnnw gan Weinidogion Cymru, fel sy'n ofynnol mewn deddfwriaeth. Caiff y gofyniad deddfwriaethol hwn ei fodloni ar hyn o bryd drwy gyswllt sydd gan Lywodraeth Cymru, gan weithio gyda phartner meddalwedd i ddatblygu gofynion ar gyfer casgliadau data statudol a'r wefan cyfnewid data.

- 18.7 Mae Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR) yn casglu data am y ddarpariaeth dysgu ar gyfer addysg ôl-16 (dysgwyr nad ydynt mewn addysg uwch yng Nghymru ac sydd yn y sectorau addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith a dysgu oedolion yn y gymuned.
- 18.8 Cyflwynir data LLWR i Lywodraeth Cymru gan y sefydliadau addysg perthnasol. Mae Tîm Rheoli Data LLWR yn rheoli'r casgliad. Mae'n ofynnol i ddarparwyr dysgu ôl-16 gyflwyno data ar ddysgwyr yng Nghymru drwy Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru.
- 18.9 Ers 2017, mae LLWR ond yn casglu data gan ddarparwyr hyfforddiant sy'n ceisio cyllid llawn neu rannol ar gyfer eu dysgwyr. Bydd data dysgwyr yn cael ei brosesu drwy'r modelau cyllido perthnasol i sicrhau bod y telerau ac amodau ar gyfer cyllid yn cael eu bodloni.
- 18.10 Gall data gael ei gyflwyno i gronfa ddata LLWR ar unrhyw adeg. Bob mis, cymerir ciplun o'r data er mwyn gallu cyfrifo/talu cyllid a monitro i bwynt penodol mewn amser.
- 18.11 Mae casgliad LLWR yn sail i lawer o agweddau ar waith Llywodraeth Cymru, gan gynnwys cynllunio, cyllido, monitro, sicrhau ansawdd a datblygu polisi ar gyfer darpariaeth ôl-16. Mae'r data hefyd yn darparu'r ffynhonnell swyddogol o ystadegau ar y sector ôl-16.
- 18.12 Mae adroddiadau ar gael i ddarparwyr trwy system ar wahân o'r enw LLWR Inform.

Casgliad data addysg uwch

- 18.13 Mae CCAUC yn casglu data gan sefydliadau addysg uwch drwy'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA). Caiff ei gyllido drwy danysgrifiadau gan y sefydliadau y mae'n casglu data ganddynnt. Mae HESA yn prosesu ac yn cyhoeddi data am addysg uwch yn y Deyrnas Unedig. Mae'r berthynas rhwng CCAUC a HESA yn gytundebol ac yn cael ei rheoli gan gytundeb rhannu data sydd wedi bod mewn grym ers 2010.

Llywodraeth Cymru

- 18.14 Ceir tri thîm o fewn Llywodraeth Cymru sy'n cefnogi gwaith datblygu polisi perthnasol:
- datblygu fframwaith ansawdd ac effeithiolrwydd ar gyfer dysgu ôl-16: gan gynnwys addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith a dysgu yn y gymuned. Datblygu mesurau perfformiad ar gyfer darparwyr dysgu. Gweithio gydag Estyn ar faterion yn ymwneud â dysgu ôl-16. Goruchwyllo'r gwaith o gasglu data LLWR ar gyfer dysgu ôl-16, a sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio'n effeithiol i lywio prosesau monitro polisi a pherfformiad.
 - addysg a sgiliau trawsbynciol: gan gynnwys cymwysterau oedolion o oed gweithio, cyfranogiad pobl ifanc mewn addysg a'r farchnad lafur (gan gynnwys pobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant), data cyrchfannau disgyblion, data am y gwasanaeth ieuencid, ystadegau addysg bellach, a datblygu mesurau perfformiad cyson.

- y Tîm Casgliadau Data yn y Gangen Gwybodaeth a Gwella Ysgolion sy'n gyfrifol am y polisi casglu data a chynnal a chadw DEWi²², ac mae'n cynhyrchu manylebau meddalwedd ar gyfer casgliadau data addysgol sy'n galluogi cyflenwyr meddalwedd i ddatblygu eu systemau ac yn rhoi Nodiadau Cwblhau Technegol i ysgolion ac awdurdodau lleol er mwyn helpu defnyddwyr i gwblhau ffurflenni data. Mae'r tîm casgliadau data hefyd yn gyfrifol am ddatblygu CYBLD, EOTAS, casgliadau ôl-16, y Cyfrifiad Blynyddol o'r Gweithlu Ysgolion, y Casgliad Data Cenedlaethol, Profion Cenedlaethol Cymru, data presenoldeb Cynradd ac Uwchradd a Chronfa Ddata Arholiadau Cymru.

18.15 Y prif sbardun ar gyfer diwygio yw galluogi trosglwyddo swyddogaethau a phwerau i'r Comisiwn i'w alluogi i gasglu a storio ei ddata ei hun er mwyn:

- pennu dyraniadau cyllid;
- pennu a monitro blaenoriaethau strategol a gweithredol;
- monitro perfformiad ac ansawdd y sector;
- monitro a chynnydd a chyrchfannau dysgwyr;
- llywio polisiâu yn y dyfodol;
- pennu cyllid ar gyfer ymchwil sy'n gyson â blaenoriaethau'r Comisiwn;
- monitro'r gwaith o gyflawni gweithgarwch ymchwil gyda darparwyr.

18.16 Mae galluogi'r Comisiwn newydd i gasglu a storio ei ddata ei hun yn cyflawni ei amcanion i wella'r system ddata a gwybodaeth ar gyfer y sector addysg drydyddol cyfan sy'n sicrhau bod gwybodaeth amserol, defnyddiol, hygyrch a pherthnasol ar gael am addysg drydyddol yng Nghymru i bawb sydd ei hangen. Mae hefyd yn galluogi defnyddio data i lywio penderfyniadau cyllido a chynllunio strategol, i gynyddu ymatebolrwydd i faterion sy'n dod i'r amlwg a sicrhau llwybrau effeithiol ar gyfer deilliannau dysgwyr yn yr hirdymor.

18.17 Dangosodd yr ymatebion i'r ddogfen ymgynghori fod mwyafrif yr ymatebwyr ar draws yr holl sectorau presennol yn cytuno y dylai'r Comisiwn newydd berchnogi pob set ddata. Roeddent yn teimlo y byddai hyn yn rhoi cyfle i adolygu'r ddarpariaeth bresennol, gan sicrhau tystiolaeth gadarn i seilio penderfyniadau arni. Fe'i gwelwyd hefyd yn gyfle i adolygu'r modd y cesglir y data hyn yn gyffredinol, er mwyn sicrhau ansawdd a chymaroldeb y data ar draws pob sector.

18.18 Roedd cytundeb cyffredinol ym mhob sector y dylid rhoi dyletswydd ar ddarparwyr i fonitro a rhannu'r data hyn â'r Comisiwn. Fodd bynnag, nodwyd na ddylai'r ddyletswydd hon gynyddu llwyth gwaith darparwyr.

18.19 Roedd y sectorau addysg uwch ac addysg bellach o'r farn bod trosglwyddo data yn ddiraffferth yn hollbwysig er lles pennaf dysgwyr ac y byddai'r gallu i olrhain cynnydd dysgwyr a deall gallu dysgwyr yn fuddiol iawn.

Opsiynau a ystyriwyd a'r dull a ffefrir

Opwim 1 - Busnes fel arfer

18.20 Ni fyddai'r opsiwn hwn ym amharu ar y trefniadau presennol ar gyfer ymchwil ac ystadegau. Byddai data LLWR, CYBLD ac ôl-16 yn parhau i fod yn rhan o gylch

²² Y safle trosglwyddo diogel ar gyfer data yng Nghymru. Ar gyfer trosglwyddo ffurflenni statudol i awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru. Defnyddir DEWi i gasglu data EOTAS, CYBLD a'r casgliad ôl-16.

gwaith Llywodraeth Cymru. Byddai HESA yn casglu data addysg uwch a fyddai wedyn yn cael ei rannu â Llywodraeth Cymru.

Prif fanteision busnes fel arfer

18.21 Ni fyddai'n amharu ar y trefniadau presennol. Ni fyddai staff CCAUC na Llywodraeth Cymru yn wynebu unrhyw newid nac amharu ar eu gwaith. Ni fyddai darparwyr yn ychwaith profi unrhyw newid nac amhariaeth.

Prif risgiau busnes fel arfer

18.22 Ni fyddai unrhyw system casglu data, dadansoddi, storio a rhannu gwybodaeth ar gyfer y sector addysg drydyddol cyfan. Byddai'r casgliadau data yn parhau i gael eu rheoli ar wahân heb unrhyw gysondeb yn y ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr.

18.23 Byddai diffyg system a reolir yn ganolog yn llesteirio unrhyw asesiad o werth am arian, yn gwneud nodi bylchau a dyblygu yn anodd ac ni fyddai'n galluogi darparu gwybodaeth amserol a pherthnasol i'r rheini sydd ei hangen.

18.24 Heb oruchwyliaeth ganolog o'r system gyfan, byddai hefyd yn anodd sicrhau llwybrau di-dor, sydd wedi'u cynllunio'n dda, i ddysgwyr ar draws pob sector a sicrhau ffocws parhaus a chyson ar ansawdd y ddarpariaeth. Mae'r trefniadau presennol yn peri risg i Lywodraeth Cymru gan na all Gweinidogion Cymru ddefnyddio'r data sydd ar gael i lywio penderfyniadau cyllido a chynllunio strategol yn effeithiol neu i ymateb yn well i faterion sy'n dod i'r amlwg gan ddarparu llwybrau effeithiol ar gyfer deilliannau dysgwyr yn yr hirdymor.

Opsiwn 2 - y dull a ffeirir

18.25 Bydd gan y Comisiwn y gallu i olrhain cynnydd pob dysgwr unigol o'r pwynt y mae'n gadael addysg orfodol ac yn dechrau mewn addysg bellach, prentisiaethau neu addysg uwch. Bydd y Comisiwn yn casglu'r wybodaeth hon ac yn cynnal gwaith ymchwil a dadansoddiad ystadegol o gynnydd dysgwyr yn gyffredinol, gan gymharu'r rheini mewn categorïau penodol.

18.26 Byddai'r Comisiwn yn defnyddio'r wybodaeth hon i arfer ei swyddogaethau ei hun ac i helpu Gweinidogion Cymru i ddatblygu polisiau. Bydd hyn yn golygu prosesu llawer iawn o o ddata personol yn unol â gofynion prosesu cyfreithlon y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data cyffredinol.

18.27 Felly, bydd gan y Comisiwn bwerau diffiniedig sy'n caniatáu iddo dderbyn, prosesu a rhannu data dysgwyr ym mhob cam. Bydd angen i'r Comisiwn gael mynediad i Gronfa Ddata Arholiadau Cymru a'r Astudiaeth Deilliannau Addysg Hydredol (LEOS) er mwyn gwneud hyn. Fodd bynnag, ceir nifer o opsiynau ynghylch sut y bydd y llif data yn gweithio'n ymarferol, sydd heb eu ystyried yn fanwl eto.

18.28 Bydd Gweinidogion Cymru'n parhau i dderbyn data CYBLD ac EOTAS gan awdurdodau lleol, a fydd yn parhau i fod yn gyfrifol am gasglu'r data cychwynnol gan ysgolion a dysgwyr. Wedyn, bydd Llywodraeth Cymru'n prosesu'r data i wahanu'r rhannau hynny sy'n ymwneud ag addysg bellach yn hytrach nag addysg orfodol, ac yn trosglwyddo data addysg bellach i'r Comisiwn. Bydd Gweinidogion Cymru'n

parhau i ddibynnu ar eu pwerau presennol i ofyn am, casglu a phrosesu'r data, a rhoddir pwerau digonol iddynt i rannu gwybodaeth â'r Comisiwn.

- 18.29 Bydd y Comisiwn yn gyfrifol am y data presennol a gesglir cyn iddo ddod i fodolaeth, gan y bydd yn derbyn yr holl ddata sydd gan CCAUC ar hyn o bryd yn ogystal â data sylweddol gan Weinidogion Cymru. Bydd yn gallu prosesu a chyfuno setiau data gwahanol: er enghraifft, cysylltu data LLWR a data ôl-16 â'r hyn a geir gan HESA er mwyn dadansoddi cynnydd dysgwyr sy'n symud o addysg bellach i addysg uwch.
- 18.30 Bydd y Comisiwn hefyd yn gallu ymrwmo i drefniadau gyda thrydydd partïon i gasglu a phrosesu data ar ei ran (e.e. gyda HESA ar gyfer data AU). Gall y Comisiwn gynnal y trefniadau casglu data presennol neu wneud newidiadau os a phan fydd yn dymuno gwneud hynny.
- 18.31 Gall y Comisiwn gyhoeddi ymchwil sy'n deillio o'i ddadansoddiad o ddata, gan gynnwys gwybodaeth ystadegol, ar yr amod bod yr holl wybodaeth bersonol yn ddiennw fel nad oes unrhyw beth sy'n gallu adnabod unigolyn yn cael ei gyhoeddi. Gall hefyd gcontractio trydydd partïon i wneud cyhoeddiad o'r fath, yn amodol ar yr un cyfyngiad ar adnabod unigolion.
- 18.32 Yn olaf, byddai dyletswydd yn cael ei gosod ar y Comisiwn i hyrwyddo arfer da o ran rhannu data ymhlith yr unigolion a'r cyrff y mae'n eu cyllido neu'n eu rheoleiddio: er enghraifft drwy gyhoeddi canllawiau ar systemau TGCh a diogelwch gwybodaeth. Dylai adolygu ei ganllawiau a'u diweddarau neu ddarparu ganllawiau newydd pan fo'n ystyried hynny'n angenrheidiol.

Prif fanteision y dull a ffefrir

- 18.33 Bydd y Comisiwn mewn sefyllfa i edrych yn gyffredinol ar effeithiolrwydd y sector addysg drydyddol cyfan.
- 18.34 Mantais y dull hwn o weithredu fydd mai'r Comisiwn fyddai â'r cyfrifoldeb cyffredinol am ddata LLWR/data ôl-16 CYBLD, ac felly rheolaeth dros ansawdd a sicrwydd data. Bydd hyn, yn ei dro, yn arwain at ddealltwriaeth well o ddata addysg bellach a chweched dosbarth yn gyffredinol, a fydd hefyd yn gwella unrhyw ymchwil ategol a gweithgarwch ystadegol (e.e. adrodd am ddata, nodi bylchau/ dyblygu etc). Byddai gwelliant o'r fath hefyd yn arwain at berthynas well gyda chyflenwyr data addysg bellach ac AALI.
- 18.35 Byddai hyn yn golygu data mwy cydlynol a mwy amserol hefyd, oherwydd bydd gan y Comisiwn yr hyblygrwydd i ofyn am ddata newydd/diwygio ceisiadau data cyfredol gan ddarparwyr addysg bellach ac ôl-16 yn uniongyrchol.

Prif risgiau'r dull a ffefrir

18.36 Dyma'r peryglon a ddaw yn sgil yr opsiwn hwn:

- Dibynnu ar drydydd parti i gael data addysg uwch. Bydd AALlau yn parhau i fod yn gyfrifol am gasglu'r data cychwynnol gan ysgolion a dysgwyr, a byddai AALlau a sefydliadau addysg bellach yn cyflwyno data i'r Comisiwn yn hytrach

na Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, byddai'r Comisiwn yn dal i ddibynnu ar HESA am ddata addysg uwch.

- Mwy o risg o ran diogelwch data yn sgil prosesu data personol. Byddai angen gweithredu/datblygu system TGCh fwy cadarn at ddibenion casglu a sicrhau ansawdd data ôl-16 CYBLD a data LLWR. Byddai'n rhaid sicrhau hefyd bod staff yn cael hyfforddiant priodol i ymdrin â'r prosesau hyn yn effeithiol.

Pennod 19. Costau a manteision

Cefndir

- 19.1 Mae'r arfarniad llawn o opsiynau wedi'i nodi ym Mhennod 7. Mae'r paragraffau canlynol yn amlinellu'r costau sy'n gysylltiedig â'r dau opsiwn uchaf (opsiynau 6 a 4a), yn ogystal â Busnes fel Arfer (opsiwn 1).
- 19.2 Mae'r broses o asesu cost a manteision yn canolbwyntio ar y cyfnod 10 mlynedd rhwng 2021-22 a 2030-31. Os yw'r Bil yn cael ei basio, disgwylir iddo dderbyn Cydsyniad Brenhinol yn ystod haf 2022, ac o ganlyniad, disgwylir y bydd costau cychwynnol yn cael eu hysgwyddo yn 2022-23. Disgwylir i'r Comisiwn ddod yn gwbl weithredol yn ystod 2023-24. Mae'r cyfnod arfarnu hwn wedi'i ddewis gan fod disgwyl i gostau'r Comisiwn sefydlogi mewn amser byr, ond mae'r manteision a ragwelir yn debygol o gael eu gwireddu yn y tymor canolig i'r hirdymor.
- 19.3 Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn darparu amcangyfrif gorau o gostau a manteision y Bil ar sail y dystiolaeth sydd ar gael. Mae'r dadansoddiad wedi'i lywio drwy ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol a'r gwaith canlynol:
- ymarferiad prisio lefel uchel gan KPMG a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru;
 - rhagdybiaethau rhaglen y Comisiwn adeg llunio'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol;
 - costau sefydliadau tebyg fel Cymwysterau Cymru;
 - adroddiad wedi'i gomisiynu gan Alma Economics – Dadansoddiad cost a budd o ddiwygiadau addysg: Asesiad Cyflym o'r Dystiolaeth (Atodiad B).
- 19.4 Fodd bynnag, roedd angen gwneud nifer o ragdybiaethau i gwblhau'r cyfrifiadau. Mae unrhyw ragdybiaethau a wnaed wedi'u hegluro yn y naratif a/neu'r atodiad rhagdybiaethau (Atodiad A). Mae'r holl amcangyfrifon costau wedi'u talgrynnu i'r £1,000 agosaf.
- 19.5 Yn unol â'r arfer safonol mewn arfarniad economaidd, mae'r amcangyfrifon cost wedi'u disgowntio trwy ddefnyddio cyfradd ddisgownt ganolog 3.5% Trysorlys EM.
- 19.6 Bydd ymarfer diwydrwydd dyladwy yn cael ei gwblhau yn ystod 2022-23 i sicrhau bod yr amcangyfrifon o gostau yn parhau'n gadarn.

Cynllun Gwireddu Manteision

- 19.7 Bwriad y Cynllun Gwireddu Manteision yw:
- Darparu gwybodaeth am y manteision sy'n deillio o'r rhaglen;
 - Nodi'r rhai sy'n gyfrifol am wireddu'r manteision;
 - Nodi llinellau sylfaen er mwyn mesur manteision;
 - Nodi amserlen ar gyfer gwireddu'r manteision;
 - Bod yn sylfaen adolygiadau ar ôl cyflwyno'r rhaglen er mwyn penderfynu a yw'r manteision a gynlluniwyd wedi'u gwireddu.
- 19.8 Mae'r manteision a nodwyd yn y cynllun yn ategu nodau ac amcanion y rhaglen, ac maent yn cyd-fynd â nhw.
- 19.9 Mae'r Cynllun Gwireddu Manteision yn rhan o gyfres o ddogfennau rheoli'r rhaglen. Hefyd, bydd manteision y rhaglen yn cael eu hadlewyrchu yn yr Asesiad Effaith

Rheoleiddiol hwn. Er mwyn sicrhau cysondeb, bydd pob dogfen yn ategu ei gilydd, a byddant yn cael eu trin fel cyfres integredig o wybodaeth rhaglen i lywio adolygiadau yn y dyfodol, gan gynnwys adolygiadau Gateway, ac at ddibenion gwerthuso.

Dadansoddiad cost a budd Alma Economics o ddiwygiadau addysg: Asesiad Cyflym o'r Dystiolaeth

19.10 Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu cwmni Alma Economics i gwblhau Asesiad Cyflym o'r Dystiolaeth yn ymwneud â'r sylfaen dystiolaeth genedlaethol a rhyngwladol ar gyfer cwblhau dadansoddiad cost a budd o bolisi ar addysg drydyddol. Ehangwyd hyn i ystyried dystiolaeth yn ymwneud â diwygiadau addysg ehangach ac i roi rhywfaint o sylw i arferion Asesiadau Effaith eraill, yng Nghymru yn benodol. Mae llenyddiaeth academaidd a chyhoeddiadau sector cyhoeddus wedi cael eu hystyried.

Yr opsiwn a ffeirir (opsiwm 6): Sefydlu Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil

Y costau i Lywodraeth Cymru a'r Comisiwn

- 19.11 Gan nad yw penderfyniadau allweddol ar gael, bu'n rhaid gwneud sawl rhagdybiaeth arwyddocaol ymwneud â staffio, costau TG a lleoliad, a allai gael effaith fawr ar y ffigurau a ragwelir. Mae'n bwysig nodi y gallai newid y rhagdybiaethau hyn gael effaith ar y prisiadau. Ymdrinnir yn fanylach â modelu effaith newidiadau i dybiaethau allweddol yn Atodiad A.
- 19.12 Un o sbardunau allweddol y costau yw'r strategaeth leoli a fydd yn cael ei mabwysiadu gan y sefydliad newydd. Gallai hyn gael effaith sylweddol ar nifer y staff sy'n trosglwyddo i'r sefydliad newydd, yn ogystal â chostau'r lleoliad.
- 19.13 Oherwydd yr ansicrwydd ar hyn o bryd sy'n gysylltiedig â sefydlu a gweithredu'r Comisiwn, mae'r amcangyfrifon ar gyfer yr Opsiwn hwn wedi'u paratoi ar sail ddarbodus gan ddefnyddio'r gwerthoedd uchaf mewn tybiaethau allweddol. Yn ogystal â hyn, bydd meysydd lle mae'r risg yn parhau. Cyfrifir bod hyn yn 7% o gyfanswm y costau a ragwelir, yn dilyn dadansoddiad o sensitifrwydd, sy'n cyfateb i £13.8m. Mae'r dadansoddiad o'r ffigurau hyn wedi'i nodi a'i egluro ymhellach yn Atodiad A.
- 19.14 Ar gyfer opsiwn 6, mae Llywodraeth Cymru wedi rhagdybio y bydd gan y Comisiwn gyfanswm o hyd at 169 (164 cyfwerth ag amser llawn) o staff, gan gynnwys 59 staff o CCAUC a hyd at 110 o staff o Lywodraeth Cymru. Llywodraeth Cymru fydd yn ysgwyddo'r costau staffio yn y pen draw, fel cyllidwr y Comisiwn. Fodd bynnag, bydd staffio'n cael ei gynnwys yng nghyllidebau Llywodraeth Cymru a'r Comisiwn (pan fydd wedi'i sefydlu), gan fod y costau staffio'n cynnwys y timau polisi a noddi yn Llywodraeth Cymru a fydd yn rheoli'r berthynas â'r Comisiwn newydd. Mae costau sylweddol yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn o'i gymharu ag opsiwn 1. Cyflwynir y costau hyn yn Nhabl 19.2 ar ddiwedd y bennod hon, a'u hegluro ymhellach yn Atodiad A.
- 19.15 Amcangyfrifir mai cyfanswm cost yr opsiwn hwn fydd £199.5 miliwn dros y cyfnod arfarnu (£171.2 miliwn yn nhermau gwerth presennol). Mae hyn yn gost ychwanegol

o £40.1 miliwn o'i gymharu â'r opsiwn Gwneud Dim (£34.1 miliwn yn nhermau gwerth presennol).

Costau cymaryddion

19.16 Wrth benderfynu ar y prisiadau ar gyfer opsiwn 6, mae Llywodraeth Cymru wedi defnyddio llawer o gostau Cymwysterau Cymru a Llywodraeth Cymru ar gyfer elfennau o'r prisiadau TGCh, costau sefydlu ac ati. Mae rhagor o wybodaeth am y rhagdybiaethau a ddefnyddiwyd wedi'i chynnwys yn Atodiad A.

Costau ar gyfer rhanddeiliaid

19.17 Nid yw'r costau posibl i rhanddeiliaid ehangach ar draws y sector yn hysbys.

19.18 Mae'r broses o ymgysylltu â rhanddeiliaid wedi bod yn barhaus wrth i'r Bil ddatblygu. Wrth i'r Bil symud ymlaen i'r camau olaf, cynhelir rhagor o drafodaethau â rhanddeiliaid ynglŷn ag unrhyw gostau a amcangyfrifir er mwyn llywio'r effeithiau ar rhanddeiliaid ehangach.

19.19 Mae'r rhestr isod o fanteision a ragwelir yn adlewyrchu gwaith cyfres o weithdai a gynhaliwyd ym mis Tachwedd 2018 a mis Mawrth 2019 a oedd yn ceisio nodi'r manteision a ragwelir yn sgil sefydlu'r Comisiwn. Hefyd, mae'r rhestr hon wedi'i llywio gan adolygiad o waith cynharach Tîm y Bil a gan staff Ymchwil Addysg a Sgiliau yn ystod y gwaith o baratoi'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn.

19.20 Mae ymatebion rhanddeiliaid allanol yn ystod gweithgarwch grŵp ffocws yr ymgynghoriad technegol wedi'u hystyried hefyd.

Effaith ar gyrff yn y sector addysg drydyddol

19.21 Ystyriwyd yr effeithiau canlynol mewn perthynas â'r darpariaethau yn y Bil.

Datganiad o flaenoriaethau, dyletswyddau strategol, cylch cynllunio strategol

19.22 Rhagwelir y bydd y dyletswyddau strategol yn cael rhywfaint o effaith ar ddarparwyr addysg drydyddol, a bydd graddau'r effaith hon yn dibynnu ar y dull a ddefnyddir gan y Comisiwn i gyflawni'r dyletswyddau strategol hyn ac, yn ei dro, beth fydd angen i sefydliad ei wneud i fodloni unrhyw ofynion newydd, a fydd yn amrywio.

19.23 Mae'r dull o gynllunio strategol a amlinellir yn y Bil yn cyd-fynd â model diwygiedig Llywodraeth Cymru o reoli cysylltiadau â chyrff hyd braich. Fe'i cynlluniwyd er mwyn sicrhau bod gan y Comisiwn, a'r sector addysg ehangach, nodau ac amcanion clir sy'n ymestyn dros dymor llywodraeth, a fydd yn galluogi i benderfyniadau cynllunio a chyllido gael eu gwneud dros gyfnod hirach.

Cod ymgysylltu â dysgwyr

19.24 Ni ragwelir y bydd y cod ymgysylltu â dysgwyr, y cynllun amddiffyn dysgwyr a'r darpariaethau cwynion dysgwyr yn Rhan 5 o'r Bil yn cael effaith ariannol sylweddol ar ddarparwyr.

19.25 Er enghraifft, mae gan y rhan fwyaf o ddarparwyr drefniadau yn eu lle i sicrhau cynrychiolaeth i ddysgwyr. Fodd bynnag, bydd y Comisiwn yn datblygu unrhyw ganllawiau newydd mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid. Mae'r canllawiau hyn yn debygol o gynnwys egwyddorion allweddol ymgysylltu â dysgwyr a chamau ymarferol i wella'r trefniadau presennol er mwyn helpu i weithredu'n gyson ar draws y sector ôl-16.

Cofrestru darparwyr addysg drydyddol

19.26 Ar ôl dechrau'r darpariaethau cofrestru o dan y Bil a deddfu'r ddeddfwriaeth eilaidd berthnasol, efallai y bydd rhywfaint o effaith ar ddarparwyr addysg uwch yng Nghymru oherwydd yr angen i fodloni'r amodau cofrestru cychwynnol.

19.27 Mae'r rhan fwyaf o'r amodau cofrestru yn ymdrin â materion sydd eisoes yn cael eu rheoleiddio neu eu sicrhau gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, ond gallai'r newid i'r rheoleiddiwr a'r ffordd yr eir ati i reoleiddio arwain at rywfaint o effaith weinyddol drosiannol. Wrth ddatblygu deddfwriaeth eilaidd berthnasol, bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio sicrhau cyn lleied o effaith â phosibl er mwyn pontio'n ddiraferth i'r fframwaith rheoleiddio newydd.

Ansawdd

19.28 Nid ydym yn disgwyl unrhyw effaith ariannol uniongyrchol ar ddarparwyr ar ddechrau'r darpariaethau ansawdd, gan y bydd y trefniadau asesu ac arolygu yn y sectorau addysg uwch ac addysg bellach yn parhau'r un fath i raddau helaeth dan y ddeddfwriaeth.

19.29 Mae hyn, yn rhannol, yn seiliedig ar y dybiaeth taw'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch fydd y corff a ddynodir gan y Comisiwn i gynnal asesiadau ansawdd addysg uwch.

19.30 Y Comisiwn fydd yn gyfrifol am gytuno ar a chyllido gwaith Estyn yn y sector ôl-16. Efallai y bydd rhywfaint o effaith drosiannol fach ar Estyn o'r herwydd, a bydd Llywodraeth Cymru yn cydweithio'n agos ag Estyn er mwyn pontio'n ddiraferth wrth gychwyn ar ei berthynas waith agos â'r Comisiwn.

Llywodraethu

19.31 Ni ragwelir y bydd darpariaethau llywodraethu'r Bil yn creu beichiau pellach ar randdeiliaid.

19.32 Mae adran 133 o'r Bil yn estyn pwerau cyfredol Gweinidogion Cymru i ddiwygio neu ddiddymu'r gofynion statudol a roddir ar dogfennau llywodraethu corfforaethau addysg uwch o dan Ddeddf 1988. Wrth arfer y pwerau hyn, mae'n ofynnol Weiniogion Cymru ymgynghori â'r Comisiwn ac unrhyw un arall yr ystyrir yn briodol.

19.33 Mae pwerau Gweinidogion Cymru i ymyrryd yn ymddygiad sefydliad addysg bellach yng Nghymru i raddau helaeth yn dwyn ymlaen y darpariaethau presennol yn adran 57 o Ddeddf 1992. Caiff Gweinidogion Cymru ond ymyrryd yn ymddygiad sefydliad addysg bellach os bydd un neu fwy o'r seiliau dros ymyrryd wedi'u bodloni, fel sy'n digwydd nawr.

- 19.34 Mae'r Bil yn rhoi dyletswydd ar y Comisiwn i fonitro ac adrodd ar gynaliadwyedd ariannol rhai darparwyr addysg drydyddol penodol. O dan y darpariaethau hyn, rhaid i'r Comisiwn gynnwys adroddiad ar sefyllfa ariannol gyfredol darparwyr sy'n cael eu monitro, yn ei adroddiad blynyddol a gyflwynir i Weinidogion Cymru.
- 19.35 Ar yr un pryd, rhaid i'r Comisiwn hefyd gyflwyno adroddiad ar wahân ar ragolygon ariannol darparwyr sy'n cael eu monitro. Wrth gyflawni ei ddyletswydd fonitro, rhagwelir y bydd y Comisiwn yn defnyddio'r wybodaeth a gesglir gan ddarparwyr i fonitro bod pawb yn cydymffurfio â'r amodau cofrestru neu amodau a thelerau cyllido. Fodd bynnag, bydd y gofynion gwybodaeth yn gliriach pan fydd trefniadau rheoleiddiol y Comisiwn wedi'u datblygu.

Manteision

- 19.36 Mae manylion manteision pellach opsiwn 6 i'w gweld ym mhennod 7.
- 19.37 Mae'r rhestr o fanteision a ragwelir yn yr adran hon yn adlewyrchu gwaith cyfres o weithdai a gynhaliwyd gyda swyddogion Llywodraeth Cymru ym mis Tachwedd 2018 a mis Mawrth 2019, gyda'r nod o nodi'r manteision a ragwelir o ganlyniad i sefydlu'r Comisiwn. Hefyd, mae'r rhestr hon wedi'i llywio gan adolygiad o waith cynharach gan staff Llywodraeth Cymru wrth baratoi'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn.
- 19.38 Hefyd, ystyriwyd ymatebion gan randdeiliaid allanol yn ystod gweithgaredd y grŵp ffocws ymgynghori technegol.
- 19.39 Roedd y gwaith a gwblhawyd i nodi'r manteision sy'n gysylltiedig â diwygio a llywio'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cynnwys cynllun gwireddu manteision ac adroddiad gan gwmni Alma Economics. Mae canfyddiadau'r adroddiad hwn wedi'u crynhoi yn yr pennod hon (gweler Atodiad B ar gyfer yr adroddiad llawn).
- 19.40 Ym mis Mehefin 2019 comisiynodd ymchwilwyr cymdeithasol Llywodraeth Cymru gwmni Alma Economics i gwblhau Asesiad Cyflym o'r Dystiolaeth yn ymwneud â chwblhau dadansoddiad cost a budd o'r polisi ar addysg drydyddol. Ehangwyd hyn hefyd i ystyried tystiolaeth yn ymwneud â diwygiadau addysg ehangach ac i roi rhywfaint o sylw i arferion Asesiadau Effaith eraill, yng Nghymru yn benodol. Ystyriwyd llenyddiaeth academaidd a chyhoeddiadau sector cyhoeddus.
- 19.41 Oherwydd natur y manteision a nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn, mae'n anodd mesur y manteision, felly byddant yn cael eu disgrifio yn yr adran hon. Mae un o ganfyddiadau allweddol yr adolygiad o dystiolaeth ar gyfer adroddiad Alma Economics yn ategu hyn:

"Prin iawn yw'r astudiaethau sy'n darparu gwerthusiadau meintiol o fanteision diwygiadau addysgol. Mae hyn yn wir am ymchwil academaidd a chyhoeddiadau gan y sector cyhoeddus. Mae'r llenyddiaeth yn cynnwys rhywfaint o feirniadaeth o addasrwydd dadansoddiad cost a budd fel techneg ar y sail y gallai fod yn anodd rheoli'r dasg o gynhyrchu amcangyfrifon meintiol cadarn ar gyfer llawer o ddiwygiadau polisi. Lle mae effeithiau AHO yn cael eu meintoli yn y llenyddiaeth, e.e. asesiad o'r premiwm graddedigion, nid yw'n glir sut y byddent yn cael eu cymhwyso i ddadansoddiad cost a budd".

- 19.42 Bydd sefydlu'r Comisiwn yn galluogi gwaith cynllunio cenedlaethol a rhanbarthol cryfach a mwy diogel, yn cryfhau'r cysylltiad rhwng ymchwil ac addysg, ac yn darparu system AHO sydd mewn sefyllfa well i ymateb i newidiadau macro; cynllunio llwybrau ar gyfer dysgwyr; ac uno'r sector mewn ffordd sy'n darparu ar gyfer dysgu gydol oes a datblygu sgiliau gwirioneddol.
- 19.43 Fel y nodwyd uchod, nodwyd y manteision lefel uchel hyn trwy broses ymgynghori fewnol ac allanol, ac fe'u hadolygwyd gan ymgynghorydd annibynnol yn ystod yr Aseiad Cyflym o'r Dystiolaeth. Canfu'r adroddiad fod dystiolaeth yn bodoli sy'n ategu llawer o'r manteision a nodwyd ar gyfer cynigion diwygio presennol yng Nghymru (sydd wedi'u hamlinellu yn y cynllun gwireddu manteision drafft). Nid yw dystiolaeth wedi'i nodi ar gyfer yr holl fanteision a restrir yn y cynllun gwireddu manteision, ond nid yw hyn yn golygu na fydd y manteision hyn yn cael eu gwireddu yn ymarferol. Mae'n debygol nad oes llawer o waith ymchwil wedi'i gwblhau yn y sylfaen dystiolaeth flaenorol yn ymwneud â rhai o nodweddion y diwygiadau arfaethedig presennol, neu eu bod yn gymharol newydd. O ganlyniad, nid oes cynsail hanesyddol iddynt. Hefyd, nodwyd rhai manteision ychwanegol nad ydynt wedi'u cynnwys yn y cynllun gwireddu manteision.
- 19.44 Mae'n bwysig nodi o'r cychwyn na fydd rhai manteision sy'n deillio o sefydlu'r Comisiwn yn cael eu gwireddu am nifer o flynyddoedd.

Manteision lefel uchel sefydlu'r Comisiwn

- 19.45 Nododd y gwaith gwireddu manteision nifer o fanteision sy'n deillio o amcanion lefel uchel y Comisiwn (croesgyfeirio pennod 7). Bydd y rhan fwyaf o'r manteision a ragwelir ar gyfer dysgwyr, busnesau, cymunedau, darparwyr AHO a Llywodraeth Cymru yn deillio'n bennaf o sut mae'r Comisiwn yn llwyddo i gyflawni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru, sut mae'n datblygu ac yn gweithredu ei bolisi ei hun, ei berthynas â darparwyr AHO a sefydliadau eraill sy'n ymwneud â'r sector AHO yng Nghymru, a sut mae'r darparwyr a'r sefydliadau hyn yn ymateb ac yn addasu i'r newidiadau hyn. Mae manteision yn debygol o gael eu gwireddu yn y tymor canolig a'r hirdymor.
- 19.46 Lefelau uwch o hyder y cyhoedd yn y system addysg drydyddol yng Nghymru yw'r fantais sydd fwyaf tebygol o gael ei phriodoli i sefydlu'r Comisiwn. Bydd hyn yn dibynnu ar wireddu'r holl fanteision eraill a ragwelir, sydd wedi'u rhestru isod. Yn yr un modd â Llywodraeth Cymru, roedd pob un o'r Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol a adolygwyd gan Alma Economics yn disgwyl gweld mantais ganolraddol berthnasol a fyddai'n llwyddo i gynyddu hyder y cyhoedd yn y sector.
- 19.47 Bydd symleiddio'r system reoleiddiol a chyflwyno prosesau rheoleiddio mwy cydlynol yn eithrio darparwyr o'r baich cydymffurfio o ddelio â chyrff goruchwylio lluosog. Bydd y safonau cydymffurfio yn eglur i'r holl ddarparwyr AHO a byddant yn cael eu goruchwylio gan un corff. Bydd hyn yn lleihau unrhyw ddryswch sy'n cael ei achosi ar hyn o bryd gan y ffaith fod swyddogaethau asiantaethau gwahanol yn gorgyffwrdd ledled y sector AHO.
- Cysondeb yn y dull o reoleiddio sefydliadau ledled y sector trwy ddiben cyffredin.

19.48 Mae gwaith ymchwil Alma Economics yn amlygu pwysigrwydd parhau i flaenoriaethu cyllid ym maes addysg a'i effeithiau cadarnhaol ar symudedd cymdeithasol. Mae trosglwyddiadau arian parod a chynlluniau cyllido eraill ar ochr y galw sy'n ceisio cynyddu cyfranogiad ymysg pobl o gefndiroedd difreintiedig yn cael effeithiau tymor byr uniongyrchol ar ddisbarthiad mynediad at addysg, yn ogystal ag effeithiau hirdymor deinamig ar gyfleoedd cyflogaeth rhwng y cenedlaethau ac ar leihau tlodi (Tiongson, 2005). Gallai'r Comisiwn ddyrannu cyllid er mwyn mynd ati'n fwy effeithlon i dargedu pobl sy'n gadael addysg yn rhy gynnar oherwydd cyfyngiadau ariannol, ac mae Llywodraeth Cymru'n disgwyl gweld effeithiau sylweddol o ran dosbarthiad o ganlyniad. Gallai cyfraddau cyfranogi a chyfraddau aros mewn addysg ar ôl 16 oed gynyddu os yw cymorth ariannol yn gallu gwella'r broses o dargedu pobl na allant fforddio addysg ôl-orfodol. Trwy wneud hyn, gall y Comisiwn lwyddo'n effeithiol i gyflawni dau o'i amcanion; cynyddu cyfraddau cyfranogiad ac aros mewn addysg, a lleihau'r bylchau mewn cyrhaeddiad a deilliannau rhwng dysgwyr o gefndiroedd tlotach a chefnidiroedd difreintiedig eraill a'u cyfoedion mwy cefnog.

- Cynnydd mewn cyfraddau cyfranogiad dysgwyr a mwy o ddysgwyr ôl-16 yn symud ymlaen at ddysgu uwch (galwedigaethol ac academaidd) a/neu gyflogaeth sy'n talu'n dda.
- Gostyngiad mewn bylchau cyrhaeddiad a deilliannau (cyflogadwyedd a datblygiad) rhwng dysgwyr o'r cefndiroedd tlotaf a grwpiau eraill sydd wedi'u hymyleiddio o bosibl.

19.49 Bydd un rheoleiddiwr yn hwyluso dull cymaradwy a chyson o sicrhau ansawdd ac asesu ledled y sector. Bydd y Comisiwn yn gallu dwyn ynghyd a goruchwyllo asiantaethau sy'n goruchwyllo ac yn sicrhau ansawdd y sector o dan y system bresennol. Bydd y Comisiwn yn gallu dilyn dull gweithredu cenedlaethol cyffredin sy'n cyd-fynd â'r Rhaglen Lywodraethu.

- Sylfaen dystiolaeth integredig a gwell - darparu data a gwybodaeth o ansawdd gwell y gellir eu cymharu ledled y sector AHO er mwyn llywio'r gwaith o ddatblygu polisi a gwneud penderfyniadau ar bob lefel (Llywodraeth Cymru, darparwyr, cyflogwyr a dysgwyr)
- Un o rolau'r Comisiwn newydd fydd cyflwyno system casglu, dadansoddi a lledaenu data ledled y sector AHO, sy'n well, yn effeithiol ac yn cydymffurfio â'r gofynion. Bydd y system hon yn darparu gwybodaeth amserol, hygyrch a pherthnasol am AHO yng Nghymru, sydd ar gael i bawb sydd ei hangen (gweler Pennod 18 hefyd). Yn benodol, mae gwybodaeth fanylach, wedi'i chanoli sydd ar gael i'r cyhoedd yn lleihau gwybodaeth anghymesur ac yn gwella symudedd cymdeithasol. Bydd dysgwyr yn gwneud penderfyniadau gwell os oes gwybodaeth well ar gael a bod modd cymharu gwybodaeth darparwyr. Trwy wella'r broses o gasglu data a sicrhau mynediad iddo, bydd y Comisiwn a Llywodraeth Cymru yn gallu mynd ati'n fwy effeithiol i bennu cyfeiriad a manylion y polisi ar addysg drydyddol.
- Model cyllido mwy cydlynol a chyson ledled y sector AHO.

19.50 Dylai system reoleiddio fwy effeithlon a mwy hyblyg sicrhau bod y baich rheoleiddio yn darparu atebolrwydd a thryloywder priodol ar gyfer darparwyr addysg drydyddol

sy'n derbyn cyllid cyhoeddus, yn enwedig o safbwynt ansawdd addysgol, sicrwydd ariannol, a llywodraethu darparwyr.

- Gwella sefyllfa ariannol darparwyr addysg drydyddol yng Nghymru

19.51 Mae adroddiad Alma Economics yn nodi disgwyliadau ar gyfer arbedion cost ar ffurf arbedion trwy osgoi dyblygu gwaith ar ôl uno cyrff y Llywodraeth. Fodd bynnag, bydd y gostyngiad gwirioneddol mewn costau gweinyddol, a chyfanswm yr arbedion effeithlonrwydd yn dibynnu ar faint a strwythur terfynol y Comisiwn, fel sy'n wir am y Swyddfa Fyfyrrwyr ac UKRI. O ganlyniad, maent yn anhysbys ar hyn o bryd.

- Gwella cysondeb rhwng cyllido a chost darpariaeth ledled y system addysg drydyddol.

19.52 Nodwyd y rhestr o fanteision isod trwy waith gwireddu manteision ac ymgynghori Llywodraeth Cymru.

- Gwella'r gallu i ganfod ac atal problemau, gan gynnwys y gallu i ymateb i newidiadau macro, a lliniaru amhariad trwy newidiadau yn y galw gan ddysgwyr a chyflogwyr.
- Gwella bodddhad cyffredinol dysgwyr.
- Gwella'r broses o baru'r cyfleoedd hyfforddiant ac ymchwil sydd ar gael (yr ochr gyflenwi), â cheisiadau cyflogwyr a dysgwyr (ochr y galw).
- Cynyddu nifer y prosiectau ymchwil ac arloesi cydweithredol, a'r incwm sy'n cael ei greu ganddynt.
- Cynyddu cydnabyddiaeth o werth cymwysterau academaidd a galwedigaethol.
- Creu map llwybr cydlynol ar gyfer dysgwyr, cyflogwyr a darparwyr.
- Lleihau nifer y cyrsiau sy'n cael eu dyblygu ac sy'n aneconomaidd i'w darparu ledled y sector addysg drydyddol.
- Gwella'r broses o gynllunio a chyflwyno'r sgiliau sydd eu hangen mewn lleoliad a/neu ranbarth penodol.
- Cynyddu'r defnydd ar y cyd o gyfleusterau (Cytundebau Rhannu Gwasanaeth).

19.53 Ni wnaeth gwaith ymchwil Alma Economics ddod o hyd i unrhyw dystiolaeth benodol yn y llenyddiaeth yn ymwneud â sut y gallai cyflwyno'r Comisiwn yn y sector addysg drydyddol arwain at y manteision hyn. Fel y nodwyd yn gynharach, nid yw hyn yn awgrymu na fydd yn bosibl gwireddu'r manteision hyn, ond yn hytrach nad oes llawer o waith ymchwil wedi'i gwblhau yn y sylfaen dystiolaeth flaenorol yn ymwneud â rhai o nodweddion y diwygiadau arfaethedig presennol, neu eu bod yn gymharol newydd a heb gysail hanesyddol.

19.54 Hefyd, daeth y gwaith ymchwil hwn o hyd i dystiolaeth ar gyfer manteision ychwanegol na chawsant eu nodi yn wreiddiol gan Lywodraeth Cymru, ac mae'n bosibl y bydd sefydlu'r Comisiwn yn gwireddu'r manteision hyn (ewch i Atodiad B ar gyfer rhagor o wybodaeth).

- Gall hwb i gynhyrchiant y sector preifat ddeillio o gostau gweinyddu is a mwy o gyfle am arweinyddiaeth strategol wrth gyllido ymchwil.
- Mae manteision eraill nad yw'n hawdd eu mesur (manteision nad ydynt yn ymwneud â'r farchnad) yn cynnwys gwella iechyd a lles, datblygu polisi cyhoeddus a darparu gwasanaethau cyhoeddus yn well, ac osgoi costau trwy wrthsefyll digwyddiadau annisgwyl (Llywodraeth y DU, 2016b).

19.55 Mae tabl 19.1 isod yn dod o adroddiad Alma Economics, ac mae'n dangos y manteision a amlygwyd yn y llenyddiaeth i Lywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allanol o ganlyniad i sefydlu'r Comisiwn. Mae'r Tabl yn crynhoi'r manteision a ganfuwyd yn yr adolygiad, wedi'u trefnu ar sail y categorïau a nodwyd yn y cynllun gwireddu manteision, a'r grwpiau y disgwylir iddynt fwynhau'r manteision hyn. Y manteision "uniongyrchol" yw'r manteision a fydd yn cronni i Lywodraeth Cymru. Mae manteision anuniongyrchol yn cynnwys y manteision i ddarparwyr AHO, a'r manteision ehangach yw'r rhai a fydd yn cronni i grwpiau gwahanol yn y gymdeithas (h.y. trethdalwyr, cyflogwyr, dysgwyr).

19.56 Mae'r tybiaethau yn Tabl 19.1 yn seiliedig ar ddisgwyliad Llywodraeth y DU y byddai'n arbed 10% o'i gostau gweithredu drwy gyflwyno'r Swyddfa Myfyrwyr ac UKRI, ac felly mae'n rhesymol tybio y bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn gweld rhywfaint o ostyngiad yn ei gostau gweinyddu o ganlyniad i ddileu dyblygu gwaith a chydlynu swyddogaethau'n well ar draws y sector.

19.57 Fodd bynnag, nid yw'r costau hyn yn hysbys ar hyn o bryd, ac felly ni all Llywodraeth Cymru gadarnhau'r costau penodol ar gyfer y grwpiau a nodir yn tabl hon. Serch hynny, dylid nodi na fydd y gweithgareddau hyn o reidrwydd yn arwain at gynnydd mewn costau.

Tabl 19.1. Crynodeb o fanteision (Dadansoddiad Cost a Budd o Ddiwygiadau Addysg – Aseiad Cyflym o'r Dystiolaeth, Alma Economics, tudalen 28)

Categoriâu o Fanteision	Grŵp sy'n cael ei effeithio	Math o Fantais
Uniongyrchol	Llywodraeth Cymru	<ul style="list-style-type: none"> Cynllunio cenedlaethol cryfach a mwy diogel (Llywodraeth y DU, 2016a) Mwy o gysondeb ledled y sector (DIISRTE, 2012) Gwella goruchwyliaeth ac ymyrraeth gyflymach pan fo angen. (DIISRTE, 2012) Mwy o hyblygrwydd wrth ymateb i newidiadau yn y system gymwysterau yn y DU. (Llywodraeth Cymru, 2014). Polisi mwy effeithiol, sy'n targedu grwpiau difreintiedig trwy ddefnyddio data canolog a manwl iawn (Llywodraeth y DU, 2016c). Arbedion cost o ganlyniad i arbedion costau gweinyddol (Llywodraeth y DU, 2016a; 2016b). Mwy o refeniw treth o ganlyniad i hwb i gynhyrchiant a mwy o adenillion o enillion (Llywodraeth y DU, 2016c).
Anuniongyrchol	Darparwyr AHO	<ul style="list-style-type: none"> Rheoliad mwy cydlynol i gydymffurfio ag ef (Llywodraeth y DU, 2016b; DIISRTE, 2012). Llai o faich rheoleiddio (ar gyfer darparwyr AHO risg isel) (Llywodraeth y DU, 2016a).

Categoriâu o Fanteision	Grŵp sy'n cael ei effeithio	Math o Fantais
		<ul style="list-style-type: none"> Mwy o gysondeb ac ansawdd gwell ymysg darparwyr (Llywodraeth y DU, 2016a). Enillion cynhyrchiant ar gyfer darparwyr yn sgil llai o dasgau gweinyddol (Llywodraeth y DU, 2016b)
Ehangach	Dysgwyr	<ul style="list-style-type: none"> Llai o ddryswch ynglŷn â llwybrau a phontio i farchnadoedd llafur (DIIS RTE, 2012). Llai o anghymesuredd gwybodaeth – mwy o benderfyniadau ar sail gwybodaeth (Llywodraeth y DU, 2016c; Asesiad Effaith o Ddyletswyddau Rhannu Gwybodaeth a Thryloywder Data; DIIS RTE, 2012). Mwy o gyfranogiad (i'r graddau y bydd y Comisiwn yn dyrannu cyllid yn fwy effeithlon tuag at grwpiau difreintiedig) (Llywodraeth y DU, 2016c; DIIS RTE, 2012). Gwella symudedd cymdeithasol (Llywodraeth y DU, 2016c). Enillion cynhyrchiant (Llywodraeth y DU, 2016c; DIIS RTE, 2012).
Ehangach	Busnesau / Cyflogwyr	<ul style="list-style-type: none"> Mwy o hyder ynglŷn ag ansawdd a sgiliau graddedigion (DIIS RTE, 2012). Hwb cynhyrchiant i'r sector preifat (Llywodraeth y DU, 2016b, 2016c).
Ehangach	Trethdalwyr	<ul style="list-style-type: none"> Gwella gwerth am arian trethdalwyr (Llywodraeth y DU, 2016c). Gwella cyfraddau ad-dalu benthyciadau drwy gynyddu cynhyrchiant (Llywodraeth y DU, 2016c).

Crynodeb

19.58 Gan nad oes modd mesur y manteision sy'n gysylltiedig â diwygio, mae'n anodd cymharu'r costau a'r manteision mewn ffordd wrthrychol. Mewn sefyllfa o'r fath, mae'n rhaid penderfynu a yw'r manteision yn drech na'r costau ychwanegol.

Tabl 19.2: Crynodeb o gostau - Opsiwn 6 (Sefydlu Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil)

	2021-22 (£,000)	2022-23 (£,000)	2023-24 (£,000)	2024-25 (£,000)	2025-26 (£,000)	2026-27 (£,000)	2027-28 (£,000)	2028-29 (£,000)	2029-30 (£,000)	2030-31 (£,000)	Cyfanswm (£,000)
Costau trosiannol											
Costau staff	-	-	109	-	-	-	-	-	-	-	109
Costau'r Bwrdd	-	50	191	-	-	-	-	-	-	-	241
Dileu swyddi	-	-	2,030	-	-	-	-	-	-	-	2,030
Costau staff nad ydynt wedi'u cynnwys yn y gyflogres	-	30	262	-	-	-	-	-	-	-	292
Costau TG - cyfalaf	-	1,710	3,191	-	-	-	-	-	-	-	4,901
Costau corfforaethol eraill	-	5	270	-	-	-	-	-	-	-	275
Costau lleoliad - cyfalaf	-	15	1,687	-	-	-	-	-	-	-	1,702
Costau'r rhaglen	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-
Cyfanswm	-	1,810	7,740	-	-	-	-	-	-	-	9,550
Costau rhedeg											
Costau staff	-	-	5,474	13,137	13,137	13,137	13,137	13,137	13,137	13,137	97,433
Costau'r Bwrdd	-	-	199	477	477	477	477	477	477	477	3,538
Dileu swyddi	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-
Costau staff nad ydynt wedi'u cynnwys yn y gyflogres	-	-	161	388	388	388	388	388	388	388	2,877
Costau TG - cyfalaf	-	-	2,142	5,141	5,141	5,141	5,141	5,141	5,141	5,141	38,129
Costau corfforaethol eraill	-	-	272	654	654	654	654	654	654	654	4,850
Costau lleoliad - cyfalaf	-	-	142	340	340	340	340	543	340	340	2,725
Costau'r rhaglen	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-
Cyfanswm	-	-	8,390	20,137	20,137	20,137	20,137	20,340	20,137	20,137	149,552
Busnes fel Arfer	15,656	15,656	9,133	-	-	-	-	-	-	-	40,445
Cyfanswm	15,656	17,466	25,263	20,137	20,137	20,137	20,137	20,340	20,137	20,137	199,547

Opsiwn 4a – Canoli

Costau

- 19.59 Mae Tabl 19.3 isod yn dangos y costau a amcangyfrifir ar gyfer canoli CCAUC a'r Is-adran Addysg Bellach oddi mewn i Lywodraeth Cymru am y deng mlynedd nesaf. Llywodraeth Cymru fydd yn gyfrifol am dalu'r costau hyn. Mae'r rhagdybiaethau ar gyfer prisio'r opsiwn hwn wedi'u cynnwys yn Atodiad A.
- 19.60 Amcangyfrifir mai cyfanswm cost yr opsiwn hwn fydd £172.4 miliwn dros y cyfnod arfarnu (£148.5 miliwn yn nhermau gwerth presennol). Mae hyn yn gost ychwanegol o £13.8 miliwn o'i gymharu â'r opsiwn Gwneud Dim (£12.1 miliwn yn nhermau gwerth presennol).

Manteision

- 19.61 Mae manylion manteision opsiwn 4a i'w gweld ym mhennod 7.

Crynodeb

- 19.62 Mae anfanteision yr opsiwn canoli yn gorbwyso ei fanteision. Er y gallai Canoli wireddu buddion tebyg o bosibl i greu'r Comisiwn a bod â chostau is, yn y pen draw mae'r risgiau posibl sy'n gysylltiedig ag ailddosbarthu SYG a gwrthwynebiad gan y sector AU yn golygu bod yr opsiwn hwn wedi'i ddiystyru (gweler pennod 7 am fwy o fanylion).

Tabl 19.3: Crynodeb o gostau - Opsiwn 4a (Canoli)

	2021- 22 (£,000)	2022- 23 (£,000)	2023- 24 (£,000)	2024- 25 (£,000)	2025- 26 (£,000)	2026- 27 (£,000)	2027- 28 (£,000)	2028- 29 (£,000)	2029- 30 (£,000)	2029- 30 (£,000)	Cyfanswm (£,000)
CCAUC											
Costau staff	3,195	3,195	-	-	-	-	-	-	-	-	6,390
Costau'r Bwrdd	119	119	-	-	-	-	-	-	-	-	238
Dileu swyddi	-	-	2,031	-	-	-	-	-	-	-	2,031
Costau staff nad ydynt wedi'u cynnwys yn y gyflogres	100	100	-	-	-	-	-	-	-	-	200
Costau TG	293	293	-	-	-	-	-	-	-	-	586
Costau corfforaethol eraill	186	186	-	-	-	-	-	-	-	-	372
Costau lleoliad	142	142	-	-	-	-	-	-	-	-	284
Costau'r rhaglen	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-
Cyfanswm	4,035	4,035	2,031	-	-	-	-	-	-	-	10,101
Llywodraeth Cymru											
Costau staff	8,245	8,245	11,939	11,939	11,939	11,939	11,939	11,939	11,939	11,939	112,002
Costau TG	83	83	434	239	239	239	239	239	239	239	2,273
Costau staff nad ydynt wedi'u cynnwys yn y gyflogres	2,720	6,491	5,539	4,747	4,747	4,747	4,747	4,747	4,747	4,747	47,979
Cyfanswm	11,048	14,819	17,912	16,925	16,925	16,925	16,925	16,925	16,925	16,925	162,254
Cyfanswm	15,083	18,854	19,943	16,925	16,925	16,925	16,925	16,925	16,925	16,925	172,355

Opsiwn 1 – gwneud dim/busnes fel arfer

Costau

19.63 Yn dechnegol, gan mai opsiwn 'gwneud dim' yw hwn, ni ddylai unrhyw gostau ychwanegol fod yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn.

19.64 Mae Tabl 19.4 isod yn dangos amcangyfrif o'r costau o gynnal CCAUC a'r Is-adran Addysg Bellach oddi mewn i Lywodraeth Cymru am y deng mlynedd nesaf (ar sail cyllidebau 2019/20). Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am y costau hyn.

19.65 Amcangyfrifir mai cost yr opsiwn Gwneud Dim fydd £158.6 miliwn dros y cyfnod arfarnu, neu £136.4 miliwn yn nhermau gwerth presennol.

Manteision

19.66 Mae manylion y manteision ar gyfer opsiwn 1 i'w gweld ym Mhennod 7

Crynodeb

19.67 Opsiwn 1 sy'n cynnig y gost isaf, ond mae'r broses ddarnio yn parhau o dan yr opsiwn hwn, ac mae'n methu mynd i'r afael â'r angen am gynllunio cydgysylltiedig. Mae'n methu bodloni'r gofyniad polisi, ac ni theimlir ei fod yn opsiwn addas.

Tabl 19.4: Crynodeb o gostau - Opsiwn 1 (Gwneud Dim)

	2021- 22 (£,000)	2022- 23 (£,000)	2023- 24 (£,000)	2024- 25 (£,000)	2025- 26 (£,000)	2026- 27 (£,000)	2027- 28 (£,000)	2028- 29 (£,000)	2029- 30 (£,000)	2029- 30 (£,000)	Cyfanswm (£,000)
CCAUC											
Costau staff	3,195	3,195	3,195	3,195	3,195	3,195	3,195	3,195	3,195	3,195	31,950
Costau'r Bwrdd	119	119	119	119	119	119	119	119	119	119	1,190
Dileu swyddi	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-
Costau staff and ydynt wedi'u cynnwys yn y gyflogres	100	100	100	100	100	100	100	100	100	100	1,000
Costau TG	293	293	543	543	543	543	543	543	543	543	4,930
Costau corfforaethol eraill	186	186	186	186	186	186	186	186	186	186	1,860
Costau lleoliad	142	142	142	142	142	142	142	142	142	142	1,420
Costau'r rhaglen	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-
Cyfanswm	4,035	4,035	4,285	4,285	4,285	4,285	4,285	4,285	4,285	4,285	42,350
Llywodraeth Cymru											
Costau staff	8,694	8,694	8,694	8,694	8,694	8,694	8,694	8,694	8,694	8,694	86,940
Costau TG	2,840	2,840	2,840	2,840	2,840	2,840	2,840	2,840	2,840	2,840	28,400
Costau staff naf ydynt wedi'u cynnwys yn y gyflogres	87	87	87	87	87	87	87	87	87	87	870
Cyfanswm	11,621	11,621	11,621	11,621	11,621	11,621	11,621	11,621	11,621	11,621	116,210
Cyfanswm	15,656	15,656	15,906	15,906	15,906	15,906	15,906	15,906	15,906	15,906	158,560

Pennod 20. Asesiadau Effaith Integredig

20.1 Mae asesiadau effaith penodol hefyd wedi cael eu cynnal sy'n berthnasol i'r Bil cyfan. Mae crynodeb o'r effeithiau i'w gweld isod. Mae pob asesiad effaith wedi cael ei gyhoeddi²³ a, lle mae'r effaith yn berthnasol i ddarpariaeth benodol yn uniongyrchol, mae hynny wedi cael ei nodi yn yr asesiadau perthnasol. Mae asesiadau effaith penodol wedi cael eu cynnal ar y pynciau a ganlyn:

- Hawliau plant
- Cydraddoldeb
- Prawfesur polisiau gwledig
- Data
- Y Gymraeg
- Bioamrywiaeth
- Y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol
- Asesiad o'r Effaith ar Gyfiawnder

Hawliau plant

20.2 Mae'r effeithiau posibl a nodwyd ar blant drwy'r asesiad o'r effaith ar Hawliau Plant wedi bod yn gadarnhaol. Bydd y Comisiwn yn hyrwyddo ffocws gyffredin ar gyfer y sector addysg drydyddol, gan wella gwybodaeth, cyngor a gwasanaethau i ddysgwyr a busnesau ledled Cymru.

20.3 Yr effeithiau cadarnhaol a fwriedir ar gyfer plant a phobl ifanc yw:

- Cryfhau'r trefniadau i amddiffyn dysgwyr sy'n astudio gyda darparwyr addysg drydyddol;
- Sicrhau bod cyfleoedd dysgu a hyfforddi o'r ansawdd uchaf ac yn cyflawni'r canlyniad a ddymunir i ddysgwyr;
- Gwarantu parch cyfartal at llwybrau galwedigaethol ac academaidd;
- Mynediad cliriach i gyrsgiau;
- Cysylltiad clir â llwybrau gyrfa dwy gysylltu â'r sector cyflogaeth.

20.4 Yn ôl y gyfraith, bydd yn ofynnol i'r Comisiwn sicrhau bod darpariaeth briodol ar gael i bobl ifanc allu cael mynediad at addysg drydyddol.

20.5 Gyda'i drosolwg o'r holl ddarparwyr dysgu addysg drydyddol, bydd y Comisiwn mewn sefyllfa berffaith i sicrhau yr eir i'r afael â bylchau yn y ddarpariaeth a bod rhwystrau a wynebwr gan wahanol grwpiau o bobl ifanc yn cael eu nodi a'u datrys.

20.6 Yn yr hirdymor gobeithir y bydd hyn yn cynyddu gallu dysgwyr i gael mynediad at gyflogaeth gynaliadwy a llwyddiant gyrfaol, gan weithio i sicrhau bod y cyfleoedd dysgu cywir ar gael i ddiwallu anghenion marchnad lafur Cymru.

20.7 Bydd hyn yn ei dro yn arwain at fwy o botensial ar gyfer cyflogadwyedd gan arwain at welliannau cysylltiedig mewn lefelau incwm, iechyd a lles i blant a phobl ifanc a'u teuluoedd ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

20.8 Ni nodwyd unrhyw effeithiau negyddol ar blant.

²³ [Llywodraeth Cymru | Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil \(Cymru\) - Asesiadau Effaith](#)

Cydraddoldeb

- 20.9 Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gosod Dyletswydd Cydraddoldeb Cyffredinol ar awdurdodau cyhoeddus Cymru i roi sylw dyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon, yn ogystal â hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a'r rhai nad ydynt yn gwneud hynny. Bydd y Comisiwn yn disodli CCAUC, fel 'corff cyhoeddus' yn Neddf Cydraddoldeb 2010, a bydd yn ofynnol iddo gydymffurfio â'r dyletswyddau penodol o dan Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011.
- 20.10 Mae Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi'i gwblhau ar gyfer y Bil . Dengys hyn nad yw'r cynigion yn eu cyfanrwydd yn debygol o effeithio ar bobl â nodweddion gwarchoddedig.
- 20.11 Mae wedi nodi gwahaniaeth rhwng y rhai hyd at 19 oed a'r rhai dros 19 oed mewn addysg bellach. Mae'r Bil yn darparu ar gyfer parhau â'r dyletswyddau presennol i sicrhau cyfleusterau priodol a rhesymol ar gyfer addysg bellach a hyfforddiant i ddysgwyr 16 i 19 oed a 19+ oed fel sydd wedi'i gynnwys ar hyn o bryd yn adran 31 o Ddeddf 2000.
- 20.12 Mae adran 90 o'r Bil yn gosod dyletswydd ar y Comisiwn i sicrhau cyfleusterau priodol ar gyfer addysg bellach a hyfforddiant i bobl 16 i 19 oed, sy'n addas i ofynion unigolion ac sy'n bodloni hawlogaethau cwricwlwm lleol o dan Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000.
- 20.13 Mae adran 91 o'r Bil yn gosod dyletswydd ar y Comisiwn i sicrhau cyfleusterau priodol ar gyfer addysg bellach a hyfforddiant perthnasol i bersonau cymwys 19 oed a throsodd. Rhaid i'r Comisiwn hefyd sicrhau cyfleusterau rhesymol ar gyfer addysg bellach a hyfforddiant i bobl 19 oed a throsodd. Mae cyfleusterau'n rhesymol os ydynt o faint ac ansawdd y gellir disgwyl yn rhesymol i'r Comisiwn eu sicrhau.
- 20.14 Effaith y darpariaethau hyn yw creu meini prawf ychydig yn wahanol ar gyfer cyfleusterau priodol y mae'n rhaid eu sicrhau ar gyfer pobl ifanc 16 i 19 oed a oedolion dros 19 oed. Fodd bynnag, mae cynnwys dyletswydd i sicrhau cyfleusterau priodol i bobl 19 oed a throsodd yn lleihau'r gwahaniaeth blaenorol o dan Ddeddf 2000.
- 20.15 Bydd darpariaeth ynghylch pa gyfleusterau priodol i'w sicrhau ar gyfer pobl 19 oed a throsodd yn cael ei phennu mewn rheoliadau, ac felly gall fod yn fwy penodol na'r ddyletswydd ar gyfer pobl 16 i 19 oed. Diben hyn yw galluogi Llywodraeth Cymru a'r Comisiwn i ddyrannu adnoddau ariannol cyfyngedig yn y ffordd fwyaf effeithiol.
- 20.16 Mae'r ystod ehangach o gymwysterau ac addysg flaenorol y gallai personau 19 oed a throsodd eu cynnig i addysg bellach a hyfforddiant o'u cymharu â phersonau 16 oed, yn ei gwneud yn ofynnol i reoliadau ganiatáu i'r ddarpariaeth a flaenoriaethir gael ei phennu er mwyn rheoli costau a nodi'n glir pa ddarpariaeth fydd ar gael. Nid yw hyn yn angenrheidiol ar gyfer y ddarpariaeth ar gyfer pobl 16 i 19 oed, lle ceir eisoes batrymau o ddarpariaeth sydd wedi'i hen sefydlu ar gyfer y rhai sy'n gadael yr ysgol ac sy'n mynd ymlaen i addysg yn yr oedran hwn gyda chymwysterau blaenorol tebyg a chefnidir addysgol tebyg.

20.17 Mae'r pŵer i wneud rheoliadau ynghylch personau cymwys mewn perthynas â'r ddyletswydd i sicrhau cyfleusterau priodol ar gyfer personau 19 oed a throsodd yn cynnwys pŵer i gyfeirio at oedran. Gallai hyn greu posibilïadau pellach ar gyfer gwahaniaethu ar sail oedran, a byddai angen asesu'r effeithiau ar gydraddoldeb yn llawn wrth baratoi a chyflwyno'r rheoliadau hynny.

Prawfesur polisiau gwledig

20.18 Bydd y darpariaethau a gynigir yn y Bil yn gymwys i unrhyw un sy'n darparu neu'n ymgymryd ag addysg drydyddol neu ymchwil yng Nghymru, gan gynnwys dysgwyr a darparwyr mewn lleoliadau gwledig.

20.19 Roedd trafodaethau a gynhaliwyd gyda rhanddeiliaid yn ystod yr ymgynghoriad technegol yn awgrymu mai mynediad at ddigon o ddewis oedd yr her fwyaf i ardaloedd gwledig yng Nghymru, er enghraifft cyfyngiadau mewn ardaloedd nad ydynt yn drydyddol neu o ran mynediad at addysg uwch.

20.20 I ddarparwyr, mae'r ddarpariaeth yn fwy costus mewn ardaloedd gwledig er y gellir lliniaru hyn i ryw raddau drwy ddysgu ar-lein neu ddysgu cyfunol, cyn belled â bod gan ddysgwyr fynediad at y dechnoleg berthnasol. Gall cymorth i ddysgwyr fod yn anoddach i'w ddarparu dros ardal gwledig wasgaredig.

20.21 Rhagwelir y bydd effaith ein cynigion ar gymunedau gwledig yn gymedrol. Dylai sefydlu'r Comisiwn gael effaith gadarnhaol ar ddiwallu anghenion dysgwyr mewn ardaloedd gwledig a threfol ledled Cymru a bydd yn helpu i sefydlu llwybrau dysgu a gyrfa clir a hyblyg, gan ddarparu gwell gwybodaeth a chynghor i ddysgwyr a darparwyr sy'n dymuno cymryd rhan neu symud ymlaen mewn addysg a hyfforddiant ôl-16.

20.22 Bydd gan y Comisiwn drosolwg o'r holl ddarparwyr addysg drydyddol ynghyd â'r cyfleoedd addysg a hyfforddiant y mae'r darparwyr hynny'n eu cynnig. Felly, bydd mewn lle da i nodi bylchau yn y ddarpariaeth, gan gynnwys problemau a wynebwr gan ddysgwyr mewn rhannau o Gymru lle na allant fanteisio ar y cyrsiau y maent yn eu dymuno a phroblemau a wynebwr gan fusnesau lle na allant recriwtio gweithwyr â'r sgiliau priodol

20.23 Bydd darpariaethau yn y Bil yn darparu bod yn rhaid i'r Comisiwn, wrth sicrhau addysg bellach a hyfforddiant, roi sylw i ofynion cyflogwyr mewn perthynas â'r addysg a'r hyfforddiant sy'n ofynnol mewn sectorau cyflogaeth gwahanol.

20.24 Rhaid i'r Comisiwn hyrwyddo addysg drydyddol ac ymchwil mewn ffordd sy'n cyfrannu at ddatblygu economi gynaliadwy ac arloesol yng Nghymru. Wrth gyflawni'r ddyletswydd hon (adran 7) rhaid iddo roi sylw i *ofynion rhesymol diwydiant, masnach, cyllid, y proffesiynau a chyflogwyr eraill o ran addysg drydyddol ac ymchwil ac arloesi*. Drwy weithio'n agos gyda Phartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol, caiff y Comisiwn gyfle i adolygu'r ddarpariaeth ddysgu sydd ar gael, er mwyn cysoni hyn ag anghenion sgiliau busnesau a dysgwyr lleol.

20.25 Yn yr hirdymor, dylai hyn helpu dysgwyr i gael y sgiliau sydd eu hangen i gael gwaith o ansawdd uchel mewn marchnad lafur sy'n gynyddol gystadleuol.

20.26 Gan y bydd yr effaith ar ddysgwyr gwledig yn gymedrol ac na gynigir y bydd darpariaethau'r Bil yn cael effaith uniongyrchol ar gymunedau gwledig, nid oes asesiad effaith prawfesur polisïau gwledig llawn wedi'i gwblhau.

Data

20.27 Mae'r Cyngor Derbyniadau Prifysgolion a Cholegau (UCAS) yn darparu gwasanaethau ceisiadau a derbyniadau i sefydliadau addysg uwch, ac yn casglu data personol gan ddarpar ddysgwyr sy'n gwneud cais i ddarparwyr addysg uwch. Mae'r rhan fwyaf o ddarparwyr addysg uwch yn defnyddio UCAS i reoli eu mynediad i gyrsiau addysg uwch.

20.28 Mae'r Bil yn creu Comisiwn newydd i oruchwylio'r darparwyr addysg drydyddol yng Nghymru a bydd y Comisiwn yn derbyn y data hwn gan UCAS.

20.29 Bydd y Bil yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru ofyn am wybodaeth "o'r cais i'r derbyn" gan gyrrff sy'n darparu gwasanaethau derbyn i sefydliadau addysg uwch yng Nghymru (h.y. UCAS). Byddant yn gallu darparu'r wybodaeth hon i bersonau cymeradwy yn yr un modd a chyda'r un amodau a mesurau diogelu â'r Ysgrifennydd Gwladol yn adran 80 o'r Mesur Addysg Uwch ac Ymchwil (HERA). Bydd gan y Bil bŵer hefyd i ddarparu'r wybodaeth i'r Comisiwn, a ddylai fod o dan ddyletswydd i ystyried y data wrth arfer ei swyddogaethau.

20.30 Bydd y Comisiwn yn gallu cyhoeddi ymchwil sy'n deillio o'i ddadansoddiad o ddata, gan gynnwys gwybodaeth ystadegol, yn amodol ar ofyniad bod yr holl wybodaeth bersonol yn ddienw. Bydd hefyd yn gallu contractio trydydd partïon i gynnal cyhoeddiad o'r fath, yn amodol ar yr un cyfyngiad.

20.31 Bydd dyletswydd ar y Comisiwn i hyrwyddo arferion da mewn perthynas â rhannu data ymhlith y personau a'r cyrrff y mae'n eu cyllido neu'n eu rheoleiddio.

20.32 Mae'r Bil yn gyfystyr â chreu pwerau/dyletswyddau newydd mewn perthynas â data personol. Bydd angen i'r Comisiwn sicrhau ystyriaeth lawn i gydymffurfiaeth diogelu data unwaith y bydd wedi'i sefydlu.

20.33 Mae'r ddeddfwriaeth yn caniatáu i'r Comisiwn ofyn am wybodaeth gan UCAS mewn perthynas â'i ddata o'r cais i'r derbyn. Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru'n derbyn yr wybodaeth hon gan UCAS, ac mae'r pŵer newydd yn darparu sail gyfreithiol ar gyfer cyfnewid gwybodaeth fel hyn.

20.34 Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgysylltu ag UCAS sydd wedi cadarnhau bod cytundeb ganddynt yn ei le'n barod i Swyddfa Myfyrwyr yn Lloegr ddarparu'r data hwn. Felly, ystyrir mai ychydig iawn o effaith fydd ar ddysgwyr wrth weithredu'r pŵer hwn.

20.35 Gellir gorfodi cydymffurfiaeth â'r hysbysiadau hynny drwy waharddeb, a wneir ar gais Gweinidogion Cymru

20.36 Bydd gan y Comisiwn bwerau i'w gwneud yn ofynnol i unrhyw berson sy'n cael cyllid ganddo (neu sy'n gyfrifol am reoleiddio) ddarparu unrhyw wybodaeth sydd ei hangen arno ar gyfer arfer ei swyddogaethau.

- 20.37 Credir bod nifer yr unigolion sy'n debygol o gael eu heffeithio o ganlyniad i'n cynigion yn fach iawn. Mae'r system yn gweithredu ar hyn o bryd heb fod yn orfodadwy drwy waharddeb a dim ond fel mesur rhagofalus y mae'r elfen hon yn cael ei chyflwyno i helpu i sicrhau y bydd yr wybodaeth ar gael yn y dyfodol os bydd cydweithwyr neu ddarparwyr yn newid. Mae swyddogion yn rhagweld ei bod yn annhebygol y bydd y pŵer hwn yn cael ei ddefnyddio ond wedi gofyn am y pŵer i ddiogelu'r system.
- 20.38 Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data wedi cael ei glirio gan yr Uwch Gyngorydd Achos Rhyddid Gwybodaeth a Diogelu Data.

Y Gymraeg

- 20.39 Cymraeg 2050 yw strategaeth genedlaethol Cymru ar gyfer cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i filiwn o siaradwyr erbyn 2050. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo'n llwyr i'r targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg a oedd wedi'i gynnwys yn y rhaglen lywodraethu Symud Cymru Ymlaen, a'r Rhaglen Lywodraethu 2021-2026. Mae iaith Gymraeg ffyniannus hefyd yn rhan o un o'r saith nod llesiant a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, fel yr esboniwyd uchod.
- 20.40 Bydd gan y Comisiwn rôl hollbwysig i'w chwarae o ran cyflawni'r newid trawsnewidiol sy'n ofynnol ar draws y sector addysg drydyddol er mwyn cyrraedd targed Cymraeg 2050. Bydd y Comisiwn yn allweddol wrth gyflawni nodau allweddol yn strategaeth 2050 gan gynnwys datblygu darpariaeth addysg ôl-orfodol sy'n cynyddu cyfraddau dilyniant ac yn cefnogi pawb, beth bynnag fo'u rheolaeth dros yr iaith, i ddatblygu sgiliau Cymraeg i'w defnyddio'n gymdeithasol ac yn y gweithle. Mae'r nodau hyn yn cynnwys sicrhau bod pob dysgwr yn gallu datblygu ei sgiliau Cymraeg i'w lawn botensial ac annog dilyniant ieithyddol cadarn o un cyfnod addysg a hyfforddiant i'r nesaf; a gwella'r ffyrdd o ddarparu cymorth canolog ar gyfer addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg.
- 20.41 Mae'r Bil yn gosod dyletswydd strategol ar y Comisiwn i hyrwyddo addysg drydyddol drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd yn ofynnol i'r Comisiwn annog galw am addysg drydyddol a ddarperir yng Nghymru drwy gyfrwng y Gymraeg a chyfranogiad ynddi; cymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod digon o addysg drydyddol yn cael ei darparu yng Nghymru drwy gyfrwng y Gymraeg i ateb y galw; ac annog darparwyr cofrestredig yng Nghymru i ddarparu addysg drydyddol drwy gyfrwng y Gymraeg ynghyd â phersonau eraill sy'n darparu addysg drydyddol a ariennir neu a sicheir fel arall gan y Comisiwn.
- 20.42 Mae darpariaeth wedi'i chynnwys yn y Bil fel bod y Comisiwn o fewn Atodlen 6 i Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 er mwyn ei bod yn ofynnol iddo gydymffurfio â safonau'r Gymraeg. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod y Comisiwn yn ystyried y Gymraeg yn ei holl weithgareddau a'i bod yn ofynnol iddo ddarparu gwasanaethau Cymraeg.
- 20.43 Mae rhwymedigaeth statudol ar Lywodraeth Cymru hefyd i roi ystyriaeth lawn i effaith ei gwaith ar y Gymraeg. Mae ystyried effeithiau, cadarnhaol a negyddol, ei gwaith ar y Gymraeg, a phobl a chymunedau Cymraeg eu hiaith, yn rhan hanfodol o'r broses o ddatblygu a chyflawni polisiau.

20.44 Bydd cynyddu'r cyfleoedd i ddysgwyr barhau i addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg ôl-16, boed mewn ysgolion, colegau addysg bellach, prentisiaethau neu addysg uwch yn eu galluogi i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg ymhellach. Bydd y cynnydd hwn yn nifer yr unigolion sydd â sgiliau Cymraeg ar amrywiaeth o lefelau o fudd i'r cymunedau y maent yn byw ynddynt a byddant yn helpu i greu gweithlu dwyieithog.

Bioamrywiaeth

20.45 Bydd y Comisiwn yn ddarostyngedig i ddyletswydd adran 6 o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 ac felly bydd yn rhaid iddo geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer ei swyddogaethau. Bydd hyn yn cynnwys ymgorffori a chodi ymwybyddiaeth o fioamrywiaeth drwy weithgareddau, polisïau, cynlluniau, rhaglenni a phrosiectau'r awdurdod o ddydd i ddydd. Yn ogystal, bydd dyletswydd ar y Comisiwn i hyrwyddo cenhadaeth ddinesig gan sefydliadau yng Nghymru o fewn y sector addysg bellach ac uwch. O fewn y ddeddfwriaeth hon diffinnir cenhadaeth ddinesig fel "gweithredu at ddiben hybu neu wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol neu ddiwylliannol Cymru" (gan gynnwys camau sydd â'r nod o gyflawni unrhyw un o'r nodau llesiant).

20.46 Bydd angen i'r Comisiwn ystyried y cynnydd o ran y ddyletswydd cenhadaeth ddinesig yn eu hadroddiadau blynyddol ochr yn ochr â'u blaenoriaethau eraill. Mae prosiect gweithredu wedi'i sefydlu ac mae sefydlu'r Comisiwn newydd yn cael ei ystyried fel rhan o'r prosiect hwnnw. Er na fydd y Bil ei hun yn effeithio ar rywogaethau a chynefinoedd, hyd nes y bydd mwy o wybodaeth yn hysbys am leoliad y safle ar gyfer y corff newydd, ni ellir asesu'r effaith ar amgylcheddau lleol yn llawn. Fodd bynnag, bydd y ffactorau hyn yn cael eu hystyried wrth benderfynu ar leoliad y Comisiwn.

20.47 Er mwyn arddangos cydymffurfiaeth ag Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, mae Asesiad o'r Effaith ar Fioamrywiaeth wedi'i gwblhau ac ni nodwyd unrhyw effeithiau. Fodd bynnag, ar ôl ei sefydlu, bydd dyletswydd ar y Comisiwn i gyhoeddi cynllun ac adroddiad tair blynedd ar sut y maent yn cydymffurfio â'r ddyletswydd.

Y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol

20.48 Mae'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol yn ei gwneud yn ofynnol i gyrrff cyhoeddus perthnasol, gan gynnwys Gweinidogion Cymru, roi sylw dyledus i'r angen i leihau anghydraddoldebau sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol. Mae'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol yn berthnasol i Lywodraeth Cymru ac felly mae'n ofynnol i Weinidogion roi sylw dyledus i'r Ddyletswydd pan fydd penderfyniadau strategol yn cael eu datblygu. Fodd bynnag, nid yw'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (y Comisiwn) wedi'i gynnwys o dan y Ddyletswydd, er yr hoffai Llywodraeth Cymru weld pob corff cyhoeddus yn gweithio yn ysbryd y Ddyletswydd.

20.49 Bwriedir i'r Comisiwn addysg drydyddol ddarparu budd hirdymor i ddarparwyr, dysgwyr a chyflogwyr drwy alinio'r holl addysg drydyddol o dan un corff hyd braich a rhoi anghenion dysgwyr wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau. Dylai hyn helpu i sicrhau bod dysgwyr yn gallu edrych ar yr holl opsiynau sydd ar gael i wneud penderfyniadau gwybodus am lwybrau dysgu sy'n briodol i'w hanghenion

a'u dyheadau. Y strategaeth yw sicrhau dilyniant cydlynol drwy a rhwng y gwahanol sectorau addysg ôl-16, fel bod llwybr dysgu'r unigolyn yn diwallu ei anghenion a'i ddyheadau ac nad yw'n cael ei ddiffinio gan ffiniau artiffisial.

Asesiad o'r Effaith ar Gyfiawnder

20.50 Mae'r Bil yn ail-ddatgan trosedd o rwystro Prif Arolygydd (Estyn) yn fwriadol wrth arfer swyddogaethau mewn perthynas ag arolygiad ganddynt o dan y Bil. Bydd adolygiadau o benderfyniadau'r Comisiwn yn cael eu cynnal gan berson neu banel penodedig, fel sy'n digwydd o dan Ddeddf 2015. Yna, bydd argymhellion y person neu'r panel hwnnw'n cael eu gwneud i'r Comisiwn, a fydd yn gwneud penderfyniad newydd (neu'n glynu wrth ei benderfyniad gwreiddiol).

20.51 Yn ogystal, o fewn y darpariaethau data bydd gan y Comisiwn bŵer cyfarwyddo i ofyn am wybodaeth gan sefydliad neu bersonau penodol. Gellir gorfodi unrhyw gyfarwyddyd o'r fath drwy waharddeb. Fodd bynnag, gan y bydd systemau ar waith i sicrhau bod yr wybodaeth yn cael ei choladu fel mater o drefn, ystyrir bod hyn yn annhebygol yn ymarferol.

20.52 I grynhoi, mae'r cynigion yn y'r Fil yn debygol o gael effaith fach neu ddim effaith o gwbl ar y system gyfiawnder.

20.53 Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi cymeradwyo'r Asesiad o'r Effaith ar Gyfiawnder.

Pennod 21. Prawf hidlo'r gystadleuaeth

21.1 Mae'r sefydliadau y mae'r ddeddfwriaeth yn effeithio arnynt yn cynnwys:

- Sector 1: Sefydliadau sy'n cyllido ac yn rheoleiddio addysg a hyfforddiant ôl-16 ac ymchwil.
 - Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
 - Llywodraeth Cymru
 - Cyngorau ymchwil y Deyrnas Unedig
 - Cyllidwyr ymchwil masnachol a gwirfoddol
 - Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch
 - Estyn
 - Awdurdodau Lleol yn eu rôl o gynnal ysgolion â chweched dosbarth mewn ysgol a gynhelir ac fel cyllidwyr Dysgu Oedolion a Dysgu Cymunedol
- Sector 2: Sefydliadau sy'n darparu hyfforddiant ac addysg ôl-16 (darparwyr):
 - Sefydliadau Addysg Uwch wrth gyflawni gwahanol swyddogaethau (sy'n cynnwys dysgu, cymorth i fyfyrwyr, profiad myfyrwyr, ymgysylltiad dinesig, cynadledda)
 - Sefydliadau Addysg Bellach
 - Ysgolion â chweched dosbarth mewn ysgolion a gynhelir
 - Awdurdodau Lleol yn eu rôl fel darparwyr Dysgu Oedolion a Dysgu Cymunedol
- Sector 3: Sefydliadau masnachol ac elusennol sy'n cynnal ac yn cymryd rhan mewn ymchwil sydd wedi'i chyllido'n gyhoeddus (yn rhannol).
- Sector 4: Cyflenwyr nwyddau a gwasanaethau i'r sefydliadau uchod.
 - Byrddau arholi a darparwyr cymwysterau eraill
 - Busnesau, mangreoedd a gwasanaethau arlwyio
 - Cyflenwyr gwasanaethau a chyfarpar addysgol

21.2 Ar hyn o bryd, dyma'r unig fannau lle mae cystadleuaeth yn bodoli ymhlith y sefydliadau uchod:

- (a) rhwng y sefydliadau yn Sector 2, (sy'n ceisio cynnig hyfforddiant ac addysg am bris cystadleuol sy'n darparu gwerth am arian). Mewn rhai cymunedau, efallai fod yna ddyblygu diangen o gyrsiau sy'n cael eu cynnig gan wahanol ddarparwyr. Gall y gystadleuaeth hon fod yn ddinistriol (er enghraifft, gall arwain at sefyllfa lle mae dau sefydliad sy'n cystadlu yn methu â denu digon o fyfyrwyr i wneud y naill gwrs neu'r llall yn hyfyw ac felly maent yn methu â diwallu anghenion dysgwyr, lle byddai cynnig un cwrs yn sicrhau bod anghenion y dysgwyr yn cael eu diwallu).
- (b) rhwng y sefydliadau yn sector 3, sy'n ceisio bod yn bartneriaid ymchwil a ffefrir.
- (c) rhwng y sefydliadau yn sector 4, sy'n cystadlu i gyflenwi'r nwyddau a ddymunir am brisiau cystadleuol.

Risgiau'r ddeddfwriaeth o ran cystadleuaeth

- 21.3 Rhagwelir y bydd y Comisiwn newydd yn dylanwadu ar y cynnig o hyfforddiant ac addysgu y bydd y sefydliadau yn sector 2 yn ei wneud. Yn gadarnhaol, gall helpu i greu cyrsiau newydd sy'n ofynnol i gyflawni amcanion Llywodraeth Cymru i wella cyfleoedd i ddysgwyr. Yn negyddol, gall ddod yn ymwybodol o ddarpariaeth yr ystyrir ei bod yn is na'r safon, neu'n ddyblygol, a gall, yn unol â hynny, fynd at ddarparwr gyda chais i addasu ei gynnig. Yn y pen draw, gall wrthod rhywfaint o'r cyllid a ddarperir i gefnogi cyflwyno cwrs penodol.
- 21.4 Gall y Comisiwn ddarparu neu gefnogi darparu cyllid ar gyfer ymchwil i'r sefydliadau yn sector 3.
- 21.5 Fodd bynnag, mae swyddogaethau rheoleiddio a sicrhau ansawdd o fewn y sector dan sylw eisoes yn rhan o bwerau Llywodraeth Cymru, CCAUC a Chynghorau Ymchwil y Deyrnas Unedig, a'r cyrff a noddir ganddynt, ac ni fydd y Bil yn creu unrhyw effaith wahanol nac effaith ychwanegol ar y cyfleoedd cystadlu sy'n bodoli ar hyn o bryd o fewn y sectorau a nodir uchod.
- 21.6 Mae prawf hidlo'r gystadleuaeth wedi'i gwblhau.

Cwestiwn	Cyllidwyr a rheoleiddwyr (sector 1)	Darparwyr dysgu (sector 2)	Ymchwilwyr (sector 3)	Cyflenwyr nwyddau a gwasanaethau (sector 4)
C1: Yn y farchnad/marchnadoedd yr effeithir arni/arnynt gan y rheoliad newydd, a oes gan unrhyw gwmni gyfran o'r farchnad sy'n fwy na 10%?	Na - nid ydynt yn gwmnïau	Oes - mae myfyrwyr Prifysgol Caerdydd yn cyfrif am 25% ²⁴ o gyfanswm y dysgwyr addysg bellach ac addysg uwch yng Nghymru.	O bosibl – efallai bod rhai darparwyr addysg uwch a busnesau yn denu mwy na 10% o gyfran y cyllid ymchwil yng Nghymru.	Oes – cyrff arolygu
C2: Yn y farchnad/marchnadoedd yr effeithir arni/arnynt gan y rheoliad newydd, a oes gan unrhyw gwmni gyfran o'r farchnad sy'n fwy na 20%?	Na - nid ydynt yn gwmnïau	Na	O bosibl – efallai bod rhai darparwyr addysg uwch a busnesau yn denu mwy na 20% o gyfran y cyllid ymchwil yng Nghymru.	Na - nid ydynt yn gwmnïau
C3: Yn y farchnad/marchnadoedd yr effeithir arni/arnynt gan y rheoliad newydd, a oes gan y tri chwmni mwyaf gyda'i gilydd	Na - nid ydynt yn gwmnïau	Na	O bosibl – efallai bod tri darparwr addysg uwch a busnes yn denu mwy na	Oes

24 Ffynhonnell: StatsCymru 2017/18 gweler: StatsCymru: Cofrestriadau myfyrwyr yng Nghymru yn ôl sefydliad a blwyddyn

Cwestiwn	Cyllidwyr a rheoleiddwyr (sector 1)	Darparwyr dysgu (sector 2)	Ymchwilwyr (sector 3)	Cyflenwyr nwyddau a gwasanaethau (sector 4)
gyfran o'r farchnad sy'n fwy na 50%?			50% o gyfran y cyllid ymchwil yng Nghymru.	
C4: A fyddai costau'r rheoliad yn effeithio llawer mwy ar rai cwmnïau o gymharu ag eraill?	Na - nid ydynt yn gwmnïau	Na	Na	Na
C5: A yw'r rheoliad yn debygol o effeithio ar strwythur y farchnad, gan newid nifer neu faint y busnesau/sefydliadau?	Ydy	Na. O dan y rheolau presennol, mae hyn yn bosibl	Na. O dan y rheolau presennol, mae hyn yn bosibl	Na
C6: A fyddai'r rheoliad yn arwain at gostau sefydlu uwch i ddarpar gyflenwyr neu gyflenwyr newydd, nad oes rhaid i gyflenwyr presennol eu talu?	Na - nid ydynt yn gyflenwyr	Na	Na	Na
C7: A fyddai'r rheoliad yn arwain at gostau rheolaidd uwch i ddarpar gyflenwyr neu gyflenwyr newydd, nad oes rhaid i gyflenwyr presennol eu talu?	Na - nid ydynt yn gyflenwyr	Na	Na	Na
C8: A yw newid technolegol cyflym yn un o nodweddion y sector?	Na	Na	Ydy	Na
C9: A fyddai'r rheoliad yn cyfyngu ar allu cyflenwyr i ddewis pris, ansawdd, ystod neu leoliad eu cynhyrchion?	Na - nid ydynt yn gyflenwyr	Na	Na	Na
Cyfanswm nifer y sgoriau cadarnhaol	1	1	4	3

Pennod 22. Adolygu ar ôl gweithredu

22.1 Wrth adolygu a gwerthuso'r polisi yn y Bil, byddwn yn canolbwyntio ar weithredu'r canlynol:

- Swyddogaethau statudol y Comisiwn
- Cyfrifoldeb y Comisiwn dros adolygu effeithiolrwydd y system addysg drydyddol yng Nghymru, gan gynnwys ei swyddogaeth ei hun o fewn y system honno.
- Mesur lefelau hyder y cyhoedd yn y sefydliad fel y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil annibynnol yng Nghymru, ac yn y system addysg drydyddol cyn ac ar ôl sefydlu'r Comisiwn; ac
- Adolygu manteision, costau gwirioneddol ac effeithiau sefydlu'r Comisiwn.

Cyflawni swyddogaethau statudol y Comisiwn

22.2 Bydd gan y Comisiwn swyddogaethau mewn perthynas ag addysg drydyddol yng Nghymru. Mae Gweinidogion Cymru a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru yn cyflawni rhai swyddogaethau tebyg ar hyn o bryd.

22.3 Darparu, cynllunio, cyllido a rheoleiddio addysg bellach, addysg uwch, dysgu oedolion a dosbarthiadau chwech mewn ysgolion a gynhelir (drwy'r awdurdodau lleol); cyllido ymchwil ac arloesi; datblygu, cyflwyno ac adolygu fframweithiau prentisiaethau Cymru a chyflwyno tystysgrifau prentisiaethau Cymru; a goruchwyllo a rheoleiddio ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yn y sector addysg drydyddol, hyfforddiant ac ymchwil sydd o fewn ei gylch gwaith.

22.4 Bydd yn ofynnol i'r Comisiwn gyflwyno adroddiad blynyddol i Weinidogion Cymru ar (ymhlith pethau eraill) sut mae wedi cyflawni ei swyddogaethau, y cynnydd a wnaed yn ystod y flwyddyn tuag at gyflawni'r amcanion yn ei gynllun strategol a'r cynnydd tuag at gyflawni blaenoriaethau strategol Gweinidogion Cymru. Bydd Gweinidogion Cymru'n gosod copi o'r adroddiad blynyddol gerbron y Senedd.

22.5 Cyfrifoldeb y Comisiwn fydd cynllunio sut caiff yr adroddiad blynyddol hwn ei lunio a mynd ati i wneud hynny. Cytunir ar y trefniadau adrodd gydag Uned Noddi Llywodraeth Cymru. Bydd yr adroddiad blynyddol cyntaf yn cael ei lunio yn 2024.

22.6 Wrth lunio'r adroddiad, bydd yn ofynnol i'r Comisiwn adrodd ar, ymhlith materion eraill, sut mae wedi cyflawni ei swyddogaethau, gan gyfeirio at ei nodau cyffredinol a'i amcanion lefel uchel. Bydd disgwyl iddo hefyd, er enghraifft, roi adroddiad ar sut mae wedi ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth gyflawni ei swyddogaethau.

22.7 Bydd y Comisiwn yn gorfod ateb 'r Senedd, naill ai mewn sesiwn lawn neu mewn Pwyllgor, a bydd yn cael copi o'r adroddiad blynyddol a osodwyd gan Weinidogion Cymru. Bydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus hefyd yn gallu craffu ar gyllid y Comisiwn.

Adolygu'r system addysg drydyddol ac ymchwil yng Nghymru

22.8 I gefnogi'r amcan lefel uchel o:

- sicrhau bod y system addysg drydyddol ac ymchwil yng Nghymru yn effeithiol;
- codi safonau i bawb; a
- gwella cyfranogiad, cynnydd, perfformiad a deilliannau dysgwyr;

bydd y Comisiwn yn adolygu'r berthynas rhwng gwahanol gyrff, gan gynnwys ei berthynas ei hun gyda'r rheini y mae'n eu cyllido ac yn eu rheoleiddio.

22.9 Bydd hyn, er enghraifft, yn galluogi'r Comisiwn i gynghori Gweinidogion Cymru ar ddatblygiad addysg drydyddol ac ymchwil yng Nghymru yn yr hirdymor.

22.10 Bydd Gweinidogion Cymru'n gosod adroddiad blynyddol y Comisiwn gerbron y Senedd, a bydd yr adroddiad ar gael i'r Senedd ei weld. Gallai'r adroddiad blynyddol gynnwys dadansoddiad cyffredinol o addysg drydyddol ac ymchwil yng Nghymru.

22.11 Roedd y dymuniad i gael corff sy'n gallu edrych yn gyffredinol ar effeithiolrwydd y system addysg drydyddol ac ymchwil yng Nghymru yn ei chyfanrwydd ac sydd â'r gallu i olrhain cynnydd pob dysgwr unigol o'r adeg y mae'n gadael addysg orfodol ac yn dechrau addysg bellach, prentisiaeth neu addysg uwch, yn ddadl bwysig wrth drafod sefydlu'r Comisiwn.

22.12 Bydd y Comisiwn yn casglu'r wybodaeth hon ac yn cynnal gwaith ymchwil a dadansoddiad ystadegol i gynnydd dysgwyr yn gyffredinol, gan gymharu'r rheini sydd mewn categorïau penodol. Bydd gan y Comisiwn bwerau i'w gwneud yn ofynnol i unrhyw berson sy'n cael cyllid ganddo, neu y mae'n gyfrifol am ei reoleiddio, ddarparu unrhyw wybodaeth sydd ei hangen arno i gyflawni ei swyddogaethau, gan gynnwys monitro a gwerthuso.

Hyder y cyhoedd yn system addysg drydyddol Cymru

22.13 Ochr yn ochr â datblygu'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol, mae Cynllun Gwireddu Manteision hefyd wedi'i lunio fel rhan o raglen weithredu'r Comisiwn. I sicrhau cysondeb, mae pob dogfen yn llywio'r llall a byddant yn cael eu trin fel dogfennau ategol at ddibenion adolygu a gwerthuso ar ôl gweithredu yn y dyfodol.

22.14 Dadl bwysig arall wrth drafod sefydlu'r Comisiwn, a nodwyd fel y fantais gyffredinol fwyaf tebygol, yw 'mwy o hyder ymhlith y cyhoedd yn y system addysg drydyddol yng Nghymru'.

22.15 Er i'r cynlluniau cychwynnol ar gyfer yr adolygiad gael eu hamlinellu isod, bydd angen i'r Comisiwn benderfynu ar y ffordd orau o fonitro hyder y cyhoedd yn gyson yn y tymor hirach.

22.16 Cynigir y bydd dwy flwyddyn yn cael eu defnyddio fel sylfaen at ddibenion gwerthuso a chasglu data yn y dyfodol, gan gynnwys i fesur hyder y cyhoedd:

- Blwyddyn academaidd 2022/23: caiff y flwyddyn cyn sefydlu'r Comisiwn ei defnyddio fel sylfaen ar gyfer mesur effaith y manteision a nodwyd ar gyfer y rhaglen a/neu'r graddau y cawsant eu gwireddu gan y Comisiwn, gan gynnwys hyder y cyhoedd (gellir defnyddio data arall lle nad yw hyn ar gael).

- Blwyddyn academaidd 2017/18: caiff y flwyddyn hon ei defnyddio hefyd. Mae hyn yn cyd-fynd â'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn ac yn rhagflaenu'r Ymgynghoriad Technegol a allai ddylanwadu ar ymddygiadau cyn sefydlu'r Comisiwn.

22.17 Gellir mesur hyder hefyd drwy'r arolygon sy'n cael eu cynnal ar hyn o bryd gan Lywodraeth Cymru a phartneriaid eraill. Dylai'r corff newydd allu defnyddio'r rhain neu gomisiynu rhai newydd.

Adolygu manteision ac effeithiau sefydlu'r Comisiwn

22.18 Disgwylir manteision a chanlyniadau eraill sylweddol o'r rhaglen hon - ond ni fyddant, fodd bynnag, yn cael eu gwireddu am sawl blwyddyn ar ôl i'r Comisiwn gael ei sefydlu ac i'r diwygiadau cysylltiedig ddechrau. Fel y nodwyd uchod, lluniwyd Cynllun Gwireddu Manteision.

22.19 Mae'r cynllun gwireddu manteision:

- yn disgrifio'r manteision a geir o sefydlu'r Comisiwn;
- yn nodi pwy sy'n gyfrifol am wireddu'r manteision;
- yn nodi'r sylfeini ar gyfer mesur y manteision;
- yn sail i'r gwaith gwerthuso ac adolygu ar ôl i'r rhaglen ddod i ben er mwyn pennu a yw'r manteision a gynlluniwyd wedi'u gwireddu.

22.20 Mae'r manteision a nodwyd yn y cynllun hwn yn cefnogi nodau ac amcanion rhaglen weithredu'r Comisiwn a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru, ac yn cyd-fynd â nhw.

22.21 O 2024, bydd y Comisiwn yn cymryd y cyfrifoldeb am y Cynllun Gwireddu Manteision a'r cynllun dadansoddi cysylltiedig. Bydd y Comisiwn yn gyfrifol am gynnal adolygiadau o'r manteision yn y dyfodol gan gyflwyno'r canfyddiadau i Lywodraeth Cymru. Cytunir ar y trefniadau adrodd gydag Uned Noddi Llywodraeth Cymru.

22.22 Rhagwelir hefyd y bydd y Comisiwn yn cynnal adolygiadau blynyddol, a bydd unrhyw welliannau'n cael eu mesur yn erbyn y targedau a'r data sylfaenol a bennwyd gan raglen weithredu'r Comisiwn a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru. Caiff adroddiad gwerthuso terfynol ei lunio gan y Comisiwn i adlewyrchu'r data sydd ar gael a'r data cysylltiedig ar gyfer 2033/34.

22.23 Y bwriad yw y bydd y Comisiwn yn cydweithio'n agos â Llywodraeth Cymru ac yn mabwysiadu protocolau Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth a Gwasanaethau Ystadegol y Llywodraeth²⁵, gyda'r Comisiwn yn gallu cynhyrchu ystadegau swyddogol a manteisio ar rai dulliau ymchwilio a gwerthuso sydd eisoes yn bod yn ogystal â chomisiynu rhai newydd.

22.24 Bydd y dull amlweddol hwn o weithio a amlinellir uchod yn canolbwyntio ar y graddau y mae'r ddeddfwriaeth wedi cyfrannu at gyflawni newid ar draws yr ystod o

²⁵ Mae proffesiwn Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth yn cefnogi'r broses o ddatblygu, gweithredu, adolygu a gwerthuso polisiau'r llywodraeth - <https://www.gov.uk/government/organisations/civil-service-government-social-research-profession>. Mae Gwasanaethau Ystadegol y Llywodraeth yn gweithio i ddarparu cyngor, dadansoddiadau a sylfaen dystiolaeth ystadegol er mwyn helpu pobl i wneud penderfyniadau gwell - <https://gss.civilservice.gov.uk/>.

ganlyniadau a ragwelir. Bydd hyn yn cynnwys, fel yr argymhellwyd gan y Pwyllgor Cyllid yn eu hymchwiliad yn 2017 sef 'Ymchwiliad i'r amcangyfrifon ariannol sy'n cyd-fynd â deddfwriaeth', ystyriaeth o gywirdeb y costau amcangyfrifedig sydd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

22.25 Ystyrir hefyd yr angen am broses werthuso interim ar gyfer y rhaglen, ynghyd ag adroddiad posibl gan Swyddfa Archwilio Cymru a gwerthusiad o werth am arian. Byddai'r gwerthusiad hwn yn cael ei lywio gan y gwaith a wnaed mewn perthynas â'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

Prif Ragdybiaethau Opsiwn 6 (Yr Opsiwn a Ffefrir)

1. Fel rhan o ddatblygu'r dadansoddiad priso, defnyddiwyd y rhagdybiaethau allweddol canlynol:

Costau nad ydynt yn ymwneud â'r Rhaglen

2. Un o ragdybiaethau allweddol yr amcanestyniadau yw'r ffaith fod unrhyw arbedion cost sylweddol sy'n deillio o drosglwyddo staff a gwariant, sy'n cael eu trin fel gorbenion ar hyn o bryd (neu gostau nad ydynt yn ymwneud â'r rhaglen) oddi mewn i Lywodraeth Cymru, yn cael eu darparu fel cyllid adnoddau ychwanegol i'r sefydliad newydd.

Gwariant Cyfalaf a Refeniw

- 3 Rhagwelir y bydd y rhywfaint o'r costau TG a Lleoliad yn ystod y cyfnod trosglwyddo yn gostau wedi'u cyfalafu, felly byddant yn cael eu trin fel gwariant cyfalaf. Fodd bynnag, o ystyried y gofynion cyfrifyddu yn ymwneud â chostau anniriaethol mewnol, fel costau meddalwedd a'r wefan, ni all Llywodraeth Cymru gadarnhau hyn ar hyn o bryd.
- 4 O dan safon gyfrifyddu IFRS 16 ar gyfer Prydlesi, mae'n debygol y bydd unrhyw eiddo sy'n cael ei brydlesu gan y Comisiwn yn gost wedi'i chyfalafu. Ar hyn o bryd, mae rhenti prydles wedi'u cynnwys o fewn Costau Eiddo, ond ni fydd y dull cyfrifyddu terfynol, gan ddibynnu ar y strategaeth leoli, yn cael effaith sylweddol ar y rhagolygon hyn.

Sefydlu'r sefydliad

5. At ddibenion y prisiadau hyn, mae bwriad y polisi i cychwyn gweithrediadau'r sefydliad ym mis Tachwedd 2023 wedi'i ddilyn ar gyfer Opsiwn 6. Dyma'r pwynt cynharaf y mae hyn yn debygol. Tybiwyd y bydd costau busnes fel arfer yn parhau i CCAUC a'r Comisiwn tan fis Hydref 2023. Mae unrhyw gostau gweddilliol sy'n dod i CCAUC a Llywodraeth Cymru ar ôl 31 Hydref 2023 wedi'u nodi yng nghostau rhedeg rhagolygol y Comisiwn.
6. Ar gyfer Opsiwn 6, mae gwaith darganfod cynnar wedi'i wneud i lunio dadansoddiad o ddewisiadau ar gyfer y lleoliadau a'r safle posibl ar gyfer y Comisiwn newydd. Mae'r lleoliad yn dibynnu ar benderfyniadau sy'n cael eu gwneud gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg. Felly, at ddibenion yr ymarferiad hwn yn unig, mae prisiadau'r lleoliad ar gyfer y Comisiwn wedi'u pennu trwy ddefnyddio lleoliad yn ne-ddwyrain Cymru. Ceir rhagor o wybodaeth am hyn isod.
7. Ar ddechrau 2019, darparodd y Gweinidog Addysg bryd hynny arweiniad cynnar ar y dull o nodi lleoliad ar gyfer y Comisiwn newydd. Nid oedd hwn yn benderfyniad ar leoliad neu safle ar gyfer y Comisiwn ond yn hytrach i ddarparu sylfaen at ddibenion meincnodi yn unig.
8. Cytunodd y Gweinidog i ddechrau archwilio opsiynau llety yn ardal de-ddwyrain Cymru ar gyfer hyd at 110 o staff gan ganiatáu ar gyfer unrhyw dwf (bellach wedi

ehangu i 127 o staff neu ddwysedd meddiannaeth o 75%). Darparodd hyn gostau sylfaenol i lywio'r prisiadau yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn ogystal â'r gwaith ar gyfer y prosiectau o fewn y rhaglen ehangach gan gynnwys adnoddau dynol a datblygu gweithredol, Prosesau Gweithredol a'r prosiect Data a TGCh.

9. Mae'r rhesymeg dros ddefnyddio de-ddwyrain Cymru fel sylfaen yn ystyried y màs critigol presennol o ran staff yn Llywodraeth Cymru a CCAUC sydd wedi'u lleoli yn yr ardal hon. Mae'r dadansoddiad cynnar hefyd yn ystyried y 39 (oddeutu) o staff sy'n gweithio o bell yn ne-orllewin, canolbarth a gogledd Cymru.
10. Fodd bynnag, mae angen herio ac ystyried y weledigaeth o swyddfeydd traddodiadol i'r Comisiwn nawr yng nghyd-destun ehangach gofynion gweithle yn yr 21ain ganrif. Ers dechrau pandemig Covid-19 a'r cyngor y dylai'r boblogaeth weithio gartref lle bo'n bosibl, mae'r swyddfa draddodiadol wedi newid yn sylweddol.
11. Mae gweithio gartref wedi dod yn norm i gynifer o weithwyr swyddfa sy'n ffodus bod ganddynt systemau digon hyblyg sy'n gallu darparu ar gyfer gweithio o bell. Mae'r ffordd hon o weithio wedi trawsnewid bywydau drwy ryddhau amser i dreulio gydag anwyliaid ac ar weithgareddau i sicrhau'r llesiant mwyaf posibl heb bwysau cymudo dyddiol. Fodd bynnag, i rai mae'r gwrthwyneb wedi digwydd, lle mae gweithio gartref wedi bod yn niweidiol i'w lles ac wedi gwaethygu teimladau o unigrwydd ac mae llai o gyswllt ag eraill wedi cyfrannu at ynysigrwydd cymdeithasol. Felly, bydd amrywiaeth o opsiynau'n cael eu hystyried gyda thechnolegau digidol yn flaenoriaeth o ystyried y gwersi a ddysgwyd dros y ddwy flynedd diwethaf.
12. Mae cefnogi Gweinidogion Cymru i leihau'r ôl troed carbon drwy leihau'r niferoedd sy'n gweithio mewn swyddfeydd wedi arwain at ostyngiad mewn tagfeydd ar y ffyrdd a defnydd preifat o gar sydd wedi helpu i wella ansawdd aer. Felly, bydd archwilio cyfleoedd newydd ar gyfer adfywio a gweithgarwch economaidd, gan symud o fodel sy'n cael ei reoli gan fanwerthu i ystod fwy amrywiol o weithgarwch, yn ystyriaeth.
13. Mae penderfynu ar strategaeth leoli ar gyfer y Comisiwn yn debygol o gael effaith sylweddol ar elfennau costau eraill yn yr amcanestyniadau hyn.

Statws y sefydliad

14. Ar gyfer Opsiwn 6, rhagdybiwyd na fyddai gan y sefydliad statws elusennol ac na fyddai'n gorfod talu treth gorfforaeth y DU.
15. Gallai unrhyw newidiadau i'r statws treth gael effaith sylweddol ar y costau a ysgwyddir.
16. Bydd y Comisiwn yn gorff cofnodion cyhoeddus.

TAW

17. Byddai cofrestru'r Comisiwn at ddibenion TAW yn dibynnu ar a fydd yn gwneud cyflenwadau trethadwy sy'n fwy na'r trothwy TAW. Byddai'n rhaid i'r Comisiwn gofrestru ar gyfer TAW pe bai'n gwneud cyflenwadau trethadwy o nwyddau a gwasanaethau sy'n fwy na'r trothwy TAW presennol o £85k. Mater i'r Comisiwn fydd a yw'r Comisiwn yn dymuno cofrestru'n wirfoddol ai peidio, ni waeth beth fo hyn.

18. Mae TAW wedi'i chynnwys at ddibenion y prisiau hyn, ac ni wnaed unrhyw dybiaeth ynghylch adennill TAW.

Effaith chwyddiant a Gwerth Presennol Net

19. Nid oes unrhyw chwyddiant wedi'i gynnwys yn y sylfaen costau gweithredu cyffredinol.
20. Nid oes unrhyw ddisgowntiau wedi'u cymhwysu i unrhyw un o'r costau a ddefnyddiwyd yn y rhagolygon hyn.

Gwariant y rhaglen

21. Nid yw gwariant y rhaglen wedi'i gynnwys yn yr amcanestyniadau hyn gan y bydd yr un fath yn union ar gyfer y ddau opsiwn. Mae'r gwariant hwn yn cynnwys meysydd fel gwaith ymchwil, cyfathrebu a gwasanaethau arbenigol.

Risgiau a lliniaru

22. Mae risgiau ac ansicrwydd ynghlwm wrth sefydlu sefydliad newydd, yn enwedig oherwydd y sefyllfa anwadal presennol gydag effeithiau parhaus COVID, Brexit, a'r rhyfel yn yr Wcráin yn cael eu teimlo ar yr un pryd. Mae'r sefyllfa hon yn achosi ansefydlogrwydd o ran prisiau a phrinder sgiliau a deunyddiau, sydd yn ei dro yn golygu bod risgiau i'r costau a ragwelir ar gyfer sefydlu a gweithredu'r Comisiwn newydd.
23. Er mwyn lliniaru'r risgiau cymaint â phosibl, cafodd rhannau allweddol o'r amcangyfrifon costau eu paratoi gan ddefnyddio elfennau uchaf yr ystod a ragwelir.
24. Mae yna dybiaethau allweddol yn ymwneud â sefydlu'r Comisiwn sy'n cyfrif am gyfran sylweddol o'r costau, sef:

- nifer y staff
- yr holl gostau staff yn seiliedig ar fandiau uchaf y graddfeydd cyflog presennol
- canran meddiannaeth lleoliad y Comisiwn
- sefydlu'r TG sydd eu hangen ar gyfer y Comisiwn a'r costau i'w ddefnyddio

Ym mhob achos, defnyddiwyd yr elfennau uchaf neu ddull darbodus yn y tybiaethau hyn i amcangyfrif costau pontio a chostau parhaus y Comisiwn. Er enghraifft, rhagwelir y bydd angen uchafswm o 169 o staff ar y Comisiwn. Dyma'r ffigur a ddefnyddiwyd i gyfrifo pa faint o adeilad sydd ei angen a'r costau parhaus ar gyfer defnyddwyr TG. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd y nifer terfynol yn is na hyn gan mai dyma'r uchafswm sydd ei angen.

25. Mae Tabl A1 yn nodi sut mae'r dull hwn yn lliniaru yn erbyn cynnydd mewn costau drwy gynnal dadansoddiad o sensitifrwydd a modelu effaith lleihau'r tybiaethau uchaf hyn ychydig yn yr amcangyfrif cyffredinol. Mae'r dadansoddiad yn nhabl A1 yn dangos bod hyblygrwydd sylweddol wedi'i chynnwys yn yr amcangyfrif cyffredinol o gostau er mwyn lliniaru'r risg o gostau ychwanegol neu uwch. Mae'r dadansoddiad yn dangos y gallai fod gostyngiad posibl o 10% yn yr amcangyfrif cyffredinol.

26. Oherwydd y sefyllfa anwadal sy'n debygol o barhau yn y tymor byr i ganolig o leiaf, mae'r prosiect yn wynebu'r risg o gynnydd mewn prisiau ymhlith risgiau eraill. Er nad yw chwyddiant yn berthnasol i'r amcangyfrifon, o ystyried yr amseroedd digynsail a'r cynnydd a ragwelir mewn costau ynni, tanwydd a chostau eraill, mae'n ddoeth amcangyfrif lefel y risg sy'n weddill ar ôl y lliniaru a ddisgrifir uchod. Mae'r lefelau risg hyn wedi'u cymhwyso i'r crynodeb o'r costau yn Nhabl A2.
27. Amcangyfrifwyd mai 10% yw'r ganran risgiau ar gyfer costau staff, bwrdd, y rhai nad ydynt yn gyflogres, a chostau corfforaethol eraill. Mae'r ganran hon yn seiliedig ar y disgwyliadau bod prisiau'n codi ac y gallai costau cyflogau, gan gynnwys yr Ardoll lechyd a Gofal Cymdeithasol, yn ogystal â chostau eraill, godi. Mae 10% yn cynrychioli dros 1.5x y gyfradd chwyddiant gyfredol yn y DU (Mawrth 2022) i gynnig proffil risg darbodus. Mae'r ganran yn uwch ar gyfer costau lleoliad oherwydd y costau uwch a ragwelir ar gyfer cyfleustodau (ynni), a chostau materol yn ystod y cyfnod gosod. Mae'r ganran yn is ar gyfer TG i adlewyrchu'r ganran uchel sydd eisoes wedi'i gynnwys ar gyfer mesurau lliniaru yn y rhagolygon gwreiddiol.
28. Fel y nodir yn nhabl A2, gallai effaith y risgiau hyn ychwanegu £13.7m at gost gyffredinol y prosiect. Fel y dengys y dadansoddiad o sensitifrwydd, disgwylir i'r risgiau hyn gael eu gwrthbwysu gan ostyngiadau yn yr amcangyfrifon o'r costau.

Tabl A1: Crynodeb o'r costau - Opsiwn 6 yn cynnwys dadansoddiad o sensitifrwydd

	Cyfanswm (£,000)	Cymhareb desgiau i 65	Nifer y staff i 110	Meddalwedd data 750K	Amcangyfrif on gan ddefnyddio 75% o'r bandiau cyflog	Coastau defnyddwyr TG wedi gostwng i £17,5000 y flwyddyn fesul defnyddiwr	Diswyddio na ddefnyddiwyd	Gostyngiad l'r rhagolygon cost	Cyfanswm ar ol addasu (£,000)	Risg %
Costau trosiannol										
Costau staff	109								109	
Costau'r Bwrdd	241								241	
Dileu swyddi	2,030						-2,030	-2,030		100%
Costau staff nad ydynt wedi'u cynnwys yn y gyflogres	292								292	
Costau TG – cyfalaf	4,901		-33	-400				-433	4,468	9%
Coastau corfforaethol eraill	275								275	
Costau lleoliad - cyfalaf	1,702	-191	-79					-270	1,432	16%
Cyfanswm	9,550	-191	-112	-400			-2,030	-2,733	6,817	29%
Costau rhedeg										
Costau staff	97,433		-4,925		-5,755			-10,680	86,753	11%
Costau'r Bwrdd	3,538								3,538	
Dileu swyddi										
Costau staff nad ydynt wedi'u cynnwys yn y gyflogres	2,877								2,877	
Costau TG – cyfalaf	38,129		-1,483			-3,783		-5,266	32,863	14%

	Cyfanswm (£,000)	Cymhareb desgiau i 65	Nifer y staff i 110	Meddalwedd data 750K	Amcangyfrif on gan ddefnyddio 75% o'r bandiau cyflog	Coastau defnyddwyr TG wedi gostwng i £17,5000 y flwyddyn fesul defnyddiwr	Diswyddio na ddefnyddiwyd	Gostyngiad l'r rhagolygon cost	Cyfanswm ar ol addasu (£,000)	Risg %
Coastau corfforaethol eraill	4,850								4,850	
Costau lleoliad - cyfalaf	2,725	-334	-131					-465	2,260	17%
Cyfanswm	149,552	-334	-6,539		-5,755	-3,783		-16,411	133,141	11%
Busnes fel arfer	40,445								40,445	
Total	199,547							-19,144	180,403	10%

Tabl A2: Crynodeb o'r costau – Opsiwn 6 gyda dadansoddiad o sensitifrwydd

Eitem	Cyfanswm gwreiddiol (£,000)	Risg %	Effaith (£,000)	Cyfanswm ar ôl addasu (£,000)
Costau trosiannol				
Costau staff	109	10%	11	120
Costau'r Bwrdd	241	10%	24	265
Dileu swyddi	2,030	0%		2,030
Costau staff and ydynt wedi'u cynnwys yn y gyflogres	292	10%	29	321
Costau TG - cyfalaf	4,901	5%	245	5,146
Costau corfforaethol eraill	275	10%	28	303
Costau lleoliad - cyfalaf	1,702	15%	255	1,957
Cyfanswm	9,550	6%	592	10,142
Costau rhedeg				
Costau staff	97,433	10%	9,743	107,176
Costau'r Bwrdd	3,538	10%	354	3,892
Dileu swyddi		0%		
Costau staff and ydynt wedi'u cynnwys yn y gyflogres	2,877	10%	288	3,165
Costau TG - cyfalaf	38,129	5%	1,906	40,035
Costau corfforaethol eraill	4,850	10%	485	5,335
Costau lleoliad - cyfalaf	2,725	15%	409	3,134
Cyfanswm	149,552	9%	13,185	162,737
Busnes fel arfer				
	40,445	0%		40,445
Cyfanswm	199,547	7%	13,777	213,324

Opsiwn 6 (Yr opsiwn a ffefrir) - rhagdybiaethau manwl

Costau staff

29. Mae'r costau'n seiliedig ar bob un o'r 59 o staff CCAUC yn cael eu trosglwyddo i'r sefydliad newydd.
30. Rhagwelir y bydd swyddogaethau canlynol Llywodraeth Cymru yn trosglwyddo i'r sefydliad newydd. Fodd bynnag, nid yw cwmpas y swyddogaethau na'r staff perthnasol wedi'u pennu eto, ac mae'r ffigurau hyn yn amcangyfrif ar hyn o bryd. Ceir cyfanswm o 110 rôl:
 - Polisi Prentisiaethau
 - Cyllido a Chynllunio
 - Addysg Bellach a Phrentisiaethau
 - Datblygu Polisi a'r Rhaglen
 - Polisi Ôl-16
 - Rheoli Ansawdd a Darpariaeth Rheoli Data Ôl-16
 - Cymorth ac Arweiniad Ieuencid
 - Cyllid Myfyrwyr
 - Polisi Gwyddonol
 - Gwasanaethau Digidol TG
31. Bydd angen 45 aelod o staff ychwanegol ar Lywodraeth Cymru ar gyfer y timau Nawdd, Polisi, a TG, er mwyn rheoli'r berthynas â'r sefydliad newydd a diogelu systemau TG y mae Llywodraeth Cymru yn dibynnu arnynt hefyd.
32. Bydd staff yn trosglwyddo i'r Comisiwn ar sail eu telerau ac amodau presennol, felly mae data cyflogau ac argost yn seiliedig ar gyfuniad o gyfraddau CCAUC, Llywodraeth Cymru a chyfraddau'r farchnad.
33. Mae cyflogau staff CCAUC wedi'u prasio ar frig eu bandiau graddfa yn 2021 yn unol â'u graddfa gyflog yn 2021.
34. Mae prisiadau Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar y codiad diweddaraf ym mis Ebrill 2021, ac mae'r holl gostau staff yn seiliedig ar fandiau uchaf eu graddfeydd cyflog perthnasol.
35. Mae argostau ar gyfer staff Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar y rhai a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru ac maent yn amrywio o 34% i 40%. Yr amcangyfrif ar gyfer argostau CCAUC yw 40%.
36. Nid oes unrhyw lwfans wedi'i gynnwys ar gyfer ailraddio unrhyw rolau.
37. Mae'r costau ar gyfer staff yn seiliedig ar gyfwerth ag amser llawn. Bydd hyd at 169 o rolau gan y Comisiwn (164 cyfwerth â llawnamser).
38. Tybir y byddai tîm rhaglen yn cael ei sefydlu o fewn Llywodraeth Cymru i reoli'r gwaith o weithredu'r opsiwn a ddewiswyd. Nid yw'r gost o ddefnyddio staff Llywodraeth Cymru i weithio ar y rhaglen wedi'i chynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Amcangyfrifir bod y costau hyn tua £3m y flwyddyn rhwng 2021-22 a 2023-24.

39. Mae'r costau ar gyfer y Prif Swyddog Gweithredol wedi'u cyfrif ar sail y dybiaeth y bydd y Prif Swyddog Gweithredol yn ei swydd ddim cynharach na 1 Ebrill 2023 ar gyflog blynyddol o £133,000.

Tabl A3: Dadansoddiad o nifer y staff a'r gost and cost

Sefydliad	Staff		Cost (£,000)	Nifer y staff
Comisiwn	Presennol	Staff CCAUC	3,695	59
	Presennol	Wedi trosglwyddo o Lywodraeth Cymru	6,116	104
	Newydd	Staff ychwanegol ar gyfer TG, AD a Chyllid	368	6
Llywodraeth Cymru	Newydd	Staff ar gyfer Tîm Noddi newydd Llywodraeth Cymru	2,958	45
Cyfanswm			13,137	214

Costau'r Bwrdd

40. Y penodiadau cyntaf i Fwrdd y Comisiwn fydd y Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd (a fydd hefyd yn Gadeirydd y Pwyllgor Ymchwil ac Arloesi). Rhagwelir y byddant yn dechrau yn eu rôl ddim cynharach na mis Ionawr 2023.
41. Bydd 4 aelod 'cyffredin' ar y Bwrdd a fydd yn cael eu penodi o fis Mehefin 2023 a bydd 8 aelod 'cyffredin' arall yn cael eu penodi ym mis Tachwedd 2023.
42. Cyfrifwyd yr holl gostau ar gyfer aelodau'r Bwrdd drwy ddefnyddio'r dyddiad penodi cynharaf.
43. Bydd aelodaeth y pwyllgorau statudol, sef y Pwyllgor Ansawdd a'r Pwyllgor Ymchwil ac Arloesi, yn cael ei phennu a'i phenodi gan y Comisiwn, ar wahân i Gadeirydd y Pwyllgor Ymchwil ac Arloesi (a fydd yn Ddirprwy Gadeirydd y Comisiwn, gweler uchod) a fydd yn benodiad cyhoeddus.
44. Datblygwyd y costau ar gyfer y pwyllgorau statudol ar sail sefydlu'r pwyllgorau erbyn mis Tachwedd 2023 ac mae'r aelodaeth hon, sy'n cynnwys 8 aelod yr un, yn seiliedig ar y pwyllgorau cyfatebol, anstatudol perthnasol o fewn CCAUC sydd â hyd at 10 aelod cyffredin.
45. Y Comisiwn fydd yn pennu'r tâl ar gyfer aelodau'r pwyllgorau statudol ac mae'r costau wedi'u hasesu ar y sail na fydd y Comisiwn yn talu mwy na chyfraddau aelodau Band 3, er mwyn sicrhau nad oes unrhyw wahaniaeth rhwng rolau aelodaeth a benodir yn gyhoeddus neu a benodir gan y Comisiwn ar gyfer y Pwyllgor Ymchwil ac Arloesi.
46. Y pwyllgor statudol terfynol yw'r pwyllgor penodi aelodau staff, a'i rôl fydd penodi'r aelod cyswllt o staff y Comisiwn i'r Bwrdd. Cadeirydd y Bwrdd fydd yn cadeirio'r pwyllgor hwn a'i aelodau fydd aelodau cyffredin y Bwrdd. Gall tymor yr aelod cyswllt o staff y Comisiwn fod hyd at 4 blynedd, ac ar y sail hon tybir y bydd y Pwyllgor hwn yn debygol o gyfarfod lai nag unwaith y flwyddyn ac efallai dim ond unwaith bob 3 i 4 blynedd. Ar y sail hon, nid yw costau'r Pwyllgor hwn wedi'u cynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

47. Mae'r tablau A4 a A5 isod yn cynnwys y costau ar gyfer rolau'r pwyllgorau a'r prif fwrdd, nifer yr aelodau, a'r cyfraddau a chostau recriwtio sy'n gysylltiedig â'r rolau.

Tabl A4: Dadansoddiad o rolau'r Bwrdd

Rôl	Nifer	Diwrnodau bob mis	Cyfradd ddyddiol (£)
Cadeirydd y prif Fwrdd	1	4 o 1 Ion 2023 8 o 1 Tach 2023	394
Dirprwy Gadeirydd	1	4 o 1 Ion 2023 6 o 1 Tach 2023	366
Aelodau'r prif Fwrdd	12 (4 aelod o 1 Mehefin 2023 ac wedyn 8 aelod pellach o 1 Tachwedd 2023)	4 o 1 Meh 2023 (Dim newid i nifer y diwrnodau pan fydd yr aelodau ychwanegol yn dechrau)	337
Cadeirydd y Pwyllgor Ymchwil ac Arloesi (Dirprwy Gadeirydd y Bwrdd)	1	2 o 1 Tach 2023	366
Aelodau'r Pwyllgor Ymchwil	8	2 o 1 Tach 2023	282
Cadeirydd y Pwyllgor Ansawdd (aelod cyffredin o'r Bwrdd)	1	2 o 1 Tach 2023	337
Aelodau'r Pwyllgor Ansawdd	8	2 o 1 Tach 2023	282

Tabl A5: Dadansoddiad o gostau blynyddol parhaus y Bwrdd

Rôl	Cost (£,000)
Cadeirydd	38
Dirprwy Gadeirydd	26
Aelodau'r prif Fwrdd	194
Aelodau'r Pwyllgorau Statudol	123
Teithio a chynhaliath	38
Costau cyfarfodydd	57
Cyfanswm y flwyddyn	357

48. Mae £132,000 wedi'i gynnwys yn y costau trosiannol ar gyfer recriwtio i bob rôl ar y Bwrdd.
49. Amcangyfrifir y bydd costau Teithio a Chynhaliath ar gyfer y Bwrdd tua 10% o ffioedd aelodau'r Bwrdd, ac y bydd costau cyfarfodydd tua 15%. Mae'r ddwy ganran yn seiliedig ar broffil costau presennol CCAUC, gyda didyniad fel canlyniad disgwylidig i weithio o bell, ond mae'r ddau'n amodol ar y strategaeth leoli derfynol.
50. Bydd pob aelod o'r Bwrdd yn derbyn cyfarpar a meddalwedd TG gwerth £1,250 wrth ddechrau yn y rôl.

Costau dileu swyddi

51. Cyfrifwyd y costau dileu swyddi gan KPMG ac maent yn nodi'r costau mwyaf y byddai angen eu hysgwyo pe bai angen dileu swyddi. Defnyddiwyd y gost hon yn seiliedig ar sefyllfa waethaf gan nad oes unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd i gynnig hyn fel opsiwn cyn trosglwyddo. Caiff y costau hyn eu hailystyried yn ystod yr ymarfer diwydrwydd dyladwy a gynhelir yn ystod 2022-23.
52. Nid oes unrhyw gostau wedi'u cynnwys ar gyfer unrhyw aelodau o staff Llywodraeth Cymru sydd eisoes mewn swydd ac sy'n trosglwyddo i'r Comisiwn, gan fod hyn yn drosglwyddiad o dan Ddatganiad Ymarfer Swyddfa'r Cabinet. Os ydynt yn gwrthod trosglwyddo, mae hyn yn ymddiswyddiad ac nid dileu swydd o dan y Datganiad hwn (Egwyddorion TUPE).
53. Gall y strategaeth leoli derfynol sy'n cael ei dewis ar gyfer y sefydliad newydd gael effaith sylweddol ar y rhagdybiaethau uchod, ac felly'r costau.
54. Er bod y costau dileu swyddi hyn yn gost i'r sector cyhoeddus, mae'n werth nodi bod yna 'fudd' cyfatebol i'r unigolyn yn nhermau economaidd.

Costau nad ydynt yn gysylltiedig â'r gyflogres

55. Amcangyfrifir mai costau recriwtio'r Prif Swyddog Gweithredol yw £30,211.
56. Tybir y bydd y rhan fwyaf o staff yn trosglwyddo i'r Comisiwn o CCAUC a Llywodraeth Cymru, ond rhagwelir rhai colledion at ddibenion yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, ac felly neilltuwyd £90,000 fel arian wrth gefn ar gyfer costau recriwtio cyffredinol i'r Comisiwn yn ystod 2023/24.
57. Mae'r rhan fwyaf o gostau nad ydynt yn gysylltiedig â'r gyflogres wedi'u hamcangyfrif fel canran o gyflogau staff ar sail costau presennol CCAUC fel y nodir yn Nhabl A6.

Tabl A6 - Sail ar gyfer costau nad ydynt yn gysylltiedig â'r gyflogres

Eitem	Canran o gyflogau
Teithio a Chynhaliaeth Staff (wedi'i ostwng i adlewyrchu'r defnydd o weithio o bell)	1.00
Hyfforddiant	1.00
Tanysgrifiadau Staff	0.10
Arlwyo	0.10
Amrywiol (yn cynnwys lechyd Galwedigaethol a Rhaglen Cymorth i Weithwyr Cyflogedig)	0.50
Cynadleddau	0.25

58. Gall y strategaeth leoli derfynol sy'n cael ei dewis ar gyfer y sefydliad newydd gael effaith ar y rhagdybiaethau ar gyfer teithio a chynhaliaeth.
59. Mae £169,000 (£1,000 fesul aelod o staff) wedi'i gynnwys yn y costau trosiannol ar gyfer hyfforddi staff ar systemau newydd neu ffyrdd newydd o weithio.

Costau TG

Costau TG trosiannol

60. Rhagwelir y bydd timau gweithredu'n cael eu defnyddio i helpu i sefydlu seilwaith TGCh y Comisiwn a throsglwyddo systemau a data o systemau CCAUC a Llywodraeth Cymru i'r corff newydd. Amcangyfrifwyd y bydd angen 8 ymgynghorydd TG ar gyfartaledd ar gyfer y cyfnod rhwng mis Mai 2022 a mis Hydref 2023 ar gost o £2.4m.
61. Amcangyfrifir bod costau meddalwedd datblygu TG ar gyfer y tîm o 8 ymgynghorydd yn £200 y mis fesul datblygwr ar gyfer bwrdd gwaith datblygwyr a £750 fesul datblygwr y flwyddyn am drwyddedau.
62. Amcangyfrifir mai costau meddalwedd datblygu fydd £12,800 ar gyfer pob mis rhwng mis Mai 2022 a mis Hydref 2023.
63. Mae'n rhaid gwirio diogelwch systemau TG bob blwyddyn, ac wrth lansio unrhyw systemau newydd neu gyflwyno newid sylfaenol i gymwysiadau presennol. Mae'r gwiriadau hyn yn costio hyd at £10,000 yr un a'r gost amcangyfrifedig felly yw £100,000 ar gyfer gwiriadau diogelwch TG cychwynnol.
64. Rhagdybir y bydd Sharepoint yn cael ei defnyddio fel system rheoli dogfennau, ac y byddai'r costau hyn yn cael eu cynnwys fel rhan o'r ystafelloedd swyddfa. Byddai'n rhaid talu costau gosod, ond mae'n amhosibl amcangyfrif y costau hyn ar hyn o bryd, felly nid ydynt wedi'u cynnwys.
65. Rhagwelir y bydd meddalwedd casglu data bwrpasol yn costio rhwng £500,000 a £1,800,000. Mae'r amcangyfrif hwn yn seiliedig ar gostau system Cymwysterau Cymru a Awdurdod Cyllid Cymru. Mae hyn yn rhagdybio y bydd corff newydd yn casglu data, ond bydd y costau gwirioneddol yn dibynnu ar natur ac amseroldeb y data y gofynnir i'r sefydliad newydd ei gasglu. Amcangyfrifwyd cost canolig o £1,150,000.
66. Mae gwariant ar y fewnwyd a'r wefan wedi'i amcangyfrif ar sail gwariant Cymwysterau Cymru, sef gwariant cychwynnol o £117,000.
67. Yr amcangyfrif ar gyfer costau caledwedd cychwynnol, gan gynnwys yr holl gluniaduron, cyfrifiaduron personol, peiriannau argraffu, ffonau symudol, cyfleusterau telegynadleda ac ati yw £785,000 ar sail lefelau defnyddwyr presennol.

Tabl A7: Dadansoddiad o'r costau TG trosiannol

Eitem	Cost (£,000)
Ymgynghorydd	2,376
Meddalwedd ddatblygu	230
Adolygiad diogelwch cychwynnol	100
Creu gwefan	117
Trwyddedau cychwynnol a systemau data	1,293
Caledwedd TG	785
Cyfanswm	4,901

Costau rhedeg TG (costau parhaus)

68. Amcangyfrifir mai'r gost ar gyfer trwyddedau meddalwedd TG yw £154,000 ar sail nifer y defnyddwyr a phrisiau presennol cymwysiadau.
69. Mae gwaith datblygu parhaus ar y wefan wedi'i gynnwys yn y costau ar gyfer y 3 ymgynghorydd TG.
70. Mae'n rhaid gwirio diogelwch systemau TG bob blwyddyn, ac amcangyfrifwyd mai £30,000 y flwyddyn yw cost hyn.
71. Amcangyfrifir y bydd y costau blynyddol ar gyfer yr holl drwyddedau, gwaith cynnal a chadw, y rhyngrwyd ac ati tua £20,000 fesul defnyddiwr, bob blwyddyn, yn unol â'r amcangyfrif uchaf o gostau Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys cyfnewid cluniadur am un newydd o bryd i'w gilydd.
72. O fis Medi 2023 tybir y bydd 3 ymgynghorydd yn cael eu cyflogi am gyfnod amhenodol am gost o £700 y dydd ar gyfer gwaith datblygu parhaus, gan gynnwys cynnal a chadw gwefannau, a fydd yn costio tua £693,000 y flwyddyn.

Tabl A8: Dadansoddiad o'r costau TG parhaus blynyddol

Eitem	Cost (£,000)
Meddalwedd ddatblygu	138
Ardystiad diogelwch blynyddol	30
Costau defnyddwyr	4,280
Ymgynghorwyr TG	693
Cyfanswm	5,141

73. Dylid nodi bod rhai o'r costau TG a gynhwysir yma yn gostau a fyddai'n gymwys waeth beth fo'r opsiwn a gymerir. Mae hyn yn arbennig o wir am gostau sy'n ymwneud â'r angen i uwchraddio systemau etifeddol presennol neu alinio â dulliau safonol y diwydiant i sicrhau bod meddalwedd yn ddiogel, yn ddibynadwy ac yn perfformio.

Costau ymgynghori

74. Mae'r rhan fwyaf o'r costau TG trosiannol a chyfran o'r costau cymorth a datblygu TG parhaus wedi'u costio gan ymgynghorwyr TG allanol. Defnyddiwyd y rhain i sicrhau bod yr amcangyfrifon wedi'u cynhyrchu ar sail ddarbodus (h.y. uchafswm). Er ei bod yn bosibl y bydd partneriaid a thimau gweithredu yn cael eu defnyddio i reoli'r newid TG rhwng CCAUC a Llywodraeth Cymru, nid oes penderfyniad wedi'i wneud eto. O ystyried y galw mawr parhaus am sgiliau TG arbenigol, mae'n bosibl y bydd recriwtio staff parhaol yn anodd ac yn anneniadol o ystyried bod y cyfnod pontio yn gyfnod penodol. Nid yw'r amcangyfrif yn cynrychioli penderfyniad i ddefnyddio 8 ymgynghorydd llawn amser ond yn hytrach mae'n rhagolwg doeth yn wyneb y posibilrwydd o sefyllfa anwadal iawn o ran costau ac mae'n cynnwys risg a hyblygrwydd wrth gefn.

75. Unwaith y bydd y Comisiwn ar waith, mater i'r Comisiwn ei hun fydd penderfynu ar y strategaeth cymorth TG. Mae gan y Comisiwn ddyletswydd i sicrhau gwerth am arian ac felly mater iddynt hwy fydd asesu a yw'r defnydd hirdymor o ymgynghorwyr yn bodloni'r prawf hwnnw. Yr amcangyfrifon a roddir yw'r uchafswm a ragwelir yn cynnwys risg a hyblygrwydd wrth gefn.

Costau corfforaethol eraill

76. Ceir amcangyfrif o'r costau hyn yn Nhabl A9, ar sail sefydliadau tebyg neu gostau parhaus presennol CCAUC:

Tabl A9: Dadansoddiad o gostau corfforaethol eraill blynyddol parhaus

Eitem	Cost (£,000)
Cyfieithu	51
Tanysgrifiadau	59
Cadw dogfennau oddi ar y safle	8
Ffôn	13
Tâl post	3
Cyflenwadau swyddfa a deunydd ysgrifennu	3
Costau llungopiwr	3
Cynadleddau a gynhelir gan y Comisiwn	34
Arall	6
Yswiriant	30
Ffioedd cyfreithiol	172
Archwiliad mewnol	69
Taliad yr archwilwyr	77
Ffioedd ymgynghori	123
Ffioedd banc	3
Cyfanswm	654

Costau'r lleoliad

77. Yn absenoldeb tystiolaeth o feddiannaeth ar ôl Covid, a dim eglurder gwirioneddol ynghylch canolfannau sector cyhoeddus, bydd angen adolygu'r tybiaethau a wneir ar hyn o bryd yn rheolaidd. Er nad oes strategaeth leoli wedi'i chwblhau ar gyfer yr endid newydd, mae costau wedi'u crynhoi i roi syniad cyffredinol o gyfanswm y costau.
78. Amcangyfrifir y bydd costau rhent tua £121,920 y flwyddyn (gan gynnwys TAW), ar sail cyfleuster swyddfa pwrpasol sy'n bodoli eisoes yn ne Cymru a fyddai'n darparu lle i 127 o weithwyr cyflogedig. Er bod disgwyl i hyd at 169 o staff cyfwerth ag amser llawn, rhagdybir cyfradd lenwi o 75% o dan ein rhagdybiaethau gweithio'n hyblyg. Mae'r rhain yn seiliedig ar ddarpariaeth fwyaf Llywodraeth Cymru ar gyfer niferoedd tebyg o staff.
79. Yn unol â'r arfer safonol, mae cyfnod o chwe mis heb rent wedi'i gynnwys ar gyfer gosod yr adeilad. Mae'r arfer hon yn dibynnu ar y farchnad ar y pryd, sydd hefyd yn dibynnu ar y leoliadau.

80. Mae £5,000 wedi'i gynnwys yng nghostau trosiannol 2022-2023 o dan ffioedd ymgynghoriaeth (costau corfforaethol eraill) ar gyfer comisiwn allanol er mwyn arfarnu'r opsiynau ar gyfer lleoliad y Comisiwn.
81. Mae ffioedd asiant gwerth o £14,630 (10% o'r rhent blynyddol a TAW) wedi'u cynnwys ar gyfer chwilio am safle addas.
82. Mae darpariaeth o £100,000 wedi'i gwneud ar gyfer costau dadfeilio pan ddaw'r les cyfredol ar gyfer CCAUC i ben. Bydd angen talu hyn i'r landlord, Llywodraeth Cymru.
83. Mae tablau A10 a A11 yn nodi'r costau trosiannol a'r costau parhaus sydd wedi'u cynnwys yn yr amcangyfrif o gostau'r lleoliad. Mae'r rhain yn seiliedig ar y costau a ysgwyddir gan sefydliadau o faint tebyg.

Tabl A10: Dadansoddiad o'r costau trosiannol ar gyfer y lleoliad

Eitem	Cost (£,000)	Nodiadau
Costau TG (gan gynnwys TAW)	203	Cylchol bob 5 mlynedd
Costau dodrefn (gan gynnwys TAW)	410	Cylchol bob 10 mlynedd
Costau tynnu staff	2	Untro
Cyfalaf ar gyfer y gwaith o osod tu mewn yr adeilad	864	Untro
Rhent	-	Cyfnod chwe mis am ddim ar gyfer gosod tu mewn yr adeilad
Cyfraddau	19	Yn ystod y cyfnod chwe mis ar gyfer gosod tu mewn yr adeilad
Costau eraill	83	Yn ystod y cyfnod chwe mis ar gyfer gosod tu mewn yr adeilad
Taliadau dadfeilio (dros 10 mlynedd)	8	Yn ystod y cyfnod chwe mis ar gyfer gosod tu mewn yr adeilad
Dadfeilio - CCAUC i adael Swyddfa Bedwas	100	Untro
Ffioedd yr Asiant	15	Untro
Cyfanswn	1,702	

Tabl A11: Dadansoddiad o'r costau blynyddol parhaus ar gyfer y lleoliad

Eitem	Cost (£,000)	Nodiadau
Rhent fesul metr sgwâr	122	Cylchol bob blwyddyn
Cyfraddau fesul metr sgwâr	38	Cylchol bob blwyddyn
Costau eraill fesul metr sgwâr	165	Cylchol bob blwyddyn
Taliadau dadfeilio (dros 10 mlynedd)	15	Cylchol bob blwyddyn
Cyfansm y flwyddyn	340	

* Yn 2028-2029, ceir £203K ychwanegol o gostau TGCh oherwydd costau cylchol bob 5 mlynedd

84. Mae costau eraill yn cynnwys cyfleustodau, rheoli cyfleusterau a chostau carbon.

Rhagdybiaethau Opsiwn 1

85. Er bod Opsiynau 6 a 4a yn cynnwys gwariant sylweddol ar waith mudo TG, gan gynnwys uwchraddio systemau etifeddol CCAUC i alluogi swyddogaethau cwmwl, nid oes unrhyw wariant wedi'i gynnwys yn yr Opsiwn 'Busnes Fel Arfer'.
86. Er nad yw'n ofyniad mor brys, mae angen diweddarau systemau CCAUC yn unol â safonau derbyniol diweddaraf y diwydiant, a fyddai'n arwain at wariant sylweddol. O ystyried eu natur unigryw ac arbenigol, mae'n anodd iawn darogan costau, a gallant fod yn annigonol. Mae swm o £250,000 y flwyddyn wedi'i gynnwys ar gyfer rhaglen Gwella TG ar gyfer CCAUC.
87. Mae'r costau staff yn seiliedig ar gyfwerth ag amser llawn at ddiben y costau hyn.
88. Mae holl gostau CCAUC yn seiliedig ar yr wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael.
89. Mae costau staff Llywodraeth Cymru yn cyfeirio at y timau meysydd polisi, yn unol â pharagraff 30 uchod.
90. Mae costau nad ydynt yn ymwneud â thâl ar gyfer staff Llywodraeth Cymru yn cynnwys costau teithio a chynhaliaeth, sef 1.00% o'r costau cyflog.


Rhagdybiaethau Opsiwn 4a

91. Mae costau CCAUC rhwng 2020-21 a 2022-23 wedi'u nodi yn Opsiwn 1.
92. Mae costau dileu swyddi wedi'u nodi yn Opsiwn 6.
93. Mae costau staff Llywodraeth Cymru a chostau staff nad ydynt wedi'u cynnwys yn y gyflogres yr un fath ag Opsiwn 6 heb y staff ychwanegol.
94. Mae'r costau staff yn seiliedig ar gyfwerth ag amser llawn at ddibenion y costau hyn.
95. Mae costau TG yn seiliedig ar gostau datblygu a mudo systemau a data CCAUC i system Llywodraeth Cymru, ac maent wedi'u cyfrifo yn unol â Opsiwn 6, ac eithrio costau sy'n cael eu hystyried fel gorbenion gan Lywodraeth Cymru, sy'n cael eu talu'n ganolog.

Dadansoddiad Cost a Budd o Ddiwygiadau Addysg: Asesiad Cyflym o'r Dystiolaeth



Hydref 2019



Crynodeb Gweithredol

Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu cwmni Alma Economics i gwblhau Asesiad Cyflym o'r Dystiolaeth yn ymwneud â'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer cwblhau dadansoddiad cost a budd o bolisi addysg a hyfforddiant ôl-orfodol (AHO). Ehangwyd hyn hefyd i ystyried tystiolaeth yn ymwneud â diwygiadau addysg ehangach ac i roi rhywfaint o sylw i arferion Asesiadau Effaith eraill, yng Nghymru yn benodol. Mae llenyddiaeth academaidd a chyhoeddiadau sector cyhoeddus wedi cael eu hystyried.

Defnyddiwyd dwy strategaeth chwilio wahanol i sicrhau ymdriniaeth drylwyr o'r sylfaen dystiolaeth. Cafodd papurau a ychwanegwyd at restr hir o chwiliadau cychwynol eu blaenoriaethu yn ôl eu perthnasedd a'u hansawdd. Hefyd, rhoddwyd mwy o flaenoriaeth i waith ymchwil mwy diweddar, gan ganolbwyntio'n benodol ar y cyfnod ers 2000, er bod rhywfaint o waith ymchwil cynharach wedi'i ystyried hefyd. Mae Adran I yn amlinellu'r fethodoleg yn fanylach.

Mae Adrannau II i VI yn amlinellu canfyddiadau allweddol o'r adolygiad o'r dystiolaeth (gydag Adran VI yn canolbwyntio ar dystiolaeth yn ymwneud â'r cynllun gwireddu manteision drafft), sef:

- 1. Prin iawn yw'r astudiaethau sy'n darparu gwerthusiadau meintiol o fanteision diwygiadau addysgol.** Mae hyn yn wir am ymchwil academaidd a chyhoeddiadau gan y sector cyhoeddus. Mae'r llenyddiaeth yn cynnwys rhywfaint o feirniadaeth o addasrwydd dadansoddiad cost a budd fel techneg ar y sail y gallai fod yn anodd rheoli'r dasg o gynhyrchu amcangyfrifon meintiol cadarn ar gyfer llawer o ddiwygiadau polisi. Lle mae effeithiau AHO yn cael eu meintioli yn y llenyddiaeth, e.e. asesiad o'r premiwm graddedigion, nid yw'n glir sut y byddent yn cael eu cymhwyso i ddadansoddiad cost a budd.
- 2. Lle mae Asesiadau Effaith wedi'u llunio yn y maes polisi hwn, ym mhob achos a nodwyd, mae'r manteision wedi'u meintioli fel "sero" ac wedi'u disgrifio ar sail ansoddol.** Mae hyn yn gyffredin mewn cyhoeddiadau'r DU yn ymwneud â diwygiadau addysg, tystiolaeth ryngwladol ar ddiwygiadau addysg ac Asesiadau Effaith Llywodraeth Cymru.
- 3. Ceir tystiolaeth sy'n cefnogi'r rhan fwyaf o'r manteision a nodwyd ar gyfer y cynigion presennol i ddiwygio AHO yng Nghymru** (fel yr amlinellwyd yn y cynllun gwireddu manteision drafft). Yr Asesiadau Effaith a oedd yn bodloni ein meini prawf cynnwys ac a nodwyd fel rhai a oedd yn ddefnyddiol ar gyfer y diwygiadau AHO arfaethedig yng Nghymru oedd: yr achos o blaid creu'r Swyddfa Fyfyrrwyr; yr achos o blaid creu Ymchwil ac Arloesi yn y DU; y Bil Addysg Uwch ac Ymchwil: asesiad manwl o effaith; Bil Cymwysterau Cymru; a Datganiad Effaith Reoleiddio Awstralia ar gyfer Diwygio Rheoliad Cenedlaethol Darparwyr Addysg Uwch. Ni nodwyd tystiolaeth ar gyfer yr holl fanteision a restrwyd yn y cynllun gwireddu manteision, er nad yw hyn yn golygu na fydd y manteision hyn yn cael eu gwireddu'n ymarferol. Mae'n debygol nad oes llawer o waith ymchwil wedi'i gwblhau yn y sylfaen dystiolaeth flaenorol yn ymwneud â rhai o nodweddion y diwygiadau arfaethedig presennol, neu eu bod yn gymharol newydd. O ganlyniad, nid oes cyswll hanesyddol iddynt. Nodwyd rhai manteision ychwanegol nad ydynt wedi'u cynnwys yn y cynllun gwireddu manteision,

ac fe'u disgrifir ar ddiwedd Adran

Cyflwyniad

Mae'r sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol (AHO) yng Nghymru yn cynnwys set o sefydliadau sy'n darparu cyfleoedd addysgol i ddysgwyr o 16 oed ymlaen. Yn benodol, mae'r sector AHO yn cwmpasu addysg chweched dosbarth mewn ysgolion prif ffrwd/addysg bellach, addysg uwch, academiâu hyfforddiant ôl-16, prentisiaethau, sefydliadau hyfforddi preifat (er enghraifft o fewn busnesau) ac unrhyw fath o addysgu a hyfforddi arall nad yw'n perthyn i'r sectorau Addysg Gynradd neu Uwchradd. Mae'r sector yn gwneud cyfraniad allweddol at wella symudedd a chynhwysiant cymdeithasol, yn ogystal â chreu cyfleoedd ar gyfer gwaith ymchwil ac arloesi a'i fasnacheiddio'n llwyddiannus.

Nod yr adolygiad hwn yw datblygu'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer arfarnu'r broses o gyflwyno un corff rheoleiddio newydd yn y sector AHO yng Nghymru, gan ganolbwyntio'n benodol ar ochr manteision y dadansoddiad cost a budd. Gwnaed hyn trwy grynhoi'r dystiolaeth bresennol yn ymwneud â manteision diwygiadau tebyg yn y DU a thramor.

Hefyd, mae'n ceisio nodi effaith y diwygiad arfaethedig mewn meysydd allweddol yn sgil diwygiadau tebyg ym maes addysg yn ehangach, o ystyried y cysylltiad rhwng y ddau fath o ddysgu.

Mae'r adroddiad wedi'i strwythuro fel a ganlyn:

- Mae Adran I yn amlinellu ein methodoleg ar gyfer chwilio a chreu rhestr fer o bapurau academaidd a pholisi a fydd yn helpu i ateb ein cwestiynau ymchwil. Yn yr adran hon, rydym yn cyflwyno'r termau chwilio a ddefnyddiwyd gennym i greu ein llyfryddiaeth a'n meini prawf cynnwys ar gyfer asesu addasrwydd astudiaethau ar gyfer ein hadolygiad.
- Mae Adran II yn trafod y dystiolaeth y daethom o hyd iddi, gan ddefnyddio ein dulliau chwilio a amlinellwyd, sydd y tu allan i gategori asesiadau effaith. Mae'r papurau hynny'n gyhoeddiadau academaidd yn bennaf, sy'n trafod materion methodolegol yn ymwneud â gwerthuso polisi, y manteision allweddol sy'n deillio o addysg uwch a hyfforddiant galwedigaethol, yn ogystal â diwygiadau blaenorol ym maes addysg a'u heffeithiau (os cawsant eu nodi).
- Mae Adran III yn cyflwyno'r pedwar Asesiad Effaith mwyaf perthnasol a ganfuwyd, yn seiliedig ar ddefnyddio termau chwilio a meini prawf cynnwys Adran I. Rydym yn crynhoi rhai manteision allweddol y disgwylir iddynt ddeillio o gyflwyno fframwaith rheoleiddio cenedlaethol ym meysydd addysg neu ar ôl cyflwyno deddfwriaeth ar gyfer un rheoleiddiwr. Un o ganfyddiadau pwysig yr adran hon yw'r ffaith nad oes unrhyw Asesiad Effaith yn darparu amcangyfrifon meintiol ar gyfer y manteision lefel uchel a ragwelir, ac felly mae adran yr adroddiad sy'n canolbwyntio ar arfarnu manteision wedi'i chyfyngu i ddisgrifiadau naratif.
- Mae Adran IV yn crynhoi canfyddiadau Asesiadau Effaith a gwblhawyd ar gyfer diwygiadau polisi nad ydynt yn ymwneud ag addysg yng Nghymru. Aethom ati i adolygu Asesiadau Effaith blaenorol a gwblhawyd yng Nghymru er mwyn cynyddu

ein dealltwriaeth o gynseiliau Asesiadau Effaith ehangach yng Nghymru.

- Mae Adran V yn cyflwyno tystiolaeth ar ddiwygiadau rhyngwladol ac yn ceisio nodi gwledydd eraill sy'n ystyried cyflwyno diwygiadau tebyg i Gymru. Yn ein barn ni, er bod diwygiadau tebyg yn mynd rhagddynt yn rhyngwladol, e.e. Cyngor Cyllido'r Alban a gyflwynwyd yn ddiweddar, nid oes unrhyw Asesiad Effaith neu Ddadansoddiad Cost a Budd yn ceisio mesur y manteision sy'n deillio o ddiwygiadau o'r fath.
- Mae Adran VI yn nodi'r cysylltiad rhwng canfyddiadau ein hadolygiad llenyddiaeth â'r manteision a ragwelwyd gan Lywodraeth Cymru, ac mae'n rhestru rhai manteision ychwanegol a amlygwyd gan ein gwaith ymchwil. Yn fwy penodol, daethom o hyd i ddadleuon yn ein rhestr fer o Asesiadau Effaith yn ymwneud â sut y byddai cyflwyno'r Comisiwn newydd yn arwain at enillion cynhyrchiant ar gyfer rhanddeiliaid gwahanol yn y sector AHO, yn ogystal â manteision eraill nad ydynt yn gysylltiedig â'r farchnad megis gwella iechyd, gwella'r broses o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus, ac osgoi costau trwy wella'r gallu i wrthsefyll siociau. Yn olaf, rydym yn rhestru'r manteision disgwylidig ar gyfer Llywodraeth Cymru, gan nodi bod yna brinder tystiolaeth yn y cyswllt hwn wrth lunio'r Asesiad Cyflym o Dystiolaeth. Mae Atodiad A yn crynhoi rhywfaint o'r wybodaeth yn Adran VI mewn tabl.

I. Methodoleg

Strategaeth Chwilio A

Y brif strategaeth chwilio ar gyfer dod o hyd i dystiolaeth i gefnogi'r Asesiad Cyflym hwn o'r Dystiolaeth oedd chwilio am bapurau academaidd a phapurau polisi sy'n mesur effeithiau economaidd cymdeithasol a phreifat rheoleiddio'r sector ar sail y termau chwilio yn Nhabl 1.

Tabl 1. Termau Chwilio'r Asesiad Cyflym o'r Dystiolaeth

Termau cynradd	Termau eilaidd cyffredinol	Termau eilaidd penodol
Addysg Ôl – orfodol	Polisi	Costau rheoleiddio
Addysg Uwch	Diwygio	Costau
Dysgu oedolion	Newid mewn polisi	Effaith
Dysgu seiliedig ar waith	Atgyfnerthu	Arbedion
Chweched dosbarth	Arfarnu polisi	Manteision
Sector addysg drydyddol	Gwerthuso polisi	Cydraddoldeb
Polisi addysg	Dadansoddiad cost a budd	Ymchwil
	Cynllunio, cyllido a monitro	Llesiant
	Llywodraethu	Twf

	Corff rheoleiddio	Swyddi
		Cymunedau gwledig

Er mwyn llunio rhestr fer o bapurau, aethom ati i ddarllen crynodebau a theitlau ac yna cymhwyso'r meini prawf cynnwys a ddangosir yn Nhabl 2 i ddewis y rhestr o bapurau a gafodd eu hadolygu'n llawn.

Tabl 2. Termau a disgrifiadau

Meini Prawf	Cwmpas yr Adolygiad
Amlygiad o ddiddordeb	<ul style="list-style-type: none"> • Diwygiadau polisi addysg • Cyfuno diwygiadau swyddogaethau rheoleiddiol
Ffocws penodol	<ul style="list-style-type: none"> • Manteision sy'n deillio o ddiwygiadau addysg • Manteision sy'n deillio o gyfuno swyddogaethau rheoleiddio
Grwpiau o ddiddordeb	<ul style="list-style-type: none"> • Dysgwyr ôl-16 oed • Darparwyr dysgu • Darparwyr Ymchwil ac Arloesi • Adrannau'r Llywodraeth, cyrff cyhoeddus • Cyflogwyr a chymunedau
Adolygiad gan gymheiriaid	<ul style="list-style-type: none"> • Canolbwyntio ar ddiwygiadau polisi Aseidiadau Effaith, ond bydd tystiolaeth a adolygir gan gymheiriaid yn cael ei chynnwys hefyd
Lleoliad daearyddol	<ul style="list-style-type: none"> • Canolbwyntio ar astudiaethau'r DU, ond bydd tystiolaeth ryngwladol yn cael ei hystyried hefyd
Dyddiadau'r ymchwil	<ul style="list-style-type: none"> • Blaenoriaethu gwaith ymchwil ar ôl 2000
Dulliau ymchwil/ dylunio'r astudiaeth	<ul style="list-style-type: none"> • Pob dull
Iaith	<ul style="list-style-type: none"> • Saesneg yn unig
Mathau o gyhoeddiadau	<ul style="list-style-type: none"> • Erthyglau cyfnodolyn a adolygwyd gan gymheiriaid; allbynnau academiaidd nas adolygwyd gan gymheiriaid (adroddiadau, papurau gwaith, ac ati); gwaith ymchwil a gomisiynwyd gan Lywodraethau; cyhoeddiadau gan sefydliadau ymchwil eraill; tystiolaeth ymarferwyr a darparwyr; cyhoeddiadau Llywodraethau • Mae'n cynnwys adolygiadau o dystiolaeth ac astudiaethau gwreiddiol • Nid yw'n cynnwys erthyglau golygyddol/erthyglau papurau newydd

Ar ôl chwilio am dystiolaeth trwy ddefnyddio cyfuniadau gwahanol o'r termau chwilio arfaethedig uchod, daethom i'r casgliad mai prin iawn yw'r astudiaethau sy'n darparu asesiadau meintiol o fanteision diwygio addysgol.

Yn gyffredinol, roedd y fethodoleg arfaethedig yn amlygu'r mathau canlynol o gyhoeddiadau:

- i) Papurau yn ymwneud â chyfuno sefydliadau (ysgolion, prifysgolion ac ati),²⁶
- ii) Astudiaethau sy'n canolbwyntio ar faterion methodolegol yn ymwneud ag arfarnu polisiau addysg, ac asesiadau beirniadol o addasrwydd dadansoddiad cost a budd at ddiben o'r fath, a²⁷
- iii) Llenyddiaeth sy'n gysylltiedig â manteision ac enillion addysg neu addysg bellach.²⁸

Strategaeth Chwilio B

Yn ogystal â'r fethodoleg uchod, aethom ati i ddefnyddio dull chwilio arall gan ddefnyddio geiriau allweddol wedi'u diffinio'n fwy cul. Ar ôl defnyddio'r strategaeth hon fe gawsom restr o bapurau a oedd yn fwy perthnasol i:

- i) ddiwygiadau addysg yn y gorffennol yn y DU a'u heffaith, ac
- ii) effaith ddosbarthiadol diwygiadau ym maes addysg.

II. Tystiolaeth y tu allan i lenyddiaeth asesiadau effaith

Dadansoddiad Cost a Budd a'i gyfyngiadau ym maes Polisi Addysg

Thema gyson a gododd o'r llenyddiaeth allanol a adolygwyd oedd absenoldeb cyffredinol astudiaethau dadansoddiad cost a budd ffurfiol. Er enghraifft, yn eu hadolygiad llenyddiaeth yn 2019, mae Belfield, Brooks Bowden a Rodriguez yn nodi bod yna ddiffyg dadansoddiad cost a budd ym maes polisi addysg. Roedd eu gwaith ymchwil wedi amlygu 28 achos yn unig o ddadansoddiadau cost a budd ffurfiol mewn asesiadau effaith rheoleiddiol ar gyfer diwygiadau mewn addysg, ac ar ôl eu hadolygu, daethant i'r casgliad bod yr ansawdd yn anfodddhaol. Yn eu hadolygiad, dim ond 1 o 28 o astudiaethau dadansoddiad cost a budd a lwyddodd i gyfrifo gwerth doler ar gyfer manteision, ni wnaeth unrhyw asesiad effaith gyfrifo gwerth presennol net, a dim ond 37% o'r asesiadau effaith a gofnododd ragdybiaethau methodolegol allweddol yn ddigonol.

Un ffactor sy'n arwain at y defnydd cymharol isel o ddadansoddiadau cost a budd mewn diwygiadau addysgol yw'r cwestiwn a yw'r dull hwn yn debygol o arwain at ganlyniadau cadarn. Er enghraifft, cwblhaodd Gilead (2014) archwiliad beirniadol i ystyried a yw dadansoddiad cost a budd yn ddull cadarn o arfarnu diwygiadau addysgol, gan ddod i'r casgliad y gallai anawsterau technegol penodol yn ymwneud ag ymarfer dadansoddiad cost a budd arwain at ganlyniadau camarweiniol ac argymhellion sy'n camliwio gwerth

26 The Short-Term Effects of School Consolidation on Student Achievement: Evidence of Disruption? Ar gael yn <http://ftp.iza.org/dp10195.pdf>

27 Methods for Causal Evaluation of Education Policies and Practices: An Econometric Toolbox. Ar gael yn http://www.eenee.de/dms/EENEE/Analytical_Reports/EENEE_AR5.pdf Education and the Rationale of Cost Benefit Analysis. Ar gael yn <https://www.tandfonline.com/doi/abs/10.1080/00071005.2014.969190> , Evaluating Regulatory Impact Assessments in Education Policy ar gael yn <https://journals.sagepub.com/doi/abs/10.1177/1098214018785463?journalCode=ajec>

28 The Economic Inefficiency of Student Fees in England: Why paying tuition fees from the public purse makes financial sense. Ar gael yn http://www.if.org.uk/wp-content/uploads/2017/04/The-Economic-Inefficiency-of-Student-Fees_Final.pdf and Costs and Benefits in Vocational Education and Training ar gael yn <https://www.oecd.org/education/innovation-education/41538706.pdf>

gwirioneddol y dewisiadau addysgol a aseswyd. Mae anawsterau o'r fath yn cynnwys y nifer uchel o fuddion (neu gostau) na ellir eu mesur neu eu rhagweld cyn cyflwyno diwygiadau, y graddau na ellir rhagweld canlyniadau, ac ansicrwydd yn ymwneud â chydymffurfiaeth sefydliadau â'r rheoliad newydd. Mae presenoldeb y cyfyngiadau hyn yn golygu bod gwerth dadansoddiad cost a budd yn ddadleuol (Belfield, Bowden, a Rodriguez, 2019; Gilead, 2014). Dim ond os yw'r rhan fwyaf o'r canlyniadau a ragwelir yn fesuradwy iawn, sef amod nad yw'n cael ei fodloni'n aml wrth asesu diwygiadau addysgol, y bydd dadansoddiad cost a budd yn ddigon cryf i lywio polisi seiliedig ar dystiolaeth.

Manteision allweddol addysg uwch ac addysg alwedigaethol

Er gwaethaf cyfyngiadau'r llenyddiaeth bresennol, aethom ati i adolygu nifer o astudiaethau addysgiadol yn ymwneud â manteision allweddol addysg uwch ac addysg alwedigaethol. Yn ôl Llywodraeth y Deyrnas Unedig, y premiymau graddedigion yn y DU yn 2013 oedd £252,000 ar gyfer menywod a £168,000 ar gyfer dynion (Albertson, 2017). Fodd bynnag, mae edrych ar wahaniaethau enillion yn unig yn gallu bod yn gamarweiniol oherwydd gallai enillion adlewyrchu gwahaniaethau mewn cymhelliant, oedran, rhyw a chefnidir cymdeithasol hefyd, ac ar yr un pryd, maent yn methu â chofnodi unrhyw fanteision i weithwyr eraill ar ffurf enillion cynhyrchiant (Woodhall, 1992). Hefyd, mae diffygion y farchnad lafur yn cyfyngu ar werth gwahaniaethau enillion fel mesur o adenillion i addysg. Ac eithrio gwahaniaethau mewn enillion preifat i gyflogau, mae addysg yn arwain at allanoldebau ac effeithiau 'nad ydynt yn ymwneud â'r farchnad ' y mae'n anodd eu mesur yn ariannol. Mae manteision o'r fath yn cynnwys enillion effeithlonrwydd o arbenigedd yn ogystal â chymdeithasau iachach a mwy gwrth-risg, sy'n parchu'r gyfraith, yn oddefgar, yn sefydlog ac yn arloesol (Albertson, 2017) (Woodhall 2004).

Dadleuwyd bod y rhestr o fanteision cymdeithasol anuniongyrchol yn cynnwys gwerth defnydd addysg, democrateiddio cymdeithasau, lleihau tlodi ac ansawdd amgylcheddol gwell (Woodhall, 2004).

Gan edrych yn benodol ar addysg a hyfforddiant galwedigaethol, amlygodd ein hadolygiad llenyddiaeth fanteision tymor byr a hirdymor gwahanol i randdeiliaid amrywiol ar wahanol adegau. Er enghraifft, disgwylir y bydd unigolion mewn addysg a hyfforddiant galwedigaethol yn elwa yn y tymor byr o gael mwy o gyfleoedd i gael eu cyflogi, ennill mwy o arian, a chael swyddi mwy boddhaol. Yn y pen draw gallant ddisgwyl mwy o hyblygrwydd a symudedd, a gwella eu cyfleoedd ar gyfer dysgu gydol oes. Mae'r manteision i gyflogwyr yn deillio o weithlu wedi'i hyfforddi'n well ac arbedion cost yn sgil recriwtio gweithwyr medrus. Mae manteision cymdeithasol ehangach yn y tymor byr yn cynnwys arbedion mewn costau lles, o ganlyniad i bontio mwy effeithiol o addysg i gyflogaeth, ac yn yr hirdymor gall cymdeithas ddisgwyl enillion cynhyrchiant o ganlyniad i addysg well yn ogystal â chynnydd mewn refeniw treth incwm (Hoeckel, 2008).

Cyfuno ysgolion yn Nenmarc

Mae astudiaeth benodol o effeithiau cyfuno pwerau rheoleiddio o dan un rheoleiddiwr cyffredinol ym maes addysg ac addysg bellach yn amlygu bwlch clir yn y llenyddiaeth bresennol; bwlch sy'n golygu bod diffyg ymchwil wedi bod yn y maes hwn. Gallai'r diffyg tystiolaeth fod yn arwydd o anhawster mesur y manteision lefel uchel y mae diwygiadau rheoleiddio o'r math hwn yn eu targedu, neu'r anhawster o ran diffinio grwpiau gwrthffeithiol cadarn.

Er enghraifft, aeth Beuchert *et al* (2016) ati i asesu effaith tymor byr cyfuno ysgolion yn Nenmarc rhwng 2010 a 2011. Defnyddiodd yr awduron strategaeth gwahaniaethau-mewn-gwahaniaethau, ac roedd yr amcangyfrifon yn awgrymu bod effaith gyffredinol cyfuno ysgolion yn negyddol (er yn ddibwys). Amcangyfrifir bod dod i gysylltiad â sefyllfa lle mae ysgol yn cau, fel math penodol o broses gyfuno, yn lleihau canlyniadau profion myfyrwyr 5.9% o'r gwyrriad safonol, tra bod yr effaith niweidiol hon ar ganlyniadau profion yn codi i 11% ar gyfer myfyrwyr mewn ysgolion bach sy'n cau (150 o fyfyrwyr neu'n llai). Ar y llaw arall, amcangyfrifir nad yw ehangu ac uno ysgolion yn cael effaith arwyddocaol ar berfformiad myfyrwyr yn ystadegol. Mae'r dull gwahaniaethau-mewn-gwahaniaethau yn gynllun arbrolfol sy'n defnyddio grwpiau trin a rheoli i nodi effeithiau achosol priodol. Mae cymharu newidiadau mewn canlyniadau rhwng grwpiau sy'n cael eu trin a grwpiau sy'n cael eu rheoli yn adnodd methodolegol a ddefnyddir yn eang ar gyfer arfarnu diwygiadau ac ymyriadau polisi ar yr amod bod data cyn ac ar ôl ymyriad ar gael (Schlotter, Schwerdt, a Woessmann, 2009). Er gwaethaf addasrwydd i'r diben y gwaith ymchwil hwn o safbwynt methodolegol, ni ddaethom o hyd i unrhyw ymchwil debyg sy'n gwerthuso'r broses o gyfuno swyddogaethau rheoleiddio yn y sector addysg neu addysg alwedigaethol.

Diwygiadau addysg blaenorol y DU

Mae yna gysylltiad rhwng ymddygiad micro ddarparwyr addysg uwch a'r amgylchedd macro ar lefel y wladwriaeth. Dangosodd ein gwaith ymchwil i brofiad y DU fod Llywodraethau wedi gwneud mwy o ymdrech dros y blynyddoedd diwethaf i ymyrryd yn y sector addysg uwch, gan gynnwys mewn addysg ôl-orfodol, cymhellion sefydliadau a 'llywio' ymddygiad sefydliadol ac academaidd tuag at nodau polisi cenedlaethol (Ferlie, Musselin, a Andresani, 2009). Mae 'llywio' o'r fath gan y wladwriaeth yn anelu yn y pen draw at drefnu'r farchnad ar gyfer addysg uwch tuag at gyflawni amcanion cenedlaethol penodol na allai'r farchnad ei hun eu cyflawni.

Mae dulliau cydgysylltu yn cynnwys dulliau dyrannu cyllid a chynllunio, awdurdodau a fframweithiau rheoleiddio, a hyd yn oed darparu cyfres o syniadau wedi'u cynllunio i ddarparu rhagdybiaethau ideolegol a normadol ynglŷn â sut y dylai sefydliadau gael eu llywodraethu (Meek, 2002).

Mae'r 'gynffon hir' o gyflawniad cymharol isel yn duedd empirig gyson ar gyfer system addysg y DU, ynghyd â'r lefelau isel o symudedd cymdeithasol, sgiliau sylfaenol gwael y phoblogaeth, cyfraddau isel y rhai sy'n aros mewn addysg yn 16 oed, a system addysg alwedigaethol gymhleth (Hupkau, McNally, Ruiz-Valenzuela, a Ventura, 2017; Machin a Vignoles, 2006). Mae mynd i'r afael â materion o'r fath wedi bod yn sbardun allweddol i ddiwygiadau blaenorol.

Creu 'lled-farchnad' mewn addysg – meithrin cystadleuaeth

Mae'r papur "Polisi Addysg yn y DU", a gyhoeddwyd gan y Ganolfan Economeg Addysg, yn adolygu tystiolaeth empirig o effaith diwygiadau allweddol, a luniwyd i fynd i'r afael â nifer o ddiffygion yn system addysg y DU. Mae diwygiadau o'r fath yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â diffygion system addysg y DU a nodwyd yn flaenorol. Y diwygiad mwyaf trawiadol oedd cyflwyno mecanweithiau'r farchnad trwy greu lled-farchnad mewn addysg trwy Ddeddf Diwygio Addysg 1988. Er mwyn mynd i'r afael â'r 'gynffon hir' o gyflawniad gwael, aeth Llywodraeth y DU ati i gynyddu dewis rhieni (gan ganiatáu i rieni gael eu cynrychioli ar gyrrff llywodraethu ysgolion), lleihau anghymesuredd gwybodaeth (trwy

sicrhau bod gwybodaeth am ganlyniadau profion ar gael i'r cyhoedd mewn ' tablau cynghrair '), a chysylltu cyllid ysgolion â nifer y disgyblion mewn ysgol (gan gymell ysgolion i ddenu a derbyn mwy o fyfyrwyr) (Machin a Vignoles, 2006). Mae cysylltu cyllid ysgolion â nifer y disgyblion a sicrhau

bod data ar effeithiolrwydd ysgolion ar gael i'r cyhoedd yn hyrwyddo mwy o chwarae teg i ysgolion lle mae cystadleuaeth am fyfyrwyr yn seiliedig ar deilyngdod, gan hyrwyddo deilliannau gwell. Cwestiwn empirig yw i ba raddau y bydd sefydliadau yn ymateb yn adeiladol i ddiwygiadau o'r fath i'r farchnad. Gall materion yn ymwneud â thegwch godi os yw rhai sefydliadau yn bachu'r myfyrwyr mwyaf addawol ar draul sefydliadau eraill. Bydd derbyn mwy o fyfyrwyr ar sail canlyniadau eu profion yn bennaf yn gwella safle'r ysgol yn y 'tablau cynghrair ' ac o ganlyniad bydd y disgyblion mwyaf galluog neu'r rhai sy'n gallu defnyddio gwybodaeth gyhoeddus yn well yn tueddu i gael eu derbyn.

Mae (Hoxby, 2000, 2003) yn profi effaith rhoi mwy o ddewis i rieni ar ganlyniadau profion myfyrwyr yn yr Unol Daleithiau, gan ganfod bod mwy o ddewis yn arwain at gynnydd yng nghanlyniadau profion myfyrwyr a gostyngiad yng ngwariant ysgolion fesul myfyriwr – gan arwain at effaith gadarnhaol gyffredinol ar gynhyrchiant ysgolion. Mae tystiolaeth yn ymwneud â'r DU yn galw am fwy o dryloywder yn y broses dderbyn, yn ogystal â monitro cryfach o arferion derbyn myfyrwyr darparwyr addysg. Fe aeth West a Pennel (1998) ati i archwilio'r wybodaeth sydd ei hangen gan rieni fel rhan o'r broses derbyn myfyrwyr, gan nodi bod yna gymhellion yn system y DU i ysgolion ddewis myfyrwyr sy'n perfformio'n well mewn profion, neu'r rhai sy'n debygol o fod yn gyflawnwyr uwch oherwydd eu cefndir economaidd-gymdeithasol. Roedd ysgolion yn gofyn am wybodaeth gan rieni am alwedigaeth rhieni, cyflawniadau'r disgybl yn y gorffennol a'i hanes o safbwynt absenoldebau, hobiau, cyrhaeddiad mewn dosbarthiadau cerddoriaeth a/neu unrhyw radd a enillwyd, gweithgareddau chwaraeon ac unrhyw ragoriaeth a gyflawnwyd yn ogystal ag unrhyw gymorth arbennig a gafodd ar ffurf cymorth ychwanegol gyda darllen (West, Pennel, a Noden, 1998). Er gwaethaf y cymhellion cryf ar gyfer detholedd ysgolion a rhieni, nid yw'n ymddangos bod y dystiolaeth o arolygu cyfraddau aros mewn addysg yn 16 oed yn y DU ar gyfer y blynyddoedd 1974, 1986 a 1996, wedi'u dadansoddi yn ôl grŵp incwm rhieni ar gyfer nifer o garfannau gwahanol, yn awgrymu bod mwy o arwahanu economaidd-gymdeithasol ar draws ysgolion. Yn ystod y cyfnod pan gafodd diwygiadau i'r farchnad eu cyflwyno yn Lloegr (1986 i 1996) cafwyd cynnydd yn y gyfradd aros mewn addysg ar gyfer pob plentyn, tra bod y cyfraddau'n tyfu'n gyflymach i blant o'r lefelau incwm isaf (Machin a Vignoles, 2006).

Diwygio'r cwricwlwm a chyflwyno strategaethau llythrennedd a rhifedd cenedlaethol

Er mwyn mynd i'r afael â phroblem y lefel isel iawn o sgiliau sylfaenol mewn rhifedd a llythrennedd, a chyda nod hirdymor i godi safonau i bawb, cyflwynodd llunwyr polisi addysg ddau ddiwygiad mawr yn y DU. Y cyntaf oedd cyflwyno cwricwlwm cenedlaethol safonedig ar gyfer disgyblion rhwng 7 ac 16 oed, a'r ail oedd cyflwyno Strategaethau Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol. Nod y diwygiad cyntaf oedd sicrhau bod yr holl fyfyrwyr rhwng 7-16 oed yn astudio set o bynciau wedi'u pennu ymlaen llaw hyd at lefel ofynnol. Roedd yr ail ddiwygiad yn ymwneud â phenderfyniad Llywodraeth y DU i ragnodi'r cynnwys a'r dulliau addysgu ar gyfer addysgu cwricwlwm sgiliau sylfaenol, gan gynnwys gwersi rhifedd a llythrennedd (Machin a Vignoles, 2006).

Nid oes tystiolaeth gadarn wedi'i nodi yn ymwneud ag effeithiolrwydd y cwricwlwm cenedlaethol cyffredinol. Fodd bynnag, mae rhywfaint o dystiolaeth ar gael am effeithiolrwydd y Strategaethau Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol. Fel rhan o'u hymchwiliad empirig i effeithiolrwydd y Polisi Llythrennedd Cenedlaethol yn ystod ei gyfnod peilot, fe aeth Machin a McNally (2004) ati i gymharu disgyblion a oedd wedi cael profiad o Strategaethau Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol â disgyblion mewn ysgolion lle nad oedd y polisi ar waith, gan nodi bod gwelliannau arwyddocaol yn ystadegol mewn darllen a Saesneg yng Nghyfnod Allweddol 2.

Diwygio addysg ôl-orfodol

Yn ogystal â phryderu am y gyfran gymharol isel o bobl ifanc sy'n aros mewn addysg y tu hwnt i'r oedran addysg orfodol, roedd llunwyr polisi addysg yn y DU hefyd yn poeni am y cyfranogiad cymharol wan mewn addysg a hyfforddiant galwedigaethol (Machin a Vignoles, 2006). Nid oedd digon o bobl ifanc yn ymgymryd â chymwysterau galwedigaethol yn y DU yn ystod y 1980au a'r 1990au, ac roedd gormod o fyfyrwyr yn cefnu ar addysg a hyfforddiant yn gyfan gwbl, gan fynd i mewn i'r farchnad lafur heb unrhyw gymwysterau o gwbl. Yn ogystal, mae rhieni a myfyrwyr wedi beirniadu gwerth economaidd dilyn cymhwyster galwedigaethol gan fod cannoedd o gymwysterau gwahanol yn cael eu cynnig gan ddarparwyr gwahanol, ac mae'r gofynion yn wahanol (Machin a Vignoles, 2006).

I fynd i'r afael â'r broblem hon, cyflwynodd y Llywodraeth gyfres o ddiwygiadau. Cyflwynwyd y Cymwysterau Galwedigaethol Cenedlaethol (NVQ) ym 1988 a'r Cymwysterau Galwedigaethol Cenedlaethol Cyffredinol (GNVQ) ym 1992. Yn 2004, cyflwynwyd trosglwyddiadau arian parod amodol trwy'r Lwfans Cynhaliath Addysg (LCA) ar gyfer pob unigolion ôl-16 oed o gefndiroedd difreintiedig a oedd yn aros mewn addysg amser llawn. Ymddangosai fod diwygiadau'r LCA yn llwyddiannus iawn; trwy dalu lwfans cymedrol, cynyddodd cyfraddau aros mewn addysg ar ôl 16 oed 4.5 y cant, tra bod hanner yr unigolion a arhosodd mewn addysg yn dod o aelwydydd anweithgar yn hytrach na chyflogaeth (Dearden, Frayne, Emmerson, a Meghir, 2005).

Yn eu hastudiaeth ar 'The Returns to Academic and Vocational Qualifications in Britain', mae Dearden *et al* (2002) yn darparu tystiolaeth sy'n nodi bod bwlch yn bodoli rhwng y premiymau cyflog a enillir o gymwysterau academaidd a'r rhai a enillir o gymwysterau galwedigaethol ar ôl diwygiadau'r NVQ a GNVQ. Gellid dehongli'r bwlch hwn fel arwydd negyddol o fod â chymhwyster galwedigaethol i gyflogwyr, sy'n meddwl bod gan y bobl hyn allu isel oherwydd bod aelodau'r gweithlu sy'n perfformio'n wael yn tueddu i ddilyn hyfforddiant galwedigaethol, yn enwedig yn y DU (Machin a Vignoles, 2006). Fodd bynnag, mae astudiaeth Dearden yn herio'r datganiad hwn trwy ddangos, ar ôl ystyried yr amser sy'n ofynnol er mwyn ennill y cymhwyster, bod y ddau fath o gyflog yn cydgyfeirio, gan awgrymu bod mwy o gydraddoldeb rhwng y ddau fath o addysg (Dearden, McIntosh, Myck, a Vignoles, 2002).

Effeithiau dosbarthiadol diwygiadau polisi addysg

Mae'r bennod "Education Policy Reforms" yn yr adroddiad "Analysing the Distributional Impact of Reforms" gan Fanc y Byd30 yn defnyddio astudiaethau achos ar lefel gwlad a thystiolaeth empirig ddiweddar i nodi canlyniadau dosbarthiadol diwygiadau polisi addysg ar lesiant rhanddeiliaid gwahanol, y prif gyfryngau trawsyrru sy'n arwain at randdeiliaid yn

cael eu heffeithio gan y diwygiadau neu'n effeithio arnynt, a'r dulliau safonol ar gyfer dadansoddi effaith gymdeithasol mewn addysg. Mae diwygiadau polisi addysg yn effeithio ar brisiau, enillion, cyflogau a chyflogaeth. Gall adleoli adnoddau arwain at ehangu mynediad at addysg. Yn yr hirdymor, mae diwygiadau sy'n ehangu addysg ac yn ailddyrranu incwm yn cael effeithiau deinamig pwysig rhwng y cenedlaethau trwy ddarparu mynediad gwell at gyfleoedd cyflogaeth a lliniaru tlodi. Yn gyffredinol, mae cynnydd mewn cronïad cyfalaf dynol mewn gwlad yn cryfhau'r capasiti i greu incwm, felly mae polisiau sy'n ceisio gwella cyfalaf dynol pobl dlawd yn cael effeithiau dosbarthiad blaengar.

Mae amcanion gwahanol yn gofyn am wahanol fathau o ddiwygio ym maes addysg. Fel arfer, mae rhaglenni diwygio prosesau rheoli a sefydliadol yn ceisio datganoli grym, a gellir eu rhoi ar waith naill ai drwy drosglwyddo swyddogaethau gweinyddol neu drosglwyddo awdurdod yn llawn o unedau canolog i unedau lleol ('datganoli') (Tiongson, 2005). Mae newidiadau o'r fath yn fwy nag addasiadau gweinyddol yn unig gan eu bod yn newid perthynas atebolrwydd a'r dull o ddarparu gwasanaethau yn sylfaenol. Mae diwygiadau gwariant yn ailddyrranu gwariant tuag at lefel benodol o addysg, grŵp incwm neu uned ddaearyddol benodol. Nod diwygiadau cyllido yw cynyddu cyfranogiad mewn addysg trwy leihau cost addysg a darparu adnoddau cyllid ar ffurf grantiau neu ysgoloriaethau. Gall llacio cyfyngiadau cyllido i grwpiau economaidd-gymdeithasol penodol, hwyluso mynediad at ysgolion o ansawdd uchel (e.e. trwy dalebau), a gwella ansawdd addysg, arwain at gynyddu ymrestrïadau ymysg pobl dlawd. Ar y llaw arall, gall diwygiadau sy'n ei gwneud yn anos i unigolion difreintiedig gael mynediad at addysg leihau ymrestrïadau ar gyfer y grŵp penodol. Gallai diwygiadau o'r fath gynnwys cyflwyno neu godi ffioedd defnyddwyr (Tiongson, 2005).

III. Tystiolaeth o asesiadau effaith addysg

Hyd y gwyddom ni, mae arfarniadau polisi sy'n berthnasol i'n tasg wedi'u cyfyngu i ychydig o asesiadau effaith rheoleiddiol sydd ond yn trafod manteision rheoleiddio mewn ffordd naratif ac yn darparu amcangyfrifon o arbedion cost sy'n deillio o gyfuno swyddogaethau a dileu dyblygu gwaith. Mae'r papurau polisi a nodwyd ar gyfer y rhestr fer yn cynnwys, ac wedi'u cyfyngu i, yr Achos dros greu'r Swyddfa Fyfyrrwyr³¹, yr Achos dros greu Ymchwil ac Arloesi yn y DU³², y Bil Addysg Uwch ac Ymchwil: asesiad effaith manwl³³, Bil Cymwysterau Cymru: Memorandwm Esboniadol³⁴ a Diwygio Datganiad Effaith Reoleiddiol Darparwyr Addysg Uwch.³⁵ Yn yr adran hon, rydym yn adolygu dau asesiad effaith blaenorol yn ymwneud â diwygiadau a gyflwynwyd yng Nghymru er mwyn cynyddu ein dealltwriaeth o gynseiliau asesu effaith ehangach yng Nghymru. Nid oes unrhyw un o'r asesiadau hyn yn mesur y manteision disgwylidig, ac eithrio'r asesiad effaith ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg yng Nghymru, lle amcangyfrifwyd yr arbedion cost. Ar gyfer y rhan fwyaf o'r asesiadau effaith a adolygwyd, nodwyd bod y manteision yn ansicr cyn cyflwyno'r diwygiadau, a bod y canlyniadau'n

³¹ Ar gael yn <https://www.gov.uk/government/publications/Office-for-Students-business-case>

³² Ar gael yn https://assets.Publishing.Service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/527803/BIS-16-291-ukri-case-for-Creation.pdf

³³ Ar gael yn https://assets.Publishing.Service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/528005/BIS-16-295-HE-research-BILL-detailed-impact-assessment.pdf

³⁴ Ar gael yn <https://www.assembly.wales/laid%20documents/pri-ld10026-em-r/pri-ld10026-em-r-w.pdf>

³⁵ Ar gael yn <https://ris.PMC.gov.au/sites/default/files/posts/2012/01/03-Reform-of-National-Regulation-of-Higher-Education-providers-Regulation-impact-Statement.pdf>

dibynnu i raddau helaeth ar sut y caiff polisi newydd ei roi ar waith; gall polisi da fod yn aneffeithiol os yw'n cael ei weithredu'n wael.

Y Swyddfa Fyfyrrwyr

Roedd creu'r Swyddfa Fyfyrrwyr yn rhan o set ehangach o ddiwygiadau rheoleiddio a gyflwynwyd fel rhan o Fil Addysg Uwch ac Ymchwil 2016. Nod y Bil oedd cyflwyno rhagor o gystadleuaeth ym marchnadoedd Addysg Uwch (AU) ac Ymchwil ac Arloesi er mwyn sicrhau mwy o werth i fyfyrrwyr, trethdalwyr a busnesau. Roedd yr achos o blaid creu Swyddfa Fyfyrrwyr yn nodi'r sail resymegol dros y dewis a oedd yn cael ei ffafrio gan Lywodraeth y DU, sef disodli'r ddau gorff cyhoeddus sy'n ofynnol drwy statud i reoleiddio addysg uwch yn Lloegr gydag un corff cyhoeddus anadrannol a fyddai'n gweithredu fel unig reoleiddiwr y farchnad. Byddai'r rheoleiddiwr addysg uwch newydd, sef y Swyddfa Fyfyrrwyr, yn cyfuno ac yn diweddarau swyddogaethau rheoleiddio Cyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr (HEFCE) a rolau'r Swyddfa dros Fynediad Teg (OFFA). OFFA oedd y corff statudol a sefydlwyd i gefnogi'r Cyfarwyddwr Mynediad Teg (DFA), ac roedd dyletswyddau'r corff yn cwmpasu cytuno a monitro cytundebau mynediad â phrifysgolion a cholegau sy'n codi ffioedd dysgu uwch, a sicrhau bod gan ddarparwyr addysg uwch (AU) fesurau digonol ar waith i ddenu myfyrrwyr o gefndiroedd difreintiedig. Hefyd, roedd gan HEFCE amcan rheoleiddio cysylltiedig i ddyrannu cyllid er mwyn ehangu cyfranogiad mewn AU.

Trwy uno swyddogaethau'r ddau reoleiddiwr, nod y Llywodraeth oedd dwyn ynghyd dwy agenda gysylltiedig, gyda'r sefydliad cyfunol yn elwa ar arbenigedd dau sefydliad gan hwyluso strategaeth fwy cydlynol tuag at y nod o ehangu cyfranogiad mewn AU. Mae'r achos busnes yn nodi'r canlynol fel manteision uniongyrchol disgwylid y diwygiad: i) symleiddio trefniadaeth AU a gwella cydlynid yn y dulliau rheoleiddio a dyrannu cyllid, ii) hyrwyddo buddiannau myfyrrwyr ym maes addysg yn well trwy gynyddu cystadleuaeth a dewis, a iii) rheoleiddiwr mwy grymus ac addas i'r diben sy'n gyfrifol am gynnal fframwaith rheoleiddio seiliedig ar risg sy'n berthnasol i bob darparwr AU (Llywodraeth y DU, 2016a). Mantais ddisgwylid arall i Lywodraeth y DU oedd arbedion cost yn deillio o ostyngiad yn nifer y cyrff cyhoeddus a defnyddio systemau mwy effeithlon. At ddiben yr asesiad effaith rheoleiddiol, tybiwyd y byddai arbedion effeithlonrwydd yn lleihau costau gweithredu'r Llywodraeth 10%.

Ymchwil ac Arloesi'r DU

Yn yr un modd â'r Swyddfa Fyfyrrwyr, roedd Llywodraeth y DU yn ffafrio'r dewis i gyflwyno corff rheoleiddio cyfatebol yn y farchnad ymchwil ac arloesi. Roedd yr Achos o Blaid Creu Ymchwil ac Arloesi yn y DU yn 2016 yn asesu'r dewis a ffafriwyd gan y Llywodraeth, sef creu un corff cyhoeddus anadrannol newydd, a fyddai'n gweithredu hyd braich oddi wrth Lywodraeth y DU ac yn dwyn ynghyd y saith Cyngor Ymchwil, swyddogaethau cyllido ymchwil HEFCE a swyddogaethau cyllido Innovate UK. Yn yr un modd â'r Swyddfa Fyfyrrwyr, roedd y manteision yn deillio o wella gwerth am arian i drethdalwyr, mwy o effeithlonrwydd a llai o ddyblygu gwaith. Nodwyd meysydd cydgrynhoi arfaethedig eraill i fanteisio'n well ar effeithlonrwydd, sef swyddogaethau adnoddau dynol, caffael, cyllid, archwilio, TG a gwasanaethau cyfathrebu, a rhagdybiwyd y byddai'r arbedion gweinyddol sy'n deillio o'r uno yn cyfateb i 5% o gyfanswm costau gweinyddol Llywodraeth y DU (Llywodraeth y DU, 2016b). Hefyd, rhagwelwyd y byddai UKRI, trwy osgoi dyblygu gwaith a dileu biwrocratiaeth, yn gallu ymgorffori'r arbedion effeithlonrwydd yn well ac ailgyfeirio ei adnoddau tuag at fwy o swyddogaethau arweinyddiaeth strategol a fyddai'n caniatáu i'r swyddfa wneud penderfyniadau cyllido ymchwil ac arloesi mwy gwybodus yn seiliedig ar ddangosyddion perfformiad darparwyr.

Yn ogystal, disgwylid y byddai'r broses gydgrynhoi yn lleihau'r baich rheoleiddiol ar ddarparwyr effaith rheoleiddiol a'u galluogi i ddyrannu eu hadnoddau'n fwy effeithlon. Byddai hyn yn deillio o'r ffaith fod y baich rheoleiddio llai yn golygu bod sefydliadau effaith rheoleiddiol yn gallu uno swyddogaethau swyddfa gweinyddol yn ymwneud â delio gyda rheoleiddwyr lluosog a dyrannu mwy o adnoddau ar gyfer gwaith ymchwil.

Un o fanteision eraill y diwygiad oedd cynnydd yng nghyfradd enillion gwariant cyhoeddus ar weithgareddau ymchwil a datblygu. Roedd yn cyfateb i gynnydd o 1 y cant yng nghynhyrchiant y sector preifat, yn ogystal â chynnydd yng nghyfradd gymdeithasol enillion arloesi o ganlyniad i gydweithrediad y sylfaen ymchwil a masnacheiddio prosesau arloesi yn well yn y lle busnes (Llywodraeth y DU, 2016b). Yn olaf, roedd yna ganlyniadau eraill na ellir eu marchnata sy'n anos eu mynegi'n ariannol, gan gynnwys gwelliannau mewn llesiant ac iechyd, datblygu polisi cyhoeddus yn well a gallu gwrthsefyll digwyddiadau annisgwyl yn well trwy osgoi costau.

Asesiadau Effaith eraill y Bil Addysg Uwch ac Ymchwil

Mae Asesiad Effaith Manwl y Bil Addysg Uwch ac Ymchwil, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU ym mis Mehefin 2016, yn darparu dau achos arall o ddiwygiadau sy'n cyd-fynd â rhesymeg Llywodraeth Cymru ar gyfer creu un corff rheoleiddio a fydd yn mabwysiadu'r holl swyddogaethau cyllido, cynllunio a monitro yn y sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol. Y ddau ddiwygiad yw'r asesiad effaith ar gyfer *Mynediad i'r sector addysg uwch a'r porth mynediad sengl* a'r asesiad effaith ar gyfer *Dyletswyddau Rhannu Gwybodaeth a Thyloywder Data*.

Roedd y cyntaf yn asesu manteision diwygio'r system ddilysu a swyddogaethau rheoleiddiol eraill yn ymwneud â chydabod graddau, cydnabod statws AU gan Lywodraeth y DU, a chyflwyno fframwaith rheoleiddio sy'n seiliedig ar risg. Roedd yr olaf yn asesu'r manteision sy'n deillio o gyflwyno deddfwriaeth sy'n galluogi'r Swyddfa Fyfyrrwyr i fod yn brif gorff y llywodraeth gyda'r pŵer i'w gwneud yn ofynnol i ddarparwyr AU, a chyrrff eraill sy'n darparu gwasanaethau derbyn myfyrwyr, rannu data ariannol a mathau eraill o ddata ar fyfyrwyr (e.e. gwybodaeth am gefndir ethnig, rhywedd ac economaidd-gymdeithasol y myfyrwyr sy'n cael eu derbyn bob blwyddyn).

Wrth asesu achos Cymru, a'i dewis i ddeddfu ar gyfer Comisiwn a fydd, ymysg pethau eraill, yn gyfrifol am fonitro a rheoleiddio darparwyr AHO o dan fframwaith rheoleiddio seiliedig ar risg, mae'r asesiad effaith cyntaf yn darparu tystiolaeth ynglŷn â pha fath o fanteision sy'n debygol o ddeillio o gyflwyno fframwaith tebyg. Mae'r asesiad yn nodi'n benodol ei bod yn anodd rhagweld graddfa lawn y costau ar gyfer darparwyr, neu'r manteision o leihau'r baich rheoleiddio cyn rhoi'r diwygiadau ar waith, gan fod y costau yn ogystal â'r manteision yn dibynnu i raddau helaeth ar y mesurau a fydd yn cael eu datblygu a'u defnyddio i asesu risg pob darparwr, yn ogystal ag agweddau eraill ar y fframwaith (Llywodraeth y DU, 2016c). Ar sail greddf economaidd, disgwylwyd y byddai'n system ddiwygiedig yn arwain at ddyraniad tecach o feichiau gweinyddol, a fyddai'n sicrhau y byddai cost rheoleiddio a mwy o waith monitro yn ychwanegu gwerth i fyfyrwyr ac yn diogelu ansawdd System AU Lloegr, yn ogystal â rheoli darparwyr risg uchel yn well.

Mae'r asesiad effaith ar gyfer *Dyletswyddau Rhannu Gwybodaeth a Thyloywder Data* yn pwysleisio'r manteision i fyfyrwyr, Llywodraeth y DU a threthdalwyr sy'n deillio o unioni methiannau yn y farchnad sy'n gyffredin ym maes addysg uwch. Yn benodol, roedd

disgwyl y byddai gwybodaeth fanylach a chanolig sydd ar gael i'r cyhoedd yn lleihau'r diffyg cymesuredd rhwng gwybodaeth ac yn gwella symudedd cymdeithasol. Roedd disgwyl y byddai myfyrwyr yn gwneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth ac y byddai'r Llywodraeth yn fwy effeithiol wrth gynllunio polisi sy'n hyrwyddo cyfranogiad myfyrwyr o gefndiroedd difreintiedig. Byddai gwella perthnasedd y rhaglen i fyfyrwyr yn arwain at raddedigion mwy cynhyrchiol, wedi'u paratoi'n well i wireddu eu potensial llawn yn y farchnad lafur (Llywodraeth y DU, 2016c). Ar wahân i enillion cynhyrchiant yn yr economi, roedd disgwyl i raddedigion mwy cynhyrchiol gyflymu'r broses o ad-dalu benthyciadau myfyrwyr a fyddai'n arwain at werth am arian gwell i drethdalwyr.

Bil Cymwysterau Cymru

Mae ein rhestr fer o bapurau perthnasol yn cynnwys datganiad effaith rheoleiddiol blaenorol yn ymwneud ag asesu'r dewisiadau sydd ar gael i Lywodraeth Cymru ar gyfer diwygio system gymwysterau'r wlad. Paratowyd yr asesiad ym mis Rhagfyr 2014 gan Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru i ategu Deddf Cymwysterau Cymru 2015. Y dewis a ffafriwyd gan Lywodraeth Cymru oedd creu corff rheoleiddio hyd braich â dyletswydd statudol i reoleiddio a goruchwylio'r holl ddarparwyr sy'n dyfarnu cymwysterau nad ydynt yn gymwysterau gradd. Yn yr asesiad effaith penodol, nid oes unrhyw fanteision ariannol uniongyrchol i unrhyw barti yn deillio o'r diwygiad hwn. Fodd bynnag, yn yr un modd â'r asesiadau effaith a drafodwyd eisoes, mae manteision ehangach yn cael eu trafod mewn ffordd naratif. Roedd disgwyl y byddai cyflwyno corff rheoleiddio yn y farchnad gymwysterau yn symleiddio prosesau rheoleiddio, yn gwella gweithgarwch rheoleiddio, yn gwella enw da ac annibyniaeth system reoleiddio Cymru, ac yn cynyddu hyder, cysondeb, eglurder, atebolrwydd ac awdurdod a fyddai'n hwyluso effaith eang ledled y wlad (Llywodraeth Cymru, 2014). Oherwydd natur y manteision, mae'r asesiad effaith yn dod i'r casgliad na ellid cymharu canlyniadau cadarnhaol a negyddol ac y dylid dod i gasgliadau ar sail i ba raddau roedd y manteision yn cyfiawnhau costau'r diwygiad.

Ansawdd Addysg Drydyddol a Diwygio Safonau Trothwy'r Asiantaeth Safonau

Fel rhan o'r chwiliad llenyddiaeth, nodwyd datganiad effaith rheoleiddiol a baratowyd gan Adran Diwydiant, Arloesi, Gwyddoniaeth, Ymchwil ac Addysg Drydyddol (DIISRTE) Awstralia a oedd yn ystyried effaith reoleiddiol Asiantaeth Ansawdd a Safonau Addysg Drydyddol (TEQSA) 2015 ar ddarparwyr addysg uwch. Roedd Llywodraeth Awstralia yn ffafrio rhoi'r ddyletswydd reoleiddiol i TEQSA er mwyn rhoi'r safonau trothwy ar waith a mynd i'r afael â gwendidau'r wlad ym maes addysg uwch, a oedd yn gysylltiedig â diffyg eglurder yn fframweithiau'r safonau a'r anghysondeb wrth eu defnyddio. Yn sgil y diwygiad, TEQSA oedd yr unig gorff rheoleiddio sy'n gyfrifol am gydymffurfiaeth, monitro a sicrhau ansawdd. Amcan y diwygiad oedd defnyddio dull seiliedig ar risg, gan sicrhau mai dim ond darparwyr o ansawdd uchel a fyddai'n dod i mewn i'r system ac y byddai darparwyr sydd mewn perygl o beidio â chydymffurfio yn cael eu nodi'n gyflym a'u monitro'n ofalus. Prif fanteision y diwygiad arfaethedig yw arbedion effeithlonrwydd yn deillio o brosesau cofrestru ac achredu symlach, amgylchedd rheoleiddio gwell ar gyfer y darparwyr a fyddai'n delio ag un asiantaeth yn unig, gwella cysondeb o fewn y sector, yn ogystal â mwy o sicrwydd a hyder ar gyfer cyflogwyr a'r gymuned o safbwynt ansawdd graddedigion (DIISRTE, 2012). Yn ogystal, fel y nodwyd eisoes yn yr achosion blaenorol a archwiliwyd, rhagwelwyd y byddai mantais economaidd i'r sector yn deillio o ddyrannu'r baich rheoleiddio ar sail risg, gyda darparwyr risg isel yn wynebu llai o reoleiddio a llai o ffioedd cofrestru.

Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru)

Roedd Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru) 2018 yn rhoi pwerau i ddarparu cyllid ar gyfer gofal plant i blant cymwys rhieni sy'n gweithio, ac i wneud rheoliadau ynglŷn â'r trefniadau ar gyfer gweinyddu a gweithredu cyllid o'r fath.

Y dewis a ffafriwyd oedd datblygu system ar gyfer gwirio ceisiadau a chymhwysedd yng Nghymru o fewn platfform gofal plant di-dreth Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (CThEM). Mae manteision posibl y strategaeth hon yn cynnwys: lleihau'r baich gweinyddol a pheryglon diogelwch data; lleihau baich rhieni yn sylweddol; hwyluso derbynwyr cyllid; a lleihau peryglon twyll yn sylweddol gan fod modd gwirio cymhwyster yn y fan a'r lle trwy ddefnyddio data na ellir ei gamliwio na'i newid gan rieni sy'n ceisio gwneud hawliad cymhwyster twyllodrus (Y Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus, 2018).

Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg yng Nghymru

Creodd Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru)³⁶ fframwaith deddfwriaethol unedig newydd ar gyfer cefnogi plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol (ALN). Disodlodd y fframwaith newydd y ddeddfwriaeth bresennol yn ymwneud ag anghenion addysgol arbennig (AAA) ac asesu plant a phobl ifanc sydd ag anawsterau a/neu anabledau dysgu (AAD) mewn addysg a hyfforddiant ôl-16.

Manteision posibl y diwygiad hwn oedd y canlynol: llai o anghytundebau yn ymwneud â phenderfyniadau; llai o benderfyniadau'n destun apêl i Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru; dileu cymhelliad rhieni i bwysu ar awdurdodau lleol i lunio datganiad; llai o gyfraniad o bosibl gan staff gwasanaethau iechyd; darparu gwybodaeth am y person ifanc a thystiolaeth ynglŷn â pha gymorth a oedd yn llwyddo, gan arwain at ddyrannu adnoddau yn y ffordd fwyaf effeithlon ac effeithiol; system lai cymhleth, sy'n golygu bod angen llai o amser ar gyfer y broses llunio datganiadau ac ymyrraeth gynnar; disgwylir i ymyrraethau cynharach helpu i sicrhau nad yw problemau'n gwaethygu, gan arbed adnoddau; lleihau'r gyfradd ar gyfer gwahardd pobl ifanc ag ADY o'r ysgol; lleihau dryswch, pryder a rhwystredigaeth rhieni (Y Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus, 2016).

IV. Diwygiadau addysg: tystiolaeth ryngwladol

Fel ffynhonnell dystiolaeth ychwanegol, ystyriwyd rhai profiadau rhyngwladol diweddar o ddiwygiadau addysg. Yn fwy penodol, adolygwyd rhai papurau mwy cyffredinol a oedd yn cyfeirio at gyrff canolraddol yn y system Addysg Uwch a'u swyddogaeth³⁷, a'r berthynas rhwng y strwythur llywodraethu a strategaethau llunwyr polisi³⁸. Rhaid nodi nad oedd unrhyw un o'r papurau a adolygwyd yn cynnwys technegau CBA neu unrhyw ymgais i feintioli manteision penodol yn ymwneud â diwygiadau polisi.

Seland Newydd

Cyflwynodd Llywodraeth Seland Newydd Strategaeth Addysg Drydyddol (TES) 2014-2019,³⁹ sy'n nodi cyfeiriad strategol hirdymor y Llywodraeth ar gyfer addysg drydyddol a sut y gall system addysg drydyddol sy'n perfformio'n uchel gyfrannu at wella canlyniadau i

36 Ar gael yn: <https://senedd.wales/laid%20documents/pri-ld10862-em/pri-ld10862-em-w.pdf>

37 Mae mwy o wybodaeth ar gael yma: http://oro.open.ac.uk/11795/1/William_Locke_%282007%29_Intermediary_Bodies_in_UK_HE_Governance_with_particular_reference_to_UUK.pdf a http://www.heqco.ca/SiteCollectionDocuments/Trick_Intermediaries_ENG.pdf

38 Mae mwy o wybodaeth ar gael yma: <https://eric.ed.gov/?id=ED412866>

39 Mae mwy o wybodaeth ar gael yma: <http://www.nzqa.govt.nz/studying-in-new-zealand/understand-nz-quals/nzqf/>

unigolion a'r gymdeithas. Mae'n cynnwys chwe blaenoriaeth y mae'r Llywodraeth yn ceisio eu gwella, sef darparu sgiliau ar gyfer diwydiant; ceisio sicrhau gyrfa ar gyfer pobl ifanc sy'n agored i niwed; hyrwyddo cyflawniad pobl Māori a Pasifika; gwella llythrennedd a rhifedd oedolion; cryfhau sefydliadau ymchwil; datblygu cysylltiadau rhyngwladol.

Mae'r TES yn canolbwyntio ar sicrhau bod addysg drydyddol yn Seland Newydd:

- yn fwy hyblyg, yn wynebu allan ac yn ymgysylltu;
- yn canolbwyntio ar wella deilliannau ar gyfer dysgwyr a chyflogwyr;
- yn datblygu cysylltiadau cryf â diwydiant, y gymuned a'r economi fyd-eang.

Roedd TES 2010-2015 yn cynnwys rhywfaint o dystiolaeth yn ymwneud â graddau'r gwelliant ar draws y sector addysg drydyddol. Mae rhai dangosyddion perfformiad addysgol wedi'u rhestru isod:⁴⁰

- Bu cynnydd o 23% yn nifer y myfyrwyr a gwblhaodd raddau baglor rhwng 2010 a 2012;
- Roedd cynnydd cyson yn nifer y myfyrwyr a oedd yn trosglwyddo o'r ysgol i astudiaeth lefel gradd;
- Roedd cynnydd o 6 phwynt canran rhwng 2007-2012 yn nifer y bobl 25 oed sydd wedi cwblhau cymhwyster neu radd ar lefel 4 neu'n uwch;
- Cynyddodd cyfranogiad pobl Māori 18-19 oed mewn graddau baglor o 11% yn 2009 i 13% yn 2012, ac roedd cynnydd o 13% i 16% ar gyfer pobl Pasifika.

Canada

Mae 26 o sefydliadau ôl-uwchradd yn derbyn arian cyhoeddus yn Alberta, un o daleithiau Canada⁴¹. Maent yn cynnig y rhan fwyaf o raglenni ôl-uwchradd yn Alberta, gan dderbyn arian gan y Llywodraeth i wrthbwyso eu costau gweithredu, ac maent yn atebol i drethdalwyr Alberta. Mae'r sefydliadau ôl-uwchradd sy'n derbyn arian cyhoeddus yn cael eu llywodraethu gan fyrddau sy'n darparu arweinyddiaeth, yn llywio dyfodol y sefydliadau ac yn atebol am sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol ac yn briodol.

Roedd Fframwaith Polisi Rolau a Mandadau 2007 ar gyfer y system addysg uwch sy'n derbyn arian cyhoeddus yn Alberta yn amlinellu model chwe sector a oedd yn egluro cyfraniad pob sefydliad yn y sector addysgol.⁴²

O safbwynt Ontario, talaith arall yng Nghanada, aethom ati i adolygu rhai papurau a oedd yn ymwneud â model cyllido sefydliadau'r dalaith a Chyngor Ansawdd Addysg Uwch Ontario.

Diben y model cyllido yw darparu dull teg a chytbwys o benderfynu ar gyfran y grant gweithredu taleithiol i'w ddyrannu i 20 sefydliad sy'n derbyn arian cyhoeddus ym mhob talaith.⁴³ Nod model cyllido Prifysgol Ontario yw sicrhau graddfa resymol o degwch wrth

⁴⁰ Mae mwy o wybodaeth ar gael yma: <https://www.education.govt.nz/further-education/policies-and-strategies/tertiary-education-strategy/>

⁴¹ Mae mwy o wybodaeth ar gael yma: <http://eae.alberta.ca/post-secondary/institutions/public.aspx>

⁴² Mae mwy o wybodaeth ar gael yma: <http://eae.alberta.ca/media/155107/sixsectormodel.pdf>

⁴³ Mae mwy o wybodaeth ar gael yma: http://www.tcu.gov.on.ca/pepg/audiences/universities/uff/UniversityFundingFormulaConsultationReport_2015.pdf

ddosbarthu'r cymorth sydd ar gael gan y Llywodraeth, ond nid yw'n pennu lefel gyffredinol yr arian yn y system.

Mae Cyngor Ansawdd Addysg Uwch Ontario (HEQCO) yn un o asiantaethau Llywodraeth Ontario sy'n cyflwyno ymchwil seiliedig ar dystiolaeth er mwyn gwella system addysg ôl-uwchradd y Dalaith yn barhaus. Diben y cyngor hwn yw helpu i wneud y canlynol:⁴⁴

- addysgu myfyrwyr a rhoi gwybodaeth a sgiliau iddynt er mwyn sicrhau eu llwyddiant yn y dyfodol;
- meithrin dinasyddion ymroddedig a dinesig;
- meithrin ymchwil ac arloesi;
- cefnogi economi gadarn a'i helpu i dyfu.

Awstralia

Mae achos Awstralia eisoes wedi cael ei ddadansoddi yng nghyd-destun yr Asiantaeth Safonau Ansawdd Addysg Drydyddol (TEQSA) gan ymgymryd hefyd â'r rôl o weithredu Safonau Trothwy ym maes Addysg Uwch.

Yr Alban

O safbwynt yr Alban, aethom ati i asesu Cyngor Cyllido'r Alban, sef y corff cyhoeddus anadrannol sy'n gyfrifol am gyllido sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch yr Alban, gan gynnwys ei 25 o golegau ac 19 o brifysgolion.⁴⁵

Sefydlwyd y cyngor gan Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch (yr Alban) 2005, ac mae'n disodli'r ddau Gyngor ar wahân, Cyngor Cyllido Addysg Bellach yr Alban (SFEFC), a Chyngor Cyllido Addysg Uwch yr Alban (SHEFC), a ddiddymwyd yn ddiweddarach.

Nid oedd unrhyw CBA nac Asesiad Effaith yn ategu'r Bil⁴⁶ adeg deddfu ar gyfer SHEFC, ac ni chanfuwyd cyn-asesiad fel rhan o'n gwaith ymchwil ar gyfer gwerthusiad ôl- weithredol o'r diwygiad hwn.

V. Tystiolaeth yn ymwneud â'r Cynllun Gwireddu Manteision

Roedd adroddiad⁴⁷ yr Athro Hazelkorn a gomisiynwyd gan y Llywodraeth yn 2016 yn archwilio effeithiolrwydd y system Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol (AHO) yng Nghymru, gan ganolbwyntio'n benodol ar faterion effeithiolrwydd rheoleiddio mewn perthynas â chyllido, llywodraethu, sicrhau ansawdd a safonau, a rheoli risg. Nododd ei hadroddiad feysydd amrywiol i'w gwella yn y sector AHO ac amlygodd yr angen i sicrhau effeithiolrwydd o ran gwariant oherwydd pwysau cyllidebol cynyddol, yr angen i gynnal rhagoriaeth ym meysydd academiaidd ac ymchwil, yr angen i fuddsoddi mewn cyfleoedd profiad a chyflogaeth myfyrwyr yn ogystal â'r angen i ddatblygu diwylliant deinamig arloesol. Materion eraill a godwyd yn ei hadroddiad yw'r angen am fwy o gydlyniant rheoleiddiol yn y sector, yr angen i wella cysondeb y sector AHO ag anghenion cymdeithasol ac economaidd y presennol a'r dyfodol, yr angen am fwy o gydweithio ym

44 Mae mwy o wybodaeth ar gael yma: http://www.heqco.ca/SiteCollectionDocuments/EN_HEQCO_AR_2017_18_WEB.pdf

45 Mae mwy o wybodaeth ar gael yma: <http://www.sfc.ac.uk/>

46 Ar gael yn: http://www.legislation.gov.uk/asp/2005/6/pdfs/asp_20050006_en.pdf

47 <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-02/tuag-at-2030-fframwaith-ar-gyfer-datblygu-system-addysg-ol-orfodol-or-radd-flaenaf-i-gymru.pdf>

maes addysg ac ymchwil, yn ogystal â'r angen i sefydlu strwythurau llywodraethu priodol. Argymhellion adroddiad Hazelkorn i Lywodraeth Cymru ar gyfer diwallu'r anghenion hynny oedd '*Sefydlu awdurdod integredig newydd (yn lle CCAUC) gyda'r gallu, adnoddau a strwythur sefydliadol i lywio, goruchwyllo a monitro newid systemig a gwelliant parhaus drwy'r sector ôl-orfodol cyfan*' (Hazelkorn, 2016).

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru bapur ymgynghori yn 2017 â'r teitl 'Budd y Cyhoedd a Chymru Ffyniannus – Datblygu System Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol Diwygiedig' er mwyn cyflwyno cynigion ar gyfer bwrw ymlaen â'r diwygiadau sydd eu hangen. Roedd y papur ymgynghori yn cynnig y dylid sefydlu awdurdod rheoleiddio newydd – sef Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil Cymru (y Comisiwn) – i ddarparu trosolwg, cyfeiriad strategol ac arweinyddiaeth ar gyfer y sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol (Llywodraeth Cymru, 2017). Byddai rolau allweddol y Comisiwn yn cynnwys:

- cynllunio strategol ar gyfer darpariaeth addysg a sgiliau ledled y sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol yng Nghymru;
- sefydlu mecanwaith ar gyfer rheoli'r berthynas rhwng y Comisiwn a'r sefydliadau, a'r darparwyr hyfforddiant y mae'n eu rheoleiddio neu'n eu cyllido;
- cyllido, contractio, ansawdd, monitro ariannol ac archwilio addysg uwch, addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith, dysgu oedolion yn y gymuned, a rhaglenni cyflogadwyedd a rhaglenni o dan arweiniad cyflogwyr perthnasol;
- swyddogaethau sy'n cael eu cyflawni ar hyn o bryd gan Lywodraeth Cymru.

Nod terfynol y diwygiad rheoleiddiol hwn yw diogelu a hyrwyddo buddiannau dysgwyr, cynyddu cydraddoldeb rhwng addysg alwedigaethol ac addysg academiaidd, a lleihau'r bwlch sgiliau yn y farchnad lafur. Bydd y corff newydd yn cael ei annog i weithredu a gweithio tuag at weledigaeth a rennir i wneud Cymru'n fwy llewyrchus, cydnerth, iachach, mwy cyfartal, ac yn wlad sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang, gyda chymunedau cydlynus, diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. Disgwylir i'r diwygiad arfaethedig gyfrannu at ymdrechion Llywodraeth Cymru i gyflawni'r agenda genedlaethol hon. Mae Llywodraeth Cymru yn rhagweld y bydd y rhestr ganlynol o fanteision lefel uchel yn deillio o gyflwyno'r Comisiwn newydd:

- Ymateb i anghenion cyflogwyr a mynd i'r afael â bylchau mewn sgiliau;
- Gwella safle, enw da ac arian ymchwil sefydliadau ymchwil;
- Gwella cyfleoedd prentisiaeth;
- Codi safonau i bawb; gwella cyfranogiad, cynnydd, perfformiad a deilliannau dysgwyr;
- Gwella cynnig y cwricwlwm;
- Gwella profiad dysgwyr a chasglu safbwyntiau dysgwyr;
- Gwella enw da, ystwythder a chyfeiriad AHO;
- Cyflwyno system well ac effeithiol sy'n cydymffurfio â'r gofynion ar gyfer casglu, dadansoddi a lledaenu data ledled y sector AHO, gan sicrhau bod gwybodaeth amserol, hygyrch a chyfoes am AHO yng Nghymru ar gael i bawb sydd eu hangen;
- Lleihau dyblygu cyrsiau'n ddiangen a chystadleuaeth ledled y sector AHO;
- Gwella cydlyniad a chysondeb gwaith monitro ariannol a pherfformiad, a sicrhau ansawdd;
- Cynyddu defnydd cymunedol o gyfleusterau AHO ac annog mwy o gysylltedd.

Mae ein hadolygiad llenyddiaeth systematig yn darparu rhywfaint o dystiolaeth sy'n cyfiawnhau disgwyliadau Llywodraeth Cymru, er bod yna nifer o fanteision a ragwelir nad yw meysydd polisi a gwaith academiaidd wedi'u harchwilio eto. Nid yw bylchau yn y

llynyddiaeth yn dangos o reidrwydd bod disgwyliadau Llywodraeth Cymru yn afrealistig neu'n anymarferol. Yn hytrach, maent yn amlygu newydd-deb y diwygiadau, yn ogystal â'r anhawster o fesur targedau lefel uchel.

Mae'r adran hon yn parhau â rhestr o fanteision mwy penodol, gan geisio nodi hanfod y manteision lefel uwch y cyfeiriwyd atynt uchod, a'u perthynas â'r llynyddiaeth a adolygwyd gennym.

Tystiolaeth fesul categori yn y Cynllun Gwireddu Manteision

Cynyddu hyder y cyhoedd yn y system AHO yng Nghymru

Bydd cynyddu hyder y cyhoedd yn y sector yn deillio o lwybr mwy uniongyrchol ledled AHO, gan arwain at gynllunio cenedlaethol a rhanbarthol cryfach a mwy cadarn. Yn debyg i Lywodraeth Cymru, mae'r holl asesiadau effaith rheoleiddiol a adolygwyd yn disgwyl mantais ganolraddol berthnasol a fyddai'n cynyddu hyder y cyhoedd yn y sector mewn ffordd effeithiol. Roedd disgwyl y byddai'r Swyddfa Fyfyrrwyr, sy'n debyg i Comisiwn Cymru mewn sawl ffordd o safbwynt rheoleiddio, yn grymuso ymarfer rheoleiddio ym maes AU trwy weithredu fframwaith rheoleiddio seiliedig ar risg sy'n berthnasol i'r holl ddarparwyr AU. Mae disgwyl i'r Swyddfa Fyfyrrwyr, ar ôl mabwysiadu a chyfuno swyddogaethau HEFCE ac OFFA, wella'r broses cydlyniad rheoleiddiol (Llywodraeth y DU, 2016a).

Trwy integreiddio swyddogaethau goruchwylio mewn un corff rheoleiddio a disodli'r holl Gyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am oruchwylio a sicrhau ansawdd darparwyr AHO, disgwylir y bydd modd symleiddio'r farchnad gymwysterau a gwella gweithgarwch rheoleiddio sy'n debyg i'r disgwyliadau a nodir yn asesiad effaith rheoleiddiol Cymwysterau Cymru. Yn ogystal, bydd un corff annibynnol ac awdurdodol yn gallu ymateb yn well i newidiadau yn system gymwysterau'r DU, a bydd yn grymuso llais Cymru yn yr amgylcheddau Cymwysterau Ewropeaidd a Rhyngwladol (Llywodraeth Cymru, 2014). Hefyd, bydd y system lai cymhleth yn caniatáu ymyrraeth gynnar lle bo angen, yn ogystal â lleihau'r dryswch sy'n deillio o lwybrau wedi'u diffinio'n amwys rhwng addysg AHO a'r farchnad lafur. O ganlyniad, bydd cysondeb ymysg darparwyr AHO yn gwella a bydd gan gyflogwyr fwy o hyder yn ansawdd myfyrwyr graddedig, a bydd myfyrwyr yn gwneud penderfyniadau mwy hyderus (DIISRTE, 2012).

Cysondeb yn y dull o reoleiddio sefydliadau ledled OHO trwy ddiben cyffredin

Mae cysylltiad agos rhwng y fantais hon a'r fantais flaenorol. Ar sail asesiad effaith TEQSA, gellir cyfiawnhau'r ffaith fod y Llywodraeth yn disgwyl gweld mwy o gysondeb ledled y sector. Bydd symleiddio'r system reoleiddiol a chyflwyno prosesau rheoleiddio mwy cydlynol yn eithrio darparwyr o'r baich cydymffurfio o ddelio â chyrff goruchwylio lluosog (DIISRTE, 2012). Bydd safonau cydymffurfio yn glir ac yn unffurf i'r holl ddarparwyr AHO, gan leihau unrhyw ddryswch, fel y'i nodir yn adroddiad Hazelkorn (Hazelkorn, 2016), yn ymwneud â rolau sy'n gorgyffwrdd ledled y sector AHO rhwng y gwahanol asiantaethau. Bydd y Comisiwn yn dod â'r sector AHO at ei gilydd o dan un corff rheoleiddio ac yn dileu'r dryswch yn ymwneud â rolau sy'n gorgyffwrdd rhwng nifer o sefydliadau, gan gynnwys Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC), Estyn, Awdurdodau Lleol (ALLau), yr Adran Addysg ac Adran Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes Llywodraeth Cymru, a'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd (QAA).

Yn ogystal, bydd y fframwaith rheoleiddio seiliedig ar risg yn sicrhau mai'r darparwyr risg fwyaf a fydd yn ysgwyddo'r gyfran fwyaf o'r baich rheoleiddio, ac felly bydd gan bob

darparwr gymhelliad i gydymffurfio a darparu gwasanaethau o safon uchel er mwyn lleihau eu costau rheoleiddio.

Cynydd mewn cyfraddau cyfranogiad dysgwyr a mwy o ddysgwyr ôl-16 yn symud ymlaen at ddysgu uwch (galwedigaethol ac academiaidd) a/neu gyflogaeth sy'n talu'n dda

Mae ein gwaith ymchwil eisoes wedi amlygu pwysigrwydd cyllido ym maes addysg a'i effeithiau ar symudedd cymdeithasol. Mae trosglwyddiadau arian parod a chynlluniau cyllido eraill ar ochr y galw sy'n ceisio cynyddu cyfranogiad ymysg pobl o gefndiroedd difreintiedig yn cael effeithiau tymor byr uniongyrchol ar ddsbarthiad mynediad at addysg, yn ogystal ag effeithiau hirdymor deinamig ar gyfleoedd cyflogaeth rhwng y cenedlaethau a lleihau tlodi (Tiongson, 2005). Yn ôl Dearden et al (2005), ar ôl cyflwyno'r Lwfans Cynhaliath Addysg yn y Deyrnas Unedig, cynyddodd cyfraddau'r rhai sy'n aros mewn addysg ar ôl 16 oed 4.5 pwynt canran, ac roedd hanner yr unigolion a arhosodd mewn addysg yn dod o anweithgarwch yn hytrach na gwaith.

I'r graddau y gallai'r Comisiwn ddyrannu arian er mwyn mynd ati'n fwy effeithiol i dargedu pobl sy'n gadael addysg yn rhy gynnar oherwydd cyfyngiadau ariannol, gall effeithiau sylweddol o ran dosbarthiad ddeillio o hynny. Gallai cyfraddau cyfranogi a chyfraddau aros mewn addysg ar ôl 16 oed gynyddu os yw prosesau hwyluso ariannol yn gallu targedu pobl na allant fforddio addysg ôl-orfodol. Trwy wneud hyn, gall y Comisiwn lwyddo'n effeithiol i gyflawni dau o'i amcanion; cynyddu cyfraddau cyfranogiad ac aros mewn addysg, a lleihau'r bylchau mewn cyrhaeddiad a deilliannau rhwng dysgwyr o gefndiroedd tlotach a chefnidiroedd difreintiedig eraill a'u cyfoedion mwy cefnog. Mae hwn yn sylw pwysig i'r Comisiwn a'i rôl yn y dyfodol o ran cyllido'r sector AHO.

Sylfaen dystiolaeth integredig a gwell - darparu data a gwybodaeth o ansawdd gwell y gellir eu cymharu ledled y sector AHO er mwyn llywio'r gwaith o ddatblygu polisi a gwneud penderfyniadau ar bob lefel (Llywodraeth Cymru, darparwyr, cyflogwyr a dysgwyr)

Un o rolau arfaethedig y Comisiwn newydd, fel prif gorff goruchwyllo'r sector AHO, fydd cyflwyno system casglu, dadansoddi a lledaenu data, sy'n well, yn effeithiol ac yn cydymffurfio â'r gofynion. Bydd y system hon yn darparu gwybodaeth amserol, hygyrch a pherthnasol am AHO yng Nghymru, sydd ar gael i bawb sydd ei hangen. Ar sail yr asesiad effaith o *Ddyletswyddau Rhannu Gwybodaeth a Thryloywder Data*, roedd disgwyl i ddiwygiadau tebyg yn y DU arwain at fanteision i fyfyrwyr, y Llywodraeth a threthdalwyr hefyd, o ganlyniad i atebion i fethiannau yn y farchnad sy'n gyffredin ym maes addysg uwch. Yn benodol, mae gwybodaeth fanylach, wedi'i chanoli sydd ar gael i'r cyhoedd yn lleihau gwybodaeth anghymesur ac yn gwella symudedd cymdeithasol. Mae myfyrwyr yn gwneud penderfyniadau gwell os oes gwybodaeth well ar gael a bod modd cymharu gwybodaeth darparwyr. Hefyd, mae'r Llywodraeth yn gallu mynd ati'n fwy effeithiol i gynllunio polisi sy'n hyrwyddo cyfranogiad myfyrwyr o gefndiroedd difreintiedig, gan ddefnyddio'r gronfa ddata hynod fanwl sydd ar gael (Llywodraeth y DU, 2016c). O ganlyniad, mae'n rhesymol disgwyl y bydd manteision tebyg ar gael i Lywodraeth Cymru, myfyrwyr a threthdalwyr.

Model cyllido mwy cydlynol a chyson ledled y sector AHO

Bydd un rheoleiddiwr yn darparu ar gyfer dull cymaradwy a chyson o sicrhau ansawdd ac asesu ledled y sector AHO yn ôl dadl debyg sy'n cael ei gwneud o blaid y Swyddfa Fyfywyr (Llywodraeth y DU, 2016a). Bydd y Comisiwn newydd mewn sefyllfa well i ddwyn

ynghyd agendâu lluosog, ond cysylltiedig, y sefydliadau gwahanol sy'n goruchwylio, yn cyllido ac yn sicrhau ansawdd y sector AHO o dan y system bresennol, gan ddilyn dull gweithredu cenedlaethol cyffredin ar gyfer AHO sy'n cyd-fynd ag amcan strategol ffyniant i bawb Llywodraeth Cymru. Yn ogystal, gellir dadlau y bydd y Comisiwn yn cyllido ymchwil ac arloesi yn fwy effeithlon na CCAUC. O ystyried ei sefyllfa gadarn ar gyfer casglu a chanoli data perfformiad darparwyr ymchwil ac arloesi, bydd y Comisiwn newydd mewn sefyllfa well i benderfynu pa ddarparwyr sy'n cyfrannu fwyaf at dwf Cymru trwy fasnacheiddio eu gwaith ymchwil, a hyrwyddo strategaeth genedlaethol y Llywodraeth ar gyfer y sector AHO yn well.

Gwella sefyllfa ariannol sefydliadau AHO yng Nghymru

Gan barhau â'r rhesymeg sy'n sylfaen i'r dadleuon o blaid y Swyddfa Fyfyrrwyr, dylai system reoleiddio fwy eglur ac effeithlon sicrhau bod y baich rheoleiddio, sy'n fwy cymesur i lefel risg gynhenid pob darparwr, yn arwain at lai o gostau rheoleiddio ar gyfer darparwyr risg is (Llywodraeth y DU, 2016a). Ceir perthynas linellol negyddol ymddangosiadol rhwng risg y darparwr AHO a'i gostau rheoleiddio. Os yw darparwyr risg uwch yn mynd i ysgwyddo rhagor o gostau ar ôl y diwygiad, gallwn ddisgwyl mai dim ond y darparwyr risg is sy'n cydymffurfio a fydd yn gweld eu sefyllfa ariannol yn gwella. Maes o law, gallai'r sefyllfa esblygu gyda darparwyr risg uwch yn gadael y farchnad AHO gan na allant gyflawni eu rhwymedigaethau ariannol, gan roi cyfle ar yr un pryd i ddarparwyr mwy effeithlon ehangu neu i ddarparwyr newydd ddod i mewn i'r farchnad. Felly, mae Llywodraeth Cymru yn gywir i ddisgwyl y bydd sefyllfa ariannol sefydliadau AHO yn gwella, yn enwedig felly darparwyr risg isel.

Gwella cysondeb rhwng cyllido a chost darpariaeth ledled y system AHO

Rydym wedi nodi disgwyliadau ar gyfer arbedion cost sylweddol, ar ffurf arbedion yn sgil dileu'r arfer o ddyblygu gwaith ar ôl uno cyrff y Llywodraeth. Yn y DU, rhagdybiwyd y byddai arbedion cost o ganlyniad i leihau dyblygu a chynyddu cydweithio strategol rhwng gwaith y cynghorau ymchwil ym meysydd cynllunio busnes, gweinyddu grantiau, dadansoddi a gwerthuso, yn 5% o gyfanswm y costau gweinyddol (Llywodraeth y DU, 2016b). Disgwylid y byddai arbedion cost tebyg yn deillio, yn achos y Swyddfa Fyfyrrwyr, o leihau nifer y cyrff cyhoeddus a defnyddio systemau mwy effeithlon. Rhagdybiwyd y byddai'r arbedion effeithlonrwydd disgwylid yn lleihau costau gweithredu'r Llywodraeth 10% (Llywodraeth y DU, 2016a). Yn yr un modd, gall Llywodraeth Cymru ddisgwyl gweld rhywfaint o ostyngiad yn ei chostau gweinyddu o ganlyniad i ddileu arferion dyblygu gwaith a lleihau nifer y Cyrff a Noddir gan y Llywodraeth sydd â dyletswydd i oruchwylio a sicrhau ansawdd darparwyr AHO. Serch hynny, bydd y gostyngiad gwirioneddol mewn costau gweinyddu, a'r arbedion effeithlonrwydd sy'n dilyn, yn cael eu penderfynu gan union faint a strwythur y Comisiwn, fel sy'n wir am y Swyddfa Fyfyrrwyr ac UKRI.

Manteision eraill yn y cynllun gwireddu manteision nad ydynt wedi'u rhestru uchod

Ni wnaeth ein gwaith ymchwil ddod o hyd i unrhyw dystiolaeth yn ymwneud â sut y gallai cyflwyno'r Comisiwn yn y sector AHO arwain at nifer o fanteision a ragwelir gan Lywodraeth Cymru. Yn gyffredinol, nid yw'r llenyddiaeth yn cyfeirio at y manteision canlynol a ragwelwyd:

- gwella'r gallu i ganfod ac atal problemau, gan gynnwys y gallu i ymateb i newidiadau macro, a lliniaru amhariad trwy newidiadau yn y galw gan ddysgwyr a chyflogwyr;
- gwella boddhad cyffredinol dysgwyr;

- gwella'r broses o baru'r cyfleoedd hyfforddiant ac ymchwil sydd ar gael (yr ochr gyflenwi), â cheisiadau cyflogwyr a dysgwyr (ochr y galw);
- cynyddu nifer y prosiectau ymchwil ac arloesi cydweithredol, a'r incwm sy'n cael ei greu ganddynt;
- cynyddu cydnabyddiaeth o werth cymwysterau academaidd a galwedigaethol;
- creu map llwybr cydlynol ar gyfer dysgwyr, cyflogwyr a darparwyr;
- lleihau nifer y cyrsiau sy'n cael eu dyblygu ac yn aneconomaidd i'w darparu ledled y sector AHA;
- gwella'r broses o gynllunio a chyflwyno'r sgiliau sydd eu hangen mewn lleoliad a/neu ranbarth penodol;
- cynyddu'r defnydd ar y cyd o gyfleusterau.

Manteision eraill a nodwyd yn y llenyddiaeth

Gall hwb i gynhyrchiant y sector preifat ddeillio o gostau gweinyddu is a mwy o gyfle am arweinyddiaeth strategol wrth gyllido ymchwil, yn ôl yr asesiad effaith o ddiwygiad Ymchwil ac Arloesi'r DU (Llywodraeth y DU, 2016b, 2016c; asesiad effaith o ddiwygiad Ymchwil ac Arloesi'r DU). Roedd disgwyl y byddai cyflwyno UKRI, gan dybio y bydd yn creu system reoleiddio gliriach a mwy cydlynol, yn arwain at arweinwyr ymchwil sydd wedi'u penodi i gyllido ymchwil yn wynebu llai o fiwrocratiaeth a thasgau gweinyddu, gan olygu bod modd iddynt ganolbwyntio ar arweinyddiaeth strategol ym maes ymchwil ac arloesi. Mae arweinyddiaeth strategol yn gysylltiedig â gwneud penderfyniadau cyllido ar sail gwybodaeth i'r graddau posibl. Trwy gyfuno setiau data lluosog mewn system ganolog, a phrosesu ffynonellau gwybodaeth gwahanol am berfformiad darparwyr, bydd y corff cyllido newydd yn llwyddo i dargedu'r darparwyr sy'n darparu ymchwil amlddisgyblaeth a rhyngddisgyblaethol ar feysydd trawsbynciol a gwella ansawdd y sylfaen ymchwil a thechnolegol. Hefyd, bydd y gostyngiad mewn gofynion rheoleiddio a thasgau biwrocraidd yn rhyddhau sefydliadau academaidd ac ymchwil o weithgareddau gweinyddol, gan olygu bod modd iddynt ganolbwyntio eu hadnoddau i wneud mwy o waith ymchwil.

I'r graddau y mae'r Comisiwn newydd yn gallu cyflwyno arbedion effeithlonrwydd yn llwyddiannus ac ailgyfeirio ymdrechion tuag at swyddogaethau mwy cynhyrchiol, yn debyg i'r achos a wnaed o blaid creu UKRI, gallai fynd y tu hwnt i "arbedion effeithlonrwydd". Felly, gallai'r Comisiwn sicrhau cyfradd enillion uwch o wariant cyhoeddus ym maes ymchwil ac arloesi trwy ddarparu rhagor o arweinyddiaeth strategol, penderfyniadau cyllido mwy gwybodus a chanlyniadau ymchwil a datblygu mwy llwyddiannus. Mae'r achos o blaid creu UKRI yn cynnig dau senario dangosol a allai fod yn berthnasol i Lywodraeth Cymru.

- **Senario 1:** Ar gyfer pob £1 o wariant cyhoeddus ym maes ymchwil a datblygu, mae cynhyrchiant y sector preifat yn codi 20 ceiniog bob blwyddyn; mae hyn yn cyfateb i gyfradd adennill 20% mewn gwariant cyhoeddus ym maes ymchwil a datblygu. Os yw cyfuno swyddogaethau ymchwil i'r corff cyhoeddus anadrannol newydd yn arwain at gynnydd o un pwynt canran yn unig yn y gyfradd hon i ddim ond 10% o gyfanswm y gwariant o 2020-2021 ymlaen, byddai hyn yn creu budd economaidd o tua £230 miliwn dros gyfnod o 10 mlynedd.
- **Senario 2:** Ar gyfer pob £1 o wariant cyhoeddus i gefnogi arloesedd, mae'r gyfradd enillion gymdeithasol a gyflawnir yn gyfwerth â chyfradd adennill 50%. Os yw cyfuno swyddogaethau ymchwil i'r corff cyhoeddus anadrannol newydd yn arwain at gynnydd o un pwynt canran yn unig yn y gyfradd hon i ddim ond 10% o gyfanswm y gwariant o 2020-2021 ymlaen, byddai hyn yn creu budd economaidd o tua £20

miliwn dros gyfnod o 10 mlynedd.

Mewn gwirionedd, roedd disgwyl i'r manteision a amlygwyd gronni dros gyfnod llawer hirach (Llywodraeth y DU, 2016b, 2016c; Asesiad Effaith o adfywio Ymchwil ac Arloesi'r DU). Hefyd, gall enillion cynhyrchiant godi o ganlyniad i lai o wybodaeth anghymesur. Os oes mwy o fyfyrwyr yn mynychu sefydliadau sy'n addas iddynt, maent yn fwy tebygol o wireddu eu potensial yn y farchnad lafur (Llywodraeth y DU, 2016c; Asesiad Effaith o Ddyletswyddau Rhannu Gwybodaeth a Thryloywder Data; DIISRTE, 2012). Bydd enillion cynhyrchiant yn cronni i drethdalwyr hefyd; os yw Llywodraeth Cymru yn gallu cynllunio polisi'n well er mwyn gwella canlyniadau ar gyfer pob grŵp, ac os yw myfyrwyr yn gwneud dewisiadau ar sail gwybodaeth, gallai graddedigion mwy cynhyrchiol ymuno â'r farchnad lafur. Yn ei dro, gall hyn gynyddu cyfradd ad-daliadau benthyciadau (Llywodraeth y DU, 2016c; Asesiad Effaith o Ddyletswyddau Rhannu Gwybodaeth a Thryloywder Data). Mae manteision eraill nad yw'n hawdd eu mesur (manteision nad ydynt yn ymwneud â'r farchnad) yn cynnwys gwella iechyd a lles, datblygu polisi cyhoeddus a darparu gwasanaethau cyhoeddus yn well, ac osgoi costau trwy wrthsefyll digwyddiadau annisgwyl (Llywodraeth y DU, 2016b).

Llyfryddiaeth

- Albertson, K. (2017). The Economic Inefficiency of Student Fees. The Intergenerational Foundation.
- Belfield, C. R., Bowden, A. B., a Rodriguez, V. (2019). Evaluating Regulatory Impact Assessments in Education Policy. *American Journal of Evaluation*, 40(3), 1–19. <https://doi.org/10.1177/1098214018785463>
- Beuchert, L. V., Humlum, M. K., Nielsen, H. S., a Smith, N. (2016). The Short-Term Effects of School Consolidation on Student Achievement: Evidence of Disruption? 55.
- Bowen, F. M., Bracco, K. R., Callan, P. M., Finney, J. E., Richardson, R. C., a Trombley, W. (1997). State Structures for the Governance of Higher Education: A Comparative Study. 89.
- Dearden, L., Frayne, C., Emmerson, C., & Meghir, C. (2005). Education subsidies and school drop-out rates. *Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid*. <https://doi.org/10.1920/wp.ifs.2005.0511>
- Dearden, L., McIntosh, S., Myck, M., & Vignoles, A. (2002). The Returns to Academic and Vocational Qualifications in Britain. *Bulletin of Economic Research*, 54(3), 249– 274. <https://doi.org/10.1111/1467-8586.00152>
- Yr Adran Diwydiant, Arloesedd, Gwyddoniaeth, Ymchwil ac Addysg Drydyddol (DIISRTE). (2012). Reform of National Regulation of Higher Education Providers Regulation Impact Statement (Impact Statement). Adalwyd o wefan Yr Adran Diwydiant, Arloesedd, Gwyddoniaeth, Ymchwil ac Addysg Drydyddol (DIISRTE): <https://ris.pmc.gov.au/sites/default/files/posts/2012/01/03-Reform-of-National-Regulation-of-Higher-Education-Providers-Regulation-Impact-Statement.pdf>
- Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus. (2016). BIL ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL A'R TRIBIWNLYS ADDYSG (CYMRU). Memorandwm Esboniadol (Aseiad Effaith Rheoleiddiol). Adalwyd o wefan Llywodraeth Cymru: <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-04/deddf-anghenion-dysgu-ychwanegol-ar-tribiwnlys-addysg-cymru-2018-memorandwm-esboniadol.pdf>
- Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus. (2018). Y BIL CYLLIDO GOFAL PLANT (CYMRU) Memorandwm Esboniadol (Aseiad Effaith Rheoleiddiol). Adalwyd o wefan Llywodraeth Cymru: <https://www.assembly.wales/laid%20documents/pri-ld11505-em/pri-ld11505-em-w.pdf>
- Ferlie, E., Musselin, C., ac Andresani, G. (2009). The Governance of Higher Education Systems: A Public Management Perspective. *Yn C. Paradeise, E. Reale, I. Bleiklie, ac E. Ferlie (Golygyddion), University Governance. Western European Comparative Perspectives (Cyf. 25, tt. 1–19)*. https://doi.org/10.1007/978-1-4020-9515-3_1
- Gilead, T. (2014). Education and the Rationale of Cost–Benefit Analysis. *British Journal of Educational Studies*, 62(4), 373–391. <https://doi.org/10.1080/00071005.2014.969190>
- Hazelkorn, E. (2016). Tuag at 2030. Fframwaith ar gyfer datblygu system addysg ôl-orfodol o'r radd flaenaf i Gymru.
- Cyngor Ansawdd Addysg Uwch Ontario. (2018). Higher Education Quality Council of Ontario Annual Report 2017–18. Improving the QUALITY of higher education. Adalwyd o http://www.heqco.ca/SiteCollectionDocuments/EN_HEQCO_AR_2017_18_WEB.pdf

- Hoeckel, K. (2008). Costs and Benefits in Vocational Education and Training. Adalwyd o wefan OECD: <https://www.oecd.org/education/innovation-education/41538706.pdf>
- Hoxby, C. M. (2000). Does Competition among Public Schools Benefit Students and Taxpayers? *The American Economic Review*, 90(5), 1209–1238.
- Hoxby, C. M. (2003). School choice and school competition: Evidence from the United States. *Swedish Economic Policy Review*, 57.
- Hupkau, C., McNally, S., Ruiz-Valenzuela, J., a Ventura, G. (2017). Post-Compulsory Education in England: Choices and Implications. *Adolygiad Economaidd y Sefydliad Cenedlaethol*, 240(1), R42–R57. <https://doi.org/10.1177/002795011724000113>
- Locke, W. (2007). Intermediary Bodies in UK Higher Education Governance, with particular reference to Universities UK. 30. *Y Ganolfan Ymchwil a Gwybodaeth Addysg Uwch*.
- Machin, S., a McNally, S. (2004). The literacy hour. *Journal of Public Economics*, 92(5–6), 1441–1462. <https://doi.org/10.1016/j.jpubeco.2007.11.008>
- Machin, S., & Vignoles, A. (2006). Education policy in the UK. Adalwyd o wefan y Ganolfan Economeg Addysg: <http://cee.lse.ac.uk/cee%20dps/ceedp57.pdf>
- Meek, V. L. (2002). Changing Patterns in Modes of Co-ordination of Higher Education. In *Higher Education in a Globalising World: International Trends and Mutual Observations: A festschrift in honour of Ulrich Teichler*. Dordrecht; Boston: Kluwer Academic Publishers
- Y Weinyddiaeth Addysg, a'r Weinyddiaeth Fusnes, Arloesi a Chyflogaeth. (2014). *Tertiary Education Strategy 2014—2019*. Adalwyd o <https://www.education.govt.nz/assets/Documents/Further-education/Tertiary-Education-Strategy.pdf>
- Y Weinyddiaeth Hyfforddiant, Colegau a Phrifysgolion. (2015). *Focus on Outcomes, Centre on Students: Perspectives on Evolving Ontario's University Funding Model*. Final Consultation Report (Consultation Report). Adalwyd o wefan y Weinyddiaeth Hyfforddiant, Colegau a Phrifysgolion: http://www.tcu.gov.on.ca/pepg/audiences/universities/uff/UniversityFundingFormulaConsultationReport_2015.pdf
- Schlotter, M., Schwerdt, G., a Woessmann, L. (2009). *Methods for Causal Evaluation of Education Policies and Practices: An Econometric Toolbox*. 39.
- Tiongson, E. R. (2005). Education Policy Reforms. In *Analysing the Distributional Impact of Reforms* (Cyf. 1, tt. 261–294). Adalwyd o <http://siteresources.worldbank.org/INTPSIA/Resources/490023-1120845825946/Education.pdf>
- Trick, D. (2015). The Role of Intermediary Bodies in Enhancing Quality and Sustainability in Higher Education. 56. Adalwyd o http://www.heqco.ca/SiteCollectionDocuments/Trick_Intermediaries_ENG.pdf
- Llywodraeth y DU. (2016a). *CASE FOR CREATION OF THE OFFICE FOR STUDENTS. A new public body in place of the Higher Education Funding Council for England (HEFCE) and the Office for Fair Access (OFFA). (Business Case)*. Adalwyd o wefan yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/527757/bis-16-292-ofs-case-for-creation.pdf

- Llywodraeth y DU. (2016b). CASE FOR THE CREATION OF UK RESEARCH AND INNOVATION. A new public body in place of the seven Research Councils, Innovate UK, and the research and knowledge exchange functions of the Higher Education Funding Council for England (Business Case). Adalwyd o wefan yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/527803/bis-16-291-ukri-case-for-creation.pdf
- Llywodraeth y DU. (2016c). DETAILED IMPACT ASSESSMENTS. Higher Education and Research Bill (Impact Assessment). Adalwyd o wefan yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/528005/bis-16-295-he-research-bill-detailed-impact-assessment.pdf
- Llywodraeth Cymru. Bil Cymwysterau Cymru. Memorandwm Esboniadol. (2014).
- Llywodraeth Cymru. (2017). Budd y Cyhoedd a Chymru Ffyniannus – Datblygu System Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol Diwygiedig
- West, A., Pennell, H., a Noden, P. (1998). School Admissions: Increasing Equity, Accountability and Transparency. *British Journal of Educational Studies*, 46(2), 188–200. <https://doi.org/10.1111/1467-8527.00078>
- Woodhall, M. (1992). Cost-benefit analysis in educational planning (3^{ydd} argraffiad). Paris: UNESCO.
- Woodhall, M. (2004). Cost-benefit analysis in educational planning (4^{ydd} argraffiad). Paris: UNESCO.

Atodiad A – Crynodeb o Fanteision

Mae Tabl 3 yn crynhoi'r manteision a ganfuwyd yn yr adolygiad, wedi'u trefnu ar sail y categorïau a nodwyd yn y cynllun gwireddu manteision, a'r grwpiau y disgwylir iddynt fwynhau'r manteision hyn. Mae Llywodraeth Cymru yn diffinio "manteision uniongyrchol" fel y manteision sy'n cronni iddi. Mae manteision anuniongyrchol yn cynnwys y manteision i ddarparwyr AHO, a'r manteision ehangach yw'r rhai a fydd yn cronni i grwpiau gwahanol yn y gymdeithas (h.y. trethdalwyr, cyflogwyr, dysgwyr).

Tabl 3. Crynodeb o fanteision

Categoriâu o Fanteision	Grŵp sy'n cael ei effeithio	Math o Fantais
Uniongyrchol	Llywodraeth Cymru	<ul style="list-style-type: none"> • Cynllunio cenedlaethol cryfach a mwy diogel (Llywodraeth y DU, 2016a) • Mwy o gysondeb ledled y sector (DIISRTE, 2012) • Gwella goruchwyliaeth ac ymyrraeth gyflymach pan fo angen. (DIISRTE, 2012) • Mwy o hyblygrwydd wrth ymateb i newidiadau yn y system gymwysterau yn y DU. (Llywodraeth Cymru, 2014). • Polisi mwy effeithiol, sy'n targedu grwpiau difreintiedig trwy ddefnyddio data canolog a manwl iawn (Llywodraeth y DU, 2016c). • Arbedion cost o ganlyniad i arbedion costau gweinyddol (Llywodraeth y DU, 2016a; 2016b). • Mwy o reffeniw treth o ganlyniad i hwb i gynhyrchiant a mwy o adenillion o enillion (Llywodraeth y DU, 2016c).
Anuniongyrchol	Darparwyr AHO	<ul style="list-style-type: none"> • Rheoliad mwy cydlynol i gydymffurfio ag ef (Llywodraeth y DU, 2016b; DIISRTE, 2012). • Llai o faich rheoleiddio (ar gyfer darparwyr AHO risg isel) (Llywodraeth y DU, 2016a). • Mwy o gysondeb ac ansawdd gwell ymysg darparwyr (Llywodraeth y DU, 2016a).

		<ul style="list-style-type: none"> • Enillion cynhyrchiant ar gyfer darparwyr yn sgil llai o dasgau gweinyddol (Llywodraeth y DU, 2016b)
Ehangach	Dysgwyr	<ul style="list-style-type: none"> • Llai o ddryswch ynglŷn â llwybrau a phontio i farchnadoedd llafur (DIISRTE, 2012). • Llai o anghymesuredd gwybodaeth <ul style="list-style-type: none"> ○ mwy o benderfyniadau ar sail gwybodaeth (Llywodraeth y DU, 2016c; Aseiad Effaith o Ddyletswyddau Rhannu Gwybodaeth a Thyloywder Data; DIISRTE, 2012). • Mwy o gyfranogiad (i'r graddau y bydd y Comisiwn yn dyrannu cyllid yn fwy effeithlon tuag at grwpiau difreintiedig) (Llywodraeth y DU, 2016c; DIISRTE, 2012). • Gwella symudedd cymdeithasol (Llywodraeth y DU, 2016c). • Enillion cynhyrchiant (Llywodraeth y DU, 2016c; DIISRTE, 2012).
Ehangach	Busnesau/ Cyflogwyr	<ul style="list-style-type: none"> • Mwy o hyder ynglŷn ag ansawdd a sgiliau graddedigion (DIISRTE, 2012). • Hwb cynhyrchiant i'r sector preifat (Llywodraeth y DU, 2016b, 2016c).
Ehangach	Trethdalwyr	<ul style="list-style-type: none"> • Gwella gwerth am arian trethdalwyr (Llywodraeth y DU, 2016c). • Gwella cyfraddau ad-dalu benthyciadau drwy gynyddu cynhyrchiant (Llywodraeth y DU, 2016c).

Atodiad 1 – Nodiadau esboniadol

BIL ADDYSG DRYDYDDOL AC YMCHWIL (CYMRU)

NODIADAU ESBONIADOL

CYFLWYNIAD

1. Mae'r Nodiadau Esboniadol hyn ar gyfer Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) ("y Bil") fel y'i cyflwynwyd i'r Senedd ar 1 Tachwedd 2021 ac a ddiwygiwyd ar 12 Mai 2022.
2. Fe'u lluniwyd gan Gyfarwyddiaeth Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes Llywodraeth Cymru er mwyn cynorthwyo'r sawl sy'n darllen y Bil ac i helpu'r drafodaeth arno. Nid ydynt yn rhan o'r Bil ac nid ydynt wedi eu cymeradwyo gan y Senedd.
3. Dylid darllen y Nodiadau Esboniadol ar y cyd â'r Bil. Ni fwriedir iddynt fod yn ddisgrifiad cynhwysfawr o'r Bil. Pan fo adran neu ran o adran yn hunanesboniadol a bo'n ymddangos nad oes angen unrhyw esboniad neu sylw pellach, nis rhoddir.

TROSOLWG CYFFREDINOL O'R BIL

4. Mae'r Bil yn darparu fframwaith statudol newydd ar gyfer addysg drydyddol ac ymchwil a gyllidir yn gyhoeddus yng Nghymru. Mae "addysg drydyddol" yn derm newydd yn y darpariaethau statudol sy'n ymwneud ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru, sy'n cynnwys addysg uwch, addysg bellach a hyfforddiant sy'n addas at anghenion personau sydd wedi cyrraedd 16 oed.
5. Mae 146 o adrannau a 4 Atodlen i'r Bil ac mae wedi ei rannu yn 7 Rhan fel a ganlyn.

Rhan 1 - Fframwaith Strategol ar gyfer Addysg Drydyddol ac Ymchwil

6. Mae Rhan 1 yn darparu ar gyfer sefydlu corff cyhoeddus newydd, y 'Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil ("y Comisiwn")'. Bydd y corff yn arfer swyddogaethau newydd a grëir gan y Bil, swyddogaethau statudol presennol Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ("CCAUC") a llawer o swyddogaethau addysg bellach a hyfforddiant presennol Gweinidogion Cymru. Mae'r rhan fwyaf o'r swyddogaethau statudol presennol hyn wedi eu diddymu ar eu ffurf bresennol ac wedi eu haildatgan yn y Bil, gydag addasiadau i'w gwneud yn arferadwy gan y Comisiwn (yn hytrach na CCAUC neu Weinidogion Cymru) a chydag addasiadau mewn ffyrdd eraill mewn rhai achosion.
7. Mae Rhan 1 yn nodi dyletswyddau strategol y Comisiwn, yn gofyn am gynllunio strategol ar gyfer addysg drydyddol ac ymchwil gan y Comisiwn ac yn diddymu CCAUC.
8. Gwneir darpariaeth i Weinidogion Cymru gael rôl goruchwylio 'hyd braich' mewn cysylltiad â'r Comisiwn. O ran Gweinidogion Cymru –
 - mae'n ofynnol iddynt gyhoeddi datganiad o flaenoriaethau strategol ar gyfer addysg drydyddol ac ymchwil, sydd i lywio gwaith cynllunio strategol y Comisiwn;

- maent i benodi aelodau'r Comisiwn;
 - cânt roi swyddogaethau atodol i'r Comisiwn drwy reoliadau;
 - cânt roi canllawiau y mae rhaid i'r Comisiwn roi sylw iddynt wrth arfer ei swyddogaethau; ac
 - cânt roi cyfarwyddiadau cyffredinol i'r Comisiwn ynghylch arfer ei swyddogaethau.
9. Gosodir dyletswyddau hefyd ar y Comisiwn a Gweinidogion Cymru i roi sylw, wrth arfer swyddogaethau o dan y Bil, i bwysigrwydd diogelu rhyddid academiaidd darparwyr addysg uwch a staff academiaidd darparwyr o'r fath.
10. Mae'r Rhan hon yn cyflwyno Atodlen 1 sy'n nodi statws y Comisiwn; yn gwneud darpariaeth ynghylch aelodaeth y Comisiwn gan gynnwys rhai telerau ac amodau; yn gosod dyletswydd ar y Comisiwn i gael Pwyllgor Ymchwil ac Arloesi, Pwyllgor Ansawdd a phwyllgor penodi aelod staff. Mae'n ei alluogi i sefydlu pwyllgorau eraill gan gynnwys cyd-bwyllgorau; yn gwneud darpariaethau ynghylch aelodaeth y Comisiwn (gan gynnwys cynrychiolaeth y gweithlu a dysgwyr), archwilio a chyfrifon, dyletswydd i sicrhau gwerth da, gofynion adrodd blynyddol yn ogystal â gofynion gweithredol eraill megis dirprwyo, trafodion, cofrestr buddiannau ac arfer swyddogaethau.
11. Mae'r Rhan hon hefyd yn cyflwyno Atodlen 2 sy'n gwneud darpariaeth ynghylch trosglwyddo eiddo a staff i'r Comisiwn.

Rhan 2 - Cofrestru a Rheoleiddio Darparwyr Addysg Drydyddol

12. Mae Rhan 2 yn ymwneud â chofrestru a rheoleiddio darparwyr addysg drydyddol ac mae wedi ei rhannu'n 4 pennod:
- mae Pennod 1 yn darparu ar gyfer system newydd ar gyfer cofrestru darparwyr addysg drydyddol (nid yw cofrestru o dan Ran 2 yn ofyniad cyfreithiol ar gyfer darparu addysg drydyddol ynddo'i hun; mae cofrestru yn gysylltiedig â phwerau'r Comisiwn o dan Ran 3 i gyllido addysg drydyddol (gweler yr esboniad o Ran 3 isod));
 - mae Pennod 2 yn gwneud darpariaeth ar gyfer sicrhau ansawdd addysg drydyddol a gyllidir yn gyhoeddus (cofrestredig ac anghofrestredig) drwy fonitro, asesu ac adolygu;
 - mae Pennod 3 yn gwneud darpariaeth ar gyfer ymyrryd mewn sefydliadau addysg bellach (nad yw'n ymwneud â'r system gofrestru a sefydlir gan Bennod 1) a gweithdrefnau ar gyfer arfer yr holl swyddogaethau gorfodi o dan Ran 2;
 - mae Pennod 4 yn gwneud darpariaeth gyffredinol sy'n berthnasol i'r Rhan.

Pennod 1 - Cofrestru darparwyr addysg drydyddol

13. Rhaid i'r Comisiwn sefydlu a chynnal cofrestr o ddarparwyr addysg drydyddol yng Nghymru a chaiff darparwyr wneud cais i gael eu cofrestru yn un neu ragor o gategoriâu'r gofrestr. Mae categorïau cofrestru i'w pennu mewn rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru. Cyfuniad o amodau a osodir yn uniongyrchol gan y Bil ac amodau a osodir ac a gyhoeddir gan y Comisiwn yw'r amodau cofrestru, y mae rhaid iddynt fod yn gymesur â'u nodau. Gosodir dyletswydd ar y Comisiwn i osod rhai amodau ar yr holl ddarparwyr cofrestredig ac mae ganddo ddyletswyddau i osod mathau penodol o amodau ar gyfer mathau penodol o ddarparwr cofrestredig. Rhoddir pŵer iddo hefyd i osod amodau o'i ddewis ei hun.
14. Mae'r amodau mandadol yn y Bil ar gyfer categorïau penodedig o ddarparwyr yn ymwneud â therfynau ffioedd ar gyfer cyrsiau a hybu cyfle cyfartal. Mae'r categorïau o ddarparwr cofrestredig y mae'r darpariaethau hyn yn gymwys iddynt i'w pennu gan Weinidogion

Cymru drwy reoliadau. Mae gan Weinidogion Cymru y pŵer hefyd, drwy reoliadau, i'w gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn osod amodau eraill ar ddarparwyr cofrestredig.

15. Gosodir dyletswydd ar y Comisiwn i fonitro cydymffurfedd â'r amodau cofrestru, caiff ddarparu cyngor a chynhorthwy i ddarparwyr addysg drydyddol a chaiff gynnal neu drefnu adolygiadau o faterion sy'n berthnasol i gydymffurfedd. Mae gorfodi unrhyw fethiant gan ddarparwr cofrestredig i gydymffurfio ag amodau cofrestru i'w wneud drwy gyfarwyddydau a roddir gan y Comisiwn.
16. Mae'r Bennod hefyd yn gwneud darpariaeth weithdrefnol ar gyfer datgofrestru darparwyr cofrestredig a darpariaeth ar gyfer adolygiadau o benderfyniadau'r Comisiwn gan banel annibynnol.

Pennod 2 – Sicrhau ansawdd a gwella ansawdd

17. Mae Pennod 2 yn rhoi i'r Comisiwn y swyddogaeth o gyhoeddi fframweithiau sicrhau ansawdd at ddiben arwain polisi ac arferion wrth asesu addysg drydyddol gan y Comisiwn, Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru ("Estyn") neu gorff a ddynodir gan y Comisiwn o dan Bennod 2 i gyflawni swyddogaethau asesu'r Comisiwn mewn cysylltiad ag addysg uwch.
18. Mewn cysylltiad ag addysg drydyddol a ddarperir gan ddarparwyr cofrestredig neu addysg drydyddol a gyllidir gan y Comisiwn neu a sicrheir ganddo –
 - rhaid i'r Comisiwn fonitro'r ansawdd a hybu gwelliant yn yr ansawdd,
 - caiff y Comisiwn ddarparu cyngor neu gynhorthwy i wella ansawdd, ac
 - caiff y Comisiwn gynnal neu drefnu adolygiadau o faterion sy'n berthnasol i ansawdd.
19. Mae gan y Comisiwn ddyletswydd benodol i asesu, neu i drefnu i asesu, addysg uwch a ddarperir gan ddarparwyr cofrestredig neu ar eu rhan; a gosodir dyletswydd ar gyrff llywodraethu darparwyr cofrestredig i gyhoeddi cynlluniau gweithredu yn dilyn yr asesiadau hyn. Rhoddir pŵer i'r Comisiwn i ddynodi corff i arfer ei swyddogaethau asesu addysg uwch. Mae Atodlen 3, a gyflwynir gan y Bennod, yn darparu ar gyfer y broses ar gyfer dynodi corff, goruchwylio'r corff gan y Comisiwn a chodi ffioedd gan y corff dynodedig.
20. Mae Pennod 2 yn ailddatgan swyddogaethau Estyn mewn cysylltiad ag arolygu addysg a hyfforddiant ôl-16 a dyletswyddau personau sy'n gyfrifol am ddarparu addysg a arolygir, gydag addasiadau i ystyried y cyd-destun statudol newydd a sefydlir gan y Bil. Mae'r darpariaethau presennol yn adrannau 75 i 80 a 83 i 88 o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 wedi eu diddymu.

Pennod 3 – Darpariaethau gorfodi a gweithdrefnol pellach

21. Mae Pennod 3 yn ailddatgan, gydag addasiadau, bŵer presennol Gweinidogion Cymru i ymyrryd yn ymddygiad sefydliadau addysg bellach yng Nghymru pan fo eu cyrff llywodraethu yn methu â chydymffurfio â dyletswyddau, yn gweithredu'n afresymol neu'n perfformio mewn modd annigonol. Mae'n darparu pŵer i'r Comisiwn i atgyfeirio achosion at Weinidogion Cymru pan fo'n ystyried bod seiliau dros ymyrryd. Mae pŵer presennol Gweinidogion Cymru yn adran 57 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 wedi ei ddiddymu.
22. Gwneir darpariaeth i'r Comisiwn roi cyfarwyddydau sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr addysg drydyddol penodol nad ydynt yn ddarparwyr cofrestredig

gydweithredu. Rhoddir pŵer mynd i mewn ac arolygu i bersonau a awdurdodir gan y Comisiwn at ddiben arfer swyddogaethau'r Comisiwn o dan Ran 2.

23. Mae'r Bennod yn pennu gofynion ar gyfer hysbysiadau rhybuddio sydd i'w rhoi cyn i'r Comisiwn roi cyfarwyddydau mewn cysylltiad â methiant i gydymffurfio ag amodau, hysbysiadau gwrthod datganiadau terfyn ffioedd arfaethedig (neu amrywiadau i ddatganiadau neu ddatganiadau eraill yn eu lle) neu gyfarwyddydau sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr penodol nad ydynt yn ddarparwyr cofrestredig gydweithredu. Mae corff llywodraethu darparwr y rhoddir hysbysiad rhybuddio iddo i gael yr hawl i wneud cais am adolygiad o benderfyniad arfaethedig y Comisiwn; ac mae'r adolygiad i'w gynnal gan berson, neu banel o bersonau, a benodir gan Weinidogion Cymru.
24. Gosodir dyletswydd ar y Comisiwn i fonitro cynaliadwyedd ariannol darparwyr cofrestredig a sefydliadau yn y sector addysg bellach a gyllidir gan y Comisiwn ac adrodd arno. Hefyd, gosodir dyletswydd ar y Comisiwn i gyhoeddi datganiad ar sut y mae'n bwriadu arfer ei swyddogaethau ymyrryd o dan Ran 2.

Rhan 3 - Sicrhau Addysg Drydyddol ac Ymchwil a'u Cyllido

25. Mae'r Rhan hon yn darparu ar gyfer cyllido'r Comisiwn gan Weinidogion Cymru, pwerau'r Comisiwn i gyllido addysg drydyddol ac ymchwil, prentisiaethau a dyletswyddau'r Comisiwn i sicrhau darpariaeth cyfleusterau ar gyfer addysg bellach a hyfforddiant. Mae pwerau cyllido'r Comisiwn mewn cysylltiad ag addysg uwch yn disodli pwerau cyllido presennol CCAUC yn Neddf Addysg Bellach ac Uwch 1992, sydd wedi eu diddymu. Hefyd, mae'r dyletswyddau i sicrhau addysg bellach a hyfforddiant yn disodli swyddogaethau presennol Gweinidogion Cymru yn adrannau 31 i 33 o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000, sydd wedi eu diddymu.
26. Rhaid i gyllid gan y Comisiwn ar gyfer addysg uwch fod mewn cysylltiad â darparwyr a chyrsgiau a bennir mewn rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru. Caiff Gweinidogion Cymru hefyd ddarparu cymorth ariannol ar gyfer addysg bellach a hyfforddiant a gweithgareddau cysylltiedig. Pennir darparwyr drwy gyfeirio at gategori cofrestru o dan Ran 2. Caiff Gweinidogion Cymru hefyd gyllido ystod gyfyngedig o gyrsgiau addysg uwch eu hunain.
27. Rhaid i gyllid gan y Comisiwn ar gyfer ymchwil ac arloesi hefyd fod mewn cysylltiad â darparwyr addysg drydyddol sydd wedi eu cofrestru mewn categorïau a bennir gan Weinidogion Cymru mewn rheoliadau.

Rhan 4 - Prentisiaethau

28. Mae Rhan 4 yn darparu ar gyfer prentisiaethau Cymreig cymeradwy. Prentisiaethau yw'r rhain a gynhelir yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru yn unol â fframweithiau prentisiaethau a gyhoeddir gan y Comisiwn (y caniateir iddynt gael eu llunio gan y Comisiwn neu gan bersonau eraill). Caiff Gweinidogion Cymru bennu gofynion mewn perthynas â phrentisiaethau Cymreig cymeradwy, gan gynnwys gofynion yn ymwneud â cynnwys fframweithiau prentisiaeth neu'n ymwneud â llunio fframweithiau prentisiaeth.

Rhan 5 - Diogelu Dysgwyr, Gweithdrefnau Cwyno ac Ymgysylltu â Dysgwyr

29. Mae Rhan 5 yn darparu ar gyfer cynlluniau diogelu dysgwyr, sef dogfennau sy'n nodi trefniadau'r darparwr addysg drydyddol ar gyfer diogelu buddiannau myfyrwyr sy'n ymgymryd â chyrsgiau os bydd y cwrs yn peidio â chael ei ddarparu ac ar gyfer cefnogi myfyrwyr sy'n dymuno trosglwyddo i gyrsgiau gwahanol.

30. Mae'r Rhan yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn gymryd camau i sicrhau bod gan ddarparwyr addysg drydyddol weithdrefnau yn eu lle ar gyfer ymchwilio i gwynion gan fyfyrwyr ac yn estyn ystyr "sefydliad cymhwysol" at ddibenion cynlluniau cwynion myfyrwyr o dan Ddeddf Addysg Uwch 2004.
31. Mae'r Rhan hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn lunio a chyhoeddi Cod Ymgysylltu â Dysgwyr ynghylch cynnwys personau sy'n cael addysg drydyddol mewn penderfyniadau a wneir gan ddarparwyr yr addysg drydyddol.

Rhan 6 - Gwybodaeth, Cyngor a Chanllawiau

32. Mae Rhan 6 yn darparu pwerau a dyletswyddau i roi gwybodaeth, cyngor a chanllawiau. Mae hyn yn cynnwys:
- dyletswydd ar y Comisiwn i roi cyngor a gwybodaeth ar gais Gweinidogion Cymru a'r pŵer i wneud hynny;
 - pŵer i Weinidogion Cymru i roi gwybodaeth i'r Comisiwn;
 - dyletswydd i ddarparwyr addysg drydyddol penodol a chyrrff eraill i roi gwybodaeth ar gais y Comisiwn;
 - pŵer i gyrff cyhoeddus amrywiol i rannu gwybodaeth â'r Comisiwn;
 - dyletswydd i rannu gwybodaeth sy'n ymwneud â cheisiadau am le ar gyrsiau addysg uwch.
33. Mae'r Rhan hon hefyd yn darparu pŵer i'r Comisiwn i roi cyngor ac i ddyroddi canllawiau i unrhyw berson ynghylch darparu addysg drydyddol neu unrhyw fater sy'n gysylltiedig â swyddogaethau'r Comisiwn. Yn ogystal, mae'n rhoi i'r Comisiwn a Gweinidogion Cymru bŵer i wneud ymchwil neu i gyllido ymchwil i addysg a hyfforddiant yng Nghymru neu i faterion cysylltiedig.

Rhan 7 - Amrywiol a Chyffredinol

34. Mae'r Rhan hon yn gwneud darpariaeth mewn cysylltiad ag offerynnau ac erthyglau llywodraethu corfforaethau addysg uwch yng Nghymru a diddymu'r corfforaethau hynny. Mae'n cyflwyno dyletswydd ar Weinidogion Cymru i ymgynghori â'r Comisiwn ynghylch gwasanaethau gyrfaoedd; yn cynnwys darpariaethau ynghylch gweithdrefnau is-ddeddfwriaeth; yn darparu pwerau i Weinidogion Cymru i wneud darpariaethau trosiannol, canlyniadol etc.; ac yn gwneud darpariaeth mewn cysylltiad â chychwyn, dehongli, dod i rym etc.
35. Mae'r Rhan hon yn cyflwyno Atodlen 4 sy'n nodi mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol i ddeddfwriaeth sylfaenol y mae darpariaethau'r Bil yn effeithio arni.

SYLWEBAETH AR YR ADRANNAU

Rhan 1: Fframwaith Strategol ar Gyfer Addysg Drydyddol ac Ymchwil

Y Comisiwn

Adran 1: Sefydlu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil ac Atodlen 1: Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil

36. Mae'r adran hon yn darparu ar gyfer sefydlu'r Comisiwn. Bydd y Comisiwn yn gorff corfforedig â'i bersonoliaeth gyfreithiol ei hun a phwerau a dyletswyddau penodol.
37. Mae'r adran hon hefyd yn cyflwyno Atodlen 1, sy'n gwneud darpariaeth ynghylch aelodaeth, pwyllgorau a threfniadau gweithredol y Comisiwn.

38. Aelodau'r Comisiwn fydd cadeirydd, dirprwy gadeirydd, a rhwng pedwar a phedwar ar ddeg o aelodau arferol, a benodir gan Weinidogion Cymru. Mae'r prif weithredwr hefyd yn aelod. Bydd Gweinidogion Cymru yn penodi'r prif weithredwr cyntaf am gyfnod o hyd at 4 blynedd, gyda phenodiadau yn y dyfodol yn cael eu gwneud gan y Comisiwn, yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth Gweinidogion Cymru.
39. Bydd gan y Comisiwn aelodau cyswllt hefyd a fydd yn cynrychioli'r gweithlu addysg drydyddol (academaidd ac anacademaidd), staff y Comisiwn a dysgwyr mewn addysg drydyddol.
40. Mae paragraff 5 yn nodi'r broses benodi ar gyfer aelodau cyswllt y gweithle. Mae hyn yn cynnwys gofyniad i Weinidogion Cymru gyhoeddi rhestr o undebau llafur a fydd yn enwebu cynrychiolwyr o'r gweithlu addysg drydyddol academaidd a'r gweithlu addysg drydyddol anacademaidd. I fod yn gymwys i fod yn aelod cyswllt y gweithlu, rhaid i berson fod wedi ei gyflogi gan ddarparwr addysg drydyddol yng Nghymru a bod yn aelod o undeb llafur ar y rhestr berthnasol a gyhoeddwyd yn fwyaf diweddar. Disgwylir y bydd y broses ymgynghori ar gyfer llunio'r rhestr o undebau llafur yn arwain at sefyllfa pan fydd yr undebau llafur a restrir yn cael eu cydnabod gan y darparwyr addysg drydyddol.
41. Mae paragraff 6 yn nodi'r broses ar gyfer penodi aelod cyswllt staff y Comisiwn. Rhaid i bwyllgor penodi aelod y staff (a sefydlir o dan baragraff 11(5)) benodi person o blith ymgeiswyr a enwebir gan bob un o'r undebau llafur a gydnabyddir gan y Comisiwn. I fod yn gymwys i fod yn aelod cyswllt staff y Comisiwn, rhaid i berson fod wedi ei gyflogi gan y Comisiwn a bod yn aelod o undeb llafur a gydnabyddir gan y Comisiwn.
42. Mae paragraff 7 yn nodi'r broses benodi ar gyfer aelod cyswllt y dysgwyr. Mae hyn yn cynnwys gofyniad i Weinidogion Cymru gyhoeddi rhestr o gyrff sy'n cynrychioli buddiannau dysgwyr sy'n ymgymryd ag addysg drydyddol yng Nghymru. Bydd aelod cyswllt y dysgwyr yn cael ei benodi gan Weinidogion Cymru o blith enwebiadau a wneir gan gyrff ar y rhestr. Disgwylir y bydd y rhestr hon yn cynnwys Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr Cymru ynghyd â chyrrff cynrychioliadol eraill. I fod yn gymwys i fod yn aelod cyswllt y dysgwyr, rhaid i berson fod wedi bod yn ddysgwr a oedd yn ymgymryd ag addysg drydyddol yn y 3 blynedd cyn cael ei benodi a rhaid ei fod yn dal swydd neu aelodaeth o gorff ar y rhestr a gyhoeddwyd.
43. Bydd gan y Comisiwn bwyllgor o'r enw'r Pwyllgor Ymchwil ac Arloesi at ddiben ei gynghori ynghylch materion sy'n ymwneud ag ymchwil ac arloesi. Penodir cadeirydd y Pwyllgor Ymchwil ac Arloesi gan Weinidogion Cymru ac ef hefyd fydd dirprwy gadeirydd y Comisiwn (a bydd person sy'n peidio â dal un swydd neu sy'n cael ei atal dros dro o'r swydd honno hefyd yn peidio â dal y swydd arall neu'n cael ei atal dros dro ohoni). Rhaid i'r Comisiwn hefyd sefydlu pwyllgor o'r enw'r Pwyllgor Ansawdd i'w gynghori ar ansawdd addysg drydyddol a gyllidir ganddo neu a sicrheir ganddo, a phwyllgor penodi aelod y staff. Caiff sefydlu pwyllgorau a chyd-bwyllgorau eraill, a chaiff ddirprwyo swyddogaethau i'w bwyllgorau.
44. Mae Atodlen 1 hefyd yn cynnwys darpariaeth ynghylch cyfrifon ac archwilio, adroddiadau blynyddol, gweithdrefnau, cofrestr buddiannau a phwerau atodol y Comisiwn.

Dyletswyddau strategol y Comisiwn

45. Dyletswyddau strategol bras o natur uchelgeisiol yw adrannau 2 i 12, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn hybu neu annog canlyniadau a bennir yn yr adrannau. Nid yw'r darpariaethau yn pennu graddau na natur y gweithgaredd y mae rhaid i'r Comisiwn ymgymryd ag ef mewn unrhyw fanylder ac mae natur benagored y canlyniadau a bennir yn rhoi i'r Comisiwn ddisgresiwn eang o ran natur a graddau y camau y mae'n eu cymryd i'w cyflawni.

Adran 2: Hybu dysgu gydol oes

46. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn hybu dysgu gydol oes ar gyfer pobl Cymru. Nid yw dysgu gydol oes yn derm a ddiffinnir yn yr adran hon, ond caiff ei grynhoi gan ei darpariaethau, sy'n disgrifio addysg drydyddol –

- sy'n darparu cyfleoedd i bobl i gymryd rhan drwy gydol eu bywydau o 16 oed,
- sy'n cynnwys amrywiaeth o lefelau a chymwysterau,
- sy'n cynnwys amrywiaeth o leoliadau a dulliau astudio,
- sydd wedi ei threfnu'n gydlynol i hwyluso symudiad drwy gamau gwahanol addysg ac i gyflogaeth neu fusnes,
- sydd fel arall yn bodloni gofynion gwahanol y rheini sy'n dymuno ymgymryd ag addysg drydyddol.

Adran 3: Hybu cyfle cyfartal

47. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn hybu cynyddu cyfranogiad gan aelodau o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg drydyddol a hybu cadw aelodau o grwpiau o'r fath a chynyddu cyfranogiad, gan grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol, mewn gwaith ymchwil ac arloesi a wneir yng Nghymru.

Adran 4: Annog cyfranogiad mewn addysg drydyddol

48. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn annog unigolion a chyflogwyr yng Nghymru i gymryd rhan yn narpariaeth addysg drydyddol.

Adran 5: Hybu gwelliant parhaus mewn addysg drydyddol

49. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn hybu gwelliant parhaus yn ansawdd addysg drydyddol yng Nghymru. Mae'r adran hefyd yn pennu materion y mae rhaid i'r Comisiwn roi sylw iddynt wrth gyflawni'r ddyletswydd.

Adran 6: Hybu gwaith ymchwil ac arloesi

50. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn hybu gwneud gwaith ymchwil ac arloesi yng Nghymru, a hybu gwneud gwaith ymchwil ac arloesi, a gweithgareddau cysylltiedig gan bersonau perthnasol drwy gyfrwng y Gymraeg.

51. Rhaid i'r Comisiwn hybu cydlafurio ar waith ymchwil ac arloesi, yng Nghymru ac mewn mannau eraill yn y byd, rhwng personau perthnasol, a rhwng personau perthnasol ac eraill. Rhaid i'r Comisiwn hefyd hybu gwelliant parhaus yn ansawdd gwaith ymchwil ac arloesi a wneir gan bersonau perthnasol, a chystadleurwydd y gwaith ymchwil ac arloesi hwnnw o'i gymharu â gwaith ymchwil ac arloesi a wneir gan bersonau eraill.

52. Mae is-adran (2) yn diffinio person perthnasol at ddiben yr adran hon.

Adran 7: Hybu cydlafurio a chydlynu mewn addysg drydyddol ac ymchwil

53. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn hybu cydlafurio rhwng darparwyr addysg drydyddol, ysgolion a chyflogwyr yng Nghymru, yn ogystal â hybu cydlynu yn narpariaeth addysg drydyddol.

Adran 8: Cyfrannu at economi gynaliadwy ac arloesol

54. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn hybu addysg drydyddol ac ymchwil yng Nghymru sy'n cyfrannu at ddatblygu economi gynaliadwy ac arloesol. Mae'r adran hefyd yn pennu materion y mae rhaid i'r Comisiwn roi sylw iddynt wrth gyflawni'r ddyletswydd ac yn diffinio economi gynaliadwy.

Adran 9: Hybu addysg drydyddol drwy gyfrwng y Gymraeg

55. Mae'r adran hon yn gosod dyletswydd ar y Comisiwn i annog y galw am addysg drydyddol drwy gyfrwng y Gymraeg a chyfranogiad ynddi. Rhaid i'r Comisiwn hefyd gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod digon o addysg drydyddol yn cael ei darparu yng Nghymru drwy gyfrwng y Gymraeg i ateb y galw.
56. Rhaid i Weinidogion Cymru ddynodi person i roi cyngor i'r Comisiwn at ddiben ei gynorthwyo i gyflawni ei ddyletswyddau o dan yr adran hon. Rhaid i'r Comisiwn roi sylw i unrhyw gyngor perthnasol a roddir iddo gan y person hwnnw.
57. Ni chaniateir i berson gael ei ddynodi ond os yw Gweinidogion Cymru yn ystyried ei fod yn addas i roi cyngor ar y materion a restrir yn is-adran (4). Nid yw'r ddyletswydd i ddynodi person yn gymwys os yw Gweinidogion Cymru yn ystyried nad oes unrhyw berson sy'n addas i roi cyngor ar y materion a restrir, neu os nad yw'r person yn cytuno i gael ei ddynodi.

Adran 10: Hybu cenhadaeth ddinesig

58. Mae'r adran hon yn gosod dyletswydd ar y Comisiwn i hybu cyflawni cenhadaeth ddinesig gan sefydliadau yng Nghymru yn y sector addysg bellach a'r sector addysg uwch. "Rhoddir y pŵer i'r Comisiwn hefyd i hybu cyflawni cenhadaeth ddinesig gan bersonau eraill a gyllidir gan y Comisiwn." Diffinnir "cenhadaeth ddinesig" yn is-adran (3) fel "gweithredu at ddiben hybu neu wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol neu ddiwylliannol Cymru (gan gynnwys gweithredu sydd wedi ei anelu at gyflawni unrhyw un neu ragor o'r nodau llesiant yn adran 4 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (dccc 2))".

Adran 11: Hybu golwg fyd-eang

59. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn hybu cyfleoedd i bobl yng Nghymru i addysgu ac astudio addysg drydyddol mewn mannau eraill yn y byd ac i bobl y tu allan i Gymru i astudio neu addysgu yng Nghymru. Rhaid i'r Comisiwn hybu cyfleoedd i fuddiannau cyfnewidfeydd o'r fath gael eu defnyddio ar gyfer llesiant Cymru. Rhaid iddo hefyd hybu cydlafurio rhwng darparwyr addysg drydyddol yng Nghymru a'r rheini mewn mannau eraill yn y byd.
60. **Adran 12: Hybu cydlafurio rhwng darparwyr addysg drydyddol ac undebau llafur**
Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn hybu cydlafurio rhwng darparwyr addysg drydyddol yng Nghymru ac undebau llafur, pan fo'r Comisiwn yn ystyried y byddai'r cydlafurio yn debygol o helpu i gyflawni dyletswyddau strategol y Comisiwn (adrannau 2 i 11 o'r Bil).

61. Rhaid i undeb llafur naill ai gael ei gynrychioli gan Wales TUC Cymru, neu rhaid i'r Comisiwn ystyried ei fod yn cynrychioli aelodau o'r gweithlu addysg drydyddol, hynny yw:
- athrawon sy'n darparu addysg drydyddol,
 - pobl sy'n darparu cymorth i'r athrawon hynny, ac
 - pobl sy'n darparu cymorth i ddysgwyr i gymryd rhan mewn addysg drydyddol.

Strategaeth ar gyfer addysg drydyddol ac ymchwil

Adran 13: Datganiad o flaenoriaethau strategol

62. Mae'r adran hon yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi datganiad sy'n nodi eu blaenoriaethau strategol ar gyfer addysg drydyddol ac ymchwil ac arloesi. Caiff Gweinidogion Cymru ddiwygio neu amnewid y datganiad. Rhaid cyhoeddi unrhyw ddiwygiadau.

Adran 14: Cynllun strategol ar gyfer y Comisiwn

63. Mae'r adran hon yn gosod dyletswydd ar y Comisiwn i lunio cynllun strategol sy'n nodi sut y mae'n bwriadu cyflawni ei ddyletswyddau strategol ac ymdrin â'r blaenoriaethau yn y datganiad o flaenoriaethau strategol a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru (is-adran (1)). Wrth lunio'r cynllun, rhaid i'r Comisiwn ymgynghori â'r personau hynny y mae'n ystyried eu bod yn briodol (is-adran (2)).

Adran 15: Cymeradwyo, cyhoeddi a gweithredu'r cynllun strategol

64. Rhaid i gynllun strategol a gaiff ei lunio o dan adran 14 gael ei anfon at Weinidogion Cymru i'w gymeradwyo o fewn chwe mis i gyhoeddi datganiad o flaenoriaethau Gweinidogion Cymru o dan adran 13 (is-adran (1)).
65. Mae gan Weinidogion Cymru y pŵer i gymeradwyo'r cynllun gydag addasiadau neu hebddynt, ond rhaid iddynt geisio cytundeb y Comisiwn i bob addasiad y maent yn bwriadu ei wneud i'r cynllun cyn iddynt addasu'r cynllun (is-adrannau (2) a (3)).
66. Caiff Gweinidogion Cymru gymeradwyo cynllun gydag addasiadau nad yw'r Comisiwn wedi cytuno iddynt, fodd bynnag rhaid iddynt roi'r rhesymau dros yr addasiadau i'r Comisiwn a rhaid i'r Comisiwn gyhoeddi'r rhesymau hynny pan fydd yn cyhoeddi'r cynllun fel sy'n ofynnol gan is-adran (5).
67. Mae is-adran (6) yn darparu y caiff y Comisiwn gyflawni ei ddyletswydd i gyhoeddi ei ddatganiad ynghylch amcanion llesiant o dan adran 7 o Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (dccc 2) drwy gynnwys y datganiad yn ei gynllun strategol cymeradwy.
68. Mae is-adran (7) yn gosod dyletswydd ar y Comisiwn i gymryd pob cam rhesymol i weithredu'r cynllun strategol.

Adran 16: Adolygu'r cynllun strategol

69. Mae'r adran hon yn amlinellu'r broses sydd i'w dilyn gan y Comisiwn wrth adolygu a diwygio ei gynllun strategol.
70. Rhaid i'r Comisiwn adolygu ei gynllun strategol os yw Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi diwygiadau i'w datganiad o flaenoriaethau strategol o dan adran 13 ar ôl i'r Comisiwn gyhoeddi ei gynllun strategol cymeradwy. Mae gan y Comisiwn y pŵer hefyd i adolygu ei gynllun strategol ar unrhyw adeg arall.
71. Pan fo unrhyw adolygiad o'r cynllun strategol yn arwain at ddiwygio'r cynllun, mae adran 14 yn gymwys i unrhyw ddiwygiad i'r cynllun fel y mae'n gymwys i lunio'r cynllun.

72. Rhaid anfon cynllun strategol diwygiedig at Weinidogion Cymru i'w gymeradwyo o fewn chwe mis pan fo'r diwygiad o ganlyniad i Weinidogion Cymru gyhoeddi diwygiadau i'w datganiad o dan adran 14(2); neu pan fo'r diwygiad o ganlyniad i'r Comisiwn adolygu ei gynllun strategol ar unrhyw adeg arall, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol. Mae darpariaethau adran 15(2) i (6) yn gymwys i gynllun diwygiedig.

Rhyddid academaidd ac awtonomi sefydliadol

73. **Adran 17: Rhyddid academaidd darparwyr a staff addysg uwch** Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru a'r Comisiwn roi sylw i'r angen i ddiogelu rhyddid academaidd darparwyr addysg drydyddol yng Nghymru sy'n darparu addysg uwch a staff academaidd y darparwyr hynny (is-adran (1)).
74. Diffinnir "rhyddid academaidd" mewn perthynas â darparwyr addysg drydyddol yn is-adran (2) fel un sy'n cynnwys rhyddid i benderfynu cynnwys cyrsiau addysg uwch a'r modd y cânt eu haddysgu, eu goruchwyllo a'u hasesu, y meini prawf ar gyfer derbyn myfyrwyr ar gyrsiau addysg uwch, a'r meini prawf ar gyfer dethol a phenodi staff academaidd (is-adran (2)).
75. Diffinnir "rhyddid academaidd" mewn perthynas â staff academaidd yn is-adran (2) fel eu rhyddid o fewn y gyfraith i gwestiynu a phrofi doethineb cyffredin ac i gyflwyno syniadau newydd a lleisio barn ddadleuol neu amhoblogaidd, heb eu rhoi eu hunain mewn perygl o golli eu swyddi neu golli eu breintiau yn y darparwyr.

Adran 18: Awtonomi sefydliadol darparwyr addysg drydyddol

76. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru a'r Comisiwn, wrth arfer eu swyddogaethau o dan y Bil hwn, roi sylw i ddiogelu'r rhyddid o fewn y gyfraith i ddarparwyr addysg drydyddol yng Nghymru i reoli o ddydd i dydd mewn modd effeithiol a medrus.

Cydnawsedd â chyfraith elusennau

Adran 19: Cydnawsedd â chyfraith elusennau a dogfennau llywodraethu darparwyr addysg drydyddol

77. Effaith yr adran hon yw na all unrhyw ofynion y caiff y Comisiwn neu Weinidogion Cymru eu gosod ar gyrff llywodraethu darparwyr addysg drydyddol o dan y Bil hwn (e.e. amodau cofrestru neu gyfarwyddydau) ei gwneud yn ofynnol i'r gyrff llywodraethu hynny weithredu mewn modd sy'n torri eu rhwymedigaethau fel ymddiriedolwyr elusennau, na'i gwneud yn ofynnol i gyrff llywodraethu weithredu mewn modd sy'n anghydnaws â'u dogfennau llywodraethu.
78. At y dibenion hyn, diffinnir dogfennau llywodraethu darparwyr addysg drydyddol yn is-adran (2) mewn perthynas â darparwyr a sefydlwyd drwy Siarter Frenhinol, darparwyr sy'n cael eu rhedeg gan gorfforaethau addysg uwch neu gorfforaethau addysg bellach, darparwyr sy'n sefydliadau a ddynodir o dan adran 129 o Ddeddf Diwygio Addysg 1988 neu adran 28 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992, ysgolion a darparwyr sy'n cael eu rhedeg gan gwmnïau.

Canllawiau a chyfarwyddydau Gweinidogion Cymru

Adran 20: Canllawiau

79. Mae'r adran hon yn darparu bod rhaid i'r Comisiwn roi sylw i ganllawiau a roddir iddo gan Weinidogion Cymru.

Adran 21: Pŵer Gweinidogion Cymru i roi cyfarwyddydau cyffredinol

80. Mae is-adran (1) yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddyroddi cyfarwyddydau cyffredinol i'r Comisiwn ynghylch arfer unrhyw un neu ragor o'i swyddogaethau. Mae cyfarwyddyd a ddyroddir gan Weinidogion Cymru o dan yr adran hon yn ddarostyngedig i'r cyfyngiadau a nodir yn is-adrannau (2), (3) a (5).
81. Nid yw'r cyfyngiadau a nodir o dan is-adrannau (2) a (3) yn atal unrhyw gyfarwyddyd a ddyroddir o dan yr adran hon rhag cael ei lunio drwy gyfeirio at ddarparu ac asesu cwrs astudio, neu rannau o gyrsiau astudio, drwy gyfrwng y Gymraeg (is-adran (4)). Diben y cyfyngiadau yw diogelu awtonomi sefydliadol darparwyr addysg drydyddol ac ymchwil, rhyddid academiaidd darparwyr addysg uwch a gallu'r Comisiwn i bennu dyraniadau cyllid i ddarparwyr unigol.
82. Mae is-adran (6) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Comisiwn cyn dyroddi cyfarwyddyd cyffredinol. Mae is-adran (7) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gadw unrhyw gyfarwyddyd a roddir i'r Comisiwn o dan adolygiad. Rhaid i Weinidogion Cymru hefyd gyhoeddi unrhyw gyfarwyddyd cyffredinol a roddir i'r Comisiwn o dan yr adran hon ac adrodd am unrhyw gyfarwyddydau o'r fath i'r Senedd. Mae is-adran (8) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn gydymffurfio â chyfarwyddyd cyffredinol a roddir gan Weinidogion Cymru.
83. Mae is-adran (8) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn gydymffurfio â chyfarwyddyd cyffredinol a roddir gan Weinidogion Cymru.

Swyddogaethau ychwanegol

Adran 22: Swyddogaethau ychwanegol y Comisiwn

84. Mae is-adran (1) yn galluogi Gweinidogion Cymru i roi swyddogaethau atodol i'r Comisiwn drwy reoliadau. Rhaid i swyddogaeth atodol a roddir i'r Comisiwn o dan y pwerau hyn ymwneud ag addysg drydyddol, neu ymchwil ac arloesi, a bod yn arferadwy gan Weinidogion Cymru (is-adran (2)).
85. Mae is-adrannau (3) a (4) yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo y caiff eu swyddogaethau mewn perthynas â thir neu eiddo arall sefydliad yng Nghymru o fewn y sector addysg uwch neu bellach, fod yn arferadwy gan y Comisiwn. Mae swyddogaethau Gweinidogion Cymru yn codi pan fo ganddynt hawlogaeth i hawl neu fuddiant mewn cysylltiad â'r eiddo hwnnw. Mae'n ofynnol i'r Comisiwn arfer y swyddogaethau hyn yn unol â chyfarwyddydau a roddir gan Weinidogion Cymru (is-adran (5)).

Diddymu Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru

Adran 23: Diddymu Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru

86. Mae'r adran hon yn diddymu CCAUC.

Adran 24 ac Atodlen 2: Cynlluniau trosglwyddo

87. Mae'r adran hon yn cyflwyno Atodlen 2 sy'n gwneud darpariaeth ynghylch cynlluniau ar gyfer trosglwyddo staff, eiddo, hawliau ac atebolrwyddau o ganlyniad i sefydlu'r Comisiwn a diddymu CCAUC.

Rhan 2: Cofrestru a Rheoleiddio Darparwyr Addysg Drydyddol

Pennod 1: Cofrestru Darparwyr Addysg Drydyddol

Y gofrestr a'r weithdrefn gofrestru

Adran 25: Y gofrestr

88. Mae is-adran (1) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn sefydlu a chadw cofrestr o ddarparwyr addysg drydyddol yng Nghymru. Rhaid i'r Comisiwn gofrestru'r darparwyr hynny sy'n gwneud cais i gael eu cofrestru ac sy'n bodloni'r amodau cofrestru (is-adran (4)). Bydd gwneud cais i gofrestru yn fater gwirfoddol.
89. Mae'r gofrestr, drwy ddefnyddio amodau cofrestru (gweler adrannau 27 i 35), yn darparu dull o reoleiddio'r darparwyr hynny. Ar y cyd â'r rheoliadau cymorth i fyfyrwyr diwygiedig a wneir gan Weinidogion Cymru o dan adran 22 o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998, bydd cofrestru hefyd yn pennu cymhwysra darparwr ar gyfer dynodiad awtomatig i gael cymorth i fyfyrwyr gan Lywodraeth Cymru.
90. Mae'r gofrestr i'w rhannu'n categorïau cofrestru gwahanol a bennir mewn rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru (is-adran (2)). Bwriedir i'r categorïau cofrestru ganiatáu amrywiadau priodol o ran yr amodau cofrestru sy'n ofynnol ar gyfer mathau gwahanol o ddarparwyr cofrestredig sy'n cael mathau gwahanol o gyllid cyhoeddus. Caiff rheoliadau wahardd darparwr rhag cofrestru mewn un categori tra'i fod wedi ei gofrestru mewn un neu ragor o categorïau eraill (is-adran (5)).
91. Rhaid i ddarparwyr, unwaith eu bod wedi eu cofrestru, fodloni'r amodau cofrestru cyffredinol ac unrhyw amodau cofrestru parhaus penodol sy'n gymwys iddynt yn y categori cofrestru perthnasol. Mae darpariaeth ar gyfer yr amodau hyn, a'r broses ar gyfer eu penderfynu, wedi ei nodi yn adrannau 28, 29, 31, 32 a 33.
92. Mae'r weithdrefn ar gyfer cofrestru, a ffurf y ceisiadau i gofrestru, yn fater i'r Comisiwn ei benderfynu (is-adran (7)). Rhaid i'r wybodaeth sydd wedi ei chynnwys yn y gofrestr fod ar gael i'r cyhoedd (is-adran (11)), a chaiff Gweinidogion Cymru bennu mewn rheoliadau yr wybodaeth sydd i'w chynnwys yng nghofnod darparwr cofrestredig yn y gofrestr (is-adran (8)).

Adran 26: Y weithdrefn gofrestru

93. Mae'r adran hon yn nodi'r weithdrefn sydd i'w dilyn os digwydd bod y Comisiwn yn bwriadu gwrthod cais i gofrestru, neu pan fo'r Comisiwn yn bwriadu gwrthod cais gan ddarparwr cofrestredig i newid categorïau.
94. Rhaid i'r Comisiwn hysbysu corff llywodraethu'r darparwr pan fo'n bwriadu gwrthod cais y darparwr. Rhaid i'r Comisiwn bennu ei resymau dros wneud hynny a'r cyfnod y caiff darparwr gyflwyno sylwadau i'r Comisiwn ynddo ynghylch yr hyn y mae'r Comisiwn yn bwriadu ei wneud (is-adran (2)). Ni chaiff y cyfnod fod yn llai nag 28 o ddiwrnodau (is-adran (3)).
95. Caiff y Comisiwn, pan ddaw'r cyfnod rhybudd penodedig i ben, naill ai penderfynu cofrestru'r darparwr yn y categori y mae wedi gwneud cais ar ei gyfer, neu wrthod gwneud hynny. Rhaid i'r Comisiwn hysbysu'r corff llywodraethu am ei benderfyniad (is-adran (5)) a rhaid i hysbysiad o benderfyniad i wrthod cofrestru darparwr nodi'r sail dros wrthod a gwybodaeth ynghylch yr hawl i gael adolygiad o benderfyniad y Comisiwn (is-adran (7)).

Amodau cofrestru

Adran 27: Amodau cofrestru cychwynnol

96. Rhaid i ddarparwr sy'n gwneud cais i gofrestru â'r Comisiwn fodloni amodau cofrestru cychwynnol. Mae'r adran hon yn nodi pedwar amod cofrestru cychwynnol mandadol sydd yn gymwys i bob categori cofrestru. Rhaid i'r Comisiwn fod wedi ei fodloni o ran:
- ansawdd yr addysg a ddarperir gan y darparwr addysg drydyddol sy'n gwneud cais, neu a ddarperir ar ei ran,
 - effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu a rheoli y sawl sy'n gwneud cais,
 - cynaliadwyedd ariannol y sawl sy'n gwneud cais, a
 - pan fo'n gymwys, effeithiolrwydd y trefniadau sydd yn eu lle i fodloni'r darparwr sy'n gwneud cais o ran ansawdd yr addysg a gyflwynir gan ddarparwr allanol o dan drefniant dilysu.
97. Am ragor o wybodaeth ynghylch swyddogaethau'r Comisiwn mewn cysylltiad ag asesu ansawdd a sicrhau ansawdd, gweler Pennod 3 o'r Rhan hon.
98. Caiff y safon sy'n ofynnol i ddarparwyr fodloni amodau cofrestru cychwynnol, a'r wybodaeth sy'n ofynnol i ddangos hynny, eu pennu gan y Comisiwn. Mae'n ofynnol i'r Comisiwn gyhoeddi dogfen sy'n pennu'r gofynion ar gyfer bodloni'r amodau hynny (is-adran (2)). Mae'r Comisiwn yn cael ei alluogi i ddiwygio'r gofynion hyn ac os yw'n gwneud hynny rhaid iddo gyhoeddi dogfen wedi ei diweddarau (is-adran (4)). Cyn cyhoeddi naill ai dogfen gychwynnol neu ddogfen ddiwygiedig, mae'r Comisiwn o dan ddyletswydd, os yw'n ymddangos iddo ei bod yn briodol gwneud hynny, i ymgynghori â'r personau hynny y mae'n ystyried eu bod yn briodol (is-adran (5)), er enghraifft darparwyr addysg drydyddol a all fod yn dymuno gwneud cais i gofrestru.
99. Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, bennu amodau cofrestru cychwynnol pellach, a chaniateir pennu amodau gwahanol ar gyfer categorïau cofrestru gwahanol. Mae'r rhestr a ddarperir yn is-adran (7)(b) yn dangos y math o amodau y caniateir eu pennu yn y rheoliadau hyn, ond nid yw'n rhestr gynhwysfawr ac efallai na fydd yr holl gategorïau hyn yn amodau cofrestru cychwynnol priodol ar gyfer holl gategorïau'r gofrestr.

Adran 28: Amodau cofrestru parhaus cyffredinol

100. Fel y'i nodir yn adran 25(9), rhaid i ddarparwr cofrestredig barhau i fodloni amodau cofrestru parhaus er mwyn cadw ei gofrestriad. Mae amod cofrestru parhaus cyffredinol yn amod a benderfynir gan y Comisiwn, sy'n gymwys i un neu ragor o gategorïau cofrestru.
101. Rhaid i'r Comisiwn gyhoeddi'r amodau cofrestru parhaus cyffredinol, ac unrhyw ddiwygiadau i'r amodau hynny. Cyn penderfynu'r amodau cofrestru parhaus cyffredinol, neu ddiwygio'r amodau hynny, mae dyletswydd ar y Comisiwn, os yw'n ymddangos yn briodol iddo wneud hynny, i ymgynghori â'r personau hynny y mae'n ystyried eu bod yn briodol, er enghraifft y darparwyr cofrestredig hynny a fydd yn ddarostyngedig i'r amodau cofrestru.
102. Caiff y Comisiwn bennu amodau gwahanol ar gyfer categorïau neu ddisgrifiadau gwahanol o ddarparwr cofrestredig (is-adran (2)). O dan is-adran (8), caiff y Comisiwn benderfynu nad yw amod cofrestru parhaus cyffredinol yn gymwys i ddarparwr cofrestredig penodol. Mewn achosion o'r fath, caiff y Comisiwn ddatgymhwyso'r amod mewn perthynas â'r darparwr hwnnw, a rhaid iddo hysbysu'r darparwr am ei benderfyniad (is-adran (9)).

Adran 29: Amodau cofrestru parhaus penodol

103. Mae'r adran hon yn nodi pryd y caiff y Comisiwn osod, amrywio neu ddileu amod cofrestru parhaus sy'n gymwys i ddarparwr cofrestredig penodol, yn hytrach nag i'r holl ddarparwyr cofrestredig neu i gategori o ddarparwyr.
104. Cyn gosod, amrywio neu ddileu amod cofrestru parhaus penodol, rhaid i'r Comisiwn hysbysu corff llywodraethu'r darparwr o dan sylw (is-adran (3)). Rhaid i'r hysbysiad hysbysu'r darparwr am resymau'r Comisiwn dros gynnig yr amod cofrestru parhaus penodol, a hawl y darparwr i gyflwyno sylwadau am y cynnig o fewn cyfnod penodol (is-adran (4)).
105. Rhaid i'r Comisiwn roi sylw i unrhyw sylwadau a gyflwynir gan gorff llywodraethu'r darparwr wrth benderfynu pa un ai i osod, amrywio neu ddileu'r amod cofrestru parhaus penodol (is-adran (6)), a rhaid iddo hysbysu'r darparwr am ei benderfyniad (is-adran (7)).
106. Rhaid i hysbysiad sy'n ymwneud â gosod neu amrywio amod cofrestru parhaus penodol nodi'r seiliau dros y penderfyniad a rhaid i wybodaeth am yr hawl i gael adolygiad ddod gyda'r hysbysiad (is-adran (9)). Ni chaniateir i'r amod cofrestru parhaus penodol newydd gael effaith hyd nes i gyfnod yr adolygiad ddod i ben. Yn ogystal, ni chaniateir i'r amod cofrestru parhaus penodol newydd gael effaith tra bo cais am adolygiad wedi ei wneud, a hyd nes i unrhyw adolygiad a gynhelir ddod i ben. Wedi hynny rhaid i'r Comisiwn benderfynu dyddiad y bydd yr amod cofrestru parhaus penodol yn cymryd effaith, a bryd hynny rhaid cyhoeddi'r hysbysiad.

Adran 30: Amodau cymesur etc.

107. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn sicrhau bod ei amodau cofrestru parhaus, a'r canllawiau a gyhoeddir ynghylch bodloni amodau cofrestru cychwynnol (gweler adran 25), yn gymesur â'i asesiad o unrhyw risgiau a berir. Gall y risgiau hyn gynnwys, er enghraifft, risgiau o ran diogelu cyllid cyhoeddus, buddiannau myfyrwyr, ac unrhyw risgiau eraill sy'n ymwneud â swyddogaethau'r Comisiwn mewn cysylltiad â 'darparwyr addysg drydyddol.
108. Er mwyn i'r amodau a gofynion cofrestru barhau i fod yn gymesur, mae'n ofynnol i'r Comisiwn gadw ei amodau cofrestru parhaus o dan adolygiad.

Adran 31: Amodau cofrestru parhaus mandadol ar gyfer pob darparwr cofrestredig

109. Yn ogystal ag unrhyw amodau cofrestru parhaus cyffredinol a benderfynir gan y Comisiwn o dan adran 28, rhaid i'r Comisiwn sicrhau bod yr holl ddarparwyr sydd wedi eu cofrestru ym mhob categori o'r gofrestr yn ddarostyngedig i'r amodau a restrir yn yr adran hon. Caniateir gosod yr amodau hyn fel rhan o'r amodau cofrestru parhaus cyffredinol neu drwy osod amod cofrestru parhaus penodol.

Adran 32: Amod cofrestru parhaus mandadol ar y terfynau ffioedd

110. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn sicrhau bod pob darparwr sydd wedi ei gofrestru mewn categori a bennir gan Weinidogion Cymru mewn rheoliadau yn ddarostyngedig i amod terfyn ffioedd. Mae amod terfyn ffioedd yn ei gwneud yn ofynnol i'r darparwr feddu ar ddatganiad terfyn ffioedd cymeradwy a sicrhau nad yw ffioedd cwrs rheoleiddiedig yn fwy na'r terfyn ffioedd cymwys. Mae rhagor o wybodaeth am y datganiad terfyn ffioedd wedi ei hamlinellu yn adrannau 46 i 48.

111. "Cwrs cymhwysol" yw cwrs a ddisgrifir mewn rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru, yn ddarostyngedig i'r amodau a nodir yn is-adran (5). Ystyr "ffioedd cwrs rheoleiddiedig" yw ffioedd sy'n daladwy gan berson cymhwysol i ddarparwr er mwyn ymgymryd â chwrs cymhwysol (is-adrannau (6) a (7)). Mae is-adran (8) yn darparu mai ystyr "person cymhwysol" yw person a ddisgrifir mewn rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru nad yw'n fyfyrwr rhyngwladol o fewn ystyr is-adran (9).
112. Mae is-adran (10) hefyd yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n pennu pryd y mae ffioedd a delir am gwrs a ddarperir gan ddarparwr allanol (h.y. ar ran darparwr cofrestredig) i'w trin fel ffioedd cwrs rheoleiddiedig ac felly'n ddarostyngedig i derfyn ffioedd.

Adran 33: Amodau cofrestru parhaus mandadol ar gyfle cyfartal

113. Mae'r Comisiwn o dan ddyletswydd i sicrhau bod amod cofrestru parhaus mandadol sy'n ymwneud â chyfle cyfartal yn cael ei gymhwyso i bob darparwr addysg drydyddol cofrestredig.
114. Mae amodau ar gyfle cyfartal yn ei gwneud yn ofynnol i'r darparwr cofrestredig ddangos ei fod yn cyflawni canlyniadau y gellir eu mesur sy'n hyrwyddo'r nodau a restrir yn is-adran (2). Mae'r nodau hyn yn ymwneud â chynyddu cyfranogiad, gwella cyfraddau cadw myfyrwyr, lleihau bylchau o ran cyrhaeddiad, a gwella canlyniadau cyflogaeth ac astudio pellach ar gyfer myfyrwyr o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol.
115. Diffinnir grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn is-adran (3) fel grwpiau o fyfyrwyr sydd heb gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg drydyddol berthnasol yng Nghymru o ganlyniad i ffactorau cymdeithasol, diwylliannol, economaidd neu sefydliadol. Diffinnir addysg drydyddol berthnasol fel addysg drydyddol o fath sy'n ymwneud â chategori o'r gofrestr y mae'r darparwr wedi ei gofrestru ynddo. Mae hyn yn golygu y bydd darparwyr cofrestredig yn gweithio i gyflawni canlyniadau cyfle cyfartal mewn cysylltiad â'r math o addysg drydyddol sy'n ymwneud â'u categori cofrestru.

Adran 34: Pŵer i ddarparu ar gyfer amodau cofrestru parhaus mandadol pellach

116. Yn ychwanegol at amodau cofrestru parhaus mandadol y darperir ar eu cyfer yn adrannau 31, 32 a 33, caiff Gweinidogion Cymru bennu mewn rheoliadau amodau cofrestru parhaus mandadol pellach y mae rhaid i'r Comisiwn eu cymhwyso i un neu ragor o gategoriâu cofrestru.

Adran 35: Dyletswydd y Comisiwn i roi canllawiau ynghylch amodau cofrestru parhaus

117. Mae adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn gyhoeddi canllawiau ar gyfer darparwyr cofrestredig sy'n ymwneud â'r amodau cofrestru parhaus.

Monitro a gorfodi amodau cofrestru

Adran 36: Dyletswydd y Comisiwn i fonitro cydymffurfedd ag amodau cofrestru parhaus

118. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn fonitro cydymffurfedd pob darparwr cofrestredig â'i amodau cofrestru parhaus.

Adran 37: Cyngor a chynhorthwy mewn cysylltiad â chydymffurfedd ag amodau cofrestru parhaus

119. Caiff y Comisiwn roi cyngor a chynhorthwy i ddarparwyr cofrestredig er mwyn cynorthwyo cydymffurfedd ag amodau cofrestru.

Adran 38: Adolygiadau sy'n berthnasol i gydymffurfedd ag amodau cofrestru parhaus

120. Caiff y Comisiwn, os yw'n barnu bod hynny'n briodol, gynnal adolygiad o faterion sy'n berthnasol i gydymffurfedd darparwr cofrestredig ag amodau cofrestru. Caiff y Comisiwn hefyd drefnu i adolygiad o'r fath gael ei gynnal gan gorff priodol arall; er enghraifft, gan Brif Arolygydd Ei Mawrhydi neu'r corff ansawdd dynodedig (gweler Pennod 2 o'r Rhan hon) ar gyfer materion mewn cysylltiad â'r amod cofrestru parhaus mandadol sy'n ymwneud ag ansawdd.

Adran 39: Cyfarwyddydau mewn cysylltiad â methiant i gydymffurfio ag amodau cofrestru parhaus

121. Pan fo'r Comisiwn wedi ei fodloni bod darparwr wedi methu (neu'n debygol o fethu) â chydymffurfio ag amod cofrestru parhaus, mae'r adran hon yn caniatáu i'r Comisiwn gyfarwyddo'r darparwr i gymryd camau penodol i gydymffurfio â'r amod. Gallai hyn ddilyn camau blaenorol a gymerwyd gan y Comisiwn i sicrhau cydymffurfedd ag amodau cofrestru, megis cyngor a chynhorthwy (adran 37) ac adolygiadau (adran 38).
122. Mewn cysylltiad â methiant i gydymffurfio ag amod terfyn ffioedd, caiff y Comisiwn hefyd gyfarwyddo darparwr i ad-dalu i fyfyrwyr unrhyw arian ffioedd sy'n uwch na'r terfyn ffioedd ("ffioedd uwchlaw'r terfyn"), a sut y mae rhaid iddo wneud hynny (is-adrannau (3), (4) a (5)).
123. Rhaid i unrhyw gyfarwyddydau a ddyroddir i ddarparwyr gan y Comisiwn gael eu cyhoeddi, a rhaid darparu copi i Weinidogion Cymru (is-adran (6)).

Adran 40: Darpariaeth atodol ynghylch cyfarwyddydau o dan adran 39

124. Rhaid i'r Comisiwn gydymffurfio â'r gweithdrefnau a nodir yn adrannau 75 i 78 wrth roi cyfarwyddydau o dan adran 39.
125. Caiff y Comisiwn ddyroddi canllawiau ynghylch sut y dylai darparwyr gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddydau a ddyroddir o dan adran 39, a rhaid iddo yn gyntaf ymgynghori â darparwyr cofrestredig a darparwyr priodol eraill ynghylch cynnwys y canllawiau hyn.

Datgofrestru

Adran 41: Datgofrestru

126. Mae gan y Comisiwn bŵer a dyletswydd i ddileu darparwr o'r gofrestr neu o gategori o'r gofrestr o dan amgylchiadau y darperir ar eu cyfer yn yr adran hon.
127. Os nad yw darparwr cofrestredig yn 'darparwr addysg drydyddol yng Nghymru' mwyach, neu os yw'n peidio â darparu'r math o addysg drydyddol sy'n berthnasol i'w gategori cofrestru (er enghraifft addysg uwch, neu addysg bellach), rhaid i'r Comisiwn ddileu'r darparwr hwnnw, naill ai o'r categori penodol hwnnw o'r gofrestr, neu ei ddileu yn llwyr o'r gofrestr. Mae hyn oherwydd na fyddai'r darparwr yn bodloni'r amodau a nodir yn adran 25 mwyach.
128. Caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau i bennu amgylchiadau eraill pan fo rhaid i'r Comisiwn ddileu darparwyr naill ai o gategori penodol o'r gofrestr neu eu dileu yn llwyr o'r gofrestr.
129. Caiff y Comisiwn ddileu darparwr o'r gofrestr neu o gategori o'r gofrestr os yw'n ymddangos i'r Comisiwn fod y darparwr wedi torri un o'i amodau cofrestru parhaus a:
- bod y Comisiwn yn flaenorol wedi dyroddi cyfarwyddyd i'r darparwr hwnnw mewn perthynas ag unrhyw achos o dorri amod cofrestru parhaus, neu

- bod y Comisiwn yn ystyried y byddai dyroddi cyfarwyddyd o dan adran 39 yn annigonol i ymdrin â'r toriad.

130. O dan is-adrannau (6) a (7), caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n sefydlu trefniadau trosiannol pan fo darparwr i'w ddileu o'r gofrestr neu o gategori o'r gofrestr. Gallai hyn gynnwys trin y darparwr dros dro fel darparwr cofrestredig mewn categori penodol, er enghraifft, er mwyn galluogi myfyrwyr presennol yn y darparwr i barhau i gael cymorth i fyfyrwyr.
131. Rhaid i'r Comisiwn gyhoeddi rhestr o unrhyw ddarparwyr a gaiff eu dileu o'r gofrestr neu o gategori o'r gofrestr, gan gynnwys cyfeiriad at unrhyw reoliadau a wneir o dan is-adran (6).

Adran 42: Datgofrestru: y weithdrefn

132. Mae'r adran hon yn sefydlu'r broses y mae rhaid i'r Comisiwn ei dilyn wrth ddileu darparwr o'r gofrestr neu o gategori o'r gofrestr o dan adran 41.
133. Rhaid i'r Comisiwn hysbysu corff llywodraethu darparwr cofrestredig am ei fwriad i ddatgofrestru'r darparwr, a'i resymau dros wneud hynny. Caniateir cyfnod penodedig i ddarparwyr gyflwyno sylwadau i'r Comisiwn ynghylch y cynnig. Rhaid i'r Comisiwn roi sylw i unrhyw sylwadau a gyflwynir yn ystod y cyfnod penodedig cyn penderfynu pa un ai i ddileu'r darparwr o'r gofrestr neu o gategori o'r gofrestr.
134. Os yw'r Comisiwn yn penderfynu bwrw ymlaen â'r penderfyniad i ddatgofrestru, caiff corff llywodraethu'r darparwr ofyn am adolygiad (gweler adran 45) o'r penderfyniad hwnnw gan yr adolygydd penderfyniadau (gweler adran 79). Rhaid i wybodaeth am yr hawl i gael adolygiad ddod gydag unrhyw hysbysiad o benderfyniad gan y Comisiwn i ddatgofrestru darparwr.
135. Ni chaiff datgofrestriad o dan adran 41 gymryd effaith tra gellid gofyn am adolygiad o'r penderfyniad neu tra bo adolygiad o'r fath yn cael ei gynnal, oni bai bod y darparwr yn hysbysu'r Comisiwn nad yw'n bwriadu gwneud cais am adolygiad.

Adran 43: Datgofrestru'n wirfoddol a datgofrestru gyda chydysyniad

136. Caiff darparwyr cofrestredig wneud cais, ar ffurf a benderfynir gan y Comisiwn, i gael eu dileu o'r gofrestr neu o gategori o'r gofrestr, neu cânt roi cydsyniad i gynnig gan y Comisiwn i ddileu'r darparwr o'r gofrestr neu o gategori o'r gofrestr.
137. Os yw darparwr yn gwneud cais i gael ei ddatgofrestru yn unol ag is-adran (6), mae rhwymedigaeth ar y Comisiwn i dderbyn y cais a rhaid iddo bennu dyddiad ar gyfer dileu'r sefydliad o'r gofrestr neu o gategori o'r gofrestr. Caiff corff llywodraethu'r darparwr wneud cais am adolygiad gan yr adolygydd penderfyniadau o'r penderfyniad ynghylch y dyddiad dileu (gweler adran 45).
138. Pan fo darparwr yn gwneud cais i gael ei ddileu o gategori o'r gofrestr, caiff bennu yn ei gais ei fod, ar yr un pryd, yn gwneud cais am gofrestrriad mewn categori gwahanol. Pan fo cais o'r fath i newid categorïau yn cael ei wneud, effaith is-adrannau (2) i (4) yw nad oes rhwymedigaeth ar y Comisiwn i ddileu'r darparwr o'i gategori presennol oni bai ei fod hefyd yn gallu ei gofrestru yn y categori newydd.

139. Fel yn adran 41, caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n sefydlu trefniadau trosiannol (is-adran (13)). Gallai hyn gynnwys trin y darparwr dros dro fel darparwr cofrestredig, er enghraifft, er mwyn galluogi myfyrwyr presennol yn y darparwr i barhau i gael cymorth i fyfyrwyr.
140. Rhaid i'r Comisiwn gyhoeddi rhestr o unrhyw ddarparwyr a gaiff eu dileu o'r gofrestr neu o gategori o'r gofrestr ac o unrhyw reoliadau a wneir o dan is-adran (13).

Adran 44: Newid categori cofrestru heb gais

141. Pan fo darparwr yn cael ei ddileu o gategori o'r gofrestr o dan adran 41(3) neu 43(5), caiff y Comisiwn gofrestru'r darparwr mewn categori arall o'r gofrestr –
- os yw'r corff llywodraethu yn cydsynio,
 - os yw'n parhau i ddod o fewn y diffiniad o "darparwr addysg drydyddol yng Nghymru" (gweler adran 141(1)),
 - os yw'n darparu'r addysg drydyddol sy'n berthnasol i'r categori cofrestru, neu os darperir yr addysg honno ar ei ran,
 - os yw'n bodloni'r amodau cofrestru cychwynnol perthnasol (gweler adran 27), ac
 - os nad yw cofrestru wedi ei wahardd o dan adran 25(5).

Adolygiadau o benderfyniadau cofrestru

Adran 45: Adolygiadau o benderfyniadau cofrestru

142. Pryd bynnag y mae'r Comisiwn yn hysbysu darparwr am benderfyniad i:
- gwrthod cofrestru mewn categori o dan adran 25;
 - gosod neu amrywio amod cofrestru penodol o dan adran 29;
 - dileu darparwr o gategori o'r gofrestr o dan adran 41; neu
 - penderfynu'r dyddiad y bydd unrhyw ddatgofrestru yn cymryd effaith o dan adran 43(7) neu (8);
- caiff y darparwr o dan sylw ofyn am adolygiad o'r penderfyniad hwnnw.
143. Cynhelir adolygiadau o benderfyniadau gan y person neu'r panel a benodir gan Weinidogion Cymru o dan adran 79 ac yn unol â'r broses adolygu a sefydlir gan yr adran honno.

Datganiadau terfyn ffioedd

Adran 46: Gofynion ar gyfer datganiad terfyn ffioedd

144. Mae'r adran hon yn nodi beth yw datganiad terfyn ffioedd a'r hyn y mae rhaid iddo ei gynnwys. Pan fo darparwr cofrestredig yn ddarostyngedig i amod terfyn ffioedd o dan adran 32, rhaid i derfyn ffioedd y darparwr bennu'r terfyn ffioedd, neu ddarparu ar gyfer penderfynu'r terfyn ffioedd, mewn perthynas â phob cwrs cymhwysol. Ni chaniateir i'r terfyn ffioedd hwn fynd uwchlaw'r "uchafswm".
145. Yr "uchafswm" yw'r swm a bennir gan Weinidogion Cymru na chaiff terfyn ffioedd ar gyfer cwrs cymhwysol fynd uwch ei law mewn unrhyw flwyddyn academaidd.
146. Caiff terfynau ffioedd ar gyfer cyrsiau gwahanol amrywio, a chânt hefyd amrywio o un flwyddyn i'r llall. Pan fo proses neu fformiwla ar gyfer penderfynu terfyn ffioedd, rhaid pennu hyn yn y datganiad terfyn ffioedd.
147. Mae datganiad terfyn ffioedd yn cael effaith o'r dyddiad a bennir yn y datganiad terfyn ffioedd.

Adran 47: Cymeradwyo datganiad terfyn ffioedd

148. Pan fo corff llywodraethu darparwr yn gwneud cais i'r Comisiwn iddo gymeradwyo datganiad terfyn ffioedd, caiff y Comisiwn gymeradwyo neu wrthod y cynllun a rhaid iddo roi hysbysiad o'r penderfyniad hwnnw. Mae hyn yn gymwys hefyd pan fo darparwr yn gwneud cais i'r datganiad terfyn ffioedd gael ei amrywio neu i gael datganiad terfyn ffioedd arall yn ei le.
149. Pan fo'r Comisiwn yn gwrthod datganiad terfyn ffioedd arfaethedig, neu amrywiad i ddatganiad terfyn ffioedd neu gael datganiad terfyn ffioedd arall yn ei le, rhaid iddo ddilyn y gweithdrefnau a amlinellir yn adrannau 75 i 78.

Adran 48: Cyhoeddi datganiad terfyn ffioedd cymeradwy

150. Rhaid i ddarparwr sydd â datganiad terfyn ffioedd cymeradwy gyhoeddi'r datganiad hwnnw, ac unrhyw amrywiadau cymeradwy neu ddatganiadau eraill cymeradwy yn eu lle. Dylai datganiadau terfyn ffioedd sydd wedi eu cyhoeddi fod ar gael yn hawdd i fyfyrwyr a darpar fyfyrwyr.

Adran 49: Dilysrwydd contractau

151. Mae'r adran hon yn gymwys pan fo contract rhwng darparwr a pherson cymhwysol mewn cysylltiad â'r person hwnnw yn ymgymryd â chwrs cymhwysol yn darparu ar gyfer talu ffioedd gan y person sydd uwchlaw'r terfyn ffioedd cymwys.
152. Mae i "person cymhwysol" a "chwrs cymhwysol" yr ystyr a roddir i'r termau hynny yn adran 32.
153. Mae is-adran (2) yn darparu bod contract o'r fath i'w drin fel pe bai'n darparu ar gyfer talu ffioedd sy'n cyfateb i'r terfyn ffioedd cymwys. Felly pan fo myfyriwr yn gwrthod talu unrhyw ffioedd uwchlaw'r terfyn a bennir mewn contract, ni fydd y darparwr yn gallu adennill y ffioedd uwchlaw'r terfyn. Ond bydd y contract yn parhau i fod yn orfodadwy fel arall yn nhermau dyletswydd y darparwr i ddarparu addysg i'r myfyriwr, er gwaethaf bod y contract yn darparu ar gyfer talu ffioedd sydd uwchlaw'r terfyn ffioedd cymwys (is-adran (3)).

Pennod 2: Sicrhau Ansawdd a Gwella Ansawdd

Swyddogaethau sicrhau ansawdd cyffredinol

Adran 50: Fframweithiau sicrhau ansawdd

154. Mae is-adran (1) yn rhoi pŵer i'r Comisiwn i lunio a chyhoeddi fframwaith neu fframweithiau sicrhau ansawdd. Dogfen yw fframwaith sicrhau ansawdd sy'n nodi gwybodaeth a chanllawiau ar bolisiau ac arferion sy'n ymwneud â'r meini prawf a'r trefniadau ar gyfer asesu neu arolygu ansawdd addysg drydyddol a hyfforddiant. Caiff amlinellu rolau a chyfrifoldebau Estyn a'r corff asesu ansawdd dynodedig wrth gynnal gwaith sicrhau ansawdd, yn ogystal â rolau a chyfrifoldebau darparwyr addysg drydyddol ac eraill ynghylch ansawdd addysg drydyddol, ac ystyried barn myfyrwyr ynghylch ansawdd yr addysg drydyddol a gânt.
155. Caiff y fframweithiau hefyd nodi canllawiau a gwybodaeth ynghylch datblygiad profesiynol y gweithlu addysg drydyddol a darparu gwybodaeth a chanllawiau ar unrhyw faterion perthnasol eraill sy'n ymwneud â sicrhau ansawdd.
156. Mae'n ofynnol i'r Comisiwn ymgynghori â darparwyr addysg drydyddol cofrestredig, Estyn ac unrhyw randdeiliaid eraill y mae'r Comisiwn yn ystyried eu bod yn addas cyn cyhoeddi dogfen fframwaith sicrhau ansawdd, ei diwygio neu ei thynnu'n ôl (is-adran (4)).

157. Bydd yn ofynnol i Estyn, y corff sicrhau ansawdd dynodedig a'r Comisiwn ystyried y fframwaith sicrhau ansawdd yn eu gwaith (is-adrannau (5) a (6)).

Adran 51: Dyletswydd i fonitro ansawdd addysg drydyddol reoleiddiedig ac i hybu gwelliant yn ansawdd yr addysg honno

158. Mae'r adran hon yn gosod dyletswydd ar y Comisiwn i fonitro a hybu gwelliant yn ansawdd addysg a hyfforddiant a ddarperir gan ddarparwyr addysg drydyddol sy'n gofrestredig ac a gyllidir gan y Comisiwn.

Adran 52: Cyngor a chynhorthwy mewn cysylltiad ag ansawdd addysg drydyddol

159. Mae'r adran hon yn rhoi i'r Comisiwn y pŵer i ddyroddi cyngor a chanllawiau i unrhyw ddarparwr a gyllidir neu unrhyw ddarparwr cofrestredig i gynorthwyo gwella ansawdd yr addysg, y cwrs neu'r hyfforddiant a ddarperir. Yn benodol, caiff y Comisiwn roi cyngor a chanllawiau i ddarparwyr addysg drydyddol i wella ansawdd yr addysg a ddarperir, neu i atal ansawdd yr addysg, y cwrs neu'r hyfforddiant rhag dod yn annigonol. Dyna fyddai'n digwydd pan na fo ansawdd yr addysg, y cwrs neu'r hyfforddiant yn diwallu anghenion rhesymol y dysgwyr.

Adran 53: Adolygiadau sy'n berthnasol i ansawdd addysg drydyddol

160. Mae'r adran hon yn rhoi i'r Comisiwn y pŵer i gynnal adolygiad o unrhyw fater sy'n berthnasol i ansawdd addysg drydyddol a hyfforddiant. Caiff y Comisiwn drefnu i'r adolygiadau hyn gael eu cynnal ar ei ran.

Asesu ansawdd mewn addysg uwch

Adran 54: Asesu ansawdd addysg uwch

161. Mae is-adran (1) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn asesu, neu wneud trefniadau i asesu, ansawdd addysg uwch a ddarperir gan bob darparwr addysg drydyddol cofrestredig a chan y darparwyr hynny sy'n cynnig darpariaeth addysg uwch ar ran darparwyr sydd wedi eu cofrestru â'r Comisiwn. Mae'r ddyletswydd yn gymwys i asesu addysg uwch sy'n ymwneud â chategori cofrestru'r darparwr (is-adran (2)). Yn ogystal, mae is-adran (3) yn rhoi i'r Comisiwn y pŵer i asesu, neu wneud trefniadau i asesu, ansawdd addysg uwch a ddarperir gan unrhyw ddarparwr addysg drydyddol.
162. Rhaid i'r Comisiwn gyhoeddi'r adroddiadau ar yr asesiadau hyn (is-adran (4)).
163. Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau ei gwneud yn ofynnol i asesiadau gael eu cynnal fesul ysbaid benodedig, ac i'r adroddiadau ar yr asesiadau hyn gael eu cyhoeddi o fewn cyfnod penodedig (is-adran (5)). Rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Comisiwn cyn gwneud rheoliadau o'r fath (is-adran (6)).
164. Yn y Rhan hon o'r Bil, mae cyfeiriadau at ddarparwr allanol yn ymwneud â'r darparwyr hynny sy'n gyfrifol am ddarparu cwrs addysg uwch cyfan, neu ran o gwrs o'r fath, ar ran darparwyr cofrestredig, ond nad ydynt eu hunain yn ddarparwyr cofrestredig (is-adran (7)). Caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau ynghylch pwy y dylid ei drin fel darparwr allanol (is-adran (8)).

Adran 55: Cynlluniau gweithredu yn dilyn asesiadau o dan adran 54

165. Yn dilyn asesiad ansawdd a chyhoeddi adroddiad arno, rhaid i'r darparwr cofrestredig sy'n darparu'r addysg uwch, neu'r darparwr cofrestredig y darperir yr addysg uwch ar ei ran—

- llunio datganiad ysgrifenedig ynghylch y camau gweithredu y mae'n bwriadu eu cymryd i ymateb i'r adroddiad, a'r amserlenni ar gyfer mynd i'r afael â'r camau gweithredu arfaethedig hynny, ac
- anfon y datganiad ar y cynllun gweithredu i'r Comisiwn ac i'r corff dynodedig (os cynhaliwyd yr asesiad gan y corff dynodedig) (is-adran (2)).

166. Rhaid i'r darparwr hefyd gyhoeddi'r datganiad ar y cynllun gweithredu (is-adran (3)).
167. Mae cydymffurfedd â'r gofynion yn yr adran hon i lunio a chyhoeddi'r datganiad ar y cynllun gweithredu i'w drin fel amod cofrestru parhaus ar gyfer darparwr cofrestredig at ddiben pwerau gorfodi'r Comisiwn yn adran 39 (cyfarwyddydau) ac adran 41 (datgofrestru).

Adran 56: Arfer swyddogaethau asesu addysg uwch gan gorff dynodedig ac Atodlen 3: Asesu addysg uwch: corff dynodedig

168. Mae Atodlen 3, a gyflwynir gan is-adran (1), yn nodi manylion pellach ynghylch:
- dynodi corff i gyflawni'r swyddogaethau asesu o dan adran 54 ar ran y Comisiwn,
 - goruchwyllo'r corff gan y Comisiwn, a
 - darpariaeth i'r corff godi ffioedd.
169. Ni fydd yn ddisgwyliedig i'r Comisiwn fel arfer gyflawni'r swyddogaethau asesu os yw wedi dynodi corff i gynnal yr asesiadau hyn ar ei ran, ond bydd yn cadw'r pŵer i wneud hynny (is-adran (3)).

Rhan 1 o Atodlen 3: Dynodiad

170. Mae paragraff 1 yn darparu i'r Comisiwn ddynodi corff i gyflawni'r swyddogaethau asesu ansawdd addysg uwch o dan adran 56(2) ar ran y Comisiwn.
171. Ni chaiff y Comisiwn ddynodi'r corff ond os yw'n ystyried bod y corff yn addas i arfer y swyddogaethau asesu, a thrwy ei ddynodi felly, i sicrhau bod ansawdd addysg uwch yn cael ei asesu'n effeithiol.
172. Rhaid i'r Comisiwn gael cydsyniad Gweinidogion Cymru er mwyn dynodi corff, a rhaid iddo ymgynghori â darparwyr cofrestredig sy'n darparu addysg uwch, yn ogystal ag unrhyw bersonau priodol eraill.
173. Rhaid i benderfyniad i ddynodi gyd-fynd â hysbysiad cyhoeddedig sy'n datgan enw'r corff sydd wedi ei ddynodi a'r dyddiad y daw'r dynodiad yn effeithiol.
174. Os yw Gweinidogion Cymru yn gwrthod rhoi eu cydsyniad i ddynodi'r corff a argymhellir, yna rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi'r rhesymau dros y penderfyniad hwn.
175. Mae paragraff 2 yn amlinellu'r meini prawf y mae rhaid i gorff eu bodloni er mwyn cael ei ystyried yn addas i arfer y swyddogaethau asesu, sef:
- bod y corff yn gallu arfer y swyddogaethau asesu yn effeithiol;
 - bod goruchwyliaeth lywodraethu neu strategol y corff wedi ei phenderfynu gan bobl sy'n cynrychioli ystod eang o ddarparwyr addysg uwch cofrestredig;
 - bod ffydd gyffredinol yn y corff gan ystod eang o ddarparwyr addysg uwch cofrestredig;
 - bod y corff yn annibynnol ar unrhyw ddarparwr addysg uwch penodol; ac
 - bod y corff yn cydsynio i gael ei ddynodi.

176. Mae paragraff 3 yn caniatáu i'r Comisiwn ddileu dynodiad. Er mwyn dileu dynodiad, rhaid i'r Comisiwn ddyroddi hysbysiad sy'n pennu'r dyddiad y bydd y dynodiad yn dod i ben a'r rhesymau dros dynnu'r dynodiad yn ôl.
177. Caniateir i ddynodiad gael ei ddileu os yw'r Comisiwn yn ystyried y byddai gwneud hynny yn sicrhau bod ansawdd addysg uwch yng Nghymru yn cael ei asesu'n effeithiol, neu os yw'r corff dynodedig yn cydsynio neu'n gofyn i'w ddynodiad gael ei ddileu.
178. Oni bai bod y corff dynodedig yn cydsynio i'r dynodiad gael ei ddileu, rhaid cael cydsyniad Gweinidogion Cymru i ddileu'r dynodiad a rhaid ymgynghori â darparwyr addysg uwch cofrestredig, a phersonau priodol eraill cyn ei ddileu.

Rhan 2 o Atodlen 3: Goruchwyliaeth gan y Comisiwn

179. O ran y Comisiwn –
- caiff wneud taliadau i'r corff dynodedig er mwyn ei alluogi i gyflawni ei swyddogaethau asesu (paragraff 5), a
 - rhaid iddo wneud trefniadau er mwyn dwyn y corff i gyfrif (paragraff 6).
180. Mae paragraff 7 yn ei gwneud yn ofynnol i'r corff dynodedig lunio adroddiad blynyddol ar gyflawni ei swyddogaethau asesu a'i anfon i'r Comisiwn.
181. Mae paragraff 8 yn darparu i'r Comisiwn roi cyfarwyddydau i'r corff dynodedig ynghylch cyflawni'r swyddogaethau asesu. Rhaid i'r corff dynodedig gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddydau gan y Comisiwn. Caniateir i hyn gael ei wneud, er enghraifft, i sicrhau bod agweddau penodol ar fframwaith sicrhau ansawdd y Comisiwn (gweler adran 50) yn cael sylw dyledus mewn cysylltiad ag asesiadau addysg uwch, neu pan fo gan y Comisiwn bryderon mwy cyffredinol ynghylch y ffordd y mae'r corff dynodedig yn cyflawni ei swyddogaethau asesu.
182. Wrth roi cyfarwyddyd i'r corff dynodedig rhaid i'r Comisiwn er hynny roi sylw i arbenigedd y corff dynodedig ei hun a'i allu i sicrhau asesiad effeithiol a diduedd o ansawdd mewn addysg uwch.
183. Ni chaiff cyfarwyddyd a roddir gan y Comisiwn ond ymwneud â darparwyr addysg uwch cofrestredig yng Nghymru, neu is-grŵp o'r darparwyr hyn.
184. Mae paragraff 9 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn roi gwybod i Weinidogion Cymru os oes ganddo bryderon ynghylch sut y mae'r corff dynodedig yn cyflawni ei swyddogaethau statudol a'i addasrwydd i gyflawni'r swyddogaethau hynny.

Rhan 3 o Atodlen 3: Pŵer i godi ffioedd

185. Mae paragraff 10 yn caniatáu i'r corff dynodedig godi ffioedd ar ddarparwyr addysg uwch cofrestredig mewn cysylltiad â'r costau y bydd yn mynd iddynt wrth gyflawni ei swyddogaethau asesu. Wrth wneud hynny, rhaid iddo gyhoeddi cynllun sy'n nodi'r ffioedd y bydd yn eu codi a'r sail y cyfrifir y rhain arni, a rhaid i'r cynllun gael ei gymeradwyo gan y Comisiwn. Gall y cynllun gael ei ddiwygio a'i ailgymeradwyo gan y Comisiwn.

186. Mae paragraffau 10(3) i (5) yn caniatáu i'r ffioedd a delir gan ddarparwyr dalu costau cyffredinol y mae'r corff dynodedig yn mynd iddynt wrth gyflawni ei asesiadau ar draws yr holl ddarparwyr addysg uwch cofrestredig, ond yn atal cyfanswm y ffioedd a delir gan yr holl ddarparwyr rhag bod yn fwy na chyfanswm y costau y mae'r corff dynodedig yn mynd iddynt pan fydd unrhyw gyllid a ddarperir gan y Comisiwn o dan baragraff 5 wedi cael ei ystyried.

Rhan 4 o Atodlen 3: Dehongli

187. Mae paragraff 11 yn diffinio termau penodol a ddefnyddir yn yr Atodlen hon.

Arolygu addysg bellach neu hyfforddiant etc.

Adran 57: Dyletswydd y Prif Arolygydd i arolygu ac adrodd

188. Mae is-adran (1) yn nodi gwahanol fathau o addysg a hyfforddiant y mae rhaid i Brif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru eu harolygu..
189. Mae'r Prif Arolygydd, yr arolygwyr eraill a benodir gan Ei Mawrhydi i ffurfio rhan o'r arolygaeth gyda'r Prif Arolygydd, staff y Prif Arolygydd ac arolygwyr ychwanegol a benodir gan y Prif Arolygydd yn ffurfio corff o'r enw 'Estyn'.
190. Nid yw Estyn yn gorff corfforedig â phersonoliaeth gyfreithiol sef y rheswm pam y rhoddir swyddogaethau statudol i swydd y Prif Arolygydd. Er bod y Bil yn rhoi'r swyddogaethau i'r Prif Arolygydd, caniateir i arolygwyr eraill a staff yn Estyn arfer y swyddogaethau yn ymarferol yn rhinwedd darpariaeth ym mharagraff 5 o Atodlen 2 i Ddeddf Addysg 2005 sef y rheswm pam y mae'r nodiadau hyn yn cyfeirio at 'Estyn'.
191. Rhaid i Estyn arolygu:
- addysg bellach neu hyfforddiant a gyllidir neu a sicrheir gan y Comisiwn (byddai hyn yn cynnwys addysg bellach mewn colegau a hyfforddiant prentisiaeth);
 - addysg bellach neu hyfforddiant a gyllidir neu a sicrheir gan Weinidogion Cymru;
 - addysg bellach neu hyfforddiant a gyllidir gan awdurdod lleol yng Nghymru (byddai hyn yn cynnwys darpariaeth chweched dosbarth mewn ysgolion a gynhelir a darpariaeth partneriaethau dysgu oedolion cymunedol);
 - addysg bellach neu hyfforddiant pan fo'r Comisiwn neu awdurdod lleol yng Nghymru yn ystyried rhoi cyllid i ddarparwr yr addysg bellach neu'r hyfforddiant;
 - addysg neu hyfforddiant ar gyfer dysgwyr o'r oedran ysgol gorfodol mewn darparwr addysg bellach neu addysg uwch yng Nghymru;
 - unrhyw addysg neu hyfforddiant a ddarperir yng Nghymru a bennir gan Weinidogion Cymru mewn rheoliadau.
192. Nid yw arolygiadau o dan is-adran (1) yn gymwys i unrhyw arolygiadau a gynhelir mewn ysgolion o dan Ran 1 o Ddeddf Addysg 2005, nac i gyllid addysg bellach neu hyfforddiant a roddir at ddiben penodol pan na fo cyfarwyddyd wedi ei roi o ran cymorth (is-adran (2)).
193. Rhaid i Estyn gyhoeddi adroddiad ar bob arolygiad sy'n cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, ei farn ynghylch:
- ansawdd yr addysg neu'r hyfforddiant a arolygir;
 - y safonau a gyrhaeddir gan y dysgwyr sy'n cael yr addysg honno a'r hyfforddiant hwnnw;
 - a yw'r adnoddau ariannol a roddir i'r darparwr yn cael eu rheoli'n effeithlon ac yn cael eu defnyddio mewn ffordd sy'n darparu gwerth am arian (is-adran (3)).

194. Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, ei gwneud yn ofynnol i arolygiadau gael eu cynnal fesul ysbaid benodedig a'i gwneud yn ofynnol i adroddiadau gael eu cwblhau o fewn cyfnod penodedig (is-adran (4)). Cyn gwneud y rheoliadau hynny, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Comisiwn ac Estyn (is-adran (5)).

Adran 58: Pŵer y Prif Arolygydd i arolygu ac adrodd

195. Mae is-adran (1) yn rhoi i Estyn y pŵer i arolygu unrhyw addysg a hyfforddiant a ddisgrifir yn adran 57(1) ac adrodd arnynt. Os yw Estyn yn cynnal arolygiad o'r fath, rhaid iddo gyhoeddi adroddiad arno (yn rhinwedd cymhwyso adran 57(3) gan is-adran (4) o'r adran hon).
196. Mae gan Estyn hefyd y pŵer i arolygu unrhyw addysg neu hyfforddiant nas disgrifir yn 57(1) ac adrodd arni neu arno, ond byddai'r ddarpariaeth honno felly pe bai wedi ei chyllido gan y Comisiwn neu Weinidogion Cymru, os yw'r darparwr yn gofyn i Estyn wneud hynny (is-adran (2)). Yn yr ail achos, caiff Estyn godi tâl ar y darparwr am gost yr arolygiad, a chaiff gyhoeddi'r adroddiad arno (is-adran (3)).

Adran 59: Dyletswydd i ddarparu gwybodaeth a chyngor i'r Comisiwn

197. Rhaid i Estyn sicrhau bod y Comisiwn yn cael gwybod yn rheolaidd am arolygiadau a gynhelir, ac adroddiadau a lunnir, o dan adran 57(1) mewn perthynas â darpariaeth a gyllidir neu a sicrheir gan y Comisiwn (is-adrannau (1) a (2)). Pan fydd y Comisiwn yn gofyn iddo wneud hynny, rhaid i Estyn roi cyngor i'r Comisiwn ar faterion sy'n ymwneud ag addysg neu hyfforddiant o dan adran 57, arolygu'r ddarpariaeth honno, ac adrodd ar ganlyniadau arolygiadau a gynhelir o dan yr adran hon (is-adrannau (1) a (3)).

Adran 60: Dyletswydd i ddarparu gwybodaeth a chyngor i Weinidogion Cymru

198. Rhaid i Estyn sicrhau bod Gweinidogion Cymru yn cael gwybod yn rheolaidd am arolygiadau a gyflawnir, ac adroddiadau a lunnir, o dan adran 57(1) mewn perthynas â darpariaeth nas cyllidir neu nas sicrheir fel arall gan y Comisiwn (is-adrannau (1) a (2)). Pan fydd Gweinidogion Cymru yn gofyn iddo wneud hynny, rhaid i Estyn roi cyngor i Weinidogion Cymru ar faterion sy'n ymwneud ag addysg neu hyfforddiant o dan adran 57, arolygu'r ddarpariaeth honno, ac adrodd ar ganlyniadau arolygiadau a gynhelir o dan yr adran hon (is-adrannau (1) a (2)).

Adran 61: Swyddogaethau ychwanegol y Prif Arolygydd

199. Drwy reoliadau, caiff Gweinidogion Cymru roi swyddogaethau ychwanegol i Estyn mewn perthynas â'r addysg neu'r hyfforddiant a ddisgrifir yn adran 57(1) (is-adran (1)). Caiff y rhain gynnwys, ymhlith pethau eraill, swyddogaethau arolygu sy'n ymwneud â hyfforddiant ar gyfer athrawon, darlithwyr, hyfforddwyr neu eraill sy'n darparu'r addysg honno neu'r hyfforddiant hwnnw (is-adran (2)).

Adran 62: Cynlluniau gweithredu yn dilyn arolygiadau gan y Prif Arolygydd

200. Yn dilyn cyhoeddi adroddiad ar arolygiad, rhaid i'r darparwr lunio datganiad ysgrifenedig o'r camau gweithredu y mae'n bwriadu eu cymryd i ymateb i'r adroddiad, a'r amserlenni ar gyfer mynd i'r afael â'r camau gweithredu arfaethedig hynny (is-adran (3)). Rhaid i'r darparwr gyhoeddi'r datganiad ar y cynllun gweithredu (is-adran (4)). Nid yw'r adran hon yn gymwys i'r arolygiadau hynny a gynhelir o ganlyniad i gais o dan adran 58(2) neu arolygiad ardal o dan adran 63 (is-adran (2)).
201. Mae cydymffurfedd â'r ddyletswydd i lunio datganiad ar y cynllun gweithredu yn un o ofynion y telerau ac amodau cyllido gan y Comisiwn neu Weinidogion Cymru o dan y Bil hwn (is-adrannau (7) ac (8)).

202. Mae cydymffurfedd â'r ddyletswydd i lunio a chyhoeddi datganiad ar y cynllun gweithredu i'w drin fel amod cofrestru parhaus ar gyfer darparwyr cofrestredig sy'n darparu'r addysg honno neu'r hyfforddiant hwnnw a ddisgrifir yn adran 57(1) at ddiben adran 39 (cyfarwyddydau) ac adran 41 (datgofrestru).

Adran 63: Arolygiadau ardal

203. Rhaid i Estyn gynnal arolygiad ardal os gofynnir iddo wneud hynny gan y Comisiwn neu Weinidogion Cymru a chyhoeddi adroddiad ar bob arolygiad ardal (is-adran (2)). Caiff Estyn hefyd gynnal arolygiad o'r fath heb gael ei ofyn i wneud hynny (is-adran (1)).
204. Mae arolygiad ardal yn arolygiad o'r canlynol:
- ansawdd ac argaeledd agwedd ar addysg neu hyfforddiant mewn ardal benodedig o Gymru i ddysgwyr sy'n 15 oed neu'n hŷn;
 - y safonau a gyrhaeddir gan y dysgwyr sy'n cael yr addysg honno neu'r hyfforddiant hwnnw;
 - a yw'r adnoddau ariannol sy'n cael eu rhoi ar gael i'r rheini sy'n darparu'r addysg honno neu'r hyfforddiant hwnnw yn cael eu rheoli'n effeithlon ac yn cael eu defnyddio mewn ffordd sy'n darparu gwerth am arian.
205. Yr agwedd ar addysg neu hyfforddiant sydd i'w harolygu drwy arolygiad ardal yw unrhyw addysg neu hyfforddiant a ddisgrifir yn adran 57 neu sydd o fewn cylch gwaith Estyn fel y darperir ar ei gyfer mewn unrhyw ddeddfwriaeth sylfaenol neu is-ddeddfwriaeth arall (is-adran (3)).
206. Ni chaiff y pŵer i'w gwneud yn ofynnol i Estyn gynnal arolygiad ardal ond gael ei ddefnyddio gan y Comisiwn mewn perthynas ag unrhyw addysg neu hyfforddiant a gyllidir neu a sicrheir ganddo (is-adran (4)(a)). Caiff Gweinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i Estyn gynnal arolygiad ardal mewn perthynas ag unrhyw ddarpariaeth arall sy'n bodloni'r diffiniadau a nodir yn yr adran hon (is-adran (4)(b)).
207. Caiff ffocws arolygiad ardal hefyd ymestyn i gynnwys y modd y mae adnoddau ariannol wedi eu dyrannu i'r addysg neu'r hyfforddiant a arolygir gan Estyn, ac a yw hyn yn darparu gwerth am arian, os rhoddwyd y cyllid gan y Comisiwn neu awdurdod lleol yng Nghymru (is-adran (5)).
208. Rhaid i wybodaeth sy'n ymwneud â'r arolygiad ardal gael ei darparu i Estyn gan unrhyw ddarparwr addysg neu hyfforddiant sy'n destun yr arolygiad ardal, unrhyw awdurdod lleol yng Nghymru sydd yn yr ardal sy'n destun yr arolygiad ardal, y Comisiwn, a Gweinidogion Cymru (is-adran (7)).
209. Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud darpariaeth bellach o ran y gofyniad i ddarparu gwybodaeth a'r terfynau amser erbyn pryd y mae rhaid cyhoeddi'r adroddiadau ar arolygiadau ardal (is-adran (9)).

Adran 64: Hawl mynediad a throeddau

210. Wrth gynnal arolygiadau o dan Bennod 2 o'r Bil, mae gan Estyn hawl mynediad ar bob adeg resymol i fangre y darperir yr addysg sy'n cael ei harolygu neu'r hyfforddiant sy'n cael ei arolygu ynddi; a hawl mynediad i fangre darparwr addysg a hyfforddiant sy'n cael ei defnyddio mewn cysylltiad â'r ddarpariaeth (is-adrannau (1)(a) a (b)).

211. Mae gan Estyn yr hawl hefyd i edrych ar unrhyw gofnodion a dogfennau sy'n cynnwys gwybodaeth sy'n ymwneud ag addysg neu hyfforddiant, y mae'r arolygydd eu hangen at ddibenion yr arolygiad, ac i gymryd copïau o unrhyw gofnodion a dogfennau o'r fath (is-adran (1)(c)).
212. Ni chaniateir defnyddio hawl Estyn i gael mynediad i fangre ar gyfer addysg neu hyfforddiant a ddarperir gan gyflogwr yn y gweithle ond os yw'r cyflogwr wedi cael rhybudd rhesymol yn ysgrifenedig (is-adran (2)). Nid yw'r pwerau o dan yr adran hon yn cynnwys yr hawl i fynd i fangre sy'n annedd heb gydsyniad y meddiannydd (is-adran (7)). Hefyd, mae "mangre" yn cynnwys mangre yn Lloegr yn ogystal â mangre yng Nghymru (is-adran (8)).
213. Mae'r hawl i arolygu a chymryd copïau yn cynnwys cael mynediad i gyfrifiaduron ac unrhyw ddyfais arall a ddefnyddir i gyrchu cofnodion neu ddogfennau, a chael cynhorthwy fel y bo'n rhesymol ofynnol gan y sawl sy'n defnyddio'r cyfarpar neu a chanddo ofal dros y cyfarpar (is-adran (3)).
214. Mae'n drosedd rhwystro Estyn yn fwriadol wrth iddo gynnal arolygiadau, ac mae unrhyw un a ddyfernir yn euog o'r drosedd hon yn agored i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 4 ar y raddfa safonol (is-adranau (4) a (5)).

Adran 65: Arolygon ac astudiaethau

215. Caiff y Comisiwn gyfarwyddo Estyn i gynnal arolwg sy'n ymwneud â pholisi o ran addysg bellach neu hyfforddiant yng Nghymru neu ar gyfer ardal benodedig o Gymru (is-adran (1)(a)). Caiff y Comisiwn hefyd gyfarwyddo Estyn i gynnal astudiaeth gymharol o addysg neu hyfforddiant y tu allan i Gymru (is-adran (1)(b)). Caiff Estyn hefyd gynnal yr arolygon neu'r astudiaethau hynny ei hun, heb gael ei gyfarwyddo i wneud hynny (is-adran (2)).

Adran 66: Adroddiadau blynyddol

216. Mae adran 21(1)(a) o Ddeddf Addysg 2005 yn ei gwneud yn ofynnol i Estyn lunio adroddiad blynyddol. Mae is-adran (1) yn ei gwneud yn ofynnol i'r adroddiad blynyddol gynnwys manylion gwaith Estyn wrth iddo arfer ei swyddogaethau o dan Bennod 2.
217. Mae adran 21 o Ddeddf Addysg 2005 hefyd yn cynnwys pŵer i Estyn lunio adroddiadau eraill. Mae is-adran (2) yn darparu i'r y pŵer hwnnw gynnwys pŵer i wneud adroddiadau mewn cysylltiad â materion sy'n ymwneud â'r addysg neu hyfforddiant a ddisgrifir yn adran 57(1) o'r Bil.

Adran 67: Cynllun blynyddol y Prif Arolygydd

218. Rhaid i Estyn lunio cynllun blynyddol ar gyfer pob blwyddyn ariannol sy'n nodi amcangyfrifon o'r incwm a'r gwariant sy'n angenrheidiol iddo gyflawni ei waith yn effeithiol (is-adran (1)). Rhaid i'r cynllun gynnwys cynigion ar gyfer rheoli cyllid a ddarperir i Estyn gan y Comisiwn (o dan adran 68) a chan Weinidogion Cymru (o dan adran 104(4) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998) (is-adran (2)).
219. Rhaid i Estyn gyflwyno'r cynllun i'r Comisiwn a Gweinidogion Cymru ar gyfer ymgynghori a chymeradwyo, erbyn y dyddiad hwnnw cyn dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'r Comisiwn a Gweinidogion Cymru yn ei gyfarwyddo ar y cyd (is-adran (3)). Caiff Estyn gyhoeddi'r cynllun ar ôl iddo gael ei gymeradwyo gan y Comisiwn a Gweinidogion Cymru (is-adran (4)).

Adran 68: Cyllido arolygiadau ac adroddiadau ar addysg bellach a hyfforddiant etc.

220. Rhaid i'r Comisiwn ddarparu'r cyllid hwnnw i Estyn y mae'r Comisiwn yn ystyried ei fod yn briodol er mwyn i Estyn allu cyflawni ei waith mewn perthynas â'r addysg neu hyfforddiant a gyllidir gan y Comisiwn (is-adran (1)).
221. Wrth benderfynu faint o gyllid sy'n briodol i Estyn, rhaid i'r Comisiwn roi sylw i faint y mae'r Comisiwn yn ystyried y mae angen i Estyn ei wario i arfer ei swyddogaethau (is-adran (2)). Rhaid i'r Comisiwn ymgynghori ag Estyn cyn dechrau pob blwyddyn ariannol mewn perthynas â'r cyllid y mae'n mynd i'w ddarparu ar gyfer y flwyddyn honno (is-adran (3)).
222. Rhaid i'r Comisiwn gymeradwyo'r rhannau o gynllun blynyddol Estyn sy'n ymwneud â gwaith Estyn mewn cysylltiad ag addysg neu hyfforddiant a gyllidir gan y Comisiwn a phenderfynu faint o gyllid y bydd yn ei ddarparu yn unol â'r gweithgareddau a amlinellir yn y cynllun blynyddol (is-adran (4)). Caiff y Comisiwn ofyn i Estyn addasu'r cynllun blynyddol cyn iddo gael ei gymeradwyo (is-adran (5)).
223. Mae adran 104 o Deddf Llywodraeth Cymru 1998 wedi ei diwygio i ddarparu nad yw Gweinidogion Cymru yn gyfrifol am ddarparu cyllid i Estyn ar gyfer addysg neu hyfforddiant a gyllidir neu a sicrheir gan y Comisiwn (is-adran (6)(a)). Mae adran 104 o'r Ddeddf honno wedi ei diwygio hefyd fel nad yw Gweinidogion Cymru ond yn gyfrifol am gymeradwyo'r rhannau hynny o gynllun blynyddol Estyn sy'n ymwneud â swyddogaethau y mae Gweinidogion Cymru yn ddarparu cyllid mewn cysylltiad â hwy (is-adran (6)(b)).

Pennod 3: Darpariaethau Gorfodi a Gweithdrefnol Pellach

Ymyrryd yn ymddygiad sefydliadau addysg bellach

Adran 69: Y seiliau dros ymyrryd ac Adran 70: Phwerau i ymyrryd

224. Mae adrannau 69 a 70 yn disodli'r darpariaethau a nodwyd yn flaenorol yn adran 57 o Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 sy'n ymwneud â phwerau ymyrryd Gweinidogion Cymru ar gyfer sefydliadau yn y sector addysg bellach yng Nghymru.
225. Mae adran 69 yn pennu'r seiliau y mae rhaid eu bodloni er mwyn i Weinidogion Cymru ymyrryd yn ymddygiad darparwr addysg drydyddol yng Nghymru sy'n sefydliad yng Nghymru yn y sector addysg bellach. Gweler adran 141 am esboniad o ystyr y termau hyn.
226. Mae adran 70 yn gwneud darpariaeth ar gyfer y ffordd y caiff Gweinidogion Cymru ymyrryd os yw un neu ragor o'r seiliau dros ymyrryd a nodir yn adran 68 wedi eu bodloni. Rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Comisiwn cyn arfer eu pwerau ymyrryd o dan yr adran hon.
227. Mae cyfarwyddydau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru o dan adran 70 yn orfodadwy drwy waharddeb (gweler adran 82).

Adran 71: Hysbysu gan y Comisiwn am y seiliau dros ymyrryd

228. Mae'r adran hon yn gosod dyletswydd ar y Comisiwn i hysbysu Gweinidogion Cymru os yw o'r farn bod unrhyw un neu ragor o'r seiliau dros ymyrryd a bennir yn adran 69 wedi eu bodloni (is-adran (1)). Rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw i farn y Comisiwn wrth benderfynu a ddylid arfer unrhyw un neu ragor o'u pwerau ymyrryd o dan adran 70 ai peidio (is-adran (2)).

Adran 72: Datganiad gan Weinidogion Cymru ar bwerau ymyrryd

229. Mae adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi datganiad ar sut y maent yn bwriadu arfer eu swyddogaethau ymyrryd o dan adran 70 a chadw'r datganiad hwnnw o dan adolygiad (is-adran (1)). Rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r personau hynny y maent yn ystyried eu bod yn briodol cyn cyhoeddi'r datganiad, neu ddatganiad diwygiedig, a gosod copi ohono gerbron y Senedd cyn gynted â phosibl ar ôl iddo gael ei gyhoeddi.

Mynediad i wybodaeth a chyfleusterau

Adran 73: Dyletswydd i gydweithredu

230. Mae adran 73 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff llywodraethu darparwyr allanol (gweler adran 54) gydweithredu â phersonau sy'n arfer, ar ran y Comisiwn, swyddogaethau o dan yr adrannau a ganlyn o'r Bil:
- adran 51 - dyletswydd i fonitro ansawdd addysg drydyddol reoleiddiedig ac i hybu gwelliant yn ansawdd yr addysg honno;
 - adran 53 - adolygiadau sy'n berthnasol i ansawdd addysg drydyddol;
 - adran 54(1) - asesu ansawdd addysg uwch.
231. Mae'r adran hon hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff llywodraethu darparwyr anghofrestredig yng Nghymru sy'n darparu addysg bellach ac a gyllidir o dan adran 96, gydweithredu â phersonau sy'n arfer, ar ran y Comisiwn, swyddogaethau o dan yr adrannau a ganlyn o'r Bil:
- adran 51 - dyletswydd i fonitro ansawdd addysg drydyddol reoleiddiedig ac i hybu gwelliant yn ansawdd yr addysg honno;
 - adran 53 - adolygiadau sy'n berthnasol i ansawdd addysg drydyddol.
232. Mae'r ddyletswydd i gydweithredu yn ei gwneud yn ofynnol i'r gyrff llywodraethu hynny sicrhau y darperir yr wybodaeth, y cynhorthwy a'r mynediad i gyfleusterau, systemau neu gyfarpar y gallai fod eu hangen ar y person at ddibenion y swyddogaethau hynny.
233. Mae enghreifftiau o bersonau a allai weithredu ar ran y Comisiwn mewn cysylltiad â'r swyddogaethau hynny yn cynnwys Estyn a chorff sydd wedi ei ddynodi i gynnal asesiadau addysg uwch o dan Atodlen 3.
234. Mae'r ddyletswydd a osodir ar gyrff llywodraethu i gydweithredu o dan adran 73 hefyd yn gymwys mewn perthynas â phwerau mynd i mewn ac arolygu o dan adran 74.
235. Caiff y Comisiwn roi cyfarwyddyd i gorff llywodraethu os yw'r Comisiwn wedi ei fodloni bod y corff wedi methu â chydymffurfio â'i ddyletswydd i gydweithredu. Caiff y cyfarwyddyd ei gwneud yn ofynnol i gorff llywodraethu gymryd camau, neu beidio â chymryd camau, i sicrhau y darperir gwybodaeth, cynhorthwy neu fynediad i gyfleusterau, systemau neu gyfarpar (is-adran (4)). Mae'r gofynion gweithdrefnol yn adrannau 75 i 78 yn gymwys i benderfyniadau i roi cyfarwyddydau.

Adran 74: Pwerau mynd i mewn ac arolygu

236. Mae'r adran hon yn darparu ar gyfer hawl i fynd i mewn ac arolygu i berson sydd wedi ei awdurdodi'n ysgrifenedig gan y Comisiwn, sef "person awdurdodedig".
237. Mae is-adran (1) yn darparu y caiff person awdurdodedig fynd i fangre darparwr cofrestredig ac edrych ar ddogfennau y deuir o hyd iddynt ym mangre darparwr cofrestredig, eu copïo neu eu cymryd at ddibenion arfer y swyddogaethau a ganlyn:
- monitro cydymffurfedd ag amodau cofrestru parhaus (adran 36);

- adolygiadau sy'n berthnasol i gydymffurfedd ag amodau cofrestru parhaus (adran 38);
- monitro ansawdd addysg drydyddol a hybu gwelliant yn ansawdd yr addysg honno (adran 51);
- cynnal adolygiadau sy'n berthnasol i ansawdd addysg drydyddol (adran 53); neu
- asesu ansawdd addysg uwch (adran 54(1)).

238. Mae is-adran (2) yn datgan y caiff person awdurdodedig fynd i fangre ac edrych ar ddogfennau y deuir o hyd iddynt ym mangreoedd darparwyr allanol, eu copïo a'u cymryd at ddibenion arfer y swyddogaethau a ganlyn:
- monitro ansawdd addysg drydyddol a hybu gwelliant yn ansawdd yr addysg honno (adran 51);
 - cynnal adolygiadau sy'n berthnasol i ansawdd addysg drydyddol (adran 53); neu
 - asesu ansawdd addysg uwch (adran 54(1)).
239. Mae'r term "dogfennau" yn yr adran hon yn cynnwys gwybodaeth ar unrhyw ffurf a dogfennau sydd wedi eu storio ar gyfrifiaduron yn y fangre, neu y gellir eu cyrchu gan gyfrifiaduron yn y fangre (is-adran (3)).
240. Mae'r pŵer i edrych ar ddogfennau, eu copïo neu eu cymryd yn cynnwys y pŵer i'w gwneud yn ofynnol i berson ddarparu dogfennau, a'i gwneud yn ofynnol i'r dogfennau gael eu darparu ar ffurf benodol neu mewn fformat penodol, ac i edrych ar unrhyw systemau storio electronig lle y mae dogfennau wedi eu creu neu eu storio (is-adran (4)).
241. Cyn arfer pŵer o dan yr adran hon, rhaid rhoi rhybudd rhesymol i gorff llywodraethu'r darparwr cofrestredig neu'r darparwr allanol yr arferir y pwerau mewn perthynas â'i fangre, ac i gorff llywodraethu unrhyw ddarparwr cofrestredig y mae'r darparwr neu'r darparwr allanol yn darparu addysg y mae arfer y swyddogaethau mynd i mewn ac arolygu yn ymwneud â hi ar ei ran (is-adran (5)). Fodd bynnag, nid oes angen rhoi rhybudd os oes angen arfer y pŵer ar frys, neu os byddai rhoi rhybudd yn tanseilio diben arfer y pŵer (is-adran (6)).
242. Os yw'n ofynnol iddo wneud hynny, rhaid i berson awdurdodedig, cyn arfer pŵer o dan yr adran hon, ddangos copi o'r awdurdodiad ysgrifenedig gan y Comisiwn (is-adran (8)).
243. Rhaid arfer y pwerau a roddir gan yr adran hon ar adegau rhesymol, ac fel nad oes rhaid i unrhyw un wneud unrhyw beth ac eithrio ar adeg resymol (is-adran (9)). Nid yw'r pwerau yn gyfystyr â phŵer i fynd i anedd breswyl heb gytundeb y meddiannydd (is-adran (10)).

Y weithdrefn rhybuddio ac adolygu

Adran 75: Cymhwyso adrannau 76 i 78

244. Mae adrannau 76 i 78 yn nodi'r broses y mae rhaid i'r Comisiwn ei dilyn wrth ddyroddi cyfarwyddyd neu hysbysiad. Mae'r hysbysuadau a chyfarwyddydau y mae'r adrannau hynny yn gymwys iddynt wedi eu rhestru yn is-adran (1) ac yn cynnwys –
- cyfarwyddydau mewn cysylltiad â methiant i gydymffurfio ag amodau cofrestru parhaus;
 - hysbysuadau ynghylch gwrthod datganiad terfyn ffioedd arfaethedig;
 - hysbysuadau ynghylch gwrthod amrywiad arfaethedig i ddatganiad terfyn ffioedd neu ddatganiad arfaethedig arall yn ei le;
 - cyfarwyddydau mewn cysylltiad â methiant i gydweithredu.
245. Nid yw'n ofynnol i'r Comisiwn ddilyn y broses a nodir yn adrannau 76 i 78 os yw'n dyroddi cyfarwyddyd nad yw ond yn dirymu cyfarwyddyd blaenorol (is-adran (2)).

Adran 76: Hysbysiadau a chyfarwyddydau arfaethedig: gofyniad i roi hysbysiad rhybuddio

246. Cyn rhoi i gorff llywodraethu, hysbysiad neu gyfarwyddyd a restrir yn adran 75(1), mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn roi hysbysiad rhybuddio i'r corff llywodraethu. Rhaid i'r hysbysiad rhybuddio nodi'r hysbysiad neu gyfarwyddyd arfaethedig, y rhesymau dros ei roi, sut y caiff y corff llywodraethu gyflwyno sylwadau ynghylch yr hysbysiad neu'r cyfarwyddyd, a'r cyfnod y caniateir cyflwyno'r hysbysiadau hynny ynddo (is-adran (2)). Ni chaiff y cyfnod ar gyfer cyflwyno sylwadau fod yn llai nag 28 o ddiwrnodau gan ddechrau â dyddiad yr hysbysiad (is-adran (3)).
247. Rhaid i'r Comisiwn roi sylw i unrhyw sylwadau a gyflwynir gan y corff llywodraethu yn ystod y cyfnod penodedig wrth benderfynu pa un ai i roi'r hysbysiad neu'r cyfarwyddyd, ac yna rhaid iddo hysbysu'r corff llywodraethu am ei benderfyniad (is-adranau (4) a (5)).

Adran 77: Yr wybodaeth sydd i'w rhoi gyda hysbysiadau a chyfarwyddydau a'r effaith tra bo adolygiad yn yr arfaeth

248. Wrth roi i gorff llywodraethu hysbysiad neu gyfarwyddyd a restrir yn adran 75(1), rhaid i'r Comisiwn nodi'r dyddiad y bydd yr hysbysiad neu'r cyfarwyddyd yn cymryd effaith (is-adran (1)). Ar yr un pryd, rhaid i'r Comisiwn hefyd roi i'r corff llywodraethu ddatganiad sy'n nodi'r rhesymau dros roi'r hysbysiad neu'r cyfarwyddyd, gwybodaeth ynghylch yr hawl i gael adolygiad (gweler adrannau 78 a 79) a'r cyfnod y caniateir gwneud cais am adolygiad ynddo (is-adran (2)).
249. Ni chaniateir i hysbysiad neu gyfarwyddyd y mae'r adran hon yn gymwys iddo gael effaith tra bo proses adolygu yn mynd rhagddi nac yn ystod y cyfnod y gallai'r corff llywodraethu yr effeithir arno wneud cais am adolygiad o dan adran 78, oni bai bod y corff llywodraethu o dan sylw yn hysbysu'r Comisiwn nad yw'n bwriadu gwneud cais am adolygiad (is-adranau (3) a (4)).
250. O ganlyniad, efallai na fydd yn bosibl i'r hysbysiad neu'r cyfarwyddyd gael effaith ar y dyddiad a bennir gan y Comisiwn o dan is-adran (1). Os felly, yn ddarostyngedig i ganlyniad unrhyw adolygiad, rhaid i'r Comisiwn bennu dyddiad newydd y bydd yr hysbysiad neu'r cyfarwyddyd yn cymryd effaith (is-adranau (5) a (6)).

Adran 78: Adolygu hysbysiadau a chyfarwyddydau

251. Mae'r adran hon yn darparu bod gan gorff llywodraethu y rhoddir hysbysiad neu gyfarwyddyd a restrir yn adran 75(1) iddo yr hawl i wneud cais am adolygiad o'r hysbysiad neu'r cyfarwyddyd gan yr adolygydd penderfyniadau.

Adran 79: Adolygydd penderfyniadau

252. Rhaid i Weinidogion Cymru benodi person neu banel i fod yr "adolygydd penderfyniadau" a chânt dalu tâl a lwfansau i'r person hwnnw neu'r panel hwnnw (is-adran (1)). Mae'r adolygydd penderfyniadau yn gyfrifol am adolygu penderfyniadau o dan y Rhan hon.
253. Rhaid i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau mewn perthynas ag adolygu penderfyniadau a chaiff y rheoliadau gynnwys, ond nid ydynt yn gyfyngedig i, y canlynol:
- seiliau dros adolygiad;
 - argymhellion i'w gwneud gan yr adolygydd penderfyniadau;
 - y cyfnod y mae rhaid gwneud cais am adolygiad ynddo, a'r modd y mae rhaid gwneud y cais;

- y gweithdrefnau i'w dilyn a'r camau i'w cymryd; ac
- camau i'w cymryd gan y Comisiwn neu Weinidogion Cymru yn dilyn adolygiad (is-adrannau (3) a (4)).

Dyletswyddau amrywiol

Adran 80: Dyletswydd i fonitro cynaliadwyedd ariannol ac adrodd arno

254. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn fonitro cynaliadwyedd ariannol darparwyr penodol ac adrodd arno. O dan is-adran (1) rhaid i'r Comisiwn fonitro cynaliadwyedd ariannol:
- darparwyr cofrestredig,
 - darparwyr addysg drydyddol yng Nghymru sy'n sefydliadau yn y sector addysg bellach, nad ydynt yn gofrestrdig ac a gyllidir gan y Comisiwn.
255. Mae is-adran (2) yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i wneud eithriadau o ran cymhwysu'r ddyletswydd i fonitro o dan is-adran (1) ar gyfer darparwyr neu fathau o darparwyr yn y categorïau hyn. Mae is-adran (1) hefyd yn caniatáu i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, estyn y ddyletswydd i fonitro i fathau eraill o ddarparwyr addysg drydyddol.
256. Mae is-adran (3) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn ddarparu gwybodaeth mewn cysylltiad â sefyllfa ariannol y personau a fonitrir ganddo o dan is-adran (1) yn yr adroddiad blynyddol a gyflwynir ganddo bob blwyddyn (gweler paragraff 16 o Atodlen 1) i Weinidogion Cymru.
257. Mae'r adran hon hefyd yn nodi bod rhaid i'r Comisiwn, ar yr un pryd ag y mae'n cyflwyno ei adroddiad blynyddol, gyflwyno adroddiad ar wahân i Weinidogion Cymru sy'n rhoi crynodeb o ragolwg ariannol personau a fonitrir ganddo o dan is-adran (1). Bydd yr adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o gasgliadau y mae'r Comisiwn yn dod iddynt o'i weithgareddau monitro o ran tueddiadau neu batrymau perthnasol sy'n dod i'r amlwg neu faterion eraill y mae'r Comisiwn yn ystyried ei bod yn briodol eu dwyn i sylw Gweinidogion Cymru. Bydd yr adroddiad hwn yn ymwneud â'r blynyddoedd ariannol sy'n dilyn y flwyddyn ariannol y mae'r adroddiad blynyddol yn ymwneud â hi.

Adran 81: Datganiad y Comisiwn ar swyddogaethau ymyrryd

258. Mae'r adran hon yn darparu bod rhaid i'r Comisiwn gyhoeddi datganiad sy'n nodi ei ddull gweithredu o ran arfer y swyddogaethau a restrir yn is-adran (4), a chadw'r datganiad hwnnw o dan adolygiad. Cyn cyhoeddi neu ddiwygio'r datganiad, rhaid i'r Comisiwn ymgynghori â chorff llywodraethu pob darparwr cofrestredig ac unrhyw bersonau eraill y mae'n ystyried eu bod yn briodol.

Cyfarwyddydau

Adran 82: Effaith cyfarwyddydau a'u gorfodi

259. Rhaid i gorff llywodraethu darparwr gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddyd a roddir iddo gan y Comisiwn neu Weinidogion Cymru o dan y Rhan hon. Mae is-adran (2) yn rhoi i'r Comisiwn a Gweinidogion Cymru bŵer i wneud cais i'r llys am waharddeb i orfodi cyfarwyddyd a roddir ganddynt. Pan fydd y corff llywodraethu o dan sylw yn gofyn iddo wneud hynny, rhaid i'r person a roddodd y cyfarwyddyd roi hysbysiad i'r corff llywodraethu sy'n datgan pa un a yw wedi ei fodloni iddo gydymffurfio â chyfarwyddyd neu â gofyniad penodol mewn cyfarwyddyd.
260. Mae is-adran (4) yn darparu bod rhaid i gyfarwyddydau a roddir o dan y Rhan hon fod yn ysgrifenedig.

Pennod 4: Cyffredinol

Adran 83: Dynodi darparwyr addysg drydyddol eraill

261. Mae'r adran hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddynodi darparwr addysg drydyddol na fyddai fel arall yn cael ei ystyried yn sefydliad at ddibenion y Rhan hon i gael ei drin fel pe bai'n sefydliad. Rhaid i "darparwyr addysg drydyddol yng Nghymru" fod yn "sefydliadau" (gweler y diffiniadau yn adran 141(1)). Gwneir y dynodi ar gais gan y darparwr o dan sylw.
262. Caniateir trin darparwr a ddynodir yn "sefydliad" o dan yr adran hon fel "sefydliad" at ddibenion swyddogaethau cofrestru, sicrhau ansawdd ac asesu ansawdd o dan y Rhan hon, ond bydd angen o hyd iddo fodloni'r holl feini prawf eraill yn adran 25(5) i allu cofrestru â'r Comisiwn; a rhaid i'w weithgareddau gael eu cynnal yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru er mwyn dod o fewn y diffiniad o "darparwr addysg drydyddol yng Nghymru".
263. Mae is-adran (4) yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n darparu ar gyfer y modd y gwneir ceisiadau am ddynodiad o dan yr adran hon, a gwneud penderfyniadau dynodi, gan gynnwys meini prawf ar gyfer cadarnhau dynodiad, tynnu dynodiad yn ôl ac effaith tynnu dynodiad yn ôl.

Adran 84: Dehongli Rhan 2

264. Mae'r adran hon yn darparu'r diffiniadau o dermau penodol a ddefnyddir yn Rhan 2 o'r Bil hwn.

Rhan 3: Sicrhau Addysg Drydyddol ac Ymchwil a'u Cyllido

Cyllido'r Comisiwn

Adran 85: Pwerau Gweinidogion Cymru i gyllido'r Comisiwn

265. Mae'r adran hon yn caniatáu i Weinidogion Cymru ddarparu cyllid i'r Comisiwn. Mae'n caniatáu i Weinidogion Cymru osod ar y cyllid hwnnw y telerau ac amodau hynny y maent yn ystyried eu bod yn briodol (gan gynnwys mewn perthynas ag ad-dalu symiau a thalu llog) yn ddarostyngedig i'r cyfyngiadau a bennir yn adran 86.
266. Caniateir i delerau ac amodau a osodir ar gyllid a roddir gan Weinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn ymrwymo i "cytundeb canlyniadau" â'r personau y mae'n bwriadu eu cyllido. Mae ystyr cytundeb canlyniadau wedi ei ddiffinio gan yr adran hon. Mae cytundebau canlyniadau yn ddull a ddefnyddir gan y Comisiwn, drwy ei benderfyniadau cyllido, i gyfrannu at gyflawni ei ddyletswyddau strategol (o dan adrannau 2 i 12) a chyflawni blaenoriaethau strategol Gweinidogion Cymru ar gyfer addysg drydyddol ac ymchwil.
267. Bydd cynllun strategol y Comisiwn yn nodi sut y mae'n bwriadu cyflawni ei ddyletswyddau strategol a sut y bydd yn mynd i'r afael â blaenoriaethau Gweinidogion Cymru yn y datganiad a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru o dan adran 14. Bydd cytundebau canlyniadau yn nodi'r gweithgareddau y mae darparwr yn cytuno y bydd yn eu cyflawni yn gyfnewid am gyllid a fydd yn cyfrannu at weithredu cynllun strategol cymeradwy y Comisiwn.

268. Caiff Gweinidogion Cymru osod telerau ac amodau sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn ymrwymo i gytundebau canlyniadau ym mhob achos pan fo'n darparu cyllid. Fel arall, caiff Gweinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn ymrwymo i gytundeb canlyniadau pan fo'r Comisiwn yn bwriadu cyllido gweithgareddau penodol, mathau o ddarparwr neu symiau penodedig o gymorth ariannol. Er enghraifft, caiff Gweinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol bod cytundebau canlyniadau yn gymwys i bob cwrs addysg uwch ac addysg bellach, neu nad yw ond yn gymwys i rai cyrsiau penodedig ond nid mewn achosion pan fo maint y ddarpariaeth yn fach a phan fo'r cyllid yn disgyn islaw swm penodedig.

Adran 86: Cyllido'r Comisiwn: cyfyngiadau ar delerau ac amodau

269. Mae'r adran hon yn cynnwys nifer o ofynion a chyfyngiadau mewn perthynas â'r telerau ac amodau y caiff Gweinidogion Cymru eu gosod. Diben y gofynion a'r cyfyngiadau yw diogelu awtonomi sefydliadol darparwyr addysg drydyddol ac ymchwil, rhyddid academiaidd darparwyr addysg uwch a gallu'r Comisiwn i benderfynu dyraniadau cyllido.
270. Yn benodol, mae'r adran hon yn darparu na chaniateir i'r telerau ac amodau a osodir gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â chyllido addysg uwch, addysg bellach a hyfforddiant, ac ymchwil ac arloesi ymwneud â gweithgareddau a gyflawnir gan ddarparwyr unigol (oni bai eu bod yn gymwys i bob darparwr neu'r rheini sydd mewn dosbarth penodol neu o ddisgrifiad penodol, ac yn rhagamod cyllido).
271. Mae'r adran hon hefyd yn darparu na chaniateir i'r telerau ac amodau gael eu llunio drwy gyfeirio at feini prawf ar gyfer penodi, diswyddo neu ddethol staff academiaidd neu feini prawf ar gyfer derbyn myfyrwyr. Mae'r ddarpariaeth hon yn diogelu rhyddid darparwyr i ddethol staff a derbyn myfyrwyr fel y gwelant yn addas.
272. At hynny, mae'r adran hon yn darparu na chaniateir i'r telerau ac amodau sy'n ymwneud â chyllido ymchwil ac arloesi ond gael eu llunio drwy gyfeirio at faes ymchwil neu arloesi os yw hynny wedi ei gynnwys yng nghynllun strategol cymeradwy y Comisiwn. Ni chaniateir i'r telerau ac amodau gyfeirio at raglenni ymchwil penodol neu brosiectau ymchwil penodol.
273. Yn ogystal, caniateir i'r telerau ac amodau ar gyfer addysg uwch fod yn gymwys i gyrsiau penodol, ond ni chaniateir iddynt fod yn gymwys i rannau penodol o gyrsiau ac ni chaniateir iddynt ychwaith ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn naill ai darparu, neu wahardd darparu, cyrsiau penodol. Mae'r darpariaethau hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i glustnodi cyllid i roi cymorth i gyrsiau addysg uwch penodol a'i gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn roi sylw i ddymunoldeb cyllido'r cyrsiau hynny. Er enghraifft, caiff Gweinidogion Cymru roi cyllid i'r Comisiwn i gefnogi darparu cwrs neu gyrsiau penodol gan adael i'r Comisiwn benderfynu sut y mae'r cyllid i'w ddefnyddio. Caiff Gweinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i'r cyllid gael ei ad-dalu os nad yw'n cael ei ddefnyddio ar gyfer y cwrs neu gyrsiau penodedig. Mae'r ddarpariaeth hon yn diogelu rhyddid darparwyr i ddewis cynnig cyrsiau addysg uwch penodol.
274. Yn ogystal, mae'r adran hon yn darparu na chaiff telerau ac amodau mewn cysylltiad ag addysg uwch neu ymchwil ac arloesi fod yn gymwys i gynnwys cyrsiau neu raglenni ymchwil ac arloesi na sut y caiff y cyrsiau neu raglenni hynny eu haddysgu, eu goruchwyllo neu eu hasesu. Mae'r ddarpariaeth hon yn diogelu rhyddid darparwyr i addysgu a derbyn myfyrwyr fel y gwelant yn addas.

275. Mae is-adran (7) yn datgymhwysu cyfyngiadau is-adrannau (5) a (6) ar gyfer cyrsiau neu rannau o gyrsiau a ddarperir ac a asesir drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r ddarpariaeth hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddyrannu cyllid i'r Comisiwn i gefnogi darparu neu asesu cyrsiau addysg uwch neu rannau o'r cyrsiau hynny drwy gyfrwng y Gymraeg.

Cyllido addysg uwch

Adran 87: Cymorth ariannol i ddarparwyr penodedig ar gyfer addysg uwch

276. Mae'r adran hon yn caniatáu i'r Comisiwn gyllido categorïau penodol o ddarparwyr sydd wedi eu cofrestru â'r Comisiwn o dan Ran 2 o'r Bil, at ddiben cefnogi addysg uwch a ddarperir gan y darparwyr hynny neu ar eu rhan.
277. Bydd y categorïau o ddarparwyr cofrestredig sy'n gymwys i gael cyllid gan y Comisiwn o dan yr adran hon yn cael eu pennu mewn rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru.
278. Caiff darparwr cofrestredig sy'n cael cyllid o dan yr adran hon, yn ddarostyngedig i gydsyniad y Comisiwn, drosglwyddo cyllid i gorff sy'n cydlafurio. Bydd trosglwyddo cyllid yn caniatáu i'r darparwr a gyllidir gydweithio ag amryw o sefydliadau partner (gan gynnwys y rheini y tu allan i Gymru) sy'n ymwneud â darparu addysg uwch.
279. Mae Gweinidogion Cymru wedi eu galluogi i wneud rheoliadau ynghylch yr amgylchiadau na chaniateir darparu cyllid mewn cysylltiad â chyrsgiau addysg cychwynnol athrawon oddi tanynt. Gallai'r rheoliadau hynny, er enghraifft, ei gwneud yn ofynnol na chaniateir i'r cyrsiau hynny gael eu cyllido gan y Comisiwn oni bai eu bod wedi eu hachredu gan gorff penodedig.

Adran 88: Cymorth ariannol ar gyfer cyrsiau addysg uwch a bennir mewn rheoliadau

280. Mae'r adran hon yn gwneud darpariaeth ynghylch cyrsiau addysg uwch y caniateir iddynt gael eu cyllido gan y Comisiwn, yn ogystal ag addysg uwch a gefnogir gan y Comisiwn o dan adran 87.
281. Caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau i bennu cyrsiau penodol neu ddisgrifiadau penodol o gyrsiau y caniateir eu cyllido gan y Comisiwn; sef "cyrsiau cymwys". Caiff y rheoliadau bennu cyrsiau drwy gyfeirio at, ymhlith materion eraill, y gofynion sydd i'w bodloni gan y cwrs; y disgrifiad o'r person sy'n darparu'r cwrs; a'r cymhwyster y mae'r cwrs yn arwain ato. Byddai gallu'r Comisiwn i gyllido cyrsiau cymwys yn caniatáu mynd i'r afael â bylchau mewn darpariaeth ar gyfer pynciau penodol neu leoliadau penodol.
282. Gall bylchau mewn darpariaeth godi oherwydd diffyg gallu darparwyr penodedig (fel y'u diffinnir yn adran 87(1)) i ddiwallu angen a nodwyd. Er enghraifft, yr angen i gwrs arbenigol gael ei ddarparu yng Nghymru neu i nifer fach o fyfyrwyr sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru ymgymryd â'r cwrs hwnnw, sef cwrs nad yw'n gosteffeithiol i ddarparwyr penodedig ei ddarparu o bosibl.
283. Mae'r adran hon yn darparu bod y Comisiwn yn gallu cyllido darparwyr i ddarparu cyrsiau cymwys yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru a chyrsgiau a ddarperir i fyfyrwyr sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru. Caniateir i ddarparwr sy'n cael cyllid o dan yr adran hon, yn ddarostyngedig i gydsyniad y Comisiwn, drosglwyddo rhywfaint o'r cyllid hwnnw, neu'r holl gyllid hwnnw, i gorff sy'n cydlafurio, gan gynnwys darparwyr y tu allan i Gymru, er enghraifft, cyllid i gefnogi cwrs cymwys pan fo'r rhan fwyaf o'r cwrs yn cael ei darparu gan ddarparwr yng Nghymru, ond y darperir modiwlau penodol gan ddarparwr yn Lloegr, pan fo'r darparwr yn Lloegr yn gweithio mewn partneriaeth â'r darparwr yng Nghymru.

Adran 89: Cymorth ariannol o dan adrannau 87 ac 88: telerau ac amodau

284. Mae'r adran hon yn darparu y caniateir i'r Comisiwn osod y telerau ac amodau hynny y mae'n ystyried eu bod yn briodol i'r cyllid a ddyrennir ganddo at ddiben cefnogi addysg uwch. Yn enwedig, caniateir i'r telerau ac amodau hynny ei gwneud yn ofynnol ad-dalu cyllid (gan gynnwys â llog) os na chydymffurfir â'r dibenion y dyrennir y cyllid ar eu cyfer. Fodd bynnag, ni chaiff y Comisiwn osod amodau sy'n ymwneud â chyllid sy'n deillio o ffynonellau eraill, er enghraifft incwm a gynhrychir o weithgareddau'r darparwyr eu hun gan gynnwys ffioedd dysgu, cyllid o ddiwydiant neu roddion gan gymwynaswyr.
285. Pan fo'r Comisiwn yn dyrannu cyllid i ddarparwyr ar gyfer cyrsiau addysg uwch a bennir mewn rheoliadau o dan adran 88(3)(a) nad ydynt wedi eu cynnwys yn y Gofrestr (h.y. darparwyr anghofrestredig) yna rhaid i'r Comisiwn osod telerau ac amodau sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r darparwyr hynny wneud y canlynol:
- cael cynllun diogelu dysgwyr yn ei le sydd wedi ei gymeradwyo gan y Comisiwn (ar yr amod bod y Comisiwn wedi rhoi hysbysiad o'r gofyniad hwn) a rhoi effaith i'r cynllun;
 - cydymffurfio â gofynion y Cod Ymgysylltu â Dysgwyr cyfredol a gyhoeddir gan y Comisiwn o dan adran 127 os ydynt yn ddarparwr addysg drydyddol yng Nghymru; a
 - rhoi sylw i gyngor neu ganllawiau a roddir gan y Comisiwn i'r darparwr.

Adran 90: Cymorth ariannol o dan adrannau 87 ac 88: atodol

286. Mae'r adran hon yn gosod dyletswydd ar y Comisiwn, wrth arfer ei swyddogaethau cyllido addysg uwch, i roi sylw i ddymunoldeb peidio â gwneud unrhyw beth a fyddai'n anghefnogi darparwyr rhag ceisio cyllid o ffynonellau eraill neu gynnal cyllid o ffynonellau eraill (er enghraifft o ddiwydiant, byd masnach, cymwynaswyr, cyn-fyfyrrwyr, neu ffynonellau cyllid eraill).
287. Mae hefyd yn ofynnol i'r Comisiwn, wrth arfer ei swyddogaethau cyllido addysg uwch, roi sylw i ddymunoldeb cynnal unrhyw nodweddion arbennig unrhyw ddarparwr y mae'n darparu cymorth ariannol iddo. Mater i'r Comisiwn ei benderfynu yw'r hyn y mae'n ystyried ei fod yn gydbwysedd priodol o ran cymorth yn sgil unrhyw ystriaethau perthnasol eraill. Caiff y nodweddion hynny gynnwys, er enghraifft, cymeriad crefyddol darparwr neu natur arbenigol ei ddarpariaeth.

Adran 91: Cymorth ariannol gan Weinidogion Cymru ar gyfer cyrsiau addysg uwch penodol

288. Mae'r adran hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyllido ystod cyfyng o "cyrsiau addysg uwch perthnasol" yn uniongyrchol. Rhaid i'r cyrsiau hynny ddod o fewn y diffiniad ym mharagraff 1(g) neu 1(h) o Atodlen 6 i Ddeddf Diwygio Addysg 1988. Mae'r cyrsiau y caniateir eu cyllido yn cynnwys cyrsiau er mwyn paratoi at arholiadau proffesiynol, er enghraifft, cyrsiau nad ydynt yn gyrsiau gradd ac sy'n arwain at gymwysterau sydd wedi eu hachredu gan gyrff proffesiynol.

Addysg bellach a hyfforddiant

Adran 92: Addysg a hyfforddiant ar gyfer personau 16 i 19 oed

289. Mae adran 92 yn nodi ddyletswydd y Comisiwn i sicrhau cyfleusterau ar gyfer addysg a hyfforddiant i'r rheini sydd dros yr oedran ysgol gorfodol. Mae'r dyletswyddau yn yr adran hon ac adrannau 94 a 95 yn debyg i'r dyletswyddau yn adrannau 31 a 32 o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 ("Deddf 2000").

290. Mae'r adran yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn sicrhau y darperir cyfleusterau 'priodol' yng Nghymru ar gyfer addysg a hyfforddiant pobl sydd dros yr oedran ysgol gorfodol ond nad ydynt wedi cyrraedd 19 oed eto. Mae cyfleusterau yn 'priodol' os ydynt o nifer sy'n ddigonol, ac o ansawdd digonol, i ddiwallu anghenion rhesymol pobl ifanc. Yn ogystal rhaid i'r cyfleusterau hynny fodloni hawlogaethau myfyrwyr i ddilyn cyrsiau astudio yn y cwricwlwm lleol a luniwyd o dan adran 33A o Ddeddf 2000.
291. Gwneir diwygiadau i adrannau 33A - 33E, 33G, 33I - 33K, 33N - 33Q o Ddeddf 2000 (gweler Atodlen 4). Mae'r diwygiadau hyn yn rhoi swyddogaethau i'r Comisiwn sy'n cynnwys, ymhlith pethau eraill, gyfrifoldebau am lunio'r cwricwlwm lleol, cynllunio a darparu hawlogaethau'r cwricwlwm lleol i ddysgwyr (gan gynnwys darpariaeth Gymraeg), a'r trefniadau ar gyfer cydweithio. Mae'r mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol eraill yn cynnwys gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i ymgynghori â'r Comisiwn wrth arfer eu pŵer i ddiwygio meysydd dysgu'r cwricwla lleol a gwneud rheoliadau a dyroddi canllawiau.
292. Mae'r cyfleusterau sydd i'w sicrhau ar gyfer addysg a hyfforddiant yn cynnwys addysg bellach llawnamser a rhan-amser a hyfforddiant llawnamser a rhan amser yn ogystal â hyfforddiant galwedigaethol, cymdeithasol, corfforol a hamdden (gweler y diffiniadau yn adran 141(2) i (5)).
293. Nid yw dyletswyddau'r Comisiwn o dan yr adran hon yn estyn i addysg uwch (gweler paragraffau 276 i 279 am esboniad o bwerau'r Comisiwn i gyllido addysg uwch).

Adran 93: Addysg a hyfforddiant ar gyfer personau cymwys dros 19 oed

294. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn sicrhau cyfleusterau priodol yng Nghymru ar gyfer addysg berthnasol a hyfforddiant perthnasol ar gyfer personau cymwys. Mae cyfleusterau yn 'briodol' os ydynt o nifer sy'n ddigonol ac o ansawdd sy'n ddigonol i ddiwallu anghenion rhesymol unigolion cymwys.
295. Rhaid i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n disgrifio'r addysg bellach berthnasol neu'r hyfforddiant perthnasol y mae rhaid i'r Comisiwn sicrhau cyfleusterau priodol ar ei chyfer neu ei gyfer. Caiff y rheoliadau, er enghraifft, gyfeirio at y pynciau sydd i'w hastudio neu lefel yr astudio neu'r math o gymhwyster sydd i'w ddilyn.
296. Mae person cymwys yn berson sydd wedi cyrraedd 19 oed ac sy'n dod o fewn disgrifiad a bennir mewn rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru. Caiff y rheoliadau hyn, er enghraifft, gyfeirio at oedran person, y cymwysterau sydd ganddo eisoes, ei lefelau incwm, pa un a yw'n gyflogedig, yn ddi-waith, yn hunangyflogedig, etc. Gallai'r rheoliadau bennu bod personau sy'n dod o fewn disgrifiad penodol yn gymwys mewn perthynas â disgrifiad penodol o addysg bellach neu hyfforddiant.
297. Mae'r cyfleusterau sydd i'w sicrhau ar gyfer addysg a hyfforddiant yn cynnwys addysg bellach llawnamser a rhan-amser a hyfforddiant llawnamser a rhan-amser yn ogystal â hyfforddiant galwedigaethol, cymdeithasol, corfforol a hamdden (gweler y diffiniadau yn adran 141(2) i (5)).
298. Nid yw dyletswyddau'r Comisiwn o dan yr adran hon yn estyn i addysg uwch (gweler paragraffau 276 i 279 am esboniad o bwerau'r Comisiwn i gyllido addysg uwch).

Adran 94: Addysg a hyfforddiant ar gyfer personau dros 19 oed

299. Mae adran 94 yn nodi dyletswydd y Comisiwn i sicrhau bod cyfleusterau 'rhesymol' yn cael eu darparu yng Nghymru ar gyfer addysg a hyfforddiant pobl 19 oed a throsodd. Mae cyfleusterau yn 'rhesymol' os ydynt o'r nifer hwnnw a'r ansawdd hwnnw y gellir disgwyl yn rhesymol i'r Comisiwn eu darparu o ystyried yr adnoddau sydd ar gael iddo.
300. Mae'r cyfleusterau sydd i'w sicrhau ar gyfer addysg a hyfforddiant yn cynnwys addysg bellach lawnamser a rhan amser a hyfforddiant llawnamser a rhan-amser yn ogystal â hyfforddiant galwedigaethol, cymdeithasol, corfforol a hamdden (gweler y diffiniadau yn adran 141(2) i (5)). Mae hyn yn cynnwys gweithgareddau wedi eu trefnu sy'n cynnig cyfleoedd ar gyfer dysgu anffurfiol nad ydynt o bosibl yn arwain at gymhwyster. Er enghraifft, cyfleoedd dysgu i oedolion mewn lleoliadau cymunedol gan gynnwys gweithgareddau ymgysylltu ag addysg.
301. Nid yw dyletswyddau'r Comisiwn o dan yr adran hon yn estyn i addysg uwch (gweler paragraffau 276 i 279 am esboniad o bwerau'r Comisiwn i gyllido addysg uwch).

Adran 95: Gofynion ar y Comisiwn wrth sicrhau addysg bellach a hyfforddiant

302. Mae'r adran hon yn nodi gofynion amrywiol ar y Comisiwn pan fo'n cyflawni ei ddyletswyddau o dan adrannau 92, 93 a 94.
303. Wrth gyflawni'r dyletswyddau o dan yr adrannau hynny, rhaid i'r Comisiwn ystyried nifer o ffactorau, gan gynnwys yr addysg a hyfforddiant sy'n ofynnol mewn sectorau cyflogaeth gwahanol a'r angen i gynnig darpariaeth ddysgu ychwanegol ac asesu anghenion dysgu ychwanegol drwy gyfrwng y Gymraeg.
304. Rhaid i'r Comisiwn hefyd gadw mewn cof amgylchiadau pan allai ddisgwyl yn rhesymol i addysg a hyfforddiant gael eu sicrhau gan gyrrff eraill heb ddefnyddio ei adnoddau ei hun, er enghraifft, darpariaeth anghenion dysgu ychwanegol a sicrheir gan awdurdodau lleol o dan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018.
305. Rhaid i'r Comisiwn wneud y defnydd gorau o'i adnoddau ac yn benodol osgoi darpariaeth a allai beri gwariant anghymesur. Nid yw darpariaeth i'w hystyried yn un sy'n peri gwariant anghymesur dim ond oherwydd bod y ddarpariaeth honno yn ddrutach na darpariaeth gyffelyb.

Adran 96: Cymorth ariannol ar gyfer addysg bellach neu hyfforddiant

306. Mae'r adran hon yn nodi pwerau i Weinidogion Cymru a'r Comisiwn gyllido addysg bellach neu hyfforddiant. (Gweler adran 141(2) i (5) am y diffiniad o addysg bellach a hyfforddiant).
307. Caniateir i'r Comisiwn a Gweinidogion Cymru gyllido unrhyw berson i ddarparu addysg bellach neu hyfforddiant yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru ac addysg bellach a hyfforddiant i ddysgwyr sy'n preswyl fel arfer yng Nghymru. Yn ogystal, cânt gyllido unrhyw berson i ddarparu nwyddau neu wasanaethau mewn cysylltiad â'r addysg bellach honno neu'r hyfforddiant hwnnw.

308. Caiff Gweinidogion Cymru a'r Comisiwn hefyd roi cymorth ariannol yn uniongyrchol i ddysgwyr a darpar ddysgwyr sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru neu sy'n ymgymryd ag addysg bellach neu hyfforddiant yng Nghymru neu'n bwriadu gwneud hynny. Er enghraifft, gallai'r cymorth hwnnw fod ar gyfer cynorthwyo gyda chostau trafnidiaeth neu ofal plant neu i ddarparu cymelliadau i fynd i'r afael â phrinder sgiliau mewn sectorau cyflogaeth penodol yng Nghymru.
309. Caiff Gweinidogion Cymru a'r Comisiwn roi cymorth ariannol ar gael o'u hadnoddau eu hunain, neu gallant drefnu i bobl eraill ddarparu adnoddau ar ran Gweinidogion Cymru neu'r Comisiwn, neu eu hadnoddau eu hunain.
310. Caiff darparwyr addysg bellach sy'n cael cyllid o'r Comisiwn neu Weinidogion Cymru drosglwyddo cyllid i gorff sy'n cydlafurio, yn ddarostyngedig i gael cydsyniad gan y Comisiwn neu Weinidogion Cymru fel y bo'n briodol. Gallai hyn gynnwys cyllid ar gyfer darpariaeth y tu allan i Gymru, er enghraifft, cyllid i gefnogi addysg bellach neu hyfforddiant pan fo'r dysgwr yn preswyllo fel arfer yng Nghymru ond bod elfennau o'i addysg bellach neu hyfforddiant yn cael eu darparu gan sefydliad sy'n cydlafurio yn Lloegr. Byddai angen i ddarparwr a gyllidir gan y Comisiwn sy'n cydlafurio â sefydliad arall i ddarparu cwrs neu gyrsiau addysg bellach penodol gael cydsyniad y Comisiwn i drosglwyddo cyllid i'r sefydliad sy'n cydlafurio. Ni fyddai gan y Comisiwn gydberthynas uniongyrchol â'r sefydliad sy'n cydlafurio ac felly y darparwr a gyllidir gan y Comisiwn fyddai'n parhau i fod yn gyfrifol am y cyllid. Mae'r un amodau yn gymwys o ran cyllid gan Weinidogion Cymru o dan yr adran hon.
311. Ni chaiff y Comisiwn gyllido'r chweched dosbarth mewn ysgolion o dan is-adran (1)(a) neu (b) (na gwneud trefniadau i awdurdod lleol ddarparu adnoddau'r Comisiwn i wneud hynny). Bydd darpariaeth chweched dosbarth mewn ysgolion yn cael ei chyllido gan y Comisiwn o dan adran 100.
312. Ond caiff y Comisiwn gyllido (neu wneud trefniadau i awdurdod lleol ddarparu adnoddau'r Comisiwn i gyllido) gweithgareddau arloesi mewn ysgolion a gynhelir a chanddynt chweched dosbarth. Mae 'gweithgaredd arloesi' yn weithgaredd a fydd, ym marn y Comisiwn, yn cyfrannu at godi safonau addysg drydyddol, ac sydd wedi ei ddisgrifio mewn dogfen sydd wedi ei llunio gan y Comisiwn ac sydd wedi ei chymeradwyo gan Weinidogion Cymru.

Adran 97: Cymorth ariannol ar gyfer addysg bellach neu hyfforddiant: darpariaeth bellach

313. Os ydynt yn darparu cymorth ariannol yn uniongyrchol i ddysgwyr o dan adran 96(1)(d) neu (e), caiff Gweinidogion Cymru a'r Comisiwn wneud hynny drwy gyfeirio at ffioedd neu daliadau sy'n daladwy gan y dysgwyr hynny, neu drwy gyfeirio at faterion eraill sy'n gysylltiedig â darparu'r addysg bellach honno neu'r hyfforddiant hwnnw (megis costau trafnidiaeth neu ofal plant).
314. Caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr fod wedi eu cofrestru mewn categori penodedig ar y gofrestr a sefydlir o dan adran 25 er mwyn bod yn gymwys i gael cyllid o dan adran 96(1)(a) neu (b) (darparu neu'r bwriad i ddarparu addysg bellach neu hyfforddiant).
315. Caiff y rheoliadau hynny wneud eithriadau ar gyfer cyrsiau penodol neu gyrsiau o ddisgrifiad penodol. Gallai'r rheoliadau, er enghraifft, ddisgrifio cwrs drwy gyfeirio at

ofynion sydd i'w bodloni ganddo neu at y person sy'n ei ddarparu, neu at y cymhwyster y mae'r cwrs yn arwain ato.

316. Byddai'r trefniadau hyn yn caniatáu mynd i'r afael â bylchau yn y ddarpariaeth ar gyfer pynciau neu leoliadau penodol a all godi oherwydd diffyg darparwyr cofrestredig sydd â'r gallu i ddiwallu angen a nodwyd, er enghraifft, yr angen i gwrs arbenigol gael ei ddarparu yng Nghymru neu i nifer fach o fyfyrwyr sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru ymgymryd â'r cwrs hwnnw, sef cwrs nad yw'n gosteffeithiol i ddarparwyr cofrestredig ei ddarparu o bosibl.

Adran 98: Adnoddau ariannol ar gyfer addysg bellach a hyfforddiant: telerau ac amodau

317. Pan fo Gweinidogion Cymru neu'r Comisiwn yn darparu cyllid o dan adran 96, mae'r adran hon yn caniatáu iddynt osod telerau ac amodau fel y maent yn ystyried eu bod yn briodol. Mae Gweinidogion Cymru neu'r Comisiwn yn gallu ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr addysg bellach neu hyfforddiant godi ffioedd, gwneud dyfarndaliadau, ac adennill symiau o arian yn erbyn meini prawf penodedig. Fodd bynnag, ni chaniateir codi ffi ar ddysgwyr rhwng 16 a 19 oed a dysgwyr cymwys sy'n cael addysg a hyfforddiant o dan adran 93 am addysg bellach neu hyfforddiant (oni bai bod eithriad wedi ei nodi mewn rheoliadau).
318. Pan fo cyllid at ddiben darparu addysg bellach neu hyfforddiant wedi ei ddyrannu gan y Comisiwn i ddarparwyr nad ydynt ar y gofrestr, rhaid i'r telerau ac amodau ei gwneud yn ofynnol bod gan y darparwr gynllun diogelu dysgwyr cymeradwy yn ei le (pan fo'r Comisiwn wedi rhoi'r hysbysiad priodol); ei fod yn cydymffurfio â'r Cod Ymgysylltu â Dysgwyr (os yw'n ddarparwr addysg drydyddol yng Nghymru); a'i fod yn rhoi sylw i gyngor a chanllawiau a ddyroddir gan y Comisiwn.
319. Pan fo'r Comisiwn wedi gwneud trefniadau i berson arall ddarparu adnoddau ariannol y Comisiwn caiff ei gwneud yn ofynnol i'r person osod y telerau ac amodau a amlinellir ym mharagraff 316, a rhaid iddo ei gwneud yn ofynnol i'r person osod y rheini a amlinellir ym mharagraff 317.

Adran 99: Profion modd

320. Mae adran 96(1)(g) yn caniatáu i'r Comisiwn neu Weinidogion Cymru gyllido costau profion modd.
321. Mae adran 99 yn caniatáu i'r Comisiwn neu Weinidogion Cymru gynnal y profion hynny eu hunain neu wneud trefniadau i eraill wneud hynny ar eu rhan.
322. Mae'r Comisiwn neu Weinidogion Cymru yn gallu ystyried canlyniadau'r profion hynny wrth ddyrannu cymorth ariannol o dan adran 96(1)(d) neu (e) i bersonau sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru sy'n cael, neu'n bwriadu cael, addysg bellach neu hyfforddiant ac i bersonau nad ydynt yn preswyllo fel arfer yng Nghymru sy'n cael, neu'n bwriadu cael, addysg bellach neu hyfforddiant yng Nghymru.

Adran 100: Y chweched dosbarth mewn ysgolion

323. Mae'r adran hon yn darparu'r pŵer i'r Comisiwn i gyllido addysg a ddarperir gan y chweched dosbarth mewn ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol a gosod telerau ac amodau priodol sy'n debyg i'r rhai a ganiateir o dan adran 98. Mae cyllid o dan yr adran hon i'w roi i awdurdodau lleol, a rhaid cymhwyso'r cyllid hwnnw fel rhan o gyllideb ysgolion yr awdurdod.

324. Rhaid i gorff llywodraethu ysgol a gynhelir yng Nghymru a chanddi chweched dosbarth gydymffurfio â'r gofynion sydd wedi eu cynnwys yn y Cod Ymgysylltu â Dysgwyr. Rhaid i awdurdod lleol sy'n cael cyllid o dan yr adran hon a chorff llywodraethu ysgol a gynhelir yng Nghymru a chanddi chweched dosbarth hefyd roi sylw i gyngor neu ganllawiau a roddir gan y Comisiwn.

Adran 101: Personau ag anghenion dysgu ychwanegol

325. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn roi sylw i anghenion pobl sydd ag anghenion dysgu ychwanegol a dymunoldeb bod cyfleusterau ar gael a all fod o gymorth o ran y gofynion o dan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018. Rhaid i'r Comisiwn ystyried y materion hyn wrth gyflawni ei swyddogaethau o dan y darpariaethau a ganlyn:
- adran 92 (addysg a hyfforddiant ar gyfer personau 16 i 19 oed);
 - adran 93 (addysg a hyfforddiant ar gyfer personau cymwys dros 19 oed);
 - adran 94 (addysg a hyfforddiant ar gyfer personau dros 19 oed);
 - adran 96(1)(a) i (e) a (5) (cymorth ariannol ar gyfer addysg bellach neu hyfforddiant);
 - adran 102(1) (cymorth ariannol ar gyfer darparu gwybodaeth, cyngor, canllawiau ac i greu cysylltiadau â chyflogwyr); ac
 - adran 102(2) (cymorth ariannol ar gyfer darparu addysg bellach neu hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg neu at ddiben addysgu Cymraeg).
326. Os yw'r Comisiwn yn cyllido darparu gwybodaeth, cyngor a chanllawiau ynghylch addysg neu hyfforddiant, bydd angen iddo ystyried anghenion dysgu ychwanegol. Er enghraifft, gallai'r Comisiwn ei gwneud yn ofynnol i wybodaeth gael ei chynnwys am asesu anghenion dysgu ychwanegol a sut y gall dysgwyr gael cymorth, yn ogystal â sicrhau bod gwybodaeth, cyngor a chanllawiau yn hygyrch i'r sawl sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Os yw'r Comisiwn yn darparu cymorth ariannol i ddysgwyr, er enghraifft, er mwyn cynorthwyo â chostau trafniadaeth i gael mynediad i gyrsiau penodol sy'n arwain at broffesiynau lle y mae prinder sgiliau, yna rhaid iddo ystyried anghenion dysgu ychwanegol wrth wneud hynny. Er enghraifft, gallai hyn olygu ystyried costau trafniadaeth y rheini sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.
327. Mae gan berson anghenion dysgu ychwanegol os oes ganddo anhawster dysgu neu anabledd (pa un a yw'r anhawster dysgu neu'r anabledd yn deillio o gyflwr meddygol neu fel arall) sy'n galw am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol.
328. Mae Atodlen 4 yn diwygio Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg 2018. Bydd yn ofynnol i Weinidogion Cymru a'r Comisiwn, wrth arfer swyddogaethau o dan Ran 2 o Ddeddf 2018, roi sylw i unrhyw ganllawiau y caniateir iddynt gael eu cynnwys yn y Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol. Yn ogystal, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Comisiwn cyn dyroddi neu ddiwygio'r Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol. Bydd yn ofynnol i Weinidogion Cymru a'r Comisiwn arfer eu swyddogaethau er mwyn darparu gwybodaeth a chymorth arall i awdurdod lleol os yw'n gofyn am y cynhorthwy hwnnw.

Cymorth ariannol ar gyfer gweithgareddau eraill sy'n gysylltiedig ag addysg drydyddol

Adran 102: Cymorth ariannol ar gyfer gweithgareddau eraill sy'n gysylltiedig ag addysg drydyddol

329. Mae'r adran hon yn caniatáu i'r Comisiwn neu Weinidogion Cymru gyllido'r ddarpariaeth o wybodaeth, cyngor neu ganllawiau ynghylch addysg neu hyfforddiant yn ogystal â chyfleusterau sydd wedi eu dylunio i greu cysylltiadau rhwng darparwyr addysg neu hyfforddiant a chyflogwyr. Caiff Gweinidogion Cymru neu'r Comisiwn dalu'r cyllid neu wneud trefniadau i bersonau eraill wneud hynny, er enghraifft drwy drefniadau cydlafurio. Caiff y Comisiwn neu Weinidogion Cymru osod telerau ac amodau priodol ar y cyllid, ac adennill symiau o arian pan na fo meini prawf penodedig wedi eu bodloni.
330. Mae'r adran hon hefyd yn galluogi'r Comisiwn i gyllido addysg drydyddol drwy gyfrwng y Gymraeg ac addysgu Cymraeg i ddysgwyr dros 16 oed. Caiff y Comisiwn dalu'r cyllid ei hun neu wneud trefniadau i bersonau eraill wneud hynny, er enghraifft drwy drefniadau cydlafurio. Caiff y Comisiwn osod telerau ac amodau ar y cyllid fel y mae'n ystyried eu bod yn briodol ac adennill symiau o arian pan na fo meini prawf penodedig wedi eu bodloni.
331. Ni chaiff y Comisiwn gyllido'r chweched dosbarth mewn ysgolion o dan is-adran (2) (na gwneud trefniadau o dan is-adran (3) i awdurdod lleol ddarparu adnoddau'r Comisiwn i wneud hynny). Bydd darpariaeth chweched dosbarth mewn ysgolion yn cael ei chyllido gan y Comisiwn o dan adran 100.
332. Os yw'r Comisiwn wedi gwneud trefniadau o dan is-adran (3) i berson arall ddarparu adnoddau ariannol y Comisiwn, caiff y Comisiwn ei gwneud yn ofynnol i'r person hwnnw ddarparu'r adnoddau yn ddarostyngedig i unrhyw delerau ac amodau y mae'r Comisiwn yn ystyried eu bod yn briodol.

Cymorth ariannol ar gyfer prentisiaethau

Adran 103: Cymorth ariannol ar gyfer prentisiaethau

333. Caiff y Comisiwn ddarparu cyllid i ddarparwyr prentisiaeth Gymreig gymeradwy a chaiff hefyd ddarparu cyllid ar gyfer llunio fframwaith prentisiaeth.
334. Caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r sawl sy'n cael cyllid ar gyfer prentisiaethau Cymreig cymeradwy fod wedi ei gofrestru mewn categori penodol ar y gofrestr a sefydlir o dan adran 25.
335. Mae'r adran hon yn caniatáu i'r Comisiwn osod telerau ac amodau fel y mae'n ystyried eu bod yn briodol. Yn benodol, caiff y telerau ac amodau ei gwneud yn ofynnol ad-dalu cyllid (gan gynnwys gyda llog) os na chydymffurfir â'r dibenion y dyrennir y cyllid atynt. Pan fo cyllid ar gyfer prentisiaethau Cymreig cymeradwy wedi ei ddyrannu gan y Comisiwn i ddarparwyr nad ydynt ar y gofrestr, rhaid i'r Comisiwn ei gwneud yn ofynnol bod gan y darparwr gynllun diogelu dysgwyr cymeradwy yn ei le (pan fo'r Comisiwn wedi rhoi'r hysbysiad priodol); ei fod yn cydymffurfio â'r Cod Ymgysylltu â Dysgwyr (os yw'n ddarparwr addysg drydyddol yng Nghymru); a'i fod yn rhoi sylw i gyngor a chanllawiau a ddyroddir gan y Comisiwn.

Adran 104: Cymorth ariannol ar gyfer ymchwil ac arloesi

336. Mae'r adran hon yn caniatáu i'r Comisiwn ddarparu cyllid i ddarparwyr cofrestredig, a bennir mewn rheoliadau, i gyflawni gweithgareddau ymchwil ac arloesi. Rhagwelir y gall y darparwyr cofrestredig fod yn sefydliadau addysg uwch, sefydliadau addysg bellach neu ddarparwyr eraill.
337. Bydd darparwr cofrestredig sy'n cael cyllid yn gallu trosglwyddo'r cyllid i gyrff sy'n cydlafurio mewn cysylltiad â'r gweithgareddau ymchwil ac arloesi â chydysniad y Comisiwn. Bydd hyn yn caniatáu i'r darparwr gydlafurio ag ystod eang o bartneriaid sy'n ymwneud ag ymchwil ac arloesi o bosibl. Bydd y darparwr cofrestredig yn atebol i'r Comisiwn am wario cyllid cyhoeddus ac am gyfrifyddu ar gyfer cyllid a drosglwyddir i gyrff sy'n cydlafurio.
338. Caiff y Comisiwn hefyd wneud grantiau, benthyciadau neu daliadau eraill i berson sy'n darparu gwasanaethau ar gyfer ymchwil neu arloesi gan ddarparwr penodedig neu mewn cysylltiad â hynny.
339. Wrth ddarparu cymorth ariannol, rhaid i'r Comisiwn roi sylw i sicrhau nad yw'n gwneud unrhyw beth a fyddai'n anghefnogi darparwyr rhag ceisio cyllid o ffynonellau eraill neu gynnal cyllid o ffynonellau eraill (er enghraifft o ddiwydiant, byd masnach, cymwynaswyr, cyn-fyfyrywyr, UKRI, Horizon Europe neu ffynonellau cyllid cymwys eraill).
340. Mae hefyd yn ofynnol i'r Comisiwn, wrth arfer ei swyddogaethau cyllido ymchwil ac arloesi, roi sylw i ddymunoldeb cynnal unrhyw nodweddion arbennig i unrhyw darparwr y mae'n darparu cymorth ariannol iddo. Mater i'r Comisiwn yw penderfynu'r hyn y mae'n ystyried i fod yn gydbwysedd priodol o ran cymorth yng ngoleuni unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill. Caiff y nodweddion hynny gynnwys, er enghraifft, natur arbenigol ei ddarpariaeth.

Adran 105: Cymorth ariannol ar gyfer ymchwil ac arloesi: telerau ac amodau

341. Mae'r adran hon yn galluogi'r Comisiwn i osod telerau ac amodau ar gyllid i ddarparwr cofrestredig fel y mae'n ystyried eu bod yn briodol. Os yw'r cyllid yn cael ei drosglwyddo i gyrff sy'n cydlafurio gallai'r Comisiwn, er enghraifft, fel amod cyllido, yn ei dro ei gwneud yn ofynnol i'r darparwr sy'n cael y cyllid osod amodau ar unrhyw gyllid a drosglwyddir ganddo i gyrff sy'n cydlafurio. Ni chaiff y Comisiwn osod telerau ac amodau ar gyllid a dderbynnir gan ddarparwr sy'n dod o ffynonellau eraill.
342. Mae'r adran hon hefyd yn gwneud darpariaeth ar gyfer sut y dylai penderfyniadau cyllido o dan adran 104 gael eu gwneud gan y Comisiwn. Mae'n ofynnol i'r Comisiwn roi sylw i'r hyn a elwir yn gyffredinol yn egwyddor Haldane (hynny yw ei bod yn well gwneud penderfyniadau ar gynigion unigol ar ôl gwerthuso eu hansawdd a'u heffaith debygol).
343. Bydd y cysyniad yn gymwys i'r holl benderfyniadau cyllido o dan adran 104 a wneir gan y Comisiwn. Gan hynny, mae'r ddarpariaeth yn caniatáu i'r Comisiwn arwain y cyfeiriad cyffredinol o ran cyllido, ond mae hefyd yn disgwyl i benderfyniadau ynghylch yr ymchwil gael eu gwneud gan arbenigwyr yn y maes, y tu allan i'r Comisiwn, er enghraifft, gallai sicrhau bod cynigion ymchwil yn cael budd o ymarferion tendro cystadleuol fod yn un ffordd o fodloni'r gofyniad i roi sylw i'r egwyddor. Diben y gofyniad i roi sylw i'r egwyddor hon yw i sicrhau nad yw rhyddid academiaidd yn cael ei beryglu yn ystod y broses.

Adran 106: Swyddogaethau eraill y Comisiwn mewn perthynas ag ymchwil ac arloesi

344. Mae'r adran hon yn nodi dyletswydd y Comisiwn i hybu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r gweithgareddau ymchwil ac arloesi a gyflawnir yng Nghymru, er mwyn sicrhau ei fod yn cyrraedd cynulleidfa eang, ac i ledaenu canlyniadau gwaith ymchwil ac arloesi.
345. Mae'n ofynnol i'r Comisiwn fonitro perfformiad ei raglenni cyllido i sicrhau'r llwyddiant, effeithiolrwydd darparu a gwerth am arian gorau posibl. Rhaid cynnwys yr wybodaeth hon yn yr adroddiad blynyddol fel sy'n ofynnol gan baragraff 16 o Atodlen 1.

Cyrff sy'n cydlafurio: cydsyniad

Adran 107: Cydsyniad i daliadau i gyrff sy'n cydlafurio

346. Mae'r adran hon yn darparu fframwaith o fesurau rheoli mewn cysylltiad â chydsyniad y Comisiwn i gyllid gael ei drosglwyddo oddi wrth ddarparwyr, sefydliadau neu unigolion a gyllidir yn uniongyrchol i gyrff sy'n cydlafurio o dan y pwerau cyllido penodedig. Er mwyn i berson fod yn gorff sy'n cydlafurio, rhaid i'r Comisiwn fod wedi rhoi cydsyniad i adnoddau ariannol gael eu talu iddo gan y person sy'n cael cyllid gan y Comisiwn. Ni fydd gan y Comisiwn berthynas reoleiddiol na pherthynas gyllido uniongyrchol â chyrff sy'n cydlafurio. Bydd y fframwaith o fesurau rheoli yn caniatáu i Weinidogion Cymru a'r Comisiwn ddiogelu buddiannau myfyrwyr, y defnydd cywir o arian cyhoeddus ac enw da sector addysg drydyddol ac ymchwil Cymru.
347. Mae is-adran (1) yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n pennu'r materion y mae rhaid i'r Comisiwn eu hystyried wrth benderfynu pa un ai i roi ei gydsyniad i gyllid gael ei drosglwyddo i gorff sy'n cydlafurio ai peidio. Mae is-adran (2) yn caniatáu i'r Comisiwn osod telerau ac amodau ar unrhyw gydsyniad y mae'n ei roi. Mae is-adran (8) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn gadw pob cydsyniad gweithredol o dan adolygiad.
348. Mae is-adrannau (3) i (6) yn gwneud darpariaeth i'r Comisiwn allu tynnu'n ôl, atal dros dro neu amrywio ei gydsyniad ar ôl ei roi ac yn nodi'r trefniadau gweithdrefnol y mae rhaid i'r Comisiwn eu dilyn cyn cymryd camau o'r fath. Mae hyn yn cynnwys gofyniad i'r Comisiwn roi hysbysiad i'r cyrff a gyllidir yn uniongyrchol y mae cydsyniadau o'r fath yn gymwys iddynt a rhoi sylw i unrhyw sylwadau a geir cyn penderfynu pa un ai i dynnu'r cydsyniad yn ei ôl, ei amrywio neu ei atal dros dro. Mae is-adran (7) yn gwneud darpariaeth i'r trefniadau gweithdrefnol hyn beidio â bod yn gymwys o dan amgylchiadau pan fo angen i'r Comisiwn gymryd camau ar fwy o frys ac na fyddai'n ymarferol cydymffurfio â'r gofynion.

Cyfarwyddydau cymorth ariannol

Adran 108: Cyfarwyddydau cymorth ariannol

349. Mae'r adran hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo'r Comisiwn mewn cysylltiad â darparu cymorth ariannol a ddarperir i berson perthnasol o dan y pwerau cyllido penodedig, pan fo'n ymddangos i Weinidogion Cymru fod materion ariannol y person perthnasol wedi cael eu camreoli, neu yn cael eu camreoli. Mae is-adran (3) yn diffinio cyfarwyddyd cymorth ariannol ac yn nodi'r pwerau cyllido y caiff cyfarwyddyd o'r fath fod yn berthnasol iddynt. Mae is-adran (4) yn diffinio person perthnasol at ddibenion cyfarwyddydau cymorth ariannol.

350. Cyn dyroddi cyfarwyddyd cymorth ariannol i'r Comisiwn, mae is-adran (5) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Comisiwn a'r person perthnasol y mae'r cyfarwyddyd yn ymwneud ag ef oni bai bod Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni nad yw'n ymarferol gwneud hynny oherwydd y brys y mae angen rhoi'r cyfarwyddyd iddo, neu fod yr amgylchiadau penodol yn golygu y byddai'r ymgynghoriad yn tanseilio diben y cyfarwyddyd.
351. Rhaid cadw unrhyw gyfarwyddyd cymorth ariannol a roddir i'r Comisiwn o dan yr adran hon o dan adolygiad. Yn ogystal, rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi cyfarwyddyd cymorth ariannol a roddir i'r Comisiwn ac adrodd am unrhyw gyfarwyddydau o'r fath i'r Senedd. Mae'n ofynnol i'r Comisiwn gydymffurfio â chyfarwyddyd cymorth ariannol a roddir gan Weinidogion Cymru.

Rhan 4: Prentisiaethau

Rhagarweiniol

Adran 109: Ystyr "prentisiaeth Gymreig gymeradwy"

352. Mae'r adran hon yn diffinio ystyr "prentisiaeth Gymreig gymeradwy" ac yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n nodi'r amodau sydd i'w bodloni gan brentisiaeth Gymreig gymeradwy (is-adran (4)).
353. Mae prentisiaeth Gymreig gymeradwy yn digwydd naill ai:
- o dan gytundeb prentisiaeth Gymreig gymeradwy; neu
 - o dan brentisiaeth Gymreig amgen (is-adran (2)).
354. Mae prentisiaeth Gymreig gymeradwy yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwaith ddigwydd yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru (is-adran (3)).

Adran 110: Ystyr "cytundeb prentisiaeth Gymreig gymeradwy"

355. Mae'r adran hon yn amlinellu ystyr "cytundeb prentisiaeth Gymreig gymeradwy".
356. Mae is-adran (1) yn darparu ei fod yn gytundeb –
- sy'n darparu i berson weithio i berson arall am dâl mewn galwedigaeth sydd â fframwaith prentisiaeth,
 - sy'n darparu i'r prentis gael hyfforddiant er mwyn caniatáu i'r prentis fodloni gofynion y fframwaith prentisiaeth, ac
 - sy'n bodloni unrhyw amodau eraill a bennir mewn rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru.

Adran 111: Ystyr "prentisiaeth Gymreig amgen"

357. Mae'r adran hon yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n diffinio amodau "prentisiaeth Gymreig amgen", er mwyn caniatáu i drefniadau na fyddent yn dod o fewn y diffiniad o gytundeb prentisiaeth Gymreig gymeradwy gael eu trin fel prentisiaethau Gymreig gymeradwy.
358. Gallai enghreifftiau o drefniadau gweithio amgen gynnwys yr amgylchiadau a ganlyn, ond nid ydynt yn gyfyngedig i'r rhain:
- pan fo person yn gweithio fel person hunangyflogedig wrth ddilyn fframwaith prentisiaeth Gymreig gymeradwy,
 - pan fo person yn gweithio ac eithrio am gydnabyddiaeth, neu

- pan fo’r prentis a oedd yn gweithio o dan gytundeb prentisiaeth wedi ei ddiswyddo yn ystod y brentisiaeth a bod y person hwnnw yn bodloni’r amodau a nodir yn y rheoliadau.

Adran 112: Ystyr “fframwaith prentisiaeth”

359. Mae’r adran hon yn amlinellu ystyr “fframwaith prentisiaeth”. Mae fframwaith prentisiaeth yn ddogfen sy’n pennu gofynion ar gyfer cwblhau prentisiaethau Cymreig cymeradwy mewn galwedigaeth neu grŵp o alwedigaethau, a all gynnwys (ond nad ydynt yn gyfyngedig i) gofynion sy’n ymwneud ag –
- safonau cyrhaeddiad;
 - cymwysterau;
 - y math o hyfforddiant neu faint o hyfforddiant yr ymgymerir ag ef.

Swyddogaethau Gweinidogion Cymru

Adran 113: Pennu gofynion mewn perthynas â phrentisiaethau Cymreig cymeradwy

360. Mae is-adran (1) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i bennu gofynion mewn perthynas â prentisiaethau Cymreig cymeradwy a datblygu fframweithiau prentisiaethau.
361. Gall gofynion ymwneud â –
- cynnwys fframweithiau prentisiaethau, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, y safonau cyrhaeddiad sy’n ofynnol, y cymhwyster y mae ei angen a’r math o hyfforddiant y mae ei angen a faint o hyfforddiant y mae ei angen i gwblhau prentisiaeth Gymreig gymeradwy (is-adran (2)),
 - llunio, diwygio, tynnu’n ôl neu gyhoeddi fframwaith prentisiaeth (is-adran (3)),
 - prentisiaethau Cymreig cymeradwy yn gyffredinol neu brentisiaethau Cymreig cymeradwy mewn un neu ragor o alwedigaethau.
362. Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi gofynion penodedig a chânt ddiwygio gofyniad neu dynnu gofyniad yn ôl drwy ddyrannu gofyniad manyleb yn lle un blaenorol neu drwy ddyroddi hysbysiad tynnu’n ôl (is-adranau (5) a (6)). Rhaid i’r gofynion a’r hysbysiaidau a gyhoeddir mewn perthynas â’r manylebau ddatgan y dyddiad y daw gofyniad y fanyleb, neu’r hysbysiad tynnu’n ôl, i rym (is-adran (7)).

Adran 114: Ymgynghoriad gan Weinidogion Cymru ynghylch pennu

363. Mae’r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru yn y lle cyntaf ymgynghori â’r Comisiwn ac unrhyw bersonau eraill y maent yn meddwl eu bod yn briodol cyn pennu neu ddiwygio unrhyw ofynion neu dynnu unrhyw ofynion yn ôl o dan adran 112.

Swyddogaethau’r Comisiwn

Adran 115: Llunio a chyhoeddi fframweithiau prentisiaethau

364. Mae is-adran (1) yn caniatáu i’r Comisiwn lunio fframweithiau prentisiaethau. Caiff y Comisiwn hefyd sicrhau bod fframweithiau prentisiaethau yn cael eu llunio gan bersonau eraill.
365. Caiff y Comisiwn gyhoeddi fframweithiau prentisiaethau sy’n bodloni gofynion y fanyleb o dan adran 112, hyd yn oed pan na fo’r fframwaith prentisiaeth wedi ei lunio gan y Comisiwn neu ei sicrhau gan y Comisiwn, er enghraifft, fframwaith prentisiaeth a luniwyd gan gorff sector galwedigaethol. Caiff fframwaith prentisiaeth bennu gofynion ar gyfer

lefelau gwahanol o dan yr un alwedigaeth neu grŵp o alwedigaethau, megis canolradd (lefel 2)⁴⁸, estynedig (lefel 3), uwch (lefel 4-5) neu radd (lefel 6-7).

366. Rhaid i'r Comisiwn gadw'r fframweithiau prentisiaethau o dan adolygiad a rhaid iddo benderfynu a ddylai fframwaith gael ei ddiwygio neu ei dynnu'n ôl (is-adran (6)).
367. Rhaid i fframwaith prentisiaeth a gyhoeddir ddatgan y dyddiad y daw'r fframwaith neu'r fframwaith diwygiedig i rym (is-adran (8)).

Adran 116: Cofrestr o fframweithiau prentisiaethau

368. Rhaid i'r Comisiwn gynnal cofrestr o'r fframweithiau prentisiaethau a gyhoeddir o dan adran 115, a chyhoeddi'r gofrestr honno (is-adrannau (1) a (5)). Rhaid i'r gofrestr gynnwys dyddiad dod i rym pob fframwaith prentisiaeth neu fframwaith diwygiedig, yn ogystal â disgrifiad o unrhyw fframwaith prentisiaeth diwygiedig a sut y caiff ei gymhwyso (is-adran (3)).
369. Pan fo fframwaith prentisiaeth wedi ei dynnu'n ôl, rhaid i'r gofrestr gynnwys gwybodaeth am y dyddiad tynnu'n ôl a disgrifiad o'r achosion y mae'r tynnu'n ôl yn gymwys iddynt (is-adran (4)). Caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau i'w gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn gynnwys gwybodaeth arall yn y gofrestr (is-adran (6)).

Adran 117: Pŵer i ddyroddi tystysgrifau prentisiaethau

370. Mae'r adran hon yn caniatáu i'r Comisiwn ddyroddi "tystysgrif brentisiaeth" neu gopi o dystysgrif brentisiaeth i brentis sydd wedi cwblhau prentisiaeth Gymreig gymeradwy. Ni chaiff y Comisiwn godi ffi am ddyroddi tystysgrif brentisiaeth neu gopi o dystysgrif ond os yw'r rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru yn caniatáu ar gyfer ffi.

Adran 118: Dirprwyo swyddogaethau'r Comisiwn

371. Mae is-adran (1) yn caniatáu i'r Comisiwn ddirprwyo i berson arall ei bŵer i gyhoeddi fframweithiau prentisiaethau o dan adran 115(2) neu ei bŵer i ddyroddi tystysgrifau prentisiaethau o dan adran 117. Rhaid i'r person dynodedig gydymffurfio â chyfarwyddydau a roddir gan y Comisiwn a rhaid iddo roi sylw i unrhyw ganllawiau a ddyroddir gan y Comisiwn (is-adran (3)). Caiff y Comisiwn barhau i arfer unrhyw swyddogaethau y mae wedi eu dirprwyo i berson arall ac mae'n parhau i fod yn gyfrifol am arfer y swyddogaethau (is-adran (5)).
372. Caiff y Comisiwn wneud taliadau am wariant yr eir iddo neu dalu tâl i'r person dynodedig mewn perthynas ag arfer y swyddogaethau dirprwyedig (is-adran (6)).

Darpariaethau atodol ynghylch cytundebau prentisiaethau

Adran 119 Darpariaethau aneffeithiol mewn cytundebau prentisiaethau Cymreig cymeradwy

373. Mae is-adran (1) yn darparu os yw cytundeb yn cynnwys darpariaeth sy'n bodloni'r amodau yn adran 110(1)(a) i (c), ond hefyd yn cynnwys darpariaeth sy'n anghyson â'r amodau hynny, fod y ddarpariaeth honno i'w thrin fel pe na bai'n cael unrhyw effaith.
374. Mae is-adrannau (2) a (3) yn darparu, pan fo cyflogwr yn gwneud newidiadau i'r cytundeb prentisiaeth a fyddai'n golygu nad yw'r cytundeb prentisiaeth yn cydymffurfio mwyach â'r

48 Lefelau cymwysterau o dan Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru.

<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-01/llyfryn-fframwaith-credydau-a-chymwysterau-cymru.pdf>

fframwaith prentisiaeth neu ofynion prentisiaeth Gymreig gymeradwy, fod rhaid i'r cyflogwr hysbysu'r prentis yn ysgrifenedig am yr amrywiad, ac esbonio y bydd yr amrywiad yn golygu nad yw'r prentis ar brentisiaeth Gymreig gymeradwy mwyach. Os na wneir hyn ni fydd yr amrywiad yn cael unrhyw effaith (is-adran (4)).

Adran 120: Statws cytundebau prentisiaethau Cymreig cymeradwy

375. Mae'r adran hon darparu nad yw cytundeb prentisiaeth Cymreig gymeradwy i'w drin, at ddibenion cyfraith gyffredin na dibenion statudol, fel contract prentisiaeth (fel cydnabyddir mewn cyfraith gyffredin) ond ei fod yn hytrach yn cael ei drin fel contract gwasanaeth.

Adran 121 Trosglwyddo hawlfraint mewn fframweithiau prentisiaethau

376. Mae'r adran hon yn gwneud darpariaeth ar gyfer trosglwyddo hawlfraint i'r Comisiwn pan fo fframwaith prentisiaeth wedi ei lunio gan berson arall ac wedi ei gyhoeddi gan y Comisiwn gyda chytundeb y person hwnnw.

Adran 122: Gweision y Goron

377. Mae'r adran hon yn darparu y caiff person a gyflogir fel un o weision y Goron ymgymryd â chytundeb prentisiaeth Gymreig gymeradwy. Caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau mewn perthynas â chytundeb prentisiaeth Gymreig gymeradwy a gweision y Goron.

Cyffredinol

Adran 123: Dehongli Rhan 4

378. Mae'r adran hon yn darparu'r diffiniadau o dermau penodol a ddefnyddir yn y Rhan hon drwy gyfeirio at yr adrannau perthnasol yn y Rhan hon.

Rhan 5: Diogelu Dysgwyr, Gweithdrefnau Cwyno ac Ymgysylltu â Dysgwyr

Adran 124: Cynlluniau Diogelu Dysgwyr

379. Mae'r adran hon yn galluogi'r Comisiwn i roi hysbysiad i ddarparwr addysg drydyddol sy'n gofyn iddo gyflwyno cynllun diogelu dysgwyr i'r Comisiwn ar neu cyn y dyddiad a bennir yn yr hysbysiad.

380. Mae cynllun diogelu dysgwyr wedi ei ddiffinio gan is-adran (2) fel dogfen sy'n nodi trefniadau'r darparwr i ddiogelu buddiannau ei fyfyrwyr sydd ar gyrsiau sy'n peidio â chael eu darparu neu sy'n dymuno trosglwyddo i gwrs arall.

381. Pan fo hysbysiad wedi ei roi o dan yr adran hon, bydd y gofyniad i gael cynllun diogelu dysgwyr yn ei le ac i roi effaith iddo yn cael ei orfodi (yn achos darparwyr cofrestredig) drwy amodau cofrestru (gweler adran 31), ac fel arall drwy delerau ac amodau cyllido (gweler adrannau 89, 98 a 103).

382. Mae'r adran hon hefyd yn galluogi'r Comisiwn i gymeradwyo'r cynllun diogelu dysgwyr gydag addasiadau neu hebddynt. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i ddarparwr addysg drydyddol sy'n dymuno diwygio ei gynllun diogelu dysgwyr cymeradwy anfon cynllun diwygiedig i'r Comisiwn, ac yn caniatáu i'r Comisiwn gymeradwyo'r cynllun diogelu dysgwyr diwygiedig gydag addasiadau neu hebddynt.

383. Mae'n ofynnol i'r Comisiwn ddyroddi canllawiau ar lunio a diwygio cynlluniau diogelu dysgwyr, ac mae'n ofynnol iddo ymgynghori â'r personau hynny y mae'n ystyried eu bod yn briodol cyn dyroddi'r canllawiau hyn.

384. Mae'n ofynnol i'r Comisiwn fonitro effeithiolrwydd cynlluniau diogelu dysgwyr, a rhaid iddo gynnwys ei gasgliadau yn ei adroddiad blynyddol (a lunnir o dan baragraff 16 o Atodlen 1).
385. Mae is-adran (10) yn diffinio ystyr "cwrs perthnasol" a "darparwr addysg drydyddol" at ddibenion adrannau 124 a 125.

Adran 125: Gweithdrefnau cwyno

386. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn gymryd y camau hynny y mae'n ymddangos iddo eu bod yn briodol er mwyn sicrhau bod gan ddarparwr addysg drydyddol (fel y'i diffiniwyd) weithdrefn yn ei lle ar gyfer ymchwilio i gwynion ynghylch gweithred neu anweithred gan y darparwr, a wneir gan bersonau sy'n ymgymryd, neu wedi ymgymryd, â chyrсияu perthnasol (fel y'u diffiniwyd), a'i fod yn cymryd camau rhesymol i roi gwybod i bersonau sy'n ymgymryd â chyrсияu perthnasol am y weithdrefn. Gallai'r Comisiwn, er enghraifft, ystyried mai cam priodol oedd dyroddi canllawiau ynghylch gweithdrefnau cwyno, neu osod amod cofrestru neu amod cyllido sy'n ymwneud â gweithdrefnau cwyno.

Adran 126: Sefydliadau cymhwysol ar gyfer y cynllun cwynion myfyrwyr

387. Mae'r adran hon yn diwygio Rhan 2 o Ddeddf Addysg Uwch 2004 ("Deddf 2004") mewn perthynas â'r cynllun cwynion myfyrwyr. O dan Ran 2 o Ddeddf 2004 mae corff a ddynodir gan Weinidogion Cymru yn gweithredu cynllun cwynion myfyrwyr, y mae rhaid iddo ddarparu ar gyfer adolygu cwynion cymhwysol yn erbyn sefydliadau cymhwysol a wneir gan eu myfyrwyr neu gan gyn-fyfyrwyr. Mae adran 11 o Ddeddf 2004 yn nodi'r sefydliadau cymhwysol sy'n ddarostyngedig i'r cynllun.
388. Mae'r adran hon yn diwygio adran 11 o Ddeddf 2004 er mwyn caniatáu i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, bennu sefydliadau cymhwysol ychwanegol. Bydd modd i'r rheoliadau bennu sefydliadau cofrestredig neu sefydliadau eraill sy'n cael cyllid gan y Comisiwn o dan ddarpariaethau penodol yn y Bil. Mae adran 12 o Ddeddf 2004 wedi ei diwygio hefyd er mwyn estyn y diffiniad o gwyn cymhwysol i'r rheini a wneir gan bersonau sy'n ymgymryd â chyrсияu a gyllidir gan y Comisiwn o dan ddarpariaethau penodol yn y Bil, neu sydd wedi ymgymryd â chyrсияu o'r fath, a galluogi'r gweithredwr dynodedig i bennu fel cwynion cymhwysol y rhai a wneir gan y personau hynny ar gwrs penodol neu ddisgrifiad penodol o gwrs.

Adran 127: Y Cod Ymgysylltu â Dysgwyr

389. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn lunio a chyhoeddi "y Cod Ymgysylltu â Dysgwyr" ynghylch ymgysylltu â dysgwyr wrth wneud penderfyniadau. Mae "darparwr perthnasol" a "penderfyniad perthnasol" wedi eu diffinio yn is-adran (9). Mae rhestr ddangosol o'r math o ddarpariaethau y caiff y Cod Ymgysylltu â Dysgwyr eu cynnwys ar gael yn is-adran (2).
390. Rhaid i'r Comisiwn gadw'r Cod Ymgysylltu â Dysgwyr o dan adolygiad, ac os yw'n briodol rhaid iddo lunio a chyhoeddi cod diwygiedig. Caiff y Cod Ymgysylltu â Dysgwyr fod ar ffurf gofyniad neu ganllawiau. Rhaid i'r Comisiwn ymgynghori ag unrhyw bersonau y maent yn meddwl eu bod yn briodol wrth lunio Cod Ymgysylltu â Dysgwyr neu'r cod diwygiedig.
391. Caiff y Cod Ymgysylltu â Dysgwyr wneud darpariaethau gwahanol at ddibenion gwahanol.

392. Bydd cydymffurfedd â gofynion y Cod Ymgysylltu â Dysgwyr yn cael ei orfodi (yn achos darparwyr cofrestredig) drwy amodau cofrestru (gweler adran 31), ac fel arall drwy delerau ac amodau cyllido (gweler adrannau 89, 98, 100 a 103).
393. Rhaid i'r Comisiwn fonitro cydymffurfedd â'r Cod Ymgysylltu â Dysgwyr, a rhaid iddo gynnwys casgliadau yn ei adroddiad blynyddol o ran pa mor effeithiol fu'r Cod Ymgysylltu â Dysgwyr.

Rhan 6: Gwybodaeth, Cyngor a Chanllawiau

Adran 128: Gwybodaeth a Chyngor oddi wrth y Comisiwn a Gwybodaeth oddi wrth Weinidogion Cymru

394. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn ddarparu i Weinidogion Cymru yr wybodaeth honno am faterion sy'n ymwneud â'i swyddogaethau a'r cyngor hwnnw ar y materion hynny, yn unol â chais Gweinidogion Cymru, yn y fformat a'r modd y maent yn gofyn amdanynt. Caiff y Comisiwn hefyd roi i Weinidogion Cymru unrhyw wybodaeth neu gyngor y mae'n ystyried ei fod yn briodol.
395. Mae'r adran hon hefyd yn caniatáu i Weinidogion Cymru ddarparu unrhyw wybodaeth i'r Comisiwn sy'n ymwneud ag arfer ei swyddogaethau.

Adran 129: Personau y mae'n ofynnol iddynt ddarparu gwybodaeth i'r Comisiwn

396. Mae'r adran hon yn caniatáu i'r Comisiwn ddyroddi hysbysiad i ofyn am wybodaeth at ddibenion arfer swyddogaethau'r Comisiwn oddi wrth y rheini a restrir un is-adran (2) sy'n cynnwys personau a gyllidir a/neu a reoleiddir ganddo, megis sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach.
397. Mae'r adran hon yn gosod cyfyngiadau ar yr wybodaeth y caiff y Comisiwn ofyn amdani, er mwyn sicrhau bod yr wybodaeth y mae'r Comisiwn yn gofyn amdani yn berthnasol i swyddogaethau'r Comisiwn.
398. Mae'r adran hon yn nodi'r hyn y caiff hysbysiad ei gwneud yn ofynnol ei wneud gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, o fewn pa gyfnod o amser y mae rhaid i'r person ddarparu'r wybodaeth. At hynny, caniateir i'r Comisiwn orfodi cais am yr wybodaeth honno drwy wneud cais am waharddeb.
399. Caiff y Comisiwn hefyd roi gwybodaeth i'r rheini a restrir yn yr adran hon, ac i unrhyw berson arall y mae'n ystyried ei fod yn briodol, ynghylch unrhyw fater sy'n ymwneud â'i swyddogaethau.

Adran 130: Pwerau i rannu gwybodaeth

400. Mae'r adran hon yn rhestru adrannau eraill y llywodraeth, y cyrff eraill a'r sefydliadau eraill y caniateir iddynt rannu gwybodaeth â'r Comisiwn, at ddibenion arfer unrhyw un neu ragor o swyddogaethau'r Comisiwn. Er enghraifft, gall y Comisiwn ddymuno gael gwybodaeth am gymwysterau a ddyfernir yng Nghymru.
401. Caiff y Comisiwn hefyd roi gwybodaeth am unrhyw fater mewn perthynas â'i swyddogaethau i'r rheini a restrir yn yr adran hon ac unrhyw berson arall y mae'n ystyried ei fod yn briodol. Er enghraifft, gall y Comisiwn ddymuno rhannu gwybodaeth â chyrff addysg yn Lloegr, megis y Swyddfa Fyfyrrwyr.

402. Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau bennu cyrff neu sefydliadau eraill y caniateir iddynt rannu gwybodaeth â'r Comisiwn o dan yr adran hon. Gallai hyn gynnwys unrhyw gyrff cyhoeddus newydd neu sefydliadau cyhoeddus newydd.

Adran 131: Pŵer i'w gwneud yn ofynnol roi gwybodaeth o gyflwyno'r cais i dderbyn y cynnig

403. Mae'r adran hon yn gwneud darpariaeth i Weinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol, drwy hysbysiad, gael "gwybodaeth o gyflwyno'r cais i dderbyn y cynnig" oddi wrth gyrff sy'n darparu gwasanaethau derbyn i ddarparwyr addysg uwch yng Nghymru i'w defnyddio ar gyfer "ymchwil gymhwysol". Caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo bod yr wybodaeth hon i'w darparu naill ai iddynt hwy eu hunain neu i'r Comisiwn. Mae'r adran hon hefyd yn diffinio ystyr "gwybodaeth o gyflwyno'r cais i dderbyn y cynnig" ac "ymchwil gymhwysol".
404. Mae'r adran hon yn nodi'r hyn y caiff hysbysiad ei gwneud yn ofynnol ei wneud gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, o fewn pa gyfnod o amser y mae rhaid i'r person ddarparu'r wybodaeth. At hynny, caniateir i Weinidogion Cymru orfodi cais am yr wybodaeth honno drwy wneud cais am waharddeb.

Adran 132: Defnyddio gwybodaeth o gyflwyno'r cais i dderbyn y cynnig at ddibenion ymchwil

405. Mae'r adran hon yn gwneud darpariaeth ar gyfer sut y caiff Gweinidogion Cymru ddefnyddio'r wybodaeth a geir o dan adran 131, ac â phwy y caniateir rhannu'r wybodaeth. Mae'r adran hon hefyd yn gwneud darpariaeth ar gyfer yr amgylchiadau y caniateir cyhoeddi cynnyrch gwaith ymchwil a gynhelir gan ddefnyddio gwybodaeth a geir o dan adran 131.
406. Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau sy'n nodi'r ffactorau a ystyrir wrth gymeradwyo corff neu unigolyn y caniateir rhannu'r wybodaeth ag ef. Mae'r adran hon hefyd yn diffinio ystyr "person cymeradwy".

Adran 133: Gwybodaeth arall, cyngor arall a chanllawiau eraill

407. Mae'r adran hon yn caniatáu i'r Comisiwn roi cyngor neu ddyroddi canllawiau, fel y mae'r Comisiwn yn ystyried ei bod yn briodol, i unrhyw bersonau, ar yr amod ei fod neu eu bod yn ymwneud â darparu addysg drydyddol neu unrhyw fater arall sy'n gysylltiedig â'i swyddogaethau. Mae'n ofynnol i'r Comisiwn nodi arferion da, rhoi cyngor a dyroddi canllawiau mewn perthynas â rhannu gwybodaeth ymhlith y rheini a gyllidir neu a reoleiddir ganddo; er enghraifft drwy ddyroddi canllawiau sy'n ymdrin â systemau TG a diogelwch gwybodaeth.
408. Rhaid i'r Comisiwn gyhoeddi'r holl ganllawiau a ddyroddir o dan yr adran hon, a rhagwelir y dylai'r Comisiwn adolygu a diweddarau neu amnewid ei ganllawiau fel y bo'n ystyried bod angen gwneud hynny a phryd y mae'n ystyried bod angen gwneud hynny. Rhaid i'r Comisiwn sefydlu systemau i gasglu gwybodaeth i lywio ei benderfyniadau ynghylch addysg drydyddol a hyfforddiant.

Adran 134: Ymchwil gan y Comisiwn neu Weinidogion Cymru

409. Mae'r adran hon yn caniatáu i Weinidogion Cymru neu'r Comisiwn gyflawni gwaith ymchwil neu sicrhau y darperir adnoddau ariannol i wneud gwaith ymchwil, ac mae'n nodi ym mha feysydd pwnc y gellir gwneud y gwaith ymchwil hwn. Caniateir i unrhyw ganlyniadau gael eu cyhoeddi wedyn, ar yr amod na ellir adnabod unrhyw unigolyn o'r cyhoeddiad.

410. Mae'r adran hon yn darparu y caiff y Comisiwn osod y telerau ac amodau hynny y mae'n ystyried eu bod yn briodol ar y cyllid a ddyrennir ganddo o dan yr adran hon. Yn benodol, caniateir i'r telerau ac amodau hynny ei gwneud yn ofynnol ad-dalu cyllid (gan gynnwys â llog) os na chydymffurfir â'r dibenion y dyrennir y cyllid ar eu cyfer.
411. Mae'r adran hon hefyd yn nodi'r telerau a'r amodau y caiff y Comisiwn eu gosod ac y mae rhaid i'r Comisiwn eu gosod pan fo'n gwneud trefniadau i berson arall ddarparu adnoddau ariannol y Comisiwn.

Rhan 7: Amrywiol A Chyffredinol

Corfforaethau addysg uwch

Adran 135: Offerynnau llywodraethu corfforaethau addysg uwch yng Nghymru

412. Mae adran 135 yn diwygio adran 124A o Ddeddf Diwygio Addysg 1988 ("Deddf 1988"). Ymhlith pethau eraill, mae adran 124A o Ddeddf 1988 yn ei gwneud yn ofynnol i gorfforaeth addysg uwch yng Nghymru sicrhau bod ganddi offeryn llywodraethu yn ei le sy'n darparu ar gyfer cyfansoddiad y gorfforaeth (a'r darpariaethau eraill hynny sy'n ofynnol o dan adran 124A).
413. Mae gan y Cyfrin Gyngor swyddogaethau penodol, o dan adran 124A(2) a (3) o Ddeddf 1988, i ragnodi, gwneud neu addasu offerynnau llywodraethu corfforaethau addysg uwch.
414. Rhaid i offerynnau llywodraethu gydymffurfio (ymhlith pethau eraill) ag Atodlen 7A i Ddeddf 1988. Mae Atodlen 7A yn nodi'r gofynion statudol o ran cynnwys offerynnau llywodraethu corfforaethau addysg uwch a wneir gan y Cyfrin Gyngor.
415. O dan adran 124A(9) o Ddeddf 1988, gall Gweinidogion Cymru⁴⁹ ddiwygio neu ddiddymu unrhyw un neu ragor o baragraffau 3 i 5 ac 11 o Atodlen 7A drwy orchymyn. Mae'r paragraffau hyn yn ymwneud ag aelodaeth y gorfforaeth addysg uwch ac, yn benodol maint a chyfansoddiad y gorfforaeth a'r trefniadau o ran penodi ei haelodau.
416. Mae is-adran (2) o adran 135 o'r Bil yn gwneud darpariaeth i estyn pwerau presennol Gweinidogion Cymru i wneud gorchmynion o dan adran 124A(9) o Ddeddf 1988. Mae'r pŵer estynedig yn caniatáu i Weinidogion Cymru ddiwygio neu ddiddymu'r cyfan o Atodlen 7A i Ddeddf 1988 ac eithrio paragraff 1. Mae paragraff 1 yn galluogi offeryn llywodraethu corfforaeth addysg uwch i rymuso'r gorfforaeth i newid ei henw â chydysyniad y Cyfrin Gyngor. Mae'r paragraffau ychwanegol o Atodlen 7A a gwmpesir gan y pŵer estynedig yn ymwneud â deiliadaeth swyddi aelodau, swyddogion a phwyllgorau'r gorfforaeth, lwfansau a delir i'r aelodau, a sêl y gorfforaeth.
417. Mae is-adran (3) yn mewnosod is-adran newydd (9A) yn adran 124A o Ddeddf 1988 sy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Comisiwn ac unrhyw bersonau eraill y maent yn meddwl eu bod yn briodol cyn arfer y pwerau estynedig i wneud gorchmynion. Mae hefyd yn mewnosod is-adran newydd (9B) sy'n gwneud darpariaeth i orchymyn o'r fath a wneir gan Weinidogion Cymru wneud diwygiadau canlyniadol neu ddiddymu darpariaethau penodedig penodol yn Neddf 1988 os ydynt yn angenrheidiol o

⁴⁹ Breiniwyd y swyddogaeth yn yr Ysgrifennydd Gwladol yn wreiddiol, ond yn rhinwedd erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), ac Atodlen 1 iddo, trosglwyddwyd y swyddogaeth honno o ran Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru (a sefydlwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998). Yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru.

ganlyniad i unrhyw ddiwygiadau neu ddiddymiadau a wneir i Atodlen 7A o dan y pŵer i wneud orchmynion.

Adran 136: Erthyglau llywodraethu corfforaethau addysg uwch yng Nghymru

418. Mae adran 125 o Ddeddf 1988 yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliad sy'n cael ei redeg gan gorfforaeth addysg uwch fod ag erthyglau llywodraethu, a gymeradwyir gan y Cyfrin Gyngor, sy'n ymwneud â rhedeg y sefydliad. Mae adran 126 o'r Ddeddf honno hefyd yn gwneud darpariaeth sy'n ymwneud â chynnwys yr erthyglau llywodraethu, ynghyd â diwygio a dirymu'r erthyglau hynny.
419. Mae is-adran (2) o adran 136 o'r Bil yn mewnosod is-adrannau newydd (8) a (9) yn adran 125 o Ddeddf 1988, gan alluogi Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn, i ddiwygio neu ddiddymu adran 125(2) i (4) o Ddeddf 1988 sy'n ymwneud â chynnwys penodol yn erthyglau llywodraethu corfforaethau addysg uwch.
420. Ymhlith pethau eraill, mae adran 125(2) i (4) o Ddeddf 1988 yn gwneud darpariaeth i'r erthyglau bennu dosbarthiad swyddogaethau rhwng bwrdd y llywodraethwyr, pennaeth y sefydliad a'r bwrdd academaidd a rheoleiddio cyfansoddiad a swyddogaethau pwyllgorau'r gorfforaeth. Mae'r darpariaethau hynny hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r erthyglau wneud darpariaeth mewn cysylltiad â gweithdrefnau cyfarfodydd bwrdd y llywodraethwyr, y bwrdd academaidd, pwyllgorau'r gorfforaeth ac ar gyfer penodi aelodau'r gorfforaeth. Yn ogystal, maent yn galluogi i'r erthyglau wneud darpariaeth sy'n awdurdodi bwrdd y llywodraethwyr i wneud rheolau neu is-ddeddfau ar gyfer llywodraethiant y sefydliad a rhedeg y sefydliad.
421. Bydd yr is-adran newydd (9) yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i ymgynghori â'r Comisiwn ac unrhyw bersonau eraill y maent yn meddwl eu bod yn briodol cyn arfer y pwerau newydd i wneud gorchmynion.
422. Mae is-adran (3) yn diwygio adran 232 o Ddeddf 1988.
423. Gwneir y diwygiad i adran 232 o Ddeddf 1988 (gorchmynion a rheoliadau) er mwyn sicrhau bod is-adran (1) o'r adran honno (sy'n ei gwneud yn ofynnol i orchmynion a rheoliadau o dan Ddeddf 1988 gael eu gwneud drwy offeryn statudol) yn cwmpasu pwerau newydd Gweinidogion Cymru i wneud gorchmynion a roddir gan adrannau 135 a 136 o'r Bil.
424. Mae is-adrannau (4ZA), (4ZB) a (4ZC), a fewnosodir yn adran 232 o Ddeddf 1988 gan adran 127(3)(b) o'r Bil, yn gwneud darpariaeth sy'n ymwneud â gweithdrefn Senedd Cymru sy'n gysylltiedig â phwerau Gweinidogion Cymru i wneud gorchmynion a rheoliadau o dan Ddeddf 1988, fel y'u mewnosodir gan y Bil hwn.

Adran 137: Diddymu corfforaethau addysg uwch yng Nghymru

425. Mae'r adran hon yn diwygio adran 128 o Ddeddf 1988 sy'n ymwneud â diddymu corfforaethau addysg uwch.
426. Mae adran 128(2) fel y'i diwygir yn cynnwys pŵer i Weinidogion Cymru, drwy orchymyn, ddarparu ar gyfer diddymu corfforaeth addysg uwch yng Nghymru a throsglwyddo ei heiddo, ei hawliau a'i hatebolrwyddau i unrhyw un neu ragor o'r canlynol:
- unrhyw berson y mae'n ymddangos i Weinidogion Cymru ei fod yn ymwneud yn gyfan gwbl neu'n bennaf â darparu cyfleusterau neu wasanaethau addysgol o unrhyw ddisgrifiad;

- unrhyw gorff corfforedig a sefydlir at ddibenion sy'n cynnwys darparu cyfleusterau neu wasanaethau o'r fath;
- y Comisiwn;
- Gweinidogion Cymru.

427. Ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud gorchymyn o dan adran 128(2) o Ddeddf 1988 ond os yw'r gorfforaeth addysg uwch sydd i'w diddymu wedi gofyn i orchymyn gael ei wneud, neu wedi cydsynio i orchymyn gael ei wneud. Caniateir i orchymyn gael ei wneud heb gydsyniad y gorfforaeth addysg uwch, os yw Gweinidogion Cymru yn ystyried bod cydsyniad wedi ei atal yn afresymol neu ei oedi'n afresymol.
428. Mae adran 128(4) o Ddeddf 1988, fel y'i diwygir gan adran 137(4) o'r Bil, yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r gorfforaeth addysg uwch sydd i'w diddymu a'r Comisiwn cyn gwneud gorchymyn o dan is-adran (1).
429. Mae adran 137 o'r Bil yn gwneud diwygiadau i adran 128 o Ddeddf 1988 o ganlyniad i greu'r Comisiwn, gan roi cyfeiriadau at y Comisiwn yn lle cyfeiriadau at CCAUC.
430. Mae is-adran (3) yn gwneud darpariaeth newydd ynghylch y pŵer o dan adran 128(1)(b) i wneud darpariaeth drwy orchymyn i drosglwyddo eiddo, hawliau ac atebolrwyddau'r gorfforaeth addysg uwch sy'n cael ei diddymu. Mewnositir is-adran newydd (1A) yn adran 128 sy'n darparu –
- y caiff gorchymynion wneud darpariaeth ynghylch effaith trosglwyddo ar unrhyw hawl i ragbrynu, hawl i ddychwelyd neu hawl debyg arall a all fod yn gymwys mewn cysylltiad ag eiddo neu hawliau o'r fath (gan gynnwys darpariaeth ynghylch cyfrifo a thalu unrhyw ddiogollediad teg);
 - bod gorchymynion yn cael effaith mewn perthynas ag eiddo, hawliau neu atebolrwyddau y maent yn gymwys iddynt er gwaethaf unrhyw ddarpariaeth (o ba natur bynnag) mewn unrhyw ddeddfiad neu unrhyw reol gyfreithiol, a fyddai fel arall yn rhwystro neu'n cosbi trosglwyddiad yr eiddo, yr hawliau neu'r atebolrwyddau neu'n cyfyngu ar eu trosglwyddo.
431. Mae is-adran (6) yn mewnosod is-adran newydd (7) yn adran 128 o Ddeddf 1988 sy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi datganiad sy'n nodi'r amgylchiadau y maent yn bwriadu arfer y pŵer o dan yr adran hon i wneud gorchymyn odanynt, a'i gadw o dan adolygiad. Rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r personau hynny y maent yn ystyried eu bod yn briodol cyn cyhoeddi'r datganiad, neu ddatganiad diwygiedig, a gosod copi ohono gerbron y Senedd cyn gynted â phosibl ar ôl iddo gael ei gyhoeddi.

Ymgynghoriad ynghylch gwasanaethau gyrfaedd

Adran 138: Dyletswydd i ymgynghori â'r Comisiwn ynghylch gwasanaethau gyrfaedd

432. Mae'r adran hon yn mewnosod adran newydd 9A ar ôl adran 9 o Ddeddf Cyflogaeth a Hyfforddiant 1973 ("Deddf 1973").
433. Bydd yr adran newydd 9A yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i ymgynghori â'r Comisiwn bob blwyddyn ynghylch blaenoriaethau strategol ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf er mwyn arfer eu dyletswydd yn adran 8 ac arfer eu pŵer yn adran 9 o Ddeddf 1973. Mae adran 8 o Ddeddf 1973 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i sicrhau bod gwasanaethau gyrfaedd yn cael eu darparu i ddisgyblion mewn ysgolion a myfyrwyr mewn addysg bellach a hyfforddiant. Mae adran 9 o'r Ddeddf yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i ddarparu gwasanaethau gyrfaedd ar gyfer eraill.

434. At ddiben yr adran hon, diffinnir blwyddyn ariannol fel cyfnod o 12 mis sy'n dod i ben ar 31 Mawrth.

Cyffredinol

Adran 139: Cyhoeddi

435. Mae adran 139 yn gwneud darpariaeth sy'n ymwneud â phob dyletswydd o dan y Bil (ond nid dyletswydd a osodir drwy ddiwygio deddfiad arall) i gyhoeddi rhywbeth. Drwy gydol y Bil hwn, ble bynnag y bo dyletswydd i gyhoeddi adroddiad neu gynllun, rhaid iddo gael ei gyhoeddi'n electronig, ar wefan y darparwr neu'r sefydliad, a bod yn hygyrch ac yn rhad ac am ddim.
436. Caiff y darparwr neu'r sefydliad y mae dyletswydd arno i gyhoeddi hefyd ddewis cyhoeddi mewn unrhyw ffordd y mae'n ystyried ei bod yn briodol. Caniateir darparu copïau o'r adroddiadau neu'r cynlluniau a gyhoeddir yn rhad ac am ddim, neu ar ôl talu ffi nad yw'n fwy na chost gwneud y copi.

Adran 140: Rheoliadau

437. Mae'r adran hon yn gwneud darpariaeth gyffredinol ynghylch sut y mae'r rheoliadau amrywiol y caniateir eu gwneud o dan y Bil i'w gwneud. Mae hyn yn cynnwys darpariaeth ynghylch gweithdrefnau'r Senedd sy'n gymwys mewn perthynas â'r rheoliadau, a'r ddarpariaeth ategol (hynny yw, darpariaeth atodol, darpariaeth gysylltiedig, darpariaeth ganlyniadol, darpariaeth drosiannol, darpariaeth ddarfodol neu ddarpariaeth arbed) y caniateir ei gwneud yn y rheoliadau hyn.

Adran 141: Dehongli cyffredinol

438. Mae'r adran hon yn diffinio ystyr termau penodol a ddefnyddir yn y Bil hwn ac mae'n hunanesboniadol.

Adran 142: Pŵer i ddarparu i'r Brifysgol Agored gael ei thrin fel darparwr addysg drydyddol yng Nghymru

439. Mae'r adran hon yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i gymhwysu'r darpariaethau o dan y Bil hwn i'r Brifysgol Agored. Nid yw'r Brifysgol Agored yn dod o fewn y diffiniad o "darparwr addysg drydyddol yng Nghymru" oherwydd nad yw ei gweithgareddau yn cael eu cynnal "yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru". Bydd y pŵer hwn yn yr adran hon yn caniatáu i Weinidogion Cymru drin y Brifysgol Agored fel darparwr addysg drydyddol yng Nghymru. Caiff hyn fod er mwyn cymhwysu'r amodau cofrestru, cynlluniau diogelu dysgwyr a darpariaethau eraill i'r Brifysgol Agored er mwyn sicrhau cyllid a diogelwch ar gyfer dysgwyr yng Nghymru sy'n ymgymryd â chyrsgiau astudio gyda'r Brifysgol Agored.

Adran 143: Pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol a darpariaeth drosiannol etc.

440. Mae'r adran hon yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud y ddarpariaeth gysylltiedig, y ddarpariaeth ganlyniadol, y ddarpariaeth atodol, y ddarpariaeth drosiannol, y ddarpariaeth ddarfodol neu'r ddarpariaeth arbed honno y maent yn meddwl ei bod yn briodol at ddiben unrhyw ddarpariaeth a wneir gan y Bil hwn neu oddi tano, gan gynnwys mewn perthynas â'r darpariaethau sydd wedi eu cynnwys yn y Bil hwn, mewn cysylltiad ag unrhyw ddarpariaeth o'r fath neu er mwyn rhoi effaith lawn i unrhyw ddarpariaeth o'r fath.

Adran 144 ac Atodlen 4: Mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol

441. Mae Atodlen 4 (a gyflwynir gan adran 144) yn nodi'r mân ddiwygiadau a'r diwygiadau canlyniadol i ddeddfwriaeth bresennol fel y mae'r Bil yn effeithio arni.

442. Os ystyrir bod disgrifiad o ran effaith y diwygiad o gymorth, fe'i cynhwysir. Os yw diwygiad wedi ei ddisgrifio yn rhywle arall yn y nodiadau esboniadol hyn, nis disgrifir yma; yn yr un modd, ni ddisgrifir mân ddiwygiadau megis newidiadau mewn deddfwriaeth bresennol o "Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru" i "y Comisiwn Addysg Drydyddol".
443. Mae paragraff 11(2) yn diddymu adrannau 31 - 33 o Ddeddf 2000, sef prif ddyletswyddau Gweinidogion Cymru mewn perthynas ag addysg a hyfforddiant ôl-16.
<p>1 Trosolwg ar y Ddeddf hon</p> <p>(1) Mae 6 Rhan i'r Ddeddf hon.</p> <p>(2) Mae Rhan 2 wedi ei rhannu'n 3 Pennod sy'n cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â chynnal a gwella safonau—</p> <p>(a) mewn ysgolion a gynhelir, a</p> <p>(b) yn y modd y mae swyddogaethau addysg yn cael eu harfer gan awdurdodau lleol.</p> <p>(3) Mae Pennod 1 o Ran 2 (gan gynnwys Atodlen 1)—</p> <p>(a) yn nodi'r seiliau dros ymyrraeth gan awdurdodau lleol a Gweinidogion Cymru ym materion rhedeg ysgolion a gynhelir sy'n peri pryder, a</p> <p>(b) yn darparu amrediad o bwerau ymyrryd i alluogi awdurdodau lleol a Gweinidogion Cymru i ymdrin ag achosion y pryder.</p> <p>(4) Mae Pennod 2—</p> <p>(a) yn nodi'r seiliau dros ymyrraeth gan Weinidogion Cymru ym materion arfer swyddogaethau addysg gan awdurdodau lleol sy'n peri pryder, a</p> <p>(b) yn darparu amrediad o bwerau ymyrryd i alluogi Gweinidogion Cymru i ymdrin ag achosion y pryder.</p> <p>(5) Mae Pennod 3 yn gwneud darpariaeth i Weinidogion Cymru roi canllawiau i gyrrff llywodraethu ysgolion a gynhelir, penaethiaid ysgolion o'r fath ac awdurdodau lleol ynghylch sut y dylai swyddogaethau gael eu harfer gyda golwg ar wella safon yr addysg sy'n cael ei darparu mewn ysgolion a gynhelir.</p> <p>(6) Mae Rhan 3 wedi ei rhannu'n 6 Phennod sy'n cynnwys darpariaeth am drefniadaeth ysgolion a gynhelir.</p> <p>(7) Mae Pennod 1 o Ran 3 yn darparu ar gyfer Cod Trefniadaeth Ysgolion ynghylch arfer swyddogaethau o dan Ran 3.</p> <p>(8) Mae Pennod 2 (gan gynnwys Atodlenni 2 i 4) yn gwneud darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i sefydlu, newid a therfynu ysgolion a gynhelir yn unol â phroses benodedig.</p> <p>(9) Mae Pennod 3 yn darparu ar gyfer rhesymoli lleoedd ysgol os yw Gweinidogion Cymru o'r farn bod darpariaeth ormodol neu annigonol ar gyfer addysg gynradd neu uwchradd mewn ysgolion a gynhelir.</p> <p><u>(9A) Mae Pennod 3A yn darparu pwerau i'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil resymoli addysg chweched dosbarth.</u></p> <p>(10) Mae Pennod 4 yn darparu ar gyfer gwneud darpariaeth ranbarthol ar gyfer anghenion <i>addysgol arbennig</i> dysgu ychwanegol.</p> <p>(11) Mae Pennod 5 yn darparu pwerau i Weinidogion Cymru ailstrwythuro addysg chweched dosbarth.</p> <p>(12) Mae Pennod 6 yn darparu ar gyfer materion amrywiol ac atodol sy'n ymwneud â threfniadaeth ysgolion.</p> <p>(13) Mae Rhan 4 yn gwneud darpariaeth ar gyfer cynlluniau strategol Cymraeg mewn addysg, sydd—</p> <p>(a) i'w paratoi gan awdurdodau lleol,</p>	<p>Atodlen 4 Paragraff 28</p>

Adran	Diwygiwyd gan
<p>(b) i'w cymeradwyo gan Weinidogion Cymru, ac</p> <p>(c) i'w cyhoeddi a'u gweithredu gan awdurdodau lleol (adrannau 84, 85 a 87).</p> <p>(14) Mae Rhan 4 hefyd yn darparu pŵer sy'n arferadwy drwy reoliadau i Weinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wneud asesiad o'r galw ymhlith rhieni am addysg cyfrwng Cymraeg i'w plant (adran 86).</p> <p>(15) Mae Rhan 5 yn gwneud darpariaeth am swyddogaethau amrywiol sy'n ymwneud ag ysgolion a gynhelir, gan gynnwys darpariaeth—</p> <p>(a) sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu brecwast ar gyfer disgyblion mewn ysgolion cynradd a gynhelir ar gais cyrff llywodraethu'r ysgolion hynny (adrannau 88 i 90);</p> <p>(b) sy'n diwygio pwerau presennol awdurdodau lleol a chyrrff llywodraethu i godi tâl am brydau ysgol, fel bod—</p> <p>(i) gofyniad cysylltiedig i godi'r un pris ar bob person am yr un maint o'r un eitem yn cael ei ddileu, a</p> <p>(ii) gofyniad newydd na fydd y pris a godir am eitem yn fwy na chost darparu'r eitem honno yn cael ei osod (adran 91);</p> <p>(c) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol sicrhau darpariaeth resymol am wasanaeth sy'n cwnsela mewn cysylltiad ag anghenion iechyd, anghenion emosiynol ac anghenion cymdeithasol i ddisgyblion ysgol penodedig a phlant eraill (adran 92);</p> <p>(d) yn ei gwneud yn ofynnol i gyrrff llywodraethu ysgolion a gynhelir gynnal cyfarfod os gofynnir iddynt wneud hynny gan rieni mewn deiseb (adran 94) ac yn diddymu dyletswydd sy'n bodoli eisoes i gynnal cyfarfod blynyddol rhieni (adran 95);</p> <p>(e) yn diddymu dyletswydd Gweinidogion Cymru i ddyroddi cod ymarfer ar gyfer sicrhau perthynas effeithiol rhwng awdurdodau lleol ac ysgolion a gynhelir (adran 96).</p> <p>(16) Mae Rhan 6—</p> <p>(a) yn cyflwyno Atodlen 5, sy'n gwneud mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol i ddeddfwriaeth arall sy'n codi o ddarpariaethau'r Ddeddf hon;</p> <p>(b) yn cynnwys diffiniadau sy'n gymwys at ddibenion y Ddeddf hon yn gyffredinol a mynegai o ddiffiniadau sy'n gymwys i nifer o ddarpariaethau, ond nid yr holl Ddeddf (adran 98);</p> <p>(c) yn cynnwys darpariaethau eraill sy'n gymwys yn gyffredinol at ddibenion y Ddeddf hon.</p>	
<p>38 Cod Trefniadaeth Ysgolion</p> <p>(1) Rhaid i Weinidogion Cymru ddyroddi cod am drefniadaeth ysgolion ("y Cod"), a chaniateir iddynt ei ddiwygio o dro i dro.</p> <p>(2) Mae'r Cod i gynnwys darpariaeth ynghylch arfer swyddogaethau'r personau canlynol o dan y Rhan hon—</p> <p>(a) Gweinidogion Cymru;</p> <p>(b) awdurdodau lleol;</p> <p>(c) cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir;</p>	<p>Atodlen 4 Paragraff 28</p>

Adran	Diwygiwyd gan
<p><u>(ca) y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil;</u></p> <p>(d) personau eraill mewn cysylltiad â chynigion a wneir (neu sydd i'w gwneud) ganddynt o dan y Rhan hon.</p> <p>(3) Caiff y Cod osod gofynion, a chaiff gynnwys canllawiau sy'n nodi nodau, amcanion a materion eraill.</p> <p>(4) Rhaid i'r personau y cyfeiriwyd atynt yn is-adran (2), wrth arfer eu swyddogaethau o dan y Rhan hon—</p> <p>(a) gweithredu'n unol ag unrhyw ofynion perthnasol a gynhwysir yn y Cod, a</p> <p>(b) rhoi sylw i unrhyw ganllawiau perthnasol a gynhwysir ynddo.</p> <p>(5) Mae'r ddyletswydd a osodir gan is-adran (4) yn gymwys hefyd i berson sy'n arfer swyddogaeth at ddibenion cyflawni swyddogaethau o dan y Rhan hon gan—</p> <p>(a) Gweinidogion Cymru,</p> <p>(b) awdurdod lleol,</p> <p>(c) corff llywodraethu ysgol a gynhelir, neu</p> <p><u>(ca) y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil neu;</u></p> <p>(d) personau eraill mewn cysylltiad â chynigion a wneir (neu sydd i'w gwneud) ganddynt o dan y Rhan hon.</p> <p>(6) Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi ar eu gwefan y Cod sydd mewn grym am y tro.</p> <p>(7) Caiff Gweinidogion Cymru wneud darpariaeth ar wahân (drwy gyfrwng codau ar wahân) mewn perthynas â swyddogaethau gwahanol o dan y Rhan hon sy'n perthyn i'r personau a grybwyllwyd yn is-adran (2).</p> <p>(8) Mae cyfeiriadau yn yr adran hon at "y Cod" neu at swyddogaethau o dan y Rhan hon yn cael effaith, mewn perthynas â chod ar wahân, fel cyfeiriadau at y cod hwnnw neu at swyddogaethau o dan y Rhan hon y mae'n ymwneud â hwy.</p>	
<p>39. Llunio a chymeradwyo Cod Trefniadaeth Ysgolion</p> <p>(1) Cyn dyroddi neu ddiwygio cod o dan adran 38, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r personau a ganlyn ynghylch drafft o'r cod (neu'r cod diwygiedig)-</p> <p>(a) pob awdurdod lleol,</p> <p>(b) corff llywodraethu pob ysgol a gynhelir,</p> <p>(c) Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, ae</p> <p><u>(ca) y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil, a</u></p> <p>(d) unrhyw berson arall sy'n briodol ym marn Gweinidogion Cymru.</p> <p>(2) Os yw Gweinidogion Cymru yn dymuno bwrw ymlaen â'r drafft (gydag addasiadau neu hebddynt), rhaid iddynt osod copi o'r drafft gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.</p> <p>(3) Os yw'r Cynulliad Cenedlaethol, cyn diwedd y cyfnod o 40 o ddiwrnodau, yn penderfynu peidio â chymeradwyo'r drafft o'r cod, rhaid i Weinidogion Cymru beidio â dyroddi'r cod arfaethedig ar ffurf y drafft hwnnw.</p>	<p>Atodlen 4 Paragraff 28</p>

Adran	Diwygiwyd gan
<p>(4) Os na chaiff unrhyw benderfyniad o'r fath ei wneud cyn diwedd y cyfnod hwnnw—</p> <p>(a) rhaid i Weinidogion Cymru ddyroddi'r cod (neu'r cod diwygiedig) ar ffurf y drafft, a</p> <p>(b) daw'r cod (neu'r cod diwygiedig) i rym ar y dyddiad a bennir drwy orchymyn gan Weinidogion Cymru.</p> <p>(5) O ran y cyfnod o 40 o ddiwrnodau-</p> <p>(a) mae'n dechrau ar y diwrnod y caiff y drafft ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a</p> <p>(b) nid yw'n cynnwys unrhyw amser pryd y mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi ei ddiddymu neu wedi cymryd saib am fwy na phedwar diwrnod.</p> <p>(6) Nid yw is-adran (3) yn atal drafft newydd o god arfaethedig rhag cael ei osod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol.</p> <p>(7) Mae cyfeiriadau yn yr adran hon at god arfaethedig yn cynnwys cod diwygiedig arfaethedig.</p> <p>(8) Caniateir i'r gofyniad i ymgynghori a osodir gan is-adran (1) gael ei fodloni drwy ymgynghoriad yr ymgwymerwyd ag ef cyn i'r Rhan hon ddod i rym er bod y cod a ddyroddir o dan adran 38(1) yn cymryd i ystyriaeth (i unrhyw raddau) unrhyw ddarpariaeth a wneir gan y Rhan hon.</p>	
<p>50 Eu cymeradwyo gan Weinidogion Cymru</p> <p>(1) Mae'n ofynnol i gynigion a gyhoeddir o dan adran 48 gael eu cymeradwyo o dan yr adran hon-</p> <p>(a) <u>os yw'r cynigion yn effeithio ar addysg chweched dosbarth ac os yw gwrthwynebiad wedi ei wneud i'r cynigion yn unol ag adran 49(2) ac os nad yw wedi ei dynnu yn ôl yn ysgrifenedig cyn diwedd 28 o ddiwrnodau gan ddechrau ar ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu</u>, neu</p> <p>(b) os yw'r cynigion wedi eu gwneud gan gynigydd ac eithrio'r awdurdod lleol perthnasol ac os yw gwrthwynebiad wedi ei wneud gan yr awdurdod hwnnw yn unol ag adran 49(2) ac os nad yw wedi ei dynnu yn ôl yn ysgrifenedig cyn diwedd 28 o ddiwrnodau gan ddechrau ar ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu.</p> <p>(2) Mae cynigion yn effeithio ar addysg chweched dosbarth—</p> <p>(a) os ydynt yn gynigion i sefydlu neu derfynu ysgol sy'n darparu addysg sy'n addas at anghenion personau sydd dros oedran ysgol gorfodol yn unig, neu</p> <p>(b) os ydynt yn gynigion i wneud newid rheoleiddiedig i ysgol, y byddai ei effaith yn golygu bod darparu addysg sy'n addas i anghenion personau sydd dros oedran ysgol gorfodol yn yr ysgol yn cynyddu neu'n lleihau.</p> <p>(3) Pan fo'n ofynnol i gynigion gael eu cymeradwyo o dan yr adran hon, rhaid i'r cynigydd anfon copi o'r dogfennau a restrir yn is-adran (4) at Weinidogion Cymru cyn diwedd 35 o ddiwrnodau gan ddechrau ar ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu.</p> <p>(4) Y dogfennau yw'r canlynol—</p>	<p>Atodlen 4 Paragraff 28</p>

Adran	Diwygiwyd gan
<p>(a) yr adroddiad a gyhoeddir o dan adran 48(5),</p> <p>(b) y cynigion cyhoeddedig,</p> <p>(c) unrhyw wrthwynebiadau a wneir yn unol ag adran 49(2) (ac nad ydynt wedi eu tynnu'n ôl), a</p> <p>(d) pan fo gwrthwynebiadau wedi eu gwneud felly (a heb gael eu tynnu'n ôl), yr ymateb a gyhoeddir o dan adran 49(3).</p> <p>(5) Pan fo angen i gynigion gael cymeradwyaeth o dan yr adran hon, caiff Gweinidogion Cymru—</p> <p>(a) gwrthod y cynigion,</p> <p>(b) eu cymeradwyo heb eu haddasu, neu</p> <p>(c) eu cymeradwyo gydag addasiadau—</p> <p>(i) ar ôl cael cydsyniad y cynigydd â'r addasiadau, a</p> <p>(ii) (ac eithrio os y cynigydd yw'r corff llywodraethu neu'r awdurdod lleol, yn ôl y digwydd), ar ôl ymgynghori â chorff llywodraethu (os oes un) yr ysgol y mae'r cynigion yn ymwneud â hi a'r awdurdod lleol perthnasol.</p> <p>(6) Caniateir i gymeradwyaeth ddatgan mai dim ond os bydd digwyddiad a bennir yn y gymeradwyaeth yn digwydd erbyn dyddiad a bennir felly, y byddai'n dod yn weithredol.</p> <p>(7) Caiff Gweinidogion Cymru, ar gais y cynigydd, bennu dyddiad diweddarach erbyn pryd y mae'r digwyddiad y cyfeiriwyd ato yn is-adran (6) i ddigwydd.</p> <p>(8) Nid yw is-adran (1) yn atal cynigion rhag cael eu tynnu'n ôl drwy hysbysiad ysgrifenedig a roddir gan y cynigydd i Weinidogion Cymru ar unrhyw bryd cyn iddynt gael eu cymeradwyo o dan yr adran hon.</p> <p>(9) Nid yw'n ofynnol i gynigion a wneir o dan adran 43 neu 44 i derfynu ysgol sy'n ysgol fach (gweler adran 56) gael unrhyw gymeradwyaeth o dan yr adran hon.</p> <p>(10) Yn yr adran hon ystyr "awdurdod lleol perthnasol" yw'r awdurdod lleol sy'n cynnal, neu y cynigir ei fod yn cynnal, yr ysgol y mae'r cynigion yn ymwneud â hi.</p>	
<p>54 Eu hatgyfeirio i Weinidogion Cymru</p> <p>(1) Mae'r adran hon yn gymwys os yw awdurdod lleol wedi—</p> <p>(a) penderfynu cymeradwyo neu wrthod cynigion o dan adran 51(4), neu</p> <p>(b) penderfynu o dan adran 53(1) i weithredu cynigion y gwnaed gwrthwynebiad iddynt yn unol ag adran 49 (ac nas tynnwyd yn ei ôl yn ysgrifenedig cyn diwedd 28 o ddiwrnodau gan ddechrau ar ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu).</p> <p>(2) Cyn diwedd 28 o ddiwrnodau gan ddechrau ar ddiwrnod penderfynu'r awdurdod lleol o dan adran 51(4) neu 53(1), caiff y canlynol atgyfeirio'r cynigion i Weinidogion Cymru—</p> <p>(a) awdurdod lleol arall y mae'n debyg y bydd y cynigion yn effeithio arno;</p>	<p>Atodlen 4 Paragraff 28</p>

Adran	Diwygiwyd gan
<p>(b) awdurdod lleol yn Lloegr y mae'n debyg y bydd y cynigion yn effeithio arno;</p> <p>(c) y corff crefyddol priodol ar gyfer—</p> <p>(i) yr ysgol y mae'r cynigion yn ymwneud â hi os yw'n ysgol sydd â chymeriad crefyddol, neu y bwriedir iddi fod yn ysgol o'r fath, neu</p> <p>(ii) unrhyw ysgol arall sydd â chymeriad crefyddol ac y mae'n debyg y bydd y cynigion yn effeithio arni;</p> <p>(d) os yw'r ysgol y mae'r cynigion yn ymwneud â hi yn ysgol sefydledig neu'n ysgol wirfoddol, corff llywodraethu'r ysgol;</p> <p>(e) ymddiriedolaeth sy'n dal eiddo at ddibenion yr ysgol y mae'r cynigion yn ymwneud â hi;</p> <p>(f) sefydliad o fewn y sector addysg bellach y mae'n debyg y bydd y cynigion yn effeithio arno.</p> <p><u>(g) os yw'r cynigion yn effeithio ar addysg chweched dosbarth, y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil.</u></p> <p>(3) Cwestiwn i gael ei benderfynu gan Weinidogion Cymru yw a yw awdurdod, ysgol neu sefydliad yn debyg o gael ei effeithio gan y cynigion at ddiben is-adran (2).</p> <p><u>(3A) Mae cynigion yn effeithio ar addysg chweched dosbarth at ddiben is-adran (2)(g)—</u></p> <p><u>(a) os ydynt yn gynigion i sefydlu neu derfynu ysgol sy'n darparu addysg sy'n addas i ofynion personau dros oedran ysgol gorfodol yn unig, neu</u></p> <p><u>(b) os ydynt yn gynigion i wneud newid rheoleiddiedig i ysgol, y byddai ei effaith yn golygu bod darparu addysg sy'n addas i ofynion personau dros oedran ysgol gorfodol yn yr ysgol yn cynyddu neu'n lleihau."</u></p> <p>(4) Rhaid i Weinidogion Cymru ystyried cynigion a atgyfeiriwyd iddynt o dan yr adran hon o'r newydd ac mae is-adrannau (5) i (8) o adran 50 yn gymwys fel petai angen eu cymeradwyaeth o dan yr adran honno.</p> <p>(5) Ni chaniateir i gynigion a wneir o dan adran 43 neu 44 i derfynu ysgol sy'n ysgol fach (gweler adran 56) gael eu hatgyfeirio i Weinidogion Cymru o dan yr adran hon.</p> <p>(6) Os yw'n ofynnol i Weinidogion Cymru ystyried cynigion a atgyfeiriwyd o dan yr adran hon, nid yw'r cynigion hynny i'w trin at ddibenion adran 55 neu 61 fel rhai a gymeradwywyd o dan adran 51 neu fel cynigion y mae'r cynigydd wedi penderfynu eu gweithredu o dan adran 53.</p> <p>(7) Os yw Gweinidogion Cymru yn cymeradwyo cynigion yn unol â'r adran hon, mae'r cynigion i'w trin at ddibenion adran 55 fel petaent wedi eu cymeradwyo o dan adran 50.</p> <p>(8) Os yw Gweinidogion Cymru yn gwrthod cynigion yn unol â'r adran hon, mae'r cynigion i'w trin at ddibenion paragraff 35(3)(e) o Atodlen 4 fel petaent wedi eu gwrthod o dan adran 50.</p>	
<p>61 Ymchwiliad lleol i gynigion</p> <p>(1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo Gweinidogion Cymru wedi gwneud cynigion o dan adran 59 (ac eithrio cynigion a wnaed yn rhinwedd adran 62(1)) nad ydynt wedi eu tynnu'n ôl.</p>	<p>Atodlen 4 Paragraff 28</p>

Adran	Diwygiwyd gan
<p>(2) Os yw gwrthwynebiadau wedi eu gwneud yn unol ag adran 60(2), yna, oni fydd pob gwrthwynebiad sydd wedi ei wneud felly wedi ei dynnu'n ôl yn ysgrifenedig o fewn yr 28 o ddiwrnodau y cyfeiriwyd atynt yn yr adran honno, rhaid i Weinidogion Cymru beri bod ymchwiliad lleol yn cael ei gynnal.</p> <p>(30 Diben yr ymchwiliad lleol yw ystyried cynigion Gweinidogion Cymru, unrhyw gynigion eraill y mae Gweinidogion Cymru yn eu cyfeirio at yr ymchwiliad a'r gwrthwynebiadau a grybwyllwyd yn is-adran (2).</p> <p>(4) Mae cynigion a gyfeirir at ymchwiliad lleol o dan yr adran hon i'w penderfynu o dan adran 62 ac nid yw adrannau 50, 51, 53, 54, <u>63F, 63G a 70 70 a 73</u> yn gymwys iddynt.</p> <p>(5) Pan fo'n ofynnol i ymchwiliad lleol gael ei gynnal, rhaid i Weinidogion Cymru gyfeirio'r cynigion a restrir yn is-adran (6) i'r ymchwiliad os yw'r cynigion—</p> <p>(a) heb gael eu penderfynu cyn i drafodion yr ymchwiliad ddechrau, a</p> <p>(b) yn ymddangos i Weinidogion Cymru eu bod yn rhai sy'n gysylltiedig â'r cynigion a wnaed o dan adran 59 ac y mae'r ymchwiliad i'w gynnal mewn cysylltiad â hwy.</p> <p>(6) Y cynigion sydd i'w cyfeirio yw—</p> <p>(a) unrhyw gynigion eraill a gyhoeddir o dan adran 59 mewn perthynas ag ardal yr awdurdod lleol (ac sydd heb gael eu tynnu'n ôl);</p> <p>(b) unrhyw gynigion a wneir gan yr awdurdod hwnnw wrth arfer eu pwerau i wneud cynigion i sefydlu, newid neu derfynu ysgolion (ac sydd heb gael eu tynnu'n ôl);</p> <p>(c) unrhyw gynigion a wneir gan gorff llywodraethu ysgol sefydledig neu wirfoddol yn yr ardal wrth arfer ei bwerau i wneud cynigion i newid ei ysgol (a'r rheini'n gynigion sydd heb gael eu tynnu'n ôl);</p> <p>(d) unrhyw gynigion a wneir o dan adran 68 neu 71 <u>63C neu 68</u> (ac sydd heb gael eu tynnu'n ôl).</p> <p>(7) Os bydd Gweinidogion Cymru, cyn bod trafodion yr ymchwiliad yn dechrau, yn ffurfio barn y dylid gweithredu unrhyw gynigion, nid yw is-adran (5) yn ei gwneud yn ofynnol iddynt gyfeirio'r cynigion hynny i'r ymchwiliad oni fyddant yn ffurfio barn wahanol cyn bod—</p> <p>(a) trafodion yr ymchwiliad wedi eu cwblhau, neu</p> <p>(b) (os ydynt yn gynharach) y cynigion wedi eu penderfynu.</p> <p>(8) Nid yw'n agored i'r ymchwiliad gwestiynu'r egwyddorion a bennir yn y cyfarwyddyd o dan adran 57(2). <u>mewn cyfarwyddyd o dan adran 57(2) neu 63A(1);</u></p> <p>(9) Mae cyfeiriadau yn yr adran hon at benderfynu cynigion yn cyfeirio at—</p> <p>(a) penderfyniad p'un ai i fabwysiadu neu i gymeradwyo'r cynigion o dan adran 50, 51, 62, 70 neu 73 <u>63F neu 70;</u></p> <p>(b) penderfyniad p'un ai i weithredu'r cynigion o dan adran 53 <u>neu 63G</u> ai peidio;</p> <p>(c) penderfyniad p'un ai i gymeradwyo cynigion a atgyfeiriwyd i Weinidogion Cymru o dan adran 54 ai peidio.</p>	

Adran	Diwygiwyd gan
<p>63. Gweithredu cynigion (1) Mae cynigion sydd wedi eu mabwysiadu neu eu cymeradwyo gan Weinidogion Cymru o dan adran 62 yn cael effaith fel petaent wedi eu cymeradwyo gan Weinidogion Cymru o dan adran 50 ar ôl iddynt gael eu gwneud—</p> <p>(a) gan yr awdurdod lleol o dan ei bwerau i wneud cynigion i sefydlu, newid neu derfynu ysgolion, neu</p> <p>(b) yn achos cynigion i newid ysgol sefydledig neu wirfoddol, gan y corff llywodraethu o dan ei bwerau i wneud cynigion i newid ei ysgol.</p> <p>(2) Er gwaethaf unrhyw beth yn Rhan 1 o Atodlen 3 (cyfrifoldeb dros weithredu cynigion statudol), rhaid i'r awdurdod lleol sy'n cynnal yr ysgol dan sylw gwrdd â'r gost o weithredu cynigion sy'n cael eu mabwysiadu neu eu cymeradwyo o dan adran 62 ac sy'n cael effaith fel a grybwyllwyd yn is-adran (1)(b).</p>	<p>Atodlen 4 Paragraff 28</p>
<p style="text-align: center;"><u>Pennod 3A</u></p> <p style="text-align: center;"><u>CYNIGION I AILSTRWYTHURO DARPARIAETH CHWECHED DOSBARTH</u></p> <p><u>63A Cyfarwyddydau gan y Comisiwn i wneud cynigion chweched dosbarth</u></p> <p><u>(1) Caiff y Comisiwn, yn unol â'r Cod—</u></p> <p>(a) <u>cyfarwyddo awdurdod lleol i arfer ei bwerau i wneud cynigion i—</u></p> <p>(i) <u>sefydlu neu derfynu ysgol sy'n darparu addysg sy'n addas i ofynion personau dros oedran ysgol gorfodol yn unig, neugwneud newid rheoleiddiedig i ysgol, y byddai ei effaith yn golygu bod darparu addysg sy'n addas i ofynion personau dros oedran ysgol gorfodol yn yr ysgol yn cynyddu neu'n lleihau.</u></p> <p>(b) <u>cyfarwyddo corff llywodraethu ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol i arfer ei bwerau i wneud newid rheoleiddiedig i ysgol, y byddai ei effaith yn golygu bod darparu addysg sy'n addas i ofynion personau dros oedran ysgol gorfodol yn yr ysgol yn cynyddu neu'n lleihau.</u></p> <p><u>(2) Rhaid i gyfarwyddyd o dan is-adran (1)—</u></p> <p>(a) <u>ei gwneud yn ofynnol i'r cynigion gael eu cyhoeddi heb fod yn hwyrach na'r dyddiad a bennir yn y cyfarwyddyd, a</u></p> <p>(b) <u>ei gwneud yn ofynnol i'r cynigion, wrth roi effaith i'r cyfarwyddyd, gymhwyso unrhyw egwyddorion a bennir ynddo.</u></p> <p><u>63B Darpariaeth bellach ynghylch cynigion a wneir ar ôl cyfarwyddyd o dan adran 63A(1)</u></p> <p><u>(1) Ni chaniateir i gynigion a wneir yn unol â chyfarwyddyd o dan adran 63A(1) gael eu tynnu'n ôl heb gydsyniad y Comisiwn.</u></p> <p><u>(2) Caiff y Comisiwn roi cydsyniad at ddibenion is-adran (1) yn ddarostyngedig i amodau.</u></p> <p><u>(3) Rhaid i awdurdod lleol ad-dalu gwariant yr aed iddo'n rhesymol gan gorff llywodraethu ysgol a gynhelir ganddo wrth wneud cynigion yn unol â chyfarwyddyd o dan adran 63A(1).</u></p> <p><u>(4) Er gwaethaf unrhyw beth yn Rhan 1 o Atodlen 3 (cyfrifoldeb dros weithredu cynigion statudol), rhaid i awdurdod lleol gwrdd â'r gost o weithredu cynigion a wneir gan gorff llywodraethu ysgol a gynhelir ganddo yn unol â chyfarwyddyd o</u></p>	<p>Atodlen 4 Paragraff 28</p>

Adran	Diwygiwyd gan
<p><u>dan adran 63A(1) a'r rheini'n gynigion sydd wedi eu cymeradwyo neu y penderfynwyd eu gweithredu.</u></p> <p><u>63C Gwneud cynigion gan y Comisiwn</u></p> <p><u>(1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo—</u></p> <p><u>(a) y Comisiwn wedi gwneud cyfarwyddyd o dan adran 63A(1), a</u></p> <p><u>(b) naill ai—</u></p> <p><u>(i) cynigion wedi eu cyhoeddi'n unol â'r cyfarwyddyd, neu</u></p> <p><u>(ii) yr amser a ganiatawyd o dan y cyfarwyddyd ar gyfer cyhoeddi'r cynigion wedi dirwyn i ben.</u></p> <p><u>(2) Caiff y Comisiwn wneud unrhyw gynigion y gellid bod wedi eu gwneud yn unol â'r cyfarwyddyd.</u></p> <p><u>(3) Ond rhaid i'r Comisiwn gael cydsyniad Gweinidogion Cymru cyn gwneud cynnig i wneud newid a ddisgrifir ym mharagraff 6 o Atodlen 2 (agor neu gau chweched dosbarth ysgol) i ysgol wirfoddol neu ysgol sefydledig.</u></p> <p><u>(4) Pan fo'r Comisiwn yn gwneud cynigion o dan yr adran hon, mae unrhyw gynigion sydd wedi eu gwneud gan awdurdod lleol neu gorff llywodraethu ac sydd wedi eu cyhoeddi yn unol â'r cyfarwyddyd i'w trin fel pe baent wedi eu tynnu'n ôl.</u></p> <p><u>63D Cyhoeddi cynigion y Comisiwn ac ymgynghori arnynt</u></p> <p><u>(1) Rhaid i'r Comisiwn gyhoeddi cynigion a wneir o dan adran 63C yn unol â'r Cod.</u></p> <p><u>(2) Cyn cyhoeddi cynigion a wneir o dan adran 63C, rhaid i'r Comisiwn ymgynghori ynghlŷn â'i gynigion yn unol â'r Cod.</u></p> <p><u>(3) Nid yw'r gofyniad i ymgynghori yn gymwys i gynigion i derfynu ysgol sy'n ysgol fach o fewn yr ystyr a roddir gan adran 56.</u></p> <p><u>(4) Cyn diwedd 7 niwrnod gan ddechrau ar ddiwrnod eu cyhoeddi, rhaid i'r Comisiwn anfon copïau o'r cynigion cyhoeddedig—</u></p> <p><u>(a) at Weinidogion Cymru,</u></p> <p><u>(b) at yr awdurdod lleol sy'n cynnal, neu y cynigir y bydd yn cynnal, yr ysgol y mae'r cynigion yn ymwneud â hi, ac</u></p> <p><u>(c) at gorff llywodraethu (os oes un) yr ysgol y mae'r cynigion yn ymwneud â hi.</u></p> <p><u>(5) Rhaid i'r Comisiwn gyhoeddi adroddiad ar yr ymgynghoriad y mae wedi ei gynnal yn unol â'r Cod.</u></p> <p><u>63E Gwrthwynebiadau i gynigion y Comisiwn</u></p> <p><u>(1) Caiff unrhyw berson wrthwynebu cynigion a gyhoeddir o dan adran 63D.</u></p> <p><u>(2) Rhaid i wrthwynebiadau gael eu hanfon yn ysgrifenedig i'r Comisiwn cyn diwedd 28 o ddiwrnodau gan ddechrau ar y diwrnod y cafodd y cynigion eu cyhoeddi ("y cyfnod gwrthwynebu").</u></p> <p><u>(3) Rhaid i'r Comisiwn gyhoeddi crynodeb o'r holl wrthwynebiadau a wnaed yn unol ag is-adran (2) (ac nad ydynt wedi eu tynnu'n ôl) a'i ymateb i'r</u></p>	

Adran	Diwygiwyd gan
<p><u>gwrthwynebiadau hynny cyn diwedd 28 o ddiwrnodau gan ddechrau ar ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu.</u></p> <p><u>63F Eu cymeradwyo gan Weinidogion Cymru</u></p> <p><u>(1) Mae'n ofynnol i gynigion a gyhoeddir gan y Comisiwn o dan adran 63D gael eu cymeradwyo o dan yr adran hon os yw gwrthwynebiad wedi ei wneud yn unol ag adran 63E(2) ac nad yw wedi ei dynnu'n ôl yn ysgrifenedig cyn diwedd 28 o ddiwrnodau gan ddechrau ar ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu.</u></p> <p><u>(2) Pan fo'n ofynnol i gynigion gael eu cymeradwyo o dan yr adran hon, rhaid i'r Comisiwn anfon copi o'r dogfennau a restrir yn is-adran (3) at Weinidogion Cymru cyn diwedd 35 o ddiwrnodau gan ddechrau ar ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu.</u></p> <p><u>(3) Y dogfennau yw—</u></p> <p><u>(a) yr adroddiad a gyhoeddir o dan adran 63D(5),</u></p> <p><u>(b) y cynigion cyhoeddedig,</u></p> <p><u>(c) unrhyw wrthwynebiadau a wneir yn unol ag adran 63E(2) (ac nad ydynt wedi eu tynnu'n ôl), a</u></p> <p><u>(d) pan fo gwrthwynebiadau wedi eu gwneud felly (ac nad ydynt wedi eu tynnu'n ôl), yr ymateb a gyhoeddir o dan adran 63E(3).</u></p> <p><u>(4) Pan fo'n ofynnol i gynigion gael eu cymeradwyo o dan yr adran hon, caiff Gweinidogion Cymru—</u></p> <p><u>(a) gwrthod y cynigion,</u></p> <p><u>(b) eu cymeradwyo heb eu haddasu, neu</u></p> <p><u>(c) eu cymeradwyo gyda gaddasiadau—</u></p> <p><u>(i) ar ôl cael cydsyniad y Comisiwn i'r addasiadau, a</u></p> <p><u>(ii) ar ôl ymgynghori â'r awdurdod lleol sy'n cynnal, neu y cynigir y bydd yn cynnal, yr ysgol y mae'r cynigion yn ymwneud â hi, ac â chorff llywodraethu (os oes un) yr ysgol y mae'r cynigion yn ymwneud â hi.</u></p> <p><u>(5) Caniateir i gymeradwyaeth ddatgan mai dim ond os bydd digwyddiad a bennir yn y gymeradwyaeth yn digwydd erbyn dyddiad a bennir felly, y byddai'n dod yn weithredol.</u></p> <p><u>(6) Caiff Gweinidogion Cymru, ar gais y Comisiwn, bennu dyddiad diweddarach erbyn pryd y mae'r digwyddiad y cyfeiriwyd ato yn is-adran (5) i ddigwydd.</u></p> <p><u>(7) Nid yw is-adran (1) yn atal cynigion rhag cael eu tynnu'n ôl drwy hysbysiad ysgrifenedig a roddir gan y Comisiwn i Weinidogion Cymru ar unrhyw bryd cyn iddynt gael eu cymeradwyo o dan yr adran hon.</u></p> <p><u>(8) Nid yw'n ofynnol i gynigion i derfynu ysgol sy'n ysgol fach o fewn yr ystyr a roddir gan adran 56 gael unrhyw gymeradwyaeth o dan yr adran hon.</u></p> <p><u>63G Penderfynu</u></p> <p><u>(1) Pan na fo'n ofynnol i gynigion a gyhoeddir o dan adran 63D gael eu cymeradwyo o dan adran 63F, rhaid i'r Comisiwn benderfynu a ddylid gweithredu'r cynigion</u></p>	

Adran	Diwygiwyd gan
<p>(2) <u>Os na fydd penderfyniad o dan is-adran (1) wedi ei wneud cyn diwedd 16 o wythnosau gan ddechrau ar ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu, bernir bod y Comisiwn wedi tynnu'r cynigion yn eu hôl.</u></p> <p>(3) <u>Cyn diwedd 7 niwrnod gan ddechrau ar ddiwrnod ei benderfyniad o dan is-adran (1), rhaid i'r Comisiwn hysbysu'r canlynol am y penderfyniad—</u></p> <p>(a) <u>Gweinidogion Cymru;</u></p> <p>(b) <u>yr awdurdod lleol sy'n cynnal, neu y cynigir y bydd yn cynnal, yr ysgol y mae'r cynigion yn ymwneud â hi;</u></p> <p>(c) <u>corff llywodraethu (os oes un) yr ysgol y mae'r cynigion yn ymwneud â hi.</u></p> <p><u>63H Gweithredu cynigion</u></p> <p>(1) <u>Mae cynigion sydd wedi eu cymeradwyo gan Weinidogion Cymru o dan adran 63F neu y penderfynwyd eu gweithredu gan y Comisiwn o dan adran 63G yn cael effaith fel petaent wedi eu cymeradwyo gan Weinidogion Cymru o dan adran 50 ar ôl iddynt gael eu gwneud—</u></p> <p>(a) <u>gan yr awdurdod lleol o dan ei bwerau i wneud cynigion i sefydlu, newid neu derfynu ysgolion, neu</u></p> <p>(b) <u>yn achos cynigion i newid ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol, gan y corff llywodraethu o dan ei bwerau i wneud cynigion i newid ei ysgol.</u></p> <p>(2) <u>Er gwaethaf unrhyw beth yn Rhan 1 o Atodlen 3 (cyfrifoldeb dros weithredu cynigion statudol), rhaid i'r awdurdod lleol sy'n cynnal yr ysgol o dan sylw gwrdd â'r gost o weithredu cynigion sydd wedi eu cymeradwyo o dan adran 63F neu y penderfynwyd eu gweithredu o dan adran 63G ac sy'n cael effaith fel a grybwyllir yn is-adran (1)(b).</u></p> <p><u>63I Dehongli Pennod 3A</u> <u>Yn y Bennod hon—</u></p> <p><u>ystyr "y Cod" ("the Code") yw'r cod ar drefniadaeth ysgolion a ddyroddir o dan adran 38(1);</u></p> <p><u>ystyr "y Comisiwn" ("the Commission") yw'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil."</u></p>	
<p><u>71 Pwerau Gweinidogion Cymru i ailstrwythuro addysg chweched dosbarth</u></p> <p>(1) <u>Caiff Gweinidogion Cymru wneud cynigion o dan yr adran hon—</u></p> <p>(a) <u>i un neu fwy o ysgolion cymunedol neu arbennig cymunedol newydd gael eu sefydlu gan awdurdod lleol i ddarparu addysg uwchradd sy'n addas at anghenion disgyblion chweched dosbarth (ac nid unrhyw addysg uwchradd arall);</u></p> <p>(b) <u>ar gyfer newid a ddisgrifir ym mharagraff 6 o Atodlen 2 i un neu fwy o ysgolion a gynhelir;</u></p> <p>(c) <u>i derfynu un neu fwy o ysgolion a gynhelir sy'n darparu addysg uwchradd sy'n addas at anghenion disgyblion chweched dosbarth (ac nid unrhyw addysg uwchradd arall).</u></p> <p>(2) <u>Mae "disgybl chweched dosbarth" yn berson sydd dros oedran ysgol gorfodol ond o dan 19 oed.</u></p>	<p>Atodlen 4 Paragraff 28</p>

Adran	Diwygiwyd gan
<p>72Ymgynghori, cyhoeddi a gwrthwynebiadau</p> <p>(1) Cyn cyhoeddi cynigion a wneir o dan adran 71, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ynglyn â'r cynigion yn unol â'r cod a ddyroddwyd o dan adran 38(1) ac sydd mewn grym am y tro.</p> <p>(2) Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi cynigion a wneir o dan adran 71 yn unol â'r cod a ddyroddwyd o dan adran 38(1) ac sydd mewn grym am y tro.</p> <p>(3) Caiff unrhyw berson wrthwynebu'r cynigion.</p> <p>(4) Rhaid i wrthwynebiadau gael eu hanfon yn ysgrifenedig at Weinidogion Cymru cyn diwedd 28 o ddiwrnodau gan ddechrau ar y diwrnod y cyhoeddwyd y cynigion.</p> <p>73 Penderfyniad gan Weinidogion Cymru</p> <p>(1) Ar ôl diwedd yr 28 o ddiwrnodau y cyfeiriwyd atynt yn adran 72(4), rhaid i Weinidogion Cymru benderfynu a ddylid—</p> <p>(a) mabwysiadu'r cynigion, gydag addasiadau neu hebddynt, neu</p> <p>(b) tynnu'r cynigion yn eu hôl.</p> <p>(2) Wrth wneud penderfyniad o dan is-adran (1), rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw i unrhyw wrthwynebiadau a wnaed yn unol ag adran 72(4) ac sydd heb gael eu tynnu'n ôl.</p> <p>(3) Cyn mabwysiadu cynigion yn ddarostyngedig i addasiadau, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag unrhyw bersonau y maent yn credu eu bod yn briodol.</p> <p>(4) Caniateir i fabwysiad cynigion ddatgan mai dim ond os bydd digwyddiad a bennir yn y mabwysiad yn digwydd erbyn dyddiad a bennir felly, y byddai'n dod yn weithredol.</p> <p>(5) Os na fydd y digwyddiad yn digwydd erbyn y dyddiad penodedig rhaid i Weinidogion Cymru ailystyried eu penderfyniad o dan is-adran (1). Caiff Gweinidogion Cymru dynnu eu cynigion yn ôl ar unrhyw bryd cyn iddynt wneud penderfyniad o dan is-adran (1).</p> <p>74Y ffurf weithredu</p> <p>(1) Mae'r adran hon yn gymwys i gynigion sydd wedi eu mabwysiadu gan Weinidogion Cymru o dan adran 73.</p> <p>(2) Rhaid i'r cynigion (yn ddarostyngedig i ddarpariaethau canlynol yr adran hon) gael eu gweithredu ar y ffurf y cawsant eu mabwysiadu.</p> <p>(3) Ar gais corff penodedig, caiff Gweinidogion Cymru—</p> <p>(a) addasu cynigion sydd wedi eu mabwysiadu o dan adran 73 ar ôl ymgynghori â'r cyrff penodedig, a</p> <p>(b) pan fo wedi ei datgan bod mabwysiad y cynigion yn dod yn weithredol yn ddarostyngedig i ddigwyddiad penodedig, bennu dyddiad diweddarach erbyn pryd y bydd yn rhaid i'r digwyddiad hwnnw ddigwydd.</p> <p>(4) Caiff Gweinidogion Cymru benderfynu nad yw is-adran (2) yn gymwys i'r cynigion os ydynt wedi eu bodloni, ar ôl ymgynghori â'r cyrff penodedig—</p> <p>(a) y byddai gweithredu'r cynigion yn afresymol o anodd, neu</p> <p>(b) bod yr amgylchiadau wedi newid cymaint ers i'r cynigion gael eu mabwysiadu y byddai'n amhriodol gweithredu'r cynigion.</p>	

Adran	Diwygiwyd gan
<p>(5) “Corff penodedig” yw pob un o’r canlynol at ddibenion is-adrannau (3) a (4):</p> <p>(a) corff llywodraethu’r ysgol y mae’r cynigion yn ymwneud â hi;</p> <p>(b) yn achos cynnig i sefydlu ysgol newydd, y corff llywodraethu dros dro a gyfansoddwyd yn unol â threfniadau a wnaed o dan adran 34 o Ddeddf Addysg 2002;</p> <p>(c) yr awdurdod lleol sy’n cynnal, neu y cynigir y bydd yn cynnal, yr ysgol y mae’r cynigion yn ymwneud â hi;</p> <p>(d) pan fo’r ysgol y mae’r cynigion yn ymwneud â hi yn ysgol arbennig gymunedol, pob awdurdod lleol sy’n cynnal datganiad o anghenion addysgol arbennig o dan Ran 4 o Ddeddf Addysg 1996 mewn cysylltiad â disgybl cofrestredig yn yr ysgol.</p> <p>75Y cyfrifoldeb dros weithredu</p> <p>(1) Rhaid i gynigion i sefydlu ysgol gael eu gweithredu gan yr awdurdod lleol y cynigir y bydd yn cynnal yr ysgol.</p> <p>(2) Rhaid i gynigion i wneud newid a ddisgrifir ym mharagraff 6 o Atodlen 2 gael eu gweithredu—</p> <p>(a) yn achos cynigion sy’n ymwneud ag ysgol gymunedol, gan yr awdurdod lleol sy’n cynnal yr ysgol;</p> <p>(b) yn achos cynigion sy’n ymwneud ag ysgol wirfoddol a gynorthwyr—</p> <p>(i) i’r graddau y maent yn ymwneud â darparu unrhyw fangre berthnasol, gan yr awdurdod lleol sy’n cynnal yr ysgol, a</p> <p>(ii) fel arall, gan yr awdurdod lleol sy’n cynnal yr ysgol a chorff llywodraethu’r ysgol i’r graddau (os o gwbl) y mae’r cynigion yn darparu bod pob un ohonynt yn gwneud hynny;</p> <p>(c) yn achos cynigion sy’n ymwneud ag unrhyw ysgol arall, gan yr awdurdod lleol sy’n cynnal yr ysgol a chorff llywodraethu’r ysgol i’r graddau (os o gwbl) y mae’r cynigion yn darparu bod pob un ohonynt yn gwneud hynny.</p> <p>(3) Yn is-adran (2) ystyr “mangre berthnasol” yw—</p> <p>(a) caeau chwarae, neu</p> <p>(b) adeiladau sydd i ffurfio rhan o fangre’r ysgol ond nad ydynt i fod yn adeiladau’r ysgol.</p> <p>(4) Rhaid i gynigion i derfynu ysgol gael eu gweithredu—</p> <p>(a) yn achos cynigion sy’n ymwneud ag ysgol gymunedol neu ysgol arbennig gymunedol, gan yr awdurdod lleol sy’n cynnal yr ysgol, a</p> <p>(b) mewn unrhyw achos arall, gan yr awdurdod lleol sy’n cynnal yr ysgol a chorff llywodraethu’r ysgol.</p> <p>(5) Os bydd ysgol yn newid categori o fod yn ysgol gymunedol ar ôl i gynigion gael eu cyhoeddi o dan adran 72 ond cyn iddynt gael eu gweithredu, rhaid i’r cynigion (i’r graddau nad ydynt wedi eu gweithredu) gael eu gweithredu gan yr awdurdod lleol sy’n cynnal yr ysgol (er gwaethaf is-adrannau (2) a (4)).</p> <p>76Darpariaeth bellach o ran gweithredu</p> <p>(1) Pan fo’n ofynnol i awdurdod lleol yn rhinwedd adran 75 ddarparu safle ar gyfer ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol a reolir, mae paragraff 7 o Atodlen 3 (darparu safle ac adeiladau i ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol a reolir) yn</p>	

Adran	Diwygiwyd gan
<p>gymwys fel y bo'n gymwys yn yr amgylchiadau a grybwyllir yn is-baragraff (1) o'r paragraff hwnnw.</p> <p>(2) Mae paragraff 8 o Atodlen 3 (grantiau mewn cysylltiad â gwariant penodol ynghylch ysgol wirfoddol a gynorthwyir) yn gymwys mewn perthynas â'r rhwymedigaeth o dan adran 75(2)(b)(ii) fel y bo'n gymwys mewn perthynas â'r rhwymedigaethau y cyfeirir atynt ym mharagraff 8(1)(a) o'r Atodlen honno.</p> <p>(3) Mae paragraff 9 o Atodlen 3 (cymorth gan awdurdod lleol mewn cysylltiad ag ysgol wirfoddol a gynorthwyir) yn gymwys mewn perthynas â rhwymedigaethau a osodir ar gorff llywodraethu ysgol wirfoddol a gynorthwyir o dan adran 75(2)(b)(ii) fel y bo'n gymwys mewn perthynas â'r rhwymedigaethau y cyfeirir atynt yn y paragraff 9 hwnnw, ac mae paragraff 11 o'r Atodlen honno (dylatswydd ar awdurdod lleol i drosglwyddo buddiant mewn mangre a ddarperir o dan baragraff 9 neu 10) yn gymwys yn unol â hynny.</p>	
<p>80 Hysbysiad gan gorff llywodraethu am derfynu ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol</p> <p>(1) Caiff corff llywodraethu ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol derfynu'r ysgol drwy gyflwyno i Weinidogion Cymru a'r awdurdod lleol sy'n cynnal yr ysgol hysbysiad sy'n rhoi dwy flynedd o rybudd o'i fwrriad i wneud hynny.</p> <p>(2) Mae'n ofynnol cael cydsyniad Gweinidogion Cymru cyn cyflwyno hysbysiad o dan yr adran hon os aed i wariant ar fangre'r ysgol (ac eithrio mewn cysylltiad ag atgyweiriadau)—</p> <p>(a) gan Weinidogion Cymru, neu</p> <p>(b) gan unrhyw awdurdod lleol.</p> <p>(3) Rhaid i'r corff llywodraethu ymgynghori â <u>Gweinidogion Cymru â'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil</u> cyn cyflwyno hysbysiad o dan yr adran hon os byddai terfynu'r ysgol yn effeithio ar y cyfleusterau ar gyfer addysg lawnamser sy'n addas at anghenion personau dros oedran ysgol gorfodol nad ydynt wedi cyrraedd 19 oed.</p> <p>(4) Os yw'r corff llywodraethu, tra bo hysbysiad o dan yr adran hon mewn grym, yn hysbysu'r awdurdod lleol ei fod yn anabl neu'n anfodlon rhedeg yr ysgol hyd nes y bydd yr hysbysiad yn dirwyn i ben, mae'r awdurdod—</p> <p>(a) yn cael rhedeg yr ysgol am y cyfan neu ran o gyfnod yr hysbysiad nad yw wedi dirwyn i ben fel petai'n ysgol gymunedol, a</p> <p>(b) yn meddu ar hawl i ddefnyddio mangre'r ysgol yn ddi-dâl at y diben hwnnw.</p> <p>(5) Tra bo'r ysgol yn cael ei rhedeg felly—</p> <p>(a) rhaid i'r awdurdod gadw mangre'r ysgol mewn cyflwr da, a</p> <p>(b) mae unrhyw fuddiant yn y fangre a ddelir at ddibenion yr ysgol i'w drin, at bob diben sy'n ymwneud â chyflwr y fangre, ei meddiannu neu ei defnyddio, neu wneud newidiadau iddi, fel buddiant sydd wedi ei freinio yn yr awdurdod.</p> <p>(6) Er gwaethaf is-adran (5) caiff y corff llywodraethu ddefnyddio'r fangre, neu unrhyw ran ohoni, pan nad oes ei hangen at ddibenion yr ysgol i'r un graddau â phetai wedi parhau i redeg yr ysgol yn ystod cyfnod yr hysbysiad nad oedd wedi dirwyn i ben.</p> <p>(7) Ni chaniateir i hysbysiad o dan is-adran (1) gael ei dynnu'n ôl heb gydsyniad yr awdurdod lleol.</p>	<p>Atodlen 4 Paragraff 28</p>

Adran	Diwygiwyd gan
<p>(8) Os yw ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol wedi ei therfynu o dan yr adran hon, mae dyletswydd yr awdurdod lleol i gynnal yr ysgol fel ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol yn peidio.</p> <p>(9) Nid oes dim yn adran 43 yn gymwys mewn perthynas â therfynu ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol o dan yr adran hon.</p> <p>(10) Mae is-adran (11) yn gymwys—</p> <p>(a) pan fo tir sydd wedi ei feddiannu gan yr ysgol yn cael ei ddal gan unrhyw ymddiriedolwyr at ddibenion yr ysgol,</p> <p>(b) pan fo'r ymddiriedolwyr (a hwythau â'r hawl i wneud hynny) yn bwriadu rhoi hysbysiad i gorff llywodraethu'r ysgol i derfynu meddiannaeth yr ysgol ar y tir hwnnw, ac</p> <p>(c) pan fyddai terfynu meddiannaeth yr ysgol ar y tir hwnnw yn arwain at y canlyniad nad oedd yn rhesymol ymarferol i'r ysgol barhau i gael ei rhedeg ar ei safle presennol.</p> <p>(11) Rhaid i'r hysbysiad y mae'r ymddiriedolwyr yn ei roi i'r corff llywodraethu i derfynu meddiannaeth yr ysgol ar y tir gael ei roi o leiaf ddwy flynedd ymlaen llaw; ond os, yn ystod y ddeuddeng mis cyntaf o gyfnod yr hysbysiad hwnnw, yw'r corff llywodraethu yn rhoi hysbysiad o dan is-adran (1), nid yw hysbysiad yr ymddiriedolwyr yn cael yr effaith o derfynu meddiannaeth yr ysgol ar y tir hyd nes i hysbysiad y corff llywodraethu ddod i ben.</p> <p>(12) Rhaid i gopi o hysbysiad yr ymddiriedolwyr hefyd gael ei roi i Weinidogion Cymru a'r awdurdod lleol adeg rhoi'r hysbysiad i'r corff llywodraethu.</p> <p>(13) Pan fo ymddiriedolwyr yn rhoi, yr un (neu i raddau helaeth yr un) pryd, hysbysiadau sy'n honni terfynu meddiannaeth ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol ar ddau neu fwy o ddarnau o dir sy'n cael eu dal gan yr ymddiriedolwyr at ddibenion yr ysgol, yna er mwyn penderfynu a yw is-adran (10)(c) yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw un neu rai o'r darnau hynny o dir, caniateir i ystyriaeth gael ei rhoi i effaith gyfun terfynu meddiannaeth yr ysgol ar y ddau neu'r cyfan ohonynt.</p> <p>(14) Os bydd cwestiwn yn codi ynghylch a fyddai terfynu meddiannaeth ysgol ar unrhyw dir yn arwain at y canlyniad a grybwyllwyd yn is-adran (10)(c) (gan gynnwys cwestiwn ynghylch a yw is-adran (13) yn gymwys mewn unrhyw amgylchiadau penodol), mae i'w benderfynu gan Weinidogion Cymru.</p>	
<p>82 Gorchmynion esemptio trosiannol at ddibenion Deddf Cydraddoldeb 2010</p> <p>(1) Mae'r adran hon yn gymwys i gynigion bod ysgol yn peidio â bod yn ysgol un rhyw.</p> <p>(2) Mae gwneud cynigion o'r fath o dan adran 59 <u>neu 68</u>, 68 neu 71 i'w drin fel cais gan y corff sy'n gyfrifol i Weinidogion Cymru am orchymyn esemptio trosiannol o dan Ddeddf 2010, a chaiff Gweinidogion Cymru wneud gorchymyn o'r fath yn unol â hynny.</p> <p>(3) Yn yr adran hon—</p> <p>mae i "y corff sy'n gyfrifol" yr un ystyr â ("<i>the responsible body</i>") yn adran 85 o Ddeddf 2010;</p> <p>ystyr "Deddf 2010" ("<i>the 2010 Act</i>") yw Deddf Cydraddoldeb 2010;</p> <p>mae i "gorchymyn esemptio trosiannol" yr un ystyr â ("<i>transitional exemption order</i>") ym mharagraff 3 o Atodlen 11 i Ddeddf 2010;</p>	<p>Atodlen 4 Paragraff 28</p>

Adran	Diwygiwyd gan
<p>mae “gwneud”(“<i>make</i>”), mewn perthynas â gorchymyn esemptio trosiannol, yn cynnwys amrywio neu ddirymu;</p> <p>mae i “ysgol un rhyw” yr un ystyr â (“<i>single-sex school</i>”) ym mharagraff 1 o Atodlen 11 i Ddeddf 2010</p>	
<p>98 Dehongli’n gyffredinol a mynegai o ymadroddion sydd wedi eu diffinio</p> <p>(1) Mae darpariaethau'r Ddeddf hon a darpariaethau Ddeddf Addysg 1996 i'w darllen fel petai nhw i gyd wedi eu cynnwys yn Neddf Addysg 1996.</p> <p>(2) Ond pan roddir i ymadrodd at ddibenion unrhyw ddarpariaeth yn y Ddeddf hon ystyr sy'n wahanol i'r un a roddwyd iddo at ddibenion Deddf Addysg 1996, mae'r ystyr a roddir at ddibenion y ddarpariaeth honno i fod yn gymwys yn lle'r un a roddwyd at ddibenion Deddf Addysg 1996.</p> <p>(3) Yn y Ddeddf hon—</p> <p>mae i “awdurdod esgobaethol priodol” yr un ystyr ag (“<i>appropriate diocesan authority</i>”) yn adran 142(1) o Ddeddf Safonau a Framwaith Ysgolion 1998;</p> <p>ystyr “awdurdod lleol” (“<i>local authority</i>”) (ac eithrio yn adran 54(2)(b)) yw cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru;</p> <p>mae “awdurdod ysgol” (“<i>school authority</i>”) wedi ei ddiffinio yn adran 32 at ddibenion Pennod 3 o Ran 2;</p> <p>ystyr “y Cod” (“<i>the Code</i>”) ym Mhennod 2 <u>Mhenodau 2 a 3A</u> o Ran 3 yw'r cod ar drefniadaeth ysgolion a ddyroddir o dan adran 38(1);</p> <p><u>“ystyr “y Comisiwn” (“<i>the Commission</i>”) ym Mhennod 3A o Ran 3 yw'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil.”</u></p> <p>ystyr “corff crefyddol priodol” (“<i>appropriate religious body</i>”)—</p> <p>(a) yn achos un o ysgolion yr Eglwys yng Nghymru neu un o ysgolion yr Eglwys Gatholig Rufeinig, neu ysgol arfaethedig o'r fath, yw'r awdurdod esgobaethol priodol, a</p> <p>(b) yn achos ysgolion eraill neu ysgolion arfaethedig eraill, yw'r corff sy'n cynrychioli'r crefydd neu'r enwad crefyddol a ddatganwyd, neu y bwriedir iddo gael ei ddatgan, mewn perthynas â'r ysgol mewn gorchymyn o dan adran 69(3) o Ddeddf Safonau a Framwaith Ysgolion 1998;</p> <p>mae i “corff sefydledig” yr un ystyr â (“<i>foundation body</i>”) yn adran 21(4)(a) o Ddeddf Safonau a Framwaith Ysgolion 1998;</p> <p>mae “cyfnod gwrthwynebu” (“<i>objection period</i>”) wedi ei ddiffinio yn adran 49(2) at ddibenion Pennod 2 o Ran 3 <u>ac yn adran 63E(2) at ddibenion Pennod 3A o Ran 3</u>;</p> <p>mae “cynigydd” (“<i>proposer</i>”) wedi ei ddiffinio yn adran 56 at ddibenion Pennod 2 o Ran 3;</p> <p>mae “darpariaeth ranbarthol” (“<i>regional provision</i>”) wedi ei diffinio yn adran 64 at ddibenion Pennod 4 o Ran 3;</p> <p>mae “darparu” (“<i>provide</i>”) wedi ei ddiffinio yn adran 90 at ddibenion adrannau 88 a 89;</p> <p>mae “disgybl” (“<i>pupil</i>”) wedi ei ddiffinio yn adran 90 at ddibenion adrannau 88 a 89;</p> <p>ystyr “llywodraethwr sefydledig” (“<i>foundation governor</i>”), mewn perthynas ag ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol, yw person a benodwyd yn</p>	<p>Atodlen 4 Paragraff 28</p>

Adran	Diwygiwyd gan
<p>llywodraethwr sefydledig yn unol â rheoliadau o dan adran 19 o Ddeddf Addysg 2002;</p> <p>ystyr “newid rheoleiddiedig” (“<i>regulated alteration</i>”) ym Mhennod 2 o Ran 3 yw newid a ddisgrifir yn Atodlen 2;</p> <p>mae “pwerau i wneud cynigion i newid ei ysgol” (“<i>powers to make proposals to alter its school</i>”) wedi eu diffinio yn adran 83 at ddibenion Rhan 3;</p> <p>mae “pwerau i wneud cynigion i sefydlu, newid neu derfynu ysgolion” (“<i>powers to make proposals to establish, alter or discontinue schools</i>”) wedi eu diffinio yn adran 83 at ddibenion Rhan 3;</p> <p>ystyr “rhagnodedig” (“<i>prescribed</i>”) yw wedi ei ragnodi drwy reoliadau;</p> <p>ystyr “rheoliadau” (“<i>regulations</i>”) yw rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru;</p> <p>mae “swyddogaethau addysg arbennig” (“<i>special education functions</i>”) wedi eu diffinio yn adran 64 at ddibenion Pennod 4 o Ran 3;</p> <p>mae i “un o ysgolion yr Eglwys Gatholig Rufeinig” yr un ystyr â (“<i>Roman Catholic Church school</i>”) yn adran 142(1) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998;</p> <p>mae i “un o ysgolion yr Eglwys yng Nghymru” yr un ystyr â (“<i>Church in Wales school</i>”) yn adran 142(1) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998;</p> <p>ystyr “ysgol a gynhelir” (“<i>maintained school</i>”) yw ysgol yng Nghymru sy’n ysgol gymunedol, sefydledig neu wirfoddol, yn ysgol arbennig gymunedol neu’n ysgol feithrin a gynhelir;</p> <p>mae “ysgol fach” (“<i>small school</i>”) wedi ei diffinio yn adran 56 at ddibenion Pennod 2 o Ran 3;</p> <p>mae “ysgol gynradd” (“<i>primary school</i>”) wedi ei diffinio yn adran 90 at ddibenion adrannau 88 a 89.</p> <p>(4) Ar gyfer cyfeiriadau yn Rhan 3 at-</p> <p>(a) terfynu ysgol a gynhelir, gweler adran 83;</p> <p>(b) categori ysgol, gweler adran 83.</p> <p>(5) Mae cyfeiriad yn y Ddeddf hon at ysgol â chymeriad crefyddol yn cyfeirio at ysgol sydd wedi ei dynodi’n un sydd â chymeriad o’r fath drwy orchymyn o dan adran 69(3) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.</p>	

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Adran	Diwygiwyd gan
<p>6 Ystyr “corff cyhoeddus”</p> <p>(1) At ddibenion y Rhan hon a Rhan 3 o'r Ddeddf hon, mae pob un o'r personau canlynol yn “gorff cyhoeddus”—</p> <ul style="list-style-type: none"> (a) Gweinidogion Cymru; (b) awdurdod lleol; (c) Bwrdd Iechyd Lleol; (d) yr Ymddiriedolaethau GIG a ganlyn— <ul style="list-style-type: none"> (i) Iechyd Cyhoeddus Cymru; (ii) Felindre; (e) awdurdod Parc Cenedlaethol ar gyfer Parc Cenedlaethol yng Nghymru; (f) awdurdod tân ac achub yng Nghymru; (g) Corff Adnoddau Naturiol Cymru; (h) Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru; <u>y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil</u> (i) Cyngor Celfyddydau Cymru; (j) Cyngor Chwaraeon Cymru; (k) Llyfrgell Genedlaethol Cymru; (l) Amgueddfa Genedlaethol Cymru. <p>(2) Mae adran 52 yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio ystyr “corff cyhoeddus”.</p> <p>(3) Mae Pennod 1 o Ran 4 yn darparu bod personau sydd wedi eu rhestru fel cyrff cyhoeddus yn is-adran (1) (yn ogystal â phersonau penodol eraill sy'n arfer swyddogaethau o natur gyhoeddus) naill ai yn aelodau o fyrddau gwasanaethau cyhoeddus a sefydlir o dan y Rhan honno, neu'n gyfranogwyr gwadd neu'n bartneriaid eraill i fyrddau.</p>	<p>Atodlen 4, Paragraff 30</p>
